



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd
Datganiad ysgrifenedig – Ionawr 2026



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar [wefan y Cyngor](#). Mae modd gweld copïau hefyd ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir cael copi gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol am unrhyw agwedd o'r ddogfen hon cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cewch drwydded anghyfyngedig, ddirymiadwy, heb freindal i'r unig bwrpas o weld y Data Trwyddedig i ddibenion anfasnachol yn ystod y cyfnod y mae ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Nid oes gennych chi hawl i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu na darparu'r Data Trwyddedig i drydydd parti mewn unrhyw gyfrwng; a Bydd hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon yn cael eu cadw ar gyfer Arolwg Ordians.



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio
a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live,
work and discover**

Cynnwys

Rhestr o'r ffigurau	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
1. Cyflwyniad	11
1.1 Cefndir.....	11
1.2 CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd	11
1.3 Dogfennau ategol	12
1.4 Ymgysylltu blaenorol gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid allweddol.	13
1.5 Strwythur y CDLIN.....	14
1.6 Gweithio tuag at fannau cynaliadwy a lles gwell yng Nghonwy	18
2. Polisi a chyd-destun strategol	21
2.1 Nodweddion allweddol Conwy	21
2.2 Cyd-destun cenedlaethol	28
2.3 Cyd-destun rhanbarthol	31
2.4 Cyd-destun lleol	32
3. Materion a chymhellion blaenoriaethol ar gyfer Conwy ...	33
3.1 Dull.....	33
3.2 Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	33
3.3 Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	38
3.4 Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	41
3.5 Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy	48
4. Fframwaith Gofodol	52
4.1 Gweledigaeth y CDLI Newydd	52
4.2 Cyflawni'r weledigaeth	52
4.3 Amcanion y CDLIN	52
4.4 Strategaeth ofodol	57

5. Fframwaith y polisi Creu Lleoedd	76
5.1 Dull.....	76
5.2 Thema strategol 1: dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	77
5.3 Thema Strategol 2: lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	127
5.4 Thema Strategol 3: lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	195
5.5 Thema Strategol 4: lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy	247
6. Fframwaith monitro	286
6.1 Diben a gofyniad statudol	286
6.2 Dangosyddion Monitro	286
Atodiad 1 : taflwybr tai	288
Atodiad 2: tablau cydymffurfiaeth	290
Atodiad 3: Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol	294
Atodiad 4: rhestr papurau cefndir.....	296
Atodiad 5: gweithredu a'r cynllun cyflawni	298
Atodiad 6: Geirfa Termau	300
Atodiad 7: fframwaith monitro ac adolygu	307
7.1 Dangosyddion cyd-destunol	308
7.2 Dewisiadau Strategol a Gofodol	309
7.3 Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	310
7.4 Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	316
7.5 Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy	320



Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: diagram o themâu strategol y CDLIN	19
Ffigur 2: siart llif cydymffurfiaeth	19
Ffigur 3: map yn dangos prif ddiagram CDLIN	61
Ffigur 4: map yn dangos is-ardal y gorllewin.....	62
Ffigur 5: map yn dangos is-ardal Creuddyn.....	64
Ffigur 6: map yn dangos yr is-ardal Ganolog	65
Ffigur 7: map yn dangos is-ardal y Dwyrain	66
Ffigur 8: map yn dangos is-ardal Gwledig	67
Ffigur 9: hierarchaeth aneddiadau CDSA.....	68
Ffigur 10: tabl yn dangos hierarchaeth aneddiadau RDSA.....	69
Ffigur 11: tabl yn dangos prif gyfansoddion strategaeth	73
Ffigur 12: tabl yn dangos cyflenwad tai a dosbarthiad gofodol.....	83
Ffigur 13: tabl yn dangos darpariaeth tai fforddiadwy (2018-33) ...	84
Ffigur 14: amcanion dylunio fel a nodir ym mholisi PL/5 CDLIN	91
Ffigur 15: map yn dangos ardaloedd dyrannu safle Chwarel Llanddulas.....	117
Ffigur 16: tabl yn dangos anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy (2018-33)	153
Ffigur 17: diagram yn dangos hierarchaeth cludiant cynaliadwy.	156
Ffigur 18: map yn dangos hierarchaeth manwerthu CDLIN Conwy	179

Ffigur 19: tabl yn dangos cyflenwad tir cyflogaeth yng Nghonwy Ebrill 2024.....	200
Ffigur 20: manylion ac amseriad dyraniadau cyflogaeth	201
Ffigur 21 : tabl yn dangos dull dilyniannol ar gyfer datblygiadau newydd B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol), B8 (Storio a Dosbarthu) neu gymysgedd o'r rheiny	204

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi a chadw Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol ar gyfer pob ardal sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Rydym bellach yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI) i gwmpasu'r cyfnod 2018 – 2033 yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Ar ôl ei gwblhau a'i fabwysiadu, bydd y CDLI hwn yn disodli'r CDLI mabwysiedig presennol (2007-2022).

Mae'r CDLIN yn gosod fframwaith ar gyfer defnydd tir dros gyfnod o 15 mlynedd, gan ddarparu'r sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a chlr am gynigion datblygu. Mae'n cynnwys **gweledigaeth, amcanion strategol, strategaeth twf a gofodol** ac yn manylu ar **bolisiâu cynllunio strategol a rhai sy'n seiliedig ar feini prawf a dyraniadau safleoedd** ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad. Mae **map cynigion** hefyd yn rhan o'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, sy'n dangos lleoliad y dyraniadau safleoedd datblygu ac yn amlygu asedau a dynodiadau amgylcheddol. Cefnogir y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd hefyd gan **gynllun monitro a gweithredu** i fesur ac asesu gweithredu, effeithiolrwydd ac effaith polisiâu.

Mae'r Cynllun hwn i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi'i baratoi i ategu paratoi'r CDLIN fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'n adeiladu ar y Strategaeth a Ffeirir, a ymgynghorwyd arni rhwng Gorffennaf a Medi 2019 yn unol â Rheoliad 15 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

Gyda'n gilydd, rydym am gyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy a lleoedd trwy wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal CDLIN Conwy erbyn 2033.

Cyflawnir hyn trwy baratoi CDLI â ffocws, cryno a pherthnasol sy'n cwmpasu egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd. Trwy gymryd camau o'r fath, bydd yn sicrhau bod y CDLI yn ymgorffori ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ceisio cymryd camau cadarnhaol tuag at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a llesiant gwell ar gyfer pawb yng Nghonwy.



Creu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy

Ystyrir bod creu lleoedd yn ddull cyfannol sy'n "ystyried y cyddestun, y swyddogaeth a'r berthnasoedd rhwng safle datblygu a'i amgylchoedd ehangach" (Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Rhifyn 12).

Yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio allweddol a chanlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol yng Nghymru, mae'r cysyniad o greu lleoedd yn elfen allweddol o'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar gyfer cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau yng Nghonwy wrth lunio'r cynllun a rheoli datblygu i greu lleoedd cynaliadwy a gwella lles. Bydd creu lleoedd yng Nghonwy yn sicrhau bod dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a mannau yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd yn manteisio ar botensial Conwy i greu datblygu a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi'i strwythuro o amgylch pedair thema:

- Dewisiadau strategol a gofodol
- Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy
- Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy
- Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

Mae'r rhain wedi'u cynllunio i gyfrannu ar y cyd at greu lleoedd a chreu lleoedd cynaliadwy a lles gwell yng Nghonwy fel y dangosir isod:

Ffigur 1: diagram o themâu strategol y CDLIN



Fynhonnell: 1Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy

Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi'i ffurfio yn dilyn ystyried y materion creu lleoedd strategol sy'n effeithio ar ardal cynllun Conwy. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y polisiâu strategol hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y math o ddatblygiad a gaiff ei gyflawni yn y pen draw a'i gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy a lles amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Conwy. Mae'r adran hon yn hyrwyddo polisiâu integredig na ddylid eu hystyried ar eu pennau eu hunain yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys ystyried dyluniad datblygiad a'i effeithiau ar fywydau bob dydd yn ogystal â meddwl yn gyfannol am y mannau lle gall pobl fyw a gweithio a pha

ardaloedd y dylid eu diogelu. **Mae'r adran hon yn darparu'r weledigaeth strategol a lleol** unigryw ar gyfer darparu lleoedd cynaliadwy, ac fe'i hategir gan bolisiâu strategol ar bynciau a safleoedd penodol

Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

Cyfrannir at leoedd cymdeithasol yng Nghonwy drwy ddarparu cymunedau cydlynol sydd wedi'u cysylltu'n dda ar gyfer pawb. Cyflawnir hyn drwy gymunedau cryf a diogel, hyrwyddo datblygiadau cynhwysol a thrwy wella mynediad at wasanaethau allweddol a chyfleusterau hamdden. Bydd y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, sicrhau datblygiad cynhwysol yn gymdeithasol a chymunedau mwy cydlynol. **Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer tai, yn cynnwys tai fforddiadwy; cludiant cynaliadwy a hygyrchedd; manwerthu a chanol trefi yn gyntaf; cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol; a mannau hamdden.**

Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy

Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn hyrwyddo economi ffyniannus yng Nghonwy drwy ddarparu cyflogaeth wedi'i chysylltu'n dda a datblygiad economaidd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch. Bydd y lleoedd hyn yn cael eu dylunio a'u lleoli i hyrwyddo ffordd o fyw iach ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy eu gwneud yn lleoedd hawdd i gerdded a beicio iddynt ac o'u hamgylch ac yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel. **Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu economaidd, twristiaeth, cynllunio sero net a mwynau a gwastraff.**



Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy yw'r rhai sy'n gwerthfawrogi ansawdd tirweddau ac amgylchedd hanesyddol Conwy, yn diogelu asedau economaidd at y dyfodol mewn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd ac wrth hyrwyddo datrysiadau carbon isel, gwarchod tirweddau a chynefinoedd, galluogi cyfleoedd ar gyfer cysylltu gyda'r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd o fyw iachach gyda'r fantais o wella lles corfforol a meddyliol, elfennau sy'n cael eu hannog yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer **yr amgylchedd naturiol, nodweddion amgylcheddol a'r amgylchedd hanesyddol**.

Gyda'i gilydd, mae'r pedwar maes pwnc strategol hyn yn datblygu'r dull a nodir yn gadarn yn y weledigaeth, yr amcanion strategol a'r strategaeth twf a gofodol.

Gweledigaeth ac amcanion

Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn nodi'r materion sydd wedi'u hadnabod fel rhai hanfodol bwysig i Gonwy hyd at 2033 er mwyn ymgynghori yn eu cylch. Mewn ymateb i'r rhain, mae'n cynnig gweledigaeth o'r math o le yr hoffem i Gonwy fod yn 2033 a'r amcanion i wneud i hyn ddigwydd.

Strategaeth ofodol

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) ystyried ac asesu nifer o opsiynau realistig ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiad ar draws ardal y cynllun. Ar ôl ystyried yr opsiynau hyn mewn ymgynghoriad, mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn nodi lefel y tai newydd a thwf swyddi sydd eu hangen hyd at 2033 a

dosbarthiad gofodol y twf drwy nodi lleoedd cynaliadwy allweddol, dyraniadau safle a gofynion hanfodol o ran isadeiledd.

Twf newydd a newid dros gyfnod y cynllun

Mae'r twf newydd a gynigir yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn seiliedig ar dystiolaeth a'r angen i gydbwyso nifer o ffactorau allweddol. Mae'n ystyried y newidiadau disgwyliedig o ran poblogaeth ac aelwydydd hyd at 2033, ac yn cynllunio ar gyfer y gofynion cyflogaeth, tai ac isadeiledd cysylltiedig fydd eu hangen o ganlyniad i yrwyr economaidd lleol a rhanbarthol a'r angen am dai fforddiadwy. Mae hefyd yn adlewyrchu capasiti'r diwydiant datblygu ac amcanion strategol eraill y mae'n rhaid i'r CDLIN fynd i'r afael â nhw. Trwy gydbwyso'r ffactorau twf allweddol hyn mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnig lle ar gyfer **hyd at 1,500 o swyddi newydd a 4,300 o gartrefi erbyn 2033**. Mae hefyd yn gosod cynllun uchelgeisiol i ddarparu **1,760 o dai newydd fforddiadwy**.

Dosbarthiad gofodol twf

Un elfen hanfodol wrth greu lleoedd cynaliadwy yng Nghonwy yw penderfynu ar leoliad datblygu. Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn gosod sylfaen ar gyfer lleoli twf ac mae'n adnabod ardaloedd strategaeth datblygu allweddol a safleoedd strategol ar gyfer datblygu newydd, wedi'u cefnogi gan yr isadeiledd gofynnol o ran cymunedau a chyfleustodau hyd at 2033. Ar ôl nodi a deall anghenion ardaloedd trefol a gwledig presennol a'u nodweddion allweddol, mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn canolbwyntio twf yn bennaf yn yr **Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (ASDA)** gyda lefel gynaliadwy yn yr **Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (ASDG)**.



Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (ASDA)

Mae poblogaeth ardal y cynllun yn bennaf o fewn y coridor arfordirol trefol ar hyd llwybrau trafndiaeth strategol ffordd ddeuol yr A55 a'r rheilffordd. Mae'r lleoliadau trefol hyn yn cynnig y cyfle gorau i leoli twf, diwallu anghenion cymunedau, hyrwyddo teithio egnïol, cymunedau iachach, mynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn y pen draw cydymffurfio â'r cynllun cenedlaethol Dyfodol Cymru 2040, yr egwyddorion cynllunio allweddol a'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd hyn hefyd yn profi problemau capasiti cymunedol a seilwaith (e.e. ysgolion, meddygfeydd a chyflenwad cyfleustodau), y cynllunnir ar eu cyfer yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd hwn i sicrhau bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu creu.

Mae rhai ardaloedd trefol, fel Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinnel hefyd yn dioddef o gyfyngiadau mawr, fel risg llifogydd a seilwaith priffyrdd, sy'n effeithio ar eu gallu i ddarparu ar gyfer twf ac adfywio. Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd hwn yn hyrwyddo Ardal Wella'r Dwyrain (AWD) i fynd i'r afael â dirywiad pellach yn yr ardaloedd agored i niwed hyn a sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at gymunedau gwydn.

Ar ôl ystyried y materion trefol allweddol hyn, mae mwyafrif y twf wedi'i ganolbwyntio yn y trefi trefol mwy cynaliadwy a hygyrch o fewn ardaloedd Canolog, Creuddyn a Gorllewinol yr ASDA.

Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (ASDG)

Mae cefn gwlad ardal y cynllun yn adnodd deinamig ac amlbwrpas. Yn unol â datblygu cynaliadwy a'r egwyddorion cynllunio cenedlaethol ac wrth gyfrannu at ganlyniadau creu lleoedd, rhaid ei warchod a, lle bo modd, ei wella er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol, ieithyddol ac amaethyddol ac er mwyn ei adnoddau tirwedd a naturiol. Bydd yr angen i warchod y priodoleddau hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig yn Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig Conwy, mae'r cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir a chynyddu cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig nag yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol. Felly, mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o dwf gwledig yng Nghanolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst, sef anheddiad sy'n cefnogi'r cymunedau gwledig ehangach o ran cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, manwerthu ac addysg. Er mwyn sicrhau bod gan y cymunedau gwledig ehangach y cyfleoedd i gynnal eu hunain, hyrwyddir dull mwy hyblyg o ddatblygu lle mae'n diogelu hunaniaeth gymunedol, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn diwallu anghenion lleol.

Dyraniadau Safle

Cyn llunio'r Strategaeth a Ffefrir a'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, cynhaliodd yr ACLI 'alwad am safleoedd ymgeisiol', gan alluogi pob parti i gyflwyno safleoedd posibl i'w cynnwys yn y CDLIN. Mae'n rhaid i'r ACLI baratoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol a'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Fe wnaeth y ACLI hefyd gynnal ail 'alwad am safleoedd ymgeisiol' ar gyfer safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy. Ychwanegwyd y safleoedd hyn at y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn nodi dyraniadau safle sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol. Fe allai safle a ddyrannir gynnwys defnydd penodol neu ddefnydd cymysgu. Caiff safleoedd eu cefnogi gan bolisiâu'n nodi'r weledigaeth o ran creu lleoedd, egwyddorion dylunio a gofynion isadeiledd.



1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

- 1.1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi a chadw Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar gyfer pob ardal sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae gan y Parc Cenedlaethol ei awdurdod cynllunio a CDLI ei hun. Mae'n rhaid i'r CDLI nodi polisïau cynllunio a dyrannu safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli datblygiad sy'n cynnwys prosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio yn y Fwrdeistref Sirol y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r CDLI yn arwain a rheoli datblygu drwy ddarparu sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau clir a chyson. Er mwyn diwallu'r cyfrifoldebau uchod, mae'r Cyngor yn paratoi CDLI Newydd (CDLIN).
- 1.1.2 Mabwysiadodd Conwy'r CDLI cyntaf yn 2013 gyda'r bwriad ei fod yn parhau tan 2022. Bydd y CDLI presennol yn parhau mewn grym nes bo'r CDLIN yn cael ei fabwysiadu, ond mae'r polisïau a'r cyflenwad tir i ddiwallu anghenion cymunedau Conwy wedi dyddio. Felly mae angen datblygu CDLIN, a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu yng Nghonwy (gan eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) o'r cyfnod o 2018 hyd at 2033. Bydd y CDLI presennol yn parhau mewn grym nes bydd y CDLIN yn cael ei fabwysiadu.
- 1.1.3 Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd poblogaeth a nifer yr aelwydydd yn ardal CDLIN Conwy'n tyfu dros y 15 mlynedd nesaf. Ynghyd â'r angen i gynyddu nifer y tai fforddiadwy, mynd

i'r afael â digartrefedd a chyfrannu at ddyheadau economaidd Bargaen Dwf Gogledd Cymru, mae angen i ni gydweithio a chynllunio ar gyfer cartrefi, swyddi, cyfleusterau cymunedol ac isadeiledd newydd i gefnogi'r twf. Mae'n bwysig bod twf yn cael ei gynllunio'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn darparu buddion ar gyfer cymunedau ac yn cyflawni datblygiad a lleoedd cynaliadwy. Mae ardaloedd o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd angen eu gwella ac adfywio er mwyn hyrwyddo gwydnwch, tra bod ardaloedd eraill angen eu diogelu i annog ffyrdd o fyw iach a thwristiaeth gynaliadwy. Bydd y CDLIN yn mynd i'r afael â'r egwyddorion cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd i ddarparu'r twf mewn modd cynaliadwy a diwallu ein dyletswyddau lles o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

1.2 CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd

- 1.2.1 Y CDLIN i'w archwilio gan y cyhoedd yw canlyniad y camau paratoi statudol ac ymgysylltu cymunedol cynnar fel a ganlyn:
- Cytundeb Cyflawni a Chynllun Ymgysylltu â'r Gymuned (Hydref 2018 / Diwygiad Rhagfyr 2025);
 - Galwad am Safleoedd Ymgeisiol (Medi - Tachwedd 2018)
 - Cyfranogiad Cyn Cyflwyno i'w Archwilio gan y Cyhoedd (Ionawr - Gorffennaf 2019); ac
 - Ymgynghoriad (Strategaeth a Ffefrir) Cyn Cyflwyno i'w Archwilio gan y Cyhoedd (Gorffennaf - Medi 2019)
- 1.2.2 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymryd ymagwedd ragweithiol a thryloyw tuag at ymgysylltu, blaenlwytho a pharatoi'r cynllun hyd yma. Cynhaliwyd ail Alwad am Safleoedd



Ymgeisiol ar gyfer tai fforddiadwy ym mis Awst 2022. Cynhaliwyd rhagor o ddigwyddiadau ymgysylltu creu lleoedd anstatudol ochr yn ochr â Chymorth Cynllunio Cymru i nodi anghenion y gymuned a nodi anghenion creu lleoedd yn seiliedig ar safleoedd ac ardaloedd penodol. Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cyfuno'r dystiolaeth a gasglwyd, ymgysylltiad â budd-ddeiliaid a gwaith cyn cyflwyno i'w archwilio a wnaed hyd yma, gan gynnwys y gwaith o fewn y Strategaeth a Ffefrir ac yn ystyried datblygu'r cyfeiriad strategol drwy bolisïau a chynigion defnydd tir sy'n fwy manwl (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer datblygu).

1.2.3 Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnwys datganiad ysgrifenedig a map cynigion. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn amlinellu polisiau cynllunio lleol, dyraniadau defnydd tir a chyfiawnhad cysylltiedig yn seiliedig ar y dystiolaeth ategol yn y papurau cefndir. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith monitro, sy'n nodi sut y bydd strategaeth, amcanion, polisiau a chynigion y cynllun yn cael eu monitro'n erbyn y dangosyddion priodol a phwyntiau sbardun ar gyfer gweithredu (yn gysylltiedig ag adolygiad / diwygiad y cynllun). Mae'r map cynigion yn nodi'r dyraniadau defnydd tir, ffiniau anheddiad a dynodiadau cynllunio yn y cynllun, sy'n allweddol er mwyn cyflawni'r strategaeth ofodol.

1.2.4 Mae'r CDLIN yn llawer mwy na chynllun defnydd tir yn unig; mae ei gylch gorchwyl yn ehangach, gyda phwyslais ar greu lleoedd a chreu cymunedau cynaliadwy, ac mae'n dangos cysylltiadau gyda materion cysylltiedig fel iechyd, addysg, newid yn yr hinsawdd, isadeiledd gwyrdd, teithio llesol a llesiant. Mae holl amcanion a pholisïau'r CDLIN yn rhyng-gysylltiedig o ran eu natur ac mae angen eu darllen ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn

cael dealltwriaeth o gyfeiriad polisi cyffredinol y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

1.3 Dogfennau ategol

1.3.1 Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cael ei gefnogi gan nifer o asesiadau o effaith a dogfennau sylfaen dystiolaeth gefndirol i hysbysu'r ymagwedd a'r nod gyffredinol o hyrwyddo cymunedau cynaliadwy. Dylid darllen yr holl ddogfennau canlynol ochr yn ochr â'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

- **Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol** - Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol i nodi a fyddai'n cael unrhyw effaith sylweddol ar yr amgylchedd (cadarnhaol neu negyddol) ac i ddeall a fydd yn cynorthwyo i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n tanategu'r asesiad hwn yn cynnwys canolbwynt cryf ar faterion lles sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** - asesiad o effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel Ewropeaidd ('Safleoedd Ewropeaidd') am resymau o bwysigrwydd ecolegol.
- **Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb** - yn adolygu a nodi effaith debygol y Cynllun ar gymunedau presennol ac yn y dyfodol, gan ystyried y dystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol y polisiau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig.



- **Asesiad o Effaith ar Iechyd** - yn asesu effaith debygol y Cynllun ar ystyriaethau iechyd a chydaddoldeb, yn enwedig y rhai a allai effeithio ar iechyd trigolion y Fwrdeistref Sirol.
- **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**- yn asesu effaith bosibl y CDLIN ar y Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn cynnig mesurau lliniaru priodol.
- **Tystiolaeth Papurau Cefndir**- amrywiaeth o sylfaen dystiolaeth i hysbysu a chefnogi'r CDLIN. Mae Papurau Cefndir hefyd yn darparu gwybodaeth a rhesymeg ar gyfer y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Mae'r rhain yn rhoi mwy o fanylder ar rai o'r materion allweddol a'r meysydd testun sydd yn arwyddocaol ar gyfer y CDLIN. Mae 66 o Bapurau Cefndir ar hyn o bryd fel y nodir yn Atodiad 4.

1.3.2 Mae'r Asesiadau o Effaith a Phapurau Cefndir wedi'u cyflawni mewn modd integredig a'u defnyddio fel teclynau creu cynllun i hysbysu'r CDLIN, yn hytrach nag ymarferion adrodd statudol yn unig. Mae hyn wedi caniatáu profi goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol holl elfennau'r cynllun ar y cam cynharaf posibl a bod unrhyw ansicrwydd, materion neu ofynion lliniaru'n cael eu nodi yn ystod prosesau asesiadau o effaith i fynd i'r afael â nhw yn ystod gwaith paratoi'r cynllun. Hefyd er mwyn diwallu'r gofynion statudol, mae'r broses wedi cynorthwyo i wneud y mwyaf o berfformiad a gwella ansawdd y CDLIN yn gyffredinol.

1.3.3 Mae rhagor o ddogfennau wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

- **Adroddiad Adolygu'r CDLI Presennol** - yn nodi graddau arfaethedig y newidiadau tebygol i'r CDLI presennol (2007 -

2022) a chadarnhau'r weithdrefn ddiwygio i'w dilyn wrth baratoi'r CDLIN.

- **Cytundeb Cyflawni a Chynllun Ymgysylltu â'r Gymuned** - mae'r Cytundeb Cyflawni'n darparu cynllun prosiect ar gyfer paratoi'r CDLIN a nodi mesurau o fewn y Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned o ran ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned wedi'u diwygio i adlewyrchu effaith COVID19 ar yr amserlen gynhyrchu.
- **Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol**- mae Cofrestr y Safleoedd Ymgeisiol yn nodi'r holl safleoedd a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu cyflwyno gan y cyhoedd a budd-ddeiliaid sy'n awgrymu tir i'w ddatblygu, neu ei ddiogelu rhag datblygiad. Mae'r safleoedd a awgrymwyd i'w datblygu wedi'u nodi yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn seiliedig ar anghenion ac asesiad llawn i ddangos bod modd eu cyflawni.

1.4 Ymgysylltu blaenorol gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid allweddol.

1.4.1 Mae'n rhaid i'r CDLIN fod yn seiliedig ar ac yn cael ei danategu gan ymgysylltiad cynnar, effeithiol ac ystyrlon gyda'r gymuned er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o lunio consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion.

1.4.2 Mae'r Cyngor wedi paratoi Adroddiad Ymgynghori i'w Archwilio gan y Cyhoedd sy'n ddogfen gynhwysfawr yn nodi sut mae'r holl sylwadau blaenorol a wnaed wedi hysbysu'r Cynllun i'w



Archwilio gan y Cyhoedd. Mae'n crynhoi'r materion allweddol a godwyd drwy'r broses, gan gynnwys y sylwadau a wnaed ac argymhellion o ran sut mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y dylid mynd i'r afael â phob sylw.

- 1.4.3 Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriadau blaenorol wedi'u hasesu ac mae nifer wedi dylanwadu ar baratoad y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Mae crynodeb o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wahân fel rhan o'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

1.5 Strwythur y CDLIN

- 1.5.1 Roedd y camau ymgynghori cychwynnol cyn cyflwyno i'w archwilio gan y cyhoedd yn cynnig strwythur newydd i'r CDLIN i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r themâu allweddol yng nghynllun cenedlaethol 'Cymru'r Dyfodol 2040', PCC a'r nodau lles a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae holl elfennau'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi'u strwythuro o amgylch y pedair thema i gyflawni'r weledigaeth, amcanion a'r strategaeth ofodol. Mae'r themâu hyn yn uno'r cysylltiadau rhwng polisïau cynllunio i'w gwneud yn glir sut mae elfennau unigol yn cyfrannu at y nod gyffredinol i gyfrannu'n gadarnhaol at leoedd cynaliadwy a gwella lles yng Nghonwy. Mae'r Cynllun Monitro a Gweithredu hefyd yn adlewyrchu'r pedair thema allweddol.
- 1.5.2 Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnwys datganiad ysgrifenedig yn nodi ei bolisïau a chynigion a map cynigion ar sail ddaearyddol. Mae'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Crynodeb gweithredol - yn cyflwyno a chrynhoi CDLIN Conwy yn gryno.

Adran 1: cyflwyniad - gwybodaeth gefndir gyffredinol am CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan gynnwys pwrpas, strwythur, proses statudol, asesiadau a dogfennau ategol.

Adran 2: cyd-destun polisi a gofodol - yn nodi proffil ardal y cynllun a nodweddion allweddol yn ogystal ag aliniad y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, gyda pholisi a deddfwriaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Adran 3: materion a chymhellion blaenoriaethol - yn amlinellu materion a nodwyd mewn perthynas â'r CDLIN.

Adran 4: fframwaith gofodol - yn nodi gweledigaeth, amcanion strategol a strategaeth dwf a gofodol y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

Adran 5: fframwaith polisi creu lleoedd - yn nodi polisïau strategol ac yn seiliedig ar feini prawf sydd wedi'u cyfuno o dan y pedair thema fel y nodwyd isod.

Adran 6: monitro a gweithrediad - yn nodi ac ymgorffori targedau allweddol, yn nodi perfformiad y cynllun ac yn mesur sut y bydd yn cael ei fonitro. Gwybodaeth dechnegol a chefnidrol yn darparu manylion i gefnogi cynnwys y Cynllun, neu ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo gyda'i ddehongli.

Map cynigion ar sail ddaearyddol - mae'r map cynigion ynghyd â'r mapiau o aneddiadau penodol neu ardaloedd datblygu yn nodi polisïau a chynigion ar sail ddaearyddol.

1.5.3 Mae'r cynllun yn cynnwys y polisiau strategol a pholisiau sy'n seiliedig ar feini prawf canlynol ar gyfer pob adran:

Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy

Fframwaith y polisi Creu Lleodd

PL/1 creu lleodd cynaliadwy

PL/2 strategaeth tai cynaliadwy

PL/3 strategaeth economaidd gynaliadwy

PL/4 dosbarthiad twf a hierarchaeth aneddiadau

PL/5 creu lleodd a dylunio da

PL/6 hyrwyddo lleodd iachach

PL/7 yr iaith Gymraeg

PL/8 rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

PL/9 creu lleodd mewn ardaloedd gwledig

PL/10 addasiadau gwledig

PL/11 Cynlluniau Creu Lleodd a Chynlluniau Bro

PL/12 datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd

PL/13 datblygiad newydd a hyfywedd

PL/14 rheoli ffurf anheddiad

PL/15 Ardal Wella'r Dwyrain

PL/16 creu lleodd a safleoedd

PL/17 safle 157 Caefynnnon, Llanfairfechan - safle tai ac addysg defnydd cymysg

PL/18 safle 91 Pentywyn Road, Deganwy / Llanrhos - safle tai

PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn

PL/20 safle 56, Penloyn, Llanrwst - safle tai

PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno

PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas

PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno

PL/24 safle 206 Nant y Coed, Cyffordd Llandudno - safle tai

PL/25 safle 132 Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos - safle tai

Lleodd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

Fframwaith tai a thai fforddiadwy

HS/1 fframwaith tai cynaliadwy

HS/2 cyflawni'r angen o ran tai

HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy

HS/4 safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy

HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy

HS/6 dwysedd tai

HS/7 cymysgedd tai

HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol

HS/9 anheddau menter wledig

HS/10 ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

HS/11 amod meddiannaeth man preswyllo parhaol C3

HS/12 llety a rennir

HS/13 cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

HS/14 datblygiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr

HS/15 diwallu anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Strategaeth Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd



STA/1 cludiant cynaliadwy, hygyrchedd a datgarboneiddio
STA/2 cerbydau allyriadau isel iawn
STA/3 lliniaru effaith teithio
STA/4 Llwybrau a chynlluniau cludiant
STA/5 Canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol
STA/6 Teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd
STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus
STA/8 Safonau parcio

Canolfannau manwerthu a masnachol

RTC/1 manwerthu a chanol trefi yn gyntaf
RTC/2 hierarchaeth manwerthu
RTC/3 Prif Ardal Siopa
RTC/4 Parthau Siopa
RTC/5 parciau manwerthu a hamdden
RTC/6 dyluniad a diogelwch blaen siopau
RTC/7 datblygiad manwerthu newydd

Strategaeth cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

CFS/1 cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol
CFS/2 rhandiroedd newydd a phresennol
CFS/3 claddfeydd
CFS/4 cyfleusterau cymunedol newydd
CFS/5 colli cyfleusterau cymunedol

Strategaeth mannau hamdden

RS/1 mannau hamdden

RS/2 datblygu a mannau hamdden
RS/3 diogelu mannau hamdden presennol
RS/4 mannau hamdden newydd

Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy

Strategaeth datblygu economaidd

ED/1 datblygu economaidd
ED/2 dyraniadau cyflogaeth
ED/3 datblygiadau B1, B2 a B8 newydd ar safleoedd heb eu dyrannu
ED/4 diogelu safleoedd swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8
ED/5 ardaloedd gwella cyflogaeth swyddfeydd a diwydiannol
ED/6 arallgyfeirio ffermydd ac ehangu busnesau mewn ardaloedd gwledig
ED/7 telathrebu
ED/8 clystyrau busnes

Strategaeth Twristiaeth

TO/1 twristiaeth
TO/2 atyniadau hamdden a thwristiaeth cynaliadwy newydd
TO/3 Llety Gwyliau Llandudno
TO/4 safleoedd cabannau, carafanau sefydlog a charafanau teithiol
TO/5 llety gwyliau effaith isel

Fframwaith cynllunio sero net

EN/1 fframwaith cynllunio sero net
EN/2 cyflawni sero net mewn datblygiadau newydd
EN/3 adeiladau ynni effeithlon

EN/4 ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel a thechnoleg di-garbon parod

EN/5 Allyriadau carbon heb eu rheoleiddio a charbon ymgorfforedig mewn adeiladau

EN/6 asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiadau newydd

EN/7 gwrthbwyso a dal a storio carbon

EN/8 cysylltu â'r grid a storio ynni

EN/9 cynhyrchu ynni'n lleol a'r cynllun ynni ardal leol

EN/10 grid clyfar a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal

EN/11 datblygiad solar a gwynt ar y tir a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal

EN/12 isadeiledd ar y tir sydd wedi'i gysylltu ag ynni adnewyddadwy ar y tir

Mwynau a Gwastraff

MW/1 mwynau a gwastraff

MW/2 echdynnu mwynau

MW/3 diogelu creigiau caled ac adnoddau tywod a graean

MW/4 Parthau Clustogi Chwarel

MW/5 cynigion ar gyfer rheoli gwastraff

MW/6 defnydd o dir diwydiannol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff

MW/7 Parth Clustogi Tirlenwi

Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

Yr amgylchedd naturiol

NE/1 yr amgylchedd naturiol

NE/2 newid yn yr hinsawdd a gwydnwch ecosystemau

NE/3 tirluniau dynodedig

NE/4 diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig

NE/5 Lletemau Glas

NE/6 coed, tirlunio a gwaith rheoli

NE/7 rhwydwaith isadeiledd gwyrdd

NE/8 bioamrywiaeth

NE/9 gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig

NE/10 cynlluniau rheoli'r Parth Arfordirol, newid arfordirol a'r traethlin

NE/11 ardaloedd arfordirol a chynlluniau morol

Rhinweddau amgylcheddol

EQ/1 rhinweddau amgylcheddol

EQ/2 cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy

EQ/3 ansawdd aer, seinwedd a rheoli golau

EQ/4 Awyr Dywyll a golau sensitif

EQ/5 rheoli perygl llifogydd a datblygiad

Amgylchedd hanesyddol

HE/1 amgylchedd hanesyddol

HE/2 datblygiadau yn effeithio ar asedau hanesyddol

HE/3 Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

HE/4 adfywio drwy ddiwylliant

1.6 Gweithio tuag at fannau cynaliadwy a lles gwell yng Nghonwy

1.6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus bod yn rhaid iddynt gyflawni datblygu cynaliadwy wrth baratoi CDLL. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi saith nod lles y mae'n rhaid i CDLLIN Conwy weithio tuag atynt. Mae CDLLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn mynd i'r afael â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd i sicrhau ei fod yn gweithio tuag at leoedd cynaliadwy a lles gwell yng Nghonwy.

1.6.2 Er mwyn sicrhau bod y CDLLIN yn gweithio tuag at y nodau hyn, mae cymhellion allweddol y mae'n rhaid eu dilyn a chysylltu â nhw, a fydd yn galluogi gwireddu'r nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ffigur 2 yn dangos sut mae'r dogfennau allweddol hyn yn cysylltu i hysbysu'r CDLLIN a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at leoedd cynaliadwy a lles:


- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu'r **'pum ffordd o weithio'** y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u cyflawni wrth ddiwallu eu dyletswydd datblygu cynaliadwy ac wrth baratoi'r CDLLIN.
- Mae Llywodraeth Cymru'n nodi cymhellion cynllunio allweddol ar ffurf **'pum egwyddor cynllunio allweddol'** a ddylai ffurfio man cychwyn wrth baratoi'r CDLLIN. Mae'r egwyddorion hynny'n cefnogi'r newid diwylliant oedd ei

angen er mwyn mynd i'r afael â chreu lleoedd, a sicrhau bod cynllunio'n hwyluso'r datblygiad cywir yn y lleoliad cywir.

- **Dylid defnyddio canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol** i hysbysu gwaith paratoi'r cynlluniau datblygu ac asesiad y cynigion datblygu. Mae'r canlyniadau'n darparu fframwaith sy'n cynnwys y ffactorau hynny sy'n cael eu hystyried fel canlyniad delfrydol y cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol. Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn ffurfio'r man cychwyn ar gyfer y CDLLIN.

1.6.3 Mae Atodiad 2 yn dangos sut mae'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol yn cysylltu â'r nodau lles cenedlaethol, themâu PCC, polisïau Cymru'r Dyfodol, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych a'r themâu arfaethedig yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cydymffurfio â'i gilydd.

Ffigur 2: siart llif cydymffurfiaeth



Ffynhonnell: SPSS, CBSC

- 
- 1.6.4 Mae'n rhaid i'r CDLIN fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gref o rôl a swyddogaeth ardal gan gynnwys cysylltiadau gweithredol gydag ardaloedd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol. Mae'r adran hon wedi'i hysbysu gan ddealltwriaeth drylwyr o'r materion allweddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n effeithio ar ardal cynllun Conwy, sy'n hysbysu gweledigaeth, amcanion a fframwaith strategol y CDLIN wedi'i gyflwyno yn adran 4 a'r polisiau strategol ac yn seiliedig ar feini prawf yn adran 5. Wrth baratoi'r CDLIN rydym wedi ceisio adolygu a diweddarau ein dealltwriaeth o'r materion perthnasol ymhellach drwy flaenlwytho a chasglu tystiolaeth drwy ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol a chymunedau.
- 1.6.5 Mae'n rhaid i'r CDLIN gael cydbwysedd rhwng diogelu'r elfennau hynny sy'n gwneud Conwy'n arbennig, gan gynorthwyo i hwyluso cyfleoedd ar gyfer twf newydd ac adfywio er mwyn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a lles gwell.



2. Polisi a chyd-destun strategol

2.1 Nodweddion allweddol Conwy

Poblogaeth a ffurf ofodol

- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n cynnwys ardal o 1,130km² o Ogledd Cymru, yn ymestyn oddeutu 30 cilometr o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae Conwy'n nghanol Gogledd Cymru. Mae cysylltiadau cryf gydag economi ehangach i'r dwyrain ac ar draws tuag at Loegr, ond hefyd tua'r gorllewin i Ynys Môn ac Iwerddon ynghyd â Chanolbarth a De Cymru.
- Amcangyfrifwyd mai maint y boblogaeth breswyl ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 2022 oedd 114,300 o bobl. Yn y 10 mlynedd ers 2012, mae'r boblogaeth wedi gostwng o 1,150, sy'n 1.0%. Yn yr un cyfnod fe dyfodd poblogaeth Cymru o 1.9% ac fe dyfodd poblogaeth y DU o 5.8%.
- Nid yw poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy'n adnewyddu'n naturiol gan fod mwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal fesul blwyddyn. Gyda chyfartaledd o 1,600 o farwolaethau y flwyddyn a 1,000 o enedigaethau y flwyddyn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Byddai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy'n lleihau o oddeutu 600 o bobl y flwyddyn pe na bai mewnfudiad net yn yr ardal.
- Mae nifer y plant yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng yn gyson dros y ddegawd ddiwethaf neu fwy, gan adlewyrchu'r nifer llai o fabanod a anwyd ddiwedd yr 1990au / dechrau

2000au a dychwelyd at duedd cyfraddau geni is yn y 5 mlynedd diwethaf. Mae 15.9% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy'n llai na 16 oed o gymharu â Chymru gyfan yn 17.5% a 18.3% ar draws Prydain.

- Mae strwythur oedran y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol hŷn na Chymru a Phrydain yn eu cyfanrwydd. Mae 26.2% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy dros 65 oed o gymharu â Chymru gyfan yn 20.3% a 17.8% ar draws Prydain. Oedran canolrifol y boblogaeth yn 2022 oedd 50.3 oed (Cymru = 42.9; Prydain = 40.8). Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu o 46.9 i 50.3 dros y ddegawd ddiwethaf.
- Mae mwyafrif y boblogaeth (85%) o fewn y prif ganolfannau trefol ar hyd y coridor arfordirol, sy'n cael ei gefnogi gan Gerbyddfordd Ddeuol yr A55 a'r rheilffordd. Mae'r rhain yn cynnwys o'r dwyrain i'r gorllewin - Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy, Cyffordd Llandudno, Deganwy, Llandudno, Mochdre, Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos, Hen Golwyn, Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel. Mae Llanrwst oherwydd ei leoliad daearyddol, oddeutu 13 milltir i'r de o'r coridor trefol arfordirol, yn gweithredu fel canolfan wasanaethau allweddol ar gyfer yr ardaloedd gwledig.
- Mae trefi arfordirol gogleddol Bae Colwyn a Llandudno yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gwasanaethau, cyflogaeth, tai a datblygiadau manwerthu ar gyfer y cymunedau cyfagos. Mae gan y trefi hyn, yn benodol, statws presennol fel prif ganolfannau gwasanaethau.
- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n awdurdod gwledig gan fwyaf, gyda threfi a phentrefi amrywiol yn adlewyrchu maint ac amrywiaeth y Sir. Mae'r rhain yn amrywio o ran maint a rôl

gyda nifer yn gwneud cyfraniadau nodedig at anghenion a gofynion eu cymuned a'r ardaloedd cyfagos. Mae nifer o aneddiadau a phentrefi yn hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau, yn aml yn cyflawni rôl wasanaeth ehangach. Ond, mae diffyg gwasanaethau a chyfleusterau mewn rhai aneddiadau llai. Mae anghenion preswylwyr yr ardaloedd hyn yn cael eu diwallu gan y prif ganolfannau gan fwyaf ac mewn rhai amgylchiadau gan yr aneddiadau llai eraill sydd â gwasanaethau.

Tai

- Yn ystod cyfnod y CDLIN hyd yma, mae cyfartaledd prisiau tai o fewn CBSC wedi cynyddu o 39% o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2025. Roedd cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn gydag uchafbwynt o 21% ar ôl Covid yn ystod yr haf 2021, a oedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 16% ym mis Mehefin 2021. Ers hynny, mae prisiau tai yng Nghonwy wedi codi llai nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, gyda chyfartaledd prisiau yng Nghonwy yn £209,000; dim ond £1,000 yn uwch na chyfartaledd Cymru. Y pris ar gyfer tŷ ar wahân yng Nghonwy yw £308,000; tŷ teras yn £168,000 a fflat yn £127,000 ym mis Mawrth 2025.
- Mae darpariaeth tai yn ardal CDLIN Conwy wedi newid yn sylweddol dros gyfnod y cynllun hyd yma; yn rhannol oherwydd amserlenni datblygu safleoedd mawr (roedd oddeutu 40 wedi'u cwblhau ar safleoedd mawr yn 2024-25, ond disgwylir dros 200 yn 2025-26). Mae effaith pandemig Covid-19 a'r amrywiadau dilynol yn y farchnad dai a chostau datblygu hefyd wedi dylanwadu ar ddarpariaeth tai.

- Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi darparu cyfran uwch o dai yn ardal CDLIN Conwy, gan gefnogi'r lefelau uwch o ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae dros 400 o anheddau fforddiadwy wedi'u hadeiladu hyd yma dros gyfnod y CDLIN (Ebrill 2018 i fis Mawrth 2025). Mae sawl safle mawr naill ai wrthi'n cael eu hadeiladu neu gyda chaniatâd cynllunio, gyda'r disgwyl y byddant yn darparu dros 500 o dai fforddiadwy ychwanegol dros y 2-3 blynedd nesaf, ac mae safleoedd eraill ar y gweill.

Perygl llifogydd

- Mae afonydd yn brif ffynhonnell llifogydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae ardaloedd sylweddol ar hyd cyrsiau dŵr o fewn y Fwrdeistref Sirol wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'r arfordir gogleddol hefyd yn wynebu perygl llifogydd o'r môr (llanw) mewn rhai ardaloedd. Mae aneddiadau i'r dwyrain o'r Fwrdeistref Sirol wedi'u cyfyngu'n helaeth o ganlyniad i berygl llifogydd, gan effeithio ar eu gallu i fod yn wydn.

Rheoli gwastraff

- Mae rheoli gwastraff, ailgylchu a thrin gwastraff yn digwydd yng Nghanolfan Ailgylchu Cyngor Conwy. Yn 2022- 2023, o'r cyfanswm o 51,523 tonnell o wastraff trefol a gynhyrchwyd, ail-ddefnyddiwyd, ailgylchwyd neu fe gompostiwyd 35,573 tonnell ohono, ac roedd 15,453 o dunelli wedi'u llosgi i adennill ynni a 69% o'r gwastraff yn cael ei ail-ddefnyddio/ailgylchu/compostio. Gan olygu mai dim ond 263 tonnell a anfonwyd i'w dirlenwi. Cyfradd ailgylchu'r DU ar gyfer Gwastraff o Aelwydydd yn 2023 oedd 43.3% o gymharu â chyfartaledd Cymru o 65.7%.

Ansawdd aer

- Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn nodi nad yw safonau ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Conwy mewn perygl o ragori ar Amcanion Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd ac nid oes angen asesiadau manwl na chynlluniau rheoli ar lefel y Cyngor ar gyfer unrhyw lygryddion.

Economi ac adfywio

- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy gynrychiolaeth gyflogaeth hynod o gref mewn gwasanaethau llety a bwyd, manwerthu, addysg, iechyd, gofal preswyl a gwaith cymdeithasol. Mae'r sectorau llety a gwasanaethau bwyd, manwerthu ac addysg hefyd yn cyflogi lefelau uchel dros ben o weithwyr mewn termau absoliwt. Nid yw hyn yn syndod – mae golygfeydd hyfryd gwledig ac arfordirol y Fwrdeistref Sirol yn sicrhau mai twristiaeth (a sectorau cysylltiedig â thwristiaeth megis lletygarwch) yw prif gynheiliad yr economi lleol. Mae'r sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota hefyd yn elfen bwysig, yn enwedig yn yr ardal wledig, tra bo gwasanaethau proffesiynol a phreifat eraill wedi'u tangynrychioli o gymharu â Chymru a'r DU. Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n wahanol i weddill Gogledd Cymru gan fod cyfraddau is o fusnesau gweithgynhyrchu, a chyfran uwch o'r sectorau llety, gwasanaethau bwyd a busnesau hamdden.
- I'r gwrthwyneb, mae cyfraddau isel dros ben (ac mewn rhai achosion, absenoldeb llwyr) o gyflogaeth yn y sectorau mwy diwydiannol. Yn benodol, dim ond oddeutu 1,500 o bobl sydd wedi'u cyflogi yn y sectorau gweithgynhyrchu traddodiadol, neu 3.6% o gyfanswm gweithlu Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn cymharu â 10.8% o gyfanswm y

gweithlu sydd wedi'u cyflogi ym maes gweithgynhyrchu ledled Cymru yn 2023.

- Y boblogaeth sy'n economaidd weithgar ym Mwrdeistref Sirol Conwy yw 75.9%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 75.1%, ond yn is na ffigwr Prydain o 78.4%. Mae mwyafrif y rhai sy'n economaidd weithgar yn y Fwrdeistref Sirol hefyd wedi'u cyflogi; y gyfradd gyflogaeth bresennol yw 73.5%. Mae hyn yn uwch na gweddill Cymru (72.9%) ond yn is na Phrydain (74.8%).
- Mae lefelau gweithio'n rhan-amser yn uchel ym Mwrdeistref Sirol Conwy – mae 42.9% o weithwyr yn gweithio'n rhan-amser o gymharu â 31.2% ym Mhrydain.
- Mae gan Conwy oddeutu 5,500 o fusnesau, ac fel sy'n gyffredin ledled Cymru a'r DU yn gyffredinol, mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn cael eu cyfrif fel busnesau meicro, bach neu ganolig gyda hyd at 249 o weithwyr. Mae mwyafrif y busnesau wedi'u lleoli ar ystadau diwydiannol penodol, wedi'u lleoli'n agos at gyffyrdd yr A55 a'r A470 mewn ardaloedd fel Cyffordd Llandudno, Mochdre a Llandudno.
- Mae'r Fwrdeistref Sirol wedi bod yn llwyddiannus yn denu buddsoddiad sylweddol, ac yn cyflwyno adfywio a gwella fel blaenoriaeth bwysig, yn enwedig ym Mae Colwyn, Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel.
- Mae Conwy'n ganolbwynt twristiaeth, yn denu 7.8 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae gwerth twristiaeth yr economi leol oddeutu £729 miliwn, gan gefnogi dros 8,780 o swyddi.



- Mae mwy o bobl yn teithio allan o Fwrdeistref Sirol Conwy i weithio nag sy'n teithio i'r Fwrdeistref Sirol – llif net allan o tua 4,300 o gymudwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r cymudwyr tuag allan hyn yn teithio i ardaloedd awdurdodau ffiniol yng Nghymru (i Sir Ddinbych yn benodol). Mae oddeutu 3,100 o bobl yn teithio i Loegr i weithio.

Addysg

- Mae'r rhagamcanion poblogaeth diweddaraf yn rhagweld y bydd gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion cynradd (850 yn llai o blant 5-10 mlwydd oed) a chynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd.
- Yn 2023, nid oedd gan 13.3% o'r boblogaeth oedran gweithio (18 i 64 oed) ym Mwrdeistref Sirol Conwy unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd y boblogaeth sydd heb gymwysterau yng Nghymru (7.9%). Mae lefelau cyrhaeddiad y boblogaeth oedran gweithio gyda chymwysterau yn y Fwrdeistref Sirol yn debyg i Gymru; 64.6% wedi cymhwyso i lefel NVQ3 neu uwch o gymharu â 67.4% ledled Cymru ac mae 44.2% wedi cymhwyso i lefel NVQ4 neu uwch o gymharu â 45.0% ar lefel genedlaethol.

Cyrff dŵr

- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy o fewn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'n cynnwys 25 o gyrff dŵr daear, ac mae canlyniadau'r dosbarthiad diweddaraf gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod 42% o'r cyrff dŵr wedi cyflawni statws cyffredinol da neu well. Dylid cyfeirio at Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2021-2027 mewn perthynas â sgrinio SEA.

- Mae 63 o gyrff dŵr a 9 o lynnoedd ar draws dalgylchoedd Conwy a Chlwyd. O'r rhain, mae 16 o afonydd ac 8 o'r llynnoedd yn rhai artiffisial neu wedi'u haddasu'n helaeth.

Isadeiledd cymunedol a mynediad at wasanaethau

- Ar hyn o bryd, mae yna 51 ysgol gynradd, 7 ysgol uwchradd, 1 ysgol arbennig a 4 Canolfan Cyfeirio Disgyblion yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae pob ysgol yn defnyddio gwahanol raddau o Gymraeg a Saesneg fel ieithoedd llafar.
- Mae gan Conwy 10 o lyfrgelloedd (Abergele, Conwy, Llanfairfechan, Bae Penrhyn, Cerrigydrudion, Bae Cinmel, Llanrwst, Bae Colwyn, Llandudno a Phenmaenmawr). Maent hefyd yn gweithredu pum canolfan hamdden yng Nghonwy (Abergele, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Llandudno a Llanrwst).
- Mae canol tref Llandudno wedi'i lleoli ar frig hierarchaeth fanwerthu'r Fwrdeistref Sirol ac yn cael ei diffinio fel Canolfan Is-ranbarthol oherwydd y dalgylch manwerthu mawr.
- Ynni a newid hinsawdd
- Yn 2018, roedd cyfanswm defnydd ynni Conwy yn 2,460GWh, sef tua 2.5% o ddefnydd blyneddol Cymru. O'r swm hwn, roedd 980GWh ohono'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y galw am ynni domestig, 500GWh o'r byd diwydiannol a masnachol, a 980GWh o'r sector cludiant.
- Yn 2018, cynhyrchwyd 2,200GWh o ynni adnewyddadwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy (bron dengwaith y galw), gyda'r

mwyafrif ohono'n cael ei gynhyrchu o ynni gwynt ar y môr ac ynni dŵr.

- Y galw am wres yn 2018 yn y Fwrdeistref Sirol oedd 710GWh, gyda rhaniad o 15% eiddo domestig a 85% eiddo annomestig. Mae oddeutu 19% o'r cartrefi yn rhai nad ydynt ar y grid nwy ac mae'r eiddo hyn yn tueddu i fod yn ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Gynllun Ynni Ardal Leol, sy'n nodi'r ymyraethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r targedau lleihau carbon gan gynnwys: ôl-osod, gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni'r haul ar y tir, isadeiledd Cerbydau Trydan, cefnogaeth ar gyfer prosiect morlyn llanw ar yr arfordir gogleddol.

Bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid

- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy amrywiaeth eang o fathau o gynefinoedd pwysig, yn adlewyrchu'r amodau daearyddol ac amgylcheddol amrywiol o'r arfordir i'r mewndir. Mae'r cynefinoedd hyn yn cefnogi planhigion ac anifeiliaid amrywiol, gan gynnwys sawl rhywogaeth a ddiogelir, prin neu sy'n dirywio. Mae gan Gonwy 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 8 Ardal Gadwraeth Arbennig ac un Safle Ramsar, gyda 43 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 6 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, 40 Ardal Bioamrywiaeth ar dir sy'n eiddo neu'n cael ei reoli gan y Cyngor a 11 Gwarchodfa Natur Lleol. Mae gwaith ar y gweill i asesu Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol.
- Mae'n allweddol diogelu a gwella gwydnwch ecosystemau yn erbyn effaith datblygu niweidiol yn dilyn ymagwedd fesul

cam a Fframwaith Amrywiaeth, Graddau, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau o wydnwch ecosystem (DECCA) a nodwyd yn y canllawiau cenedlaethol.

Anghydraddoldeb, eithrio cymdeithasol ac amddifadedd

- Mae rhai rhannau o Fwrdeistref Sirol Conwy, yn enwedig yn y cymunedau trefol, gogleddol ac arfordirol, ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig ar gyfer plant, pobl ifanc a'r henoed (Mynegai amddifadedd lluosog Cymru, 2019).
- Yr ardaloedd arfordirol sy'n hynod uchel yw ardal Bae Colwyn gyda'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is arfordirol Colwyn 2 a Glyn 2 ymysg y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ynghyd â Tudno 2 yn Llandudno. Mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn, ymysg y 10% mwyaf difreintiedig o ran incwm ynghyd â Llysfaen 1, cymuned arfordirol arall. Mae Colwyn 2, Glyn 2 a Tudno 2 hefyd ymysg y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y parth cyflogaeth ynghyd â Rhiw 3. Mae Glyn 2 a Tudno 2 hefyd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yn y parth ieuchyd a diogelwch cymunedol.
- Mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is canlynol ym Mwrdeistref Sirol Conwy ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn enwedig mewn perthynas â mynediad at wasanaethau: Betws-y-Coed, Betws-yn-Rhos, Caerhun, Eglwysbach, Llangernyw, Llansannan, Trefriw, Uwch Conwy ac Uwchaled.



- Mae ardaloedd eraill ym Mwrdeistref Sirol Conwy o fewn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yn cynnwys Bae Cinmel 1 ar gyfer Addysg, Glyn 1, Glyn 2, Gogarth 1, Llangernyw, Llysfaen 1, Uwch Conwy ar gyfer tai. Ym mharth diogelwch cymunedol, mae'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is canlynol o fewn y 10% mwyaf difreintiedig, Glyn 2, Gogarth 1, Rhiw 3, Tudno 1, Tudno 2.
- Mae gwahaniaeth o ran incwm yn amlwg wrth gymharu cyflog wythnos gros llawn amser ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n £678.40, sy'n is na chyfartaledd y DU o £728.30.
- Mae nifer y plant sy'n cael eu hystyried fel rhai o deuluoedd incwm isel (tlodi incwm perthynol) yn 28.3% o deuluoedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, o gymharu â 26.6% yng Nghymru.

Treftadaeth ddiwylliannol

- Mae ardal y cynllun yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel ryngwladol i ddiogelu a gwella gwerth cadwraeth natur pwysig, ynghyd â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol nodedig. Mae gan asedau hanesyddol rôl bwysig o safbwynt twristiaeth, buddsoddiad a chymunedau. Mae Castell Conwy wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd. Mae UNESCO o'r farn bod Castell Conwy ymysg un o'r enghreifftiau gorau o bensaerniaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop". Mae ardal gynllunio CBSC yn cynnwys 80 o Henebion Cofrestredig, 1,488 o adeiladau rhestredig gyda 22 ohonynt yn rhai Gradd I, 1,389 yn rhai Gradd II a 77 yn rhai Gradd II*, a 25 o Ardaloedd Cadwraeth.

Y Gymraeg

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd, ac na ddylid trin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Yn 2021, roedd 25.9% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy (29,000 o bobl) wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef 17.8%. Mae strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor yn gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Cludiant a chysylltiadau

- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy mewn lleoliad da ar y rhwydwaith priffyrdd strategol gyda Cherbyddfordd Ddeuol yr A55 yn ffurfio rhan o Rwydwaith Traws-Ewropeaidd. Mae'r coridor dwyrain-gorllewin hwn yn cael ei bwysleisio ymhellach gan reilffordd Gogledd Cymru sy'n darparu cysylltiadau strategol i'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach. Mae'r cysylltiadau strategol hyn yn darparu cysylltiadau gyda Phorthladd Caergybi ar gyfer Llongau i Iwerddon a chysylltiadau ehangach tua Chaer a De Cymru. Mae cyfleusterau Rheilffyrdd Nwyddau wedi'u diogelu mewn lleoliadau strategol yng Nghyffordd Llandudno a Phenmaenmawr.
- Hefyd mae sawl ffordd dosbarth A yn gwasanaethu'r Fwrdeistref Sirol ynghyd â sawl ffordd dosbarth B yn cynrychioli elfennau pwysig o'r rhwydwaith priffyrdd. Mae ein prif rwydwaith priffyrdd yn cynnwys cefnffordd yr A470 sy'n darparu cysylltiadau i'r A55 a'r aneddiadau gwledig.

Mae cefnffyrdd yr A470 a'r A5 yn cysylltu gyda Chanolbarth a De Cymru. Mae'r A470 a rheilffordd Dyffryn Conwy'n darparu cysylltiadau i Ganolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst.

- Mae cludiant cyhoeddus da yn yr ardal yn gyffredinol ar y rhwydwaith bysiau a threnau, ond mae lefel ac amllder y gwasanaeth yn amrywio gan ddibynnu ar y lleoliad a'r cyrchfan. Er bod rhwydweithiau teithio llesol ar hyd y coridor arfordirol, mae gwelliannau'n ofynnol. Mae gan y Fwrdeistref Sirol sawl gorsaf reilffordd mewn trefi (Abergele, Pensarn, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan) ar brif reilffordd Gogledd Cymru gyda chysylltiadau i sawl cyrchfan arall. Hefyd, mae rheilffordd Dyffryn Conwy yn mynd o orsaf Llandudno, gan gysylltu sawl pentref gwledig; Deganwy, Cyffordd Llandudno, Glan Conwy, Tal-y-Cafn, Dolgarrog, Gogledd Llanrwst a Llanrwst.
- Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu map rhwydwaith integredig yn nodi'r llwybrau teithio llesol fydd yn cael eu cyflawni. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wedi llunio cynigion ar gyfer pob tref (Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Deganwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Llansanffraid Glan Conwy, Llysfaen, Llanddulas, Hen Golwyn, Penmaenmawr, Bae Penrhyn, Llandrillo-yn-Rhos, a Thowyn/Bae Cinmel. Mae'r llwybrau allweddol ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi ar y map cynigion.

Adeiledd, cymeriad a chapasiti'r dirwedd

- Y tu hwnt i'r prif aneddiadau, sydd ar hyd arfordir môr lwerddon yn y gogledd yn bennaf, mae ardal y cynllun yn cynnwys cymysgedd o ucheldir pellennig a gwyllt a gweundiroedd i orlifdiroedd afonydd eang, tir pori iseldirol, arfordiroedd a dyffrynnoedd serth. Nodwedd amlwg yn y dirwedd yw'r dyffrynnoedd a'r ucheldir cysylltiol. Ymhellach i'r de mae'r dirwedd yn agor i ddyffryn eang gydag iseldir y Carneddau a Pharc Cenedlaethol Eryri tua'r gorllewin.
- Mae tirweddau hanesyddol cofrestredig ledled Conwy'n cynnwys: Pen Isaf Dyffryn Conwy, Creuddyn a Chonwy, Gogledd Arllechwedd, Pen Isaf Dyffryn Elwy a Mynydd Hiraethog.

Iechyd a lles

- Wrth gymharu â Chymru, mae ychydig mwy o bobl yn byw gyda salwch hir dymor cyfyngedig yng Nghonwy yn 22.6% o gymharu â 21.6%. Mae'r unigolion sy'n darparu gofal di-dâl yn gymharol â chyfartaledd Cymru.
- Yn gyffredinol, mae lefel y rhai â salwch cronig yn debyg i gyfartaledd Cymru, ond mae cyfraddau gorbwysedd, diabetes mellitus, clefyd coronaidd y galon a chancr yn uwch.
- Mae rhai rhannau o Fwrdeistref Sirol Conwy, yn enwedig yn y cymunedau trefol, gogleddol ac arfordirol, ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig ar gyfer plant, pobl ifanc a'r henoed.



- Mae oddeutu 9.8% o boblogaeth CBSC yn derbyn triniaeth ar gyfer salwch meddwl (Cyfartaledd Cymru - 12.1%).
- Mae tri prif ysbyty cyffredinol rhanbarthol o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gwasanaethu Conwy. Mae'r tri ohonynt y tu hwnt i ffiniau'r sir. Mae ysbyty cymunedol yn Abergele, Llandudno a Bae Colwyn. O fewn ardal CBSC mae 20 o Feddygfeydd a 16 Deintyddfa.

2.2 Cyd-destun cenedlaethol

- 2.2.1 Er bod y CDLIN yn chwarae rôl allweddol o ran llunio penderfyniadau a lleoliad a natur datblygiadau yn ardal CDLIN Conwy, mae'n cael ei baratoi a'i weithredu o fewn y fframwaith cenedlaethol a osodwyd drwy ddeddfwriaeth a gan Bolisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol ategol (TAN).
- 2.2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth allweddol, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n ddyletswydd ar y cyrff cyhoeddus i weithredu "mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau fod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain". Mae'r Ddeddf yn cael ei thanategu gan saith o nodau lles, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt (Cymru gydnherth; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru lewyrchus; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang). Mae gan y Ddeddf felly ddylanwad mawr ar holl agweddau'r CDLIN, a fydd yn cysylltu gyda phob nod lles a darparu cyd-destun polisi

sy'n caniatáu iddynt gael eu diwallu. Mae Ffigur 2 uchod yn dangos y cysylltiadau allweddol rhwng y ffyrdd o weithio, y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd a'r saith nod lles.

- 2.2.3 Mae pob cam o waith paratoi'r cynllun wedi ystyried y nodau hyn a'r egwyddor datblygu cynaliadwy ehangach drwy'r 'pum ffordd o weithio' sydd yn y Ddeddf. Mae cysylltiad agos rhwng pob polisi a'u nod(au) perthnasol sy'n ymwneud â'i ddiben a'i weithrediad, gyda phwyslais ar wneud y mwyaf o fuddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i sicrhau bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflawni ei ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Mae'r weledigaeth a'r amcanion wedi'u mireinio yn ystod y broses adolygu yn seiliedig ar yr ymgysylltiad gyda budd-ddeiliaid a chanlyniadau'r sylfaen dystiolaeth newydd.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 2.2.4 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i gyflawni diwygiad yn y system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y system yn deg, gwydn ac yn galluogi datblygu. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 o amcanion allweddol gan gynnwys atgyfnerthu'r ymagwedd a arweinir gan y cynllun ar gyfer cynllunio drwy gyflwyno sylfaen gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Strategol.

Deddf yr Amgylchedd 2016

- 2.2.5 Mae Deddf yr Amgylchedd 2016 yn nodi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd sy'n fwy rhagweithiol, cynaliadwy ac ar y cyd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n adrodd ar adnoddau naturiol Cymru ac yn nodi eu gallu i ymateb i bwysau



ac addasu i newid hinsawdd. Felly, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru Adroddiad Cyflwr yr Adnoddau Naturiol yn 2016.

- 2.2.6 Cyhoeddodd LIC Bolisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol 2017; a oedd yn canolbwyntio ar beth yw rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni nodau o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer darparu datrysiadau'n seiliedig ar natur; cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a defnyddio dull yn seiliedig ar le. Mae saith Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynrychioli ymateb ar y cyd i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, sy'n nodi'r heriau allweddol a'r cyfleoedd ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru yn y dyfodol ac yn hysbysu darpariaeth yn lleol. Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru wedi'u hystyried wrth adolygu'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12)

- 2.2.7 PCC (rhifyn 12) yw polisi cynllunio defnydd tir LIC ar gyfer Cymru a dylid ei ystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu. Mae'r PCC yn sicrhau rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn nodi mai ymagwedd a arweinir gan gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio. Mae gan y PCC ganolbwynt cryf ar hyrwyddo creu lleoedd, sy'n cael ei ystyried yn allweddol er mwyn cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiad â chynhwysiad cymdeithasol a hyrwyddo cymunedau sy'n fwy cydlynol. Ystyrir bod creu lleoedd yn ddull cyfannol sy'n "ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r

perthnasoedd rhwng safle datblygu a'i amgylchoedd ehangach" (PCC, rhifyn 12).

Cymru'r Dyfodol 2040: Y Cynllun Cenedlaethol

- 2.2.8 Mae Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol yn ystyried y materion sy'n arwyddocaol i ffyniant a lles Cymru, megis yr economi, tai, cludiant, ynni a'r amgylchedd. Mae'n nodi lle y dylid cyflawni datblygiadau cenedlaethol, lle mae'r ardaloedd twf allweddol a pha isadeiledd a gwasanaethau sy'n ofynnol. Mae wedi'i osod yng nghyd-destun gweledigaeth a fydd yn gymorth i ddarparu lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, trwy gefnogi creu lleoedd a sicrhau bod ein dewisiadau yn arwain at ddatblygiadau yn y lleoedd cywir, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, creu a chynnal cymunedau iach hygyrch, diogelu ein hamgylchedd a chefnogi ffyniant i bawb.
- 2.2.9 Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn darparu fframwaith lefel uchel ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol ac yn nodi Bwrdeistref Sirol Conwy fel Ardal Dwf Ranbarthol o fewn y rhanbarth ehangach. Mae strategaeth CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn ategu ac yn alinio gyda Chymru'r Dyfodol drwy ddosrannu twf cynaliadwy i'r coridor arfordirol a thrwy wneud y mwyaf o'i gysylltiadau cludiant cynaliadwy. Mae'r pedair thema a pholisïau ategol y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer gweithredu a darparu'r weledigaeth a'r amcanion. Mae'n allweddol bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael eu hymgorffori yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd i gynorthwyo i gyflawni darpariaeth yr un ar ddeg o Ganlyniadau yng Nghymru'r Dyfodol. Mae Atodiad 2 yn nodi'r asesiad gwrthrychol a gynhaliwyd i ddangos sut mae CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn gwneud cyfraniad



cadarnhaol sylweddol tuag at gyflawni'r un ar ddeg o amcanion a nodwyd yng Nghymru'r Dyfodol 2040. Mae'r asesiad yn dangos bod y polisïau o fewn y CDLIN yn cyd-fynd ac yn cefnogi darpariaeth Canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn gyffredinol, gan ddarparu fframwaith cadarn er mwyn galluogi datblygu cynaliadwy o fewn ardal y cynllun.

- 2.2.10 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r broses ar gyfer sefydlu a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i sefydlu i ymgymryd â gwaith datblygu strategol a chynllunio cludiant rhanbarthol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys paratoi Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru. Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn symud ymlaen gyda CDLIN, bydd gwaith ar y cyd hefyd yn cael ei gyflawni gydag awdurdodau cyfagos a'r ardal ehangach i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd sylfaen dystiolaeth ar y cyd yn cael ei rhannu lle bo modd. Mae CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi'i baratoi yn unol â Chymru'r Dyfodol, gan hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Conwy fel Ardal Dwf Rhanbarthol yng nghyd-destun yr ardal ehangach. Mae'r ymagwedd hon yn hynod debygol o gyd-fynd â'r ymagwedd a ddefnyddir wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol i ddiogelu CDLIN Conwy ar gyfer y dyfodol.
- 2.2.11 Mae CDLIN Conwy wedi'i ddatblygu yn dilyn deialog agos gyda'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos yng Ngogledd Cymru ynghyd â sefydliadau allweddol eraill. Cynhaliwyd y ddeialog ar sail unigol a fesul testun, ond hefyd drwy Grŵp Cynllunio Strategol Gogledd Cymru a fforymau eraill sy'n seiliedig ar destun. Mae methodoleg ranbarthol hefyd wedi'i defnyddio drwy gydol datblygiad sylfaen dystiolaeth y CDLIN i hysbysu, er

enghraifft, asesiad anheddiad ac asesiad safleoedd ymgeisiol. Cynhaliwyd gwaith ar y cyd trawsffiniol a defnyddiwyd ymagwedd a gytunwyd, yn benodol gyda Pharc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir Ddinbych. Mae hyn wedi sicrhau ymagwedd gyson i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth, cynorthwyo i waredu dyblygu a hyrwyddo rhannu data ac arferion gorau ar draws y rhanbarth; gan ystyried y cyd-destun rhanbarthol ehangach cymaint â phosibl.

- 2.2.12 Mae proses asesu safleoedd ymgeisiol CDLIN Conwy wedi ceisio hyrwyddo'r safleoedd mwyaf cynaliadwy sy'n arwain at ddatblygiad cynaliadwy wedi'i arwain gan greu lleoedd, mabwysiadu egwyddor canol y dref yn gyntaf a dilyn trefn chwilio safleoedd tir llwyd PCC. Mae'r strategaeth wedi'i dylunio i hyrwyddo datblygiad sy'n canolbwyntio ar dramwy, gwneud y mwyaf o gyfleoedd teithio llesol, lleihau'r pwysau ar y tir amaethyddol mwyaf amlbwrpas a galluogi darpariaeth tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle bo'r galw am dai yn uchel.
- 2.2.13 Felly mae'r CDLIN wedi'i baratoi gan gydlynu'n llym gyda pholisïau cenedlaethol ac ymagwedd a fydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol. Yn seiliedig ar addasrwydd safleoedd, credir y bydd y dyraniadau arfaethedig yn ffurfio rhan allweddol o'r banc tir presennol o safleoedd a fydd yn cefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y rhanbarth. Felly ni fydd y CDLIN yn cael effaith andwyol ar ffurfio na chyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru yn y dyfodol. Mewn gwirionedd, bydd y CDLIN yn cyfrannu'n sylweddol at amcanion a nodau y Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol ac yn gymorth i wneud y mwyaf o'i allu i gynhyrchu canlyniadau cynllunio cynaliadwy.

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

2.2.14 Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn nodi sut mae'n dymuno darparu system gludiant sy'n fwy cynaliadwy a theg yng Nghymru sy'n gweithio'n well i bawb, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn nodi hierarchaeth cludiant cynaliadwy fel arweiniad ar gyfer buddsoddi fel a ganlyn:

- cerdded a beicio (blaenoriaeth uchaf)
- cludiant cyhoeddus
- cerbydau allyriadau isel iawn
- cerbydau modur preifat eraill (blaenoriaeth isaf)

2.2.15 Mae strategaeth ofodol, polisïau a dyraniadau tir CDLIN Conwy yn croesawu'r hierarchaeth cludiant cynaliadwy, gan flaenoriaethau'r dulliau mwyaf cynaliadwy. Mae twf a datblygu safleoedd yn cael ei hyrwyddo mewn lleoliadau cynaliadwy lle bo cerdded a beicio'n ddull cludiant realistig ac atyniadol ar gyfer teithiau pwrpasol (h.y. i fynd i'r gwaith, yr ysgol neu siopau a gwasanaethau). Drwy bolisïau creu lleoedd, mae'r CDLIN yn ceisio cyflwyno trawsnewidiad parhaus o ran sut y cynllunnir datblygiadau i gynnwys isadeiledd cerdded a beicio o'r cam cyntaf ynghyd ag annog newid ymddygiad hir dymor.

2.2.16 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol er mwyn hwyluso teithio llesol drwy ystyried rhyng-berthynas aneddiadau, cyfeirio twf tuag at ardaloedd cynaliadwy a darparu datblygiadau newydd sy'n hyrwyddo teithiau llesol drwy ddyluniadau cynaliadwy. Yn yr un modd, bydd anghenion cerddwyr a beicwyr yn cael eu hystyried yn yr holl gynlluniau newydd a

swyddogaethau eraill yr awdurdod priffyrdd. Bydd cynyddu'r cyfraddau teithio llesol ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n cefnogi cyflawni pob un o'r saith nod lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.3 Cyd-destun rhanbarthol

Bargen Dwf Gogledd Cymru

2.3.1 Sefydlwyd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 i ddatblygu ymagwedd ranbarthol ar gyfer twf economaidd ac i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau ar gyfer economi Gogledd Cymru. Roedd y bartneriaeth yn cynnwys y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Roedd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

2.3.2 Penodwyd Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn 2019 i arwain ar ddarpariaeth Bargen Dwf Gogledd Cymru.

2.3.3 Yn 2021, cefnogodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd y cynnig i bennu Uchelgais Gogledd Cymru fel brand newydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Bargen Dwf Gogledd Cymru.

2.3.4 Ym mis Ebrill 2024, sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Corfforedig gyda chyfrifoldebau newydd ar gyfer cludiant rhanbarthol a chynllunio strategol ynghyd â chyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i fabwysiadu brand Uchelgais Gogledd Cymru.

2.3.5 Ar 1 Ebrill 2025 trosglwyddwyd Swyddfa Rheoli'r Portffolio a Bargen Dwf Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a elwir nawr yn Uchelgais Gogledd Cymru.

2.3.6 Drwy gynhyrchu Papur Cefndir 1: Adroddiad Dewisiadau Lefel Twf, Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy (Papur Cefndir 18) ac Asesiad o Ddadansoddiad y Farchnad (Papur Cefndir 19), mae'r CDLIN wedi ystyried effaith bosibl y Fargen Dwf ar ei strategaeth dwf, gan gynnwys nifer y swyddi, dyraniadau tir ac isadeiledd i sicrhau twf cynaliadwy ar gyfer yr ardal.

Cynllun Lles Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2023-2028)

2.3.7 Mae Cynllun Lles Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn nodi'r amcanion lleol i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal.

2.3.8 Mae'r Cynllun Lles yn canolbwyntio ar le sy'n fwy cyfartal gyda llai o amddifadedd ac yn nodi 4 thema allweddol i gefnogi ein prif amcan, sydd hefyd yn adlewyrchu'r weledigaeth ar gyfer CDLIN Conwy i'w Archwilio gan y Cyhoedd ac fe gyfrannir tuag atynt drwy fframwaith polisi creu lleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lles – Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, fel yr argyfwng newid hinsawdd a natur, neu'r cynnydd mewn costau byw.
- Economi – mae'r economi'n llewyrchus, wedi'i chefnogi gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol.

- Cydraddoldeb – mae rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu llai o rwystrau.
- Tai – mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

2.4 Cyd-destun lleol

Cynllun Corfforaethol Conwy (2022-2027)

2.4.1 Mae gan Gynllun Corfforaethol Conwy (2022-2027) weledigaeth glir a syml 'Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd'. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar 5 nod ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyhoeddi amcanion lles.

- **Nod 1:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.
- **Nod 2:** Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd
- **Nod 3:** Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau.
- **Nod 4:** Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
- **Nod 5:** Mae gan bobl yng Nghonwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo'n ddiogel.

2.4.2 Bydd y CDLIN yn cyfrannu'n sylweddol at y 5 nod drwy'r 4 thema strategol yn y CDLIN a'r fframwaith polisi creu lleoedd ategol.

3. Materion a chymhellion blaenoriaethol ar gyfer Conwy

3.1 Dull

- 3.1.1 Mae'r materion a'r cymhellion blaenoriaethol a nodwyd yn yr adran hon yn cael eu cyflwyno i adlewyrchu strwythur a themâu y CDLIN. Mae'r materion blaenoriaethol yn cael eu hymchwilio ymhellach gan nodi eu goblygiadau posibl a sut y maent wedi hysbysu'r CDLIN. Maent hefyd yn ystyried materion cenedlaethol a rhanbarthol a'u goblygiadau lleol ar gyfer y CDLIN. Mae data ystadegol a ffynonellau pellach ar gyfer pob un o'r materion a chymhellion lleol wedi'u nodi yn y Papurau Cefndir a phapurau'r CDLIN cyn ei Archwilio gan y Cyhoedd.
- 3.1.2 Mae'r materion a'r cymhellion blaenoriaethol a nodwyd drwy broses baratoi'r CDLIN wedi hysbysu datblygiad y weledigaeth, amcanion a'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae'r adran isod yn nodi'r materion a'r cymhellion blaenoriaethol.

3.2 Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy

Creu lleoedd cynaliadwy

3.2.1 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Yn unol â'r egwyddorion cynllunio allweddol a'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy mae angen sicrhau bod CDLIN

Conwy'n hwyluso lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles ar gyfer pawb.

3.2.2 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN fynd i'r afael â'r egwyddorion cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd er mwyn darparu twf a datblygiad mewn modd cynaliadwy. Dylai lefelau twf a datblygiad yn y dyfodol gael eu cyflwyno mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch i adlewyrchu'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol a nodwyd yng Nghymru'r Dyfodol 2040, yn benodol, Llandudno a Bae Colwyn. Mae'n rhaid i'r CDLIN geisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, gan ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg a bod isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd gofynnol i gefnogi hyn er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a gwella lles.
- Mae'n hanfodol bod y CDLIN yn cynllunio ar gyfer isadeiledd digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis addysg a chyfleusterau iechyd ynghyd â chludiant, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli dŵr cynaliadwy, trydan a nwy a thelathrebu sy'n allweddol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Lleoedd iach, cydraddoldeb a lles

3.2.3 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae angen mynd i'r afael â materion iechyd, lles a chydraddoldeb penodol fel y nodwyd yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2023-2028), gan gynnwys gwella lles, ffyniant economaidd, a goresgyn rhwystrau o ran cydraddoldeb a gwella mynediad at dai o ansawdd da.



- Mae cyfran ychydig yn uwch o breswylwyr Conwy sy'n byw gyda salwch hir dymor cyfyngol o gymharu â chyfartaledd Cymru.
- Mae rhai rhannau o ardal y cynllun, yn enwedig yn y cymunedau trefol, gogleddol ac arfordirol, ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig ar gyfer plant, pobl ifanc a'r henoed. Ar y llaw arall, mae gan ardal wledig ddeheuol CBSC rai o'r cymunedau lleiaf difreintiedig yng Nghymru, heblaw am fynediad at wasanaethau.
- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth sy'n heneiddio a chyfran uwch na chyfartaledd Cymru o bobl hŷn.

3.2.4 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Mae angen i'r CDLIN fynd i'r afael ag amddifadedd, trwy gyfrannu'n gadarnhaol at gymunedau sy'n fwy gwydn, swyddi, sgiliau, tai (gan gynnwys digartrefedd) ac anghenion grwpiau gwarchodedig.
- Mae angen diogelu a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd, lleihau anghydraddoldeb o ran iechyd a gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Bydd angen i'r CDLIN sicrhau ei fod yn hwyluso ac yn annog teithio llesol, hamdden corfforol, isadeiledd gwyrdd ac yn cynyddu hygyrchedd ac ansawdd darpariaeth gofod agored.
- Mae angen lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae

angen sicrhau bod y cymunedau'n agos at gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol presennol.

- Mae angen i ddatblygiadau newydd fod yn gynhwysol ac yn gyfeillgar i oed a sicrhau y gall ein preswylwyr hŷn barhau i fyw yn eu cartrefi a'u cymdogaethau eu hunain am gyfnodau hwy.

Y boblogaeth a chreu lleoedd cynaliadwy

3.2.5 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae cadw pobl ifanc yn ein hardal yn her enfawr, gan fod rhagolygon poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwlch mawr yn y strwythur oedran rhwng 18 a 40 oed. Dyma'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o fod yn economaidd a chymdeithasol symudol, yn chwilio am waith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal.
- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy strwythur poblogaeth sy'n heneiddio. Mae strwythur oedran y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol hŷn na Chymru gyda 26.2% o'r boblogaeth dros 65 oed, sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol. Erbyn canol y 2030au (cyn diwedd cyfnod y cynllun), bydd Conwy'n gweld gostyngiad yn y grwpiau hŷn (yn enwedig rhai 75+).

3.2.6 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN sicrhau ei fod yn hyrwyddo strwythur oedran cytbwys ac yn darparu'r tai, cyflogaeth ac isadeiledd gofynnol i annog lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i bawb. Mae cadw'r boblogaeth

iau yn fater allweddol ar gyfer y cynllun yn ogystal ag annog y boblogaeth iau i ddychwelyd i'r ardal.

- Bydd angen i'r CDLIN gynllunio ar gyfer newid yn y boblogaeth ond hefyd sicrhau y cynllunnir y lefel briodol o wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol i gefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio.

Dyluniad da, yr amgylchedd adeiledig a chreu lleoedd

3.2.7 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae angen gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd gwyach ar gyfer pobl ym Mwrdeistref Sirol Conwy, gan gynnwys dylunio i gael gwared â throseddau a chymdogaethau cynhwysol a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys adlewyrchu'r gymysgedd o fathau o aneddiadau a chymeriad gwledig ardal cynllun y CDLIN.

3.2.8 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy yn y CDLIN, mae'n rhaid i'r dyluniad fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y datblygiad, gan gynnwys sut y defnyddir y gofod, sut mae adeiladau a'r parth cyhoeddus yn cefnogi'r defnydd hwn, ynghyd â'i adeiladwaith, gweithrediad, rheolaeth a'i berthynas gyda'r ardal gyfagos.
- Mae angen i ddyluniad ymgorffori hygyrchedd ar gyfer pob grŵp oedran ac anabledd, er enghraifft, mesurau sy'n deall dementia ac yn gyfeillgar i oed.

- Mae angen i'r CDLIN hyrwyddo pensaernïaeth a dyluniad o ansawdd uchel sy'n atgyfnerthu natur unigryw lleol ac yn meithrin ymdeimlad o le. Bydd materion dylunio a chreu lleoedd yn berthnasol i rai elfennau o'r CDLIN (e.e. polisïau'n ymwneud â dyluniad a dyraniadau safle).

Y Gymraeg a chreu lleoedd

3.2.9 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn golygu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn Safonau'r Gymraeg hefyd.
- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n cynnwys ardaloedd o gadarnleoedd y Gymraeg, lle bo cyfran uchel o breswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r ardaloedd arfordirol hefyd yn bwysig, gyda rhai ardaloedd gyda niferoedd uchel o breswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Mae strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor yn gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o 1,600 ym Mwrdeistref Sirol Conwy erbyn 2029. Mae angen gwella a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg y preswylwyr yn ardal CBSC, a lliniaru unrhyw effaith negyddol ar yr iaith drwy'r CDLIN.

3.2.10 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN gydnabod gwerth yr iaith a chynnwys darpariaethau polisi i ddiogelu, hyrwyddo, gwella a chefnogi twf yn y defnydd o'r Gymraeg. Mae maint a lleoliad datblygiad tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol yn

gallu effeithio ar y Gymraeg. Mae Papur Cefndir 42: Y Gymraeg yn nodi ardaloedd sensitif ac yn asesu effaith a'r camau lliniaru sy'n gysylltiedig â thwff y CDLIN a'r dyraniadau safle.

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

3.2.11 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal yn ddarnau allweddol o dystiolaeth y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi cynllun datblygu.
- Bydd angen diogelu dalfeydd carbon a'u gwella a'u hehangu lle bo modd.
- Mae coed a phridd, yn enwedig mwd morol, yn gweithredu fel cronfeydd sylweddol o garbon, sy'n storio neu'n dal carbon atmosfferig. Gall pridd addas gronni carbon yn gynt o dan orchudd coed na mathau eraill o lystyfiant.

3.2.12 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn ardal y cynllun a'i swyddogaethau'n gynaliadwy, gan ystyried yn llawn goblygiadau lleihau'r defnydd o adnoddau a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, tra hefyd yn diogelu a gwella bioamrywiaeth.
- Dylai'r CDLIN nodi sut:
 - mae'n cyfrannu at wella gwydnwch ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol;
 - atal a gwrthdroi colled bioamrywiaeth;
 - cynnal a gwella isadeiledd gwyrdd yn seiliedig ar geisio buddion a datrysiadau ecosystem amryfal;

- sicrhau dewisiadau lleoliad gwydn ar gyfer isadeiledd a datblygiad adeiledig, gan ystyried cyflenwadau dŵr, ansawdd dŵr a lleihau llygredd aer a sŵn a risgiau amgylcheddol lle bo modd, megis y rhai sy'n achosi risg llifogydd, newid arfordirol, halogi tir ac ansefydlogrwydd;
- cymryd camau i symud tuag at economi gylchol, a;
- hwyluso symud tuag at ddatgarboneiddio'r economi.

Creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig

3.2.13 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Fel ardal wledig gan fwyaf, mae cefn gwlad Bwrdeistref Sirol Conwy yn adnodd dynamig ac aml-bwrpas. Mae'n rhaid ei warchod a, lle bo modd, ei wella er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol, ieithyddol ac amaethyddol ac er mwyn ei adnoddau tirwedd a naturiol.
- Mae ardaloedd gwledig ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n wynebu heriau o ran cyflenwad tai cyfyngedig, llai o gyfleoedd cyflogaeth, gan arwain at ddiboblogi mewn rhai pentrefi.
- Y cymunedau gwledig yw cadarnleoedd y Gymraeg. Mae galluogi'r cymunedau hyn i ffynnu yn allweddol o ran dyfodol yr iaith yn yr ardaloedd hyn.

3.2.14 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Mae angen i'r CDLIN warchod y priodoeddau hyn yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. Mewn ardaloedd gwledig dylid lleoli'r mwyafrif o'r datblygiadau newydd mewn

aneddiadau sydd â hygyrchedd eithaf da heb ddefnyddio ceir o gymharu â'r ardal wledig yn ei chyfanrwydd.

- Bydd angen i'r CDLIN ystyried y materion hyn wrth ddatblygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth dwf.

Tir wedi'i ddatblygu'n flaenorol, tir a gyfyngir a chreu lleoedd cynaliadwy

3.2.15Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae diffyg capasiti tir wedi'i ddatblygu'n flaenorol i sicrhau twf dros gyfnod y cynllun, sy'n rhoi pwysau ar y galw am dir glas. Mae rhai aneddiadau ar hyd y coridor arfordirol hefyd wedi'u cyfyngu'n sylweddol, yn bennaf oherwydd y topograffeg tua'r de, perygl llifogydd tua'r gogledd a chapasiti priffyrdd, sy'n effeithio ar allu'r cymunedau i hwyluso twf, adfywio a chreu lleoedd cynaliadwy.

3.2.16Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Mae angen i'r CDLIN sicrhau bod lefelau twf a datblygu yn y dyfodol yn cael ei gyflawni mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, yn diogelu'r Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd gofynnol. Wrth ddatblygu strategaeth ofodol ar gyfer y CDLIN, mae angen blaenoriaethu'r egwyddor 'canol y dref yn gyntaf' a defnydd addas a chynaliadwy o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a / neu safleoedd nas defnyddir yn llawn ar gyfer pob math o ddatblygiad o fewn aneddiadau presennol fel blaenoriaeth. Lle nad oes tir a ddatblygwyd yn flaenorol ar gael, dylid ystyried safleoedd tir glas addas a chynaliadwy o fewn neu ar gyrion aneddiadau.

- A gyfer yr ardaloedd lle bo cyfyngiadau sylweddol (e.e. perygl llifogydd), bydd angen i'r CDLIN sicrhau ei fod yn cyfrannu at gymunedau gwydn drwy raglenni gwella ac adfywio.

Rheoli ffurf anheddiad

3.2.17Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae gan Gonwy nifer o Letemau Glas ar hyn o bryd a ffiniau anheddiad sydd wedi'u dylunio i ddiogelu ffurf drefol a chefn gwlad agored.

3.2.18Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN ddiogelu rhag blerdwff trefol a datblygu amhriodol drwy adolygu ffiniau Lletemau Glas ac anheddiad.

Dyraniadau Safle

3.2.19Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae dyraniadau safle a nodir yn y CDLIN yn cael eu cefnogi gan asesiadau gallu i gyflawni, asesiadau hyfywedd a pholisïau creu lleoedd penodol i safle.

3.2.20Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Wrth adlewyrchu ar eu cyfraniad at ofynion twf ardal CDLIN Conwy yn y dyfodol, ac fel elfennau allweddol o Gymru'r Dyfodol 2040 a Bargen Dwf Gogledd Cymru, mae dyraniadau safle wedi'u nodi fel eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer twf yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu cynnig yn bennaf yn yr Ardal Dwf Ranbarthol a nodwyd yng Nghymru'r Dyfodol 2040 a lleoliadau cynaliadwy eraill, mewn

ardaloedd o angen a lleoliadau lle y darperir yr isadeiledd neu y gellir darparu'r isadeiledd dros gyfnod y cynllun.

Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

3.2.21 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol, dewisol. Gall cymunedau lleol ysgogi eu paratoi ac maent yn adnodd pwerus wrth hyrwyddo gweithredu ar y cyd i wella lles a chreu lleoedd.
- Dylai Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro gefnogi darpariaeth polisiâu y CDLIN ac maent yn cael eu mabwysiadu fel canllaw cynllunio atodol (CCA).

3.2.22 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN osod y dull polisi ar gyfer Cynlluniau Bro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chynorthwyo cymunedau. Bydd angen i'r CDLIN nodi pwysigrwydd Cynlluniau Bro fel rhan o weithredu creu lleoedd ac wrth ddarparu lleoedd cynaliadwy a lles gwell.

3.3 Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

Tai, tai fforddiadwy ac anghenion Sipsiwn a Theithwyr

3.3.1 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae disgwyl i boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy gynyddu o oddeutu 4.2% dros gyfnod y cynllun.

- Erbyn 2033, bydd aelwydydd yn llai a bydd mwy o aelwydydd na'r hyn a geir ar hyn o bryd, a bydd hyn yn arwain at y galw am dai ychwanegol.
- Mae strwythur poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy'n heneiddio; bydd angen stoc o dai addasadwy a chymdogaethau sy'n gyfeillgar i oed.
- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n profi problemau difrifol gyda'r boblogaeth iau yn symud o'r sir.
- Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu fod gan Fwrdeistref Sirol Conwy angen am 364 o unedau tai fforddiadwy y flwyddyn neu 3,630 hyd at 2033. Nid oes yn rhaid i'r cyfan fod yn adeiladau newydd. Mae swyddogaeth allweddol ar gyfer y stoc bresennol o dai.
- Bydd galw parhaus am leiniau ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol. Mae'r Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr (2022) yn nodi bod angen 2 lain ychwanegol ar gyfer sipsiwn a theithwyr yn y safle preswyl presennol yng Nghonwy.

3.3.2 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Mae'r materion allweddol hyn yn arwain at y galw am dai ychwanegol ac isadeiledd cysylltiol dros gyfnod y CDLIN.
- Mae goblygiadau hefyd o ran y math, cymysgedd a maint y tai sy'n ofynnol er mwyn ystyried yr aelwydydd llai a thai addasadwy ar gyfer yr henoed.
- Mae angen i'r CDLIN annog strwythur oedran sy'n fwy cytbwys a mynd i'r afael â'r boblogaeth iau sy'n gadael yr

ardal drwy dai, cyflogaeth, addysg, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau.

- Mae'n rhaid ystyried yr angen am dai fforddiadwy newydd ochr yn ochr â dulliau eraill o ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy (e.e. cynyddu trosiant y stoc presennol, tai gwag, marchnad rhentu preifat). Mae hyfywedd yn ystyriaeth allweddol yn y CDLIN wrth bennu lefel y tai fforddiadwy a geisir mewn datblygiadau tai.
- Mae angen i'r CDLIN sicrhau ei fod yn gosod mecanweithiau i ddiwallu'r anghenion tai yn y CDLIN yn unol â'r trywydd drwy flaenlwytho tystiolaeth, cynyddu'r lwfans at raid a dad-ddyrannu tir na ellir ei gyflawni.
- Bydd angen i'r CDLIN sicrhau ei fod yn cynnwys yr angen presennol am 2 lain preswyl yn y safle presennol yng Nghonwy ac yn cyflwyno polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i reoli unrhyw angen pellach sy'n codi.

Cludiant a hygyrchedd

3.3.3 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Dylai bod y system gynllunio'n galluogi pobl i gael gafael ar swyddi a gwasanaethau trwy wneud siwrneiau byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy, ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae mynediad at gludiant cynaliadwy'n allweddol er mwyn cefnogi cymunedau iach sydd wedi'u cysylltu'n dda.
- Mae llwybrau teithio llesol o fewn ardal cynllun CBSC wedi'u disgrifio fel rhai gwael gyda diffyg buddsoddiad.

- Gan fod yr ardal yn wledig gan fwyaf, mae rhai cymunedau yn cael trafferth osgoi defnyddio ceir yn hytrach na defnyddio dulliau teithio cynaliadwy.
- Mewn rhai cymunedau, yn enwedig ar hyd y coridor arfordirol ceir materion o ran capasiti'r briffordd e.e. Abergele.
- Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol presennol yn nodi prosiectau blaenoriaeth ar gyfer ardal Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn cysylltu Bwrdeistref Sirol Conwy gyda'r Bwrdeistrefi Sirol cyfagos ac ardaloedd consortiwm cludiant rhanbarthol. Mae'r ffyrdd canlynol yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn y Fwrdeistref Sirol: Yr A55 (llwybr arfordirol y gogledd) a'r A470 (llwybr canolog). Mae'r ddwy brif ffordd yn cysylltu ardaloedd o boblogaethau lleol a phrif aneddiadau, gan uno gyda rhwydweithiau ffyrdd B a'r holl lwybrau dosbarthedig anrhifedig o fewn y Fwrdeistref Sirol.

3.3.4 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiad newydd i sicrhau ei fod yn gwella'r dewis mewn trafnidiaeth a sicrhau hygyrchedd mewn ffordd sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy, cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella iechyd a helpu i fynd i'r afael â'r pethau sy'n achosi newid hinsawdd a llygredd yn yr awyr.
- Bydd angen i'r CDLIN ymdrin â'r canlynol:



- Galluogi mwy o ddewisiadau teithio cynaliadwy – mesurau i gynyddu lefelau cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, lleihau dibyniaeth ar y car i deithio bob dydd;
- Rheoli rhwydwaith – mesurau i wneud y defnydd gorau o'r capasiti sydd ar gael, gyda chefnogaeth isadeiledd newydd wedi'i dargedu; a
- Rheoli'r galw – cymhwyso strategaethau a pholisïau i leihau'r galw am deithio, yn arbennig cerbydau preifat meddiannaeth sengl.

Canolfannau manwerthu a chanol trefi

3.3.5 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae rhagamcanion Papur Cefndir 61: Astudiaeth Canol Trefi'n Gyntaf yn awgrymu, ar ôl pwysu a mesur, nad oes angen canfod safle ar gyfer datblygiad manwerthu neu fwyd/diod mawr newydd. Dylai bod y stoc bresennol o eiddo yn gallu darparu lle ar gyfer y rhan fwyaf neu'r holl dwf yn y dyfodol ac felly rhagwelir mai datblygiadau bach fydd yn dwyn ffrwyth.
- Mae gwiriadau iechyd canol trefi yn nodi bod rhai trefi o fewn y Fwrdeistref Sirol yn iach gyda lefelau eiddo gwag isel, tra bo eraill wedi profi dirywiad dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod siopau canol tref penodol wedi cau (e.e. banciau'r stryd fawr) ac effaith pandemig Covid 19 a'r newid mewn patrymau siopa.

3.3.6 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN sefydlu strategaeth glir ar gyfer datblygu manwerthu, wedi ei gefnogi gan bolisïau, i gyflawni

canolfannau manwerthu a chanol trefi bywiog, atyniadol a hyfyw.

- Bydd angen i'r CDLIN sicrhau bod anghenion, pwysau a chyfleoedd manwerthu'n cael eu cefnogi gan strategaethau manwerthu priodol. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd angen cymryd camau rhagweithiol i nodi lleoliadau ar gyfer ehangu canolfannau manwerthu a chanol trefi. Mewn eraill efallai y bydd angen nodi mesurau i adfywio canolfannau neu i reoli newid ym mhwystrwydd cymharol canolfan wrth i rolau canolfannau eraill ehangu.

Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

3.3.7 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le sy'n bwysig ar gyfer iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol a'r Gymraeg a dylid eu diogelu. Yn aml mae'r cyfleusterau'n elfennau allweddol i greu cymunedau hyfyw a chynaliadwy. Gallant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd a mannau addoli.
- Mae mynediad at wasanaethau o fewn yr ardaloedd gwledig yn broblem benodol gyda'r 9 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau'n genedlaethol.
- Mae rhai ysgolion yn llawn neu mae'n bosibl y byddent yn llenwi yn dibynnu ar gartrefi newydd a chynnydd yn y boblogaeth yn y dyfodol.
- Mae angen rhandiroedd newydd dros gyfnod y CDLIN.



- .

3.3.8 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN gefnogi a nodi darpariaeth briodol ddigonol ar gyfer isadeiledd cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol ac yn y dyfodol, o fewn y CDSA a RDSA.

Mannau hamdden

3.3.9 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae mannau hamdden yn allweddol ar gyfer ein hiechyd, lles ac amwynder ac yn cyfrannu at isadeiledd gwyrdd. Maent yn darparu gofodau chwarae, ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol iach a lle i ymlacio, yn aml ym mhresenoldeb natur, ac yn cyfrannu at ein hansawdd bywyd.
- Bydd rhwydweithiau o ofodau gwyrdd hygyrch a darpariaeth gofod hamdden o ansawdd da yn hyrwyddo cadwraeth natur, bioamrywiaeth ac yn darparu cyfleoedd i breswylwyr ac ymwelwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwarae, corfforol er mwyn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.
- Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Gofodau Hamdden hefyd yn nodi ardaloedd o ddiffyg mewn rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol.
- Mae angen nodi, rheoli, ehangu a gwella rhwydwaith isadeiledd gwyrdd y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys ardaloedd o fannau agored cyhoeddus a chydabod ei bwysigrwydd o ran sicrhau manteision amgylcheddol,

economaidd-gymdeithasol ac iechyd lleol, sydd wedi'u nodi fel materion allweddol yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych.

3.3.10 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN annog lles corfforol a meddyliol trwy ddarparu a diogelu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da, ardaloedd chwarae plant a rhwydweithiau mannau hamdden.

3.4 Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy

Datblygu economaidd

3.4.1 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Daw ELR Conwy (Papur Cefndir 18) i'r casgliad y bydd y gweithlu ym Mwrdeistref Sirol Conwy, hynny yw nifer yr unigolion o oedran gweithio sy'n economaidd weithgar, yn cynyddu erbyn 2033. Ar y sail hon, efallai y byddai angen rhwng 14 a 20 hectar o dir busnes (gros) dros gyfnod y CDLIN.
- Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu diogelu a bod dyraniadau'n cael eu cyflwyno i gefnogi cyflogaeth mewn cymunedau.
- Mae yna all-lif net o 4,300 o drigolion sy'n teithio allan o Fwrdeistref Sirol Conwy i weithio mewn ardaloedd eraill. Byddai ail gydbwyso'r defnydd tir yn y Fwrdeistref Sirol i sicrhau bod mwy (a gwell ansawdd) o swyddi yn cael eu darparu yn gallu helpu i wrth-droi'r tueddiad hwn a dal allgymudwyr yn ôl, gan leihau cyfraddau allgymudo net.



- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy gyfradd dwysedd swyddi is o 0.72 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 0.74 ac awdurdodau cyfagos (0.78 yn Sir Ddinbych a 0.85 yng Ngwynedd).
- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i leoli o fewn ardal Bargaen Dwf Gogledd Cymru, a fydd yn creu cyfleoedd swyddi. Bydd hefyd yn arwain at oblygiadau o ran gofynion cyflogaeth, tai ac isadeiledd.
- Nododd Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 bwysigrwydd yr economi sylfaenol. Ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae hyn yn cynnwys y sectorau canlynol; iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu, tai cymdeithasol, adfywio a thwristiaeth.
- Mae'r ELR yn nodi y dylid rhannu dyraniadau tir cyflogaeth fel 35% B1 Busnes a 65% B1c/B2/B8 Diwydiannol a Warysau.
- Mae Asesiad o'r Farchnad Eiddo yng Nghonwy'n nodi y dylid dyrannu tir cyflogaeth newydd yn agos at lwybr traws-Ewropeaidd allweddol yr A55.
- Mae Strategaeth Economaidd Conwy hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o ganol trefi dinesig fel ardaloedd allweddol ar gyfer twf cyflogaeth.
- Mae Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych 2023-2028 yn ceisio darparu economi sy'n ffynnu, gyda chefnogaeth gweithlu medrus sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen cefnogi datblygiad rhwydweithiau a chlystyrau busnes, yn enwedig mentrau sy'n seiliedig ar ddyfeisgarwch a thechnoleg.

3.4.2 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN gefnogi ffyniant economaidd hirdymor, arallgyfeirio ac adfywio, drwy fanteisio ar sefyllfa strategol Bwrdeistref Sirol Conwy o fewn y fargen dwf ranbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth twf tai a chyflogaeth gyfannol wedi'i chyd-leoli.
- Dylai'r CDLIN gyfeirio datblygu economaidd a buddsoddiad i'r lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy.
- Dylai'r CDLIN gefnogi darpariaeth tir digonol i ddiwallu anghenion y farchnad gyflogaeth. Dylid diogelu safleoedd cyflogaeth presennol a safleoedd newydd sy'n cael eu dyrannu drwy'r CDLIN.
- Dylai'r CDLIN geisio:
 - Cydlynw datblygiad gyda phob math o ddarpariaeth isadeiledd megis cludiant a chyfleustodau
 - Alinio swyddi a gwasanaethau ag isadeiledd tai a chludiant cynaliadwy, i leihau'r angen am deithio, a dibyniaeth ar deithio mewn car
 - Darparu adfywio corfforol a chyfleoedd cyflogaeth i gymunedau difreintiedig
 - Cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau busnes lle bo'n briodol.
 - Mae angen cysylltiadau isadeiledd cludiant, amgylcheddol a thelathrebu i gefnogi'r rhwydweithiau a'r clystyrau hyn a, lle bo gwelliannau'n ofynnol, dylid cynnwys y rhain yn y cynllun datblygu.
 - Dylai'r CDLIN edrych yn ffafriol ar unrhyw gynigion cynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy sydd wedi'u

dylunio i wasanaethu clystyrau, megis systemau gwresogi rhanbarth ac adennill ynni hynod effeithlon o wastraff, neu ddarparu rhwydwaith integredig o gasgliadau gwastraff neu ailgylchu.

Twristiaeth

3.4.3 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd.
- Mae twristiaeth yn fwyfwy pwysig i'n heconomi ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2019-2029).
- Mae gan dwristiaeth rôl bwysig o ran economi Bwrdeistref Sirol Conwy a dylid ei gefnogi gan y CDLIN mewn modd cynaliadwy. Mae twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i gefnogi'n hanesyddol gan yr asedau naturiol a hanesyddol rhagorol, ynghyd â'i leoliad strategol ger yr arfordir a Pharc Cenedlaethol Eryri.
- Yn fwy diweddar bu twf mewn busnesau twristiaeth awyr agored ac antur cynaliadwy gydol y flwyddyn.
- Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweld galw am wahanol fathau o lety twristiaeth sy'n wahanol i'r hyn a geir yn draddodiadol. Mae hyn wedi arwain at lefelau uchel o lety gwylliau byrdymor mewn rhai ardaloedd.
- Dylai datblygiad twristiaeth mewn ardaloedd gwledig fod yn ystyriol o'r amgylchedd lleol o ran natur a maint.

- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy lefelau uchel o safleoedd carafanau traddodiadol, lefel uchel ohonynt o fewn yr ardal perygl llifogydd yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol.

3.4.4 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN annog twristiaeth lle mae'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, gan gydnabod anghenion ymwelwyr ac anghenion cymunedau lleol.
- Hefyd, dylai'r CDLIN gefnogi llwyddiant parhaus twf twristiaeth presennol ar draws ardal y cynllun, drwy annog datblygiad priodol sy'n ymwneud â thwristiaeth, sy'n cydfynd o ran natur a graddfa gyda'r amgylchedd lleol.
- Bydd angen sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn cael ei hyrwyddo gan geisio sicrhau twristiaeth gydol y flwyddyn yn hytrach na thwristiaeth dymhorol.

Economi wledig Conwy

3.4.5 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae economi wledig gref yn allweddol er mwyn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus. Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau newydd yn hanfodol o ran twf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig, gyda chefnogaeth y tai gofynnol a'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol.
- Mae ardaloedd gwledig Bwrdeistref Sirol Conwy'n cynnwys oddeutu 15% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Mae mwyafrif yr aneddiadau gryn bellter oddi wrth y canolfannau

trefol lefel uwch, ac felly bydd angen ystyried datblygu economaidd a'r isadeiledd gofynnol yn y CDLIN.

- Gan gydnabod y bydd effaith barhaus Brexit a'r newidiadau eraill i'r economi'n gyffredinol yn cael effaith ar ein cymunedau gwledig, gan olygu efallai y bydd angen arallgyfeirio eu cynnig busnes ymhellach er mwyn addasu.
- Mae ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol yn rhan o gadarnleoedd y Gymraeg. Bydd cefnogi preswylwyr lleol gyda swyddi a thai priodol yn cyfrannu tuag at ddiogelu a gwella'r ardal ieithyddol bwysig hon.

3.4.6 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus trwy hwyluso menter newydd, caniatáu ehangu busnes presennol a thrwy fabwysiadu dull adeiladol o ran amaethyddiaeth a newid arferion ffermio.
- Bydd angen i'r CDLIN fabwysiadu ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas ag arferion ffermio sy'n newid, neu sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Yn ogystal â hyn, dylai'r CDLIN fabwysiadu dull cadarnhaol o drawsnewid adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio at ddibenion busnes.
- Hefyd, bydd angen i'r CDLIN fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. Mae arallgyfeirio'n gallu cryfhau'r economi wledig a chyflwyno cyflogaeth a ffyniant ychwanegol i gymunedau.

- Dylai'r CDLIN ddyrannu safleoedd gwledig newydd mewn cynlluniau datblygu ar gyfer datblygu economaidd lle bo'n briodol.
- Er y dylid diogelu cefn gwlad agored lle bo'n bosibl, dylid cefnogi ehangu busnesau sydd eisoes wedi'u lleoli mewn cefn gwlad agored yn y CDLIN, cyn belled â nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.
- Bydd angen i'r CDLIN ddynodi ardal sy'n sensitif o ran y Gymraeg ac ymagwedd polisi sy'n diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Mae lefelau priodol o dai a swyddi newydd i ddiwallu'r angen lleol a nodwyd yn allweddol er mwyn i'r Gymraeg allu ffynnu.

Isadeiledd cludiant a sero net

3.4.7 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae darparu isadeiledd cludiant cynaliadwy yn hanfodol er mwyn meithrin ffyniant, mynd i'r afael â newid hinsawdd, lleihau llygredd yn yr awyr a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae angen hwyluso'r gwaith o ddarparu, datgarboneiddio a gwella isadeiledd trafnidiaeth gynaliadwy mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn cerbydau preifat, ac sy'n hwyluso ac yn gwneud mwy o ddefnydd o ddewisiadau teithio llesol a chynaliadwy.
- Mae llwybrau teithio llesol o fewn y Fwrdeistref Sirol wedi'u disgrifio fel rhai gwael gyda diffyg buddsoddiad.



- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy sawl gorsaf reilffordd mewn trefi ar hyd prif reilffordd Gogledd Cymru gyda chysylltiadau gyda sawl cyrchfan arall. Hefyd, mae rheilffordd Dyffryn Conwy'n teithio o Landudno, gan gysylltu sawl pentref gwledig.
- Mae'r gwasanaeth bws ar hyd y coridor arfordirol yn cael ei wasanaethu'n dda'n gyffredinol, er bod rhai ardaloedd lle efallai y bydd angen gwasanaethau ychwanegol i ddygymod â thwf. Mae gan yr ardal wledig wasanaeth da ar gyfer Llanrwst, ond mae'n gyfyngedig wedi hynny o ran cefnogi'r aneddiadau gwledig ehangach.
- Mae nifer o gyfnewidfeydd cludiant cynaliadwy wedi'u cynllunio yn yr ardal.
- Ar hyn o bryd mae gan yr ardal nifer o ardaloedd seidin rheilffordd sydd angen eu diogelu.

3.4.8 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN gefnogi gwelliannau angenrheidiol i'r isadeiledd cludiant, lle gellir arddangos ei fod yn cynyddu lefelau defnyddio cludiant cynaliadwy a lleihau ein dibyniaeth ar geir preifat ar gyfer siwrneiau dyddiol.
- Dylai'r CDLIN leoli twf mewn ardaloedd sydd â'r isadeiledd gofynnol neu a gynlluniwyd i greu lleoedd cynaliadwy a lleihau'r angen i ddefnyddio ceir. Dylai'r CDLIN gefnogi cludiant cyhoeddus a chyfnewidfeydd ychwanegol pan fo'r angen.

- Dylai'r CDLIN gefnogi'r holl gynigion (mewn egwyddor) ar gyfer ffyrdd newydd a gwelliannau mawr i'r prif rwydwaith ffyrdd dros gyfnod y cynllun, a nodi'r polisi eang ar flaenoriaethau o ran gwelliannau bach. Dylai hefyd gefnogi cysylltiadau teithio llesol newydd a cheisio gwelliannau oddi ar y safle i'r cysylltiadau teithio llesol lle bo'n briodol.

Sero net, ynni a newid hinsawdd

3.4.9 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae newid hinsawdd yn rhagweld cynnydd yn nifrifoldeb ac amlder digwyddiadau glaw. Felly mae llifogydd o afonydd, carthffosydd a dŵr wyneb yn debygol o gynyddu ar draws Bwrdeistref Sirol Conwy yn y dyfodol. Mae disgwyl i'r Fwrdeistref Sirol fod yn fwyfwy diamddiffyn i lifogydd llanw wrth i lefelau'r môr gynyddu.
- Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn nodi ardaloedd sydd wedi'u hasesu ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae'r Cynllunio Ynni Lleol yn nodi llwybr i ddiwallu sero net erbyn 2050 gyda 7 ymyrraeth allweddol.
- Mae Strategaeth Economaidd Conwy'n hyrwyddo mwy o gynlluniau ynni adnewyddadwy a dyhead i gyflwyno morlyn llanw ar hyd arfordir Gogledd Cymru, a fyddai'n arwain at well gwydnwch rhag llifogydd, cynhyrchu twristiaeth a hamdden ac adfywio yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Yn yr hirdymor gallwn ddisgwyl tuedd barhaus oddi wrth gynhyrchu tanwydd ffosil tuag at ffynonellau ynni sy'n fwy cynaliadwy.



- Mae Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych (2023-2028) yn cydnabod effaith newid hinsawdd a'r angen i greu gwydnwch mewn ymateb i heriau o'r fath.

3.4.10Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN osod polisi i:
 - leihau'r ynni carbon uchel a ddefnyddir gennym yn ardal CDLIN Conwy;
 - lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil;
 - rheoli a hybu'r trawsnewidiad i economi carbon isel yn frwd;
 - lliniaru achosion newid hinsawdd yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio.
 - Darparu gofynion defnydd tir yn y Cynllun Ynni Lleol.
- Dylai'r CDLIN sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni, sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl i economi a chymunedau Bwrdeistref Sirol Conwy tra'n sicrhau fod yr effaith amgylcheddol a chymdeithasol mor isel â phosibl. Mae manteision ynni adnewyddadwy a charbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredin i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynyddu diogelwch ynni yn allweddol er mwyn diwallu targedau lleihau carbon. Dylai gefnogi ynni cynaliadwy adnewyddadwy, ynni isel a mynediad i'r grid o fewn datblygiadau.
- Dylai'r CDLIN gynnwys targedau ynni adnewyddadwy, ymyraethau a gofynion defnydd tir a nodwyd yn y Cynllun Ynni Lleol.

- Dylai polisiau'r CDLIN sicrhau bod egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy yn rhan allweddol o ddyluniad datblygiad newydd. Hefyd, mae'r CDLIN wedi asesu safleoedd dynodedig drwy asesiad hyfywedd economaidd i nodi cyfleoedd i gyflawni datblygiad carbon sero net a chyflawni safonau adeiladu cynaliadwy uwch.
- Dylai'r CDLIN nodi Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer ynni gwynt a nodi sut maent yn gysylltiedig â'r Ardaloedd wedi'u Hasesu yng Nghymru'r Dyfodol 2040.



Telathrebu

3.4.11 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae isadeiledd cyfathrebu electronig diogel a fforddiadwy yn allweddol ar gyfer pobl a busnesau.
- Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol – Cyfeirir atynt yng Nghymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040, ond, nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u dylunio'n ofodol eto.
- Mae ardaloedd o Fwrdeistref Sirol Conwy'n profi diffyg o ran telathrebu symudol ac nid oes gan rai ardaloedd fynediad at fand eang sefydlog.

3.4.12 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN gynorthwyo i gefnogi isadeiledd telathrebu mewn lleoliadau priodol. Dylai nodi'r polisïau ar gyfer datblygu telathrebu, gan gynnwys polisïau'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiad mewn lleoliadau addas.
- Dylai'r CDLIN geisio cefnogi cynigion ar gyfer isadeiledd band eang newydd neu welliannau i rwydweithiau neu gyfarpar presennol. Dylai polisïau sicrhau bod isadeiledd band eang yn anghenion hanfodol yn y cynigion datblygu newydd.
- O ran Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol, er na chyhoeddwyd unrhyw barthau'n swyddogol hyd yma, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i weithio gyda'r broses gynllunio o ran isadeiledd symudol er mwyn gwella'r lleoliadau sydd â gwasanaeth gwael neu ddim gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mwynau

3.4.13 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer agregau o fewn awdurdodau lleol unigol yn cael ei arwain gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau, sy'n ofyniad ym mharagraff 50 Nodyn Cyngor Technegol 1 Mwynau. Mae'r datganiad technegol wedi'i adolygu am yr eildro yn 2020 a dyma'r ail adolygiad sy'n berthnasol i'r CDLIN.
- Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol diwygiedig yn llunio argymhellion ar gyfer unrhyw ddosraniad gofynnol i sicrhau cyflenwad digonol o gerrig mâl ac agregau tywod a graean gan gynnwys isafswm darpariaeth a argymhellir yn genedlaethol ar gyfer 7 mlynedd o dywod a graean a 10 mlynedd o gerrig mâl.
- Mae nifer o adroddiadau monitro rhanbarthol wedi'u cyhoeddi sy'n dangos bod gwastraff a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn y Fwrdeistref Sirol wedi gostwng yn gyffredinol ers dechrau cyfnod y cynllun ac mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n gyffredinol.
- Mae'r gofyniad i gynhyrchu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi'i dynnu, ond mae gofyniad i gyflawni gwaith monitro i sicrhau bod capasiti gwaredu ac adfer digonol yn bodoli o fewn rhanbarth.
- Y prif gasgliad hyd yma yw nad oes angen ychwanegol am gapasiti gwaredu yn y rhanbarth ac y dylid ystyried unrhyw ofyniad pellach am allu trin gwastraff gweddillol yn ofalus i sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at orddarpariaeth.

3.4.14 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Mae banc tir sylweddol o gronfeydd cerrig mâl a ganiateir ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ac fe ragwelir y bydd yn para am gyfnod llawn y CDLIN a'r 10 mlynedd gofynnol o fanc tir. Felly credir nad yw'n debygol y bydd unrhyw ofyniad sylweddol ar gyfer darpariaeth ychwanegol yn y CDLIN.
- Hefyd mae absenoldeb adnoddau tywod a graean nas cyfyngir ac sy'n fasnachol hyfyw yn golygu bod unrhyw ddarpariaeth sydd ei hangen o bosibl ym Mwrdeistref Sirol Conwy o dywod a graean yn fwy tebygol o gael eu diwallu drwy ddosraniad o Wynedd.
- Bydd angen i adolygiadau CDLIN yn y dyfodol roi ystyriaeth i ganlyniad adolygiadau pellach o'r RTS (ar ôl eu cyhoeddi).
- Er bod polisi a chanllawiau cenedlaethol ym maes gwastraff wedi newid, mae polisïau MWS/6 ac MWS/7 y CDLI presennol wedi bod yn ddigon hyblyg i fedru darparu'r isadeiledd ar gyfer gwastraff. Ond, gan na nodir gofyniad am safleoedd gwastraff ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, nid oes angen polisi yn canolbwyntio ar ddyraniadau mwyach.
- Mae'r ymagwedd o ddefnyddio tir cyflogaeth ar gyfer gwastraff yn parhau i fod yn hyfyw. Mae alinio gyda pholisïau yn adran gyflogaeth y CDLIN yn ofynnol i sicrhau hyblygrwydd o ran lleoliad i ddarparu unrhyw gyfleusterau newydd neu i adleoli unrhyw gyfleusterau presennol.

3.5 Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

Tirweddau

3.5.1 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae tirweddau Bwrdeistref Sirol Conwy'n anhygoel ac amrywiol. Mae CDLI Conwy sydd wedi'i fabwysiadu'n dynodi 6 o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ardal y cynllun.
- Parc Cenedlaethol Eryri, a ddynodwyd fel parc cenedlaethol ym 1952, yw'r mwyaf a'r cyntaf i dderbyn y dynodiad yng Nghymru. Mae'n cynnwys ardal o 213,200 hectar. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys rhannau o Wynedd a rhannau o Fwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r ffin yn croesi drwy aneddiadau gwledig gan olygu eu bod yn rhai a 'rennir' o safbwynt cynllunio defnydd tir.

3.5.2 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN ystyried tirweddau o'r cam cyntaf wrth lunio strategaethau a pholisïau.
- Bydd angen i'r CDLIN gadw a gwella asedau naturiol o ansawdd uchel ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Bydd angen cydweithio rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri i gynllunio'n effeithiol ar gyfer ein haneddiadau a rennir.

Ardaloedd arfordirol

3.5.3 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae arfordir Conwy'n cynnwys 85% o'r boblogaeth. Mae'r holl ardaloedd trefol lefel uwch ar hyd coridor arfordirol yr A55.
- Mae gan yr ardal lefelau uchel o bwysau datblygu ac mae ardaloedd fel Pensarn, Towyn a Bae Cinmel angen eu hadfywio, lle bo perygl llifogydd yn her allweddol.

3.5.4 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLIN sefydlu'n glir beth mae'r arfordir yn ei olygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy a datblygu, neu gymhwyso, polisiâu penodol, sy'n adlewyrchu cymeriad yr arfordir. Trwy wneud hynny dylai'r CDLIN gydnabod y rhyngberthynas rhwng rhinweddau ffisegol, biolegol a defnydd tir yr ardaloedd arfordirol ac effeithiau newid hinsawdd yn y Fwrdeistref Sirol.

Isadeiledd gwyrdd

3.5.5 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cymhelliad cryf ar gyfer darparu isadeiledd gwyrdd aml-swyddogaeth.
- Mae Asesiad Isadeiledd Gwyrdd Conwy (Papur Cefndir 47) wedi'i gyflawni ac mae'n hysbysu'r CDLIN i ddatblygu ymagwedd gadarn i wella bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch ecolegol a gwella canlyniadau lles. Mae hefyd yn nodi'r cyfleoedd strategol allweddol lle bo adfer, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd a

glas yn darparu'r buddion mwyaf arwyddocaol yn ardal CDLIN Conwy.

3.5.6 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN amddiffyn a gwella asedau a rhwydweithiau isadeiledd gwyrdd.
- Mae'n rhaid i'r CDLIN weithredu ei Ddyletswydd Adran 6 o ran amrywiaeth, graddau, cyflwr, cysylltedd a'r gallu i newid.

Bioamrywiaeth

3.5.7 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Dylid ystyried y wybodaeth yn Natganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cofnodion rhywogaethau gan Ganolfannau Cofnodi Amgylcheddol Lleol. Hyd yma, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu'r datganiadau ardal ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.
- Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 8 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, un safle Ramsar, 43 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol. Mae'n rhaid i'r CDLIN gefnogi rheolaeth yr holl safleoedd dynodedig cenedlaethol er mwyn cyflawni eu hamcanion cadwraeth diffiniedig.
- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dros 40 o Ardaloedd Bioamrywiaeth ar dir sy'n eiddo neu sy'n cael ei reoli gan y Cyngor ac 11 o Warchodfeydd Natur Lleol.

3.5.8 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:



- Bydd angen i'r CDLIN sicrhau ei fod yn dilyn ymagwedd fesul cam i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn drwy sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol yn cael eu lleihau a'u lliniaru.

Dŵr, aer, seinwedd a golau

3.5.9 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae aer glân a seinwedd priodol yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol o le ynghyd â bod yn hanfodol ar gyfer iechyd, amwynder a lles cyhoeddus.
- Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn nodi nad yw safonau ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Conwy mewn perygl o ragori ar Amcanion Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd ac nid oes angen asesiadau manwl neu gynlluniau rheoli ar lefel y Cyngor ar gyfer unrhyw lygryddion.
- Mae angen cydbwysio darpariaeth golau er mwyn gwella diogelwch er mwyn atal troseddau a chaniatáu cynnal gweithgareddau chwaraeon a hamdden gyda'r angen i ddiogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol gan gynnwys bywyd gwyllt; cadw awyr dywyll lle bo'n briodol; atal effaith golau a pharchu amwynder defnydd tir cyfagos, a lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â golau.

3.5.10 Y goblygiadau ar gyfer y CDLIN yw:

- Dylai'r CDLIN sicrhau ei fod yn cynnwys polisiau sy'n atal effaith a gwneud y mwyaf o'i gyfraniad er mwyn cyflawni Cymru iachach drwy geisio lleihau amlygiad y boblogaeth gyffredinol at lygredd aer a sŵn ochr yn ochr â gweithredu i fynd i'r afael ag ardaloedd llygredd uchel. Drwy wneud

hynny, bydd egwyddor asiant newid yn ystyriaeth berthnasol.

- Dylai'r CDLIN nodi ardaloedd, megis ardaloedd o bwysigrwydd diwylliannol neu hanesyddol, y dylid rhoi ystyriaeth arbennig iddynt o ran seinwedd lle efallai y bydd yn ofynnol diogelu bywiogrwydd lleoedd neu ddarparu amgylchedd tawel, adferol o fewn ardaloedd adeiledig prysur.
- Fe fydd yn amhrisiadwy bod y CDLIN yn nodi synergedd rhwng mapio isadeiledd gwyrdd a chymedroli effaith diogelu, neu ddarparu, isadeiledd gwyrdd o ran cynnal ansawdd aer da a seinweddau priodol, gan gynnwys rôl gofodau gwyrdd tawel.

Amgylchedd hanesyddol

3.5.11 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae gan asedau hanesyddol rôl allweddol o safbwynt twristiaeth, buddsoddi a chymunedau, ac mae angen eu diogelu a'u gwella drwy'r CDLIN.
- Mae Castell a muriau tref Conwy wedi'u dynodi yn Safle Treftadaeth y Byd. Mae UNESCO o'r farn bod Castell Conwy ymysg un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop".
- Mae ardal y CDLIN yn cynnwys 80 o Henebion Cofrestredig, 1,488 o Adeiladau Rhestredig gyda 22 ohonynt yn rhai Gradd I, 1,389 yn rhai Gradd II a 77 yn rhai Gradd II*, a 25 o Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n rhaid i'r CDLIN gefnogi diogelu a gwella'r holl asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, gan gynnwys eu lleoliadau.



- Mae'r CDLL sydd wedi'i fabwysiadu yn cynnwys polisi i ddiogelu adeiladau a strwythurau o bwysigrwydd lleol, ond hyd yma, nid oes rhestr o'r asedau hanesyddol i gefnogi'r polisi.

3.5.12 Y goblygiadau ar gyfer y CDLLIN yw:

- Mae'r asedau treftadaeth a nodwyd yn elwa o amddiffyniad statudol ac mae'n rhaid ystyried hyn o fewn polisiau, cynigion a chanllawiau yn y CDLLIN.
- Mae'n rhaid i'r CDLLIN gadw a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd uchel ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Dylid cadw, gwarchod a hyrwyddo eu cyfraniad i'r ardal ac i dref Conwy'n enwedig (tref treftadaeth y byd) er mwyn annog twristiaeth yn yr ardal.
- Er mwyn diogelu asedau hanesyddol o bwysigrwydd lleol, bydd angen llunio rhestr o asedau o'r fath cyn mabwysiadu'r CDLLIN. Mae'r broses hon eisoes ar y gweill, gyda sawl ased hanesyddol posibl wedi'u nodi ar lefel tref a chymuned. Bydd y rhestr derfynol yn ffurfio rhan o CCA ar Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol.

Adfywio drwy ddiwylliant

3.5.13 Y materion a'r cymhellion blaenoriaethol yw:

- Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi pwysigrwydd cynnal nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i le, yn ogystal â bod yn annhebyg i unrhyw le arall. Ar hyn o bryd, mae nifer o fentrau a phrosiectau adfywio parhaus ac arfaethedig ar gyfer y dyfodol agos ar draws y sir a fydd yn cael effaith gadarnhaol

ar wella a chynnal asedau diwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy.

3.5.14 Y goblygiadau ar gyfer y CDLLIN yw:

- Bydd angen i'r CDLLIN gynnig cefnogaeth i'r fath fentrau pan maent yn berthnasol i gynlluniau defnydd tir ac yn cyd-fynd ag amcanion / polisiau eraill yn y cynllun.



4. Fframwaith Gofodol

4.1 Gweledigaeth y CDLI Newydd

- 4.1.1 Mae angen i'r CDLIN gael ei gefnogi gan weledigaeth gryno, hirdymor, amcanion a strategaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae gweledigaeth glir wedi cael ei lunio sy'n seiliedig ar gonsensws ar ôl ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol a'r gymuned. Mae gweledigaeth y CDLIN wedi cael ei ffurfio gan roi ystyriaeth i'r gyrwyr a'r materion blaenoriaeth lefel uchel a nodir mewn dogfennau ategol. Mae hefyd wedi'i llywio gan ddeddfwriaethau, polisïau a seiliau tystiolaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y manylir arnynt yn rhannau 2, 3 a 4. Yna, cafodd ei mireinio a'i chwtdogi ymhellach ar gyfer y CDLIN i'w Archwilio drwy'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n parhau ac i adlewyrchu themâu allweddol Cynllun Lles Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2023-2028). Yn bwysig iawn, mae'r weledigaeth yn awr yn fwy cryno, yn croesawu creu lleoedd ac yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd cynaliadwy a gwella lles i bawb.

Erbyn 2033, fe fydd ffocws newydd ar greu lleoedd yn arwain at lefydd cynaliadwy, lles gwell a mwy o gyfleoedd i fyw, gweithio ac ymweld, lle gall y Gymraeg ffynnu, gan sicrhau bod Conwy yn fwy cyfartal, yn llai difreintiedig ac yn wydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.2 Cyflawni'r weledigaeth

- 4.2.1 Mae cydnawsedd y weledigaeth ac amcanion wedi cael eu hystyried yn erbyn golau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych a dogfennau pwysig eraill megis Bargen Dwf Gogledd Cymru. Caiff y weledigaeth ar gyfer CDLIN Conwy ei chyflawni drwy gydweithio gyda phob budd-ddeiliad sy'n rhan o'r broses gynllunio gan ddilyn y 5 ffordd o weithio (cydweithio, atal, integreiddio, tymor hir a chyfranogi) ac anelu i ddarparu llefydd cynaliadwy a lles gwell. Bydd ymdrechion creu lleoedd ac adfywio felly'n canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau'n seiliedig ar leoedd ar gyfer yr heriau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n wynebu'r ardal. Bydd y weledigaeth felly'n cael ei gweithredu drwy fynd i'r afael â'r amcanion a nodir yn y rhan nesaf, ac yn ei dro, drwy weithredu polisïau cysylltiedig a chynigion a fanylir arnynt yn fframwaith polisi creu lleoedd y CDLIN.

4.3 Amcanion y CDLIN

- 4.3.1 Mae polisi Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol nodi prif amcanion y cynllun yn glir, ynghyd â chyfeiriad cyffredinol unrhyw newid.
- 4.3.2 Mae amcanion strategol y CDLIN nid yn unig yn llawn dyhead ac yn uchelgeisiol ond mae modd eu darparu o fewn cyd-destun cynllunio gofodol. Maent yn ymateb i faterion allweddol y cynllun ac yn eu cyflawni, gan gynnig llwyfan ar gyfer gwireddu'r weledigaeth. Fel yn achos y weledigaeth, mae'r amcanion wedi cael eu mireinio ymhellach yn dilyn ymgynghoriad, drwy'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol parhaus ac o ganlyniad i Gynllun Lles Lleol Conwy a



Sir Ddinbych (2023 - 2028). Unwaith yn rhagor, mae'r amcanion wedi'u grwpio o amgylch strwythur arfaethedig a themâu strategol y CDLIN sy'n adlewyrchu nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, y 5 egwyddor gynllunio allweddol, canlyniadau cynaliadwy a Pholisi Cynllunio Cymru fel y dangosir yn Ffigur 2. Y prif nod yw gallu cyfrannu'n gadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy a gwella lles yn ardal CDLIN Conwy.

Dewisiadau strategol a gofodol

SO1: Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg a'i hanes a hybu ei defnydd ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i gynnal lleoedd gwych a chreu rhai newydd.

4.3.3 Amcanion cysylltiedig: pob amcan

4.3.4 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- creu lleoedd cynaliadwy;
- strategaeth tai cynaliadwy;
- strategaeth economaidd gynaliadwy;
- dosbarthiad twf a hierarchaeth aneddiadau;
- creu lleoedd a dyluniad da;

- hybu llefydd iachach;
- y Gymraeg;
- rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig;
- addasiadau gwledig;
- cynlluniau creu lleoedd a chynlluniau bro;
- datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd;
- datblygiad newydd a hyfywedd;
- rheoli ffurf anheddiad;
- Ardal Wella Ddwyreiniol; a,
- chreu lleoedd a safleoedd datblygu.

Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

- **SO2:** hyrwyddo strategaeth cyflogaeth a thwf tai gyfannol ac wedi'i chyd-leoli trwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy ac anghenion llety sipsiwn a theithwyr mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod yr amrywiaeth gywir o fathau, meintiau a deiliadaeth tai yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14 a 15

4.3.5 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Tai, tai fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr;



- Tai gwledig;
- Math o dŷ, dwysedd a chymysgedd;
- Digartrefedd;
- Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Llety a rennir; a
- Chartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod
- **SO3:** cyflawni canolfannau masnachol a thref ffyniannus, deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ailddiffinio eu rôl a thrwy annog amrywiaeth o weithgareddau a defnydd.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 6, 7, 8, 9, 13 a 14.

4.3.6 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Manwerthu mewn ardaloedd trefol a gwledig;
- Dull canol tref yn gyntaf;
- Hierarchaeth manwerthu, prif ardaloedd siopa a pharthau siopa;
- Parciau manwerthu a hamdden; a,
- Dyluniad a diogelwch blaen siopau.
- **SO4:** cyfrannu at synnwyr o le ac iechyd, lles ac amwynder cyffredinol cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y grwpiau poblogaeth presennol a rhai'r dyfodol fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 13 a 14

4.3.7 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol;
- Rhandiroedd newydd a diogelu rhandiroedd; ac,
- Addysg, iechyd a chyfleusterau cymunedol eraill.
- **SO5:** annog lles corfforol a meddyliol trwy ddarparu a diogelu mannau gwyrdd hygrych o ansawdd da a rhwydweithiau mannau hamdden.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 4, 6, 8, 12, 13, 14 a 15.

4.3.8 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Mannau hamdden;
- Datblygu a mannau hamdden; a,
- Diogelu mannau hamdden presennol.
- **SO6:** darparu datblygiad cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd trwy ymestyn y dewis o gludiant cynaliadwy i alluogi cymunedau Conwy i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol trwy annog pobl i wneud siwrneiau byrrach a mwy egniol ac effeithlon trwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnydd a dyluniad datblygiadau newydd.
- Amcanion cysylltiedig: pob amcan

4.3.9 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Cludiant Cynaliadwy, hygrychedd a datgarboneiddio;
- Cerbydau allyriadau isel iawn;



- Lliniaru effaith teithio;
- Llwybrau a chynlluniau cludiant;
- Canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol;
- Teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd;
- Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus; a,
- Safonau parcio;

Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy

- **SO7:** cefnogi ffyniant economaidd, arallgyfeirio ac adfywio yn hirdymor drwy fanteisio ar safle strategol Conwy yng nghyd-destun y rhanbarth ehangach a hyrwyddo strategaeth gyfannol ar gyfer twf cyflogaeth a thai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r mathau iawn mewn mannau hygrych a chynaliadwy, cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau busnes, hybu sgiliau ar gyfer swyddi â chyflogau da a darparu'r isadeiledd newydd angenrheidiol, a bydd hynny at ei gilydd yn galluogi busnesau newydd i sefydlu yng Nghonwy a'r busnesau presennol i dyfu.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12 a 13

4.3.10 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Datblygu economaidd;
- Isadeiledd cludiant a'r economi;
- Telathrebu;
- Arallgyfeirio ffermydd ac ehangu busnesau yn yr ardal wledig; a,

- Chlystyrau busnes.
- **SO8:** annog a chefnogi darpariaeth twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, wrth gydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau, cymunedau lleol a'r angen i ddiogelu amgylcheddau hanesyddol a naturiol.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 12, 13 a 15.

4.3.11 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Atyniadau hamdden a thwristiaeth cynaliadwy;
- Parth llety gwyliau Llandudno; a,
- Llety Gwyliau.
- **SO9:** hyrwyddo a chefnogi economïau gwledig cynaliadwy a ffyniannus trwy sefydlu menter newydd, ehangu busnes presennol a thrwy fabwysiadu dull adeiladol o ran amaethyddiaeth a newid arferion ffermio.
- Amcanion cysylltiedig: pob amcan

4.3.12 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Economi wledig Conwy;
- Arallgyfeirio ffermydd; ac,
- Ehangu busnesau yn yr ardal wledig.
- **SO10:** sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni, gan gynnwys hyrwyddo morlyn llanw, sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl i economi a chymunedau Conwy tra'n sicrhau fod yr effaith amgylcheddol a chymdeithasol mor isel â phosibl.



- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 11 a 13

4.3.13 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Sero net, ynni a newid hinsawdd;
- Cyflawni sero net mewn datblygiadau newydd;
- Adeiladau ynni effeithlon;
- Ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel a thechnoleg di-garbon parod;
- Gwrthbwyso a dal a storio carbon;
- Cysylltu â'r grid a storio ynni;
- Cynhyrchu ynni'n lleol;
- Grid clyfar a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal;
- Datblygiadau ynni gwynt a solar ar y tir; ac,
- Isadeiledd ar y tir sydd wedi'i gysylltu ag ynni adnewyddadwy ar y môr.
- **SO11:** cyfrannu at weithrediad yr economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effaith amgylcheddol lleiaf posibl a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunydd ar gyfer adeiladu.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 6, 7, 9, 10 a 15.

4.3.14 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Mwynau a gwastraff;
- Echdynnu mwynau;
- Diogelu creigiau caled ac adnoddau tywod a graean;

- Chwarel a pharthau clustogi ar gyfer safleoedd tirlenwi;
- Cynigion ar gyfer rheoli gwastraff; a,
- Defnydd o dir diwydiannol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

- **SO12:** diogelu a gwella asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol Conwy sydd o ansawdd uchel.
- Amcanion cysylltiedig: pob amcan

4.3.15 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Amgylchedd naturiol;
- Amgylchedd hanesyddol;
- Datblygiadau yn effeithio ar asedau hanesyddol;
- Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig;
- Adfywio drwy ddiwylliant;
- Newid hinsawdd a gwydnwch ecosystemau;
- Tirluniau dynodedig;
- Diogelu ardaloedd tirwedd arbennig;
- Lletemau glas;
- Coed, tirlunio a gwaith rheoli; a
- Gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig.
- **SO13:** cefnogi twf, adfywio a chyfleoedd datblygu mewn ardaloedd arfordirol, wrth fod yn ymwybodol ac ymatebol i'r heriau sy'n dod o bwysau naturiol hefyd.



- Amcanion cysylltiedig: pob amcan

4.3.16 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Ardaloedd a pharthau arfordirol;
- Cynlluniau rheoli traethlin a newid arfordirol; ac,
- Ardaloedd Arfordirol a Chynlluniau Morol.
- **SO14:** gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol cryf.
- **Amcanion cysylltiedig:** 1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, 12, 13 a 15.

4.3.17 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Isadeiledd gwyrdd;
- Bioamrywiaeth; a,
- Gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig.
- **SO15:** lleihau dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwysu darpariaeth datblygiad a golau i wella diogelwch, a gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr ac adnoddau dŵr gan gynnwys faint o ddŵr wyneb a dŵr daear sydd, a'i ansawdd.
- Amcanion cysylltiedig: Pob amcan

4.3.18 Y materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amcan yma yw:

- Rhinweddau amgylcheddol;
- Dŵr, aer, seinwedd a golau;
- Cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy; a,
- Rheoli perygl llifogydd.

4.4 Strategaeth ofodol

Cyflwyniad

4.4.1 Mae strategaeth ofodol y CDLIN yn nodi sut bydd y cynllun yn darparu'r weledigaeth, yr amcanion strategol ac yn mynd i'r afael â phrif faterion sy'n effeithio ar ardal CDLIN Conwy. Mae rhan nesaf y CDLIN yn nodi'r Fframwaith Polisi Creu Lleodedd a pholisïau ategol a fydd yn cael eu defnyddio i gefnogi a datblygu'r gwaith o gyflawni'r strategaeth newydd.

4.4.2 Mae'r strategaeth hon yn benllanw meithrin consensws yn eang ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn flaenorol. Mae'n rhaid iddo ystyried y sail dystiolaeth allweddol a nodi faint o gyflogaeth a thwf tai sydd ei angen hyd at 2033 a lle y dylid lleoli'r twf yma. Caiff ei gefnogi gan hierarchaeth aneddiadau.

- Nodyn i'r darlennydd
- Mae'r CDLIN i'w harchwilio gan y cyhoedd a gyflwynir yn benllanw meithrin consensws yn eang ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn flaenorol.
- Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cael ei gefnogi gan sail tystiolaeth ar ffurf 73 o Bapurau Cefndir, sydd wedi ysbrydoli ymgynghoriadau blaenorol a'r ymagwedd y CDLIN i'w harchwilio gan y cyhoedd (cyfeiriwch at Atodiad 4 i gael rhestr lawn o ddogfennau tystiolaeth gefndirol).
- Mae'r holl bapurau ymgynghori blaenorol a thystiolaeth newydd ar gael yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y Cyngor. Nid bwriad y rhan yma yw ailadrodd y prif bwyntiau trafod yn y papurau yma a'r dogfennau sail tystiolaeth. Caiff darllenwyr eu hannog i ddarllen y

dogfennau pwysig yma ochr yn ochr â'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd.

Strategaeth y CDLIN

4.4.3 Mae Strategaeth y CDLIN yn hyrwyddo llefydd cynaliadwy hyd at 2033. Wrth gynllunio ar gyfer llefydd cynaliadwy yn ardal CDLIN Conwy, mae'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd yn ceisio croesawu egwyddorion datblygu cynaliadwy, y cysyniad o greu lleoedd a sefydlu'r dyletswyddau a osodwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2025. Mae'r strategaeth newydd yn cynnwys y canlynol:

- **Lefel Twf** – faint o dai a swyddi sydd wedi'u cynllunio hyd at 2033
- **Strategaeth dosbarthiad gofodol** – yn nodi ble fydd y lefel twf newydd yn cael ei leoli mewn modd cynaliadwy.
- **Egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy** – yn manylu ar y prif egwyddorion datblygu a chreu lleoedd cynaliadwy y dylid eu dilyn er mwyn cyflawni'r amcan o lefydd cynaliadwy yn ardal CDLIN Conwy.
- **Prif gyfansoddion y strategaeth** – yn manylu ar brif gyfansoddion y strategaeth y dylid eu dilyn er mwyn sicrhau bod y strategaeth newydd yn cydymffurfio ac yn cael ei gyflawni.

4.4.4 Mae'r Strategaeth yn annog twf yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r newidiadau mewn poblogaeth ac aelwydydd dros gyfnod y Cynllun a'r angen i hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys, lleihau lefelau cymudo allan, hwyluso twf swyddi a chynyddu nifer y tai fforddiadwy yn ardal y Cynllun.

4.4.5 Mae dosbarthiad y twf yn adlewyrchu ar nifer o ffactorau allweddol yn cynnwys cynaliadwyedd aneddiadau a'u poblogaeth, hygyrchedd, capasiti isadeiledd, yr angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd, amddiffyn, hybu a gwella'r Gymraeg a chreu cymunedau iachach i bawb. Mae'r strategaeth hefyd wedi'i dylanwadu gan y lefel uchel o gyfyngiadau a materion o ran argaeledd tir sy'n gysylltiedig â dwyrain y Fwrdeistref Sirol. Ar yr un pryd, mae'r strategaeth newydd arfaethedig yn dangos gallu i gyflawni drwy ystyried beth sydd wedi cael ei gyflawni yn y gorffennol a sut y bydd yn cael ei gyflawni hyd at 2033.

4.4.6 Mae'r strategaeth yn derbyn er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a lles gwell, mae'n rhaid cynllunio ar gyfer strwythur oedran mwy cytbwys. Mae yna heriau ynghlwm â hyn, gan fod y boblogaeth iau yn disgyn a'r boblogaeth hŷn yn cynyddu ar draul creu lleoedd cynaliadwy yn ardal CDLIN Conwy. Mae'n rhaid taro'r cydbwysedd drwy ddarparu'r lefel gywir o dai a thwf cyflogaeth a'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol i annog y boblogaeth iau i aros a dychwelyd i'r ardal, ond hefyd i'r boblogaeth hŷn fyw bywydau iach ac egniol.

4.4.7 Mae'r strategaeth newydd yn gyson â golau lles, prif egwyddorion cynllunio a chanlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol yn cynnwys lleihau'r angen i deithio a hygyrchedd cynyddol drwy ffurfiau eraill heblaw car preifat. Mae cydbwysedd eang a hyblygrwydd rhwng tai a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cael ei hyrwyddo er mwyn lleihau'r angen am gymudo pellter hir. Mae'r strategaeth yn mabwysiadu dull i leoli'r prif resymau sy'n achosi galw mawr am deithio, megis tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, cyfleusterau hamdden a chymunedol (yn cynnwys llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd teulu ac ysbytai), o fewn



ardaloedd trefol sydd eisoes yn bodoli neu mewn lleoliadau eraill sydd yn, neu y gellir eu cyrraedd yn hawdd drwy gerdded neu feicio, neu eu bod yn hawdd i'w cyrraedd ar gludiant cyhoeddus. Lle y bo'n bosibl, mae'r strategaeth yn ceisio lleoli datblygiad â dwysedd uwch yn agos at leoliadau cludiant cyhoeddus mawr neu gyfnewidfeydd lle mae gan yr isadeiledd cludiant y capasiti i ddelio â mwy o ddefnyddwyr ac sy'n cyd-fynd â chynnal iechyd, amwynderau a lles pobl.

Twf y gellir ei gyflawni a'i gynnal

4.4.8 Bydd y CDLIN yn gwneud darpariaeth ar gyfer y lefel ganlynol o dwf dros gyfnod y cynllun rhwng 2018 a 2033. Mae'r twf a gynigir ychydig uwch na senarios y mae LIC yn eu rhagweld. Serch hynny, mae'r twf a gynigir yn adlewyrchu newidiadau poblogaeth a thai (Papur Cefndir 1 Adroddiad Opsiynau Lefel Twf), rhagolygon cyflogaeth yn lleol a rhanbarthol, yn cynnwys goblygiadau Bargaen Dwf Gogledd Cymru (Papur Cefndir 18 Adolygiad Tir Cyflogaeth) ac anghenion tai fforddiadwy (Papur Cefndir 09 Asesiad o Farchnad Dai Leol, Papur Cefndir 10 Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy, Papur Cefndir 11 Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Cymunedol Lleol), gan arwain at angen am y lefelau twf canlynol:

- 4,300 o gartrefi newydd a
- 1,500 o swyddi newydd

4.4.9 Mae'r fethodoleg ar gyfer y senario twf yma'n wahanol i'r fethodoleg rhagolygon traddodiadol a ddefnyddir i asesu opsiynau eraill. Caiff effeithiau ar y boblogaeth, aelwydydd ac anheddau eu cyfrifo gan ddefnyddio methodoleg adrifo am yn ôl sydd yn addasu cyfansoddiad newid yn y boblogaeth (lefelau mudo ymysg y boblogaeth oedran gweithio a'u dibynyddion yn

bennaf), i baru twf swyddi gyda lefelau twf yn y boblogaeth. Mae Papur Cefndir 01: Adroddiad Opsiynau Lefel Twf yn cynnwys rhagor o fanylion.

Twf a math o gartrefi

4.4.10 Mae lefel cyfannol o dai a thwf cyflogaeth yn cael ei hyrwyddo. Bydd y CDLIN yn gyfle i ddarparu 4,300 o gartrefi dros gyfnod y cynllun. Mae hyn gyfystyr a 290 o gartref bob blwyddyn o 2018 i 2033.

4.4.11 Mae'r strategaeth newydd yn sicrhau bod digon o gyfle yn bodoli i fanteisio ar ddarpariaeth fforddiadwy i gefnogi anghenion tai gwledig a threfol, tra'n darparu sylfaen gadarn i ddarparu tai'r farchnad agored y gellir eu cyflawni. Mae'n rhoi cyfle i gydbwyso demograffeg y Fwrdeistref Sirol drwy gadw oedolion ifanc sy'n mewnfudo, a lleihau cymudo allan, a mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â strwythur poblogaeth sy'n heneiddio.

Cartrefi a hyblygrwydd

4.4.12 Y gofyniad tai gwaelodlin ar gyfer ardal CDLIN Conwy yw 4,300, sydd hefyd yn adlewyrchu cyflenwad posibl allai gael ei ddarparu o fewn ardal Parc Cenedlaethol Eryri o'r Fwrdeistref Sirol (100 o gartrefi dros gyfnod y cynllun). Mae'r ffigur 4,300 yn cynnwys lwfans hyblygrwydd o 700 o anheddau. Mae LIC angen hyn i ganiatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu'r stoc bresennol ac ar gyfer pan na fydd unrhyw un yn cymryd safleoedd.

Tai fforddiadwy

4.4.13 Mae targed uchelgeisiol ond un y gellir ei gyflawni i ddarparu 1,780 o dai fforddiadwy wedi'i gynllunio ar gyfer hyd at 2033. Mae'r targed hwn yn benllanw cynnal asesiad o anghenion tai



fforddiadwy y gymuned a llunio Asesiad o Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Papur Cefndir 10). Gellir darparu rhagor o dai fforddiadwy drwy fecanweithiau polisi eraill a mentrau'r Cyngor sydd y tu allan i gwmpas y CDLIN.

- 4.4.14 Fe fydd y strategaeth yn ceisio sicrhau bod cartrefi newydd yn bodloni'r angen fforddiadwy a nodwyd yn lleol ar gyfer yr ardal honno. Mae'r Prosbectws Tai Lleol a'r CDLIN wedi cael eu halinio fel y gellir manteisio ar y tai fforddiadwy newydd a ddarperir i fodloni'r angen a nodwyd yn lleol, drwy'r system gynllunio.

Twf a mathau o swyddi

- 4.4.15 Trwy greu lleoedd cynaliadwy, cyfrannu at strwythur oedran mwy cytbwys a lleihau lefelau cymudo allan anghynadwy, mae twf o 1,500 o swyddi'n cael ei gynllunio hyd at 2033, gan awgrymu angen am tua 14-20 hectar o dir cyflogaeth i ganiatáu ar gyfer swyddi newydd dros gyfnod y cynllun. Mae hyn yn adlewyrchu'r amcanion twf a chreu swyddi sy'n debygol o gael eu darparu ym Mwrdeistref Sirol Conwy drwy Fargen Dwf Gogledd Cymru. Bydd y strategaeth newydd yn cynllunio ar gyfer tir i ddelio â rhaniad o 65% ar gyfer defnydd B1c/B2/B8 a 35% ar gyfer defnydd B1a/b ar gyfer dyraniadau newydd.

Strategaeth dosbarthiad gofodol


- 4.4.16 Er mwyn sicrhau bod gweledigaeth ac amcanion y CDLIN yn cael eu darparu, mae'r strategaeth dosbarthiad gofodol yn arwain lleoliad twf a darpariaeth gwasanaethau ac isadeiledd tuag at y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy sydd wedi'u nodi yn yr hierarchaeth aneddiadau. Ar ôl nodi a deall anghenion a chynaliadwyedd ardaloedd trefol a gwledig presennol a nodwyd yn yr hierarchaeth aneddiadau, mae'r strategaeth yn cynnig

canolbwyntio 90% o dwf o fewn y CDSA a 10% o fewn y RDSA. Mae hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol â rhaniad presennol y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac mae yna fanteision o ddarparu anghenion a chyfleoedd i gymunedau trefol a gwledig.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA)

- 4.4.17 Mae'r CDSA yn cynnig y cyfle gorau i leoli twf, diwallu anghenion cymunedau, hyrwyddo teithio llesol, cymunedau iachach, mynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn y pen draw cydymffurfio ag egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy a phrif gyfansoddion strategaeth. Mae'n cynnwys pedwar ardal strategol ar hyd y coridor arfordirol, sy'n cynnwys y prif aneddiadau trefol, y Prif Bentrefi Haen 1 a nifer o aneddiadau llai eraill o fewn yr hierarchaeth aneddiadau (gweler **Error! Reference source not found.**).
- 4.4.18 Er na fydd y Prif Bentrefi Haen 1 yn gallu delio â'r un lefel o dwf â'r aneddiadau trefol, maent wedi cael eu cynnwys yn sgil eu hygyrchedd a'r berthynas gydag ardaloedd trefol a llwybrau cludiant strategol. O ganlyniad, mae'r CDSA yn cyfeirio 90% o'r datblygiad newydd yn bennaf o fewn, neu ger aneddiadau trefol sydd wedi'u lleoli o fewn y pedwar is-ardal strategol i'r Gorllewin, Creuddyn, Canol, ac i raddau llai, i'r Dwyrain (gweler Ffigur 3). Mae'r lleoliadau yma'n hygyrch i brif wasanaethau, mae ganddynt gysylltiad agos ag ardaloedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli, ac maent yn cael eu cefnogi gan rwydwaith ffordd, rheilffordd a chludiant cyhoeddus ardderchog, ac maent yn ffurfio prif ardaloedd sydd angen tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy.

Ffigur 3: map yn dangos prif ddiagram CDLIN



Ffynhonnell: SPSPS, CBSC

4.4.19 Fe fydd angen cael dull cytbwys wedi'i addasu i ddosbarthu'r twf o fewn y pedwar is-ardal arfordirol er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau perygl llifogydd lefel uchel sy'n gysylltiedig â'r Dwyrain yn cael eu hystyried yn llawn. O ganlyniad fe fydd y twf na ellir delio ag o yn y Dwyrain yn cael ei ddosbarthu'n gyfatebol ar draws yr is-ardaloedd sy'n weddill gan mai'r rhain yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy.

4.4.20 Er mwyn gallu delio â thwf, mae ffiniau aneddiadau a Lletemau Glas wedi cael eu hadolygu a'u diwygio. Ni chaniateir datblygiad y tu allan i ffiniau aneddiadau yn yr aneddiadau trefol a Phrif Bentrefi Haen 1 y CDSA, oni bai mewn amgylchiadau eithriadol i gefnogi newidiadau yn y galw am gyflogaeth (gweler polisi ED/3) ac i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddod â safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy ymlaen (gweler polisi HS/5).

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA): Y Gorllewin

4.4.21 Mae'r is-ardal yma ar ben gorllewinol ardal y CDLIN, wedi'i wahanu'n gorfforol o ardal Creuddyn gan benrhyn Penmaenbach ac mae Parc Cenedlaethol Eryri ar ei ffin ddeheuol. Llanfairfechan a Phenmaenmawr ydi'r ddau anheddiad trefol yn yr ardal strategol yma ac yn gyffredinol maent yn hunangynhwysol ac mae ganddynt lefel dda o gyfleusterau a gwasanaethau (cyfeiriwch at Ffigur 4).

4.4.22 I adlewyrchu lefelau'r boblogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, hygyrchedd da a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r dosbarthiad twf wedi'i addasu o'r Dwyrain, mae 10% o dwf tai (ar y farchnad agored a fforddiadwy) wedi'i gynllunio yn is-ardal y Gorllewin, yn cynnwys cyflawniadau, caniatâd, dyraniadau ar hap a newydd. Yn sgil topograffeg a'r tir sydd ar gael ym




Mhenmaenmawr, fe fydd mwyafrif y cartrefi newydd yn cael eu lleoli yn Llanfairfechan, sydd â hygyrchedd ardderchog i'r rhwydwaith rheilffordd a ffordd strategol a'r aneddiadau trefol sy'n uwch i fyny'r hierarchaeth.

4.4.23 Yn seiliedig ar gasgliadau Adroddiad Dadansoddiad o'r Farchnad Fasnachol (Papur Cefndir 19), ni fydd dyraniadau cyflogaeth newydd yn cael eu lleoli yn is-ardal y Gorllewin. Mae yna broblemau efo capasiti yn ysgol gynradd Llanfairfechan ac mae wedi cael ei nodi fel maes blaenoriaeth yn Rhaglen Amlinellol Strategol 9 mlynedd Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Gwasanaethau Addysg CBSC. Er mwyn sicrhau bod twf a thai newydd yn cael eu darparu, mae safle strategol defnydd cymysg newydd yn cael ei gynnig yn Llanfairfechan sy'n cynnwys 145 o gartrefi newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd a gofod hamdden. Bydd angen gwella'r ardal i gerddedwyr o'r ardaloedd preswyl a llwybrau teithio llesol i gefnogi cynaliadwyedd y safle ac ardal strategol (gweler polisi PL/17).

4.4.24 Mae Dwygyfylchi, sef Prif Bentref Haen 1, wedi'i leoli o fewn is-ardal y Gorllewin, fel y mae Pentrefan Capelulo. Maent wedi'u lleoli i'r dwyrain o aneddiadau trefol Llanfairfechan a Phenmaenmawr ac mae ganddynt fynediad da i'r aneddiadau trefol drwy'r rhwydwaith cludiant strategol a chludiant cyhoeddus. Bydd lefel y twf yn yr aneddiadau yma'n cyd-fynd â'r hierarchaeth aneddiadau ac yn adlewyrchu yr ystod bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau a'r rhai sydd wedi'u cynllunio dros gyfnod y cynllun.

Ffigur 4: map yn dangos is-ardal y gorllewin



Ffynhonnell: SPPS, CBSC

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA): Y Creuddyn

4.4.25 Llandudno, Cyffordd Llandudno, Deganwy a Chonwy ydi'r prif aneddiadau trefol yn yr ardal yma, ac mae ganddynt rôl ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd bwysig yn ardal y cynllun. Maent wedi'u lleoli'n strategol ac mae ganddynt gysylltiadau ardderchog i'r rhwydwaith ffordd, rheilffordd a chludiant cyhoeddus. Dros gyfnod y cynllun, rhagwelir y bydd tua 30% o dwf tai (ar y farchnad agored a fforddiadwy) yn cael eu lleoli o fewn is-ardal Creuddyn, yn cynnwys cyflawniadau, caniatâd dyraniadau ar hap a newydd.



4.4.26 Er ei fod yn faes pwysig ar gyfer twf, mae argaeledd tir wedi'i gyfyngu yn sgil materion corfforol, hanesyddol ac amgylcheddol. Safleoedd dan sylw:

- Llanrhos rhwng aneddiadau trefol Deganwy, Cyffordd Llandudno a Llandudno, yn cynnwys 140 o gartrefi newydd (yn cynnwys tai fforddiadwy), rhandiroedd a gofod hamdden.
- Hen Ysgol Nant y Coed yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer 50 o dai fforddiadwy newydd a gofod hamdden.
- Queen's Road yn Llandudno ar gyfer 70 o gartrefi newydd (yn cynnwys tai fforddiadwy) a gofod hamdden.
- Tir ym Mrynau, Llandudno ar gyfer 3.85 hectar o dir cyflogaeth dosbarth B1.

4.4.27 Mae'r safleoedd yma wedi'u cefnogi gan hygyrchedd ardderchog i'r A470 a A55 a dulliau eraill i gyrraedd yr aneddiadau trefol sy'n uwch i fyny'r hierarchaeth. Bydd angen gwelliannau i gludiant cyhoeddus, teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd.


4.4.28 Ni fydd yna fwy o siopau mawr nwyddau cymhariaeth neu nwyddau cyfleus yn dod i ganol tref Llandudno, ond bydd yn cael ei warchod, a lle y bo'n bosibl, yn cael ei wella er mwyn sicrhau cydbwysedd a chymysgedd o ddefnydd sy'n cynnal y gweithgarwch trwy gydol y dydd a'r nos. Bydd y cynnig twristiaeth a llety yn Llandudno yn cael ei warchod, ei wella a'i arallgyfeirio ymhellach tuag at dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Bydd Llandudno yn cydnabod y newidiadau mewn arferion siopa, yn enwedig y cynnig cymhariaeth.

4.4.29 Mae Cyffordd Llandudno yn gweithredu fel canolbwynt economaidd pwysig yng nghanol gogledd Cymru, ac mae ganddo gysylltiadau ffordd, rheilffordd a chludiant cyhoeddus ardderchog. Bydd safleoedd cyflogaeth pwysig sydd eisoes yn bodoli (fel y dangosir ar fap y cynnig) yn cael eu diogelu.

4.4.30 Ychydig o dwf tai a chyflogaeth fydd yng Nghonwy yn bennaf oherwydd ei ansawdd amgylcheddol a hanesyddol. O fewn canol tref Conwy bydd dull cytbwys yn cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu bodloni, ond ar yr un pryd, bod yr asedau hanesyddol ac amgylcheddol yn cael eu gwarchod a'u gwella i gyfrannu'n gadarnhaol at dwristiaeth.

4.4.31 Bydd aneddiadau eraill o fewn is-ardal Creuddyn hefyd yn cefnogi rhyw lefel o dwf, sy'n gymesur â'u lefel o fewn yr hierarchaeth aneddiadau (Ffigur 5). Mae Glan Conwy, sef Prif Bentref Haen 1, wedi'i leoli yn ne is-ardal Creuddyn ar hyd yr A470. Mae wedi'i leoli i'r de o anheddiad trefol Cyffordd Llandudno, ac mae ganddo fynediad da i'r aneddiadau trefol drwy'r rhwydwaith cludiant strategol a chludiant cyhoeddus. Bydd lefel y twf yng Nglan Conwy yn adlewyrchu yr ystod bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau a'r rhai sydd wedi'u cynllunio dros gyfnod y cynllun.

Ffigur 5: map yn dangos is-ardal Creuddyn



Ffynhonnell: SPSS, CBSC

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA): Y Canol

4.4.32 Dros gyfnod y cynllun, rhagwelir y bydd tua 35% o dwf tai (ar y farchnad agored a fforddiadwy) yn cael eu lleoli o fewn yr is-ardal Ganolog, yn cynnwys cyflawniadau, caniatâd dyraniadau ar hap a newydd.

4.4.33 Mae Bae Colwyn yn gwasanaethu anghenion manwerthu ac economaidd y dalgylch ac mae'n parhau i fwynhau buddsoddiad sylweddol a gwelliant i ganol y dref a'r traeth. Mae wedi'i leoli ar hyd y rhwydwaith rheilffordd a ffordd strategol ac mae yna ddigon o gludiant cyhoeddus a dulliau eraill o gludiant. I barhau â'r buddsoddiad, bydd yr ardal yn cael ei adnewyddu ymhellach dros gyfnod y cynllun.

4.4.34 Dyrannu safle preswyl i'r de o Hen Golwyn yn cynnwys 300 o gartrefi newydd (250 yn ystod cyfnod y CDLIN) a gofod hamdden. Bydd y safle'n cael ei gefnogi drwy wella'r briffordd, cludiant cyhoeddus a chysylltiadau teithio llesol. Os bydd angen cynyddu capasiti ysgolion cynradd lleol yn sgil y safle yma a/neu newid yn y boblogaeth, mae tir wedi cael ei ddiogelu ger Ysgol Sŵn y Don i ganiatáu ar gyfer estyniad newydd. Mae'r feddygfa leol, Cadwgan, yn llawn i'r eithaf ac nid oes lle i ddatblygu nac ymestyn yr adeilad presennol. Mae CBSC a BIPBC wedi cytuno ar Ddatganiad Tir Cyffredin sy'n cynnwys nifer o fesurau lliniaru i helpu i ddelio ag unrhyw gleifion ychwanegol y bydd y datblygiad yma'n ei greu. Ceisir swm gohiriedig gan ddatblygiadau preswyl newydd yn ardal Hen Golwyn helpu i hwyluso mesurau o'r fath (yn amodol ar dystiolaeth a hyfywedd ariannol).


4.4.35 Mae ail safle wedi'i glustnodi yn yr ardal yma yn hen swyddfeidd y llywodraeth oddi ar Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos. Fe fydd y safle'n darparu 50 o gartrefi fforddiadwy newydd a gofod hamdden.

4.4.36 Mae Llysfaen, sef Prif Bentr Hafn 2, wedi'i lleoli o fewn y CDSA yn sgil ei berthynas â Hen Golwyn. O ran tir at ddefnydd economaidd, yn sgil lefel uchel o hygyrchedd strategol,



argaeledd tir a chapasiti priffyrdd, mae tir wedi cael ei glustnodi yn Chwarel Llanddulas at ddefnydd cyflogaeth (mae rhywfaint ohono o fewn ffin Llysfaen, ac mae'r gweddill ohono o fewn ardal Llanddulas). Cyfanswm maint y safle ydi 12.65 hectar ac mae wedi'i glustnodi ar gyfer cymysgedd o ddefnydd cyflogaeth Dosbarth B. Mae Pentrefan Bryn y Maen yn agos at Fae Colwyn Uchaf, serch hynny, mae cynaliadwyedd yr anheddiad yma wedi'i gyfyngu gan gysylltiadau strategol i'r prif ffyrdd a rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd agwedd y polisi i'r aneddiadau yma dros gyfnod y cynllun yn cael ei ddylanwadu gan eu safle yn yr hierarchaeth aneddiadau, a bydd lefel y twf yn adlewyrchu anghenion lleol a'r ystod bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Ffigur 6: map yn dangos yr is-ardal Ganolog



Ffynhonnell: SPSS, CBSC

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA): Y Dwyrain

- 4.4.37 Mae is-ardal y Dwyrain yn cynnwys aneddiadau trefol Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel a Phrif Bentref Haen 1 Llanddulas fel y prif leoliadau preswyl ac economaidd. Mae'r ardal yn gwasanaethu anghenion gwasanaeth hanfodol y dalgylch, yn cynnwys ardal weledig ehangach.
- 4.4.38 Mae Abergele wedi gweld lefelau uchel o dai a thwf cyflogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn ei dro mae hyn wedi rhoi straen sylweddol ar gapasiti traffig yng nghanol y dref. Bydd datblygiad yn Abergele wedi'i gyfyngu dros gyfnod y cynllun ac nid oes safleoedd newydd wedi'u clustnodi. Bydd ffocws ar adfywio ardaloedd Abergele a Phensarn wedi'u cefnogi gan ymyriadau newydd yng nghanol y dref.
- 4.4.39 Mae is-ardal y Dwyrain hefyd yn cynnwys aneddiadau trefol Pensarn, Towyn a Bae Cinmel. Mae yna gyfyngiadau mawr ar yr ardaloedd yma yn sgil perygl llifogydd gan olygu mai ychydig o gyfleoedd sydd yna i allu delio â thwf tai a chyflogaeth dros gyfnod y cynllun. Mae yna amddifadedd yn yr ardal yma, ac mae cyfleoedd i ddarparu anghenion y gymuned yn gyfyngedig. Mae'r ardal yn destun gwelliannau i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd er mai dim ond i gynnal yr amddiffyniad mae hyn yn hytrach na helpu gyda chyfleoedd am dwf. Mae'r cyfyngiadau yma a diffyg cyfle i ddatblygu yn cael ei gydnabod yn strategaeth CDLIN drwy hybu Ardal Wella Ddwyreiniol newydd.
- 4.4.40 O ganlyniad, dros gyfnod y cynllun, rhagwelir y bydd tua 15% o dwf tai (ar y farchnad agored a fforddiadwy) yn cael eu lleoli o fewn is-ardal y Dwyrain, yn cynnwys cyflawniadau, caniatâd,




dyraniadau ar hap a newydd. Ni fydd dyraniadau tai newydd yn cael eu clustnodi yn yr ardaloedd yma.

4.4.41 Mae Llanddulas, Prif Bentrref Haen 1, wedi'i lleoli ar hyd y rhwydwaith ffordd a chludiant cyhoeddus strategol, ac mae Abergele i'r dwyrain a Bae Colwyn i'r gorllewin. Bydd lefel y twf yn cael ei gefnogi drwy'r CDLIN a bydd yn adlewyrchu yr ystod bresennol o gyfleusterau a gwasanaethau a'r rhai sydd wedi'u cynllunio dros gyfnod y cynllun. O ganlyniad i lefel uchel o hygyrchedd strategol, argaeledd tir a chapasiti priffyrdd, mae rhan o'r tir sydd wedi cael ei glustnodi yn Chwarel Llanddulas at ddefnydd cyflogaeth o fewn ardal Llanddulas. (Mae'r gweddill o fewn ffin Llysfaen). Cyfanswm maint y safle ydi 12.65 hectar ac mae wedi'i glustnodi ar gyfer cymysgedd o ddefnydd cyflogaeth Dosbarth B. Mae hyn yn sgil lefel uchel o hygyrchedd strategol, argaeledd tir a chapasiti prif ffyrdd.

4.4.42 Bydd yr angen am dwf na ellir delio ag o yn y Dwyrain yn cael ei rannu drwy'r aneddiadau trefol cynaliadwy sy'n weddill o fewn y CDSA.

Ffigur 7: map yn dangos is-ardal y Dwyrain



Ffynhonnell: SPPS, CBSC

Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA)

4.4.43 Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig yn RDSA Conwy, mae'r cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir a chynyddu cerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn fwy cyfyngedig nag yn CDSA. Felly, bydd aneddiadau mewn ardaloedd gwledig yn canolbwyntio ar dwf ac arallgyfeirio lleol yn dibynnu ar eu cynaliadwyedd a'u safle yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae Llanrwst wedi'i diffinio fel Canolfan Wasanaethau Allweddol sy'n gwasanaethu llawer o gefn gwlad ardal CDLIN Conwy, a dyma lle y bydd datblygiad cyflogaeth a thwf yn cael ei ganolbwyntio yn yr ardaloedd gwledig.

4.4.44 Bydd economi wledig gref yn cael ei hybu er mwyn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus. Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau newydd yn hanfodol o ran twf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig, gyda chefnogaeth y tai gofynnol a'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol.

4.4.45 Mae'r strategaeth newydd yn canolbwyntio 10% o dwf tai ar aneddiadau gwledig sydd â hygyrchedd cymharol dda drwy ddulliau heblaw mewn car, o'i gymharu â'r ardal weledig yn gyffredinol. Bydd 10% o gyflogaeth hefyd yn cael ei leoli yn y RDSA.

4.4.46 Mae mwyafrif y twf gwledig wedi'i leoli yn Llanrwst, sef anheddiad sy'n cefnogi'r cymunedau gwledig ehangach o ran cyflogaeth, manwerthu a gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Llanrwst ydi'r anheddiad mwyaf a mwyaf cynaliadwy yn yr RDSA, mae wedi'i leoli tua 13 milltir o aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno a Chonwy. Caiff ei wasanaethu'n bennaf gan brif ffordd yr A470, ac mae'r A548 a B5106 hefyd yn darparu cysylltiadau ffordd lleol, tra bod rheilffordd Dyffryn Conwy yn cysylltu â rhwydwaith rheilffordd strategol yr arfordir. Er mwyn annog datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy mae safle a glustnodwyd yn Llanrwst yn cael ei gynnig sy'n cynnwys 100 o gartrefi newydd (ar y farchnad agored a fforddiadwy) a gofod hamdden ar hyd yr A470. Bydd tir cyflogaeth gwag yn Safle Diwydiannol Tŷ Gwyn hefyd yn cael ei ddiogelu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.


4.4.47 Mae ffin anheddiad Llanrwst a'r Lletemau Glas wedi cael eu hadolygu. Bydd datblygiad y tu allan, ond ar ymylon ffin anheddiad Llanrwst yn cael ei ganiatáu, mewn amgylchiadau eithriadol i gefnogi newidiadau mewn galw am gyflogaeth ac i

ddarparu safleoedd tai fforddiadwy, lle nad oes yna unrhyw effeithiau annerbyniol.

4.4.48 Mae mwyafrif y Prif Bentrefi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau hefyd wedi'u lleoli yn yr RDSA (Ffigur 8), ac mae lefelau twf cyflogaeth a thai yn y cymunedau yma'n gysylltiedig â'u hanghenion am ddatblygiad economaidd a phreswyl, yn seiliedig ar hierarchaeth aneddiadau.



Ffigur 8: map yn dangos is-ardal Gwledig



Ffynhonnell: SPPS, CBSC



Ffigur 9: hierarchaeth aneddiadau CDSA

Hierarchaeth Aneddiadau	Y Gorllewin	Y Creuddyn	Y Canol	Y Dwyrain
Trefol	Llanfairfechan, Penmaenmawr	Conwy, Cyffordd Llandudno, Deganwy / Llanrhos, Llandudno, Bae Penrhyn / Ochr y Penrhyn	Llandrillo-yn-rhos, Mochdre, Bae Colwyn, Hen Golwyn	Abergele/ Pensarn, Towyn, Bae Cinmel
Prif Bentreffi Haen 1	Dwygyfylchi*	Glan Conwy	Amherthnasol	Llanddulas
Prif Bentreffi Haen 2	Amherthnasol	Amherthnasol	Llysfaen	Amherthnasol
Mân Bentreffi	Amherthnasol	Bryn Pydew, Glanwydden, Pentrefelin	Amherthnasol	Rhyd y Foel, Llansan Siôr
Pentrefannau	Capelulo*	Amherthnasol	Bryn y Maen	Bodtegwel

* Aneddiadau sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn rhannol Ffynhonnell: SPPS, CBSC

Ffigur 10: tabl yn dangos hierarchaeth aneddiadau RDSA

Hierarchaeth Aneddiadau	Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA)
Canolfan Gwasanaeth Allweddol	Llanrwst
Prif Bentreffi Haen 2	Betws yn Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog*, Eglwysbach, Llanfair TH, Llangernyw, Llansannan, Trefriw*, Tal y Bont*/Castell
Mân Bentreffi	Groes, Henryd, Llanbedr y Cennin*, Llanddaged, Llanellian, Llangwm, Llanefydd, Pentrefoelas, Tal y Cafn, Tyn y Groes
Pentrefannau	Bryn Rhyd-yr-Arian, Brymbo, Bylchau, Cefn Berain, Cefn Brith, Dinmael, Glasfryn, Groesffordd, Gwytherin, Hendre, Llanfihangel GM, Maerdy, Melin y Coed, Nebo*, Pandy Tudur, Pentre Isa, Pentre Llyn Cymmer, Pentre Tafarn y Fedw, Rhydlydan, Tan y Fron

* Aneddiadau sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn rhannol. Ffynhonnell: SPPS, CBSC

Hierarchaeth Aneddiadau: aneddiadau trefol a'r Ganolfan Wasanaethau Allweddol

- 4.4.49 Yr aneddiadau trefol yn y CDSA a Llanrwst yn y RDSA ydi'r prif ffocws ar gyfer datblygiad preswyl ac economaidd dros gyfnod y cynllun, a bydd yn parhau i fod yn brif ffocws. Dyma'r aneddiadau mwyaf gyda phoblogaeth o leiaf 3,000, a'r aneddiadau yma sydd â'r cysylltiadau cludiant, cyfleusterau a gwasanaethau gorau i fodloni anghenion eu preswylwyr.
- 4.4.50 Bydd datblygiadau economaidd presennol ac arfaethedig yn yr aneddiadau yma sy'n cefnogi swyddi lleol yn cael eu cefnogi. Mae safleoedd wedi'u nodi yn Llanfairfechan, Llanrhos, Cyffordd Llandudno, Llandudno, Hen Golwyn, Llandrillo-yn-Rhos a Llanrwst sydd yn bodloni'r angen am ystod o ddarpariaeth cyflogaeth, preswyl, rhandiroedd, addysg a gofod hamdden. Er mwyn darparu cyfleoedd i ddarparu mwy o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, bydd datblygiadau ar gyfer 100% o dai fforddiadwy yn cael eu caniatáu ar safleoedd addas y tu allan, ond yn gyfagos ag aneddiadau trefol a'r Ganolfan Wasanaethau Allweddol.

Hierarchaeth Aneddiadau: Prif Bentrefi Haen 1

- 4.4.51 Mae'r CDLIN yn nodi tri Phrif Bentref Haen 1, sydd yn llai eu maint a gyda llai o wasanaethau a chyfleusterau lleol na'r aneddiadau trefol, felly bydd lefel o dwf sy'n cael ei gefnogi dros gyfnod y cynllun yn gymesur is yn gyffredinol. Wedi dweud hynny, mae Prif Bentrefi Haen 1 wedi'u lleoli mewn lleoliadau cynaliadwy iawn gyda mynediad da at gysylltiadau cludiant a'r aneddiadau trefol, felly fe fydd rhai safleoedd datblygu yn cael eu caniatáu yn y lleoliadau hyn yn unol â'r Fframwaith Polisi Creu Lleoedd.

- 4.4.52 Nid oes yna ddyraniadau o fewn Prif Bentrefi Haen 1. Fe fydd y polisi yn canolbwyntio ar ddarparu 50% o dai fforddiadwy ar safleoedd o fewn ffiniau anheddiad Prif Bentrefi Haen 1. Efallai y bydd lefelau is o fewn yr aneddiadau yn cael eu caniatáu ar safleoedd o'r fath, yn amodol ar angen yn y gymuned ac asesiad hyfywedd. Er mwyn darparu cyfleoedd i ddarparu mwy o dai fforddiadwy, fe ganiateir i ddatblygiadau ar safleoedd addas y tu allan, ond yn gyfagos â Phrif Bentrefi Haen 1, yn amodol ar isafswm darpariaeth o 100% o dai fforddiadwy.

Hierarchaeth Aneddiadau: Prif Bentrefi Haen 2

- 4.4.53 Mae'n hollbwysig bod Prif Bentrefi Haen 2 yn gallu cynnal eu hunain er mwyn creu lleoedd cynaliadwy. Yn bennaf mae'r aneddiadau yma'n gwasanaethu eu cymuned leol ac felly bydd twf lleol ac arallgyfeirio yn cael ei hybu i gadw hunaniaeth gymunedol, gwarchod y Gymraeg ac annog strwythur oedran mwy cytbwys.
- 4.4.54 Ni fydd tir yn cael ei glustnodi ar gyfer datblygiad newydd yn y Prif Bentrefi Haen 2. Fel arall, caiff dull hyblyg ei hybu o fewn ffiniau'r anheddiad. Bydd mentrau newydd a busnesau sy'n tyfu hefyd yn cael eu cefnogi. Bydd ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol yn cael ei fabwysiadu, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas ag arferion ffermio sy'n newid, neu sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Bydd ymagwedd gadarnhaol at drosi adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â dull cadarnhaol o ran prosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig yn cael eu mabwysiadu.



4.4.55 Gan gydnabod darpariaeth tai yn y gorffennol yn yr aneddiadau gwledig yma, bydd rhagor o hyblygrwydd yn cael ei ddefnyddio. Caniateir tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy o fewn ffiniau aneddiadau ar safleoedd ar hap. Ar y cyfan, bydd cynlluniau o'r fath yn llai nag aneddiadau yn uwch ar yr hierarchaeth er mwyn amddiffyn yr amgylchedd naturiol a chymeriad yr anheddiad. Gellir caniatáu safleoedd eithriadau tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth y tu allan, ond yn gyfagos â ffiniau anheddiad ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr anheddiad a lle nad oes yna unrhyw effeithiau annerbyniol.

Hierarchaeth Aneddiadau: Mân Bentrefi

4.4.56 Mae Pentrefi Bach yn profi'r un problemau â chymunedau gwledig eraill ond maent yn fwy hunangynhwysol na Phrif Bentrefi Haen 2. Y flaenoriaeth i'r Pentrefi Bach yw gwella hyfywedd, amddiffyn hunaniaeth y gymuned a chreu strwythur oedran mwy cytbwys. Mae'r aneddiadau yma'n gwasanaethu eu poblogaeth leol yn dda ond mae ganddynt lai o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol na'r aneddiadau gwledig eraill yn uwch i fyny'r hierarchaeth, ac felly dylid eu gwarchod a'u hybu.

4.4.57 Nid oes unrhyw ffiniau aneddiadau ar gyfer Pentrefi Bach ac ni wnaed unrhyw ddyraniadau safle. Fel arall, bydd lefel briodol o ddatblygiad yn cael ei gefnogi i fodloni twf lleol ac arallgyfeirio. Fe ganiateir sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau newydd gyda chefnogaeth y tai gofynnol a'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol sy'n briodol i gymeriad yr anheddiad. Fe fydd datblygiad ar lefel is na'r hyn a ganiateir mewn aneddiadau gwledig sy'n uwch i fyny'r hierarchaeth.

4.4.58 Bydd ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol yn cael ei fabwysiadu, yn enwedig y rhai a

gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas ag arferion ffermio sy'n newid. Bydd trosi adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â dull cadarnhaol o ran prosiectau arallgyfeirio mewn Pentrefi Bach yn cael eu mabwysiadu.

4.4.59 Bydd mwy o hyblygrwydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu tai i fodloni anghenion dros gyfnod y cynllun. Fe ganiateir tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy o fewn cyfyngiadau'r aneddiadau ar safleoedd ar hap, lle mae'n cynrychioli mewnlenni neu derfynu safle. Ar y cyfan bydd cynlluniau o'r fath yn llai nag aneddiadau gwledig yn uwch ar yr hierarchaeth er mwyn amddiffyn yr amgylchedd naturiol a chymeriad yr ardal leol. Gellir caniatáu safleoedd eithriadau tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth ar safleoedd sydd gyfagos ag aneddiadau ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr anheddiad a lle nad oes yna unrhyw effeithiau annerbyniol.

Hierarchaeth Aneddiadau: Pentrefannau

4.4.60 Pentrefannau ydi'r haen isaf o aneddiadau a nodir yn CDLIN Conwy, ac maent fel arfer yn cynnwys clystyrau bychan iawn o tua 20-50 o dai. Mae cyfleusterau lleol a chyfleusterau cludiant cyhoeddus yn wael ar y cyfan, gan wneud y rhain yn lleoliadau llai cynaliadwy ar gyfer datblygiad cyflogaeth neu breswyl newydd. Wedi dweud hynny, gan gydnabod bod dal angen am dai newydd mewn cymunedau gwledig iawn, fe ganiateir datblygiad preswyl cyfyngedig, wedi'i arwain gan alw lleol.

4.4.61 Nid oes yna ffiniau anheddiad mewn Pentrefannau, ond ar safleoedd addas o fewn yr anheddiad, sy'n mewnlenni neu derfynu safle, fe ganiateir elfen o dai'r farchnad agored i gefnogi darparu tai fforddiadwy. Dim ond mewn amgylchiadau



eithriadol y caniateir i aneddiadau ymestyn, ar safleoedd sy'n gyfagos i'r Pentrefan presennol er mwyn darparu 100% o dai fforddiadwy, yn amodol ar gydymffurfiaeth â pholisïau eraill.

Hierarchaeth Anheddiad: Cefn Gwlad Agored

4.4.62 Mae cefn gwlad agored, y tu allan i unrhyw aneddiadau cydnabyddedig, yn adnodd deinamig amlbwrpas ac mae'n rhaid ei gadw, a lle y bo'n bosibl, ei wella ers lles ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffeg, hanesyddol, archeolegol, diwylliannol ac amaethyddol ac am ei dirwedd ac adnoddau naturiol. Mae Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u diffinio i warchod yr ardaloedd hynny sydd yn gwneud cyfraniad eithriadol i asedau'r dirwedd. Bydd yr angen i warchod y priodoleddau hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. Er y dylid diogelu cefn gwlad agored lle bo'n bosibl, dylid cefnogi ehangu busnesau sydd eisoes wedi'u lleoli mewn cefn gwlad agored, cyn belled â nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.

Creu lleoedd cynaliadwy a lles gwell

4.4.63 Lleoedd cynaliadwy a lles gwell ydi blaenoriaeth CDLIN Conwy. Wrth gynllunio ar gyfer lleoedd cynaliadwy, mae'r strategaeth yma'n croesawu egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd. Dylai pob penderfyniad am ddatblygiad o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy geisio cyfrannu tuag at wneud lleoedd cynaliadwy a lles gwell, yn unol â'r Fframwaith Gofodol a'r Fframwaith Polisi Creu Lleoedd. Dylai'r CDLIN gyfarwyddo datblygiad i greu lleoedd cynaliadwy, sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Bydd gweithredu fel hyn yn sicrhau bod y CDLIN yn

sefydlu ysbryd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ceisio cymryd camau cadarnhaol i greu lleoedd cynaliadwy a gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac ieithyddol cymunedau.

Prif gyfansoddion strategaeth ofodol

4.4.64 Mae'r strategaeth ofodol newydd wedi cael ei llunio ar ôl cael ei hystyried yn erbyn nifer o brif gyfansoddion strategaeth sydd yn seiliedig ar y Papurau Cefndir, y materion a nodwyd a'r amcanion arfaethedig. Mae nifer o brif gyfansoddion strategol wedi dylanwadau ar y strategaeth yma er mwyn sicrhau ei fod yn iawn ar gyfer CDLIN Conwy:



Ffigur 11: tabl yn dangos prif gyfansoddion strategaeth

Prif gyfansoddion strategaeth	Wedi'i ystyried yn y strategaeth
Wedi ystyried strategaethau, cynlluniau, polisïau a thystiolaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol.	Ydi
Wedi ystyried Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, 5 egwyddor cynllunio a chanlyniadau cynaliadwy.	Ydi
Ceisio creu lleoedd cynaliadwy a chroesawu creu lleoedd cynaliadwy.	Ydi
Yn hyrwyddo lleoedd iach, cydraddoldeb a lles yng Nghonwy.	Ydi
Yn hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys ac yn ceisio lleihau cymudo allan trwy gyflenwi ac amddiffyn y lefel cywir o gartrefi, swyddi a chyfleusterau cymunedol i gefnogi cadw a dychwelyd y boblogaeth iau sydd yn fwy gweithgar yn economaidd.	Ydi
Yn hyrwyddo strategaeth gyfannol ac yn galluogi ar gyfer cartrefi newydd a chyflogaeth i gael ei ddarparu yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i adlewyrchu cynaliadwyedd, hygrychedd a rhinweddau swyddogaethol aneddiadau, gwasanaethau a chyfleusterau a'r gallu i ddelio â thwf.	Ydi
Yn cydnabod y lefel uchel o berygl llifogydd a chyfyngiadau priffyrdd yn Nwyrain y Fwrdeistref Sirol a'r angen i symud ymlaen â buddsoddi ac adfywio i hyrwyddo cymunedau gwydn.	Ydi
Yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer isadeiledd cyfleustodau a chymunedol angenrheidiol i gefnogi twf.	Ydi
Yn geisio darparu 4,300 o gartrefi newydd a 1,760 o dai fforddiadwy wedi'u cefnogi gan yr isadeiledd cyfleustodau a chymunedol gofynnol.	Ydi
Yn ceisio cynyddu'r nifer o unedau tai llai, cyfleoedd ar gyfer byw wedi'i addasu a rhaniad priodol o dai fforddiadwy.	Ydi
Yn gallu cael ei gyflawni ac yn adlewyrchu ar gyfraddau adeiladu o'r gorffennol a chapasiti y diwydiant datblygu.	Ydi
Yn hyrwyddo mwy o hyblygrwydd mewn ardaloedd gwledig er mwyn adlewyrchu anhawster darparu cynlluniau tai ac yn y pendraw, darparu ar gyfer fframwaith sy'n amddiffyn hunaniaeth cymuned a chefnogi twf lleol.	Ydi



Prif gyfansoddion strategaeth	Wedi'i ystyried yn y strategaeth
Yn darparu ar gyfer 1,500 o swyddi newydd i gyfrannu at dwf economaidd a chreu swyddi sy'n adlewyrchu Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy, Bargen Dwf Gogledd Cymru a chyflenwad isadeiledd, tra'n darparu hyblygrwydd am newidiadau mewn galw economaidd ar yr un pryd.	Ydi
Yn adlewyrchu Dadansoddiad o Farchnad Cyflogaeth Conwy o ran y lleoliad priodol ar gyfer twf cyflogaeth newydd.	Ydi
Yn cydnabod argaeledd cyfyngedig tir a ddatblygwyd eisoes, ond ar yr un pryd yn blaenoriaethu cyfleoedd tir a ddatblygwyd eisoes lle y bo'n addas, a lle y gellir eu cyflawni, cyn tir glas.	Ydi
Yn hyrwyddo lefel priodol o ddatblygiad mewn aneddiadau gwledig i fodloni twf lleol ac arallgyfeirio.	Ydi
Mewn ardaloedd gwledig, mae'n cadw rhinweddau sy'n cael eu cydbwysu yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.	Ydi
Yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas ag arferion ffermio sy'n newid, neu sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Bydd ymagwedd gadarnhaol at drosi adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â dull cadarnhaol o ran prosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig yn cael eu mabwysiadu.	Ydi
Yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd adfywio ffisegol a chymdeithasol ac yn darparu ar gyfer ystod amrywiol a chydlynol o aneddiadau a chymunedau.	Ydi
Yn cydnabod gwerth iaith ac yn cynnwys polisïau i gefnogi twf, amddiffyn, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg.	Ydi
Yn gwella ansawdd dyluniad i greu lleoedd iach.	Ydi
Yn amddiffyn rhag blerdwf trefol a datblygu amhriodol drwy adolygu Lletemau Glas a defnyddio ffiniau anheddiad.	Ydi
Yn adnabod safleoedd y gellir eu cyflawni a dyraniadau safle sydd ar gael.	Ydi
Yn annog dulliau cynaliadwy eraill o gludiant i gynyddu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus, lleihau dibyniaeth ar y car ar gyfer teithio dyddiol a chyfrannu at leihau newid hinsawdd.	Ydi



Prif gyfansoddion strategaeth	Wedi'i ystyried yn y strategaeth
Yn cefnogi llwyddiant parhaus twf twristiaeth presennol drwy annog datblygiad priodol sy'n ymwneud â thwristiaeth, sy'n cyd-fynd o ran natur a graddfa i'r amgylchedd lleol.	Ydi
Yn sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn cael ei hybu sy'n ceisio hyrwyddo twristiaeth gydol y flwyddyn yn hytrach na thymhorol, ond ar yr un pryd yn sicrhau bod hunaniaeth y gymuned leol yn cael ei gwarchod.	Ydi
Yn cefnogi isadeiledd telathrebu mewn lleoliadau priodol ac yn nodi polisïau ar gyfer datblygu telathrebu, yn cynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiad i leoliadau addas.	Ydi
Yn ceisio cefnogi cynigion ar gyfer isadeiledd band eang newydd neu welliannau i rwydweithiau neu gyfarpar presennol.	Ydi
Yn cydnabod manteision ynni adnewyddadwy a charbon isel yn rhan o'r ymrwymiad cyffredin i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynyddu diogelwch ynni	Ydi
Yn cefnogi ynni cynaliadwy adnewyddadwy, ynni isel a mynediad i'r grid o fewn datblygiadau.	Ydi
Yn ystyried ac yn cynllunio i amddiffyn a dyrannu anghenion mwynau dros gyfnod y cynllun.	Ydi
Yn hybu rheoli gwastraff cynaliadwy.	Ydi
Yn amddiffyn ac yn gwella rhinweddau cadwraeth naturiol, hanesyddol ac amgylchedd adeiladu yr ardal a'i dirweddau gwerth uchel.	Ydi
Yn sefydlu beth mae'r arfordir yn ei olygu'n lleol a llunio polisïau penodol, sy'n adlewyrchu rhinweddau'r arfordir. Trwy wneud hynny mae'n cydnabod y rhyngberthynas rhwng rhinweddau ffisegol, biolegol a defnydd tir yr ardaloedd arfordirol ac effeithiau newid hinsawdd.	Ydi
Yn amddiffyn ac yn gwella asedau a rhwydweithiau isadeiledd gwyrdd.	Ydi

5. Fframwaith y polisi

Creu Lleoedd

5.1 Dull

5.1.1 Cyfrannir at leoedd cynaliadwy a lles gwell yn ardal CDLIN Conwy mewn modd cadarnhaol trwy fframwaith y polisi creu lleoedd. Mae fframwaith y polisi creu lleoedd yn cynnwys pedair thema strategol a gefnogir gan bolisïau creu lleoedd strategol trosfwaol a pholisïau rheoli datblygu, sy'n cydweithio i ddarparu'r fframwaith gofodol sy'n cynnwys gweledigaeth, amcanion a strategaeth twf a dosbarthu'r cynllun.

5.1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio creu lleoedd fel a ganlyn:

“Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw “creu lleoedd”, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.

Mae “creu lleoedd” yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau, hynny yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach.

Ni ddylai “creu lleoedd” ychwanegu at gostau datblygiad ond rhaid wrth feddwl clyfar, amlddimensiwn ac arloesol a'i

ystyried cyn gynhared yn y broses â phosib. Mae “creu lleoedd” yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at y datblygiad gan arwain at fuddiannau sy'n fwy na'r ffisegol a chryfhau penderfyniadau cynllunio.”

5.1.3 Mae angen rhoi ystyriaeth ar y cyd i faterion creu lleoedd o'r cychwyn er mwyn sicrhau creu lleoedd mewn modd strategol ac effeithiol. Mae Fframwaith Gofodol y CDLIN yn darparu dull trosfwaol i ategu holl rannau eraill CDLIN Conwy, sydd wedi'u llunio er mwyn creu'r amodau cywir i fynd i'r afael â'r amryw ganlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r adran ganlynol yn nodi Fframwaith y Polisi Creu Lleoedd ar gyfer y pedair thema thematig:

- **Thema strategol 1:** dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy
- **Thema Strategol 2:** lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy
- **Thema Strategol 3:** lleoedd ffyniannus yng Nghonwy
- **Thema Strategol 4:** lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

5.1.4 Fel gyda rhannau eraill o'r CDLIN, mae'r holl bolisïau yn gyflenwol o ran cefnogi cyflawni'r Nodau Lles cenedlaethol, Amcanion Lles lleol a datblygiad cynaliadwy. Felly mae



cysylltiadau rhwng pob polisi a nodau lles perthnasol wedi'u nodi (gweler Atodiad 2) ac mae'r holl bolisiau wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.

- 5.1.5 Mae holl bolisiau'r CDLIN yn rhyng-gysylltiedig o ran eu natur ac mae angen eu darllen ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn cael dealltwriaeth o gyfeiriad cyffredinol y CDLIN. Mae pob adran yn amlygu'r amcan(ion) perthnasol ac mae'n cynnwys polisi strategol trosfwaol, polisiau rheoli datblygu a chyfiawnhad ategol. Bwriedir i'r polisiau sicrhau bod cynigion datblygu'n darparu Fframwaith Gofodol (adrannau 2-4) y cynllun, canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cadarnhaol a chyfrannu mewn modd cadarnhaol at greu lleoedd, lleoedd cynaliadwy a lles gwell yn ardal CDLIN Conwy. Byddan nhw'n ffurfio sail pob penderfyniad cynllunio, ac mae dangosyddion wedi'u datblygu fel rhan o fframwaith monitro'r cynllun er mwyn dangos effeithiolrwydd y polisiau.
- 5.1.6 Nodwyd cyfres o bolisiau strategol yn Strategaeth a Ffefrir y CDLIN. Mae'r rhain wedi'u haddasu er mwyn rhoi ystyriaeth i sylwadau a ddaw i law, adborth gan fudd-ddeiliaid, tystiolaeth newydd, newidiadau o ran polisi cenedlaethol ac wedi'u hystemyn er mwyn darparu ar gyfer fframwaith polisi creu lleoedd mwy cynhwysfawr ar gyfer ardal cynllun Conwy.

5.2 Thema strategol 1: dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy

Cyflwyniad

- 5.2.1 Mae'r CDLIN wedi'i ffurfio yn dilyn ystyried y materion creu lleoedd strategol sy'n effeithio ar ardal CDLIN Conwy. Mae'r adran hon o'r CDLIN yn canolbwyntio ar y polisiau creu lleoedd strategol hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y math o ddatblygiad a gaiff ei gyflawni yn y pen draw a'i gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy a lles amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Conwy. Mae'r adran hon yn hyrwyddo polisiau integredig na ddylid eu hystyried ar eu pennau eu hunain yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys ystyried dyluniad datblygiad a'i effeithiau ar fywydau bob dydd yn ogystal â meddwl yn gyfannol am y mannau lle gall pobl fyw a gweithio a pha ardaloedd y dylid eu diogelu. Mae'r adran hon yn darparu'r weledigaeth strategol a lleol wahanol ar gyfer creu lleoedd mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys nodi safleoedd datblygu allweddol er mwyn cyflawni'r Fframwaith Gofodol (adrannau 2-4). Mae'r adran Dewisiadau Strategol a Gofodol yn cynnwys y polisiau canlynol:

PL/1 creu lleoedd cynaliadwy

PL/2 strategaeth tai cynaliadwy

PL/3 strategaeth economaidd gynaliadwy

PL/4 dosbarthiad twf a hierarchaeth aneddiadau

PL/5 creu lleoedd a dylunio da

PL/6 hyrwyddo lleoedd iachach

PL/7 yr iaith Gymraeg



PL/8 rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

PL/9 creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig

PL/10 addasiadau gwledig

PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

PL/12 datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd

PL/13 datblygiad newydd a hyfywedd

PL/14 rheoli ffurf anheddiad

PL/15 Ardal Wella'r Dwyrain

PL/16 creu lleoedd a safleoedd

PL/17 safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan - safle tai ac addysg defnydd cymysg

PL/18 safle 91 Pentywyn Road, Deganwy / Llanrhos - safle tai

PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn

PL/20 safle 56, Penloyn, Llanrwst - safle tai

PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno

PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas

PL/23 safle 103 cyflogaeth Bryniau, Llandudno

PL/24 safle 206 Nant y Coed, Cyffordd Llandudno - safle tai

PL/25 safle 132 Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos - safle tai

5.2.2 Mae pob polisi yn yr adran hon yn ymwneud â SO1. Felly nid yw'r amcan wedi'i ailadrodd trwy'r adran.

Creu lleoedd cynaliadwy

SO1: Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn

lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg a'i hanes a hybu ei defnydd ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i gynnal lleoedd gwyb a chreu rhai newydd.

PL/1 creu lleoedd cynaliadwy

1. Mae'n rhaid i bob cynnig datblygu (heb gynnwys ceisiadau gan ddeiliaid tai) gyfrannu at greu lleoedd deniadol, cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n cefnogi ffyrdd o fyw actif ac iach a gwella'r gymuned maen nhw ynddi trwy ddangos:
 - a. aliniad â'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol, amcanion cenedlaethol dyluniad da, Siarter Creu Lleoedd Cymru a'r egwyddorion cynllunio allweddol cenedlaethol; a,
 - b. dull cynaliadwy o ran creu lleoedd o ran lleoliad, dyluniad, adeiladu a gweithredu'r datblygiad.
2. Mae'n rhaid i bob cais cynllunio (heb gynnwys ceisiadau gan ddeiliaid tai) gael ei gefnogi trwy gyflwyno gwybodaeth dylunio a thechnegol ofynnol er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r meini prawf canlynol:
 - a. Diogelu'r amgylchedd yn well a lleihau effaith amgylcheddol trwy:
 - i. Ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, ecosystemau, trefluniau, seinweddau a thirluniau (dylid dilyn fframwaith DECCA a dull fesul cam);
 - ii. Hyrwyddo isadeiledd gwyrdd;
 - iii. Lleihau risgiau amgylcheddol;
 - iv. Rheoli adnoddau dŵr yn naturiol;
 - v. Hyrwyddo aer glân a lleihau llygredd;
 - vi. Hyrwyddo gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd;
 - vii. Creu amgylcheddau arbennig a gwahanol;



- viii. Cynnwys dulliau i sicrhau nad oes halogiad yn y safle (gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol); a
- ix. Mabwysiadu egwyddorion economi gylchol.
- b. Hwyluso amgylcheddau hygrych ac iach trwy:
 - i. Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol;
 - ii. Darparu cyswllt â mannau gwyrdd presennol hygrych o ansawdd uchel, yn unol ag adran amgylchedd naturiol y CDLIN.
 - iii. Annog pobl i beidio dibynnu ar geir, trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, defnyddio mwy o gludiant cyhoeddus a chysylltiadau yn y safle a thu hwnt er mwyn sicrhau mynediad effeithlon a cyfartal i bawb;
 - iv. Cynyddu cyfleoedd i ddylunio isadeiledd cerbydau trydan;
 - v. Darparu cymunedau diogel, cynaliadwy, cynhwysol a hygrych i bawb; a
 - vi. Darparu mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol.
- c. Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau trwy:
 - i. Ddefnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon;
 - ii. Hybu rheoli gwastraff cynaliadwy;
 - iii. Blaenoriaethu defnydd tir a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau presennol;
 - iv. Datgloi potensial, adfywio a denu buddsoddiad i greu cymunedau gwydn; a
 - v. Hybu dyluniad da o ansawdd uchel a datblygiadau cynaliadwy.
- d. Tyfu economi'r Sir mewn modd cynaliadwy trwy:
 - i. Feithrin gweithgarwch economaidd sy'n croesawu technoleg a chyfathrebu deallus ac arloesol, gan gynnwys darparu isadeiledd digidol cyflym o'r cychwyn;
 - ii. Lleihau newid hinsawdd a hybu effeithlonrwydd ac ynni adnewyddadwy; a

- iii. Hybu amgylcheddau ffyniannus a deinamig sy'n gallu addasu i newid.
- e. Creu a chynnal cymunedau trwy:
 - i. Elluogi'r Gymraeg i ffynnu trwy hybu, gwella a lle bo angen, lliniaru;
 - ii. Sicrhau dwysedd datblygu priodol;
 - iii. Sicrhau bod cartrefi a swyddi ar gael i ddiwallu anghenion Conwy;
 - iv. Hybu cymysgedd o ddefnydd tir lle bo'n briodol;
 - v. Cynnig profiadau diwylliannol;
 - vi. Sicrhau a diogelu cyfleusterau a gwasanaethau yn y gymuned yn unol ag adran cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol y CDLIN;
 - vii. Lleihau cyfleoedd i gyflawni neu gynyddu troseddau, wrth hybu diogelwch cymunedol yn unol ag egwyddorion Diogelu drwy Ddylunio; a
 - viii. Chyfrannu'n briodol at isadeiledd lleol, ffisegol, cymdeithasol a chymunedol y mae'r datblygiad yn effeithio arno
- 3. Os oes amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na all y cynnig gydymffurfio â'r meini prawf uchod, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad cryf dros hyn.
- 4. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer 10 neu fwy o unedau preswyl yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA) (fel a ddiffinnir yn y Fframwaith Gofodol) a'r Ganolfan Gwasanaeth Allweddol (PL/4), neu 5 neu fwy mewn rhannau eraill o'r Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA) (fel a ddiffinnir yn y Fframwaith Gofodol), neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall gael eu datblygu yn unol â pholisi PL/16 a pholisïau dyrannu sy'n benodol i safleoedd lle bo'n berthnasol (PL/17-25).



5.2.3 Yr hyn a olygir wrth ddatblygu cynaliadwy yw'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy weithredu, yn unol ag egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy LIC, â'r nod o geisio cyflawni eu nodau lles a dyheadau blaenoriaethol CDLIN Conwy a fframwaith Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040. Y ffordd fwyaf priodol o weithredu'r gofynion hyn trwy'r system gynllunio yw trwy fabwysiadu dull creu lleoedd cryf yn CDLIN Conwy.

5.2.4 Mae creu lleoedd cynaliadwy yn broses gynhwysol, sy'n cynnwys pawb sydd â budd proffesiynol neu bersonol yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol, ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu datblygiadau sy'n cyfrannu at greu a gwella lleoedd cynaliadwy yn ardal CDLIN Conwy. Mae creu lleoedd yn digwydd ar bob lefel mewn penderfyniadau datblygu ac mae'n cynnwys ystyriaethau ar raddfa fyd-eang, gan gynnwys newid hinsawdd, i'r lefel leol iawn, fel ystyried yr effaith ar amwynder eiddo cyfagos a phobl.

5.2.5 Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy, sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Dylai lleoedd cynaliadwy fod yn lleoedd hyfyw i fyw a gweithio ynddynt. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan greu awydd i fyw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a lles, gan greu ffyniant i bawb. Mae polisi PL/1 y CDLIN yn nodi'r prif ffyrdd y disgwylir i gynigion datblygu ddangos eu bod yn darparu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac felly'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

5.2.6 Mae gweithredu yn unol â'r egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i'r cynigion weithredu mewn

ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Felly, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â'r system gynllunio yn ardal y CDLIN, neu sy'n gweithredu oddi mewn iddi, groesawu cysyniad creu lleoedd cynaliadwy er mwyn cyflawni creu lleoedd cynaliadwy a gwella lles ein cymunedau.

5.2.7 Bydd gweithredu dull creu lleoedd strategol Cymru'r Dyfodol, a'i egwyddorion, yn sicrhau bod datblygu yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi ffyrdd o fyw actif ac iach, gyda chymdogaethau trefol sy'n gryno ac mae modd cerdded ynddynt, wedi'u trefnu o gwmpas canolfannau defnydd cymysg a chlodiant cyhoeddus, ac wedi'u hintegreiddio gydag isadeiledd gwyrdd. Mae'r Cyngor yr un mor ymrwymedig i Siarter Creu Lleoedd Cymru a datblygu lleoedd o ansawdd uchel er budd cymunedau. Mae'r Siarter yn amlinellu chwe egwyddor creu lleoedd (pobl a chymuned, symudiad, parth cyhoeddus, lleoliad, cymysgedd o ddefnydd a hunaniaeth) sy'n cwmpasu'r amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal a chadw lleoedd da. Mae'r egwyddorion hyn wedi llywio'r CDLIN ac wedi'u cynnwys ynddo. Mae polisi PL/1 yn cynnwys y meini prawf angenrheidiol i gyfrannu'n gadarnhaol at yr egwyddorion hyn, y dylid eu gweithredu ochr yn ochr ag egwyddorion dylunio da (polisi PL/5) a hybu lleoedd mwy iach (polisi PL/5).

5.2.8 Mae polisi PL/1 yn cynrychioli'r man cychwyn ar gyfer asesu pob cais cynllunio a ddaw i law'r ACLL. Mae pob un o'r meini prawf yn berthnasol i faterion manwl a gaiff sylw pellach ym mholisiau eraill y CDLIN. Caiff pob cynnig datblygu ei asesu i sicrhau y bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gryfhau hunaniaeth leol, cyflawni cymunedau cynaliadwy, annog ffordd fwy



cynaliadwy o fyw a hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac ymgysylltiad.

5.2.9 Nod y polisi hwn yn hybu cysylltedd i bawb trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Gall datblygiadau wedi'u cysylltu'n dda hybu gwella iechyd a lles trwy annog pobl i fabwysiadu ffyrdd o fyw mwy iach ac actif, wrth gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy hefyd.

5.2.10 Mae rhwydwaith isadeiledd gwyrdd yn darparu gwerth amwynder pwysig yn ogystal â buddion iechyd a lles. Felly bydd y CDLIN yn ceisio integreiddio llwybrau teithio llesol a rhwydweithiau isadeiledd gwyrdd, lle bo'n briodol, i greu amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n annog ffyrdd o fyw actif a hyrwyddo lles.

5.2.11 Mae ceisiadau gan ddeiliaid tai yn cael eu heithrio rhag cyflawni'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn. Bydd manylion ac eithriadau pellach, gan gynnwys manylion amgylchiadau eithriadol ym mhwynt 3, yn cael eu darparu yn y CCA.

5.2.12 Ni fydd modd i bob cynnig datblygu ddangos eu bod yn gallu bodloni pob un o'r canlyniadau hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylid eu hystyried yn y broses rheoli datblygu er mwyn gweld a ellir gwella cynnig er mwyn hyrwyddo lles ehangach. Cyfrifoldeb datblygwyr yw nodi'r cyfleoedd hyn a gweithredu arnynt. Mae cysylltiadau â pholisïau a dulliau mwy penodol a ddefnyddir i asesu a gaiff meini prawf PL/1 eu bodloni wedi'u nodi yn nhestun y polisi sy'n ymwneud â phob adran strategol o'r CDLIN.

5.2.13 Mae'n rhaid i ddyraniadau safle a chynigion strategol baratoi a chyflwyno Datganiad Cydymffurfio Creu Lleoedd yn unol â pholisïau PL/16, polisïau safle PL/17 i PL/25 a pholisïau creu

lleoedd perthnasol eraill a nodir yn y cynllun. Argymhellir ymgysylltiad cynnar â'r ACLL wrth baratoi cynllun a'r datganiad sy'n cyd-fynd. Bydd CCA yn cael ei baratoi i nodi canllawiau i ddatblygwyr o ran sicrhau bod cynlluniau'n gynaliadwy a'u bod yn cydymffurfio â pholisïau PL/1. Bydd y CCA yn cwmpasu canllawiau ychwanegol i gefnogi polisïau PL/5 a PL/6 hefyd.

Strategaeth tai cynaliadwy

PL/2 strategaeth tai cynaliadwy

1. Dros gyfnod 2018 i 2033, bydd yr ACLL yn cynllunio, monitro a rheoli darpariaeth oddeutu 3,600 o gartrefi newydd (240 o gartrefi newydd bob blwyddyn ar gyfartaledd). Mae yna lwfans wrth gefn o 20%, sy'n golygu y cynllunnir ar gyfer 4,300 o gartrefi newydd drwy gwblhau datblygiadau, drwy ymrwymadau, hap-safleoedd a dyraniadau newydd dros gyfnod y cynllun.
2. Mae'n rhaid i dai newydd gael eu datblygu yn unol â'r strategaeth dosbarthu gofodol a'u dosbarthu fel a ganlyn:
 - a. CDSA:
 - i. Y Gorllewin: 10%
 - ii. Creuddyn: 30%
 - iii. Y Canol: 35%
 - iv. Dwyrain: 15%
 - b. RDSA: 10%
3. Bydd y dull cynaliadwy yn:
 - a. Blaenoriaethu tir a ddatblygwyd eisoes mewn lleoliadau priodol yn unol â pholisïau CDLIN eraill ac ystyriaethau materol.
 - b. Dyrannu safleoedd preswyl mewn lleoliadau cynaliadwy yn ein hardaloedd trefol presennol a'r Ganolfan Gwasanaeth Allweddol.



- c. Hyrwyddo hap-safleoedd preswyl priodol o fewn ffiniau aneddiadau presennol.
 - d. Galluogi darparu safleoedd eithriedig tai fforddiadwy.
 - e. Ceisio lefelau priodol o gartrefi newydd yn yr aneddiadau gwledig, gyda chyfyngiadau angen lleol lle caiff hynny ei gyfiawnhau, er mwyn cefnogi cymunedau cynaliadwy a'r Gymraeg.
 - f. Cefnogi cymunedau i ddarparu safleoedd ar gyfer cartrefi newydd fel a nodir yn eu Cynlluniau Bro.
 - g. Darparu ar gyfer anghenion tai penodol, gan gynnwys llety sy'n briodol i bobl hŷn neu bobl ag anghenion gofal.
4. Nod y cynllun yw darparu o leiaf 1,760 o dai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun trwy:
- a. Ddyrannu safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy.
 - b. Gosod targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar safleoedd preswyl.
 - c. Gweithio'n rhagweithiol gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu hap-safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy, yn cynnwys safleoedd canol tref priodol a safleoedd eithriedig tai fforddiadwy.

5.2.14 Mae'r strategaeth tai fforddiadwy yn mynd i'r afael â'r angen a nodwyd am dai ar gyfer ardal y cynllun trwy sicrhau cyflenwad o dir ar gyfer cyfanswm o 4,300 o gartrefi newydd. Dangosir y gallu i ddarparu'r strategaeth tai fforddiadwy hon trwy daflwybr tai yn yr adran dai. Mae'r targed hwn yn unol â'r angen a nodir yn Papur Cefndir 1: Adroddiad Opsiynau Lefel Twf. Caiff ei ddylanwadu gan senario demograffig sy'n cynnwys tybiaethau mudo ar sail swyddi lleol ac o ganlyniad i'r anghenion sy'n gysylltiedig â Bargen Dwf Gogledd Cymru. Mae'n arwain at ofyniad blynyddol ychydig uwch ar gyfer anheddau na man

cychwyn prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru. Mae'n adlewyrchu'r materion blaenoriaethol a'r sylfaen dystiolaeth gefndirol, yn enwedig angen i gyfrannu at strwythur oedran mwy cytbwys, lefelau cymudo allan is, hybu cymunedau cynaliadwy, gan gynnwys y Gymraeg a darparu ar gyfer angen uchel am dai fforddiadwy. Mae'n dod â chydbwysedd cynaliadwy rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig.

5.2.15 Mae'r gofyniad o ran anheddau yn cynnwys lwfans o 8.9% o dai gwag er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y farchnad dai ac mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol er mwyn adlewyrchu lefelau uwch o ail gartrefi a llety gwyliau yn yr ardal leol. Mae polisi HS/10 yn darparu'r fframwaith er mwyn rheoli lefelau ail gartrefi a llety gwyliau, er mwyn galluogi gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4, pe bai tystiolaeth yn dangos bod ei angen. Caiff cyflenwad tebygol tai y rhagwelir y cânt eu darparu yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y Fwrdeistref Sirol a chapasiti'r diwydiant adeiladu tai eu hystyried hefyd.

5.2.16 Mae'r strategaeth yn arwain adeiladu'r rhain yn y mannau cywir a sicrhau eu bod o'r math cywir i gynyddu'r cyfraniad tuag at ddarparu cymunedau cynaliadwy a thai fforddiadwy. Mae'r dosbarthiad gofodol yn canolbwyntio twf ar is-ardaloedd Creuddyn a'r Canol, lle mae'r aneddiadau mwyaf, wrth adlewyrchu cyfyngiadau ffisegol hefyd fel risg llifogydd yn is-ardal y Dwyrain. Mae'r dosbarthiad hwn yn unol â fframwaith Cymru'r Dyfodol hefyd, sy'n nodi Llandudno a Bae Colwyn fel ardaloedd twf rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru.

5.2.17 Mae'r tabl isod yn dangos sut mae gwahanol elfennau o ran cyflenwad yn ffurfio cyfanswm darpariaeth y cynllun a sut y byddant yn cael eu dosbarthu'n ofodol

Ffigur 12: tabl yn dangos cyflenwad tai a dosbarthiad gofodol

Cydrannau o gyflenwad tai	Y Gorllewin	Y Creuddyn	Y Canol	Y Dwyrain	Gwledig	Cyfanswm
Cyfanswm a gwblhawyd (bach a mawr)	84	476	442	373	51	1,426
Unedau'n cael eu hadeiladu	42	167	100	66	-	375
Unedau gyda chaniatâd cynllunio	16	84	163	174	14	451
Dyraniadau tai newydd	201	412	328	277	100	1,318
Hap-safleoedd mawr (10+)	34	72	165	-	-	271
Hap-safleoedd bach (<10)	41	124	166	46	81	458
Cyfanswm darpariaeth tai	418	1,335	1,364	936	246	4,300

Sylwch: Mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn symio gan eu bod wedi'u talgrynnu. Ffynhonnell: SPPS, CBSC

5.2.18 Mae'r Asesiad newydd o'r Farchnad Dai Leol 2022-37 (Papur Cefndir 09) yn nodi angen sylweddol am dai fforddiadwy ar draws pob rhan o ardal y cynllun, ac roedd yr anghenion mwyaf yn is-ardaloedd Creuddyn a'r Canol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ardaloedd twf mwyaf a nodwyd yn fframwaith gofodol y CDLIN, sydd hefyd yn ceisio cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy a chyfeirio datlygiad tuag at ein haneddiadau â'r lefelau uchaf o ran angen ynghyd â hyrwyddo twf cyflogaeth.

5.2.19 Mae'r strategaeth tai cynaliadwy hon yn chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â'r diffyg hwn o ran tai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod nad y

CDLIN yw'r unig ffordd o fynd i'r afael â'r angen hwn.

Blaenoriaeth allweddol o strategaeth tai fforddiadwy'r CDLIN yw cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle.

Cydnabyddir nad adeiladu cartrefi newydd yn unig yw'r ateb ar gyfer yr angen gros am dai fforddiadwy. Bydd defnyddio'r stoc tai presennol yn briodol yn rhan allweddol o ddarparu'r angen hwn a nodwyd. Mae dull cydgysylltiedig â Strategaeth Tai Lleol Conwy, sy'n gweithio ochr yn ochr â'r CDLIN, yn hanfodol ar gyfer diwallu'r angen hwn. Mae'r cynllun yn gosod isafswm targed o ddarparu 1,760 o gartrefi fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y cynllun, fel a nodir yn Papur Cefndir



11 Tai Fforddiadwy i Ymateb i Anghenion y Gymuned Leol.
Mae'r targed hwn yn adlewyrchu'r gallu i gyflawni strategaeth tai fforddiadwy y CDLIN, ac mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth

y bydd cymhorthdal cyhoeddus, fel y Grant Tai Cymdeithasol yn dal i fod ar gael. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm darpariaeth y tai fforddiadwy ar gyfer cyfnod y cynllu

Ffigur 13: tabl yn dangos darpariaeth tai fforddiadwy (2018-33)

Cydrannau o gyflenwad tai	Y Gorllewin	Y Creuddyn	Y Canol	Y Dwyrain	Gwledig	Cyfanswm
Cyfanswm a gwblhawyd (bach a mawr)	15	150	110	120	35	430
Unedau'n cael eu hadeiladu	5	115	55	45	0	215
Unedau gyda chaniatâd cynllunio	20	20	120	130	15	300
Dyraniadau tai newydd	85	210	230	110	50	680
Hap-safleoedd mawr (10+)	15	35	35	0	0	85
Hap-safleoedd bach (<10)	0	0	25	0	25	50
Cyfanswm darpariaeth tai	135	530	570	405	120	1,760

Sylwch: Mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn symio gan eu bod wedi'u talgrynn

Ffynhonnell: SPPS, CBSC

5.2.20 Felly, bydd y CDLIN yn cyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth tai fforddiadwy. Rhagwelir y gallai rhagor o dai fforddiadwy gael eu darparu trwy dduliau polisi CDLIN, gan gynnwys safleoedd eithriedig tai fforddiadwy ac ailddatblygu canol trefi. Bydd angen systemau eraill, sy'n dod y tu allan i gylch gwaith y CDLIN er mwyn darparu'r angen sy'n weddill am dai fforddiadwy, fel dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd, ailgyflunio stoc fforddiadwy presennol, cynlluniau prydlesu ac eiddo rhent preifat (gweler Papur Cefndir 11 am fanylion).

5.2.21 Mae'n rhaid datblygu safleoedd mewn modd cynhwysfawr i sicrhau bod yr holl ofynion o ran isadeiledd, rhwymedigaethau cynllunio a chreu lleoedd yn cael eu cyflawni, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru. Ni chaiff ceisiadau tameidiog neu fratiog eu cefnogi, oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos bod modd darparu'r pecyn llawn o ofynion, ac na fydd y cynnig yn atal gweddill y safle rhag cael ei ddatblygu.

5.2.22 Mae lwfans Arian At Raid o 20% wedi'i gynnwys i ganiatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu'r stoc presennol ac ar gyfer achosion pan na fydd unrhyw un yn cymryd safleoedd. Pe bai darpariaeth cartrefi newydd yn bodloni'r gofyniad a nodir yn



y CDLIN cyn diwedd cyfnod y cynllun, cymerir camau i reoli hyn. Caiff hyn ei lywio trwy'r Adroddiad Monitro Blyneddol a thaflywyr tai y CDLIN. Gallai camau gynnwys cyfyngu ar ddarparu safleoedd tir glas i fod yn safleoedd fforddiadwy 100%, pan fo angen yn yr rhan honno o'r farchnad dai. Ni fyddai'r dull hwn yn effeithio ar ddyraniadau CDLIN.

Strategaeth economaidd gynaliadwy

5.2.23 Mae tair prif elfen i'r strategaeth gyflogaeth gynaliadwy, sef nifer y swyddi newydd a ragwelir yn ardal y cynllun hyd at 2033, faint a math y tir sydd ei angen i ddarparu ar gyfer y swyddi hyn, a lleoliad bras lle ddylai'r tir fod.

5.2.24 Fodd bynnag, wrth gynllunio ar gyfer yr uchod, mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i fod yn hyblyg a darparu ar gyfer galw masnachol a busnes, lle bo'n hyfyw i wneud hynny. Mae polisi PL/3 yn cwmpasu pob un o'r materion hyn ar lefel uchel, gyda mwy o fanylder. Mae dyraniadau safle a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n ymwneud â'r economi i'w gweld yn adran Datblygu Economaidd y CDLIN.

PL/3 strategaeth gyflogaeth gynaliadwy

1. Er mwyn cynorthwyo â darparu twf economaidd a ragwelir ar gyfer ardal y cynllun, bydd y CDLIN yn dyrannu tir cyflogaeth i fodloni'r gofyniad am 1,500 o swyddi ychwanegol hyd at 2033. Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn nodi bod angen amrediad o 14-20 hectar o dir cyflogaeth yn ystod y cyfnod hwn, gyda tharged rhesymegol a chyfiawn o 16.4ha sy'n cynnwys cynllun wrth gefn. Bydd y dull cynaliadwy o ran twf a amlinellir yn y CDLIN hwn yn:

- Ystyried datblygiadau cyflogaeth a gwblhawyd, ymrwymadau a hap-safleoedd ers 2018;
- Darparu dyraniadau tai newydd sy'n dod i gyfanswm o 12.65ha;
- Darparu ar gyfer rhaniad o 65% ar gyfer defnydd B1c/B2/B8 a 35% ar gyfer defnydd B1 ar gyfer dyraniadau newydd; ac
- Adlewyrchu'r Strategaeth Dosbarthiad Gofodol, gan sicrhau y bydd 90% o dwf cyflogaeth yn y CDSA, gyda 10% yn y RDSA.

2. Er mwyn sicrhau bod tir cyflogaeth wedi'i leoli yn y lleoliadau mwyaf addas a chynaliadwy bydd y CDLIN yn sicrhau:

- Bod safleoedd a ddyrennir wedi'u lleoli yn y CDSA, mewn ardaloedd o alw ochr yn ochr â choridor yr A55, neu mewn lleoliad hygyrch at yr A55;
- Bodd dull dilyniannol yn cael ei ddilyn ar gyfer cymeradwyo tir neu safleoedd eraill ar gyfer cyflogaeth, gan flaenoriaethu safleoedd cyflogaeth presennol, tir a ddatblygwyd eisoes, a safleoedd canol trefi a chanolfannau lleol; a
- Bod proses ehangu busnesau lleol yn cael eu cefnogi mewn egwyddor ar safleoedd addas.

5.2.25 Mae'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r elfennau yn y polisi uchod i'w gweld mewn cyfres o bapurau cefndir CDLIN, sef; Papur Cefndir 16: Cynllunio a'r Economi Wledig o ran cefnogi estyniad busnesau gwledig ac arallgyfeirio ffermydd. Mae Papur Cefndir 17: Cyflenwad Tir Cyflogaeth yn dangos faint o dir sydd eisoes ar gael ar gyfer defnydd cyflogaeth newydd, a faint fydd angen ei



ddyrannu. Mae Papur Cefndir 18: Adolygiad Tir Cyflogaeth yn nodi amcangyfrif o nifer twf swyddi gan drosi hyn i faint a math (dosbarth defnydd) o dir fydd ei angen i ddarparu ar gyfer twf swyddi. Mae Papur Cefndir 19: Dadansoddiad Marchnad Masnachol yn nodi lleoliadau bras ar gyfer lle dylai'r tir cyflogaeth newydd fod. Mae Papur Cefndir 20: Asesiad o Anghenion Sgiliau yn dod i'r casgliad nad oes angen dyrannu tir yn benodol ar gyfer addysg uwch yn ardal y cynllun. Mae Papur Cefndir 56: Hierarchaeth Fuddsoddi Tir Cyflogaeth yn nodi dull o asesu cynigion ar gyfer cyflogaeth gan ddefnyddio dull dilyniannol. Mae Papur Cefndir 61: Mae Astudiaeth Canol Trefi'n Gyntaf yn asesu'r angen am ganolbwyntiau swyddfa a'r dull o ddiogelu defnyddiau cyflogaeth heb eu dynodi yng nghanol trefi, ac mae Papur Cefndir 67: Safleoedd Cyflogaeth a Ddiogelir CDLIN Conwy yn adolygu'n drylwyr y safleoedd cyflogaeth dynodedig presennol ac yn nodi p'un a ddylent gael eu cadw, eu hystyngiadau neu eu dad-ddynodi.

5.2.26 Mae'r ffigyrau twf cyflogaeth wedi'u halinio'n ofodol â'r twf tai yn ôl rhaniad 90% CDSA: 10% RDSA. Mae dogfennau sail dystiolaeth y CDLIN ar gyfer yr economi h.y. Papur Cefndir 19: Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy a Phapur Cefndir 18: Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy, yn awgrymu bod gweithgarwch cyflogaeth a'r galw am safleoedd wedi'u ffocysu yn y CDSA, yn bennaf ar hyd coridor yr A55, a dyma ble dylid lleoli ein dyraniadau. Mae prosesau monitro CDLIN 2007-2022 wedi dangos bod hyn yn wir, ac nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth gwledig wedi cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiad o fewn oes y cynllun, gyda safleoedd mewn ardaloedd sydd ar hyd yr A55, megis Mochdre, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Conwy, Bae Colwyn a Bae Cinmel yn fwy ffafriol. Mae cyfanswm

o 12.65 hectar o ddyraniadau yn y CDSA yn Chwarel Llanddulas a Llandudno, fodd bynnag, ni fydd pob rhan o'r tir hwn yn cael eu cyflwyno o fewn amserlen y cynllun. Cyfeiriwch at yr amserlen yn Strategaeth Datblygu Economaidd y CDLIN hwn. Defnyddir y broses Adroddiad Monitro Blyneddol i fonitro twf yn yr ardaloedd arfordirol a'r ardaloedd gwledig er mwyn gwirio effeithiolrwydd y dyraniadau a'r polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf.

Hierarchaeth aneddiadau

Amcan perthnasol: SO1

PL/4 growth distribution and hierarchy of settlements

1. Dros gyfnod y cynllun, bydd datblygiad yn cael ei leoli a'i ddosbarthu yn unol â'r dull strategol fel a nodir yn y fframwaith gofodol, a'r hierarchaeth aneddiadau. Caiff twf tai ei ddarparu yn unol â pholisi PL/2 a'r polisiau manwl a nodir yn Fframwaith Tai a Thai Fforddiadwy y cynllun. Caiff twf cyflogaeth ei ddarparu yn unol â pholisi PL/3 a Strategaeth Datblygu Economaidd y cynllun.
2. Caniateir datblygiad mewn aneddiadau ar raddfa sy'n gymesur â rôl a swyddogaeth aneddiadau fel a nodir yn yr hierarchaeth isod:

Aneddiadau trefol: Abergele/Pensarn***, Bae Colwyn (yn cynnwys Llandrillo-yn-Rhos a Hen Golwyn)***, Conwy, Deganwy/Llanrhos, Llandudno**, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Mochdre, Penmaenmawr a Bae Penrhyn/Ochr y Penrhyn a Thowyn/Bae Cinmel***.

Canolfan gwasanaeth allweddol: Llanrwst

Prif Bentreifi Haen 1: Llanddulas, Dwygyfylchi*, Glan Conwy



Prif Bentrefi Haen 2: Betws yn Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog*, Eglwysbach, Llanfair Talhaearn, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Tal y Bont*/Castell a Threfriw.

Pentrefi Bach: Bryn Pydew, Glanwydden, Groes, Henryd, Llanbedr y Cennin*, Llanddaged, Llanellian, Llangwm, Llanefydd, Pentrefelin, Pentrefoelas, Rhyd y Foel, Llansan Sior, Tal y Cafn a Thyn y Groes

Pentrefannau: Bodtegwel, Bryn-y-Maen, Brymbo, Bryn Rhyd-yr-Arian, Bylchau, Capelulo*, Cefn Berain, Cefn Brith, Dinmael, Glasfryn, Groesffordd, Gwytherin, Hendre, Llanfihangel GM, Maerdy, Melin y Coed, Nebo*, Pandy Tudur, Pentrellyncymer, Pentre Isa, Pentre Tafarn-y-Fedw, Rhydlydan, Tan-y-Fron

* Aneddiadau sy'n rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

** Ardaloedd Twf Rhanbarthol a nodwyd yng nghynllun Cymru'r Dyfodol 2040.

*** Aneddiadau Cyfyngedig sy'n dod o fewn Ardal Wella'r Dwyrain.

5.2.27 Mae'r CDLIN yn nodi ac yn gwahaniaethu rhwng cynaliadwyedd lleoedd drwy ddiffinio hierarchaeth aneddiadau. Mae hierarchaeth aneddiadau wedi'i diffinio gan roi ystyriaeth i'r egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy, yn cynnwys swyddogaeth yr aneddiadau, isadeiledd, cynaliadwyedd, a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol, fel y nodir ym Mhapur Cefndir 3 - Hierarchaeth aneddiadau ac aneddiadau a rennir. Mae'r hierarchaeth yn ceisio cyflawni mwy o leoedd cynaliadwy mewn sawl ffordd. Mae'r raddfa a'r math o dwf a ddosrannir i aneddiadau yn ddibynnol ar eu rolau, swyddogaethau a safleoedd unigol o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y CDLIN yn cyfeirio'r

rhan fwyaf o'r twf tuag at ardaloedd sydd eisoes yn elwa o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau da, neu lle mae modd darparu capasiti ychwanegol.

5.2.28 Mae dau faes strategol trosfwaol i'r Fframwaith Gofodol; y CDSA a'r RDSA. Mae'r prif leoliadau trefol ar hyd y llain arfordirol lle mae 90% o'r boblogaeth yn preswyllo. Mae'r ardaloedd trefol hyn yn cynrychioli lleoliadau mwy cynaliadwy sy'n gwasanaethu'r cymunedau ehangach, gan gynnwys aneddiadau gwledig yn yr RDSA mewn rhai achosion. Mae ganddynt yr isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau angenrheidiol i gefnogi twf cynaliadwy dros gyfnod y Cynllun, neu gallant ddarparu ar eu cyfer. Mae ardaloedd trefol Bae Colwyn a Llandudno wedi'u nodi fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol yng Nghynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040, lle mae lefel uchel o dwf wedi'i gynllunio. Caiff hyn ei adlewyrchu yn nosbarthiad gofodol tai (gweler polisi PL/2).

5.2.29 Mae pob anheddiad trefol yn dangos swyddogaeth cyflogaeth gref gan ystyried busnes, ac amrywiaeth nodedig o siopau a gwasanaethau cymunedol, a gaiff ei gryfhau ymhellach gan amrywiaeth o gyfleoedd teithio cynaliadwy sy'n cysylltu gydag ardaloedd cyfagos a'r rhanbarthau ehangach. Mae'r ardaloedd hyn yn cynrychioli lefelau uchel o angen o ran tai fforddiadwy hefyd, ynghyd â thir sydd ar gael ac y gellir ei gyflenwi er mwyn diwallu anghenion o'r fath fel a nodir yn y Fframwaith Tai a Thai Fforddiadwy a Strategaeth Datblygu Economaidd y CDLIN.

5.2.30 Yr unig eithriad nodedig i'r aneddiadau trefol yn y CDSA yw ardal y Dwyrain sy'n cynnwys Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel. Mae twf y dyfodol yn gyfyngedig yn yr ardaloedd hyn oherwydd capasiti isadeiledd priffyrdd a risg llifogydd. Mae'n



hanfodol nad yw'r cymunedau hyn yn dirywio, ond eu bod yn dod yn fwy gwydn yn unol â Gweledigaeth CDLIN Conwy. Felly, mae Ardal Wella'r Dwyrain wedi'i nodi i fynd i'r afael â'r materion hyn fel a nodir ym mholisi PL/15 ac fel a nodir ar y map cynigion.

5.2.31 Mae'r RDSA yn cynnwys y Ganolfan Gwasanaethau Allweddol, Prif Bentrei Haen 1 a 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau. Mae Canolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst tua 13 milltir o lain arfordirol y CDSA, ond mae'n chwarae rôl bwysig wrth wasanaethu'r aneddiadau gwledig ehangach yn yr hierarchaeth, yn enwedig o ran cyflogaeth a chyfleusterau a gwasanaethau allweddol.

5.2.32 Mae Prif Bentrei Haen 1 a 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau yn cyflawni swyddogaeth fwy cyfyngedig o ran manwerthu a chyfleusterau cymunedol, gan wasanaethu eu preswylwyr lleol yn bennaf. Er bod pob gwasanaeth a chyfleuster yn bwysig i'w cefnwlod, mae'r rhai sydd ar gael yn yr aneddiadau hyn yn denu o ddalgylch llai ac maent wedi'u cyfyngu'n bennaf i wasanaethu'r sylfaen boblogaeth fwy uniongyrchol. Felly, mae'r cwrdd i'r aneddiadau hyn ddarparu ar gyfer datblygiad sylweddol yn fwy cyfyngedig, ond yn dibynnu ar eu lleoliad yn yr hierarchaeth, byddant yn dal i ddarparu ar gyfer cynigion llai er mwyn diwallu anghenion cymunedol lleol. Caniateir datblygiad yn yr aneddiadau hyn ar raddfa sy'n gymesur â'u rôl a'u swyddogaeth fel a nodir yn yr hierarchaeth ac fel a ddiffinnir yn Adrannau Strategol eraill y Cynllun.

5.2.33 Mae adolygiad o ffiniau aneddiadau (Papur Cefndir 3) wedi'i gynnal i nodi'n glir y ffin rhwng aneddiadau a chefn gwlad agored, cynorthwyo i atal cyduniad aneddiadau a darparu

sicrwydd o ran lle caiff datblygiad priodol ei ganiatáu. Bydd y CDLIN yn blaenoriaethu ailddefnyddio ac ailddatblygu tir a ddatblygwyd eisoes. Sonir am Reoli Ffurf Anheddiad mewn mwy o fanylder ym mholisi PL/14.

Creu lleoedd a dyluniad da

Amcanion perthnasol: SO1

PL/5 creu lleoedd a dyluniad da

1. Er mwyn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a mynd i'r afael ag agweddau allweddol dyluniad da, mae'n rhaid i gynigion datblygu:
 - a. Fynd i'r afael â mynediad a chynhwysiant i bawb trwy:
 - i. Roi pobl wrth wraidd y broses ddylunio;
 - ii. Cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth, gan gynnwys y Gymraeg;
 - iii. Cynnig dewis lle na all un datrysiad dylunio fodloni pob defnyddiwr;
 - iv. Darparu adeiladau ac amgylchedd sy'n gyfleus a dymunol i'w defnyddio i bawb;
 - v. Gwneud darpariaeth i ddiwallu anghenion pobl â nam ar eu synhwyrdd, cof, dysgu a symudedd, pobl hŷn a phobl â phlant bach;
 - vi. Annog pobl i gwrdd a rhyngweithio â'i gilydd, helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag unigrwydd ac unigedd;
 - vii. Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau hanfodol, addysg a chyflogaeth a brofir gan bobl heb fynediad at gar; a



- viii. Dylunio mesurau a nodweddion sy'n galluogi mynediad rhwydd at wasanaethau trwy gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus.
- b. Mynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol trwy:
 - i. Ddefnyddio adnoddau naturiol mewn modd effeithlon a'u diogelu;
 - ii. Gwneud y gorau o effeithlonrwydd ynni;
 - iii. Diogelu a gwella bioamrywiaeth;
 - iv. Defnyddio adnoddau eraill mewn modd effeithlon (gan gynnwys tir);
 - v. Cynyddu symudiad cynaliadwy;
 - vi. Lleihau defnydd o adnoddau anadnewyddadwy;
 - vii. Annog datgarboneiddio;
- viii. Atal cynhyrchu gwastraff a llygredd; a
- ix. Chyfrannu at gymunedau gwydn trwy ddarparu ymagwedd integredig a hyblyg at ddylunio, gan gynnwys gwneud penderfyniadau cynnar ynghylch lleoliad, dwysedd, cynllun, ffurf adeiledig, y dewis o ddeunyddiau, y gallu i addasu adeiladau a thriniaeth safle.
- c. Ystyried cymeriad ac amwynder lleol trwy:
 - i. Sicrhau'r ansawdd uchaf bosibl o ran dyluniad, wrth barchu a gwella gwahanolrwydd lleol, gan gynnwys y Gymraeg a chymeriad y dirwedd;
 - ii. Bod yn briodol i'w gyd-destun lleol o ran maint, graddfa, uchder, màs, triniaeth y drychiad, deunyddiau a manylion, gosodiad, ffurf, cymysgedd a dwysedd;
 - iii. Dangos rhesymeg glir sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir am ddyluniad, ar sail dadansoddiad safle a chyd-destun, gweledigaeth gref, gofynion perfformiad ac

- egwyddorion dylunio ac wedi'u mynegi mewn Datganiad Dylunio a Mynediad (lle bo'r angen), Datganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd lle bo'n briodol ac yn unol â pholisïau eraill a nodir yn y Cynllun.
- iv. Hybu ac atgyfnerthu gwahanolrwydd lleol mewn ardaloedd a gaiff eu cydnabod am eu tirwedd, treflun, cymeriad diwylliannol neu hanesyddol a gwerth penodol.
- v. Defnyddio tir yn effeithlon trwy fod yn rhan o ddwysedd sy'n cynyddu potensial datblygu'r tir wrth barchu potensial y datblygiad cyfagos;
- vi. Darparu ar gyfer cymysgedd priodol o ddefnydd tir er mwyn hybu cymdogaethau cryno ac mae modd cerdded ynddynt; ac
- vii. Atal a lleihau trosedd ac anhrefn ym mhob penderfyniad dylunio er mwyn creu amgylchedd diogel nad yw'n cyfaddawdu o ran ansawdd dylunio; a
- viii. Sicrhau datblygiad integredig nad yw'n niweidio amwynder lleol a lle bo'n bosibl, sy'n dod â buddion i'r ardal leol.
- d. Mynd i'r afael â diogelwch cymunedol trwy'r broses ddylunio trwy:
 - i. Creu amgylchedd nad yw'n cyfaddawdu o ran ansawdd dylunio; ac
 - ii. Atal a lleihau trosedd ac anhrefn.
- e. Mynd i'r afael â symudiad trwy;
 - i. Ddylunio dibyniaeth nad yw'n canolbwyntio ar geir;
 - ii. Cynyddu cyfleoedd i bobl wneud dewisiadau cynaliadwy ac iach o ran teithio; a



- iii. Chynyddu isadeiledd presennol ac integreiddio isadeiledd newydd yng ngosodiad y datblygiad a'r tu hwnt i'r ffin.
- 2. Dylid cyflwyno dadansoddiad safle a chyd-destun er mwyn penderfynu pa mor briodol yw'r cynnig datblygu o ran ymateb i'w amgylchedd. Dylid cyflwyno Datganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd hefyd a dylai gynnwys arfarniad o bolisi PL/5 ac adlewyrchu gofynion polisi PL/16 a lle bo'n berthnasol, polisïau safle PL/17 i PL/25.

5.2.34 Er mwyn sicrhau dyluniad da a chreu ymdeimlad effeithiol o le, mae angen dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pob elfen o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae dyluniad yn elfen sylfaenol wrth greu datblygiad a lleoedd cynaliadwy, sydd ar ben blaen Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae

5.2.35 Mae dyluniad da yn rhan gynhenid o broses creu lleoedd cynaliadwy, a ddiffinnir gan PCC fel: "ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd ... sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif". Bydd CDLIN Conwy yn sicrhau bod datblygiad yn bodloni amcanion dyluniad da. Mae'r amcanion hyn wedi'u categorio'n bum agwedd allweddol yn PCC, 12 (gweler Ffigur 14 isod) fel a nodir mewn mwy o fanylder ym mholisi PL/5. Pan fod angen Datganiadau Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd yn unol â pholisi PL/16, dylid gweithredu polisi PL/5 o ran dyluniad wrth baratoi tystiolaeth ategol o'r fath ar gyfer cais cynllunio.

5.2.36 Mae dyluniad yn tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf. Mae'n bwysig bod pobl yn byw mewn lleoedd deniadol a gwahanol, a'u


dyluniad da yn rhan sylfaenol o greu lleoedd cynaliadwy lle mae pobl am fyw, gweithio a chymdeithasu ynddynt. Wrth gyflawni datblygiad cynaliadwy, mae CDLIN Conwy yn ceisio sicrhau bod dyluniad yn mynd tu hwnt i estheteg er mwyn cynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol datblygiad. Felly, er mwyn cyflawni dyluniad da, mae'n rhaid i gynigion datblygu ystyried sut caiff lle ei ddefnyddio, sut gall adeiladau a'r parth cyhoeddus gefnogi'r defnydd hwn a'r berthynas â'r ardal gyfagos. Caiff cynigion datblygu eu hasesu o ran eu cydweddoldeb dyluniad a chreu lleoedd. Gall dyluniad gwael gael effaith andwyol ar gymeriad a golwg ardal, yn ogystal â niweidio'r strydweidd cyfun. Caiff amryw elfennau (e.e. effaith weledol, colli golau, preifatrwydd a chyfyngiadau traffig) eu hasesu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol bosibl.

bod yn gallu cynnwys gofynion newidiol y rhai sy'n byw yno. Mae creu lleoedd yn gysyniad trosfwaol sy'n ymwneud â dyluniad a chyd-destun datblygiad. Mae'n ceisio sicrhau bod y broses ddylunio, strwythur gosodiad a ffurf yn darparu datblygiad sy'n briodol i'r cyd-destun lleol ac sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy gan greu amgylchedd y gall pobl uniaethu ag ef a'i ddefnyddio'n rhwydd wrth barchu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae hyn yn golygu bod dyluniad cynaliadwy, a ddyfeisiwyd yn dda, o ansawdd uchel, sy'n gwella'r amgylchedd ac iechyd a lles pobl yn hanfodol. Mae'n rhaid i'r holl ddatblygiadau fod wedi'u hategu gan weithrediad dyluniad da a dull creu lleoedd cynaliadwy o ran lleoliad, dyluniad, adeiladu a gweithredu.

5.2.37 Bydd CCA yn cael ei baratoi i nodi canllawiau i ddatblygwyr o ran sicrhau bod cynlluniau'n gynaliadwy a'u bod yn cydymffurfio â pholisi PL/5.



Ffigur 14: amcanion dylunio fel a nodir ym mholisi PL/5 CDLIN



Ffynhonnell: PCC, Llywodraeth Cymr

Hybu lleoedd mwy iach yng Nghonwy

Amcan perthnasol: SO1

PL/6 hybu lleoedd mwy iach

1. Er mwyn hybu lleoedd mwy iach yng Nghonwy, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chyfrannu at Gynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych, mae gofyn i gynigion datblygu:
 - a. Alluogi cyfleoedd ar gyfer hamdden a gweithgareddau awyr agored yn unol â Strategaeth Mannau Hamdden y CDLIN;
 - b. Sicrhau bod poblogaethau'n dod i lai o gysylltiad â llygredd aer a sŵn yn unol â pholisïau a nodir yn adran Rhinweddau Amgylcheddol y cynllun;
 - c. Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol yn unol â Strategaeth Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd y cynllun, a;
 - d. Cheisio gwelliannau amgylcheddol a ffisegol, yn enwedig yn yr amgylchedd adeiledig yn unol â pholisïau a nodwyd yn y fframwaith polisi creu lleoedd cynaliadwy.
2. Dylid cyflwyno dadansoddiad safle a chyd-destun er mwyn penderfynu pa mor briodol yw'r cynnig datblygu o ran ymateb i hybu iechyd. Dylid cyflwyno Datganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd hefyd a dylai adlewyrchu gofynion y polisi hwn a pholisi PL/16 a pholisïau safle PL/17 i PL/25.

5.2.38 Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn ffactorau allweddol i iechyd a lles. Bydd y CDLIN yn chwarae rôl bwysig wrth ffurfio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n pennu iechyd ac sy'n hybu neu'n effeithio ar les, yn unol â nod Cymru Iachach. Gall y ffordd mae lleoedd yn gweithio a gweithredu gael effaith ar y dewisiadau mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys eu dewisiadau o ran teithio a hamdden a pha mor hawdd allai fod i gymdeithasu gyda phobl eraill.

5.2.39 Caiff CDLIN Conwy ei gefnogi gan Asesiad o Effaith ar Iechyd (Papur Cefndir 71), sydd wedi llywio datblygiad polisi ar draws pob un o'r pedair thema strategol. Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn ffactor allweddol i iechyd a lles. Mae gan y CDLIN rôl bwysig i'w chwarae wrth ffurfio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n pennu iechyd ac sy'n hybu neu'n effeithio ar les, yn unol â nod Cymru Iachach.

5.2.40 Mae'r weledigaeth yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych yn ceisio sicrhau bod Conwy yn fwy cyfartal, llai difreintiedig a gwydn. Mae'r cymunedau dan anfantais a difreintiedig ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn tueddu i weld effaith anghymesur gan broblemau iechyd. Mae cysylltiadau rhwng yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac iechyd trwy gydol oes unigolyn, ac mae dealltwriaeth o benderfynnyddion ehangach iechyd yn elfen allweddol o bolisi PL/1 a gwaith paratoi'r cynllun datblygu. Dylai'r system gynllunio nodi mesurau rhagweithiol ac ataliol i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn cynnwys galluogi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored a hamdden, sicrhau bod poblogaethau'n dod i lai o gysylltiad â llygredd aer a sŵn, hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a cheisio gwelliannau



amgylcheddol a ffisegol, yn enwedig yn yr amgylchedd adeiledig.

5.2.41 Mae gan CDLIN Conwy rôl bwysig i'w chwarae wrth atal salwch corfforol a meddyliol a achosir neu a waethygir gan lygredd, datgysylltu pobl o weithgareddau cymdeithasol (sy'n cyfrannu at unigrwydd), yn ogystal â hyrwyddo patrymau teithio sy'n hwyluso ffyrdd egniol o fyw. Mae'n rhaid i'r system gynllunio ystyried effeithiau datblygiadau newydd ar gymunedau presennol a diogelu iechyd a lles yn well yn ogystal â diogelu amwynder. Bydd hyn yn cynnwys ystyried darparu asedau cymunedol ac iechyd, a mynediad atynt, fel neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd, meddygfeydd meddygon teulu ac ysbytai. Dylid lleihau'r effaith ar iechyd ym mhob achos, yn benodol lle gallai datblygiad newydd gael effaith andwyol ar iechyd, amwynder a lles. Mewn amgylchiadau o'r fath, lle na ellir goresgyn effaith ar iechyd neu amwynder yn foddhaol, dylid gwrthod datblygu.

5.2.42 Mae'r CDLIN newydd yn ceisio datblygu a chynnal lleoedd sy'n cefnogi ffyrdd o fyw iach, actif ar draws pob grŵp oedran ac economaidd-gymdeithasol, gan gydnabod y gall buddsoddi mewn isadeiledd cerdded a beicio fod yn fesur ataliol effeithiol sy'n lleihau pwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus yn y tymor hwy. Gall y ffordd y mae datblygiad wedi'i osod a'i drefnu ddylanwadu ar ymddygiad a phenderfyniadau pobl a gall liniaru'n effeithiol yn erbyn llygredd aer a sŵn.

5.2.43 Mae cynnwys ffynonellau dŵr yfed neu orsafoedd ail-lenwi ar gyfer poteli i'w hailddefnyddio mewn mannau cyhoeddus yn ffordd syml ac effeithiol o wneud lleoedd yn fwy iach a lleihau gwastraff di-angen. Gall cynllunio effeithiol ddarparu

amgylchedd hamddenol a thawel yn ogystal ag amgylcheddau cyffrous a synhwyraidd, ac mae'r ddau yn gwneud cyfraniad pwysig i leoedd llwyddiannus.

5.2.44 Gall Isadeiledd Gwyrdd fod yn ffordd effeithiol o wella iechyd a lles, trwy gysylltu cartrefi, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a darparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel. Dylid rheoli golau mewn modd sensitif ym mhob datblygiad, ac mewn mannau cyhoeddus yn enwedig. Dylid sicrhau bod poblogaethau'n dod i gyn lleied â phosibl o gysylltiad â llygredd aer. Bydd cydnawsedd defnydd tir yn ffactor allweddol wrth fynd i'r afael ag ansawdd aer a chreu seinwedd priodol sy'n ffafriol i weithgareddau a phrofiadau cymdeithasol a diwylliannol penodol, ac sy'n eu hadlewyrchu, yn enwedig mewn ardaloedd canolog prysur mewn trefi a dinasoedd. Yn yr un modd, gall darparu ardaloedd tawel a llonydd sy'n darparu noddfeydd heddychlon mewn amgylcheddau sy'n swydd fel arall, helpu i leihau lefelau llygredd cyffredinol a hybu lles meddyliol a chorfforol yn ardal cynllun Conwy.

5.2.45 Dylid cyflwyno dadansoddiad safle a chyd-destun i gefnogi polisi PL/6 er mwyn penderfynu pa mor briodol yw'r cynnig datblygu o ran ymateb i hybu iechyd. Dylid cyflwyno Datganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd a dylai gynnwys arfarniad o bolisi PL/6 yn unol â pholisi PL/16 a pholisïau safle PL/17 i PL/25. Bydd CCA yn cael ei baratoi i nodi canllawiau i ddatblygwyr o ran sicrhau bod cynlluniau'n gynaliadwy a'u bod yn cydymffurfio â pholisi PL/6.

Yr iaith Gymraeg

Amcanion perthnasol: SO1

- 5.2.46 Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o wead cymdeithasol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae 25.9% o boblogaeth Conwy yn gyffredinol yn gallu siarad Cymraeg (2021), sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.8%. Mae amrywiadau ar draws ardal y cynllun, lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg mor uchel â 73% ym Mhentrefoelas, ac mor isel ag 11% yn Nhowyn a Bae Cinmel.
- 5.2.47 Mae [Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych 2023-28](#) yn sefydlu naw egwyddor, sy'n berthnasol i bob maes gwaith. Mae'r egwyddor iaith yn nodi: "Cefnogi a hybu'r Gymraeg ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, integreiddio strategaethau Cymraeg partneriaid." Mae gan y cynllun nod hefyd: "Mae ein cymunedau yn gallu cael mynediad i gefnogaeth yn eu dewis iaith. Bydd y BGC yn annog a gwella'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd."
- 5.2.48 Mae gan Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor, [Ein Llais Cymraeg](#) weledigaeth ar gyfer:
- "Conwy ddwyieithog lle mae pobl yn hyderus ac yn falch o'u llais Cymraeg, lle caiff Cymraeg ei siarad o fewn y teulu, y gymuned a'r gweithle a lle caiff diwylliant Cymreig ei ddathlu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn."
- 5.2.49 Mae'r Strategaeth yn dangos sut fydd yr awdurdod yn cyfrannu at fodloni nod LIC o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a hybu'r Gymraeg a'i defnydd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr

Cymraeg o 1,600 ym Mwrdeistref Sirol Conwy erbyn 2029, neu 2% fel cyfran. Mae'r CDLIN yn cyfrannu at gyrraedd y targed hwn trwy ei benderfyniadau cynllunio.

- 5.2.50 Mae'r CDLIN hwn yn cyfrannu tuag at y nod lles cenedlaethol o fod ag iaith Gymraeg sy'n ffynnu, trwy alluogi cymunedau cynaliadwy.
- 5.2.51 Mae'n rhaid i bob penderfyniad a wneir gan CBSC, gan gynnwys penderfyniadau cynllunio, fod yn unol â Safonau'r Gymraeg (2015), trwy geisio hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n rhaid i bob penderfyniad polisi ystyried effeithiau negyddol a chadarnhaol ar y Gymraeg a'i siaradwyr, a cheisio cyfleoedd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

PL/7 yr iaith Gymraeg

1. Bydd yr ACLL yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn hybu a chynyddu dyfodol hirdymor y Gymraeg. Bydd datblygiad a fydd yn niweidio cymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned, oherwydd ei faint, graddfa, natur neu leoliad, yn cael ei wrthod, oni bai bod modd lliniaru'r niwed hwn.
2. Mae'n rhaid i bob safle, fel gofyniad lleiaf, ddarparu arwyddion dwyieithog a bod yn sensitif i dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol yr ardal wrth enwi ffyrdd ac adeiladau. Mae'n rhaid cadw enwau Cymraeg traddodiadol ar gyfer datblygiadau ac enwau strydoedd newydd. Wrth enwi datblygiadau newydd, mae'n rhaid rhoi enwau Cymraeg a/neu enwau ac ystyron Cymraeg lleol i safleoedd er mwyn disgrifio a chrynhai ymdeimlad unigryw y lle hwnnw a'i hanes a'i hunaniaeth.
3. Mae angen asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi sut fydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg, gan gynnwys cynllun gweithredu gyda manylion am unrhyw gamau lliniaru, ar gyfer safleoedd yn yr ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg, fel a ddynodwyd ar y map cynigion ar gyfer y mathau ganlynol o ddatblygiad:
 - a. Cynigion yn yr ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg, fel a ddiffinnir ar y mapiau cynigion, ar gyfer:
 - i. Safleoedd tai heb eu dyrannu, gydag enillion net o 10 neu fwy o anheddau yn y CDSA, neu 5 neu fwy yn yr RDSA;
 - ii. Datblygiad masnachol, hamdden, diwydiannol neu dwristiaeth ar safleoedd heb eu dyrannu,

gydag enillion net yn yr ardal ddatblygu o 1,000 metr sgwâr neu fwy;

- iii. Datblygiad a fydd yn arwain at golli cyfleuster cymunedol ym Mhrif Bentrefi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau;
 - iv. Chwareli newydd neu estyniadau i chwareli presennol;
 - v. Cynigion ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth mawr; a
 - vi. Chynlluniau preswyl sy'n darparu swm sy'n is na'r nifer gofynnol o dai fforddiadwy, yn unol â pholisi HS/3 Darpariaeth Tai Fforddiadwy, oherwydd hyfywedd ariannol y cynllun.
- b. Cynlluniau preswyl, gydag enillion net o ran anheddau ar hap-safleoedd, a fydd yn darparu mwy na'r lefel twf a ragwelir ar gyfer yr ardal strategaeth honno, fel a ddiffinnir ym mholisiau PL/2, PL/3 a PL/4.

5.2.52 Mae strategaeth dwf y CDLIN yn gydnaws â hyrwyddo, gwella a diogelu'r Gymraeg ar draws pob is-ardal. Mae'r dosraniad twf ar gyfer pob is-ardal yn caniatáu lefel briodol o dwf ar gyfer pob is-ardal mewn lleoliadau priodol, gan gefnogi nod cymunedau cynaliadwy.

5.2.53 Mae TAN20 yn caniatáu i ardaloedd gael eu diffinio mewn CDLI sy'n arbennig o sensitif neu arwyddocaol o ran y Gymraeg. Mae'r cynllun hwn yn nodi ardal sy'n sensitif o ran y Gymraeg, lle mae 25% neu fwy o breswylwyr yn gallu siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2021), fel a nodwyd gan y dystiolaeth yn Papur Cefndir 42. Er mwyn hyrwyddo a diogelu hunaniaeth diwylliannol a ieithyddol yr ardal sensitif hon a chyfrannu at dwf



y Gymraeg (yn unol â strategaeth hyrwyddo'r Awdurdod a Safonau'r Gymraeg), bydd angen Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y datblygiad penodol a nodir yn y polisi. Mae hyn yn cynnwys datblygu ar safleoedd a ddiogelir fel a ddynodwyd ar y map cynigion.

5.2.54 Mae cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys siopau, tai tafarn a neuaddau pentref yn bwysig o ran cynnal cymunedau ac maen nhw'n gyfle i siarad Cymraeg a'i chlywed. Maen nhw'n bwysig ar gyfer cynaliadwyedd a ffyniant cymunedau Cymraeg eu hiaith. Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer cynigion sy'n golygu colli'r cyfleusterau hyn mewn aneddiadau llai ym Mhrif Bentreffi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau, fel a ddynodir ym mholisi PL/4 y CDLIN, yn yr Ardaloedd sy'n Sensitif o ran y Gymraeg.

5.2.55 Mae gofyn i ymgeiswyr sy'n cynnig chwareli newydd neu estyniad i chwarel sy'n bodoli eisoes gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a nodi mesurau lliniaru fel rhan o'r broses cais cynllunio. Dylai'r asesiad ystyried effaith creu parth clustogi ar gyfer chwarel newydd hefyd, neu estyniad i chwarel sy'n bodoli eisoes, a darparu mesurau lliniaru yn unol â hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i effaith lawn y cynnig a'r parth clustogi fydd ei hangen ar gyfer chwarel, a allai effeithio ar eiddo a busnesau presennol, a bod yr effaith honno'n cael ei lliniaru.

5.2.56 Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer cynlluniau ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth mawr newydd hefyd. Ni chredir bod angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer dosbarthiadau defnydd C4 oherwydd eu bod yn llai o ran graddfa a maint. Mae angen wedi'i nodi ar gyfer y math hwn o

lety a gwelwyd bod y cyflenwad yn brin ar draws ardal y cynllun (gweler Papur Cefndir 12 i gael rhagor o fanylion). Mae angen ystyriaeth ofalus i reoli'r rhain yn briodol, gan gynnwys asesu a lliniaru unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg.

5.2.57 Pe bai lefel y datblygiad preswyl mewn is-ardal y CDLIN yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ac a aseswyd fel rhan o broses paratoi'r cynllun, bydd gofyn i bob datblygiad preswyl lle mae cynnydd net o anheddau gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, fel bod effaith gronnus y twf ychwanegol hwn yn cael ei hasesu, ac os oes angen, ei lliniaru'n briodol. Bydd datblygiadau preswyl sydd wedi'u cwblhau yn cael eu monitro trwy'r Adroddiad Monitro Blynnyddol a bydd yn llywio'r gofyniad polisi hwn.

5.2.58 Mewn rhai achosion, gall hyfywedd ariannol cynllun preswyl olygu nad yw'n bosibl darparu ar gyfer y gofynion tai fforddiadwy a nodir ym mholisi HS/3. Mae'r meini prawf ar gyfer aelwydydd sy'n cofrestru ar gyfer tai fforddiadwy yn cynnwys blaenoriaeth yn y rhan fwyaf o achosion i'r rhai sydd â chysylltiad lleol dros aelwydydd o'r tu allan i'r ardal. Gallai hyn gael effaith wahanol ar y Gymraeg, ac felly mae angen asesu a lliniaru'n briodol.

5.2.59 Mae'n rhaid i Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg gynnwys manylion camau lliniaru a ddarperir i liniaru, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg mewn cynllun gweithredu, gyda dyddiadau cwblhau. Ar gyfer datblygiadau masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth, mae'n rhaid asesu a lliniaru ar gyfer y cam adeiladu, creu cyflogaeth a gweithredu parhaus. Mae'n rhaid i gamau lliniaru fod yn gymesur â maint a graddfa'r datblygiad arfaethedig, a'r niwed a achosir i'r Gymraeg, fel mai'r nod fydd peidio â chyflawni niwed cyffredinol, ac yn unol â'r Safonau, ceisio hyrwyddo'r Gymraeg, fel nad yw'n cael ei thrin yn llai



ffafriol na'r Saesneg. Mae'n rhaid dewis mesurau lliniaru ar sail pa mor briodol ydynt i fynd i'r afael â'r effaith bosibl sydd wedi'i nodi yn ystod yr asesiad o effaith. Yr egwyddor yw dileu effaith negyddol ar y Gymraeg, neu lle nad yw hynny'n bosibl, ei dileu gymaint ag sy'n bosibl a lliniaru hyn gydag effaith gadarnhaol a'i hyrwyddo mewn ffyrdd eraill.

5.2.60 Bydd mesurau lliniaru gofynnol yn cael eu sicrhau trwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol er mwyn sicrhau darpariaeth. Dylai'r pecyn lliniaru terfynol a ddarperir fod yn benodol i safle ac effaith y datblygiad arfaethedig: Mae rhestr o fesurau lliniaru a awgrymir i'w gweld isod. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Mae'n bosibl y bydd angen mesurau lliniaru eraill, gan ddibynnu ar y cynllun arfaethedig a'i effaith. Mae rhai yn ofynion cyfreithiol, ac mae'n rhaid i bob safle eu darparu. Bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a gaiff eu paratoi.

- Rhoi arwyddion dwyieithog ar safle'r datblygiad, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg.
- Cyflwyno safleoedd fesul cam.
- Sicrhau bod marchnata a chyfathrebu rhanbarthol yn ddwyieithog.
- Hyrwyddo neu ddarparu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Noddi, hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hwyluso a chefnogi cludiant rhwng y cartref ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Darparu dosbarthiadau dysgu Cymraeg i breswylwyr neu staff.

- Darparu ysgoloriaethau ar gyfer hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mewn colegau lleol mewn meysydd cyflogaeth neu fasnach cysylltiedig.

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Amcanion perthnasol: SO1

PL/8 rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, mae'n rhaid i gynigion datblygu gefnogi'r trawsnewid i economi carbon isel trwy fodloni'r gofynion polisi perthnasol a nodir yn adrannau Fframwaith Cynllunio Sero Net, yr Amgylchedd Naturiol a Rhinweddau Amgylcheddol y cynllun. Rhaid i Gynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff gael ei gyflwyno i gyd-fynd â'r ceisiadau cynllunio perthnasol er mwyn dangos y bydd y datblygiadau yn lleihau'r effaith amgylcheddol.

5.2.61 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac yn nodi'r fframwaith i gyflawni hyn wrth wneud penderfyniadau. Nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw cynnal a gwella cadernid ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu. Mae integreiddio Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i mewn i'r system gynllunio ochr yn ochr ag annog dulliau sy'n seiliedig ar nodi a sicrhau canlyniadau sy'n darparu nifer o fuddion i'r ecosystem yn elfennau hanfodol o leoedd cynaliadwy yng Nghonwy.

5.2.62 Mae'n rhaid i LLC gyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol statudol sy'n nodi eu blaenoriaethau o ran Rheoli



Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, ac mae gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru lunio Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a pharatoi Datganiadau Ardal i lywio gweithredu sy'n seiliedig ar le. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal yn ddarn allweddol o dystiolaeth y mae'n rhaid ei hystyried wrth baratoi cynllun datblygu.

5.2.63 Mae cwmpas cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y system gynllunio yn eang ac mae'n dilyn dull cynhwysfawr o ran datblygu cynaliadwy, pan ddaw penderfyniadau am anghenion tymor byr a hirdymor a chostau a buddion at ei gilydd. Mae'n sicrhau canlyniadau lle gellir darparu nifer o fuddion (mwy nag un budd ecosystem) fel rhan o strategaethau creu cynlluniau neu gynigion datblygu unigol. Caiff polisi PL/8 ei ddarparu trwy weithredu polisiâu cysylltiedig a nodir yn adrannau Fframwaith Cynllunio Sero Net, yr Amgylchedd Naturiol a Rhinweddau Amgylcheddol y Cynllun.

5.2.64 Bydd angen Cynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff ar y cam cais cynllunio ar gyfer cynlluniau o 10 neu fwy o anheddau, neu 1000 metr sgwâr neu fwy o ddatblygiad masnachol neu ddiwydiannol. Bydd y Cynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff yn sicrhau bod datblygiadau yn cael eu cyflawni yn gywir gan leihau effaith amgylcheddol trwy reolaeth gwastraff cynaliadwy yn unol â'r polisi hwn. Mewn rhai achosion, os yw'r swyddog achos cynllunio yn ystyried ei fod yn angenrheidiol, gellir gwneud cais am Gynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff o dan y trothwyon hyn.

Creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig

Amcanion perthnasol: SO1

PL/9 creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig

1. Yn unol â fframwaith gofodol y CDLIN, PL/4 dosbarthiad twf a hierarchaeth aneddiadau a'r fframwaith polisi creu lleoedd, caiff cynigion datblygu mewn aneddiadau gwledig eu cefnogi pan fyddant yn meithrin gallu i addasu a gwydnwch eu cymunedau gwledig.
2. Mae'n rhaid i gynigion daro cydbwysedd cynaliadwy rhwng diwallu anghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.

5.2.65 Caiff economi wledig gref ei hybu er mwyn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus yn ardal CDLIN Conwy. Bydd meithrin gallu i addasu a gwydnwch yn nod allweddol i aneddiadau gwledig wrth wynebu'r her sylweddol o gynnal hunaniaeth a ffyniant cymunedau. Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'r gwead cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei lles yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy sy'n ffynnu yng Nghonwy wledig, lle mae pobl am fyw a gweithio, a gallant fyw yno'n hyfyw a theimlo'n rhan o'r gymuned. Mae gan Gonwy wledig rôl hanfodol i'w chwarae o ran y Gymraeg, gan fod dwysedd uchel o bobl yno sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae polisi PL/7 yn nodi'r meini prawf



hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynigion datblygu yn diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig.

5.2.66 Mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau newydd yn hanfodol o ran twf a chynaliadwyedd ardaloedd gwledig, gyda chefnogaeth y tai gofynnol a'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol. Fodd bynnag, mae angen taro'r cydbwysedd gorau posibl, ac mae angen rheoli datblygiad newydd yn unol â'r polisi hwn er mwyn taro'r cydbwysedd hwn.

5.2.67 Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig, mae'r cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir a chynyddu cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig nag mewn aneddiadau trefol. Felly, bydd aneddiadau mewn ardaloedd gwledig yn canolbwyntio ar dwf ac arallgyfeirio lleol yn dibynnu ar eu cynaliadwyedd a'u safle yn yr hierarchiaeth aneddiadau (polisi PL/4). Bydd ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol yn cael ei fabwysiadu hefyd, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas ag arferion ffermio sy'n newid, neu sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Bydd ymagwedd gadarnhaol at drosi adeiladau gwledig (polisi PL/10) i'w hailddefnyddio i ddibenion busnes, yn ogystal â dull cadarnhaol o ran prosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig (polisi ED/6) yn cael eu mabwysiadu. Y nod yw cefnogi ffyniant a chynaliadwyedd hirdymor cymunedau gwledig, heb achosi niwed i'w cymeriad, a'r union reswm pam mae preswylwyr am fyw yno a pharhau i fyw yno.

5.2.68 Bydd y dull yn sicrhau bod ardaloedd gwledig yn wydn o ran effaith newid hinsawdd a'u bod yn chwarae rhan wrth leihau

achosion newid hinsawdd trwy ddiogelu dalfeydd carbon ac fel ffynhonnell ynni gynaliadwy.

5.2.69 Caiff amcan y polisi hwn ei ddarparu yn unol â fframwaith gofodol y CDLIN, yr hierarchaeth aneddiadau (polisi PL/4) a'r polisiâu perthnasol a nodir yn yr adran Creu Lleoedd Cynaliadwy.

Addasiadau gwledig

Amcan perthnasol: SO1

5.2.70 Yn yr ardal wledig lle nad oes angen adeiladau ar gyfer eu defnydd gwreiddiol, sef amaethyddol yn bennaf mwyach, gallant fod yn gyfle gwerthfawr i gynnig defnydd preswyl, cyflogaeth, twristiaeth neu ddefnydd manwerthu ar raddfa fach fel modd o gefnogi'r economi wledig a'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

5.2.71 Oherwydd eu lleoliad sensitif, mae'n rhaid rheoli datblygiadau o'r fath yn ofalus. Mae'n hanfodol bod y defnydd arfaethedig a dyluniad yn ystyried cymeriad a golwg yr adeilad presennol a'r ardal gyfagos. Yn yr un modd, mae angen sicrhau cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol a gall economi leol gynaliadwy chwarae rôl bwysig yn hyn o beth er mwyn cadw pobl leol mewn gwaith ac er wyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hyn. Felly mae angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a niferoedd y siaradwyr Cymraeg a'u diogelu rhag niwed. Yn ogystal, mae'r ACLL yn cydnabod bod nifer o adeiladau a strwythurau heb eu rhestru yn ardal y cynllun, a'u bod yn bwysig o ran cymeriad a hunaniaeth eu hardal leol oherwydd eu dyluniad, eu deunydd a'u cysylltiadau cymdeithasol a



hanesyddol, a'u bod yn haeddu cael eu cadw trwy sicrhau defnydd iddynt yn y dyfodol. Felly mae gwelliannau o'r fath yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan bobl leol gan ddenu ymwelwyr, a chreu twf economaidd a chymunedau cynaliadwy eto.

PL/10 trawsnewid a newid defnydd adeiladau gwledig

1. Cefnogir ceisiadau i drawsnewid ac aildefnyddio adeiladau ag iddynt rinwedd, sydd wedi'u hadeiladu'n addas yng nghefn gwlad agored at ddibenion preswyl parhaol, defnydd cyflogaeth, llety gwyliau tymor byr a/neu siopau fferm ar raddfa fach, os yw'r canlynol yn cael eu bodloni:-
 - a. Mae'r adeilad presennol yn strwythurol gadarn a'r adeiladwaith yn barhaol a sylweddol;
 - b. Mae'r adeilad yn gallu cael ei drawsnewid heb ei ailadeiladu'n llwyr neu'n sylweddol, heb estyniadau anghymesur nac addasiadau oeraidd ac mae'r dyluniad arfaethedig yn cyd-fynd â'r ardal o'i gwmpas.
 - c. Mae'r trawsnewid yn defnyddio deunydd priodol ac nid yw'n arwain at effeithiau annerbyniol ar strwythur, ffurf, cymeriad neu leoliad os yw'r adeilad o ddiddordeb hanesyddol a/neu bensaernïol;
 - d. Gellir darparu mynediad diogel i gerddwyr a cherbydau heb niweidio cymeriad a golwg yr ardal;
 - e. Mae'r cynnig yn ddatblygiad cynaliadwy o ran y lleoliad, lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni, yn unol â pholisi EN/1.
 - f. Ni fydd unrhyw waith ategol sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid yn cael effaith annerbyniol neu andwyol ar gymeriad gwledig ac agored yr ardal leol.

- g. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol gwerthfawr mewn modd anghyfiawn, nac adeilad amaethyddol a allai fod yn ofynnol i ddiwallu anghenion amaethyddol hirdymor yr uned;
 - h. Nid oes unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg, yn unol â pholisi PL/7, ac;
 - i. Mae'r cynnig yn unol â chynllun datblygu arall a pholisïau cenedlaethol.
2. Pan mai bwriad y trawsnewid arfaethedig yw diwallu anghenion menter wledig o ran annedd, caiff y datblygiad ei gefnogi yn unol â'r polisi hwn, os caiff amod deiliadaeth Annedd Menter Wledig ei weithredu.
3. Ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig gan gynnwys llety gwyliau, dylai'r adeilad fod werth ei gadw oherwydd ei olwg, ei werth hanesyddol, pensaernïol neu dirweddol, a dylai'r cynllun trawsnewid gadw'r nodweddion pwysig a nodwyd.
4. Ni chaniateir cynigion a fyddai'n arwain at annedd newydd heb gyfyngiad ar y farchnad agored trwy naill ai drawsnewid neu ddileu amod deiliadaeth (fel llety gwyliau tymor byr, Tai Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol (AHLN) neu Anheddau Mentrau Gwledig (AMG)) oni bai:-
 - a. Bod cyfraniad yn cael ei wneud at AHLN, wedi'i reoli trwy A106,
 - b. Bod tystiolaeth ddigonol wedi'i darparu i gyfiawnhau dilau amod deiliadaeth (lle bo'n berthnasol); a
 - c. Bod meini prawf ym mholisi HS/9 yn cael eu bodloni.



5.2.72 Dylai ACLI fabwysiadu dull cadarnhaol o drawsnewid adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio i ddibenion busnes yn unol â PCC a TAN 23. Dylid nodi bod polisi ar wahân yn yr adran Datblygu Economaidd (ED/6) sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer adeiladau newydd at ddibenion ehangu busnesau gwledig presennol ac arallgyfeirio ffermydd. Mae polisi ED/3 yn darparu canllawiau am eiddo cyflogaeth newydd yn yr ardal wledig. Gallai polisi HS/10 fod yn berthnasol.

5.2.73 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen cyflwyno adroddiad strwythurol a baratowyd gan beiriannydd strwythurol cymwys gyda cheisiadau am gynlluniau trawsnewid i ddangos bod y meini prawf yn rhan 1b y polisi wedi'u bodloni.

5.2.74 Dylai datblygiadau fod ar raddfa sy'n briodol i'w lleoliad. Gallai datblygiadau cyflogaeth neu fanwerthu yng nghefn gwlad wrthdaro gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan arwain at symudiad traffig anaddas a niwed amgylcheddol posibl. Dylai datblygiadau sy'n arwain at niferoedd sylweddol o weithwyr neu ymwelwyr gael eu lleoli mewn aneddiadau neu gerllaw a dylent fod yn hygyrch ar gludiant cyhoeddus, trwy feicio neu ar droed. Mewn ardaloedd heb fynediad o'r fath, gallai datblygiad busnes ar raddfa fach fod yn briodol pan fo'n arwain at gynnydd bach yn unig o ran symudiad cerbydau. Gallai hyn olygu bod angen creu Cynllun Teithio a/neu liniaru effaith traffig yn unol â pholisi STA/1.

5.2.75 Ni chaniateir ail gartrefi oherwydd yr effaith negyddol bosibl ar gyflenwad tai mewn ardaloedd gwledig a'r diffyg budd economaidd sy'n deillio o'r cynllun.

5.2.76 Mae defnydd preswyl parhaol yn cynnwys AMG (a fydd yn troi'n AHLN os na fydd eu hangen mwyach) a thai'r farchnad agored.

Ceisir cyfraniad ariannol tuag at ddarparu AHLN mewn lleoliadau cynaliadwy a phriodol ar gyfer trawsnewid eiddo gwledig yn dai'r farchnad agored ac ar gyfer ceisiadau sy'n ceisio codi cyfyngiadau deiliadaeth sy'n gysylltiedig ag AMG. Caiff defnydd tymor byr (cyfnod o hyd at 5 mlynedd) o AMG fel llety gwyliau tymor byr ei gefnogi yn amodol ar gyfiawnhad yn unol â pholisi HS/9, oherwydd mae'n diogelu defnydd a chadw AMG yn y tymor hwy. At ddibenion rhan 4 o bolisi PL/10, mae annedd newydd heb gyfyngiad ar y farchnad agored yn cyfeirio at unrhyw gynnig a fyddai'n arwain at annedd heb unrhyw gyfyngiadau deiliadaeth, boed hynny trwy drawsnewidiad newydd, neu trwy ddileu cyfyngiadau deiliadaeth o annedd bresennol.

Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

Amcan perthnasol: SO1

PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

Er mwyn hybu gweithredu ar y cyd, gwella lles a chreu lleoedd yng Nghonwy, caiff Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro eu cefnogi pan fyddant wedi'u paratoi ar y cyd â'r gymuned leol a phan fyddant wedi'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn unol â Chanllawiau Cydymffurfio Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro Conwy.

5.2.77 Mae Cynlluniau Lleoedd a Chynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol. Gall cymunedau lleol ysgogi eu paratoi ac maent yn adnodd pwerus wrth hyrwyddo gweithredu ar y cyd i wella lles a chreu lleoedd. Dylent gefnogi darpariaeth polisiâu'r CDLIN a gellir eu mabwysiadu fel canllaw cynllunio atodol. Mae'r Cyngor



wedi creu Canllawiau Cymunedol Cynllun Bro a Chanllawiau Cydymffurfio ar gyfer Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro i gynorthwyo cymunedau i baratoi a mabwysiadu cynlluniau o'r fath.

5.2.78 Mae Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhoi cyfle i gymunedau ymgysylltu â'r broses o greu'r cynlluniau ar lefel leol. Maen nhw'n ymwneud â darparu canlyniadau lleol, helpu i feithrin consensws a phrynu i mewn o fewn proses ehangach cynlluniau datblygu. Gallant ychwanegu manylion bach at CDLI sydd wedi'i fabwysiadu. Gellir eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a Chymuned neu'r ACLI ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi'r Cynlluniau a bydd yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phawb. Mae canllawiau Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion hyn.

5.2.79 Dylai Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro gydymffurfio â'r CDLIN a gellir eu mabwysiadu fel CCA os oes digon o 'gysylltiad polisi' yn y cynllun. Ni allant ddyblygu na chyflwyno polisi newydd ac ni allant ddad-ddyrannu safleoedd a nodwyd yn y cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Nid yw Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro yn rhan o'r cynllun datblygu statudol; yn hytrach, maen nhw'n ychwanegu manylion at y cynllun a fabwysiadwyd. Mae Canllawiau Cydymffurfio Conwy yn cynorthwyo cymunedau i ddeall y materion paratoi hyn.

Isadeiledd a datblygiadau newydd

Amcan perthnasol: SO1

PL12 datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd

1. Mae'n rhaid i bob datblygiad wneud darpariaeth ddigonol i liniaru'r effaith gymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiad. Yn unol â'r fframwaith polisi creu lleoedd ac ystyriaethau materol eraill, mae'n rhaid i ddatblygiadau wneud darpariaeth addas ar gyfer:
 - a. y Gymraeg;
 - b. tai fforddiadwy;
 - c. mannau hamdden;
 - d. cyfleusterau cymunedol;
 - e. carbon sero net;
 - f. budd net i fioamrywiaeth;
 - g. teithio llesol;
 - h. bodloni gofynion polisi fel a nodir mewn Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro a fabwysiadwyd fel CCA; ac
 - i. unrhyw ofynion eraill ar y safle neu oddi arno sydd eu hangen o ran y datblygiad, ac sy'n bodloni'r profion perthnasol a nodir mewn canllawiau cenedlaethol.
2. Caiff rhain eu rheoli naill ai trwy amod cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio, fel y bernir sy'n fwyaf priodol gan yr ACLI.

5.2.80 Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau yn ardal CDLIN Conwy eu cefnogi os ydynt wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer gwella



darpariaeth ar gyfer isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau ar y safle ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol oherwydd y datblygiad, gan gynnwys ar gyfer eu cynnal a'u cadw yn y dyfodol.

5.2.81 Mae'n bwysig bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiad newydd, ac ar gyfer eu cynnal a'u cadw yn y dyfodol, yn ogystal ag ar gyfer mynediad addas, parcio, draenio, dyluniad, ynni adnewyddadwy a thirlunio ar y safle. Mae pob datblygiad newydd yn cyfrannu at alw ar isadeiledd, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus presennol. Felly bydd disgwyl i ddatblygwyr gyfrannu at y gwelliannau angenrheidiol neu ddarpariaeth newydd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o'u datblygiadau. Ni ddylid datblygu cyn i'r isadeiledd gofynnol fod yn ei le. Caniateir datblygiad dim ond pan fydd cytundeb rhwng y partïon perthnasol o ran y cyllid a gweithredu darpariaeth gofynnol ar y safle ac oddi ar y safle, fel a nodir yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai safleoedd yn profi cyfyngiadau sylweddol a allai gael effaith ar allu i ddarparu safle yn ariannol. Yn yr achosion hyn, defnyddir rhywfaint o hyblygrwydd yn unol â pholisi PL/13 a HS/3.

5.2.82 Pan fo hyfywedd ariannol yn cyfyngu ar lefel y rhwymedigaethau y gellir eu ceisio, dilynir y systemau blaenoriaeth a nodir yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio.

Rhwymedigaethau cynllunio a hyfywedd

Amcan perthnasol: SO1

PL/13 datblygiad newydd a hyfywedd

1. Ni chaiff cynigion datblygu eu cefnogi pan nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a nodir ym mholisi PL/12, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u cyfiawnhau. Pan nad yw'r ACLL yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i fodloni gofynion polisi cynllunio, neu pan fyddai'r rhwymedigaethau cynllunio llai yn golygu y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol, bydd y cynnig y cael ei wrthod.
2. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd yr ACLL yn derbyn Asesiadau Hyfywedd Ariannol (AHA) ar gyfer safleoedd nad yw ymgeiswyr yn ystyried eu bod yn hyfyw ar gyfer datblygu. Ni chaiff AHA eu hystyried oni bai bod yr ymgeisydd wedi dangos y canlynol yn ddigonol i fodloni'r ACLL (gyda thystiolaeth lle bo'n briodol):
 - a. Bod y safle neu ddatblygiad yn cynrychioli amgylchiad eithriadol dilys, gyda hyfywedd ariannol mwy heriol na safleoedd tebyg yn yr ardal;
 - b. Bod pris prynu neu werth defnydd presennol y safle arfaethedig yn cynrychioli ei ddefnydd a'i gyflwr presennol; a
 - c. Bod camau rhesymol wedi'u cymryd i fodloni gofynion polisi cynllunio, gan gynnwys ystyried cynlluniau amgen (e.e. defnydd amgen neu gyfuniad o dai).

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, os bydd yr ACLL yn cytuno nad yw'r datblygiad yn ariannol hyfyw er mwyn bodloni gofynion polisi cynllunio o ran rhwymedigaethau cynllunio, mae'n bosibl y derbynnir gostyngiad.



5.2.83 Disgwylir i bob datblygiad wneud darpariaeth resymol tuag at fodloni'r isadeiledd a'r cyfleusterau gofynnol ar gyfer y datblygiad hwnnw. Mae'r cyfrifoldeb ar ddatblygwyr, ymgeiswyr a pherchnogion tir i roi ystyriaeth ddyledus i ofynion polisi cynllunio a chostau datblygu eraill (gan gynnwys costau anarferol), wrth drafod gwerth safleoedd.

5.2.84 Mae'n bwysig bod datblygwyr yn deall hyfywedd ariannol eu prosiect o'r dechrau, a'u bod yn cynnwys hyn wrth ddylunio datblygiadau. Wrth i gais datblygu symud ymlaen a'r amgylchiadau newid (er enghraifft, prisiau tai, costau adeiladu), argymhellir bod datblygwyr yn edrych ar eu hasesiad hyfywedd eto i sicrhau ei fod yn ddilys o hyd a bod y datblygiad yn gallu bodloni'r holl gostau datblygu gan gynnwys costau rhwymedigaethau cynllunio.

5.2.85 Mae targedau tai fforddiadwy wedi'u gosod ar ôl cynnal asesiad hyfywedd ar safleoedd, gan ystyried y costau adeiladu hysbys ym Mwrdeistref Sirol Conwy a chryfder y farchnad dai leol. Mae trothwyau wedi'u gosod mewn rhai ardaloedd, i ganiatáu ar gyfer mwy o her o ran hyfywedd safleoedd llai, yn enwedig Tir a Ddatblygwyd Eisoed.

5.2.86 Mae canllawiau cenedlaethol yn PCC yn glir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid cynnal asesiadau hyfywedd. Ni fydd yr ACLL yn ystyried lleihau neu hepgor gofynion rhwymedigaethau cynllunio oni bai bod ymgeiswyr wedi dangos yn glir bod y safle yn achos eithriadol, gan arwain at gostau datblygu sy'n sylweddol uwch, a/neu werth datblygu gros sy'n sylweddol is na safleoedd tebyg eraill. Ni chaiff rhwymedigaethau cynllunio eu lleihau na'u hepgor pan fo

pryderon o ran hyfywedd yn deillio oherwydd bod yr ymgeisydd wedi talu gormod am safle.

5.2.87 Gall bron iawn unrhyw safle edrych fel safle nad yw'n hyfyw trwy gynigion datblygu amhriodol. Er enghraifft, gall adeiladu rhai tai mawr ar safle gynyddu elw datblygwr ond lleihau Gwerth Gweddilliol datblygiad o'i gymharu â datblygiad tai llai, gan olygu bod datblygiad yn edrych fel un nad yw'n hyfyw o ran rhwymedigaethau cynllunio. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dylunio datblygiad hyfyw, felly bydd yr ACLL yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried cyfuniad amgen o dai fel rhan o'r broses asesu hyfywedd. Pan fo'r ymgeisydd wedi dewis cyfuniad o dai sy'n golygu nad yw cynllun yn hyfyw, nid yw hyn yn debygol o fod yn rheswm dros leihau rhwymedigaethau cynllunio pan fyddai cynllun amgen rhesymol ar y safle yn hyfyw.

5.2.88 Mae'n rhaid i unrhyw rwymedigaethau cynllunio y mae'r ACLL yn eu ceisio fodloni'r profion perthnasol fel a nodir yn rheoliadau CIL 122 neu ganllawiau cenedlaethol (Cylchlythyr 13/97: rhwymedigaethau cynllunio), fel bo'n briodol. Un o'r profion yw bod yn rhaid i rwymedigaeth fod yn 'angenrheidiol'. Mae hyfywedd ariannol yn ystyriaeth materol, ond nid yw'n dileu'r gofynion a nodir mewn polisi sef fod angen i ymgeiswyr fodloni gofynion rhwymedigaethau cynllunio penodol. Pan ddangoswyd nad yw datblygiad yn hyfyw er mwyn darparu rhwymedigaethau penodol, ond nad yw ei rinweddau yn fwy na'r niwed yn sgil methu â darparu rhwymedigaethau cynllunio, caiff cynigion datblygu eu gwrthod.

Rheoli ffurf anheddiad

Amcan perthnasol: SO1

PL/14 rheoli ffurf anheddiad

Mae Lletemau Glas a ffiniau aneddiadau wedi'u nodi ar y map cynigion i ddiogelu cefn gwlad agored a thir amaethyddol. Mae'n rhaid i gynigion datblygu fodloni'r polisiâu perthnasol a nodwyd yn adran Creu Lleoedd Cynaliadwy, Fframwaith Tai a Thai Fforddiadwy, Strategaeth Datblygu Economaidd ac Amgylchedd Naturiol y cynllun.

5.2.89 Mae angen diogelu tir agored ac amaethyddol rhag datblygu am y rhesymau canlynol:

- Atal cyduniad aneddiadau;
- Cynyddu mynediad i gefn gwlad ac annog hamdden er mwyn gwella iechyd;
- Rheoli ffurf trefol drwy gadw rheolaeth ar ehangiad ardaloedd trefol;
- Helpu i ddiogelu cefn gwlad rhag ymlediad aneddiadau trefol;
- Diogelu pryd a gwedd ardal drefol; a
- Helpu i adfywio trefi drwy roi anogaeth i aildddefnyddio tir diffaith a thir trefol arall.

5.2.90 Gellir cyflawni hyn trwy nodi dynodiadau Lletem Las a ffiniau aneddiadau sy'n gwahaniaethu rhwng anheddiad a chefn gwlad agored.

5.2.91 Defnyddir Lletemau Glas fel clustog rhwng ymyl yr anheddiad a dynodiadau statudol gan ddiogelu golygfeydd pwysig i mewn i'r ardal ac allan ohoni. Mae Lletemau Glas (polisi NE/5) wedi'u

dangos ar y map cynigion a'u dangos yn Papur Cefndir 29/31. Mae'r polisiâu cyffredinol sy'n rheoli datblygu yng nghefn gwlad yn berthnasol mewn Lletem Las ond, yn ogystal â hynny, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiadau sy'n amhriodol yng nghyd-destun dibenion y dynodiad. Gall Lletemau Glas gael effeithiau buddiol eraill, gan gynnwys darparu mynediad i gefn gwlad a chyfleoedd chwaraeon a hamdden.

5.2.92 Mae polisi PL/14 yn nodi'r dull strategol troswaol ar gyfer y cynllun. Mae'n rhaid i gynigion datblygu fodloni polisiâu perthnasol y cynllun.

Ardal Wella'r Dwyrain

Amcan perthnasol: SO1

PL/15 Ardal Wella'r Dwyrain

Mae Ardal Wella'r Dwyrain wedi'i diffinio ar y map cynigion. Caiff Cynllun ei ddatblygu a'i fabwysiadu ar gyfer yr ardal hon er mwyn hybu cymunedau cynaliadwy a gwydn.

5.2.93 Mae rhannau o is-ardal CDLIN y Dwyrain (Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel) yn y CDSA yn hynod gyfyngedig o ganlyniad i risg llifogydd a chapasiti isadeledd priffyrdd sy'n arwain at gyfleoedd cyfyngedig i ddarparu ar gyfer twf o ran tai a chyflogaeth dros gyfnod y cynllun. Mae'r ardal yn profi darnau o amddifadedd hefyd, a gallai hyn gael ei waethygu oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio tir i ddiwallu anghenion y gymuned dros gyfnod y cynllun. Mae'r risgiau gwydnwch hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y cynllun, a chânt eu rheoli trwy greu Cynllun Ardal Wella'r Dwyrain gan gydweithio â'r gymuned, y sector cyhoeddus, buddsoddwyr, datblygwyr a LLC. Mae'r ardal



yn destun gwelliannau i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd ond dim ond i gynnal yr amddiffyniad mae hyn yn hytrach na helpu gyda chyfleoedd am dwf a diwallu anghenion y gymuned.

5.2.94 Caiff Cynllun Ardal Wella'r Dwyrain ei baratoi yn unol â'r polisiâu sydd wedi'u cynnwys yn y CDLIN, ac os yw'n berthnasol, ei fabwysiadu fel CCA.

Creu Lleoedd a safleoedd

Amcan perthnasol: SO1

PL/16 creu lleoedd a safleoedd

1. Mae'n rhaid i bob safle sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, flaenoriaethu lles hirdymor pobl a chreu amgylcheddau ffyniannus, cynhwysol a chynaliadwy trwy'r broses ddylunio creu lleoedd trwy:
 - a. Fodloni'r polisiâu perthnasol a nodir yn Fframwaith Polisi Creu Lleoedd y cynllun;
 - b. Lle bo hynny'n berthnasol, ystyried a chynnwys y materion cynllunio a godwyd gan gymunedau trwy ymgynghoriad cyn ymgeisio, a'r Adroddiad Ymgynghori Cymorth Cynllunio Cymru ar gyfer safleoedd a ddyrennir;
 - c. Ymgysylltu'n gynnar gyda'r ACLL i baratoi Datganiad Cydymffurfio Creu Lleoedd yn unol â'r Fframwaith Polisi Creu Lleoedd. Dylai hyn gynnwys fframwaith manwl ar gyfer sut caiff y safle ei ddatblygu, gan ddangos sut mae'n darparu Fframwaith Polisi Creu Lleoedd y CDLIN, polisi sy'n benodol i'r safle (lle bo'n berthnasol) a pholisiâu cysylltiedig; a,
 - d. Blaenoriaethu dull cynhwysfawr o ran datblygu safleoedd. Ni chaiff cynigion datblygu tameidiog eu derbyn os ydynt yn effeithio ar ddarparu, hyfywedd a chynaliadwyedd y safle neu os ydynt yn arwain at fath o ddatblygiad heb ei gydlyn.

5.2.95 Mae ymgysylltu'n gynnar â'r gymuned a'r ACLI yn hanfodol er mwyn darparu lleoedd o ansawdd uchel a'r egwyddorion creu lleoedd. Ni chaiff cynigion datblygu a cheisiadau cynllunio sydd wedi'u datblygu heb ystyried y polisiau Creu Lleoedd Cynaliadwy eu cefnogi. Mae'n rhaid dilyn dull cynhwysfawr o ran datblygu wrth symud y cynnig ymlaen, gan gadw'r ystyriaethau creu lleoedd, hyfywedd a chynaliadwyedd y safle mewn cof. Ni chaiff cynigion datblygu tameidiog eu cefnogi os ydynt yn effeithio ar ddarparu, hyfywedd a chynaliadwyedd y safle. Dylid cyflwyno Datganiad Creu Lleoedd a Chydymffurfio ar gyfer dyraniadau a cheisiadau perthnasol. Caiff CCA ei baratoi i nodi gofynion Datganiad Creu Lleoedd a Chydymffurfio.

5.2.96 Mae'n rhaid i bob safle sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau preswyl yn y CDSA a Llanrwst, neu 5 neu fwy yn y RDSA, neu 0.1 hectar o dir ar gyfer pob cynnig datblygu arall, gan gynnwys dyraniadau safle a datblygiadau defnydd cymysg, gydymffurfio â pholisi PL/16. Y ceisiadau sy'n is na'r trothwy hwn yn gyffredinol yw'r rhai sy'n dod y tu allan i'r trothwyau hyn, fel datblygiadau tai neu estyniadau ar raddfa lai, neu newid defnydd nad yw'n cynnwys arwynebedd llawr neu arwynebedd safle mawr. Mae trothwy is ar gyfer tai yn y RDSA oherwydd sensitifrwydd cymunedau gwledig a'r angen i hybu gwydnwch a diogelu hunaniaeth.

PL/17 safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan - safle tai ac addysg defnydd cymysg

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad preswyl (145 o gartrefi), ysgol gynradd newydd, mannau hamdden a llwybrau teithio llesol. Bydd yr ysgol wedi'i lleoli i'r gogledd-ddwyrain o'r safle, gerllaw Aber Road a Ffordd Cae Ffynnon.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd – dylid darparu mynediad i'r tai trwy Ffordd Cae Ffynnon. Dylid darparu mynediad i'r ysgol gynradd trwy Aber Road. Bydd angen gwelliannau i leiniau gwelededd.
 - b. Teithio llesol – mae'n rhaid darparu llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol (oddi ar Ffordd Cae Ffynnon) a'r arosfannau bysiau agosaf (Mynwent Rhandir Hedd a Bont Newydd):
 - c. Tai fforddiadwy – darparu tai fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi HS/3 a HS/4.
 - d. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â PL/12 datblygiad newydd, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio, PL/13 datblygiad newydd a gwelededd a pholisi man hamdden RS/2.
 - e. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – mae'r safle yn rhannol o fewn Parth Llifogydd 3 ar gyfer dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Mae angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd i ddangos bod y risg llifogydd hon yn cael ei rheoli trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy.
 - f. Cyflenwad dŵr a chapasiti carthffosiaeth – mae prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle. Bydd angen hawddfrait priodol a dylai gosodiad y safle adlewyrchu hyn.



- g. Cyfleustodau – mae pibell nwy capasiti uchel yn croesi'r safle. Bydd angen hawddfrait priodol. Ni chaniateir tai a'r ysgol mewn parthau penodol, fel a nodir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Dylai gosodiad y safle adlewyrchu hyn.
- h. Tirwedd – mae'n rhaid i'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol, gan gynnwys o Barc Cenedlaethol Eryri.
- i. Archeoleg – mae'n debygol iawn y bydd nodweddion archeolegol ar y safle. Mae safleoedd hysbys gerllaw hefyd. Bydd angen cynnal asesiad archeolegol ar gyfer y cais cynllunio.
- j. Amgylchedd hanesyddol – mae hwn yn safle sensitif o ran asedau hanesyddol. Felly dylai ceisiadau cynllunio sicrhau bod dyluniad, graddfa, gosodiad a deunyddiau adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig yn lleihau'r effaith ar yr asedau hanesyddol hyn.
- k. Isadeiledd gwyrdd – mae'n rhaid i goetir presennol (gan gynnwys ar hyd Ffordd Cae Ffynnon, gerllaw Llannerch Road ac ar hyd Aber Road) a llinellau coed gael eu cynnal fel nodweddion anhameidiog parhaus yn y dirwedd. Mae'n rhaid cadw'r ddwy dderwen sy'n tyfu'n agored. Dylid ceisio cyfleoedd trwy ddylunio tirlunio i uno parseli ar wahân o goetir hynafol â choetir brodorol a/neu blannu gwrychoedd. Bydd angen llain glustogi (parth gwahardd adeiladu) o 15 metr ar gyfer y parseli o Goetir Hynafol.
- l. Y Gymraeg – mae'n rhaid i fesurau lliniaru gael eu darparu, yn unol â pholisi PL/7.

5.2.97 Mae dyrannu'r safle hwn yn Llanfairfechan yn rhoi cyfle i ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer is-ardal y Gorllewin, wrth ddatrys problemau o ran capasiti a phroblemau eraill mewn cyfleusterau ysgol gynradd leol. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.

5.2.98 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yn Llanfairfechan ei hun ac is-ardal ehangach y Gorllewin. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd o dai a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yn Llanfairfechan ac is-ardal y Gorllewin. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi hwn yn cael ei fodloni.

5.2.99 Dangosodd ymgynghoriad â Gwasanaethau Addysg CBSC fod pryderon o ran capasiti mewn ysgolion cynradd lleol. Er mwyn datrys hyn, mae'r Cyngor wedi nodi ardal Llanfairfechan fel blaenoriaeth yn ei Raglen Amlinellol Strategol 9 mlynedd, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Caiff y rhaglen hon ei hadolygu bob 3 blynedd. Pe bai Gwasanaethau Addysg CBSC yn cadarnhau nad oes angen y tir mwyach ar gyfer ysgol gynradd newydd, gall y tir ddod ymlaen yn unol â pholisïau eraill CDLIN.

5.2.100 Er mwyn sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd yn gallu darparu ar gyfer y tai newydd, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r mesurau lliniaru a amlinellir yn natganiad tir cyffredin BIPBC/CBSC. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys creu



gwasanaethau clwstwr, hybu ffyrdd o fyw mwy iach, gofal o bell a thechnoleg a chyfraniadau ariannol Adran 106 lle bo'n briodol. Cyfeiriwch at Bapur Cefndir 44 Newid yn y Boblogaeth, Tai a'r Effaith ar Iechyd/Gofal Sylfaenol.

- 5.2.101 Bydd angen datganiad Creu Lleoedd sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi ac adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned, fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.
- 5.2.102 Bydd angen asesiad priffyrdd ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr effaith ar gyffyrdd cefnffordd yr A55. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygyrch trwy ganol y safle, gan gysylltu'r ysgol a'r ardaloedd preswyl â chanolfan fanwerthu Llanfairfechan, cludiant cyhoeddus ac amwynderau lleol allweddol eraill.
- 5.2.103 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran caeau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol a darpariaeth awyr agored arall yn Llanfairfechan. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno. Ni ystyrir ei bod yn briodol cynnwys y coetir presennol fel mannau hamdden ffurfiol neu fannau chwarae i blant, fel bod y fflora ar y ddaear yn cael eu diogelu a bod cyn lleied o amhariad ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, gallant ddarparu gwelliannau o ran bioamrywiaeth a dylent gael eu cynnwys yn nghynllun ehangach y safle, a'u cynnwys mewn amserlen rheoli cadwraeth bositif hirdymor. Caiff hyn ei reoli trwy amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

- 5.2.104 Bydd angen cynnal asesiad ecolegol rhagarweiniol ac arolwg rhywogaethau a ddiogelir gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, weithgarwch ystlumod, adar gaeafu a moch daear yng nghyfnod y cais cynllunio. Mae clwydydd Ystlumod Pedol Lleiaf ac Ystlumod Hirglust (Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop) wedi'u cadarnhau ar y safle.
- 5.2.105 Mae Llanfairfechan wedi'i nodi fel Ardal sy'n Sensitif o ran y Gymraeg yn y CDLIN (polisi PL/7). Mae mesurau lliniaru'n cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 74: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.
- 5.2.106 Mae ASIDOHL wedi'i baratoi ar gyfer y safle, sy'n dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig.

PL/18 safle 91 Pentywyn Road, Deganwy / Llanrhos - safle tai

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad preswyl (140 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd – dylid darparu mynediad i gerbydau a gwaith adeiladu trwy Pentywyn Road.
 - b. Sero net – bydd angen Strategaeth Ynni er mwyn llywio'r cais cynllunio i ddangos mesurau tuag at gyflawni carbon sero net yn unol â pholisi EN/1-7.
 - c. Teithio Llesol – mae'n rhaid darparu llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith hawliau tramwy (oddi ar Pentywyn Road a thrwy Bryn Lupus Road) a'r arosfannau bysiau agosaf ac mae'n rhaid eu gwella yn unol â PL/1,



PL/5 ac adran Cludiant Cynaliadwy a Strategaeth Hygyrchedd y fframwaith creu lleoedd.

- d. Tai fforddiadwy – darparu tai fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi HS/3 a HS/4.
- e. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â pholisïau PL/12, PL/13, CFS/2 a RS/2.
- f. Cyflenwad dŵr a charthffosiaeth – bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig i lywio'r cais cynllunio.
- g. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – wedi'u rheoli trwy ddefnyddio cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy cymeradwy.
- h. Tirwedd a choed – dylai coed presennol gael eu cadw a dylai'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol. Bydd angen plannu coed newydd yn unol â pholisi NE/6.
- i. Archeoleg – mae'n debygol iawn y bydd nodweddion archeolegol ar y safle. Mae safleoedd hysbys gerllaw hefyd. Bydd angen cynnal asesiad archeolegol ar gyfer y cais cynllunio.
- j. Amgylchedd hanesyddol – mae hwn yn safle sensitif o ran asedau hanesyddol. Felly dylai ceisiadau cynllunio sicrhau bod dyluniad, graddfa, gosodiad a deunyddiau adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig yn lleihau'r effaith ar yr asedau hanesyddol hyn.
- k. Isadeiledd Gwyrdd – Bydd angen datganiad IG ar y cam ymgeisio i ddangos sut mae asedau IG wedi'u cadw a'u gwella gan ychwanegu aml-swyddogaeth gan gynnwys gerddi cymunedol, man agored, coetir a theithio llesol.

Mae'n rhaid i goed a gwrychoedd presennol gael eu cadw fel nodweddion yn y dirwedd ac i wella cysylltedd cynefinoedd.

- l. Parthau clustogi – Bydd angen llain glustogi (parth gwahardd adeiladu) o 15 metr ar gyfer coed presennol. Bydd angen llain glustogi rhwng y tai presennol yng Ngerddi St Anne ar hyd y ffin ogleddol a'r gwrych.
- m. Y Gymraeg – mae'n rhaid i fesurau lliniaru gael eu darparu, yn unol â pholisi PL/7.

5.2.107 Mae dyrannu'r safle hwn yn Llanrhos yn rhoi cyfle i gyfrannu at ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer is-ardal Creuddyn. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.

5.2.108 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yng Nghyffordd Llandudno ei hun ac is-ardal ehangach Creuddyn. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd o dai a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yng Nghyffordd Llandudno ac is-ardal Creuddyn. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi hwn yn cael ei fodloni (cymysgedd tai HS/7).

5.2.109 Bydd angen Cynllun Creu Lleoedd a datganiad cydymffurfio Creu Lleoedd fel a nodir ym mholisi PL/16, sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi, yn gynaliadwy, ac



adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned, fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.

- 5.2.110 Mae angen Asesiad Modelu Hydrolig ar gyfer y safle. Mae gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Ganol gapasiti i dderbyn y safle hwn.
- 5.2.111 Dangosodd ymgynghoriad â Gwasanaethau Addysg CBSC fod pryderon o ran capasiti mewn ysgolion cynradd lleol. Er mwyn datrys hyn, mae'r ACLI wedi nodi y ceisir cyfraniadau yn unol â pholisi PL/12.
- 5.2.112 Bydd angen Asesiad Trafnidiaeth ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr effaith ar gyffyrdd cefnffordd cyfagos. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygyrch trwy'r safle, gan gysylltu'r hawl tramwy gydag amwynderau lleol allweddol eraill.
- 5.2.113 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran caeau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol, darpariaeth awyr agored arall a pharciau a gerddi yn Neganwy / Llanrhos. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno. Caiff hyn ei reoli trwy amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.
- 5.2.114 Bydd angen cynnal asesiad ecolegol rhagarweiniol ac arolwg rhywogaethau a ddiogelir wrth lunio'r cais cynllunio.
- 5.2.115 Mae Llanrhos wedi'i nodi fel Ardal sy'n Sensitif o ran y Gymraeg yn y CDLIN (polisi PL/7). Mae mesurau lliniaru'n cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 74: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle.

Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

- 5.2.116 Mae angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Bioamrywiaeth ar gyfer pob cynnig datblygu. Dylai datblygiad strategol asesu'r safle, gan gynnwys setiau data sydd ar gael, er mwyn sefydlu gwelliant yn y safle, yn unol â chanllawiau ym Mhapur Cefndir 47 a pholisïau NE/7, NE/8 ac EQ/1.

PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad preswyl (250 o gartrefi yn ystod cyfnod y CDLIN hwn), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd – dylid darparu mynediad ar gyfer y datblygiad trwy Peulwys Lane ac ar Llanelian Road. Mae'n bosibl y bydd angen lledaenu'r ffordd a gwneud gwelliannau o ran lleiniau gwelededd hefyd. Bydd angen Asesiad Trafnidiaeth er mwyn rhoi ystyriaeth i'r rhwydwaith priffyrdd ehangach a'r effaith ar deithio llesol.
 - b. Sero net – bydd angen Strategaeth Ynni er mwyn llywio'r cais cynllunio i ddangos mesurau tuag at gyflawni carbon sero net yn unol â pholisi EN/1-7.
 - c. Teithio Llesol – mae'n rhaid darparu llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith hawliau tramwy (oddi ar Peulwys Lane / Llanelian Road) a'r arosfannau bysiau agosaf ac mae'n rhaid eu gwella yn unol â pholisi PL/1, PL/5 ac adran Cludiant Cynaliadwy a Strategaeth Hygyrchedd y fframwaith creu lleoedd.



- d. Tai fforddiadwy – darparu tai fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi HS/3 a HS/4.
- e. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â pholisïau PL/12, PL/13, CFS/2 a RS/2.
- f. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – Mae risg isel iawn i'r safle hwn brofi llifogydd o ddŵr afonol, dŵr llanwol, dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr bach a dŵr daear. Nid oes angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y safle hwn oherwydd y risg isel iawn o lifogydd o bob ffynhonnell. Dylid rheoli unrhyw ddŵr wyneb ffo ar y safle trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy.
- g. Cyfleustodau – gellir darparu cyflenwad dŵr i'r safle a bydd angen Asesiad Modelu Hydrolog yn y cam cais cynllunio er mwyn asesu unrhyw uwchraddio angenrheidiol i'r system garthffosiaeth. Mae pibellau nwy yn yr ardal ond nid oes yr un fel pe baent yn croesi'r safle.
- h. Tirwedd a choed – dylai coed presennol gael eu cadw a dylai'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol. Bydd angen plannu coed newydd yn unol â pholisi NE/6.
- i. Archeoleg – mae'n bosibl y bydd nodweddion archeolegol ar y safle. Mae safle hanesyddol hysbys gerllaw. Bydd angen cynnal asesiad archeolegol wrth wneud y cais cynllunio.
- j. Amgylchedd hanesyddol – Mae Peulwys, sy'n adeilad rhestredig gradd II yn agos at safle'r datblygiad. Felly dylai ceisiadau cynllunio sicrhau bod dyluniad, graddfa,

gosodiad a deunyddiau adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig yn lleihau'r effaith ar yr ased hanesyddol hwn.

- k. Isadeiledd Gwyrdd – Bydd angen datganiad IG ar y cam ymgeisio i ddangos sut mae asedau IG wedi'u cadw a'u gwella gan ychwanegu aml-swyddogaeth gan gynnwys gerddi cymunedol, man agored, coetir a theithio llesol. Mae'n rhaid i goed a gwrychoedd presennol gael eu cadw fel nodweddion yn y dirwedd ac i wella cysylltedd cynefinoedd.
- l. Y Gymraeg – mae'n rhaid i fesurau lliniaru gael eu darparu.

5.2.117 Mae dyrannu'r safle hwn ym Mae Colwyn yn rhoi cyfle i gyfrannu at ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer is-ardal y Canol. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.

5.2.118 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yn Hen Golwyn ac is-ardal ehangach y Canol. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd tai terfynol a gynigir adlewyrchu'r angen a nodwyd yn lleol ac argymhellir gwaith ymgysylltu cynnar gyda Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi hwn yn cael ei fodloni.

5.2.119 Mae gwaith ymgynghori â Gwasanaethau Addysg CBSC yn dangos bod rhywfaint o gapasiti ar gael yn Ysgol Sŵn y Don ac Ysgol T Gwynn Jones ac nid oes unrhyw broblemau o ran



capasiti ysgolion uwchradd. Caiff tir yn Ysgol Sŵn y Don ei ddiogelu ar gyfer unrhyw estyniad yn y dyfodol pe bai angen.

- 5.2.120 Bydd angen datganiad Creu Lleoedd sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi ac adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned, fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.
- 5.2.121 O ran iechyd, mae problemau o ran capasiti ar hyn o bryd ym meddygfa'r ddalgylch, Cadwgan yn Hen Golwyn. Er mwyn sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd yn gallu darparu ar gyfer y tai newydd, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r mesurau lliniaru a amlinellir yn natganiad tir cyffredin BIPBC/CBSC. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys creu gwasanaethau clwstwr, hybu ffyrdd o fyw mwy iach, gofal o bell a thechnoleg a chyfraniadau ariannol Adran 106 lle bo'n briodol. Cyfeiriwch at Bapur Cefndir 44: Newid yn y Boblogaeth - Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol.
- 5.2.122 Bydd angen cynnal asesiad priffyrdd ac mae'n rhaid cynnwys yr effaith ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a 'chylchfan Marine' (Llanelian Road / Ffordd Abergele) yn benodol. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygyrch trwy ganol y safle, gan gysylltu'r ardaloedd preswyl â chanolfan fanwerthu Hen Golwyn, cludiant cyhoeddus ac amwynderau lleol allweddol eraill.
- 5.2.123 Mae llwybrau teithio llesol yn allweddol wrth gefnogi cerdded a beicio er mwyn galluogi pobl i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a buddion cysylltiedig i'w hiechyd a'u lles, gan gynnwys lleihau straen a lefelau gordewdra a gwella iechyd cyffredinol. Dylai'r llwybrau fod ar wahân i draffig, dylent fod wedi'u goleuo'n dda a dylid sicrhau gwyliadwriaeth naturiol i

sicrhau diogelwch. Dylai llwybrau gysylltu â chyfleusterau presennol er mwyn hybu iechyd a lles trwy gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a chyfleoedd cymdeithasol.

- 5.2.124 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran caeau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol a darpariaeth awyr agored yn Hen Golwyn. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno. Ni ystyrir ei bod yn briodol cynnwys y coetir presennol fel mannau hamdden ffurfiol neu fannau chwarae i blant, fel bod y fflora ar y ddaear yn cael eu diogelu a bod cyn lleied o amhariad ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, gallant ddarparu gwelliannau o ran bioamrywiaeth a dylent gael eu cynnwys yn nghynllun ehangach y safle, a'u cynnwys mewn amserlen rheoli cadwraeth bositif hirdymor. Caiff hyn ei reoli trwy amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.
- 5.2.125 O ran bioamrywiaeth, mae asesiad cychwynnol yn dangos mai glaswelltir sydd wedi'i wella yw'r safle yn bennaf ac nad oes llawer o werth iddo. Mae llawer o'r gwrychoedd sy'n ffinio â'r caeau yn cynnwys coed aeddfed ac mae'r rhain o werth bioamrywiaeth uchel iawn a dylid eu cadw a'u cynnwys yn y cynllun arfaethedig o'r dechrau. Dylai'r llinellau gwrych gael eu cryfhau i ddarparu coridorau ecolegol ar hyd y safle.
- 5.2.126 Mae angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Bioamrywiaeth ar gyfer pob cynnig datblygu. Dylai datblygiad strategol asesu'r safle, gan gynnwys setiau data sydd ar gael, er mwyn sefydlu gwelliant yn y safle, yn unol â chanllawiau yn Phapur Cefndir 47 a pholisïau NE/7, NE/8 ac EQ/1.

5.2.127 Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

PL/20 safle 56, Penloyn, Llanrwst - safle tai

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad preswyl (100 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd – Dylid darparu mynediad i gerbydau yn uniongyrchol o'r A470, Bydd angen gwelliannau i leiniau gweledd.
 - b. Teithio Llesol – Mae'n rhaid darparu llwybrau sy'n cysylltu â'r llwybr teithio llesol presennol ar hyd coridor yr A470. Mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu ar gyfer cysylltiadau teithio llesol yn y dyfodol hefyd gan gynnwys i'r de-ddwyrain o'r safle.
 - c. Tai fforddiadwy – darparu tai fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi HS/3 a HS/4.
 - d. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â PL/12 datblygiad newydd, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio, PL/13 datblygiad newydd a hyfywedd, CFS/2 rhandiroedd newydd a phresennol a pholisi mannau hamdden RS/2.
 - e. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – mae'r safle yn rhannol o fewn Parth Llifogydd 3 ar gyfer dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr bach. Mae angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd i ddangos bod y risg llifogydd

hon yn cael ei rheoli trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy.

- f. Cyflenwad dŵr a chapasiti carthffosiaeth – mae prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle. Bydd angen hawddfaint priodol a dylai gosodiad y safle adlewyrchu hyn.
- g. Tirwedd – mae'n rhaid i'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol, gan gynnwys o Barc Cenedlaethol Eryri.
- h. Amgylchedd hanesyddol ac archeoleg – mae'r safle hwn yn agos iawn at leoliad hanfodol parc a gerddi hanesyddol rhestredig Gradd II Plas Madoc a'r strwythurau rhestredig Gradd II yng ngorsaf Gogledd Llanrwst. Bydd angen cynnal asesiad archeolegol ac astudiaeth o'r effaith ar dreftadaeth yn y cam cais cynllunio er mwyn llywio'r datblygiad. Dylai ceisiadau cynllunio sicrhau bod dyluniad, graddfa, gosodiad a deunyddiau adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig yn lleihau'r effaith ar yr asedau hanesyddol hyn.
- i. Isadeiledd Gwyrdd – mae'n rhaid cadw coed presennol ar y safle. Mae'n rhaid i wrychoedd gael eu cadw fel nodweddion anhameidiog parhaus yn y dirwedd, a bydd angen cyn lleied â phosibl o fylchau i ganiatáu mynediad trwy'r safle.
- j. Y Gymraeg – mae'n rhaid i fesurau lliniaru gael eu darparu, yn unol â pholisi PL/7.

5.2.128 Mae dyrannu'r safle hwn yn Llanrwst yn rhoi cyfle i gyfrannu at ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer yr RDSA. Ymgynghorwyd â



budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.

5.2.129 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yn Llanrwst, sef y prif ganolfan boblogaeth yn yr ardal wledig fel a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a strategaeth ofodol y CDLIN. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd o dai a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yn Llanrwst a'r RDSA. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi hwn yn cael ei fodloni.

5.2.130 Dangosodd ymgynghoriad â Gwasanaethau Addysg CBSC fod pryderon o ran capasiti yn Ysgol Bro Gwydir er bod hyn yn bennaf oherwydd bod disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch yn mynychu'r ysgol gynradd. Yn y tymor byr, gellir datrys hyn trwy gludiant i ysgolion gerllaw sydd â chapasiti (e.e. Ysgol Llanddoged, Ysgol Dyffryn yr Enfys) a chaiff disgyblion o'r dalgylch eu blaenoriaethu ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol yn y tymor hwy.

5.2.131 Bydd angen datganiad Creu Lleoedd sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi ac adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned, fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.

5.2.132 Bydd angen asesiad priffyrdd ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr effaith ar gyffordd cefnffordd yr A470. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygyrch trwy ganol y

safle, gan gynnig cyfleoedd i gysylltu â llwybrau teithio llesol y dyfodol, ac â llwybrau presennol ar yr A470, gan gysylltu'r ardal breswyl â chanolfan fanwerthu Llanrwst, cludiant cyhoeddus ac amwynderau lleol allweddol eraill.

5.2.133 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol, darpariaeth awyr agored arall, parciau a gerddi a mannau gwyrdd amwynder yn Llanrwst. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno.

5.2.134 Bydd angen cynnal asesiad ecolegol rhagarweiniol ac arolwg rhywogaethau a ddiogelir gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, weithgarwch ystlumod, adar gaeafu a moch daear.

5.2.135 Mae Llanrwst wedi'i nodi fel Ardal sy'n Sensitif o ran y Gymraeg yn y CDLIN (polisi PL/7). Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.



PL/21 safle 203 Queens Road, Llandudno - safle tai

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad preswyl (70 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd – Dylid darparu mynediad i gerbydau a gwaith adeiladu trwy Queen's Road.
 - b. -Sero net – Bydd angen Strategaeth Ynni er mwyn llywio'r cais cynllunio i ddangos mesurau tuag at gyflawni carbon sero net yn unol â pholisi EN/1-7.
 - c. Teithio Llesol – mae'n rhaid darparu llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith hawliau tramwy (oddi ar Queen's Road a chysylltiadau teithio llesol gwell ar draws cyffordd Wormhout Way/Conwy Road) a'r arosfannau bysiau agosaf ac mae'n rhaid eu gwella yn unol â PL/1 Creu Lleoedd Cynaliadwy, PL/5 Creu Lleoedd a Dylunio Da ac adran Cludiant Cynaliadwy a Strategaeth Hygyrchedd y fframwaith creu lleoedd.
 - d. Tai fforddiadwy – darparu tai fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi HS/3 a HS/4.
 - e. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â PL/12 datblygiad newydd, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio, PL/13 datblygiad newydd a gweledd a pholisi man hamdden RS/2.
 - f. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – wedi'u rheoli trwy ddefnyddio cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy cymeradwy.

- g. Tirwedd a choed – dylai coed presennol gael eu cadw a dylai'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol. Bydd angen plannu coed newydd yn unol â pholisi NE/6.
- h. Archeoleg – mae'n debygol iawn y bydd nodweddion archeolegol ar y safle. Mae safleoedd hysbys gerllaw hefyd. Bydd angen cynnal asesiad archeolegol ar gyfer y cais cynllunio.
- i. Amgylchedd hanesyddol – mae hwn yn safle sensitif o ran asedau hanesyddol. Felly dylai ceisiadau cynllunio sicrhau bod dyluniad, graddfa, gosodiad a deunyddiau adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig yn lleihau'r effaith ar yr asedau hanesyddol hyn.
- j. Isadeiledd Gwyrdd – Bydd angen datganiad IG ar y cam ymgeisio i ddangos sut mae asedau IG wedi'u cadw a'u gwella gan ychwanegu aml-swyddogaeth gan gynnwys gerddi cymunedol, man agored, coetir a theithio llesol. Mae'n rhaid i goed a gwrychoedd presennol gael eu cadw fel nodweddion yn y dirwedd ac i wella cysylltedd cynefinoedd.
- k. Y Gymraeg – mae'n rhaid i fesurau lliniaru gael eu darparu.

5.2.136 Mae dyrannu'r safle hwn yn Llandudno yn rhoi cyfle i gyfrannu at ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer y dref ac is-ardal ehangach Creuddyn. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.



5.2.137 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yng Nghyffordd Llandudno ei hun ac is-ardal ehangach Creuddyn. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd o dai a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yng Nghyffordd Llandudno ac is-ardal Creuddyn. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi hwn yn cael ei fodloni (polisi HS/7).

5.2.138 Bydd angen Cynllun Creu Lleoedd a datganiad cydymffurfio Creu Lleoedd fel a nodir ym mholisi PL/16, sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi, yn gynaliadwy, ac adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned, fel a nodwyd yn yr adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.

5.2.139 Bydd angen Asesiad Trafnidiaeth ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr effaith ar gyffyrdd cyfagos a mynediad fferm. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygrych trwy'r safle, gan gysylltu'r hawliau tramwy gydag amwynderau lleol allweddol eraill.

5.2.140 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran caeau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol, darpariaeth awyr agored arall a pharciau a gerddi yn Llandudno. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno. Caiff hyn ei reoli trwy amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

5.2.141 Bydd angen cynnal asesiad ecolegol rhagarweiniol ac arolwg rhywogaethau a ddiogelir wrth lunio'r cais cynllunio.

5.2.142 Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 74: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

5.2.143 Mae angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Bioamrywiaeth ar gyfer pob cynnig datblygu. Dylai datblygiad strategol asesu'r safle, gan gynnwys setiau data sydd ar gael, er mwyn sefydlu diogelu rhywogaethau a gwelliant o ran cynefinoedd a nodweddion IG yn y safle, yn unol â chanllawiau cenedlaethol a chanllawiau ym Mhapur Cefndir 47 a pholisïau NE/7, NE/8 ac EQ/1.

PL/22 safle 115 Chwarel Llanddulas - safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy

1. Mae Chwarel Llanddulas yn cynnwys pedwar safle sydd wedi'u dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth a chynhyrchu ynni adnewyddadwy (solar) cysylltiedig. Mae'r dadansoddiad o'r defnydd tir arfaethedig fel a ganlyn:
Ardal 1 – 0.8ha B1, B2, B8
Ardal 2 – 4ha B1, B2, B8
Ardal 3 – 4ha B1, B2, B8
Ardal 4 – 18ha ar gyfer ynni adnewyddadwy (solar)
2. Bydd cyflwyno ardaloedd 1 i 3 fesul cam yn unol â pholisi ED/2. Ni fydd gwaith datblygu Ardal 4 yn dechrau nes y bydd adeiladau wedi'u hadeiladu ar Ardaloedd 1, 2 a 3 i gefnogi gofynion ynni y safleoedd hyn, neu'n gynharach, pe bai



cyswllt â'r grid cenedlaethol yn ddichonadwy. Bydd llwyddiant y dyraniad solar yn dibynnu ar ei hyfywedd parhaus mewn perthynas â'r datblygiad ar Ardaloedd 1, 2 a 3, ac felly mae'n amodol ar amrywioldeb o ran cyflwyno fesul cam.

3. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r holl ofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd a Theithio Llesol – Dylid dilyn yr hierarchaeth cludiant cynaliadwy ar gyfer y dyluniad. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith i wella'r mynediad o'r A547 i Ardal 1 oherwydd cyfuniad o gyfyngiadau ffisegol presennol a hawliau tramwy preifat ar y mynediad presennol. Felly mae'n debygol y bydd angen gwelliannau i leiniau gweledd. Ar y cam cais cynllunio, mae angen asesiadau capasiti ar gyfer cyffyrdd 22 a 23 yr A55. Yn ogystal, mae angen Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle, a hefyd manylion am gysylltiadau teithio llesol yn unol â pholisi STA/6.
 - b. Dyluniad a gosodiad – caiff dyluniad yr isadeiledd ffisegol a'r adeiladau ei arwain gan bolisiau PL/1, PL/5 a PL/11, gan ystyried hygyrchedd, diogelwch a hydreiddedd y safle. Bydd angen ystyriaeth benodol ar gyfer hyn pan fo cyflwyno fesul cam yn digwydd yn y safleoedd unigol, a'r dull fesul cam cyffredinol ar draws y safleoedd.
 - c. Llwybrau a ffiniau – dylid ystyried yr angen am wella/darparu llwybrau cyhoeddus a ffensys ffiniau yn unol â pholisi STA/6 ac yn unol â'r adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.

- d. Isadeiledd Gwyrdd – sicrhau bod nodweddion gwyrdd a glas yn cael eu cadw a'u hintegreiddio â chreu cynefinoedd, plannu coed brodorol yn unol â NE/6, a chynnwys a chysylltu darpariaeth mannau agored lle bo'n briodol, yn unol â pholisi NE/7. Mae'r gofyniad hwn yn eithrio'r pyllau yn Ardal 2 a'r lagŵn yn Ardal 3, a fyddai'n cael eu draenio cyn creu platfform datblygu.
- e. Gwella bioamrywiaeth – bydd effaith gyffredinol y datblygiad yn arwain at fudd net i fioamrywiaeth, yn unol â'r dull fesul cam a pholisi NE/8. Bydd cynlluniau ar gyfer cadwraeth natur a gwrthbwysu er mwyn gwella a diogelu cynefinoedd ar dir o amgylch y chwarel yn cyd-fynd â'r cynigion hefyd.
- f. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y safleoedd (Ardal 1 i 4 gan gynnwys yr ardaloedd hynny) yn unol â chanllawiau TAN15, oherwydd bod y safleoedd yn rhannol o fewn Parth Llifogydd 3 ar gyfer dŵr wyneb a chysiau dŵr bach. Bydd angen i'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddangos bod y risg llifogydd o ddŵr wyneb a chysiau dŵr bach yn y safleoedd a'r ardal gyfagos yn cael ei rheoli trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy.
- g. Diogelu dŵr daear – mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i ôl-lenwi anadweithiol o ran effaith ar brif ddyfrhaen. Dylid cyfeirio at ddatganiadau Sefyllfa Gwarchod Dŵr Daear: dull Asiantaeth yr Amgylchedd o ran gwarchod dŵr daear yn ychwanegol at ystyried y rheoliadau dŵr gwastraff.




- h. Draenio a threiddiad – mae angen gwybodaeth ar y cam cais cynllunio er mwyn sicrhau atal unrhyw fynediad posibl i ddifwynwyr i mewn i'r ddaear yn sgil datblygiad.
- i. Cyflenwad dŵr a chapasiti carthffosiaeth – dim ond pan fydd y math o ddatblygiad a'r deiliad/defnyddiwr safle yn hysbys y gellir deall capasiti carthffosiaeth ar gyfer dyraniadau cyflogaeth. Pan fydd gofynion wedi'u cadarnhau trwy'r broses cais cynllunio, mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiadau pellach neu asesiadau modelu hydrologig er mwyn cefnogi datblygiad ar y safle hwn.
- j. Offer dŵr presennol – mae prif bibell dŵr a charthffos yn rhedeg ar hyd ffin ddwyreiniol Ardal 1. Lle bo angen, bydd gofyn am hawddfreintiau/mesurau lliniaru yn unol â'r ymgynghoriad â Dŵr Cymru.
- k. Gosod paneli solar yn Ardal 4 yn unol ag EN/11 – Bydd angen gwybodaeth benodol am leoliad, asesiadau risg ac os oes angen, cynlluniau lliniaru, i gyd-fynd ag unrhyw gais cynllunio o ran sut caiff y paneli solar eu cysylltu â'r ddaear yn Ardal 4, gydag asesiad o'r risg allai'r sylfeini ei pheri i beirianeg tirlenwi / sadrwydd y ddaear. Mae angen ceisio adolygiadau i'r trefniadau adfer cymeradwy yn y cam cais cynllunio.
- l. Ansawdd Aer – Dylid cynnwys mesurau ansawdd aer boddhaol ar gyfer lliniaru a/neu leihau allyriadau yn unol â pholisi EQ/3.
- m. Effeithlonrwydd ynni/carbon sero – dylai'r eiddo cyflogaeth yn Ardaloedd 1, 2 a 3 geisio sicrhau allyriadau carbon rheoledig gweithredol Sero Net mewn adeiladau trwy weithredu'r hierarchaeth ynni. Dylai

cynigion ddangos bod yr hierarchaeth ynni wedi'i rhoi ar waith drwy gyflwyno Datganiad Ynni yn unol â pholisïau EN/1 ac EN/2.

- n. Diogelu Asedau Hanesyddol (Odynnau Calch Hoffman yn Ardal 1) – diogelu gweddillion Odynnau Calch Hoffman ac isadeiledd cysylltiedig fel rhan o'r cynigion datblygu ar gyfer Ardal 1. Bydd angen asesiad desg manwl ac arolwg ar droed a mapio ac arolwg adeilad hanesyddol lefel 3 yn y cam cais cynllunio.
- o. Asesu a diogelu Asedau Hanesyddol (strwythurau carreg hanesyddol yn Ardal 2) – bydd angen asesiad desg manwl ac arolwg ar droed a mapio ac arolwg adeilad hanesyddol lefel 3 yn y cam cais cynllunio er mwyn penderfynu ar raddfa a chyflwr unrhyw asedau hanesyddol sy'n bresennol.
- p. Y Gymraeg - mae angen i'r cynllun ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg (fel sy'n ofynnol dan bolisi PL/7 a pholisi cynllunio cenedlaethol ar y Gymraeg). Mae mesurau lliniaru'n ofynnol.
- q. Rheoli Deunyddiau – Bydd angen Cynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff yn y cam cais cynllunio er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn gywir trwy leihau effaith amgylcheddol trwy reoli gwastraff yn gynaliadwy.

Ffigur 15: map yn dangos ardaloedd dyrannu safle Chwarel Llanddulas



Ffynhonnell: SPPS, CBSC

- 5.2.144 Mae safle Chwarel Llanddulas yn cynnig llawer o botensial fel safle datblygu yn y CDLIN. Gan nad yw gweithgarwch chwarella a thirlenwi yn digwydd yn y lleoliad hwn mwyach, a gan fod y cam adfer ar y gweill, mae cwrmpas i ailddatblygu ardaloedd penodol fel a ddangosir ar y map cynigion, at ddibenion cyflogaeth, gyda fferm ynni solar a fydd yn darparu ynni adnewyddadwy ar gyfer y cynllun ehangach. Bydd y

datblygiad yn defnyddio ardaloedd o dir a ddatblygwyd eisoes (twll chwarel a'r hen waith bricks) a bydd yn cynnwys creu platfformau i gynyddu hygrychedd a'r ardal o dir y gellir ei ddatblygu yn nhyllau'r chwarel.

- 5.2.145 O ran datblygiad a gynlluniwyd ar unrhyw ardaloedd wedi'u hadfer, er enghraifft, Ardaloedd 3 a 4, bydd effaith gyffredinol y datblygiad yn cyflawni budd net o ran bioamrywiaeth, a chaiff unrhyw golledion eu gwrthbwyso ar dir sy'n gyfagos i'r chwarel ac i'r de ohoni, ar dir sydd o fewn yr un perchnogaeth.
- 5.2.146 Mae gwaith ymgynghori gyda chyrff statudol wedi datgelu nifer o faterion i'w hystyried, ac mae'r rhain wedi'u hystyried yn y polisi hwn. Mae materion allweddol a godwyd gan yr ymgynghoreion statudol yn cynnwys; priffyrdd a theithio llesol, isadeiledd gwyrdd, gwella bioamrywiaeth gan gynnwys yr angen i lunio arolygon ystlumod (twneli a strwythurau) arolygon eDNA ar gyfer Madfalloedd Dŵr Cribog, Arolygon Cynefinoedd, Adar ac Infertebratau. Cyflenwad dŵr a thriniaeth, mesurau llifogydd / dŵr wyneb a diogelu dŵr daear, asesu a diogelu asedau hanesyddol, cadwraeth a hyrwyddo'r Gymraeg, a rheoli deunyddiau ar y safle yn gyffredinol.
- 5.2.147 Er mwyn cael mynediad priffyrdd addas i Ardal 1, mae'n debygol y bydd angen gwelliannau i leiniau gweledd fel a nodir yn y polisi hwn. Ar y cam cais cynllunio, bydd angen asesiadau ar gyfer cyffyrdd 22 a 23 yr A55 o ran capasiti priffyrdd.
- 5.2.148 Yn ystod digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd, codwyd materion eraill o ran sut gellid gwella'r safle a sut mae'n gysylltiedig â phentrefi cyfagos Llysfaen a Llanddulas. Yn benodol, amlygwyd pryder bod angen llwybrau cyhoeddus gwell



a ffensys ffiniau o amgylch y safle, a hefyd datblygiad ardaloedd sydd wedi'u hadfer ers hynny. Mae'r ddau fater uchod yn cael eu cwmpasu yn y polisi Creu Lleoedd hwn, gyda chyfeiriad penodol at ddiwygiadau i'r trefniadau adfer cymeradwy y mae angen eu ceisio yn y cam cais cynllunio, a chanlyniad budd net cyffredinol o ran bioamrywiaeth. Lle bo angen, defnyddir cytundebau A106 i ddiogelu gwelliannau o'r fath ar gam cais cynllunio.

5.2.149 Dim ond pan fydd y math o ddatblygiad a'r deiliad/defnyddiwr safle yn hysbys y gellir sefydlu capasiti carthffosiaeth ar gyfer dyraniadau cyflogaeth. Pan fydd gofynion wedi'u cadarnhau trwy'r broses cais cynllunio, caiff asesiadau pellach eu cynnal.

5.2.150 Gall y plotiau unigol sydd ar gael i'w datblygu gynrychioli ardal sylweddol o dir ac nid yw'r galw posibl ar asedau Dŵr Cymru ar eu cyfer yn hysbys ar hyn o bryd. Dim ond ar gyfer cyflenwadau 'domestig' mae rhwymedigaethau ymgwymerwr dŵr a charthffosiaeth yn ymestyn. Gall fod yn angenrheidiol cynnal Asesiadau Modelu Hydrolig ar gyfer dŵr a/neu garthffosiaeth ar gost i'r datblygwr er mwyn canfod lle gallai'r datblygiad arfaethedig gysylltu â'r rhwydweithiau presennol, ac er mwyn nodi unrhyw welliannau gofynnol i'r isadeiledd. Gellir caffael isadeiledd ar gyfer prif gyflenwad dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer unrhyw safle datblygu posibl trwy ddarpariaethau meddiant Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).

5.2.151 Er nad ydynt wedi'u dynodi fel heneb gofrestredig ar hyn o bryd, mae Cadw yn ystyried bod gweddillion Odynnau Calch Hoffman o bwysigrwydd cenedlaethol a'u bod fwy na thebyg yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu dynodi fel heneb gofrestredig. Felly, gallai datblygu Ardal A gael effaith arni a'i lleoliad. Pe

dyrennid yr Ardal hon, fodd bynnag, dywed Cadw y byddai cadwraeth yr odyd fel rhan o unrhyw ddatblygiad yn lliniaru ar unrhyw effaith arno. Mae Heneb wedi dweud y bydd angen gwneud rhagor o waith asesu ar ffurf asesiad desg manwl ac arolwg ar droed a mapio ac arolwg adeilad hanesyddol lefel 3. Cydnabyddir bod gweddillion yr odyd wedi'u gorchuddio â llystyfiant ar hyn o bryd a bod hyn yn amharu ar ymdrechion i gael mynediad er mwyn cynnal yr arolygon angenrheidiol o bosibl. Yn wir, gallai ymdrechion i symud y llystyfiant olygu risg o ddifrodi gweddillion yr odyd. Felly mae angen ceisio cyngor cadwraeth arbenigol cyn symud llystyfiant o'r safle i gychwyn. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad ar Ardal 1 roi ystyriaeth i gyngor gan Cadw a Heneb – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru.

5.2.152 Yn unol â chynghor Heneb, bydd angen cynnal asesiad desg tebyg fel a amlinellir uchod ar gyfer Ardal 2, er mwyn pennu graddfa a chyflwr unrhyw asedau hanesyddol a allai fod yn y lleoliad hwn.

5.2.153 Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 74: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.



PL/23 safle 103 Bryniau, Llandudno - safle cyflogaeth

1. Mae tir sy'n mesur 3.85 hectar, Bryniau, Llandudno, wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflogaeth B1.
2. Bydd cyflwyno'r safle hwn fesul cam yn unol â pholisi ED/2.
3. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r holl ofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd a Theithio Llesol – dylid dilyn yr hierarchaeth cludiant cynaliadwy ar gyfer y dyluniad. Dylai prif bwynt mynediad cerbydau fod o Ffordd Conwy (B5115), o leiaf 70m o gyffordd y gylchfan a dylai ymestyn y llwybr troed o'r safle bws tua'r de i'r safle. Dylid hefyd darparu llwybr troed gyferbyn â'r safle bws tua'r gogledd wrth y safle. Dylid darparu cysylltiadau teithio llesol yn unol â pholisi STA/6.
 - b. Dyluniad a gosodiad – caiff dyluniad yr isadeiledd ffisegol a'r adeiladau ei arwain gan bolisiâu PL/1, PL/5 a PL/11, gan ystyried hygyrchedd, diogelwch a hydreiddedd y safle.
 - c. Amgylchedd hanesyddol – mae'r ASIDOHL yn dod i'r casgliad mai mân effaith fydd datblygu'r safle hwn yn ei chael ar y dirwedd hanesyddol gofrestredig. Felly dylai ceisiadau cynllunio sicrhau bod dyluniad, graddfa, gosodiad a deunyddiau adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig yn lleihau'r effaith ar y dirwedd hanesyddol gofrestredig.
 - d. Archeoleg – nid oes unrhyw gyfyngiadau hysbys ar y safle, fodd bynnag, mae angen cynnal asesiad archeolegol yn y cam cais cynllunio er mwyn deall potensial cudd y safle hwn. Yn dibynnu ar ganlyniad hyn,

mae'n bosibl y byddai angen cynnal gwerthusiad archeolegol wedyn.

- e. Isadeiledd Gwyrdd – sicrhau bod nodweddion gwyrdd, gan gynnwys gwrychoedd a choed, yn cael eu cadw a'u hintegreiddio â chreu cynefinoedd, plannu coed brodorol yn unol â NE/6, a chynnwys a chysylltu darpariaeth mannau agored lle bo'n briodol, yn unol â pholisi NE/7.
- f. Gwella bioamrywiaeth – bydd effaith gyffredinol y datblygiad yn arwain at fudd net i fioamrywiaeth, yn unol â'r dull fesul cam a pholisi NE/8.
- g. Ansawdd Aer – Dylid cynnwys mesurau ansawdd aer boddhaol ar gyfer lliniaru a/neu leihau allyriadau yn unol â pholisi EQ/3.
- h. Effeithlonrwydd ynni/Carbon Sero – dylai cynigion ddangos bod yr hierarchaeth ynni wedi'i rhoi ar waith drwy gyflwyno Datganiad Ynni yn unol â pholisïau EN/1 ac EN/2.
- i. Cyflenwad dŵr a carthffosiaeth – dim ond pan fydd y math o ddatblygiad a'r deiliad/defnyddiwr safle yn hysbys y gellir deall capasiti carthffosiaeth ar gyfer dyraniadau cyflogaeth. Pan fydd gofynion wedi'u cadarnhau trwy'r broses cais cynllunio, mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiadau pellach neu asesiadau modelu hydrolog er mwyn cefnogi datblygiad ar y safle hwn.
- j. Y Gymraeg – mae'n rhaid i fesurau lliniaru gael eu darparu.



5.2.154 Mae dyrannu'r tir ym Mryniau yn rhoi cyfle i ddatblygu'r safle ar gyfer defnydd cyflogaeth B1 yn un o'r ardaloedd twf allweddol fel a nodir yn fframwaith Cymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae gwaith ymgynghori gyda chyrff statudol wedi datgelu nifer o faterion i'w hystyried wrth ddatblygu'r safle, ac mae'r rhain wedi'u hystyried wrth lunio'r polisi creu lleoedd hwn. Mae materion allweddol a godwyd gan yr ymgynghoreion statudol yn cynnwys; priffyrdd a theithio llesol, isadeiledd gwyrdd a gwella bioamrywiaeth, lleihau effaith ar y dirwedd hanesyddol, cadwraeth a hyrwyddo'r Gymraeg, a rheoli deunyddiau ar y safle yn gyffredinol.

5.2.155 O ran mynediad i'r safle, dylai prif bwynt mynediad cerbydau fod o Ffordd Conwy (B5115), o leiaf 70m o gyffordd y gylchfan a dylai ymestyn y llwybr troed o'r safle bws tua'r de i'r safle. Dylid hefyd darparu llwybr troed gyferbyn â'r safle bws tua'r gogledd wrth y safle. Dylid darparu cysylltiadau teithio llesol yn unol â pholisi STA/6.

5.2.156 Cynhaliwyd ASIDOHL cyn i'r safle gael ei gynnwys yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Daeth hwn i'r casgliad mai mân effaith fydd datblygu'r safle hwn yn ei chael ar y dirwedd hanesyddol gofrestredig. Felly mae'n bwysig bod ceisiadau cynllunio yn ystyried effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys archeoleg posibl, yn unol â'r polisi hwn a pholisi HE/2.

5.2.157 Dim ond pan fydd y math o ddatblygiad a'r deiliad/defnyddiwr safle yn hysbys y gellir sefydlu capasiti carthffosiaeth ar gyfer dyraniadau cyflogaeth. Pan fydd gofynion wedi'u cadarnhau trwy'r broses cais cynllunio, caiff asesiadau pellach eu cynnal.

5.2.158 Dylai nodweddion gwyrdd presennol a chynefinoedd gael eu cadw lle bo hynny'n bosibl. Mae gwrychoedd a choed aeddfed yn ffinio a chroesi'r safle ar bwyntiau penodol ac mae'r rhain yn darparu cynefin pwysig i lawer o rywogaethau. Dylai gwrychoedd a choed gael eu cadw a'u cynnwys yn y cynlluniau safle lle bynnag bo'n bosibl er mwyn cynnal y cynefin hwn.

5.2.159 Gall y plotiau unigol sydd ar gael i'w datblygu gynrychioli ardal sylweddol o dir ac nid yw'r galw posibl ar asedau Dŵr Cymru ar eu cyfer yn hysbys ar hyn o bryd. Mae rhwymedigaethau ymgymrwyr dŵr a charthffosiaeth yn ymestyn i gyflenwadau 'domestig' yn unig. Gall fod yn angenrheidiol cynnal Asesiadau Modelu Hydrolig ar gyfer dŵr a/neu garthffosiaeth ar gost i'r datblygwr er mwyn canfod lle gallai'r datblygiad arfaethedig gysylltu â'r rhwydweithiau presennol, ac er mwyn nodi unrhyw welliannau gofynnol i'r isadeiledd. Gellir caffael isadeiledd ar gyfer prif gyflenwad dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer unrhyw safle datblygu posibl trwy ddarpariaethau meddiant Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).

5.2.160 Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.



PL/24 safle 206 Nant y Coed, Cyffordd Llandudno - safle tai

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer tai fforddiadwy (50 o gartrefi) a gwaith cysylltiedig.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
 - a. Priffyrdd – bydd angen cynnal asesiad effaith traffig. Dylid darparu mynediad ar gyfer tai trwy Ronald Avenue.
 - b. Teithio llesol – mae'n rhaid ystyried llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith hawliau tramwy, canolfan fanwerthu a chyfleusterau cymunedol a gwasanaethau a'u darparu yn unol â PL/1 creu lleoedd cynaliadwy, PL/5 creu lleoedd a dyluniad da ac adran Cludiant Cynaliadwy a Strategaeth Hygyrchedd y CDLIN.
 - c. Tai fforddiadwy – dylai'r cynllun ddarparu ar gyfer 100% tai fforddiadwy.
 - d. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â PL/12 datblygiad newydd, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio, PL/13 datblygiad newydd a gwelededd a pholisi man hamdden RS/2.
 - e. Cyflenwad dŵr a charthffosiaeth – bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig i lywio'r cais cynllunio.
 - f. Risg llifogydd – bydd angen Asesiad Risg Llifogydd (Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd) i lywio'r cais cynllunio.
 - g. Tirwedd – mae'n rhaid i'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol.
 - h. Isadeiledd Gwyrdd a Bioamrywiaeth – bydd angen datganiadau i lywio'r cais cynllunio.

- i. Y Gymraeg – mae'r safle o fewn yr Ardal sy'n Sensitif o ran y Gymraeg. Bydd angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y safle ar y cam cais cynllunio yn unol â pholisi PL/7.

- 5.2.161 Mae dyrannu'r safle hwn yn Nant y Coed, Cyffordd Llandudno, yn rhoi cyfle i gyfrannu at ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer is-ardal Creuddyn, trwy ddarparu 100% tai fforddiadwy. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.
- 5.2.162 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yng Nghyffordd Llandudno ei hun ac is-ardal ehangach Creuddyn. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd o dai a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yng Nghyffordd Llandudno ac is-ardal Creuddyn. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi hwn yn cael ei fodloni (cymysgedd tai HS/7).
- 5.2.163 Bydd angen Cynllun Creu Lleoedd a datganiad cydymffurfio Creu Lleoedd fel a nodir ym mholisi PL/16, sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi, yn gynaliadwy, ac adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned.
- 5.2.164 Bydd angen asesiad priffyrdd ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr effaith ar gyffyrdd cyfagos. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygyrch trwy'r safle ac o'i amgylch, gan gysylltu ag ysgolion gerllaw, canolfan fanwerthu, llwybrau cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac amwynderau lleol allweddol eraill yng Nghyffordd Llandudno.

- 5.2.165 Mae angen Asesiad Modelu Hydrolig ac Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y safle. Mae gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Ganol gapasiti i dderbyn y safle hwn.
- 5.2.166 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran caeau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol, darpariaeth awyr agored arall a pharciau a gerddi yng Nghyffordd Llandudno. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno. Caiff hyn ei reoli trwy amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.
- 5.2.167 Mae Cyffordd Llandudno yn yr Ardal sy'n Sensitif o ran y Gymraeg a ddynodwyd yn y CDLIN (polisi PL/7). Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.
- 5.2.168 Mae angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Bioamrywiaeth ar gyfer pob cynnig datblygu. Dylai datblygiad strategol asesu'r safle, gan gynnwys setiau data sydd ar gael, er mwyn sefydlu gwelliant yn y safle, yn unol â chanllawiau ym Mhapur Cefndir 47 a pholisïau NE/7, NE/8 ac EQ/1.

PL/25 safle 132 Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos - safle tai

1. Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi ar gyfer tai fforddiadwy 100% (50 o anheddau) a gwaith cysylltiedig.
2. Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r gofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:

- a. Priffyrdd – Dim gwrthwynebiadau mewn egwyddor o ran priffyrdd. Prif fynedfa i gerbydau i'r datblygiad i barhau ar Dinerth Road. Dylai mynediad i gerddwyr gysylltu i bob cyfeiriad posibl yn unol â Theithio Llesol a bydd angen gwelliannau i safleoedd ysgol lleol hefyd. Bydd angen Datganiad Cludiant a GRT (Gorchymyn Rheoli Traffig) posibl i wella llain welededd yn y fynedfa.
- b. -Sero net – Bydd angen Strategaeth Ynni er mwyn llywio'r cais cynllunio i ddangos mesurau tuag at gyflawni carbon sero net yn unol â pholisi EN/1-7.
- c. Teithio llesol – mae'n rhaid ystyried llwybrau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith hawliau tramwy, canolfan fanwerthu a chyfleusterau cymunedol a gwasanaethau a'u darparu yn unol â PL/1, PL/5 ac adran Cludiant Cynaliadwy a Strategaeth Hygyrchedd y fframwaith creu lleoedd.
- d. Tai fforddiadwy – dylai'r cynllun ddarparu ar gyfer 100% tai fforddiadwy.
- e. Isadeiledd – darparu isadeiledd angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio yn unol â pholisïau PL/12, PL/13 a RS/2.
- f. Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig i lywio'r cais cynllunio. Dylid rheoli unrhyw ddŵr wyneb ffo ar y safle trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy.
- g. Tirwedd a choed – mae'n rhaid i'r safle gael ei ddylunio'n briodol, gan gynnwys mesurau sgrinio i sicrhau bod y safle'n cyfrannu'n gadarnhaol at olygfannau yn yr ardal leol. Bydd angen plannu coed newydd yn unol â pholisi NE/6.



- h. Amgylchedd hanesyddol – mae'r safle yn agos at Henebion Cofrestredig Llys Eurn a Bryn Eurn ac felly mae'n bosibl y bydd angen Asesiad o Effaith ar Dreftadaeth.
- i. Isadeiledd Gwyrdd – Bydd angen datganiad IG ar y cam ymgeisio i ddangos sut mae asedau IG wedi'u cadw a'u gwella gan ychwanegu aml-swyddogaeth gan gynnwys gerddi cymunedol, man agored a theithio llesol. Mae'n rhaid i goed a gwrychoedd presennol gael eu cadw fel nodweddion yn y dirwedd ac i wella cysylltedd cynefinoedd.

5.2.169 Mae dyrannu'r safle hwn yn rhoi cyfle i gyfrannu at ddiwallu'r angen o ran tai ar gyfer is-ardal y Canol, trwy ddarparu 100% tai fforddiadwy. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol a chyrrff statudol am y safle hwn ac mae'r materion a godwyd wedi'u hadlewyrchu yn y polisi creu lleoedd hwn sy'n benodol i'r safle.

5.2.170 Mae angen sylweddol wedi'i nodi am dai fforddiadwy yn Llandrillo-yn-Rhos ei hun ac is-ardal ehangach y Canol. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022-37) yn rhagweld y bydd yr angen hwn yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun a thu hwnt. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd yn lleol. Dylai'r cymysgedd o dai a gynigir adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd yn Llandrillo-yn-Rhos ac is-ardal y Canol. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â Gwasanaethau Tai CBSC er mwyn sicrhau bod y gofyniad polisi yn cael ei fodloni (HS/7).

5.2.171 Bydd angen Cynllun Creu Lleoedd a datganiad cydymffurfio Creu Lleoedd fel a nodir ym mholisi PL/16, sy'n nodi sut mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi, yn gynaliadwy, ac adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned.

5.2.172 Er mwyn sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd yn gallu darparu ar gyfer y tai newydd, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r mesurau lliniaru a amlinellir yn natganiad tir cyffredin BIPBC / CBSC. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys creu gwasanaethau clwstwr, hybu ffyrdd o fyw mwy iach, gofal o bell a thechnoleg a chyfraniadau ariannol Adran 106 lle bo'n briodol. Cyfeiriwch at Bapur Cefndir 44: Newid yn y Boblogaeth - Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol.

5.2.173 Bydd angen asesiad priffyrdd ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr effaith ar gyffyrdd cyfagos. Dylid darparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da, diogel a chwbl hygyrch trwy'r safle ac o'i amgylch, gan gysylltu ag ysgolion gerllaw, canolfan fanwerthu, llwybrau cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac amwynderau lleol allweddol eraill yn yr ardal.

5.2.174 Mae angen Asesiad Modelu Hydrolig ar gyfer y safle. Mae gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Ganol gapasiti i dderbyn y safle hwn. Mae'n bosibl y bydd angen hawddfrait / gwyrdd carthffos.

5.2.175 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden yn nodi diffygion o ran caeau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau chwarae ffurfiol, darpariaeth awyr agored arall a pharciau a gerddi yn Llandrillo-yn-Rhos. Er na ddisgwylir i'r dyraniad safle hwn oresgyn y diffygion hyn, mae'n hanfodol bod y safle yn darparu ar gyfer anghenion mannau hamdden preswylwyr sy'n byw yno. Caiff hyn ei reoli trwy amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

5.2.176 Mae angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Bioamrywiaeth ar gyfer pob cynnig datblygu. Dylai datblygiad strategol asesu'r safle, gan gynnwys setiau data sydd ar gael, er



mwyn sefydlu gwelliant yn y safle, yn unol â chanllawiau ym Mhapur Cefndir 47 a pholisïau NE/7, NE/8 ac EQ/1.

- 5.2.177 Yn sgil agosrwydd y safle at yr Henebion Cofrestredig, mae angen cynnal ymgynghoriad â CADW i ganfod a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth. Mae'n bosibl bod nodweddion o ddiddordeb archeolegol hefyd ac felly argymhellir cynnal ymgynghoriad cynnar gyda Heneb hefyd.
- 5.2.178 Mae mesurau lliniaru ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hawgrymu ym Mhapur Cefndir 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a bydd angen eu darparu fel rhan o ddatblygiad y safle. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio neu gyfundeb cyfreithiol.

5.3 Thema Strategol 2: lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

Cyflwyniad

- 5.3.1 Mae'r thema strategol yr CDLIN yn canolbwyntio ar leoedd iach, actif a chymdeithasol fel cydrannau allweddol o greu lleoedd. Maent yn cyd-fynd â'r holl themâu a pholisïau a nodir yn y fframwaith polisi creu lleoedd. Mae lleoedd iach a chymdeithasol yn rhai sy'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Conwy trwy ddarparu cymunedau cydynus sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae lleoedd sy'n actif ac yn gymdeithasol yn cyfrannu tuag at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 5.3.2 Mae thema lleoedd iach a chymdeithasol CDLIN Conwy yn cynnwys tai a thai fforddiadwy, cludiant cynaliadwy a hygyrchedd, manwerthu a chanolfannau masnachol,

gwasanaethau a chyfleusterau cymdeithasol a gofodau hamdden.

- 5.3.3 Mae'r thema hwn yn cefnogi a galluogi darpariaeth o ystod o gartrefi newydd sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda ac sy'n hygyrch i'r canolfannau manwerthu a masnachol presennol sydd wedi'u lleoli yng nghalon ein cymunedau a chyfleoedd gwaith. Mae darpariaeth tai fforddiadwy yn flaenoriaeth arwyddocaol ar gyfer y CDLIN. Rhaid i ni fynd i'r afael â digartrefedd, cynyddu tai fforddiadwy, diogelu hunaniaeth cymunedol, hyrwyddo gwytnwch ac annog strwythur oedran mwy cytbwys trwy ardal y cynllun. Mae'r fframwaith tai a thai fforddiadwy o fewn y thema strategol hwn yn rhoi polisïau mewn lle i fynd i'r afael â'r materion blaenoriaeth hyn, wedi'u cefnogi gan y polisïau ehangach a nodir yn y fframwaith polisi creu lleoedd.
- 5.3.4 Mae'n hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel lleoliadau ar gyfer ystod o weithgareddau, gan gydnabod eu pwysigrwydd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae'n cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau cymunedol a gofodau hamdden ar gyfer ein hiechyd, lles a safon byw ac yn diogelu a hyrwyddo'r rhain yn unol â chanlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol troswaol. Wrth gynllunio a rheoli datblygiad yn y dyfodol, maer thema strategol hwn yn sicrhau bod cynigion cynllunio â mynediad da at swyddi ac ystod priodol o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys hamdden, iechyd ac addysg.
- 5.3.5 Nod y thema hwn yw sicrhau bod datblygiad newydd wedi'i leoli a'i ddylunio mewn modd sy'n lleihau'r angen i deithio, lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ac yn galluogi mynediad cynaliadwy i



gyflogaeth, gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol. Cyflawnir hyn trwy integreiddio datblygiad gydag isadeiledd cludiant cynaliadwy a dylunio cynlluniau mewn modd sy'n gwneud y mwyaf o'r ddarpariaeth a defnydd o ffurfiau cynaliadwy o deithio, gan gynnwys blaenoriaethu'r rhain dros geir preifat.

5.3.6 Mae'r thema lleoedd iach a chymdeithasol yn cynnwys y polisiau canlynol:

Fframwaith tai a thai fforddiadwy

HS/1 fframwaith tai cynaliadwy

HS/2 cyflawni'r angen o ran tai

HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy

HS/4 safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy

HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy

HS/6 dwysedd tai

HS/7 cymysgedd tai

HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol

HS/9 anheddau menter wledig

HS/10 ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

HS/11 amod meddiannaeth man preswyllo parhaol C3

HS/12 llety a rennir

HS/13 cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

HS/14 datblygiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr

HS/15 diwallu anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Strategaeth Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd

STA/1 cludiant cynaliadwy, hygyrchedd a datgarboneiddio

STA/2 cerbydau allyriadau isel iawn

STA/3 Lliniaru effaith teithio

STA/4 Llwybrau a chynlluniau cludiant

STA/5 Canolfannau newyddau a gwastraff cyfunol

STA/6 Teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd

STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus

STA/8 Safonau parcio

Canolfannau manwerthu a masnachol

RTC/1 manwerthu a chanol trefi yn gyntaf

RTC/2 hierarchaeth manwerthu

RTC/3 prif ardal siopa

RTC/4 ardaloedd siopa

RTC/5 parciau manwerthu a hamdden

RTC/6 dyluniad a diogelwch blaen siopau

RTC/7 datblygiad manwerthu newydd

Strategaeth cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

CFS/1 cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

CFS/2 rhandiroedd newydd a phresennol

CFS/3 claddfeydd

CFS/4 cyfleusterau cymunedol newydd

CFS/5 colli cyfleusterau cymunedol

Strategaeth mannau hamdden

RS/1 mannau hamdden

RS/2 datblygu a mannau hamdden

RS/3 diogelu mannau hamdden presennol

RS/4 mannau hamdden newydd

Fframwaith tai a thai fforddiadwy

SO2: Hyrwyddo strategaeth cyflogaeth a thwf tai gyfannol ac wedi'i chyd-leoli trwy ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy ac anghenion llety sipsiwn a theithwyr mewn

lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod yr amrywiaeth gywir o fathau, meintiau a deiliadaeth tai yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r isadeiledd cymunedol angenrheidiol.

5.3.7 Mae'r bennod hon yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer darparu ar gyfer anghenion tai a thai fforddiadwy ardal y CDLIN. Mae hefyd yn cynnwys polisiâu ar gyfer rheoli ail gartrefi a lletyau gwyliau, cynlluniau tai gwledig, lletyau a rennir, cartrefi gofal a thai arbenigol eraill a sut y bydd yr ACLL yn darparu ar gyfer anghenion safleoedd cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol.

5.3.8 Mae darparu'r lefel briodol o dai sy'n diwallu anghenion poblogaeth ardal y cynllun yn fater allweddol ar gyfer nifer o'n cymunedau. Mae diffyg tai fforddiadwy i'w rhentu neu eu prynu yn un o'r heriau mwyaf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

HS/1 fframwaith tai cynaliadwy

Mae'r cynllun yn cyflwyno darpariaeth ar gyfer 4,300 o dai newydd er mwyn cyflawni gofyniad tai o 3,600 (a 20% wrth gefn), lle bo o leiaf 1,760 o'r tai yn fforddiadwy.

Bydd y tai cynaliadwy'n cyflawni hyn drwy:

1. Ddyrannu tir ar gyfer 1,320 o gartrefi newydd fel y nodir ym Mholisi HS/2.
2. Darparu 680 o dai fforddiadwy newydd ar ddyraniadau safle yn unol â pholisi HS/3.
3. Gwneud y mwyaf o dai fforddiadwy ar yr holl safleoedd drwy bolisi HS/4 safleoedd dan arweiniad tai fforddiadwy.
4. Cefnogi darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol ar safleoedd priodol y tu hwnt i ffiniau anheddiad yn unol â pholisi HS/5.

5. Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu darparu gyda'r dwysedd priodol, sy'n gwneud y defnydd gorau o dir, fel y nodir ym mholisi HS/6.
6. Darparu cymysgedd priodol o dai ar safleoedd, i ddiwallu anghenion a nodwyd yn lleol, yn unol â pholisi HS/7.
7. Darparu tai i ddiwallu'r anghenion lleol mewn rhai ardaloedd, dan arweiniad polisi HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol.
8. Cefnogi ceisiadau ar gyfer Anheddau Menter Wledig newydd, a darparu meini prawf ar gyfer diddymu amodau meddiant presennol, yn unol â pholisi HS/9.
9. Rheoli lefelau'r ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor mewn ardaloedd dynodedig, yn unol â pholisi HS/10.
10. Cyfyngu cartrefi newydd i breswylfa barhaol C3 yn unig mewn datblygiadau sydd wedi'u hamlinellu ym mholisi HS/11.
11. Cefnogi darpariaeth llety a rennir newydd yn amodol ar y meini prawf a osodwyd ym mholisi HS/12.
12. Cefnogi darpariaeth cartrefi gofal, cynlluniau gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod newydd lle bo'r angen a diogelu'r cartrefi presennol drwy bolisi HS/13.
13. Bydd trawsnewid adeiladau gwledig yn dai newydd yn cael ei gefnogi'n unol â pholisi PL/10.
14. Mynd i'r afael ag anghenion sipsiwn a theithwyr yn unol â pholisi HS/14 a pholisi HS/15.

5.3.9 Mae hygyrchedd a fforddiadwyedd tai yn ffactor allweddol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein cymunedau ac er mwyn cyflawni'r strategaeth dwf yn y CDLIN. Mae maint cyfartalog



aelwydydd yn ardal y cynllun yn gostwng. Gall newidiadau o ran oedran a strwythur cymdeithasol poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy fygwth lles cymunedau a'r Gymraeg a hyfywedd ysgolion, busnesau, gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Felly, er mwyn sicrhau dyfodol yr ardal, mae'n allweddol bod anghenion y boblogaeth a ragwelir a'r newidiadau o ran

aelwydydd yn cael eu diogelu a bod strwythur sy'n fwy cytbwys o ran oedran yn cael ei hyrwyddo drwy ddatblygu tai hygrych ac sydd wedi'u dylunio'n dda gyda'r meintiau, mathau a deiliadaeth gywir.

HS/2 cyflawni'r angen o ran tai

Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer datblygiad preswyl newydd yn Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (90%) a'r Ganolfan Wasanaethau Allweddol. Mae datblygiadau'n cael eu llywio at yr aneddiadau mwy yn unol â PL/4 dosbarthiad twf a hierarchaeth aneddiadau.

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu at ddefnydd preswyl:

Safle	Cyfanswm yr unedau yng nghyfnod y cynllun	Unedau fforddiadwy yng nghyfnod y cynllun	Terfynau amser o ran cyflawni	Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun
Y Gorllewin Safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan	145	73	Blwyddyn 11-15	0
Y Creuddyn Safle 91 Pentywyn Road, Deganwy / Llanrhos	140	70	Blwyddyn 11-15	0
Safle 206 Nant y Coed, Cyffordd Llandudno	50	50	Blwyddyn 6-10	0
Safle 203 Queens Road, Llandudno	70	35	Blwyddyn 11-15	0
Y Canol Safle 68 Fferm Peulwys, Hen Golwyn	250	150	Blwyddyn 11-15	50
Safle 132 Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos	50	50	Blwyddyn 6-10	0
Gwledig Safle 56 Penloyn, Llanrwst	100	50	Blwyddyn 11-15	0

3. Mae'r safleoedd CDLI blaenorol canlynol wedi'u hail-ddyrannu, ond disgwylir iddynt dderbyn caniatâd cynllunio cyn mabwysiadu'r CDLIN:

Safle	Cyfanswm yr unedau yng nghyfnod y cynllun	Unedau fforddiadwy yng nghyfnod y cynllun	Terfynau amser o ran cyflawni	Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun
Y Gorllewin Safle 86 Parc Penmaen, Llanfairfechan	55	11	Blwyddyn 6-10	0
Y Creuddyn Safle 210 Lôn Derwen, Bae Penrhyn	152	53	Blwyddyn 6-10	0
Y Canol Safle 41 Heol Dirion, Bae Colwyn	28	28	Blwyddyn 6-10	0
Y Dwyrain Safle 113 Fferm Tandderwen, Abergele	277	110	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	0

4. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad preswyl y tu hwnt i ffiniau anheddiad, heblaw am safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn unol â pholisi HS/5, trawsnewidiadau gwledig yn unol â pholisi PL/10, Anheddau Menter Wledig yn unol â pholisi HS/9 a Datblygiad Un Blaned yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.
5. Caniateir lefel gynaliadwy o ddatblygiadau preswyl yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig (10%). Bydd y mwyafrif o hyn yn cael ei ddarparu yn y Safle Strategol yn Llanrwst, y Ganolfan Wasanaethau Allweddol. Er mwyn cefnogi anghenion tai aneddiadau gwledig eraill, caniateir safleoedd sy'n darparu isafswm o 50% o dai fforddiadwy ar safleoedd addas o fewn Prif Bentreffi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau yn amodol ar y meini prawf canlynol:
 - a. Mae'n rhaid i safleoedd o'r fath fod o fewn ffin yr anheddiad lle bo'n berthnasol neu mewn lleoliad da mewn perthynas â'r anheddiad presennol, gan fewnlenwi neu derfynu.
 - b. Mae'n rhaid darparu unedau o dai fforddiadwy ar y safle i ddiwallu angen a nodwyd yn lleol. Ni chaniateir darpariaeth oddi ar y safle na symiau gohiriedig. Pan fydd gofyniad yn arwain at annedd fforddiadwy rhannol, bydd yn cael ei dalgrynnu i'r annedd fforddiadwy llawn agosaf i'w ddarparu ar y safle. Ni chaniateir anheddau marchnad agored sengl, oni bai bod deiliadaeth wedi'i chyfyngu ar gyfer anghenion lleol, yn unol â pholisi HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol.
 - c. Nid oes effaith annerbyniol ar gymeriad lleol yr ardal; a
 - d. Caniateir safleoedd gydag uchafswm o 5 annedd marchnad agored mewn Pentrefi Bach a 2 annedd marchnad agored mewn Pentrefannau yn y cynlluniau, lle bo anheddau marchnad agored yn cynrychioli uchafswm o 50% o gyfanswm yr unedau sy'n rhan o'r cynllun.



5.3.10 Mae'r strategaeth tai cynaliadwy yn cefnogi twf yn y lleoliad cywir. Disgwylir i'r mwyafrif gael eu cyflawni yn Ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol, gan adlewyrchu'r hierarchaeth aneddiadau. Mae angen lefel briodol o dai newydd yn Ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol, sy'n cefnogi aneddiadau llai a'r Gymraeg ac yn diogelu rhag gor-ddatblygu.

5.3.11 Mae'r strategaeth tai cynaliadwy'n blaenoriaethu datblygiad ar Dir a Ddatblygwyd yn Flaenorol ond nid oes modd darparu'r holl dai newydd sydd eu hangen ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn unig. Mae colli rhywfaint o safleoedd tir glas a lletemau glas yn ofynnol i sicrhau bod modd cyflawni'r CDLIN. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau Asesiad Lletem Las Papur Cefndir 29/31.

5.3.12 Mae'n rhaid i'r CDLIN ddyrannu tir i ddarparu'r lefel o dai newydd a nodwyd yn y strategaeth tai cynaliadwy. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno mewn camau priodol fel y nodwyd yn y taflwybr tai. Mae anheddau sydd wedi'u hadeiladu ers dechrau cyfnod y CDLIN hwn, ymrwymadau presennol a lwfans ar hap hefyd wedi'u cyfrif. Mae taflwybr tai ar gael yn Atodiad 1. Mae manylion pellach ynglŷn â'r ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys a thybiaethau ar hap ar gael ym Mhapur Cefndir 7 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai.

5.3.13 Mae rhai dyraniadau CDLI (2007-22) ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer datblygu ac mae ceisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno. Gan nad oes caniatâd wedi'i roi eto, nid yw'r niferoedd tai ar y safleoedd hyn yn ffurfio rhan o'r ffigur ymrwymadau yng nghyflenwad tai y CDLIN. Mae egwyddor datblygu preswyl wedi'i gytuno o'r blaen oherwydd eu statws presennol fel dyraniadau CDLI felly mae'n rhesymol tybio y byddant yn cael eu cyflwyno

ar gyfer datblygu a'u bod yn debygol o gael caniatâd cyn mabwysiadu'r CDLIN. Er mwyn sicrhau nad yw'r safleoedd hyn sydd ar y gweill yn cael eu methu allan o gyflenwad tai y CDLIN, maent wedi'u hail-ddyrannu yma fel safleoedd tai ar y gweill. Os nad yw'r safleoedd hyn sydd ar y gweill wedi derbyn caniatâd cynllunio erbyn Archwiliad Cyhoeddus y CDLIN, ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y cynllun fel safleoedd ar y gweill a ddyrannwyd, nac yn cael eu cyfrif fel ymrwymadau.

5.3.14 Ar gyfer aneddiadau llai (Prif Bentrefi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau), mae nifer y tai marchnad i'w cyflawni ar gynllun preswyl cymysg wedi'u cyfyngu yn y polisi i ddiogelu'r Gymraeg, cymeriad a natur wledig yr aneddiadau hyn, ond gan gefnogi lefel gynaliadwy o dwf tai. Dylai bod nifer y tai fforddiadwy newydd yn y cynlluniau yn diwallu angen lleol a nodwyd. Mae'n rhaid darparu tai fforddiadwy ar y safle i gefnogi cynaliadwyedd yr anheddiad gwledig. Ni fydd symiau gohiriedig yn dderbyniol yn yr aneddiadau hyn. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad lleol yr anheddiad ac nad yw'r safle'n cael ei or-ddatblygu. Dylai'r ymgeisydd weithio'n rhagweithiol gyda Gwasanaethau Tai CBSC, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a grwpiau cymunedol lleol i nodi'r angen lleol am dai fforddiadwy. Efallai y bydd angen arolwg tai gwledig neu debyg mewn rhai amgylchiadau er mwyn deall anghenion tai fforddiadwy'r ardal leol. Oni chanfyddir bod angen am dai fforddiadwy ni chaniateir swm gohiriedig yn ei le. Er mwyn atal datblygu di-angen mewn ardaloedd gwledig ac er mwyn diogelu a gwella cymeriad lleol a chefnwlad y Gymraeg, ni chaniateir cynlluniau marchnad agored, lle nad oes cyfyngiad deiliadaeth yn unol â pholisi HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol.

HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy

1. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu ceisio o ddatblygiadau preswyl sydd heb eu dyrannu o fewn ffiniau anheddiad yr aneddiadau trefol, Brif Bentrefi Haen 1 a'r Ganolfan Wasanaethau Allweddol lle bo buddion net o anheddau o'r cynllun, yn unol â'r canrannau targed canlynol:

Ardal strategaeth y Gorllewin:

Llanfairfechan, Penmaenmawr, Dwygyfylchi: 30%

Ardal strategaeth y Creuddyn:

Llandudno, Bae Penrhyn: 40%

Conwy, Deganwy, Cyffordd Llandudno, Glan Conwy: 35%

Ardal strategaeth Ganolog:

Llandrillo-yn-rhos, Mochdre, Bae Colwyn, Hen Golwyn: 30%

Ardal strategaeth y Dwyrain:

Llanddulas, Abergel: 20%

Pensarn, Towyn, Bae Cinmel: 0%

Ardal strategaeth wledig:

Llanrwst: 40%

2. Ni fydd yn ofynnol i'r cynlluniau canlynol ddarparu tai fforddiadwy ar y safle na chyfraniadau oddi ar y safle. Datblygiadau o fewn ffiniau anheddiad ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol a'r Ganolfan Wasanaethau Allweddol sy'n cynnwys colli annedd, gyda buddion net o 4 annedd neu lai;
 - a. Abergel a Llanddulas: pob datblygiad safle bychan (1-4 annedd); ac
 - b. Yn y Gorllewin, Bae Colwyn, Hen Golwyn a Mochdre: datblygiad safleoedd bychain (1-4 annedd) sy'n golygu dymchwel neu drawsnewid adeilad sylweddol a pharhaol presennol.

- c. Dylai bod darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle ar gyfer pob cynllun, lle bo'r gofyniad yn golygu un annedd cyfan neu fwy. Efallai y bydd darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol yn briodol mewn sefyllfaoedd eithriadol, er enghraifft oherwydd natur y safle neu'r cynllun arfaethedig.
- d. Abergel a Llanddulas: pob datblygiad safle bychan (1-4 annedd); ac
- e. Yn y Gorllewin, Bae Colwyn, Hen Golwyn a Mochdre: datblygiad safleoedd bychain (1-4 annedd) sy'n golygu dymchwel neu drawsnewid adeilad sylweddol a pharhaol presennol.

3. Dylai bod darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle ar gyfer pob cynllun, lle bo'r gofyniad yn golygu un annedd cyfan neu fwy. Efallai y bydd darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol yn briodol mewn sefyllfaoedd eithriadol, er enghraifft oherwydd natur y safle neu'r cynllun arfaethedig.

5.3.15 Bydd darparu tai fforddiadwy ar safleoedd preswyl yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at ddiwallu'r lefel uchel o dai fforddiadwy sydd eu hangen yn ardal y cynllun yn awr ac yn y dyfodol agos. Dylai'r cynigion adlewyrchu deiliadaeth a maint y tai fforddiadwy sydd eu hangen yn yr ardal, fel y nodir yn y Prosiectws Tai Lleol, yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a chofrestrau tai fforddiadwy lleol er mwyn darparu cymunedau cymysg ac addas.

5.3.16 Tystiolaethir y targedau safleoedd tai fforddiadwy hyn drwy asesiad hyfywedd cadarn (Papur Cefndir 10) a byddant yn cael eu lleihau os nodir yn glir bod amgylchiadau eithriadol penodol i'r safle sy'n cyfiawnhau'r angen am asesiad hyfywedd wrth



gyflwyno cais. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno'r holl wybodaeth, tystiolaeth a chyfiawnhad fel rhan o'r broses ymgeisio ar sail llyfr agored. Argymhellir ymgysylltiad cynnar gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Onid yw'r Cyngor yn gallu dod i gytundeb â'r ymgeisydd bydd y Cyngor yn comisiynu asesiad annibynnol. Bydd gofyn i'r ymgeisydd ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â hyn.

5.3.17 Pan fydd y targed gofynnol ar gyfer tai fforddiadwy'n arwain at ran o eiddo, bydd hyn yn ofynnol fel swm gohiriedig, neu fe all y datblygwr dalgrynnu i fyny i'r annedd gyfan agosaf.

5.3.18 Mae gofyn i'r holl dai fforddiadwy gael eu hintegreiddio'n llawn o fewn y datblygiad. Bydd tai fforddiadwy'n destun cytundeb cyfreithiol neu amod cynllunio i reoli deiliadaeth am byth. Pan ddarperir tai'r farchnad agored ar y safle, mae'n rhaid i'r cytundeb cyfreithiol sicrhau darpariaeth brydlon y tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

5.3.19 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir ystyried darpariaeth tai fforddiadwy oddi ar y safle. Bydd gofyn i gynlluniau ddarparu o leiaf yr un nifer o dai fforddiadwy sy'n ofynnol yn sgil cyfuno dau gynllun. Dylai'r cynlluniau ddarparu buddion cymunedol ychwanegol ar gyfer y gymuned lle y lleolir y cynllun marchnad agored. Bydd y cynlluniau'n cael eu cysylltu drwy gytundeb cyfreithiol i sicrhau darpariaeth y tai fforddiadwy. O fewn Ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol, dylid darparu'r cynllun oddi ar y safle mewn aneddiadau trefol neu Brif Bentrefi Haen 1 o fewn yr un Ardal Marchnad Dai, fel y diffinnir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, â'r cynllun arfaethedig gwreiddiol. O fewn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig, dylai bod unrhyw gynlluniau oddi ar y safle yn cael eu darparu o fewn

ardal yr un Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref neu un cyfagos. Bydd angen i bob cynllun ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer angen a nodwyd yn yr anheddiad a diwallu anghenion blaenoriaethol a nodwyd yn Strategaeth Tai CBSC lle bo'n berthnasol.

5.3.20 Mae tystiolaeth hyfywedd yn dangos bod rhai mathau o ddatblygiadau yn annhebygol o fod yn ariannol hyfyw i ddiwallu'r targedau Tai Fforddiadwy a osodwyd yn rhan 1 HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau bychain, lle bo dymchwel strwythurau presennol yn ofynnol oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn, cynlluniau bychain sy'n cynnwys colli annedd oherwydd gwerthoedd defnydd presennol uwch, a safleoedd mewn ardaloedd marchnad gwannach ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Am y rheswm hwn mae eithriadau ar gyfer gofynion Tai Fforddiadwy wedi'u nodi yn rhan 2 y polisi hwn. Mae disgwyl i ddatblygiadau preswyl o bob math a maint, nad ydynt yn diwallu'r eithriadau yn y polisi, ddiwallu'r gofynion Tai Fforddiadwy. Bydd cynigion sy'n rhannu safle yn sawl cais cynllunio neu gamau gan arwain at osgoi gofynion Tai Fforddiadwy yn cael eu hystyried yn nhermau'r polisi fel un safle.

5.3.21 At ddibenion rhan 2 (c) y polisi hwn, mae 'dymchwel neu drawsnewid adeilad presennol' yn ymwneud ag adeiladau parhaol, sylweddol (brics neu gerrig fel arfer) sy'n cymryd rhan sylweddol o'r safle i'w ailddatblygu'n unig. Mae hyn yn sgil y costau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid neu ddymchwel adeiladau ac ailddatblygu'r safle. Fel arfer ni fyddai adeiladau



bach, dros dro neu ysgafn, fel adeiladau allanol, tai gwydr, siediau neu garejis yn berthnasol yn y dehongliad o'r polisi, gan na fyddent yn ychwanegu'n sylweddol at gostau datblygu'r safle.

Gweler polisi HS/2 cyflawni'r angen o ran tai i weld ymagwedd polisi ar gyfer gofynion tai fforddiadwy mewn Prif Bentrei Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau.

HS/4 safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy

1. Mae'n rhaid i bob safle mawr o fewn ffiniau anheddiad yr aneddiadau trefol, Prif Bentrei Haen 1 a Chanolfan Wasanaethau Allweddol, fel y diffinnir ym mholisi PL/4 dosbarthu twf a hierarchaeth aneddiadau, fod yn safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy, lle bo o leiaf 50% o'r tai newydd ar y safle yn rhai fforddiadwy.
2. Efallai y bydd lefelau is yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau canlynol:
 - a. lle y nodir bod yr angen am dai fforddiadwy yn Ardal y Farchnad Dai yn llai na nifer y tai fforddiadwy arfaethedig; neu
 - b. lle nad oes cymhorthdal ar gael i lenwi'r bwlch ariannol i ddarparu mwy na chyfraniadau'r datblygwr a osodwyd ym mholisi HS/3; neu
 - c. Pan fo lefelau uwch o dai fforddiadwy yn y datblygiad arfaethedig yn golygu y byddai'r cymysgedd tai yn yr ardal yn arwain at gymunedau anghynnaladwy.
3. Bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni lefelau uwch o dai fforddiadwy ar safleoedd y Cyngor a safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus.

5.3.22 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a chofrestrau tai fforddiadwy yn dangos nifer sylweddol o aelwydydd sydd angen tai fforddiadwy ar draws yr holl ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol. Ni ellir darparu'r rhain oll o fewn y stoc bresennol, ac felly mae angen tai fforddiadwy newydd. Mae'r Prospectws Tai Lleol a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2022-37 yn cefnogi'r ymagwedd hon ac yn nodi y bydd angen lefelau uchel o dai fforddiadwy drwy gydol cyfnod y cynllun. Pe byddai hyn yn newid, a bod yr angen am dai fforddiadwy'n cael ei ddiwallu mewn Ardal Marchnad Dai, neu fod modd diwallu'r angen a nodwyd drwy'r stoc dai bresennol, mae modd ystyried lefelau is o dai fforddiadwy.

5.3.23 Mae gwneud y mwyaf o dai fforddiadwy ar safleoedd yn rhan allweddol o gyflwyno cymunedau cynaliadwy. Mae nifer o aelwydydd lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, gan arwain at symud i rywle arall i gael tŷ. Mae darparu tai fforddiadwy felly'n rhan allweddol o gyflawni gweledigaeth y CDLIN a chydbwysu strwythur y boblogaeth leol drwy gadw pobl ifanc. Gallai hyn yn ei dro arwain at fuddion o safbwynt y Gymraeg, lle bo siaradwyr Cymraeg lleol yn gallu parhau i fyw yn eu cymunedau lleol.

5.3.24 Mae ymagwedd y polisi'n berthnasol i safleoedd mawr, gyda 10 neu fwy o anheddau. Mae'n gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at lefelau tai fforddiadwy fel y nodir ym mholisi HS/3. Rhagwelir y bydd angen cymhorthdal i lenwi'r bwlch cyllid er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth i 50%. Dylai'r ymgeisydd ystyried pob opsiwn ar gyfer hyn, a bydd angen ymagwedd ragweithiol gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Strategaeth Tai CBSC. Onid oes cyllid ychwanegol ar gael, bydd gofyn i'r ymgeisydd dystiolaethu hyn fel rhan o'r cais. Ceisir



safbwyntiau Strategaeth Tai CBSC i gadarnhau nad oes cymhorthdal ar gael. Yn yr amgylchiadau hyn, fe fydd lefelau is o ddarpariaeth fforddiadwy'n dderbyniol, ond mae'n rhaid i'r cynnig ddiwallu gofynion polisi HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy.

5.3.25 Mae'r Prospectws Tai Lleol wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ymagwedd hon ac i gefnogi darpariaeth, gan sicrhau bod safleoedd sy'n derbyn cymhorthdal gan CBSC yn alinio â gweledigaeth, amcanion a strategaeth dwf y CDLIN.

5.3.26 Ni ddylai'r cynigion arwain at gymunedau anghynnaladwy, oherwydd eu bod, er enghraifft, yn creu cymysgedd tai anghytbwys yn yr ardal. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid darparu gofynion y polisi yn yr ardal, yn unol â pholisi HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy.

HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy

1. Bydd safleoedd ar gyfer 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn cael eu caniatáu ger terfynau'r anheddiad fel eithriad i'r polisiau tai, yn amodol ar y meini prawf canlynol:
 - a. Bod lleoliad y safle'r cais yn estyniad rhesymol i'r anheddiad ac yn integreiddio'n gadarnhaol â'r gymuned leol;
 - b. Mae'r safle'n hygyrch gydag ystod o ddewisiadau cludiant, gan gynnwys cysylltiadau â rhwydweithiau Teithio Llesol, yn unol â pholisi STA/6 teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd;
 - c. Mae'r cynllun o faint priodol, yn gymesur â maint yr anheddiad ac yn cyd-fynd â chymeriad yr anheddiad a'r tirlun lleol yn unol â pholisiau PL/1 a PL/5;

d. Mae'r cymysgedd o dai arfaethedig yn darparu cymunedau cynaliadwy a byddai'n diwallu'r angen am dai fforddiadwy a nodwyd ar gyfer y Cyngor Tref neu Gymuned hwnnw. Bydd Cynghorau Tref a Chymuned cyfagos yn cael eu hystyried yn briodol mewn rhai amgylchiadau;

e. Nid oes safleoedd amgen o fewn ffiniau'r anheddiad ar gael i'w datblygu a allai ddiwallu'r angen a nodwyd; a
f. Nid yw'r safle o fewn Lletem Las ddynodedig, fel y diffinnir yn y map cynigion a pholisi NE/5 Lletemau Glas.

2. Mae trothwy safle o 10 annedd yn berthnasol mewn Prif Bentrei Haen 2 a Phentrei Bach. Mae trothwy safle o 5 annedd yn berthnasol mewn Pentrefannau. Efallai y bydd safleoedd sy'n uwch na'r trothwy'n cael eu caniatáu yn amodol ar y meini prawf ychwanegol canlynol:

- a. Mae tystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy yn uwch na 10 ar gyfer yr anheddiad lle mae'r safle arfaethedig a byddai'r anheddau newydd yn diwallu'r angen a nodwyd;
- b. Mae maint mwy'r safle yn golygu bod y datblygiad yn ariannol hyfyw ac fel arall ni fyddai'n ariannol hyfyw.

5.3.27 Mae angen sylweddol am ddarpariaeth tai fforddiadwy ar draws ardal y cynllun, fel y nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2022-37. Er y ffeirir bod yr angen yn cael ei ddiwallu o fewn cyfyngiadau anheddiad neu ffiniau anheddiad penodol, nid yw hyn yn bosibl bob tro. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd safleoedd eithriedig i ddiwallu angen lleol a nodwyd yn ddewis amgen derbyniol.

5.3.28 Pan fydd ffin anheddiad, dylai safle'r cynnig fod wrth ymyl y ffin. Bydd angen ystyriaeth ofalus i sicrhau bod unrhyw safle



arfaethedig yn estyniad rhesymol i'r anheddiad, ac nad yw'n arwain at ddatblygiad hirgul, datblygiadau tameidiog neu'n ymledu'n annerbyniol i gefn gwlad agored neu Letem Las ddynodedig (lle bo'n berthnasol). Ni chaniateir cynigion sy'n arwain at grynodiad ar wahân o dai fforddiadwy. Dylai'r cynigion adlewyrchu'r cymeriad lleol a dylid eu dylunio'n briodol. Bydd angen i safleoedd arfaethedig fod yn hygyrch i wasanaethau a chyfleusterau lleol a darparu Llwybrau Teithio Llesol i wella cysylltedd. Mae'r effaith ar gyfleusterau cymunedol wedi'i asesu fel rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLIN. Bydd angen mesurau lliniaru a chyfleusterau newydd yn unol â pholisi PL/12, PL/13 a CFS/1.

5.3.29 Dylai'r cynllun gysylltu a diwallu angen a nodwyd am dai fforddiadwy ar gyfer y Cyngor Tref neu Gymuned, yn unol â pholisi HS/7. Efallai y byddai'n dderbyniol diwallu angen am dai fforddiadwy ar gyfer Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos, onid oes safleoedd priodol ar gael yno. Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos a thystiolaethu fel rhan o'r cais cynllunio nad oes safleoedd ar gael y mae modd eu darparu i ddiwallu'r angen a nodwyd yn llawn o fewn ffin yr anheddiad lle y nodir yr angen, gan gynnwys dyraniadau'r CDLIN.

5.3.30 At ddibenion y polisi hwn, mae lleol yn cael ei ddiffinio fel aelwyd sydd â chysylltiad gyda'r Cyngor Tref neu Gymuned lle y lleolir y safle, neu Gyngor Tref a Chymuned cyfagos. Cysylltiad yw:

- Wedi byw yn yr ardal dan sylw am gyfnod o 5 mlynedd. Gallai hyn fod ar unrhyw adeg yn eu bywydau;
- Â chyflogaeth yn yr ardal berthnasol;

- Â chyfrifoldebau gofalu ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr ardal; a / neu
- Angen gofal / cefnogaeth gan aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr ardal.

5.3.31 Gellir cymhwyso hyblygrwydd, er enghraifft, pan fydd aelwydydd yn cael eu hystyried fel rhai ag angen blaenoriaethol ar gyfer tai fforddiadwy, ond nad oes ganddynt gysylltiad lleol. Bydd meddiannaeth yr anheddau hyn yn cael eu diogelu ar gyfer defnydd fforddiadwy am byth. Bydd hyn yn cynnwys mecanwaith rhoadru i ehangu'r diffiniad o leol i sicrhau meddiannaeth yn y dyfodol.

5.3.32 Mae'n bwysig bod cynigion yn cyfrannu tuag at gymunedau cymysg a chynaliadwy drwy ddarparu cymysgedd briodol o ran y mathau o dai, meintiau a deiliadaeth. Mae'n rhaid i'r cynnig integreiddio'n dda gyda'r gymuned leol bresennol i ddiogelu cymeriad ac ymdeimlad penodol o le.

5.3.33 Mae'r polisi'n darparu hyblygrwydd ar gyfer darparu safleoedd y tu hwnt i'r trothwyon yn yr aneddiadau gwledig, lle bo'r angen dewis cyntaf a nodwyd ar gyfer yr anheddiad yn uwch neu lle bo safle mwy'n cynorthwyo'n sylweddol gyda hyfywedd ariannol y cynllun a heb yr effaith yma, ni fyddai modd cyflawni'r cynllun. Bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth hyfywedd manwl i dystiolaethu hyn.

5.3.34 Ni chaniateir anheddau marchnad agored neu angen lleol ar y safleoedd hyn.

HS/6 dwysedd tai

1. Dylai'r datblygiad preswyl wneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys datblygu ar ddwysedd priodol yn unol â'r polisi cenedlaethol. Mae'n rhaid cymhwyso egwyddorion dyluniad da a chreu lleoedd er mwyn darparu dwyseddau uwch, heb gyfaddawdu dyluniad neu ansawdd y cynllun a'r llety byw.
2. Ceisir dwyseddau uwch mewn ardaloedd trefol, y Ganolfan Wasanaethau Allweddol a Phrif Bentrefi Haen 1 lle bo'n cynrychioli defnydd cynaliadwy o dir, yn darparu datblygiad defnydd cymysg, neu yn agos at ganolbwyntiau a safleoedd cludiant cyhoeddus, lle nad yw'n arwain at effaith weledol annerbyniol. Ni chefnogir cynlluniau dwysedd uwch sy'n arwain at werth gweddilliol negyddol a darpariaeth tai fforddiadwy is.
3. Efallai y bydd dwyseddau is yn dderbyniol lle:
 - a. bo unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal leol yn unol â pholisi PL/5 a HE/1 lle bo'n berthnasol, o ganlyniad i ddwyseddau uwch yn cael ei oresgyn;
 - b. mae cyfyngiadau safle neu isadeiledd yn effeithio ar gynllun y safle gan olygu nad oes modd darparu dwyseddau uwch;
 - c. mae gofyniad y gellir ei dystiolaethu i gyflawni budd net ar gyfer bioamrywiaeth yn unol â pholisi NE/8, targed plannu coed yn unol â pholisi NE/6, neu ddal a storio neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle yn unol â pholisi EN/1 ac EN/9, Systemau Draenio Cynaliadwy neu fuddion cymunedol eraill, na ellir eu diwallu heb leihau dwysedd datblygiad,

- d. mae'n ofynnol i hwyluso darpariaeth anghenion tai fforddiadwy penodol a nodwyd yn ardal y farchnad dai;
- e. mae cynllun dwysedd is yn cael effaith gadarnhaol ar ddichonoldeb cyffredinol, sy'n arwain at fwy o ddarpariaeth tai fforddiadwy.

5.3.35 Mae adeiladu gyda dwyseddau uwch yn galluogi'r defnydd gorau o safleoedd datblygu ac yn gwneud y mwyaf o botensial datblygu a lefel y tai fforddiadwy ar safleoedd. Mae hefyd yn gymorth i ddiogelu cefn gwlad rhag datblygiadau amhriodol. Gall datblygiadau mawr a dwys gefnogi mwy o bobl sydd efallai eu hangen i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau lleol.

5.3.36 Ni ddylai dwyseddau uwch sydd wedi'u dylunio'n dda gyfaddawdu ansawdd datblygiadau newydd. Ni ddylid cyfaddawdu gofynion polisi eraill o ran gofod digonol, Systemau Draenio Cynaliadwy, cymysgedd tai priodol ac eraill. Mae'n ofynnol bod pob datblygiad yn dangos buddion net ar gyfer bioamrywiaeth yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

5.3.37 Mae anghenion tai penodol wedi'u nodi yn yr asesiad o'r farchnad dai leol a'r cofrestrau tai. Gall y mathau o lety sy'n ofynnol olygu bod dwyseddau is yn ofynnol i ddiwallu'r math penodol o anghenion o ran tai. Mae'n rhaid i ymgeiswyr weithio gyda Strategaeth Tai a Gofal Cymdeithasol CBSC i sicrhau bod y cynllun yn diwallu anghenion penodol a nodwyd ar gyfer ardal y farchnad dai, i sicrhau bod modd cyfiawnhau'r dwysedd is.

5.3.38 Gyda dwysedd hynod uchel (50dph+) gall hyfywedd ariannol ddechrau gostwng wrth i ddwysedd gynyddu. Pan fyddai datblygiad dwysedd uwch yn amharu ar hyfywedd darpariaeth tai fforddiadwy, dylai dylunio'r datblygiad i wneud y mwyaf o ddarpariaeth tai fforddiadwy fod yn flaenoriaeth, oherwydd y



galw uchel am lety fforddiadwy ar draws holl ardaloedd y cynllun.

HS/7 cymysgedd tai

1. Dylai cynigion datblygiadau tai adlewyrchu'r angen am dai fforddiadwy lleol a nodwyd o ran deiliadaeth, maint tai ac anghenion tai penodol fel y nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, cofrestrau tai fforddiadwy a'r Prospectws Tai Lleol.
2. Dylai cynigion datblygu ddarparu cymysgedd priodol o fathau o dai i gefnogi darpariaeth cymunedau cynaliadwy.
3. Bydd cynigion ar gyfer llety arbenigol, megis llety ar gyfer yr henoed neu lety sy'n darparu gofal yn cael eu cefnogi, yn amodol ar dystiolaeth o'r angen.
4. Ni chefnogir cymysgedd arfaethedig o anheddau neu fathau o anheddau sy'n arwain at werth gweddillol negyddol a llai o dai fforddiadwy.

5.3.39 Mae darparu cymysgedd priodol o dai yn rhan allweddol o gymunedau cynaliadwy. Fel y nodwyd yn PCC mae'n ddymunol o safbwynt cynllunio bod datblygiadau tai newydd mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cynnwys cymysgedd rhesymol a chydbwysedd o ran mathau a meintiau o dai fforddiadwy i ddarparu ar gyfer yr ystod o anghenion tai a chyfrannu at ddatblygu cymunedau cynaliadwy. Dylai bod yr holl ddatblygiadau tai yn ardal y cynllun yn gynhwysol ac yn diwallu amrywiaeth o anghenion preswylwyr o ran meintiau aelwydydd ac anghenion tai er mwyn creu cymunedau cymysg. Felly mae angen i'r holl ddatblygiadau tai ddarparu amrywiaeth cytbwys o

fathau o dai a meintiau i adlewyrchu anghenion a nodwyd yn y gymuned. Ni chefnogir cynlluniau sy'n llawn gormodedd o ddeiliadaeth sengl neu faint annedd.

5.3.40 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn nodi ei bod yn bwysig fod gan awdurdodau werthfawrogiad o'r galw am anheddau o wahanol feintiau a mathau o dai fforddiadwy mewn perthynas â chyflenwad, fel eu bod yn derbyn y wybodaeth briodol o ran penderfynu ar y cymysgedd priodol o anheddau ar gyfer datblygiadau newydd. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r cofrestrau tai fforddiadwy'n darparu'r dystiolaeth hon a byddant yn hysbysu trafodaethau er mwyn sicrhau bod cymysgedd priodol o ran y mathau o dai i ddiwallu anghenion y gymuned ar yr holl safleoedd preswyl arfaethedig.

5.3.41 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r cofrestrau tai fforddiadwy'n darparu mwy o fanylion ar gyfer anghenion tai fforddiadwy arbenigol ac wedi'u haddasu. Lle bo angen wedi'i nodi'n lleol, efallai y bydd angen darpariaeth ar y safle fel rhan o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy, yn amodol ar faterion penodol i'r safle megis lleoliad a / neu dopograffeg.

5.3.42 Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth sy'n heneiddio a chyfran uwch o bobl hŷn o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae'r rhagamcanion poblogaeth yn dangos bod y duedd hon yn debygol o barhau. Bydd angen cymysgedd o dai sy'n cefnogi'r henoed, drwy ddarparu byngalos a mathau eraill o dai hygyrch.

5.3.43 Bydd llety arbenigol i ddiwallu anghenion yr ardal leol, drwy ddarparu cefnogaeth benodol ar gyfer pobl hŷn neu lety gofal neu lety â chymorth arall yn cael ei gefnogi lle bo'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol neu dystiolaeth arall yn awgrymu bod angen am y math yma o lety. Efallai y bydd polisi HS/13 y CDLIN,



cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn berthnasol hefyd.

- 5.3.44 Gall rhai cymysgeddau o dai gael effaith negyddol ar hyfywedd ariannol y cynlluniau. Gall hyn yn ei dro effeithio ar y gallu i ddarparu tai fforddiadwy, y mae galw sylweddol amdano. Felly ni fydd cynlluniau lle bo'r cymysgedd o dai yn cael effaith negyddol ar hyfywedd ariannol y cynllun yn cael eu caniatáu oni bai eu bod i ddiwallu angen penodol am dai fforddiadwy (er enghraifft, eiddo wedi'i addasu gyda gofod llawr mwy).

HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol

Bydd cynlluniau ar gyfer anheddau marchnad leol sengl mewn Prif Bentrefi Haen 2, Pentrefi Bach a Phentrefannau yn y Strategaeth Datblygu Gwledig fel y diffinnir ym mholisi PL/4 dosbarthu twf a hierarchaeth aneddiadau yn cael eu caniatáu pan fo'r meini prawf canlynol wedi'u diwallu:

- Mae'n rhaid lleoli'r safle o fewn cyfyngiadau'r anheddiad a lle bo cynigion yn cynrychioli math o fewnlenwi neu'n ymwneud â'r anheddiad yn ffisegol neu weledol; a
- Mae'n rhaid cadarnhau deiliadaeth yr annedd newydd am byth ar gyfer pobl gyda chysylltiad lleol fel eu prif fan preswyllo neu eu hunig fan preswyllo.

- 5.3.45 Ychydig o anheddau newydd sydd wedi'u hadeiladu mewn rhai cymunedau gwledig yn ardal y CDLIN. Mae anheddau eraill yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau neu ail gartrefi. Mae marchnad dai gyfyngedig, gyda chyfyngiadau o ran cyflenwad

newydd yn golygu bod rhai preswylwyr lleol methu â pharhau i fyw yn eu cymuned leol. Mae'r preswylwyr hyn yn allweddol er mwyn cynnal a gwella cymunedau gwledig lleol ac yn gysylltiedig â nodau'r Gymraeg yn y CDLIN a strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg gan y Cyngor a strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Bydd angen tystiolaeth fel rhan o gais cynllunio i ddangos nad yw'r ymgeisydd neu'r preswyllydd yn gallu diwallu eu hanghenion tai o'r stoc o dai yn lleol a chynlluniau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ond heb eu hadeiladu eto.

- 5.3.46 Er mwyn hyrwyddo cymunedau gwledig cynaliadwy, gwneir darpariaeth ar gyfer pobl gyda chysylltiad lleol i ddiwallu eu hanghenion tai'n haws, pan nad ydynt yn gymwys ar gyfer tai fforddiadwy, ac nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion tai ar y farchnad agored. Bydd angen darparu tystiolaeth o hyn fel rhan o'r broses ymgeisio.

- 5.3.47 Mae'n rhaid lleoli safleoedd y cynigion o fewn ffin anheddiad lle bo'n berthnasol, neu o fewn terfynau'r anheddiad lle nad oes ffin benodol. Dylai'r safle gysylltu'n dda â'r anheddiad presennol, gan gynrychioli mewnlennu neu ddatblygu safle nad yw'n cael ei ystyried fel lleoliad y tu allan i ardal adeiledig, lle bo polisi HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy'n berthnasol. Dylai bod dyluniad y cynnig yn cyd-fynd â chymeriad ac edrychiad lleol.

- 5.3.48 At ddibenion y polisi hwn, mae 'lleol' yn cael ei ddiffinio fel person sydd â chysylltiad gyda'r Cyngor Cymuned lle y lleolir y safle, neu Gyngor Cymuned cyfagos. Mae cysylltiad yn cael ei ddiffinio fel rhywun sydd:



- Wedi byw yn yr ardal dan sylw am gyfnod o 5 mlynedd. Gallai hyn fod ar unrhyw adeg yn eu bywydau;
- Â chyflogaeth yn yr ardal berthnasol;
- Â chyfrifoldebau gofalu ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr ardal; a / neu
- Angen gofal / cefnogaeth gan aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr ardal.

5.3.49 Bydd angen rheoli meddiannaeth unrhyw anheddau sy'n cael eu darparu ar gyfer anghenion y farchnad leol ar gyfer y meddiannydd cychwynnol a'r meddianwyr dilynol. Y dull a ffeirir yw drwy gytundeb cyfreithiol, a fydd yn cynnwys mecanwaith rhaeadru i ehangu cymhwysedd y meddianwyr. Bydd angen tystiolaeth fel rhan o'r cais cynllunio i ddangos fod gan y meddiannydd bwriedig gysylltiad lleol ac nad oedd modd iddynt ddiwallu eu hanghenion lleol drwy'r farchnad agored neu dai fforddiadwy.

5.3.50 Ni fydd cynigion i dynnu anheddau sydd wedi'u cyfyngu i feddiannaeth anghenion lleol yn unig yn yr ardaloedd hyn yn cael ei ganiatáu. Bydd diweddarau'r cyfyngiad i adlewyrchu'r polisi hwn a'r ymagwedd newydd yn cael ei gefnogi.

5.3.51 Oherwydd y cynnydd yn nifer yr anheddau sy'n cael eu defnyddio fel ail-gartrefi neu lety gwyliau, bydd cyfyngiad ychwanegol ar yr anheddau hyn i atal meddiannaeth fel ail gartref neu lety gwyliau. Mae'n rhaid iddynt gael eu defnyddio fel defnydd C3 yn unig, yn unol â pholisi HS/10.

HS/9 anheddau menter wledig

1. Bydd Anheddau Menter Wledig newydd yn cael eu cefnogi'n unol â'r polisi cenedlaethol ac ystyriaethau materol eraill. Dylid ystyried defnyddio adeiladau presennol sy'n addas i'w trawsnewid yn unol â pholisi PL/10 trawsnewid gwledig a thystiolaethu nad ydynt yn ddichonadwy cyn y cynigir unrhyw gynlluniau ar gyfer adeiladau newydd.
2. Bydd cynigion i dynnu cyfyngiadau meddiannaeth gweithwyr amaethyddol / coedwigaeth yn cael eu cefnogi; yn amodol ar gymhwyso amod Anheddau Menter Wledig (fel y diffinnir yn y polisi cynllunio cenedlaethol).
3. Lle y gellir tystiolaethu nad oes galw presennol am Anheddau Menter Wledig yn yr ardal, bydd cynigion ar gyfer defnydd dros dro o'r Anheddau Menter Wledig fel llety gwyliau byr dymor C6 (am hyd at 5 mlynedd) yn cael eu cefnogi.
4. Mae'n rhaid i gynigion i dynnu amod Anheddau Menter Wledig:
 - a. Ddangos yn glir drwy farchnata priodol am bris sy'n adlewyrchu gwerth yr annedd fel Annedd Menter Wledig, nad oes galw am yr eiddo ar gyfer Annedd Menter Wledig neu Dŷ Fforddiadwy (yn unol â Chanllawiau Ymarfer Anheddau Menter Wledig) a,
 - b. Darparu Tai Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol drwy swm gohiriedig yn unol â'r gostyngiadau tai fforddiadwy lleol.

5.3.52 Mae gan ein busnesau gwledig rôl allweddol yn yr economi leol a'r gymuned. Mae'r CDLIN yn ceisio cefnogi'r rhai sydd angen



llety i staff ar y safle drwy ddarparu Anheddau Menter Wledig. Rhoddir ffafriaeth i adeiladau presennol dros adeiladau newydd, yn unol â'r canllawiau cynllunio cenedlaethol i wneud defnydd o dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes ac i osgoi unrhyw effaith negyddol posibl ar y tirlun lleol. Bydd amod meddiannaeth Anheddau Menter Wledig yn cael ei gymhwyso i'r cynigion hyn, i sicrhau eu meddiannaeth ar gyfer tenantiaid yn y dyfodol.

5.3.53 Fe fydd amgylchiadau mentrau gwledig yn amrywio dros amser. Gall newidiadau i strwythur teuluol, galw'r farchnad, gofynion llafur ac arian effeithio ar yr angen am anheddau mewn mentrau gwledig. Bydd tynnu hen gyfyngiadau meddiannaeth gweithwyr amaethyddol neu goedwigaeth i'w disodli gydag amod Anheddau Menter Wledig yn ehangu'r ystod o feddianwyr posibl os nad oes angen y tai ar gyfer eu diben gwreiddiol mwyach. Mae amod Anheddau Menter Wledig yn darparu hyblygrwydd o ran defnydd, a dylid gwneud pob ymdrech i ganfod defnydd amgen addas yn hytrach na chaniatáu i Anheddau Menter Wledig ddod yn anheddau marchnad agored.

5.3.54 Mewn rhai amgylchiadau, bydd newidiadau i strwythur busnes neu deulu yn golygu nad oes angen Annedd Menter Wledig yn fyrdymor yn yr ardal, ond mae'n debyg y bydd ei angen eto yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, byddai'n amhriodol ac yn ddi-angen ceisio tynnu'r cyfyngiad meddiannaeth neu hysbysebu'r eiddo i'w werthu. Dylid ceisio meddianwyr cymwys i ddechrau drwy hysbysebu'r eiddo i'w rentu am 6 mis. Oni cheir tenantiaid addas (naill ai i'w ddefnyddio fel Annedd Menter Wledig neu Dŷ Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol), cefnogir y defnydd fel llety gwyliau C6. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer busnesau gwledig, gan atal annedd rhag aros yn wag ac yn gymorth i osgoi

diddymu cyfyngiad meddiannaeth Anheddau Menter Wledig. Mae defnydd byr dymor o 5 mlynedd ar gyfer llety gwyliau yn galluogi ail-asesu anghenion llety ac ariannol y fenter ar ôl y cyfnod hwn.

5.3.55 Lle bo modd dangos yn glir nad oes angen Anheddau Menter Wledig mwyach naill ai ar gyfer ei ddiben gwreiddiol, neu ar gyfer meddianwyr cymwys yn unol ag amod Anheddau Menter Wledig, gellir tynnu'r cyfyngiad o ran meddiannaeth, yn amodol ar dalu swm gohiriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol. Er mwyn dangos hyn, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr hysbysebu bod yr eiddo ar werth a / neu i'w osod yn unol â TAN6 a Chanllawiau Ymarfer Anheddau Menter Wledig am bris (pan fydd ar werth) sy'n unol â'r gostyngiadau a argymhellir oddi ar bris y farchnad agored. Mae'n rhaid i'r marchnata ddangos yn eglur y gellir meddiannu'r tŷ naill ai fel Annedd Menter Wledig neu Dŷ Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol. Os yw tystiolaeth marchnata'n dangos na fu modd canfod meddianwyr addas i brynu neu rentu'r tŷ, gellir tynnu'r amod o ran meddiannaeth yn unol â chanllawiau Anheddau Menter Wledig. Bydd hyn yn destun taliad ar gyfer swm gohiriedig, sy'n gyfwerth â'r gostyngiad a gymhwysir ar gyfer eiddo Adran 106 ar gyfer ardal y farchnad dai.

5.3.56 Gan y gall Anheddau Menter Wledig ddarparu Tai Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol o fewn yr amodau, mae talu'r swm gohiriedig yn sicrhau bod yr eiddo yn parhau i gefnogi Tai Fforddiadwy ar gyfer Angen Lleol hyd yn oed os yw'r amod o ran meddiannaeth yn cael ei dynnu. Yn ogystal â hyn, mae'r swm gohiriedig yn tynnu'r cymhelliant ariannol ar gyfer y perchennog i dynnu'r amod o ran meddiannaeth, gan gynorthwyo i gadw Anheddau Menter Wledig ar gyfer meddianwyr cymwys yn y dyfodol. Mae



Tai CBSC yn cyhoeddi gostyngiadau tai fforddiadwy lleol ar gyfer pob ardal marchnad dai yn flynyddol. Mae'r rhain yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio canolrif prisiau tai a data incwm aelwydydd. Bydd y swm gohiriedig sy'n ofynnol yn unol â'r gostyngiadau hyn.

HS/9 ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

1. Mewn ardaloedd dynodedig, bydd caniatâd cynllunio ar gyfer ail gartrefi newydd (C5) neu lety gwyliau tymor byr (C6) yn cael eu caniatáu os nad ydynt yn arwain at fwy na 15% o eiddo Dosbarth C mewn defnydd fel defnydd 5, C6 neu C5/C6 cymysg o fewn:
 - a. Ardal y Cyngor Tref a Chymuned;
 - b. Ardal ddynodedig Cyfarwyddyd Erthygl 4, neu
 - c. 50 metr o radiws o'r safle arfaethedig.
2. Bydd cynigion ar gyfer trosi adeilad gwledig i ddefnydd C6, a fyddai y tu hwnt i'r trothwyon a nodwyd uchod, yn cael eu caniatáu'n unol â pholisi ED/6, HS/9 a PL/10 os yw hynny'n berthnasol.
3. Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i ddefnydd C6, gan gynnwys defnydd rhannol, gydymffurfio â'r meini prawf canlynol:
 - a. Darperir ardaloedd dynodedig ar gyfer storio sbwriel a beiciau;
 - b. Gellir darparu gofodau parcio digonol a, lle bo'n briodol, cyfleusterau gwefru, yn unol â pholisi STA/1;

- c. Dim effaith andwyol ar amwynderau cyfagos o ganlyniad i sŵn, golau neu edrych drosodd yn unol â pholisïau PL/1, PL/5, EQ/3 ac EQ/4;
- d. Ni fyddai'r cynnig yn arwain at annedd Dosbarth C3 wedi'i fewnosod rhwng dau lety gwyliau Dosbarth C6.

4. Er mwyn egluro dosbarth defnydd cyfreithlon, bydd unrhyw annedd marchnad agored lleol ac anheddau marchnad anghenion lleol a ganiateir pan fydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal meddiannaeth fel ail gartref (C5) neu lety gwyliau (C6) yn berthnasol, yn derbyn amodau i sicrhau meddiannaeth ar gyfer defnydd C3 yn unig.

5.3.57 Mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi leol. Mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor. Er bod buddion i'r defnydd hyn, gall gor-grynodiad, fodd bynnag, arwain at ystod o broblemau, megis cyfyngu'r farchnad dai leol a nifer yr eiddo sydd ar werth neu ar gael i'w rhentu'n hirdymor. Mewn ardaloedd sy'n fwy trefol, gall crynodiad lleol bychan arwain at faterion sy'n effeithio ar amwynder cymdogion sy'n deillio o'r sŵn, diffyg lle parcio a diffyg storfa briodol ar gyfer sbwriel. Gall anheddau sy'n wag am rannau o'r flwyddyn effeithio ar hyfywedd busnesau lleol, pan fydd llai o gwsmeriaid. Gall effeithio ar gyfleusterau cymunedol eraill hefyd. Gall gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal gan fod llai o breswylwyr lleol parhaol ac anheddau gwag ar adegau. Nid yw'r effeithiau hyn yn cydweddu â chreu cymunedau cymysg a chynaliadwy.

5.3.58 Mae data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd ym Mhapur Cefndir 52 yn dangos efallai y bydd yn ofynnol cyflwyno ardaloedd penodol lle byddai angen caniatâd cynllunio i newid o fan



preswyllo parhaol C3 i ail gartrefi C5 neu lety gwyliau C6. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r ardaloedd dynodedig hyn yn unig a bydd yn berthnasol i newid defnydd o ddefnydd preswyl a masnachol presennol ac unrhyw ddatblygiadau adeiladau newydd. Mae Papur Cefndir 52 hefyd yn ystyried beth yw'r trothwy priodol lle byddai caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod, ac yn hysbysu'r trothwy o 15% a nodwyd yn y polisi.

5.3.59 Mae'r polisi'n nodi trothwy, lle byddai crynodiad pellach o'r defnyddiau hyn yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad ardal ac ar gyflenwad tai parhaol. Yr eithriad i hyn yw ardaloedd gwledig, lle bo caniatáu trawsnewid i ddefnydd C6 fel rhan o fusnes presennol yn unig yn gallu cael effaith cadarnhaol ar yr economi wledig. Bydd polisi PL/10 trawsnewid gwledig hefyd yn berthnasol.

5.3.60 Er mwyn asesu a yw'r trothwy o 15% wedi'i gyrraedd, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn asesu crynodiad yr ail gartrefi a'r llety gwyliau byr dymor (fel y diffiniwyd yn nhermau cynllunio defnydd tir). I gyfrifo'r canran, byddwn yn cyfrif yr holl ddefnydd C3 (tai annedd), C5 (tai annedd a ddefnyddir at ddefnydd heblaw fel prif fan preswyllo neu'r unig fan preswyllo) a C6 (llety gwyliau byr dymor) mewn ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4, cyngor tref a chymuned neu radiws o 50 metr o'r ardal. Lle bo'n berthnasol, bydd y pwynt radiws yn cael ei fesur o bwynt canolog ar flaen stryd yr eiddo. Mae'r Cyngor yn cofrestru ail gartrefi a llety gwyliau a bydd hanes cynllunio'r ardal yn sylfaen ar gyfer y cyfrifiad. Os yw ar gael yn y dyfodol, bydd cofnodion trwyddedu llety gwyliau hefyd yn cael eu defnyddio.

5.3.61 Mae meini prawf ychwanegol yn berthnasol i ddefnydd llety gwyliau C6 i reoli'r effaith leol posibl o grynodiad y defnydd hwn.

Mae'n rhaid darparu gofodau parcio. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cymhwyso rhywfaint o hyblygrwydd, pe byddai'r cynnig yn dangos na fyddai unrhyw effaith negyddol ar ddarpariaethau parcio'n lleol.

HS/11 amod meddiannaeth man preswyllo parhaol C3

Bydd y datblygiadau preswyl canlynol yn cael eu cyfyngu i ddefnydd man preswyllo parhaol C3 yn unig:

- Anheddau marchnad agored sy'n fflatiau neu'n randai ar gynlluniau o 5 ac uwch yn Ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol a'r Ganolfan Wasanaethau Allweddol;
- Pob annedd marchnad agored newydd drwy adeilad newydd neu newid defnydd / trosi yny Prif Bentrifi Haen 2, Pentrefi Bach, Pentrefannau a chefn gwlad agored yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig;
- Pob annedd marchnad agored mewn ardaloedd dynodedig yn unol â pholisi HS/10; a,
- Phob annedd marchnad at anghenion lleol yn unol â pholisi HS/8.

5.3.62 Mae meintiau aelwydydd yn llai na'r cyfartaledd ac mae cyfran uwch o aelwydydd person sengl ar draws y Fwrdeistref Sirol o gymharu â Chymru. Mae fflatiau a rhandai fel arfer yn eiddo llai. Mae dadansoddiad o'r cynlluniau lleol ar gyfer fflatiau a rhandai yn dangos bod lefelau uchel iawn o ddefnydd C5 ail gartrefi a C6 llety gwyliau. Felly, credir ei bod yn ofynnol diogelu unrhyw stoc newydd o'r mathau hyn o eiddo i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Bydd cynlluniau ar gyfer fflatiau neu randai newydd lle bo



cynnydd net o 5 neu fwy o anheddau newydd yn cael eu cyfyngu i ddefnydd C3 yn unig.

5.3.63 Hefyd, mae Papur Cefndir 69 wedi dangos bod gan aneddiadau llai yn ein cymunedau gwledig bwysau gwahanol o ran tai o gymharu â'n hardaloedd sy'n fwy trefol. Am y rheswm hwn, bydd holl anheddau marchnad agored ac anghenion lleol newydd neu drosi eiddo at y defnyddiau hyn yn y Prif Bentreifi Haen 2, Pentrefi Bach, Pentrefannau a chefn gwlad agored yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig yn cael eu cyfyngu i ddefnydd C3 yn unig. Bydd cyfyngu i ddefnydd C3 yn unig hefyd yn cael ei gymhwysu i geisiadau i dynnu cyfyngiadau meddiannaeth, megis Anheddau Menter Wledig, gweithwyr amaethyddol ac ati i anheddau marchnad agored heb gyfyngiad. Fe fydd hyn yn cynyddu argaeledd y stoc o dai lleol, gan arwain at gymunedau cynaliadwy a diogelu ein cefnwlad Gymreig.

5.3.64 Er mwyn cefnogi polisi HS/10 y CDLIN, bydd unrhyw gartref newydd mewn ardal lle bo Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal newid defnydd o C3 i C5 neu C6 hefyd yn cael ei gyfyngu i ddefnydd C3 yn unig. Ni ystyrir ei bod yn ofynnol cyfyngu anheddau eraill i feddiannaeth C3 yn unig, fel y nodir yn y dystiolaeth ym Mhapur Cefndir 52.

5.3.65 Bydd meddiannaeth C3 yn cael ei sicrhau drwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol.

HS/12 llety a rennir

1. Bydd cynigion i newid defnydd / trawsnewid annedd neu eiddo nad yw'n eiddo preswyl i Dŷ Amlfeddiannaeth yn cael ei ganiatáu os bodlonir yr holl amodau canlynol yn unig:
 - a. Nad yw'n golygu y bydd mwy na 10% o'r holl eiddo preswyl ac eiddo masnachol llawr gwaelod o fewn 50 metr o radiws i'r cynnig yn dai amlfeddiannaeth (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf).
 - b. Na fyddai'r datblygiad yn arwain at 'ryngosod' annedd Dosbarth C3 rhwng dau Dŷ Amlfeddiannaeth oni bai y darperir tystiolaeth benodol i ddangos bod yr eiddo C3 yn y canol:
 - i Wedi'i farchnata'n aflwyddiannus am bris rhesymol am gyfnod o chwe mis o leiaf ar gyfer ei ddefnydd presennol; neu,
 - ii Nad yw'n hyfyw ei ddychwelyd i ddefnydd C3; neu,
 - iii Nad yw'n addas i barhau fel dosbarth eiddo C3: neu,
 - iv Ei fod eisoes yn destun aflonyddwch sŵn oherwydd defnydd eiddo cyfagos o safbwynt cynllunio a fyddai'n tanseilio ei amwynder.
 - c. Bod yr eiddo'n addas ar gyfer ei ddefnyddio fel Tŷ Amlfeddiannaeth, drwy ddarparu gofod amwynder preifat digonol, ardaloedd dynodedig ar gyfer storio sbwriel ac ystafelloedd o feintiau priodol.
 - d. Ni fyddai unrhyw effaith andwyol annerbyniol o ganlyniad i niwsans sŵn, preifatrwydd nac aflonyddwch cyffredinol.
 - e. Gellir cael mynediad a gwasanaethu'r safle'n briodol a gellir darparu mannau parcio ceir a storio beiciau digonol neu gellir dangos na fyddai'r Tŷ Amlfeddiannaeth arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ddarpariaethau parcio lleol.



- f. Ni fydd y Tŷ Amlfeddiannaeth arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyflenwad y math o eiddo y cynigir ei drawsnewid.
 - g. Mae modd newid defnydd / trawsnewid heb gael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad ac edrychiad yr adeilad a'r ardal.
 - h. Ni chaniateir newid defnydd o ddosbarth defnydd C1 (Gwestai) i Dŷ Amlfeddiannaeth yn y Parth Llety Gwyliau fel y diffinnir gan Bolisi TO/3 (1) ac y tu allan i'r Parth Llety Gwyliau yn Llandudno mae'n rhaid iddo gydymffurfio â Pholisi TO/3 (2).
 - i. Dylai'r holl gynigion ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth gydymffurfio â'r canllawiau a nodwyd yn y Polisi Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
2. Byddai cynigion Tai Amlfeddiannaeth a fyddai'n arwain at ragori ar y trothwyon uchafswm a nodwyd ym mhwynt 1 uchod, yn cael eu caniatáu dim ond pan fo amgylchiadau eithriadol neu ystyriaethau materol pwysicach sy'n gwrthbwyso unrhyw bryderon o ran crynodiad niweidiol neu ddwysau.

5.3.66 Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle byddai'r Cyngor yn caniatáu trawsnewid adeiladau presennol i Dai Amlfeddiannaeth o ansawdd uchel, fel y diffinnir yn nhermau cynllunio. Mae'r polisi'n gymwys i newid defnydd o ddefnyddiau preswyl a masnachol presennol ledled ardal y cynllun a hefyd yn gymwys ar gyfer unrhyw gynigion datblygu adeiladau newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.

5.3.67 Mae trawsnewid adeiladau i Dai Amlfeddiannaeth a rennir yn cyfrannu tuag at ddarparu dewisiadau tai cynaliadwy ar gyfer yr ardal ac yn gymorth i ddiwallu'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Nghonwy ar gyfer unedau llety preswyl llai / a rennir. Gall llety a rennir ddarparu datrysiad buddiol i rai nad ydynt yn gymwys ar gyfer tai fforddiadwy ond nad ydynt yn gallu defnyddio'r farchnad breifat ac sydd efallai yn anfodlon cytuno ar denantiaeth breifat am gyfnod hir gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr angen yn debygol o barhau drwy gydol cyfnod y CDLIN.

5.3.68 Mae Tai Amlfeddiannaeth a rennir hefyd yn ffordd bwerus o fynd i'r afael â'r unigedd cronig y mae rhai yn ei wynebu, yn enwedig os ydynt yn symud i ardal newydd ac yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae Tai Amlfeddiannaeth yn aml yn cael eu hail-enwi'n gynlluniau cyd-fyw ac er bod rhai yn targedu pobl iau, gellir eu targedu at bobl yn hwyrach yn eu bywydau sy'n dymuno byw mewn eiddo llai ac a fyddai'n croesawu'r cyfuniad o lety preifat a bod yn rhan o gymuned.

5.3.69 Yn eu hanfod, mae adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llety a rennir yn cael eu defnyddio'n fwy dwys. O ystyried hyn, mae'n well eu lleoli mewn ardaloedd gyda hygyrchedd cludiant cyhoeddus da sy'n agos at siopau a gwasanaethau lleol. Yn ogystal â hynny, mae'r ddarpariaeth addas o lety preswyl uwchben eiddo masnachol o fewn canolfannau manwerthu dynodedig hefyd yn gallu gwneud defnydd mwy effeithlon o adeilad(au) a gwella prysurdeb a hyfywedd y canolfannau hynny, yn enwedig yng nghanol trefi Llandudno a Bae Colwyn.

5.3.70 Er bod y Cyngor yn cydnabod rôl bwysig tai o'r fath er mwyn diwallu anghenion tai, mae hefyd yn cydnabod pryderon gan



nifer o breswylwyr presennol bod crynodiad o'r math hwn o dai yn gallu cael effaith andwyol ar gymeriad ac amwynder ardal. Er enghraifft, gall nifer uchel o fflatiau arwain at broblemau megis diffyg gofodau parcio ar y stryd a phroblemau storio biniau. Hefyd, mae ardaloedd gyda llawer o fflatiau yn aml yn gysylltiedig â lefelau isel o berchen-feddianwyr sydd mewn rhai amgylchiadau yn gallu arwain at lefelau is o ran cynnal a chadw a materion diraddio amgylcheddol cysylltiol (gan amharu ar welliant amgylcheddol ac amcanion adfywio). At hynny, gall effaith gronns trawsnewid anheddau mwy yn llety a rennir gael effaith andwyol ar greu cymunedau cymysg a chytbwys drwy leihau nifer y cartrefi teuluol sydd ar gael o fewn ardal. Credir bod y polisi hwn yn ofynnol i atal gor-grynodiad o ddefnydd o'r fath a sicrhau bod datblygu yn diwallu anghenion a nodwyd.

5.3.71 Am y rheswm hwn, mae'r polisi'n nodi trothwy, lle yr ystyrir bod unrhyw Dai Amlfeddiannaeth a rennir sy'n rhagori ar y trothwy'n grynodiad niweidiol. Mae'r trothwy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn sgil ystyriaeth materion gan gynnwys darpariaeth Tai Amlfeddiannaeth ar hyn o bryd, y galw tebygol yn y dyfodol a thystiolaeth arall. Bydd yr ymagwedd hon yn caniatáu lefel briodol o Dai Amlfeddiannaeth a rennir ar draws ardal y cynllun.

5.3.72 Er mwyn asesu a chyrhaeddwyd y trothwy o 10%, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn asesu'r crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth a rennir (fel y diffinnir yn nhermau cynllunio defnydd tir), o fewn radiws o 50m o eiddo'r cais. Bydd y pwynt radiws yn cael ei fesur o bwynt canolog ar flaen stryd yr eiddo. Er mwyn cyfrifo'r canran, bydd yr holl ddefnydd C3 (anheddau), C4 (Tai Amlfeddiannaeth Bychain) a Thai Amlfeddiannaeth mawr yn ardal y radiws yn cael eu cyfrif. Pe bai nifer yr eiddo gyda'r defnydd hwn yn is na 10, bydd yr holl eiddo llawr gwaelod

ar wahân o unrhyw ddosbarth defnydd yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad. Bydd cofrestr Tai Amlfeddiannaeth cofrestredig y Cyngor a hanes cynllunio'r ardal yn sylfaen ar gyfer y cyfrifiad.

5.3.73 Os cyflwynir cais i newid defnydd eiddo o Dŷ Amlfeddiannaeth bach, i un mawr, neu i gynyddu maint Tŷ Amlfeddiannaeth mawr, bydd angen caniatâd, ond ni fydd y polisi hwn yn berthnasol gan na fyddai unrhyw newid i'r cyfanswm yn ardal y radiws. Bydd polisiau eraill yn y cynllun yn berthnasol a bydd y cais yn cael ei asesu ar ei rinweddau.

5.3.74 Efallai y bydd amgylchiadau penodol lle y bydd buddion o ragori ar y trothwy o 10%. Er enghraifft, os yw'r Tŷ Amlfeddiannaeth yn darparu llety i staff gofal iechyd, twristiaeth neu sectorau cyflogaeth sy'n ei chael yn anodd recriwtio oherwydd bod diffyg dewis o ran tai. Yn yr achosion hyn, efallai y gellir rhoi caniatâd, pe byddai'r ymgeisydd yn gallu dangos tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau gwro o'r trothwy.

5.3.75 Efallai y bydd yn ofynnol atodi amodau cynllunio ar gyfer mesurau insiwleiddio rhag sŵn. Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul cais.

5.3.76 Dylai'r cynigion gydymffurfio â holl feini prawf polisi'r CDLIN, ac nid yr elfen radiws o 50 metr yn unig.

5.3.77 Ni fydd cynigion sy'n arwain at amodau byw cyfyng, neu ddiffyg gofod amwynder preifat yn cael eu cymeradwyo. Bydd rhagor o ganllawiau ar y materion hyn yn y CCA os oes angen.

5.3.78 Dylai cynigion ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth gynnwys cynllun rheoli. Gall rheolaeth effeithiol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth leihau'r effaith ar amwynder yr eiddo cyfagos yn sylweddol a gwella ansawdd byw ar gyfer y preswylwyr. Gallai cynllun rheoli



fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chasgliadau gwastraff ac ailgylchu, rheoli ardaloedd cymunedol (mewnol ac allanol), gwiriadau iechyd a diogelwch priodol a rheoli sŵn eithafol.

5.3.79 Mae twristiaeth, a darparu llety â gwasanaeth, yn sector cyflogaeth pwysig yn ardal y cynllun, yn enwedig yn Llandudno. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn allweddol cadw lefelau priodol o lety â gwasanaeth o fewn Llandudno i gadw ei gymeriad unigryw, hyfywedd a thwf parhaus tuag at dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Felly, o fewn y Parth Llety Gwyliau dynodedig, fel y diffinnir yn y map cynigion, ni chaniateir colli llety gwyliau â gwasanaeth yn unol â pholisi TO/3 a'r map cynigion ac ni chaniateir Tai Amlfeddiannaeth o fewn y Parth Llety Gwyliau,

5.3.80 Bydd angen i gynigion ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth mawr gyflwyno asesiad o'r effaith ar y Gymraeg os yw safle'r cynnig o fewn ardal sy'n sensitif o ran y Gymraeg, fel y diffinnir yn y map cynigion a pholisi PL/7.

Chartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

HS/13 cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

1. O fewn Ardal y Cynllun, cefnogir cynigion ar gyfer cartrefi gofal preswyl, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a chynlluniau tai gwarchod newydd, neu ddisodli hen rai neu estyniadau i'r rhain, ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu diwallu:
 - a. Bydd y cynnig yn diwallu'r math o ofal sydd ei angen yn is-ardal y CDLIN ac ni fydd yn arwain ar or-ddarpariaeth;

- b. Rhoddir blaenoriaeth i breswylwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer meddiannaeth yn y lle cyntaf, ac yna rhai â chysylltiad lleol gyda'r ardal wedi hynny, cyn yr ystyrir preswylwyr heb gysylltiad lleol.
2. Bydd angen i gynigion ar gyfer cartrefi gofal a chartrefi nyrsio newydd ddiwallu'r gofynion canlynol hefyd:
 - a. Mae'r cartref gofal neu gartref nyrsio newydd wedi'i leoli un ai o fewn ffiniau aneddiadau sydd wedi'u dynodi yn Ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol, Prif Ganolfan Wasanaeth, Prif Bentref Haen 1 neu Haen 2;
 - b. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer safleoedd newydd y tu allan i ffin anheddiad ddangos nad oedd modd ei ddarparu o fewn ffin yr anheddiad;
 - c. Mae'r safle arfaethedig yn gynaliadwy hygyrch i'r gymuned leol y bydd yn ei wasanaethu, ar gludiant cyhoeddus, drwy gerdded a beicio; a,
 - d. Mae'r defnydd newydd yn gyd-naws â defnydd yr adeiladau cyfagos.
3. Bydd cynigion sy'n arwain at golli cartref gofal, cartref nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth neu gynlluniau tai gwarchod yn cael eu gwrthod, oni bai y gellir dangos:
 - a. Nad oes galw parhaus sylweddol am y math o ofal a gynigir. Bydd angen tystiolaeth;
 - b. Nid yw'r adeilad yn addas i'r defnydd hwn mwyach ac nid oes modd ei drawsnewid i fod yn addas.



5.3.81 Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth sy'n heneiddio a chyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl hŷn. Gyda hyn, daw mwy o alw am ofal cymdeithasol a chartrefi gofal. Mae anghenion gofal cymdeithasol y Fwrdeistref Sirol yn cael eu hystyried ym Mhapur Cefndir 66 y CDLIN ac Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru a Gofal Cymdeithasol (2022) a diweddariad 2023. Mae'r math o ofal a ddarperir gan gartrefi gofal yn amrywio ac mae diffyg rhai mathau o anghenion gofal yn y Fwrdeistref Sirol. Mae diffyg hefyd yn ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol a phryderon o ran y ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg, ac mae hawliau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ynghyd â dyletswydd ar yr awdurdod i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae rhesymau iechyd a lles penodol sydd hefyd yn gysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn hynod bwysig ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau megis Dementia, er enghraifft, gan y gallant golli unrhyw ieithoedd y maent wedi'u dysgu fel rhan o'r cyflwr. Mae mynediad at ofal drwy gyfrwng y Gymraeg felly'n allweddol ar gyfer eu lles. Mae'r ymagwedd polisi newydd yma'n cefnogi darpariaeth cartrefi gofal newydd mewn modd a reolir yn ein hardaloedd gwledig, gan arwain at fuddion ar gyfer y Gymraeg a'r gymuned leol i ddiwallu eu hanghenion gofal.

5.3.82 Mae diffyg eiddo byw â chymorth ac mae anawsterau o ran canfod darpariaeth ar gyfer preswylwyr lleol sydd eu hangen. Ychydig o leoliadau sydd mewn ardaloedd gwledig. Byddai darpariaeth newydd yma'n cyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy ac yn cefnogi'r Gymraeg drwy ddarparu swyddi a lleoliadau ar gyfer siaradwyr Cymraeg lleol. Mae galw hefyd am leoliadau cartrefi gofal plant, ac ar adeg ysgrifennu, mae preswylwyr lleol yn cael eu lleoli y tu allan i'r Sir, oherwydd diffyg

darpariaeth yn agosach at y cartref. Mae hyn yn gallu arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer lles y plentyn dan sylw, gan eu bod yn cael eu tynnu o'u rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol gyda'r teulu a'r ysgol. Gall diffyg sefydlogrwydd lleoliad (lle bo plant a phobl ifanc yn cael eu symud ymlaen ar ôl cyfnodau byr) gael effaith andwyol ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd.

5.3.83 Mae mwyafrif y cartrefi gofal ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n eiddo preifat ac nid ydynt wedi'u cyfyngu mewn unrhyw ffordd i flaenoriaethu preswylwyr lleol. Am y rhesymau hyn, mae'n bwysig bod cynigion ar gyfer cartrefi gofal newydd (ar gyfer yr henoed a phlant) yn diwallu angen a nodwyd yn is-ardal y CDLIN ac yn cynnig lleoliadau ar gyfer preswylwyr lleol fel blaenoriaeth.

5.3.84 At ddibenion y polisi hwn, diffinnir 'lleol' fel rhywun sydd â chysylltiad â'r Fwrdeistref Sirol. Mae cysylltiad yn cael ei ddiffinio fel rhywun sydd:

- Wedi byw yma am y 12 mis blaenorol;
- Wedi byw yn y Fwrdeistref Sirol am gyfnod o 2 flynedd. Gallai hyn fod ar unrhyw adeg yn eu bywydau; neu
- Bod aelodau'r teulu'n byw yn y Fwrdeistref Sirol.

5.3.85 Er mwyn hwyluso diwallu'r gofynion hyn, bydd angen i ddarparwyr gysylltu a gweithio'n rhagweithiol gyda Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai CBSC i nodi preswylwyr cymwys. Oni chanfyddir person sy'n diwallu'r meini prawf hyn, yna gellir ehangu'r feddiannaeth i awdurdodau lleol cyfagos. Oni chanfyddir preswlydd sy'n diwallu'r meini prawf hyn, ar ôl 28 diwrnod, gall y darparwr ganfod meddiannydd heb gysylltiad



lleol. Bydd y meini prawf cymhwyso yn berthnasol i feddianwyr cyntaf a phob meddiannydd dilynol.

5.3.86 Mae rhai cartrefi gofal mewn adeiladau, sydd heb eu gosod mewn ffordd y gellir ei addasu'n hawdd i ddarparu gofod priodol a hygyrchedd i ddiwallu anghenion gofal y preswylwyr, Bydd cynigion i ddarparu estyniad, ailffurfweddu neu ddisodli cartrefi gofal presennol yn cael eu cefnogi yn amodol ar ofynion polisi eraill y CDLIN, lle nad oes modd iddynt ddiwallu anghenion gofal eu preswylwyr. Lle nad yw hyn yn bosibl, neu fod angen darpariaeth newydd, bydd cartrefi gofal newydd o fewn neu'n gysylltiedig â ffiniau aneddiadau'n cael eu cefnogi yn amodol ar ddiwallu gofynion polisi eraill. Bydd angen i gynigion ddangos eu bod wedi ystyried y dull dilyniannol, ac wedi diystyru safleoedd eraill sydd ar gael o fewn yr ardal ganolog, yn agos at yr ardal ganolog, safleoedd sydd y tu allan i'r ardal ganolog ond o fewn y ffin anheddiad, ac yna safleoedd sy'n agos at y ffin anheddiad.

5.3.87 Fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, bydd safbwyntiau Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai CBSC a / neu'r bwrdd iechyd lleol yn cael eu hystyried o ran yr angen am y datblygiad. Mewn ardaloedd lle y credir bod lefel ddigonol o gyfleusterau gofal, bydd cynigion yn cael eu gwrthod. Mae hyn er mwyn atal rhoi pwysau gormodol ar Ofal Cymdeithasol CBSC a sicrhau y defnydd gorau o dir yn ein haneddiadau.

5.3.88 Dylai bod datblygiadau o faint priodol, gan adlewyrchu'r ardal gyfagos. Dylai cartrefi gofal mawr, sy'n debygol o arwain at niferoedd sylweddol o weithwyr ac ymwelwyr gael eu lleoli yn yr aneddiadau trefol mwy er mwyn iddynt gefnogi dewisiadau cludiant cynaliadwy hefyd. Bydd cynigion ar gyfer cartrefi gofal mewn aneddiadau llai, yn cael eu caniatáu os ydynt yn

adlewyrchu maint ac anghenion yr ardal honno ac yn cael eu gwasanaethu gan ystod o ddewisiadau cludiant.

5.3.89 Mae cartrefi gofal sy'n cau ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n bryder a nodwyd yn Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Pan fyddai cynnig yn arwain at golli cartref gofal, dylai ymgeiswyr ddangos nad oes galw am y cartref gofal mwyach drwy farchnata am chwe mis ar gyfradd rhesymol y farchnad. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos nad yw'n ymarferol nac yn ariannol hyfyw gwneud y newidiadau gofynnol er mwyn i'r cartref gofal fod yn addas. Mae hyn er mwyn diogelu stoc y cartrefi gofal presennol sydd gennym yn yr ardal, ac atal eu colli i ddefnydd tir arall.

Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol

5.3.90 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn y gymuned. Mae llety yn fater allweddol sy'n adlewyrchu bywyd pawb ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol. Felly, yn ogystal â darparu tai 'bricks a mortar', mae'r CDLIN yn cydnabod anghenion llety penodol Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol fel rhan o ymagwedd gyfannol i ddarparu cymunedau cynaliadwy, cydlynol ac sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae'r CDLIN yn ceisio sicrhau y bydd gan Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol fynediad cyfartal at lety sy'n briodol i ddiwylliant.



HS/14 Llety i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol

1. Bydd cynigion ar gyfer safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol, ac estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol, yn cael eu caniatáu o fewn ffiniau anheddiad neu yn cysylltu â ffiniau anheddiad os:
 - a. Yw'r isadeiledd ffisegol, cludiant a chymdeithasol gofynnol yn hygyrch neu'n hawdd ei ddarparu;
 - b. Mae'r safle wedi'i ddylunio yn unol â chanllawiau cenedlaethol priodol a Chylchlythyrau os yw'n cael ei gyflwyno gan gorff cyhoeddus;
 - c. Mae maint y cynnig yn briodol gan roi ystyriaeth i'r ardal o amgylch y safle a'i leoliad, gan sicrhau ei fod yn gymesur â'r cymunedau lleol;
 - d. Ni fydd y datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar amwynder pobl; ac
 - e. Yn achos safle tramwy neu deithiol, mae mynediad da i'r A55 o'r safle.
2. Bydd cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yng nghefn gwlad, oddi wrth yr aneddiadau presennol, yn cael eu caniatáu lle:
 - a. Bo diffyg lleoliadau cynaliadwy addas ar gyfer safleoedd o fewn ffiniau anheddiad presennol neu'n agos atynt;
 - b. Yw'r isadeiledd ffisegol, cludiant a chymdeithasol gofynnol yn hygyrch neu'n hawdd ei ddarparu;
 - c. Bod maint y cynnig yn briodol gan roi ystyriaeth i'r ardal o amgylch y safle a'i leoliad, gan sicrhau ei fod yn gymesur â'r cymunedau lleol;
 - d. Ni fyddai unrhyw werth hamdden, amwynder neu dreftadaeth naturiol bwysig yn cael ei golli.

5.3.91 Bydd polisi HS/14 yn berthnasol i gynigion sy'n cael eu cyflwyno i ddiwallu'r angen a nodwyd yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ac unrhyw angen ychwanegol sy'n codi yn ystod cyfnod y cynllun. Mae LIC yn ei gwneud yn ofynnol bod y CDLIN yn cynnwys polisi manwl sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn diwallu unrhyw anghenion o ran safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr neu Siewmyn Teithiol yn y dyfodol neu unrhyw anghenion annisgwyl dros gyfnod y cynllun. Mae Polisi HS/14 yn darparu dull teg, rhesymol, realistig ac effeithiol o benderfynu ar geisiadau cynllunio er mwyn galluogi darparu safleoedd priodol mewn lleoliadau cynaliadwy.

5.3.92 Mae'n rhaid i gynigion safle fod yn unol â'r cyngor yng Nghylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol a fydd yn ystyriaethau materol fel bo'n briodol i benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio. Hefyd, dylai bod safleoedd sy'n cael eu datblygu gan gorff cyhoeddus, megis awdurdod lleol, yn cael eu dylunio'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru: Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

5.3.93 Mae'n rhaid i gynigion ddangos eu bod o safon a dyluniad priodol i ganiatáu i breswylwyr y safle gael mynediad at gyfleusterau priodol a byw mewn cymunedau diogel, cydlynol a chynaliadwy. Ni chaniateir i'r datblygiad gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar amwynder pobl. Lle y cynigir defnydd busnes, bydd gofyn i'r safle allu darparu defnydd busnes sy'n seiliedig yn y cartref heb amharu ar amwynder, edrychiad, cymeriad ac amgylchedd yr ardal neu ar gyfer y meddianwyr cyfagos. Gall hyn gynnwys darparu cyfleusterau a gofod digonol ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

5.3.94 Bydd gofyn i gynigion ddangos drwy leoliad, cynllun a mynediad y safle, na fyddai unrhyw amhariaeth o safbwynt diogelwch cerddwyr a'r briffordd. At hynny, mae'n rhaid i gynigion ddangos bod y safle'n gallu darparu cyfleusterau isadeiledd ffisegol o safon ddigonol a mynediad at wasanaethau, gan gynnwys cyflenwad dŵr digonol, pŵer, draeniau, gwaredu gwastraff a gwaredu carthion i sicrhau na fydd datblygiad y safle yn peri risg i iechyd dynol a lles y preswylwyr. Dylai'r safle sicrhau hygyrchedd digonol, gan gynnwys drwy gerdded a beicio, i isadeiledd cymdeithasol gofynnol gan gynnwys addysg ac iechyd. Dylid lleoli safleoedd ar gyfer cynlluniau tramwy newydd mewn lleoliad cynaliadwy, lle bo cysylltiadau da gyda'r A55 oherwydd natur y defnydd dros dro. Rhoddir ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol gan gynnwys perygl llifogydd, sefydlogrwydd y tir, halogi tir ac agosrwydd gosodiadau peryglus er mwyn sicrhau bod y safle'n addas i'w ddatblygu.

5.3.95 Bydd cynigion y tu allan neu yn agos at ffin yr anheddiad, neu derfynau'r anheddiad lle nad oes ffin, yn cael eu caniatáu pan fydd yr holl feini prawf yn y polisi wedi'u diwallu'n ddigonol.

5.3.96 Bydd unrhyw ofynion llety ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yn y dyfodol, a'r defnydd o leiniau'n cael ei fonitro'n agos, gan ddefnyddio Fframwaith Monitro'r CDLIN a'r Adroddiad Monitro Blyneddol. Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, bydd y Cyngor hefyd yn cynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd. Bydd cynlluniau i ddiwallu unrhyw angen newydd sy'n codi a nodwyd o fewn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau yn cael eu hasesu yn erbyn polisi HS/14.

HS/15 darpariaeth llety ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol

1. Mae'r safle awdurdod lleol canlynol wedi'i ddyrannu, fel y nodir ar y map cynigion, i ddiwallu'r angen a nodwyd ar gyfer llety i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol:
 - a. Lôn Gefn Bangor, Conwy (estyniad preswyl parhaol o 2 lain).

5.3.97 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol a sicrhau bod polisiau ar gyfer darparu safleoedd priodol yn y CDLIN. Mae'r sefyllfa'n cael ei chadarnhau drwy Gylchlythyr 005/2018, sy'n arwain agweddau cynllunio ar gyfer nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer y teuluoedd hyn. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 hefyd yn cyflwyno dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yn cael eu hasesu'n gywir a bod yr angen a nodwyd ar gyfer lleiniau ychwanegol yn cael ei ddiwallu.

5.3.98 I ddiwallu'r ddyletswydd hon, cynhyrchodd y Cyngor Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2021, a gwblhawyd yn 2022. Mae'r Asesiad yn ymdrin â chyfnod y CDLIN 2018-2033 ac yn nodi'r lleiniau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 5 mlynedd gyntaf y CDLIN hyd at 2026 a thu hwnt i 2033.

Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

5.3.99 Am y pum mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr Asesiad Llety, nodwyd angen am 1 llain barhaol ychwanegol yn safle Lôn Gefn Bangor ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Yn dilyn ymgynghori



pellach gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol yn y safle parhaol presennol, nodwyd llain sengl arall ar ôl mabwysiadu'r Asesiad Llety, gan gynyddu'r angen i 2 lain parhaol ychwanegol hyd at 2026. Mae'r asesiad yn nodi nad oes unrhyw anghenion pellach y tu hwnt i'r cyfnod hyd at 2033.

Darpariaeth ar gyfer Siewmyn Teithiol

5.3.100 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, y ddarpariaeth lleiniau ychwanegol a amcangyfrifwyd ar gyfer Siewmyn Teithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy hyd at 2026 yw 7 llain. Yr angen ar gyfer gweddill cyfnod y CDLIN hyd at 2033 yw 1 llain arall, gan gynyddu'r cyfanswm i 8 llain. Cymeradwywyd a datblygwyd cynllun ar gyfer 8 o leiniau ar gyfer siewmyn teithiol yn 2022. Felly, nid oes unrhyw anghenion pellach dros gyfnod oes y CDLIN hyd at 2033.

Darpariaeth safleoedd tramwy

5.3.101 Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn argymhell nad oes angen i'r ACLL ddarparu safle tramwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd, oherwydd nifer isel y gwersylloedd anawdurdodedig a natur tymor byr y gwersylloedd hyn.

5.3.102 Mae'r tabl isod yn nodi'n glir y gwahanol gategorïau o angen dros gyfnod y CDLIN.

Ffigur 16: tabl yn dangos anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol ym Mwrdeistref Sirol Conwy (2018-33)

Math a lleoliad yr angen	Hyd at 2026	2026 - 2033	Cyfanswm yr anghenion	Dyraniad sy'n ofynnol yn y CDLIN
Preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (Lôn Gefn Bangor, Conwy)	2 lain	0 llain	2 lain	Oes - estyniad i Lôn Gefn Bangor, Conwy
Preswyl Parhaol ar gyfer Siewmyn Teithiol (Fferm Gors, Gors Road, Bae Cinmel)	7 llain	1 llain	8 llain	Na - rhoddwyd caniatâd cynllunio (0/49403) a datblygwyd y safle yn 2022.
Safle tramwy	0 llain	0 llain	0 llain	Dim angen gweithredu.
Cyfanswm yr anghenion	9 llain	1 llain	10 llain	2 lain (preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr)

Ffynhonnell: Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Conwy 2022

5.3.103 Yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r anghenion, mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth benodol ar y safle i gyflwyno 2 lain ychwanegol yn y safle preswyl parhaol ar Lôn Gefn Bangor fel y nodwyd ym mholisi HS/15 ac y dyrannwyd ar fap cynigion y CDLIN. Mae proses ddethol y safle i ddarparu'r lleiniau a nodwyd yn seiliedig ar y canllawiau a nodwyd yng Nghylchlythyr 005/2018 ac fel y nodwyd ym Mhapur Cefndir 14: Astudiaeth ddichonoldeb opsiynau safleoedd sipsiwn a theithwyr (2025). Mae dyraniad y safle hefyd wedi'i hysbysu gan, ac wedi bod yn destun ymgynghoriad agos gydag aelodau perthnasol cymuned y Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol.

Strategaeth Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd

SO6: darparu datblygiad cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd trwy ymestyn y dewis o gludiant cynaliadwy i alluogi cymunedau Conwy i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol trwy annog pobl i wneud siwrneiau byrrach a mwy egniol ac effeithlon trwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnydd a dyluniad datblygiadau newydd.

5.3.104 Mae'r bennod hon yn cefnogi Fframwaith Polisi Creu Lleodedd y CDLIN ac yn nodi sut yr eir i'r afael â thargedau Llywodraeth Cymru o allyriadau sero net erbyn 2050 ynghyd â theithio llesol, isadeiledd gwyrdd a chludo nwyddau ar lefel leol yng Nghonwy. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynnig llwybr lleihau carbon sy'n golygu bod yn rhaid haneru allyriadau cludiant wyneb yn fras rhwng 2020 a 2030.

5.3.105 Mae angen:

- Annog newid i ddulliau teithio llesol a microsymbudedd;
- Annog newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus / rhannu trafnidiaeth;
- Rheoli'r galw i annog newid oddi wrth deithio ar ffyrdd; a
- Chefnogi'r newid mewn ymddygiad sy'n ofynnol i newid dulliau teithio.

5.3.106 Mae allyriadau carbon trafnidiaeth yn dibynnu'n uniongyrchol ar nifer y cilometrau a deithir mewn cerbyd a'r allyriadau a gynhyrchir fesul cilometr gan gerbyd. Felly, er mwyn cyflawni datgarboneiddio, mae'n rhaid i'r mesurau a gyflwynir:

- Leihau pellter teithio cerbydau; a / neu
- Lleihau'r allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu ar y cilometrau teithio mewn cerbydau sy'n weddill, a fydd yn dibynnu ar newidiadau mewn math o danwydd / ynni, dyluniad y cerbyd a ffactorau megis cyflymder gyrru.

5.3.107 Mae gan waith cynllunio defnydd tir lleol y potensial o leihau allyriadau carbon trafnidiaeth drwy gynyddu'r cyfle i bobl gael mynediad at wasanaethau, gweithgareddau, a chyfleoedd heb ddefnyddio car drwy wella mynediad mewn dwy ffordd:

- Cynyddu mynediad yn lleol, drwy gynllunio lleoliadau gweithgareddau gan ddefnyddio egwyddorion cymdogaethau 20 munud, gan leihau hyd a nifer y teithiau sy'n cael eu cyflawni (wrth i bobl gyfuno dibenion mewn teithiau unigol) a chynyddu'r tebygolrwydd o gerdded a beicio drwy leihau hyd teithiau; a



- Chynyddu mynediad at drafndiaeth gyhoeddus, drwy gynllunio datblygiad sy'n seiliedig ar gludiant, o amgylch canolbwyntiau trafndiaeth gyhoeddus.

5.3.108 Mae Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (CB2) yn canolbwyntio ar ail gyllideb carbon Cymru (2021-2025), a thu hwnt i ddechrau gosod sylfeini ar gyfer Cyllideb Carbon 3 a tharged 2030. Bydd diwallu Cyllideb Carbon 2 a rhoi Cymru ar y trywydd cywir i ddarparu allyriadau sero net erbyn 2050 yn gofyn am gamau gweithredu mewn tri maes ar gyfer cludiant teithwyr a nwyddau:

- Lleihau'r galw a newid dull - sut y gallai ymddygiad a newidiadau cymdeithasol leihau neu newid y galw am deithio.
- Y dewisiadau technolegol sydd ar gael a'r nifer sy'n defnyddio cludiant heb allyriadau neu allyriadau isel.
- Gwelliannau i effeithiolrwydd a mathau o danwydd mewn cerbydau confensiynol.

5.3.109 Mewn cysylltiad â CB2, mae Llwybr Newydd - Strategaeth Cludiant Cymru yn cynllunio ar gyfer cysylltedd ffisegol a digidol gwell, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio o gartref ac o bell a mwy o deithio llesol, i leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol. Mae'n nodi'r tair prif flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf:

1. Dod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio: cynllunio ar gyfer y dyfodol i gael gwell cysylltedd ffisegol a digidol, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio o gartref ac o bell a mwy o deithio llesol, i leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol.

2. Galluogi symud pobl a nwyddau'n hawdd o ddrws i ddrws gyda gwasanaethau cludiant ac isadeiledd hygyrch, cynaliadwy ac effeithiol: ceisio cyflawni newid o ddefnyddio ceir preifat i fwy o ddulliau cludiant cynaliadwy ar gyfer y mwyafrif o deithiau. Buddsoddi mewn gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy, carbon isel, hygyrch ac effeithlon sy'n galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel.
3. Annog pobl i wneud y newid i ddefnyddio cludiant sy'n fwy cynaliadwy: annog pobl i newid eu hymddygiad teithio a defnyddio cludiant cynaliadwy carbon isel, trwy sicrhau bod cludiant cynaliadwy'n fwy deniadol ac yn fwy fforddiadwy, a thrwy fabwysiadu mesurau arloesol sy'n ei gwneud yn haws eu defnyddio.

5.3.110 Mae'r Strategaeth yn nodi'r sut y dylai cludiant gyfrannu at uchelgeisiau hirdymor ehangach LIC (dros yr 20 mlynedd nesaf) ac at y pedwar nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:


- "Er lles pobl a chymunedau: system gludiant y mae gan bawb yr hyder i'w defnyddio, sy'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal ac yn iachach."
- "Er lles yr amgylchedd: system gludiant sy'n cyflawni gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cynnal bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau, a lleihau gwastraff."
- "Er lles yr economi a lleoedd yng Nghymru: system gludiant sy'n cyfrannu at gyflawni ein huchelgeisiau economaidd ehangach ac yn cynorthwyo cymunedau lleol, yn cefnogi

cadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy, yn defnyddio'r dulliau dyfeisgar diweddaraf ac yn sicrhau bod cludiant yn fforddiadwy.”

- “Er lles diwylliant a’r Gymraeg: system gludiant sy’n cefnogi’r Gymraeg, yn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cynaliadwy i gyrraedd gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol, ac yn diogelu a gwella’r amgylchedd hanesyddol.”

5.3.111 Mae hierarchaeth cludiant cynaliadwy (gweler ffigur 17 isod) yn blaenoriaethu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus a cherbydau sy’n hynod isel o ran allyriadau dros gerbydau modur preifat ac yn rhan o Lwybr Newydd - Strategaeth Cludiant Cymru a PCC.

Ffigur 17: diagram yn dangos hierarchaeth cludiant cynaliadwy



Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru

5.3.112 Mae mesurau newid yn annog newid dulliau teithio ar hyd yr hierarchaeth cludiant cynaliadwy, i ddefnyddio dulliau sy’n fwy effeithlon, yn defnyddio llai o ynni a llai o allyriadau ar gyfer y mwyafrif o deithiau. Fel arfer mae hyn yn golygu newid o deithio mewn car i gludiant cyhoeddus a dulliau teithio llesol fel cerdded a beicio ac mae angen buddsoddi mewn gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy, isel o ran carbon, hygyrch ac effeithlon sy’n galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel. Mae technolegau cludiant hefyd wedi datblygu’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda cherbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a biodanwydd a fydd yn cael effaith drawsnewidiol ar ddatgarboneiddio cludiant. Mae Llwybr Newydd, ochr yn ochr â’r polisiau a’r prosiectau cludiant cysylltiedig, wedi cyfrannu’n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisiau Cymru’r Dyfodol 2040.

Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol

5.3.113 Mae Cymru’r Dyfodol 2040 yn cyfrannu at haen genedlaethol o’r cynllun datblygu. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ymdrin â materion ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn ystyried materion ar lefel leol.

5.3.114 Mae’n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol, sydd heb eu paratoi mewn unrhyw ranbarth eto, gydymffurfio â Chymru’r Dyfodol. Yn yr un modd, rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio â Dyfodol Cymru a’r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardaloedd y maent yn eu cwmpasu. Mae’n rhaid diweddarau CDLLau a Strategol i sicrhau eu bod yn cydweithio’n



effeithiol gyda Chymru'r Dyfodol. Mae'n rhaid i benderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru gael eu cyflawni yn unol â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd.

- 5.3.115 Ni all CDLIN Conwy fynd i'r afael â phob mater cludiant gan ei fod yn cynnwys polisiau a chynigion sy'n ymwneud â datblygu a defnydd tir yn unig. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw goruchwyllo'r system gludiant ehangach ar lefel genedlaethol, gyda Taith ar lefel ranbarthol a'r Cyngor ar lefel leol. Er hynny, mae'n rhaid i strategaeth, polisiau a chynigion cyffredinol y CDLIN fod yn unol â chynlluniau, rhaglenni a strategaethau'r cyrff hyn ynghyd â gweithredwyr cludiant fel cwmnïau bysiau a rheilffyrdd.

Canllawiau rhanbarthol

- Cynllun Datblygu Strategol (yn cael ei baratoi)
- Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru (yn cael ei baratoi ar y cyd)
- Cynllun Gweithredu a Strategaeth Ynni Gogledd Cymru

- 5.3.116 Cynhyrchodd Uchelgais Gogledd Cymru'r strategaeth ynni rhanbarthol, ym mis Tachwedd 2021, gyda chefnogaeth a chyfraniad gan LIC, a budd-ddeiliaid rhanbarthol. Yr amcan cyffredinol yw datblygu llwybr strategol sy'n nodi ymyraethau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni, sicrhau bod y rhanbarth yn elwa o'r cyfnod pontio, a gosod y llwybr datgarboneiddio posibl a fydd yn rhoi'r rhanbarth ar y trywydd cywir i gyflawni system ynni sero net erbyn 2050.

Canllawiau lleol

- Cynllun Teithio Llesol a map
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy 2019-2029
- Cynllun Ynni Ardal Leol ac ymyraethau cysylltiol.
- Asesiad Isadeiledd Gwyrdd

- 5.3.117 Materion cludiant allweddol ar gyfer Conwy:

- Mae angen brys i gefnogi isadeiledd, technoleg a sgiliau sy'n blaenoriaethu datgarboneiddio'r sector cludiant modur;
- Gallu'r gefnffordd strategol a rheilffyrdd i ddarparu'r cysylltedd uniongyrchol gofynnol, ar gyfer pobl a nwyddau, o fewn Conwy a Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i'r rhwydwaith ehangach i gefnogi'r economi, swyddi, twristiaeth a lleoedd cynaliadwy;
- Diffyg gwydnwch y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd ar gyfer digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio gan gynnwys tywydd eithafol yn enwedig perygl llifogydd;
- Cyfle i hyrwyddo ac ehangu llwybrau Teithio Llesol diogel gan integreiddio Isadeiledd Gwyrdd drwy ardal y Cynllun;
- Diffyg dewisiadau amgen dichonadwy a fforddiadwy yn hytrach na defnyddio car i gael mynediad at safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; a
- Bod angen cysylltiadau cludiant da i/o rwydwaith y gefnffordd i ardaloedd gwledig er mwyn cynorthwyo i gynnal hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r Gymraeg, addysg a chyfleusterau ieuchyd, manwerthu a diwylliant.

- 5.3.118 Mae Conwy'n cynnwys llwybrau trwedd allweddol gan gynnwys rheilffordd arfordirol Gogledd Cymru sy'n cysylltu



Caergybi gyda Chaer ac wedi'i lleoli ochr yn ochr â chefnffordd Ewropeaidd yr A55 drwy Gonwy. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yn dilyn yr arfordir o'r gorllewin i'r dwyrain gan gysylltu Caergybi a Chaer. Yna'n fewndirol mae'r A470 a'r A5 yn darparu cysylltiadau ffordd allweddol a rheilffordd Dyffryn Conwy'n cysylltu Cyffordd Llandudno gyda Llanrwst a thu hwnt, y tu allan i ardal y Cynllun, gyda Betws-y-coed a Blaenau Ffestiniog.

- 5.3.119 Felly, mae mwyafrif y cyfleusterau a'r gwasanaethau allweddol ar hyd y llwybrau hyn a dylid lleoli datblygiadau newydd mor agos â phosibl at y llwybrau presennol hyn. Ond, mae angen gwella'r llwybrau Teithio Llesol i leihau'r defnydd o deithiau modur yn enwedig teithiau unigolyn sengl. Nododd COVID-19 sawl mater o ran sut yr ydym yn gweithio a siopa, ynghyd â gweld cynnydd mewn teithio llesol a'r angen amdano er budd iechyd, lles a'r amgylchedd.
- 5.3.120 Gyda Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Cymru ar lwybr i gynorthwyo i drawsnewid y wlad i fod yn 'genedl teithio llesol'. Rydym yn wynebu heriau mawr o ran sicrhau lles corfforol a meddyliol ein cenedl, yn awr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau mai teithio llesol yw'r dewis mwyaf deniadol ar gyfer y mwyafrif o deithiau byr. Y bwriad yw galluogi mwy o bobl i ddewis teithio llesol, gan olygu y gall mwy o bobl fwynhau buddion teithio llesol. Mae LIC eisiau annog pobl i adael eu ceir gartref a defnyddio'r dewisiadau teithio llesol lle bo'n addas gwneud hynny. Mae'r pandemig hefyd wedi dangos bod patrymau cymudo wedi newid a bod mwy o bobl yn gallu ac yn dewis gweithio o gartref. Mae cynyddu lefelau cerdded a beicio yn cynnig dull syml o gyflawni buddion amryfal ar gyfer pobl

Conwy a'r ymwelwyr. Mewn sawl sefyllfa mae angen blaenoriaethu teithio llesol yn hytrach na'r dewisiadau mewn moduron, yn enwedig teithio sy'n seiliedig ar garbon.

- 5.3.121 Mae angen datblygiad newydd i fynd i'r afael â'r goblygiadau trafnidiaeth sy'n deillio o ddatblygiadau mwy. Efallai y bydd gofyn i ddatblygiadau mawr baratoi Asesiadau Cludiant i ddangos sut y bydd y nifer o deithiau a gynhyrchir yn cael eu cyflawni a sut y cyflawnir hygyrchedd i ac o'r safle mewn pob math o gludiant. Ar gyfer cynigion nad ydynt yn gynigion preswyl sy'n debygol o olygu goblygiadau cludiant sylweddol, mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynlluniau teithio; gyda'r diben o hyrwyddo dulliau cludiant sy'n fwy cynaliadwy mewn perthynas â gweithgareddau datblygiad penodol (er enghraifft; annog gostyngiad mewn defnydd o geir a mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus, cerdded a beicio drwy'r Isadeiledd Gwyrdd).
- 5.3.122 Bydd manylion penodol ac effaith mesurau lleihau carbon cludiant yn amrywio rhwng y gwahanol ddatblygiadau. Hefyd, ni ellir rhagweld effaith ymyraethau ar gyfran y dull teithio a milltired yn fanwl ar gam cynnar. Bydd hyn yn dibynnu ar ddewisiadau ymddygiad y preswylwyr, gweithwyr, cyflogwyr ac ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r datblygiad ac a weithredir mesurau tebyg ar draws y dref a'r rhanbarth teithio lleol. Dylai datblygiad newydd geisio symud oddi wrth y defnydd o geir preifat tuag at ddulliau cludiant sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer y mwyafrif o deithiau. Bydd disgwyl i ddatblygiad ddangos gwasanaethau cludiant heb garbon neu garbon isel, sy'n hygyrch, effeithlon a chynaliadwy, isadeiledd teithio llesol sy'n gysylltiedig â chanolfannau cludiant cyhoeddus, a chyfleusterau gwefru cerbydau allyriadau isel.

5.3.123 Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Papur Cefndir 65:
Cyflawni Di-garbon Net mewn Adeiladau.

5.3.124 Mae modd gwerthuso'r buddion i gymdeithas ynghyd â dal a
storio carbon gan ddefnyddio ymagwedd Gwasanaethau Cyfalaf
Naturiol ac Ecosystem.



STA/1 cludiant cynaliadwy, gygyrchedd a datgarboneiddio

1. Bydd yr ACLL yn cefnogi cynigion datblygu sy'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat, ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn unol â pholisïau STA/6 a STA/7. Dylai'r cynigion greu lleoedd a strydoedd lle bo traffig a gweithgareddau eraill wedi'u hintegreiddio a lle bo adeiladau, gofodau a hygyrchedd yn llunio dyluniad, gan ymgorffori egwyddorion cymdogaethau 20 munud yn unol â'r Fframwaith Polisi Creu Lleoedd.
2. Mae'n rhaid i brif ddatblygiadau ddangos sut y maent wedi cymhwyso Hierarchaeth Cludiant Cynaliadwy drwy baratoi Cynllun Cludiant ar gyfer y datblygiad a ddylai hyrwyddo yn y drefn flaenoriaeth:
 - a. Llwybrau cerdded, beicio neu deithio ar sgwter o ansawdd uchel a hygyrch o fewn y datblygiad a chysylltedd gyda chyrchfannau allweddol y tu allan i'r datblygiad megis canolfannau iechyd, ysgolion, ardaloedd manwerthu a chyflogaeth a llwybrau Teithio Llesol eraill yn unol â pholisïau STA/6;
 - b. Rhwydwaith cludiant cyhoeddus (neu a rennir) o ansawdd da o fewn y datblygiad newydd drwy ddarparu llwybrau teithio llesol clir, diogel a deniadol i safleoedd bws yn y datblygiad ac addasiadau i'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus i wasanaethu'r datblygiad yn unol â pholisïau STA/4, STA/6 a STA/7.
 - c. Creu canolbwynt ar gyfer cludiant a gwasanaethau eraill (canolfannau symudedd), gan gysylltu pobl gyda gwahanol fathau o gludiant cyhoeddus ac a rennir ynghyd â gweithredu

fel pwyntiau dosbarthu cyfunol ar gyfer parseli neu nwyddau lle bo'n briodol yn unol â STA/5;

- d. Creu amgylchedd traffig isel (gyda therfynau cyflymder isel a chyfyngiadau ar symudiadau traffig) er mwyn cyflawni'r newid dull oddi wrth y defnydd o gerbydau preifat.
 - e. Rheoli'r galw am geir preifat neu gerbydau ffyrdd trwy gyfyngu nifer y lleoedd parcio sydd ar gael yn gyffredinol a chreu gofodau parcio blaenoriaeth ar gyfer cerbydau clwb ceir a cherbydau â mwy o bobl ynddynt mewn safleoedd cyflogaeth, a;
 - f. Darparu isadeiledd gwefru priodol i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan yn unol â STA/2 ochr yn ochr â chefnogi cyflwyno clybiau ceir trydan i ddarparu mynediad fforddiadwy at gerbydau trydan pan fo'r angen.
3. Dylai pob datblygiad cludiant mawr newydd ymgymryd â gwerthusiad i sicrhau cysylltiad band eang o ansawdd uchel a darparu canolfannau digidol i leihau cymudo a mynediad at weithgareddau / cyfleoedd eraill ar-lein. Dylai bod pob datblygiad mawr yn cael ei gefnogi gan gynllun newid ymddygiad trwy ddarparu ysgogiad ac anogaeth i bobl drwy, er enghraifft, y defnydd o apiau ffôn symudol i annog mathau penodol o ymddygiad teithio gyda gwobrau digidol.
4. Bydd gofyn i ddatblygiadau mawr newydd gyfrifo'r allyriadau carbon gweithredol a chorfforedig sy'n gysylltiedig â datblygu cludiant a dangos sut y lleihawyd y rhain. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn Datganiad Lleihau Carbon sy'n cyd-fynd â chais cynllunio yn unol â pholisïau EN/6.



5.3.125 Bydd yr ACLL yn ceisio gwella hygyrchedd a hyrwyddo newid yn yr ymddygiad teithio gan weithio gyda datblygwyr a darparwyr gwasanaeth; gan gynnwys isadeiledd ac iechyd. I fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau fod pob cymuned yn elwa o gludiant cynaliadwy, rhoddir sylw penodol i wella isadeiledd teithio llesol mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd sy'n cael eu tanwasanaethu. Bydd hefyd yn cefnogi isadeiledd newydd lle bo'n cynorthwyo i gyflawni sero net ac yn cydymffurfio â'r polisïau eraill yn y cynllun. Cyflawnir hyn drwy weithio i sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu at y gostyngiad o 80% mewn allyriadau cludiant wyneb sy'n ofynnol erbyn 2030, fel rhan o'r llwybr at sero net erbyn 2050.

5.3.126 Bydd yr ACLL yn diogelu tir a llwybrau Teithio Llesol i hyrwyddo cymunedau hygyrch sy'n annog dulliau teithio cynaliadwy integredig yn unol â pholisïau STA/6 Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd, STA/7 gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus, a pholisi STA/4. Bydd yr ACLL yn parhau i hyrwyddo dulliau cynaliadwy a chefnogi gwelliannau i wasanaethau cludiant cyhoeddus.

5.3.127 Ceisir gwelliannau i reilffyrdd a safleoedd bws i gynorthwyo fel cyfnewidfeydd rhwng y dulliau teithio a hyrwyddo ymddygiad teithio cynaliadwy yn enwedig o ran cysylltu Metro Gogledd Cymru gyda gwasanaethau lleol. Bydd datblygiadau yn cyfrannu tuag at welliannau lle bo'r angen yn unol â pholisïau PL/1 to PL/25. Bydd llwybrau gwella a nodwyd yn y Map Cludiant Rhanbarthol a Theithio Llesol ar gyfer Conwy yn cael eu diogelu a'u gwella ynghyd â'r llwybrau lleol a nodwyd yn yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd.

5.3.128 Mae'r polisïau creu lleoedd hyn yn pwysleisio bod effeithlonrwydd, cysylltedd, amrywiaeth a chynhwysiant cysylltiadau cludiant yn elfennau allweddol o greu lle llwyddiannus ac mae rhwydwaith cludiant effeithlon yn hanfodol i gefnogi twf economaidd. Mae'r 'rhwydwaith cludiant' yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r gwasanaethau sy'n helpu pobl i symud ar draws y Sir, gan gynnwys priffyrdd, cludiant cyhoeddus, llwybrau cerdded a beicio, Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan gynnwys llwybrau ceffyl.

5.3.129 Mae hygyrchedd da yn golygu y gall cymunedau ddiwallu eu hanghenion (er enghraifft: siopa, addysg, hamdden a chyflogaeth) yn hawdd a heb fod angen car. Dylid annog pobl i beidio â theithio ar eu pennau eu hunain mewn cerbydau nad ydynt yn gerbydau allyriadau isel iawn. Gellir gwella hygyrchedd drwy leoli datblygiadau mewn lleoliadau priodol a thrwy wella cludiant cyhoeddus, cyfleusterau cerdded a beicio a gwasanaethau. Bydd anghenion datblygu y gymuned yn cael eu diwallu drwy leoli mwyafrif y datblygiadau mewn lleoliadau hygyrch, yn bennaf ar hyd coridor yr A55 a'r Rhwydwaith Rheilffyrdd lle bo cysylltiadau allweddol i gludiant rheolaidd. Gallai darparu hygyrchedd da newid ymddygiad teithio tuag at ddulliau sy'n fwy cynaliadwy, ond, mae cynllunio teithiau, addysg a rheoli'r galw yn elfennau allweddol o'r strategaeth gludiant yn gyffredinol. Mae gwella hygyrchedd a lleihau'r ddibyniaeth ar geir yn cynorthwyo i wella cydraddoldeb, iechyd, lleihau tagfeydd ac ymateb i heriau newid hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol. Er mwyn gwella'r cynnig o ddulliau teithio cynaliadwy, iechyd y gymuned a'r amgylchedd, bydd y Cyngor yn cefnogi, mewn egwyddor, cyfleusterau cyfnewidfeydd a chanolfannau dosbarthu lleol yn y dyfodol.



5.3.130 Ar gyfer teithiau eithaf byr mae cerdded a beicio yn ddulliau hynod ddymunol o gludiant cynaliadwy sy'n cefnogi ffordd o fyw iach. Mae data'r cyfrifiad (2021) yn dangos bod 58% o breswylwyr Conwy sy'n weithgar yn economaidd yn defnyddio eu ceir i deithio i'r gwaith a thra bod 8% o breswylwyr yn cerdded i'w gweithle, dim ond 1.1% sy'n beicio.

5.3.131 Yn anffodus, bydd rhwystrau yn atal cerdded a beicio i rai ardaloedd oherwydd bod priffyrdd a chylchfannau yn peri rhwystr i gerddwyr a beicwyr. Mae cerdded yn rhan o bron bob taith, ac mae pobl yn llai tebygol o gerdded i siop leol neu safle bws os yw'r amgylchedd i gerddwyr yn wael neu'n ymddangos yn beryglus. Mae rhai ffyrdd, strydoedd a chyffyrdd wedi'u dylunio fel bod cerdded a beicio yn amharu ar lif y traffig. Bydd gwelliannau i'r dewisiadau cerdded a beicio a'u diogelwch yn cael eu targedu yn yr holl aneddiadau, yn bennaf lle bo angen mynediad at gyflogaeth a manwerthu, yn Llandudno, Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn ac Abergele ac at ddibenion hamdden a thwristiaeth drwy gydol ardal y cynllun. Rhai enghreifftiau fyddai gweithredu Rhaglen Gwella Llwybr Arfordir Cymru a Chynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy. Bydd angen i'r holl ddatblygiadau mawr newydd ddarparu cyfleusterau cerdded a beicio o ansawdd a chyfrannu tuag at welliannau IG cynaliadwy yn y gymuned gyfagos fel y bo'n briodol.

5.3.132 Mae cerdded a beicio yn hynod bwysig mewn canol trefi lle bo nifer o bobl yn siopa, gweithio, byw a chwarae yn agos at ei gilydd. Gall y canol trefi hyn dderbyn niferoedd helaeth o gerddwyr a beicwyr heb achosi'r un problemau o ran tagfeydd, sŵn a llygredd â'r hyn a geir gyda nifer eithaf bychan o gerbydau modur. Er mwyn annog y defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy,

ceisir cyfraniadau tuag at welliannau o ran iechyd a diogelu'r amgylchedd.

5.3.133 Mae'r CDLIN, felly, yn ceisio cyflwyno gwelliannau sylweddol i gludiant cynaliadwy i wella'r dewisiadau cerdded a beicio a'u diogelwch a gwella cysylltiadau gyda dulliau cludiant cynaliadwy eraill yn Ardal y Cynllun a thu hwnt. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyfraniadau datblygwyr a cheisio cyllid i gyflwyno gwelliannau ar gyfer beicio a cherdded, lle bo'r angen. Mae cwblhau Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yn Llandudno ar y gweill hefyd.

5.3.134 Yn unol â Deddf Cludiant Cymru 2006, mae'n ofynnol bod consortiwm Taith, sef partneriaeth yr Awdurdodau Lleol sydd â chyfrifoldebau cludiant yng Ngogledd Cymru, yn cynhyrchu Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn strategaeth ar gyfer nodi a darparu gwelliannau ar gyfer ein system gludiant dros y 25 mlynedd nesaf. Mae Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i gynhyrchu a daeth i rym ym mis Ebrill 2010.

Cymdogaethau 20 munud ac amgylcheddau traffig isel

5.3.135 Cymdogaethau 20 munud yw ardaloedd sy'n darparu ar gyfer mwyafrif anghenion dyddiol y preswylwyr o fewn 20 munud o gerdded neu ar feic. Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys cyfleusterau siopa ac iechyd lleol, addysg, mannau gwyrdd, tai fforddiadwy ac amrywiol, strydoedd diogel, teithio llesol a chludiant cyhoeddus, a chyflogaeth. Mae'r cysyniad wedi datblygu fel elfen bwysig o adfer gwyrdd ar ôl COVID, a



gydnabyddir gan gyrff fel Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref, Sustrans a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

5.3.136 Mae creu cymdogaethau 20 munud ac amgylcheddau traffig isel yn cynnwys:

- Byddai sicrhau bod amgylchedd traffig isel i ddatblygiad newydd (gyda therfynau cyflymder isel a chyfyngiad ar symudiad traffig) yn ategu mesurau i gyflawni newid dull oddi wrth y defnydd o geir. Byddai hefyd yn darparu buddion ehangach gan gynnwys sicrhau nad yw ardaloedd gofodau craidd yn y datblygiad yn cael eu neilltuo i flaenoriaethu traffig a pharcio, gan gyflwyno'r potensial ar gyfer defnydd arall fel man gwyrdd neu lwybrau teithio llesol.

5.3.137 Byddai mesurau a fyddai'n cyfrannu at amgylchedd traffig isel yn cynnwys:

- Blaenoriaethu cerdded a beicio ar y llwybrau yn y datblygiad fel eu bod wedi'u dylunio ar gyfer cerddwyr yn bennaf. Byddai terfynau cyflymder, dyluniad a chyfyngiadau yn golygu mai dim ond ar gyflymder isel iawn y caniateir mynediad i gerbydau i'r adeiladau;
- Gosod y lleoedd parcio oddi wrth y tai a'r adeiladau, gan ganiatáu gollwng / mynediad ar gyflymder isel fel bo'r angen ar gyfer anghenion hygyrchedd.
- Gwerthu gofodau parcio ar wahân i'r tai a'r gofodau masnachol fel nad yw'n fesur diofyn bod ganddynt ofodau parcio. Gallai codi tâl am barcio gynnwys cost prynu ymlaen llaw a ffi flynyddol barhaus, gyda'r potensial i brynu trwyddedau ar gyfer parcio i ymwelwyr.

Cerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn neu sero

5.3.138 Mae'n hanfodol bod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan yn cael eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd o'r cam dylunio. Mae hyn yn sicrhau bod pwyntiau gwefru'n cael eu lleoli mewn lleoliad cyfleus ac yn llai drud ac yn achosi llai o aflonyddwch na'u gosod yn ddiweddarach. Mae rhwydwaith ansawdd uchel o bwyntiau gwefru mewn cartrefi a lleoedd y mae pobl yn parcio'n aml yn hanfodol er mwyn cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan.

5.3.139 O 1 Ebrill 2019, daeth hawliau datblygu a ganiateir i rym yng Nghymru i ganiatáu gosod isadeiledd gwefru oddi ar y stryd, gyda rhai meini prawf eithriedig. Mae modd i awdurdodau lleol osod isadeiledd ar y stryd hefyd heb fod angen caniatâd cynllunio.

Targedau

5.3.140 Gosodwyd targedau ar gyfer datblygiad newydd yn seiliedig ar darged CBSC i gyflawni Carbon Sero Net a'r newidiadau cyflym sydd eu hangen yn y sector cludiant i ddatgarboneiddio'n ddigonol i gyfrannu at ddiwallu'r targed hwnnw. Mae modd ystyried mesurau i leihau allyriadau carbon cludiant mewn tri chategori:

1. Osgoi (lleihau'r galw am ynni) - lleihau galw cludiant am ynni drwy leihau nifer a / neu hyd y teithiau;
2. Newid (gostyngiad mewn defnydd o ynni) - achos y galw i newid o ddulliau llai effeithlon i ddulliau cludiant sy'n fwy effeithlon o ran ynni ac allyriadau (h.y. symud o geir preifat i gludiant



cyhoeddus neu gerdded/ beicio neu gludo nwyddau ar y ffordd i gludo nwyddau ar reilffyrdd); a

3. Gwella / Tanwydd (lleihau'r defnydd o ynni) - gwella perfformiad effeithlonrwydd / allyriadau'r fflyd sy'n weddill drwy welliannau effeithlonrwydd a / neu newid ffynhonnell ynni (trydaneiddio).

5.3.141 Er mwyn cyflawni targed Sero Net a rheoli'r galw ar y rhwydwaith ynni, bydd angen i fesurau ar gyfer datblygiadau newydd leihau teithiau mewn cerbydau (er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd a'r galw am ynni) a sicrhau y cyflawnir unrhyw deithiau mewn cerbydau sy'n weddill gyda cherbydau sydd ddim yn gollwng unrhyw allyriadau drwy beipen fwg (er mwyn mynd i'r afael â llygredd carbon a llygredd aer lleol).

5.3.142 Mae'r mesurau sy'n berthnasol i gefnogi'r newid yn cynnwys:

- Datblygu isadeiledd gwefru / tanwydd yn gyflym
- Cynyddu'r defnydd mewn cerbydau fflyd.
- Mae'r system cludiant yn y dyfodol yn debygol o fod angen hyd at 110 o gyfarpar gwefru cyflym iawn a 1,630 o gyfarpar gwefru cyflym erbyn 2025, a hyd at 150 o gyfarpar gwefru cyflym iawn a 2,000 o gyfarpar gwefru cyflym erbyn 2030.

STA/2 Isadeiledd a cherbydau allyriadau isel iawn neu heb allyriadau

1. Dylai unrhyw ddatblygiadau tai mawr neu ddatblygiadau mawr nad ydynt yn rhai preswyl gynnal gwerthusiad o'r anghenion ar gyfer isadeiledd EV a ragwelir ar gyfer y dyfodol i hysbysu cais cynllunio gyda gwybodaeth o'r Strategaeth Ynni. Mae angen i'r gwerthusiad ystyried y nifer a'r mathau o bwyntiau gwefru priodol ar lefel adeilad unigol ac yn y datblygiad ehangach ac

effaith mesurau o'r fath ar y grid trydan lleol. Dylai fod gan isafswm o 10% o ofodau parcio gyfleusterau gwefru cerbydau trydan.

2. Bydd yr ACLI yn cefnogi darparu isadeiledd ar gyfer cerbydau heb allyriadau/ cerbydau allyriadau isel iawn lle bo'r cynigion yn cydymffurfio â pholisïau eraill y CDLIN a'r Cynllun Ynni Lleol. Mae'n rhaid darparu isadeiledd digonol ar gyfer datblygiad.
3. Bydd gofyn i ddatblygiad ddarparu nifer priodol o bwyntiau gwefru gyda gofodau parcio, gan gynnwys cymysgedd o gyfleusterau gwefru araf a chyflym neu gyflym iawn (y rhai cyflym iawn i gefnogi cerbydau clybiau ceir yn benodol) sy'n addas ar gyfer yr holl fathau perthnasol o geir.
4. Lle bo modd dylai'r darpariaethau gwefru integreiddio cyfleusterau gwefru gyda chynhyrchu trydan adnewyddadwy yn lleol, yn unol â pholisi EN/4 ac EN/8 a sicrhau y gwneir y mwyaf o botensial batris i ddarparu cyfleusterau storio.

5.3.143 Mae costau ôl-osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn uwch na'u gosod yn ystod y gwaith adeiladu cychwynnol, felly mae posibilrwydd y bydd costau os nad yw pwyntiau gwefru'n cael eu gosod.

5.3.144 Bydd y Cynllun Ynni Lleol yn, lle bo modd, nodi safleoedd ar gyfer storio batris a gorsafedd llenwi hydrogen ac yn cynnal asesiad o'r lleoliadau gorau i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus, a pha fathau o bwyntiau gwefru fyddai'r rhai mwyaf addas (e.e. cyfleusterau gwefru araf neu gyflym iawn). Yn gyffredinol, bydd addasrwydd mathau o bwyntiau gwefru yn dibynnu ar eu lleoliad, a pha weithgareddau a gefnogir yn yr ardal gyfagos (e.e. efallai y bydd isadeiledd pwyntiau gwefru



araf yn fwy addas ar gyfer canolfannau siopa na'r rhai a leolir mewn meysydd parcio arhosiad byr, gan fod 'amser preswyllo' perchnogion y cerbydau yn debygol o fod yn hirach). Dylai'r asesiadau hyn ystyried cyfleusterau gwefru Cerbydau Trydan ar asedau sy'n eiddo i'r Cyngor (e.e. meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor) ond dylent hefyd ystyried prif leoliadau eraill, yn enwedig rhai o dan berchnogaeth y sector cyhoeddus (e.e. gorsafoedd rheilffyrdd, ysbytai a chyfleusterau addysg). Dylid annog ymgysylltu gyda phartneriaid strategol posibl, er mwyn gwireddu'r cyfleoedd posibl ar gyfer isadeiledd gwefru cerbydau trydan.

5.3.145 Mae darpariaeth weithredol yn cael ei diffinio fel soced sy'n barod i'w ddefnyddio ac wedi'i gysylltu gyda'r system cyflenwad trydan. Diffinnir darpariaeth oddefol fel y rhwydwaith o geblau a chyflenwadau pŵer sy'n ofynnol er mwyn gallu ychwanegu soced yn hawdd yn y dyfodol.

- Lliniaru effaith teithio

5.3.146 Mae'n bwysig bod yr holl ddatblygiadau'n lliniaru'r effaith ar gludiant a'r amgylchedd. Bydd gofyn i gynigion 'datblygu mawr' neu gynigion datblygu gyda 'goblygiadau cludiant sylweddol', fel y nodwyd yn [TAN18](#), gynhyrchu Asesiad Cludiant a Chynllun Teithio. Dylid cyflwyno Datganiad Cludiant ochr yn ochr â'r holl gynigion datblygu eraill er mwyn galluogi'r ymgeisydd i ddangos i'r Cyngor eu bod wedi ystyried effaith cludiant y cynnig ac wedi ystyried sut i lliniaru'r effaith. Bydd lefel y manylion yn y Datganiad Cludiant yn amrywio yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y cais yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

5.3.147 Ystyriaeth gynllunio allweddol yw sicrhau bod cynigion datblygu yn cyflawni cysylltiad addas gyda'r briffordd a'r

rhwydwaith teithio llesol sy'n ddiogel ar gyfer cerddwyr, beicwyr, gyrwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill. Hefyd mae'n bwysig sicrhau nad yw diogelwch ar y ffordd yn cael ei beryglu drwy ganiatáu cynigion a fyddai'n cynhyrchu lefelau traffig sydd y tu hwnt i gapasiti y rhwydwaith ffyrdd cyfagos.

STA/3 Lliniaru effaith teithio

1. Bydd gofyn i ddatblygiadau newydd fynd i'r afael a lliniaru effeithiau negyddol teithio megis allyriadau carbon (yn unol ag EN/6), sŵn, effaith ar amwynder, gan gynnwys cysylltiad gyda Llwybr Teithio Llesol, lles ac effaith amgylcheddol yn unol â pholisïau NE/7, NE/8 a STA/6. Bydd hyn naill ai yn waith ar y safle neu oddi ar y safle neu gyfraniadau i sicrhau bod gwaith hanfodol yn cael ei gyflawni.
2. Lle y bydd datblygiad arfaethedig yn debygol o achosi goblygiadau cludiant, cymdeithasol neu amgylcheddol sylweddol, bydd y Cyngor yn gofyn i ddatblygwyr gyflwyno Asesiad Teithio, Cynllun Teithio a / neu Archwiliad Llwybr Teithio Llesol gyda chais cynllunio yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Efallai y bydd angen Archwiliad Diogelwch Ffyrdd a Datganiad Dull Adeiladu hefyd.
3. Pan fydd yr ACLI yn credu y bydd datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol ar y rhwydwaith cludiant mewn ardal ehangach, bydd gofyn am gyfraniadau ariannol a / neu waith oddi ar y safle i wella'r isadeiledd cludiant, yn benodol i gefnogi cludiant cyhoeddus, Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd, yn unol â'r polisïau Creu Lleoedd Cynaliadwy.



4. Efallai y bydd yr ACLL yn gofyn i ddatblygwyr gyflwyno Datganiad Cludiant ar gyfer cynigion datblygu eraill lle bo angen deall effaith y cynnig ar draffig.
5. Bydd Datganiad Rheoli Carbon ar gyfer y broses adeiladu, unrhyw isadeiledd cludiant ac adeiladau cysylltiol yn ofynnol yn unol â pholisi STA/1, EN/1 ac EN/6. Bydd y broses yn golygu bod modd nodi'r elfennau sy'n cynhyrchu'r mwyaf o ran allyriadau carbon, gan alluogi'r dylunydd i ganolbwyntio ar feysydd lle y gellir cyflwyno ymyraethau lliniaru carbon mwy.

5.3.148 Mae'n bwysig bod yr holl ddatblygiadau'n lliniaru ei effaith ar gludiant. Bydd gofyn i gynigion 'datblygu mawr' neu gynigion datblygu gyda 'goblygiadau cludiant sylweddol', fel y nodwyd yn TAN18, gynhyrchu Asesiad Cludiant a Chynllun Teithio (fel y nodir ym Mholisi STA/1). Dylid cyflwyno Datganiad Cludiant ochr yn ochr â'r holl gynigion datblygu eraill er mwyn galluogi'r ymgeisydd i ddangos i'r Cyngor eu bod wedi ystyried effaith cludiant y cynnig ac wedi ystyried sut i lliniaru'r effaith. Bydd lefel y manylion yn y Datganiad Cludiant yn amrywio yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y cais yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a pholisi'r CDLIN.

5.3.149 Ystyriaeth gynllunio allweddol yw sicrhau bod cynigion datblygu yn cyflawni cysylltiad addas gyda'r briffordd sy'n ddiogel ar gyfer cerddwyr, beicwyr, gyrwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill. Hefyd mae'n bwysig sicrhau nad yw diogelwch ar y ffordd yn cael ei beryglu drwy ganiatáu cynigion a fyddai'n cynhyrchu lefelau traffig sydd y tu hwnt i gapasiti y rhwydwaith ffyrdd cyfagos.

Llwybrau a chynlluniau cludiant

5.3.150 Mae argaeledd a'r defnydd o gludiant cyhoeddus yn elfen hollbwysig wrth benderfynu ar bolisiau cynllunio sydd wedi'u dylunio i leihau'r angen i deithio mewn car. I'r perwyl hwn, mae'r polisi cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn archwilio'r potensial, a nodi unrhyw gynigion, ar gyfer gwella cludiant cyhoeddus ar reilffordd, gan gynnwys ailagor rheilffyrdd. Gallai llwybrau o'r fath ddarparu llwybrau cerdded a beicio fel mesur dros dro cyn cyflwyno'r gwasanaethau rheilffordd.

5.3.151 Mae'n rhaid gwneud ymdrech ofalus i leihau effeithiau andwyol isadeiledd cludiant newydd neu well ar yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac ar gymunedau lleol, gan gynnwys iechyd y cyhoedd o ganlyniad i wahanu cymunedol a llygredd yn yr awyr. Dylid ystyried mesurau isadeiledd gwyrdd i lliniaru effeithiau negyddol ac i wella ansawdd yr amgylchedd a chysylltedd yn gynnar.

STA/4 Llwybrau a chynlluniau cludiant

1. Mae'n rhaid cefnogi datblygiad gydag isadeiledd priodol, cysylltiadau cludiant cyhoeddus a chyfleusterau perthnasol, gwasanaethau digidol a gofynion eraill sy'n ofynnol fel rhan o'r cynnig. Bydd gofyn i gynigion ddangos bod:
 - a. Y ddarpariaeth bresennol wedi'i diogelu a bod y capasiti'n ddigonol i gefnogi'r datblygiad arfaethedig; neu
 - b. Lle bo diffyg darpariaeth neu gapasiti sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn uniongyrchol
 - c. , bydd angen isadeiledd, cyfleusterau neu fesurau newydd neu well i gefnogi'r datblygiad.



2. Bydd gofyn i lwybrau a chynlluniau fod yn hygyrch a diwallu'r polisïau perthnasol a'r safonau rheoleiddio ar gydraddoldeb, mynediad, hawliau dynol a'r Gymraeg, a cheisio diddymu rhwystrau corfforol, agweddol, amgylcheddol, systemig, ieithyddol ac economaidd sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau ac isadeiledd cludiant cynaliadwy.
3. Lle bo'r angen, ceisir rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol yn sgil y datblygiad er mwyn gwneud y datblygiad yn un derbyniol, a fydd yn cynnwys mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir o ran darpariaeth a / neu gapasiti sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn uniongyrchol. Efallai y bydd angen amrywiaeth o isadeiledd, gan roi ystyriaeth i natur, maint, lleoliad a hyfywedd ariannol y datblygiad arfaethedig. Mae'n rhaid darparu isadeiledd newydd a / neu well, neu unrhyw fesurau priodol eraill, yn brydlon ac mewn modd cydlynol er mwyn diwallu anghenion y cymunedau presennol ac a gynllunnir cyn, neu wrth ddechrau, camau perthnasol y datblygiad (p'un bynnag sydd fwyaf priodol).
4. Bydd yr ACLL yn cefnogi newid dull i gerdded / teithio ar olwynion, beicio a mathau eraill o ficro-symudedd (megis beiciau trydan) sy'n ofyniad craidd ar gyfer datgarboneiddio cludiant. Mae'r mesurau hefyd yn gwella; iechyd, ansawdd aer, gwelliannau'r parth cyhoeddus a gwella isadeiledd gwyrdd.
5. Bydd yr ACLL yn ceisio cyflawni gwelliannau a chynnydd i leihau allyriadau carbon corfforedig dros amser i gyflawni gostyngiad o 100% erbyn 2050 ar gyfer yr holl isadeiledd cludiant newydd. Bydd gofyn i gynlluniau cludiant gyfrifo ynni a gostyngiad carbon yn unol ag EN/1 ac EN/6. Bydd gofyn gwrthbwysu unrhyw allyriadau sy'n weddill yn unol â pholisi EN/7

- 5.3.152 Bydd yr ACLL yn paratoi Strategaeth Gwrthbwysu Carbon a chronfa fel mecanwaith i ddarparu hyblygrwydd i liniaru oddi ar y safle.
- 5.3.153 Bydd newid i ddulliau llesol yn debygol o fod fwyaf effeithiol lle bo rhwydwaith integredig o ansawdd uchel sy'n darparu'r llinellau teithio dymunol, er enghraifft; cysylltu ardaloedd preswyl gyda chyrchfannau gan gynnwys prif strydoedd a chanolfannau lleol, canolfannau cyflogaeth a gofal iechyd. Mae canolbwyntiau trafndiaeth gyhoeddus yn gyrchfannau pwysig eraill, sydd o gymorth i annog newid dull ar siwrneiau hwy lle bo modd cerdded neu feicio ar y dechrau neu'r diwedd i'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac oddi yno.
- 5.3.154 Er mwyn denu pobl dylai'r rhwydwaith cerdded a beicio ddilyn arferion da ar gyfer safonau dylunio gan eu cynnal a'u cadw'n dda. Credir y dylid gwahanu llwybrau beicio lle bo modd. Mewn rhai achosion, byddai modd cyflawni hyn drwy gael gwared â lleoedd parcio ar y stryd (gan gysylltu â mesurau rheoli'r galw, a ddisgrifir ymhellach isod). Mewn mannau eraill, efallai y bydd angen adeiladu llwybrau beicio newydd o ansawdd uchel neu ailddyrannu gofod ffyrdd presennol ar gyfer dulliau teithio llesol. Mae angen dylunio ailddyraniad gofod yn ofalus i sicrhau nad yw'n arwain at fwy o allyriadau carbon gan draffig yn sgil tagfeydd ychwanegol.
- 5.3.155 Lle nad oes modd gwahanu, mae gostwng terfynau cyflymder a mesurau lleddfu traffig yn gymorth i ddarparu amgylchedd addas a diogel ar gyfer beicio a theithio ar sgwter ac yn golygu nad oes angen llawer o waith adeiladu (a chostau cysylltiol a charbon corfforedig).

5.3.156 Mae darparu cyfleusterau o ansawdd ac sy'n blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr ar gyffyrdd a chroesfannau hefyd yn elfen bwysig o rwydwaith o ansawdd uchel, ynghyd ag arwyddion a chynllun clir i ddangos y ffordd.

5.3.157 Bydd gofyn am welliannau pellach, i gysylltu, neu ehangu'r mesurau isadeiledd blaenoriaeth bws lle bo'r rhain yn angenrheidiol er mwyn darparu dewisiadau teithio cynaliadwy a mynd i'r afael ag effaith unrhyw ddatblygiad newydd.

Canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol

5.3.158 Mae gofyn i'r CDLlN nodi a, lle bo'n briodol, diogelu'r llwybrau sy'n ofynnol ar gyfer symud nwyddau'n gynaliadwy a diogelu'r isadeiledd cludiant presennol rhag cael eu llechfeddiannu gan fathau eraill o ddatblygiad.

5.3.159 Mae canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol yn gweithio drwy gasglu nwyddau sydd i fynd i gyrchfan trefol i un canolbwynt a chyfuno'r danfoniadau i nifer llai o lwythi mwy er mwyn lliniaru tagfeydd a'r effaith ar ansawdd aer na'r hyn a geir gan nifer o deithiau llai gan HGV. Mae hefyd yn lleihau nifer y cynwysyddion nwyddau gwag neu rannol wag ar y rhwydwaith.

5.3.160 Mae'r datrysiadau cyfunol hyn yn aml yn cael eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu ac yn gweithio drwy rannu buddion datrysiad y 'fylltir olaf' rhwng gwahanol gwmnïau nwyddau a gwastraff a / neu ddarparwyr deunyddiau. Mae'r cerbydau sy'n teithio rhwng y canolfannau cyfunol ac unrhyw gyrchfan trefol / terfynol yn Gerbydau Allyriadau Isel lawn gan leihau'r effaith ar ansawdd aer ymhellach.

STA/5 Canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol

1. Mae'r Cyngor yn cefnogi datblygiad mewn egwyddor sy'n lleihau teithiau dosbarthu i leihau'r defnydd o danwydd / ynni ac allyriadau drwy annog y defnydd o ganolfannau cyfunol / dosbarthu a defnyddio dulliau amgen ar gyfer cam olaf y danfoniadau megis beic trydan ar gyfer nwyddau a cherbydau bach carbon isel iawn.
2. Mae tir ger y rheilffordd yng Nghyffordd Llandudno a Phenmaenmawr wedi'i ddiogelu ar gyfer llwythi rheilffyrdd ac wedi'i ddynodi ar y map cynigion. Dylid diogelu hen reilffyrdd a hen gilffyrdd rheilffordd, mewn cydweithrediad â Thrafnidiaeth Cymru a Network Rail, rhag datblygiadau a fyddai'n atal eu defnyddio yn y dyfodol ar gyfer cludo nwyddau neu deithio llesol.
3. Bydd mentrau cludo nwyddau ar y ffyrdd yn cael eu cefnogi pan fyddant yn darparu buddion lleihau carbon a thagfeydd. Bydd cynlluniau'n defnyddio Cerbydau Allyriadau Isel lawn ac yn ymgorffori isadeiledd gwefru yn unol â STA/2 ynghyd â gwneud y mwyaf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a storio ar neu ger y safle.
4. Dylid ystyried mesurau isadeiledd gwyrdd i liniaru effeithiau negyddol ac i wella ansawdd yr amgylchedd a chysylltedd ar gam cynnar ar gyfer unrhyw nwyddau a storfeydd yn unol â pholisïau NE/7 a NE/8.
5. Cefnogir datblygiadau newydd ar gyfer cyfuno gwastraff a nwyddau mewn egwyddor ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â pholisïau eraill yn y CDLl ac ystyriaethau cynllunio sylweddol.
6. Bydd disgwyl i ddatblygiad newydd fod yn garbon niwtral neu'n cyflawni hynny fesul cam i ddiwallu targedau sero net yn unol â pholisi EN/1 ac EN/6.



5.3.161 Ers sawl blwyddyn, roedd cludo nwyddau ar y rheilffordd wedi bod yn gostwng, yn bennaf yn sgil cystadleuaeth cludiant ffyrdd. Ond yn ddiweddar, bu cynnydd yn y defnydd o'r rheilffordd yn genedlaethol i gludo nwyddau ond nid yw hyn wedi digwydd yn lleol. Mae nifer o'r cyfleusterau cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yn Ardal y Cynllun naill ai wedi'u tynnu neu eu hailddatblygu heblaw am y cyfleusterau sy'n weddill yng Nghyffordd Llandudno a Phenmaenmawr. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys:

- (i) cilffyrdd wrth ymyl Gorsaf Reilffordd Cyffordd Llandudno,
- (ii) terfynell cludo nwyddau rheilffyrdd yng Nghyffordd Llandudno, a
- (iii) cyfleuster llwytho balast ym Mhenmaenmawr. Nid yw terfynell cludo nwyddau rheilffyrdd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, ac mae rhan o'r safle wedi derbyn caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer storio.

5.3.162 Mae'r ACLI yn cefnogi trosglwyddo'r nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffordd ac yn credu bod potensial ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Mae'r cyfleoedd i greu cyfleusterau amgen i gludo nwyddau ar y rheilffyrdd yn Ardal y Cynllun yn brin iawn. Comisiynodd Cyd Fwrdd Cludiant Gogledd Cymru (TAITH) astudiaeth strategol i'r potensial ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â datblygiad y Cynllun Cludiant Rhanbarthol. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod potensial yng Nghyffordd Llandudno er mwyn symud nwyddau archfarchnad ar y rheilffordd, a symud gwastraff ar y rheilffordd fel rhan o fenter ehangach Gogledd Cymru. Mae TAITH yn cefnogi cadw cyfleusterau cludo nwyddau

rheilffyrdd ac mae'r Cyngor o blaid diogelu cyfleusterau o'r fath yn y Sir, tra bo posibilrwydd o ddefnyddio'r cyfleusterau hyn at ddibenion cludo nwyddau ar y rheilffyrdd.

5.3.163 Mae canolfannau cydgrynhai nwyddau yn gweithio drwy gasglu nwyddau sydd i fynd i gyrchfan drefol i un canolbwynt a chyfuno'r danfoniadau i nifer llai o lwythi mwy neu lwythi mewn cerbydau allyriadau isel iawn er mwyn lliniaru tagfeydd ac allyriadau.

5.3.164 Ar gyfer ardaloedd preswyl, mae canolfannau dosbarthu yn gweithio'n debyg, gan ddarparu man gollwng unigol ar gyfer parseli yn yr ardal er mwyn iddynt gael eu casglu neu eu danfon gan fan drydan neu e-feic cargo.

- Teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd

5.3.165 Mae teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd yn mynd yn law yn llaw o ran buddion ar gyfer iechyd pobl a bioamrywiaeth tra'n gwella ein rhwydwaith teithio llesol.

5.3.166 Amcan Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw "hyrwyddo a darparu isadeiledd gwell ar gyfer cerdded a beicio. Trwy gysylltu ardaloedd allweddol fel gweithleoedd, ysgolion, canolfannau hamdden, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus, canol trefi a chymdogaethau lleol gyda llwybrau Teithio Llesol, mae'r Ddeddf yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ar gyfer teithiau bob dydd". (Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013).

5.3.167 Mae gan y system gynllunio rôl bwysig o ran darparu rhwydweithiau teithio llesol, lleihau tagfeydd a chreu strydoedd anheddol. Mae isadeiledd gwyrdd yn aml yn mynd law yn llaw â rhwydweithiau Teithio Llesol ond hefyd gall ddarparu ar gyfer cysylltedd cynefinoedd a lliniaru llifogydd.

5.3.168 Mae'r Cyngor yn ceisio gwella'r Rhwydwaith Teithio Llesol presennol a gwneud y mwyaf o botensial y Sir ar gyfer llwybrau eraill, drwy sicrhau bod datblygiadau'n cynnwys nodweddion dylunio, cysylltiadau a chyfleusterau sy'n ei gwneud yn hawdd ac yn ddiogel i bobl gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd yn lle teithio mewn ceir. Bydd annog 'Teithio Llesol' yn gymorth i leihau'r defnydd o geir, yn cefnogi agenda lechyd a Lles Conwy ac yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) i ddatblygu, gwella a chynnal rhwydweithiau cerdded a beicio lleol. Mae safonau arferion da yn cynnwys Safonau Dylunio Deddf Teithio Llesol a chanllawiau perthnasol eraill sy'n darparu arweiniad ar gyfer datblygwyr er mwyn sicrhau bod egwyddorion dylunio allweddol yn cael eu defnyddio i ddarparu Teithio Llesol.

STA/6 teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd

1. Lle bo'n briodol, mae'n rhaid i ddatblygiad gymryd cyfleoedd i wella teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd trwy ymgorffori o fewn y safle, a / neu wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle, ynghyd â'r mesurau canlynol fel y bo'n briodol:
 - a. Datganiad isadeiledd gwyrdd yn nodi cynllun y safle a'r dyluniad; llwybrau cerdded a beicio hydraid, amlwg, uniongyrchol, cyfleus, deniadol a diogel sy'n cysylltu'r datblygiad arfaethedig gyda: aneddiadau cyfagos; lleoliadau cludiant cyhoeddus; hawliau tramwy cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol; ardaloedd masnachol a chyflogaeth; cyfleusterau twristiaeth; a chyfleoedd hamdden yn unol â pholisi NE/8;
 - b. yn cynnwys dyluniad addasadwy, cynaliadwy ac o ansawdd uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at

hynodrwydd y cymunedau ac yn darparu rhwydweithiau hydraid ac amlwg o lwybrau beicio a cherdded diogel, cyfleus a deniadol gan ddiwallu gofynion a nodau'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd;

- c. gwella cysylltiadau ac estyniadau i'r Rhwydwaith Beicio Strategol
 - d. ymgorffori mesurau i ostwng cyflymder cerbydau a blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr;
 - e. gwella bioamrywiaeth ac ansawdd cynefin yn unol â pholisi NE/7, NE/8 a NE/9.
 - f. darparu cyfleusterau newydd gan gynnwys arwyddion, lleoliadau parcio beic / sgwter trydan diogel a, lle bo'r angen, cyfleusterau cawod a newid; ac
 - g. yn cynnwys Parthau Di-geir, lle bo'n briodol.
2. Ni chaniateir i ddatblygiadau gael effaith andwyol sylweddol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus na llwybrau presennol a nodwyd ym Map Rhwydwaith Integredig Conwy Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013) a dylid eu dylunio i gynorthwyo i gyflawni Cynllun Teithio Llesol y Cyngor. Efallai y ceisir cyfraniadau lle bo gwelliannau oddi ar y safle'n ofynnol o ganlyniad i'r datblygiad. Bydd llwybrau newydd a gwelliannau'n cael eu cefnogi yn:
 - a. Tref Conwy - gwelliannau i'r bont bresennol i groesi Afon Conwy.
 - b. Bae Colwyn - isadeiledd gwyrdd canol y dref a gwella'r cysylltiadau rhwng canol y dref a glan y môr.
 - c. Bae Cinmel - Cysylltiad Parc Hanes dros yr Afon Clwyd a'r hen bont reilffordd yn cysylltu Green Avenue gyda Sir Ddinbych.



- d. Glan Conwy i Gyffordd Llandudno
- e. Cynllun Teithio Llesol Dyffryn Conwy o Gyffordd Llandudno i Fetws-y-coed gan gysylltu â
- f. gorsaf Dolgarrog.
- g. Ymyraethau Isadeiledd Gwyrdd a Theithio Llesol Canol Trefi a nodwyd ym Mhapur Cefndir 58.

- 5.3.169 Yn ogystal â darparu rhwydwaith o ansawdd uchel, mae'r mesurau ategol sy'n annog y defnydd o deithio llesol yn cynnwys:
- Darparu cyfleusterau ategol mewn ardaloedd preswyl a masnachol ac mewn cyrchfannau beicio, gan gynnwys cyfleusterau storio beic, newid a gwefru beiciau trydan, gan gynnwys man storio beiciau diogel ar gyfer pob aelwyd neu ganolbwynt cludiant neu fasnachol; a
 - Chynlluniau llogi beiciau, e-feiciau ac e-sgwteri. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd ar gyfer teithiau cysylltu un ffordd a'r gallu i feicio neu deithio ar sgwter heb gyfrifoldeb a chost perchnogaeth, cynnal a chadw a storio.
- 5.3.170 Dylid darllen y polisi gyda pholisïau'r CDLIN sy'n ymwneud â chreu lleoedd, adfywio a phrif gynlluniau i sicrhau bod datblygiadau'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio yn eu dyluniad a'u cynlluniau. Bydd dyluniad o ansawdd uchel yn allweddol i sicrhau bod cerdded a beicio'n cael ei ystyried yn ddull teithio deniadol, hyfyw a chyfleus. Mae Ardaloedd Datblygu Strategol yn cynnig cyfle gwerthfawr i integreiddio mesurau Teithio Llesol a gwella cysylltedd gyda'r rhwydwaith presennol fel y nodwyd yn y Map Rhwydwaith Teithio Llesol (fel y'u diweddarwyd).

- 5.3.171 Mae Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn croesi drwy'r Sir. Gwnaed ychwanegiadau ac fe gefnogir gwelliannau. Ond, mae nifer o gysylltiadau a gwelliannau y bydd y Cyngor yn eu ceisio. Mae'r rhain i'w gweld yn yr Atodiadau ac yn cynnwys gweithredu pontydd troed newydd neu wella cysylltiadau Teithio Llesol fel y rhestrir yn y polisi uchod.
- 5.3.172 Yn ogystal â buddion tramwy bydd y polisi hefyd yn gymorth i annog marchogaeth, cerdded a beicio er budd hamdden, ond y brif nod yw sicrhau rhwydwaith strategol ledled y Sir o lwybrau cysylltiedig, cyfleus a diogel ar gyfer cymudwyr, ac nid llwythi o lwybrau hamdden heb eu cysylltu.
- 5.3.173 Bydd Llwybr Arfordir Cymru sy'n croesi'r Sir yn cael ei ddiogelu rhag datblygiadau ar hyd y llwybr. Ceisir cysylltiadau ystyrlon gyda llwybr yr arfordir o ardaloedd aneddiadau a thu hwnt er mwyn gwella cysylltedd gyda'r tirlun arfordirol. Anogir cysylltiadau gyda llwybrau mynediad eraill, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio, i ychwanegu at gysylltedd Llwybr yr Arfordir. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer cysylltiadau ychwanegol gyda Llwybr yr Arfordir sicrhau nad oes effaith andwyol i Lwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys o safbwynt cymeriad, diogelwch a chyfleustra. Mae'n rhaid lliniaru'n llwyr yn erbyn unrhyw faterion a ragwelir neu gyflwyno mesurau gwella cyn datblygu unrhyw gysylltiadau.
- 5.3.174 Mae llwybrau ceffyl hefyd yn cyfrannu at gysylltedd o fewn y Sir, nid yn unig i hwyluso marchogaeth, ond mae amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr, yn eu mwynhau a'u defnyddio. Ni ddylai unrhyw ddatblygiad beryglu'r llwybrau ceffyl presennol, ac, fel ar gyfer unrhyw lwybr Teithio Llesol



presennol arall, mae'n rhaid ceisio hwyluso cysylltiadau sy'n addas i leoliad y llwybr ceffyl presennol.

- 5.3.175 Mae angen i ddatblygiad gydymffurfio â Chanllaw Dylunio - Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac ymgorffori Map Llwybr Teithio Llesol Presennol Conwy a'r Map Rhwydwaith Integredig yn eu datblygiadau arfaethedig. Drwy wneud hynny, dylai datblygwyr gydnabod ac ystyried anghenion cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr diamddiffyn o gamau cyntaf y cynllun. Dylai bod hyn yn cynnwys yr holl ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl ddall / nam ar eu golwg, defnyddwyr sgwteri symudedd / cadeiriau olwyn / pramiau, plant ac oedolion. Dylai bod llwybrau Teithio Llesol yn dilyn llinellau naturiol, uniongyrchol, yn ddeniadol, ac annog eu defnydd drwy gyflwyno cerdded a beicio fel dewis amgen i deithio mewn car.

Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus

- 5.3.176 Bydd y CDLIN yn hyrwyddo a hwyluso darpariaeth isadeiledd cludiant cyhoeddus o safon uchel a bydd yn gosod polisiau i gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus. Bydd yn nodi a hwyluso llwybrau, mesurau a chyfleusterau cludiant cyhoeddus priodol, gan gymryd i ystyriaeth cynigion yn y Cynllun Cludiant Lleol, a allai gynnwys gwella cyfleusterau i deithwyr ar fysiau, cynlluniau parcio a theithio, rheilffyrdd newydd (gan gynnwys trenau ysgafn), ail-agor rheilffyrdd, darparu gorsafoedd newydd a gwella gwasanaethau i deithwyr ar reilffyrdd presennol.
- 5.3.177 Mae cyfnewidfeydd cludiant yn caniatáu trosglwyddo dulliau teithio i naill ai bws, rheilffordd neu mewn amgylchiadau cyfyngedig, cludiant ar y dŵr. Mae darparu cyfnewidfa sy'n

gyfleus ac effeithlon rhwng y dulliau teithio'n allweddol er mwyn sicrhau bod dewisiadau teithio cynaliadwy'n fwy deniadol ac ymarferol. Mae'r polisi'n darparu ar gyfer pob math o gyfnewidfeydd cludiant a allai gynorthwyo i gyflawni'r newid o ddefnyddio ceir preifat, gan gynnwys anogaeth i ddefnyddio gwasanaethau rheilffyrdd lleol. Mae'n cefnogi rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau bws sydd wedi'u hintegreiddio gyda mathau eraill o gludiant cyhoeddus sy'n ddibynadwy, fforddiadwy, hyblyg, hawdd eu defnyddio, carbon isel ac yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r bws yn lle eu ceir.

- 5.3.178 Mae newid siwrneiau i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus effeithlon a mathau eraill o drafnidiaeth a rennir, yn hytrach na defnyddio ceir sy'n cynnwys y gyrrwr yn unig neu ychydig o bobl, yn elfen bwysig arall o leihau allyriadau trafndiaeth.
- 5.3.179 Bydd y newid i gludiant cyhoeddus yn fwy tebygol lle bo darpariaeth gwasanaeth dibynadwy, o ansawdd uchel a fforddiadwy gan ddarparu cysylltiadau rhwng lleoliadau allweddol.
- 5.3.180 Mae canolfannau a phwyntiau symudedd yn darparu canolbwynt ar gyfer dewisiadau trafndiaeth a gwasanaethau eraill, gan gysylltu cymunedau gyda gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir ynghyd â gweithredu fel pwyntiau dosbarthu cyfunol ar gyfer parseli neu lwythi. Maent wedi'u diffinio drwy'r canlynol:
1. Cydleoli dulliau symudedd cyhoeddus ac a rennir.
 2. Ailddylunio gofod i leihau gofodau parcio ceir preifat a gwella'r parth cyhoeddus cyfagos.



3. Brandio clir sy'n nodi bod y gofod yn ganolfan symudedd a gwybodaeth a chynllun dangos y ffordd i ddangos y cysylltiadau i'r rhwydwaith trafndiaeth ehangach.

- 5.3.181 Mae angen cysylltiadau o ansawdd da rhwng y gwasanaethau, o ran cysylltiadau ffisegol ond mae alinio amserlenni bysiau a rheilffyrdd yn bwysig hefyd er mwyn annog pobl i newid dull teithio. Gall datblygu canolfannau symudedd neu gyfnewidfeydd hybu integreiddio drwy ddarparu ffocws penodol a deniadol ar gyfer mynediad a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ac a rennir, sy'n canolbwyntio ar orsaf reilffordd neu safle bws presennol lle bo modd a darparu gwybodaeth hygyrch ar ddewisiadau teithio ynghyd â mynediad at wasanaethau a chyfleoedd eraill (fel siopau, canolbwyntiau digidol a mannau dosbarthu pecynnau).
- 5.3.182 Gallai mesurau i wella amgylchedd y safleoedd a gorsafoedd ac ar gerbydau gynorthwyo i gynyddu'r defnydd.
- 5.3.183 Fel arfer mae trafndiaeth sy'n seiliedig ar alw yn gwasanaethu llwybrau ac amserlen benodol ond yn cael eu cynnal os yw'r teithwyr yn archebu lle ymlaen llaw a dim ond y rhannau o'r daith y gofynnwyd amdanynt fydd yn cael eu gwasanaethu. Mae modd archebu drwy ganolfan ganolog, naill ai ar-lein neu dros y ffôn, ac yn aml mae technoleg telemateg fflyd ar gael sy'n galluogi'r sawl sy'n anfon y cerbyd neu'r cwsmer i gael gwybod union leoliad ac amseroedd y cerbyd. Gallai trafndiaeth seiliedig ar alw weithio 'am yn ôl' o amser dechrau sifft, amserlen trenau neu bwynt terfyn penodol arall, a dylunio'r llwybr i wneud y mwyaf o'r defnydd gan gwsmeriaid. Os yw wedi'i ddylunio'n dda, gall trafndiaeth seiliedig ar alw ddarparu gwasanaeth effeithlon a hyblyg. Ond, mae angen

osgoi rhai risgiau megis llai o welededd ar gyfer y gwasanaeth (gan nad yw'n mynd i safleoedd bysiau penodol ar adegau penodol), gan leihau'r gwelededd o bosibl.

- 5.3.184 Mae mathau eraill o drafndiaeth a rennir fel rhannu ceir, clybiau ceir, a thrafndiaeth seiliedig ar alw o gymorth i ddarparu dewisiadau amgen yn lle defnydd o geir preifat ar lwybrau sydd heb ddigon o alw i gynnal gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.
- 5.3.185 Mae modd annog newid dull teithio drwy fesurau sy'n seiliedig ar dechnoleg fel darparu Symudedd fel Gwasanaeth, sy'n bosibl drwy gynyddu argaeledd data a thechnoleg ffôn symudol. Mae fframweithiau Symudedd fel Gwasanaeth sydd wedi'u dylunio'n dda yn integreiddio trafndiaeth gyhoeddus a dulliau trafndiaeth a rennir ac yn darparu dulliau hawdd o dalu, mynediad hawdd at wybodaeth ddibynadwy a gwell integreiddiad rhwng y gwasanaethau. Mae'r system yn ei gwneud yn haws cynllunio a thalu am deithiau fel taith sengl o'r dechrau i'r diwedd, gan wneud y dewis a'r newid dull teithio yn fwy deniadol.
- 5.3.186 Mae rhaglenni **Symudedd fel Gwasanaeth** yn uno gwybodaeth ar draws ystod eang o ddulliau a gwasanaethau trafndiaeth, er enghraifft mewn ap ar ffôn clyfar. Maent yn darparu nodweddion fel cynllunio siwrnau o'r dechrau i'r diwedd, galluogi prynu tocyn sawl dull teithio, ac ennill a gwario gwobrau. Mae pob system yn darparu fframwaith unedig er mwyn defnyddio dull teithio a rennir ochr yn ochr â thrafndiaeth gyhoeddus ar amserlen, gan leihau'r cymhlethdod a'r gost, a gwneud y dewisiadau yn fwy deniadol a hygyrch i'r defnyddwyr.

5.3.187 Bydd Symudedd fel Gwasanaeth yn cyfuno gwahanol wasanaethau i lunio taith gyfan o ddrws i ddrws, gan gynnwys gwasanaeth i archebu gwasanaeth microsymudedd, taccis a thocynnau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus.

5.3.188 Mae Symudedd fel Gwasanaeth fel arfer yn cynnwys naill ai tanysgrifiad misol unigol, a fydd yna'n cynnwys yr holl gostau trafndiaeth a archebir o fewn y mis, neu system 'talu wrth fynd'.

Mesurau rheoli'r galw

5.3.189 Mae rheoli'r galw am gerbydau ffyrdd yn rhan bwysig o ddatgarboneiddio drwy ailgydbwysu'r costau a chyfleustra dulliau teithio ar y ffordd â dulliau cynaliadwy. Y canlyniad yw lleihau'r flaenoriaeth a roddir i gyfleustra defnyddio cerbydau ffyrdd yn hytrach na'r amcanion eraill. Mae ffafrio cerbydau ffyrdd wedi'i ymgorffori yn nyluniad trafndiaeth a threfol dros sawl degawd. Mae'r dylanwad hirdymor wedi arwain at y sefyllfa bresennol lle bo lefelau uchel yn defnyddio cerbydau ffyrdd ac maent yn cymryd lle blaenllaw mewn ardaloedd trefol, er bod eu heffeithiau negyddol yn cael eu cydnabod yn eang. Mae'r effeithiau ehangach yn cynnwys y rhai ar ansawdd aer, sŵn, parth cyhoeddus, a chydaddoldeb mynediad at gyfleusterau.

- **Cynyddu costau parcio.** Nid ar chwarae bach y gwneir penderfyniadau o ran codi tâl. Ond ar lefel genedlaethol, mae cynyddu prisiau a chymhellion yn fecanwaith i:
 - **Lleihau'r gofodau parcio sydd ar gael ac adleoli i** leoliadau sy'n llai canolog, gan olygu bod modd defnyddio ardaloedd yng nghanol trefi at ddibenion eraill.
 - **Ehangu'r ardaloedd lle codir tâl am barcio**

- **Mesurau gostegu traffig, gan gynnwys parthau 20mya a chymdogaethau traffig isel** sy'n lleihau manteision amser defnydd o geir ac yn atal cerbydau nwyddau.
- **Codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd / ardoll eco**, gan olygu bod defnyddwyr ffordd yn talu am y difrod amgylcheddol a chosir gan bob cilometr a deithir, yn hytrach na bod y gymdeithas ehangach yn derbyn y costau fel y gwneir yn awr.
- **Creu canolfannau cyfuno nwyddau.**
 - Efallai y bydd gyrru effeithlon a rheoli rhwydwaith yn golygu y bydd angen cynyddu capasiti'r ffyrdd ychydig er mwyn lliniaru tagfeydd penodol neu i ddarparu cysylltiadau i ddatblygiadau newydd sydd wedi'u dylunio'n dda i leihau pellter teithio ac annog teithio aml-ddull.
 - Gostwng terfyn cyflymder mewn ardaloedd allweddol.

STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus

1. Mae'r ACLL yn hyrwyddo a bydd yn hwyluso'r ddarpariaeth, datgarboneiddio, a hygyrchedd; yn enwedig i ddiwallu anghenion pobl anabl, i wella a chysylltu isadeiledd cludiant cyhoeddus a gwasanaeth digidol. Mae'r CDLIN yn dynodi ac yn diogelu llwybrau, mesurau a chyfleusterau cludiant cyhoeddus priodol.
2. Mae'r CDLIN yn cefnogi mewn egwyddor gwella cyfleusterau ar gyfer teithwyr bws, cynlluniau parcio a theithio, rheilffyrdd newydd, gan gynnwys rheilffyrdd ysgafn, darparu gorsafoedd newydd, a gwella gwasanaethau i deithwyr ar y llwybrau presennol. Bydd hyn yn cynnwys darparu llwybrau teithio llesol clir, hygyrch, diogel, uniongyrchol a deniadol i gysylltu

canolbwyntiau yn y datblygiad a gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus i wasanaethu'r datblygiad.

3. Lle bo'r angen, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu gwelliannau priodol i gyfleusterau cyfnewidfa fysiau neu reilffyrdd presennol, a darparu cysylltiadau cyfleus o ansawdd uchel i gyfnewidfeydd perthnasol er mwyn denu defnyddwyr a lleihau nifer y teithiau mewn ceir.
 4. Dylai canolfannau a phwyntiau symudedd ddarparu canolbwynt ar gyfer dewisiadau cludiant a gwasanaethau eraill, gan gysylltu pobl gyda gwahanol fathau o gludiant cyhoeddus ac a rennir ynghyd â gweithredu fel pwyntiau dosbarthu cyfunol ar gyfer parseli neu nwyddau.
5. Bydd yr ACLL yn ceisio sicrhau fod gan yr holl wasanaethau cludiant cyhoeddus a brynir ar gyfer datblygiad newydd y potensial beidio â chynhyrchu allyriadau drwy beipen fwg (trydan neu hydrogen).
6. Dylai Datganiad Isadeiledd Gwyrdd gefnogi cynnig datblygu ac amlinellu gwelliannau bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd, gan gynnwys drwy ddarparu er enghraifft, Systemau Draenio Cynaliadwy, toeau gwyrdd a'r defnydd o swbstrad y bydd disgwyl eu cynnwys ym mhob cynllun cyfnewidfeydd cludiant yn unol â pholisi NE/7, EQ/2 ac EQ/4

5.3.190 Bydd yr ACLL yn cefnogi a hyrwyddo rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau bws sydd wedi'u hintegreiddio gyda mathau eraill o gludiant cyhoeddus sy'n ddibynadwy, fforddiadwy, hyblyg, hygrych, hawdd eu defnyddio, carbon isel

ac yn annog mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn lle ceir preifat.

5.3.191 Gall datblygu canolfannau symudedd neu gyfnewidfeydd hybu integreiddio drwy ddarparu ffocws penodol a deniadol ar gyfer mynediad a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ac a rennir, sy'n canolbwyntio ar orsaf reilffordd neu safle bws presennol lle bo modd a darparu gwybodaeth hygrych ar ddewisiadau teithio ynghyd â mynediad at wasanaethau a chyfleoedd eraill (fel siopau, canolbwyntiau digidol a mannau dosbarthu pecynnau).



5.3.192 Dylai canolfannau a phwyntiau symudedd ddarparu:

1. Cydleoli dulliau symudedd cyhoeddus ac a rennir.
2. Ailddylunio gofod i leihau gofodau parcio ceir preifat a gwella'r parth cyhoeddus cyfagos.
3. Brandio clir sy'n nodi bod y gofod yn ganolfan symudedd a gwybodaeth a chynllun dangos y ffordd i ddangos y cysylltiadau i'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach.

STA/8 Safonau parcio

1. Mae'n rhaid i gynigion gynnwys darpariaeth briodol, yn unol â'r CCA Safonau Parcio diwygiedig a'r canllawiau cenedlaethol, ac ystyried y gofynion ar gyfer beiciau, ceir, Cerbydau Heb Allyriadau ac Allyriadau Isel lawn, sgwteri trydan, beiciau modur a cherbydau gwasanaeth. Mewn amgylchiadau lle na ellir darparu digon o leoedd parcio ar y safle, neu nad yw'n cael ei ystyried yn briodol, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu cyfraniad ariannol a/neu welliant ar gyfer mesurau cludiant a chyfleusterau amgen lle bo hynny'n briodol.
2. Ar safleoedd cyflogaeth, dylid rheoli'r galw am gerbydau ffordd trwy gyfyngu nifer y lleoedd parcio sydd ar gael yn gyffredinol a chreu gofodau parcio blaenoriaeth ar gyfer cerbydau a rennir/ cerbydau â mwy o bobl ynddynt a Cherbydau Allyriadau Isel lawn.
3. Ceisir darpariaeth ar gyfer mannau parcio beiciau diogel ac mewn lleoliad cyfleus a chyfleusterau cysylltiol ym mhob cynllun datblygu priodol, gan gynnwys preswyl, busnes a manwerthu yn ogystal ag unrhyw gyfnewidfeydd cludiant arfaethedig. Dylai'r cynigion gynnwys cyfleusterau parcio

beiciau gan gynnwys storio, newid a gwefru beiciau trydan, gan gynnwys storfa feiciau diogel. Mewn cynlluniau mwy, dylid sefydlu cynlluniau llogi beiciau, beiciau trydan a sgwteri trydan. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd ar gyfer teithiau cysylltu un ffordd a'r gallu i feicio neu deithio ar sgwter trydan heb gyfrifoldeb a chost perchnogaeth, cynnal a chadw a storio.

4. Ni chaniateir cynigion ar feysydd parcio a fyddai'n lleihau darpariaethau parcio lle byddai colli cyfleusterau parcio yn:
 - a. Peryglu diogelwch ar y briffordd;
 - b. Cael effaith andwyol ar hygyrchedd a / neu lif y traffig;
 - c. Yn lleihau'r darpariaethau parcio ar gyfer preswylwyr, busnesau neu ymwelwyr yn sylweddol yn absenoldeb unrhyw gyfleoedd parcio amgen priodol.
5. Dylai ardaloedd parcio ceir newydd gynnwys isadeiledd ar gyfer pwyntiau gwefru Cerbydau Allyriadau Isel lawn gan gynnwys cymysgedd o gyfarpar gwefru araf a chyflym (y rhai cyflym i gefnogi cerbydau clwb ceir yn benodol) sy'n addas ar gyfer pob math penodol o gerbydau yn unol â Pholisi STA/2. Lle bo modd dylid integreiddio'r cyfleusterau gwefru gyda chyfleusterau cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn lleol, yn unol â Pholisi EN/4 ac EN/8 a sicrhau y gwneir y mwyaf o botensial batris i ddarparu cyfleusterau storio.
6. Bydd disgwyl i welliannau bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd, gan gynnwys drwy ddarparu Systemau Draenio Cynaliadwy, gael eu hymgorffori yn yr holl gynlluniau parcio yn unol â pholisi NE/7, EQ/2 ac EQ/4.

5.3.193 Gall argaeledd lleoedd parcio gael effaith sylweddol ar y cludiant a ddewisir gan bobl. Yn unol â hynny, mae polisi'r Llywodraeth yn ceisio cyfyngu lefelau parcio sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd er mwyn gwneud llai o ddefnydd o geir preifat a hyrwyddo mathau mwy cynaliadwy o gludiant. Gall meysydd parcio hefyd ddefnyddio llawer iawn o le a, gan hynny, maent yn effeithio ar ymddangosiad datblygiad a defnydd effeithlon o dir. Mae adran 4 TAN18 yn nodi 'gall rheolaethau ar barcio, codi tâl a therfynau ar ddarpariaeth neu amser fod yn briodol pan fyddant yn ategu polisiâu defnydd tir, yn cyfrannu at leihau tagfeydd ac yn diogelu amwynderau'. Pwrpas y polisi a'r CCA hwn yw rheoli'r galw am fathau penodol o barcio, er mwyn hyrwyddo nodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y cynllun. Lle mae cyfleoedd yn codi, er enghraifft ar safleoedd defnydd cymysg, anogir parcio ceir a rennir a rhaglenni rhannu ceir i leihau'r ddarpariaeth. Bydd yr ACLI yn adolygu ei safonau parcio yng ngoleuni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ac wrth iddo gael ei ddiweddarau.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau hamdden

5.3.194 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w ddyletswydd statudol i ddiogelu rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir at ddibenion mynediad cyhoeddus a hamdden. At hynny mae nifer o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn nodweddion hanesyddol yn eu hawl eu hunain ac yn rhan o'r rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd sy'n cefnogi nifer o ecosystemau drwy gysylltu cynefinoedd. Nid yw cymeradwyo caniatâd cynllunio yn rhoi caniatâd i addasu Hawl Tramwy Cyhoeddus. Mae'n rhaid cael gorchymyn i'w wro neu ei atal ac mae'n rhaid cyflwyno cais ar wahân i'r Cyngor ar gyfer unrhyw addasiad. Mae'n rhaid cadarnhau gorchymyn gwyrdd cyn dechrau'r gwaith datblygu. Lle bo'r angen, defnyddir

amodau cynllunio i sicrhau nad yw datblygiad yn dechrau cyn gwneud trefniadau i ddarparu llwybr amgen addas. Os yw gwyrdd Hawl Tramwy Cyhoeddus yn ofynnol er mwyn galluogi datblygiad, mae'n rhaid nodi llwybr amgen a'i ymgorffori yn y cais cynllunio.

5.3.195 Yn ogystal â chyfrifoldebau statudol ar gyfer rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, mae'r polisi'n ceisio hwyluso llwybrau mynediad cyhoeddus newydd a gwell oddi ar y ffordd. Bydd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n rhwystro a / neu yn cael effaith andwyol annerbyniol ar fwynhad llwybr presennol neu lwybr newydd arfaethedig yn cael ei wrthod, oni bai y cadarnheir ac y cytunir ar lwybr amgen derbyniol cyn dechrau'r gwaith ar y datblygiad. Mae hyn yn unol â Chynllun Mynediad i Gefn Gwlad y Cyngor. Mae hefyd yn cefnogi nodau i hyrwyddo mynediad hamdden i ofodau gwyrdd trefol ac yng nghefn gwlad.

Strategaeth manwerthu a chanol trefi yn gyntaf

Amcan strategol 3 (SO3) canolfannau manwerthu a masnachol:

cyflawni canolfannau tref a masnachol ffyniannus, deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ailddiffinio eu rôl a thrwy annog amrywiaeth o weithgareddau a defnydd.

5.3.196 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu strategaeth a pholisïau clir ar gyfer datblygiad manwerthu drwy eu cynlluniau datblygu, sy'n ceisio cyflawni canolfannau manwerthu a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw. Dylent osod fframwaith ar gyfer dyfodol canolfannau manwerthu a masnachol yn eu hardal sy'n hybu sector manwerthu llwyddiannus gan gefnogi cymunedau presennol. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r amcanion canlynol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol:

- Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnesau;
- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau manwerthu a masnachol; a
- Gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachu drwy bob math o gludiant, yn enwedig cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

5.3.197 Dylai defnyddiau Manwerthu A1 (siopau) barhau i fod yn sail i ganolfannau manwerthu a masnachol, ond dylai polisïau lleol annog amrywiaeth yn y canolfannau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), bwyd a diod (A3), swyddfeydd (B1), gwestai (C1), sefydliadau addysgol ac amhreswyl eraill (D1), hamdden (D2) a defnyddiau sui generis penodol eraill fel theatrau a thai golchi. Dylid annog datblygiadau defnydd cymysg. Mae cyfleusterau hamdden a chymdeithasol hefyd yn briodol os caiff amwynder cyfagos ei ddiogelu'n briodol.

RTC/1 manwerthu a chanol trefi yn gyntaf

Bydd canolfannau manwerthu a masnachol yn ardal CDLI newydd Conwy yn ganolbwyntiau gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd ac yn bwynt ffocws i amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Bydd hyn yn cael ei annog a'i ddiogelu trwy:

1. Sefydlu hierarchaeth ar gyfer canolfannau manwerthu a fydd yn arwain lleoliad datblygiad manwerthu newydd, polisi RTC/2.
2. Dynodi ffiniau Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa mewn canolfannau manwerthu mwy, polisïau RTC/3 a RTC/4 i ddiogelu eu hiechyd manwerthu.
3. Diogelu swyddogaeth manwerthu penodol Parc Llandudno a Pharciau Manwerthu Mostyn Champneys a swyddogaeth hamdden Parc Hamdden Cyffordd Llandudno, polisi RTC/5 i amddiffyn canol trefi.
4. Annog ffryntiadau strydoedd siopa o ansawdd uchel a diogelwch blaen siopau, polisi RTC/6.
5. Darparu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer cynigion manwerthu newydd y tu allan i'r canolfannau manwerthu ac ar gyfer newidiadau defnydd yng nghanol trefi, polisi RTC/7.

5.3.198 Mae canolfannau manwerthu yn ganolfannau gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Maent yn cynnwys ystod eang o wasanaethau a defnyddiau, gan gynnwys siopa, hamdden, cyflogaeth, addysg, hunaniaeth ddinesig a chyfleoedd ar gyfer rhwyngweithio cymdeithasol. Mae'r rhain yn cefnogi anghenion y gymuned leol, ac yn achos y canolfannau mwy, y gymuned ehangach hefyd. Dylid ystyried hefyd ddefnyddio mannau cymdeithasol i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â strategaeth iaith y Cyngor.

5.3.199 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ACLI sefydlu hierarchaeth canolfannau manwerthu a masnachol. Nodir y canolfannau manwerthu yn ardal CDLI Conwy isod, fel y'u llywiwyd gan Bapur Cefndir 26: Hierarchaeth Fanwerthu.




Maent wedi'u categorieiddio yn ôl canllawiau yn Polisi Cynllunio Cymru a TAN4: Datblygiad Manwerthu a Masnachol yn seiliedig ar lefel y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarparant, dalgylchoedd eu cynnig manwerthu a maint y boblogaeth sy'n siopa yno.

RTC/2 hierarchaeth fanwerthu

1. Mae'r CDLI newydd yn sefydlu hierarchaeth fanwerthu ar gyfer canolfannau siopa yn ardal CDLI newydd Conwy yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Mae'r hierarchaeth fanwerthu ganlynol wedi'i sefydlu ac fe'i darlunir yn Ffigur 18 isod:
 - Canolfan Siopa Is-Ranbarthol: Llandudno
 - **Canol Trefi:** Abergel, Bae Colwyn, Conwy a Llanrwst.
 - **Canolfannau Lleol:** Craig y Don, Deganwy, Bae Cinmel, Llanfairfechan, Cyffordd Llandudno, Hen Golwyn, Penmaenmawr, Llandrillo-yn-Rhos, West End (Bae Colwyn)
2. Bydd cynigion ar gyfer datblygiad manwerthu yn cael eu hystyried yn unol â'r hierarchaeth hon. Llandudno, fel Canolfan Siopa Is-ranbarthol yw'r lleoliad a ffefrir ar gyfer datblygiad manwerthu newydd, ac yna'r Canolfannau Trefi dynodedig ac yna'r Canolfannau Lleol. Bydd unrhyw gynigion manwerthu y tu allan i'r canolfannau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi RTC/7 a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

Ffigur 18: map yn dangos hierarchaeth manwerthu CDLIN Conwy



Ffynhonnell: SPPS, CBSC



5.3.200 Mae nodi hierarchaeth canolfannau manwerthu yn y CDLL Newydd yn ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru ac mae'n bwysig o ran:

- Sicrhau bod bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau tref a lleol yn cael ei gynnal a'i wella fel eu bod yn ganolbwynt pwysig i'r gymuned, drwy ddefnyddio'r prawf asesu effaith
- Annog defnyddiau manwerthu a phrif ddefnyddiau canol tref mewn lleoliadau priodol sy'n hygyrch a chynaliadwy, drwy ddefnyddio dull dilyniannol i ddewis safleoedd; a
- Nodi rôl hyfyw a strategaeth ar gyfer pob canol tref.

5.3.201 Bydd angen i ddatblygiadau newydd yn y canolfannau manwerthu (gan gynnwys adeiladau newydd, ailddatblygiadau, estyniadau a newid defnydd) fod yn gydnaws â graddfa a swyddogaeth y ganolfan honno, a rhoi sylw i safle'r ganolfan yn yr hierarchaeth. Bydd angen i gynigion ar gyfer defnyddiau sy'n briodol ar gyfer canol tref, fel y'u diffinnir ym Mholisi Cynllunio Cymru, fabwysiadu dull dilyniannol o ddatblygu, gan roi blaenoriaeth i safleoedd yng nghanol y Canolfannau Is-ranbarthol a Chanol Trefi, ac yna safleoedd ar ymyl y ganolfan, y tu allan i'r ganolfan ac yna'r Canolfannau Lleol.

5.3.202 Llandudno yw'r ganolfan fanwerthu fwyaf yn ardal y CDLLIN ac mae'n denu nifer fawr o siopwyr ac ymwelwyr, gan gynnwys o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Bydd rôl is-ranbarthol Llandudno yn cael ei diogelu a'i gwella i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn lle cynaliadwy i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, trwy ddenu manwerthu newydd a defnyddiau canol tref eraill i'r ardal hon.

5.3.203 Mae rhagamcanion Papur Cefndir 61: Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf yn darparu asesiad meintiol o'r cwrmpas ar gyfer

arwynebedd llawr manwerthu a bwyd/diod newydd yn ardal y cynllun hyd at 2033. Mae'r rhagamcanion yn cysylltu â'r rhai ym Mhapur Cefndir 1 ac yn mabwysiadu rhagolygon diweddaraf Experian ar gyfer twf poblogaeth, gwariant cyfartalog fesul person, ffurfiau arbennig o fasnachu a chyfraddau twf dwysedd gwerthiant. Ystyriaeth arall yw goblygiadau hirdymor posibl pandemig COVID-19.

5.3.204 Mae Papur Cefndir 61 yn dangos bod diffyg gwariant nwyddau cymhariaeth yn cael ei ragweld ym mhob blwyddyn hyd at 2033, sy'n awgrymu gorgyflenwad o ofod llawr manwerthu, gan arwain at ragamcanion gofod llawr negyddol. Mae'r gweddill mewn gwariant hyd at 2033 yn dangos bod yna gapasiti ar gyfer gofod llawr nwyddau cyfleustra ychwanegol mewn rhai lleoliadau yn ardal y cynllun, ond mewn mannau eraill rhagwelir y bydd gormod o ofod llawr. Yn gyffredinol, mae'r capasiti ar gyfer gofod llawr nwyddau cyfleustra ar draws y Sir yn isel ar 509 m2 hyd at 2033.

5.3.205 Ar ôl pwyso a mesur, mae'r amcanestyniadau hyn yn awgrymu nad oes angen canfod safle ar gyfer datblygiad manwerthu neu fwyd/diod mawr newydd. Dylai bod y stoc bresennol o eiddo yn gallu darparu lle ar gyfer y rhan fwyaf neu'r holl dwf yn y dyfodol ac felly rhagwelir mai datblygiadau bach fydd yn dwyn ffrwyth. Felly, ystyrir y bydd capasiti yn y canolfannau manwerthu presennol a'r dull hyblyg a amlinellir ym mholisi RTC/7 yn mynd i'r afael ag unrhyw angen manwerthu dros gyfnod y cynllun.

RTC/3 Prif Ardal Siopa

Mae Prif Ardaloedd Siopa wedi'u dynodi yn Llandudno fel y dangosir ar y map cynnig. Bydd newid defnydd llawr gwaelod eiddo yn yr ardaloedd hyn o siopau Dosbarth A1 i unrhyw ddefnydd arall yn cael ei ganiatáu yn unig dim ond lle;

- a. Gellir dangos nad oes angen yr adeilad ar y llawr gwaelod ar gyfer defnydd Siop Dosbarth A1 mwyach i unrhyw ddefnydd arall, a bod cadw'r eiddo hwnnw wedi'i archwilio'n llawn, heb lwyddiant, trwy dystiolaeth farchnata ar gyfradd farchnad resymol a realistig am o leiaf 6 mis; a,
- b. Nid yw'r newid defnydd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar y swyddogaeth fanwerthu a bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd y Prif Ardal Siopa ddynodedig.

5.3.206 Nid yn unig y mae siopa yn cyfrannu at fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi, ond mae'n darparu manteision i'r economi leol a gall ategu amcanion hamdden a thwristiaeth y cynllun hwn. Felly mae'n hanfodol amddiffyn craidd manwerthu a ffyrntiadau siopau prif ganolfannau siopa a gwrthwynebu datblygiadau sy'n niweidio neu'n tanseilio'r swyddogaeth hon.

5.3.207 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog cymysgedd o ddefnyddiau i ddarparu canolfannau manwerthu bywiog, hyfyw a deniadol, gan mai dim ond rhan o'r hyn sy'n sicrhau bywiogrwydd canolfan yw defnyddiau A1.

5.3.208 Gall defnyddiau hamdden ac adloniant a bwyd a diod fod o fudd i ganolfannau manwerthu a masnachol. Rhaid rhoi sylw gofalus i ddiogelu amwynder wrth gyfrannu at economi gyda'r

nos. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog cynlluniau defnydd cymysg, sydd wedi'u cynllunio mewn ffordd briodol. Mae hefyd yn annog economi gyda'r nos ac economi nos bywiog a hyfyw, a phrofiadau a mannau diwylliannol, sydd â'r potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at adfywio canolfan.

5.3.209 Dywed TAN4, y dylid cydnabod y rôl y gall defnyddiau preswyl ei chwarae wrth gefnogi canolfannau hefyd, ac er nad yw defnydd preswyl yn debygol o fod yn briodol ar lefel y llawr gwaelod mewn prif ardaloedd oherwydd effeithiau negyddol ffyrntiadau gwag, gall defnydd o'r fath ar loriau uchaf ychwanegu at fywiogrwydd a hyfywedd canolfannau, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a chyfrannu at economïau dydd a gyda'r nos canolfan.

5.3.210 Er ei bod yn angenrheidiol amddiffyn y swyddogaeth fanwerthu o fewn canol trefi, mae hefyd yn bwysig ystyried sut y gellid osgoi neu leihau cyfraddau eiddo gwag hirdymor. Mewn achosion o'r fath, lle gofynnir am newid defnydd o A1, byddai angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o farchnata'r safle am gyfnod o 6 mis ar gyfradd resymol ar y farchnad i ddangos nad oes galw mwyach am ddefnydd dosbarth A1 yn y lleoliad hwnnw.

5.3.211 Bydd angen i'r ACLI fod yn fodlon hefyd y bydd y defnydd newydd arfaethedig yn cydymffurfio â maen prawf b) ac yn cydbwyso'r angen i leihau nifer yr unedau gwag wrth amddiffyn cyfanrwydd y brif ardal siopa. Yn benodol, rhaid cymryd gofal arbennig i atal clystyru defnyddiau a allai fod yn niweidiol i atyniad y ganolfan.

5.3.212 Bydd Polisi RTC/3 yn destun monitro ac adolygu blynyddol i atal gor-grynhoi defnyddiau sy'n niweidiol i'r ganolfan. Bydd lefel



gyffredinol yr unedau gwag a chymysgedd y defnyddiau o fewn canolfannau yn cael eu monitro'n flynyddol i benderfynu a oes angen addasu maen prawf y polisi o 6 mis i 12 mis.

Parthau Siopa RTC/4

1. Mae Parthau Siopa wedi'u dynodi ar y map cynigion yn Llandudno, Bae Colwyn, Abergele, Conwy a Llanrwst. Mae'r rhain yn Ganolfannau Trefi dynodedig ym mholisi RTC/22.
2. Dim ond lle mae'r newid defnydd arfaethedig yn cynnal neu'n gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol y dref ac yn cydymffurfio â'r polisiâu creu lleoedd y caniateir newidiadau i ddefnydd yr eiddo ar y llawr gwaelod yn yr ardaloedd hyn o Siopau Dosbarth A1 i ddefnyddiau eraill.

5.3.213 O fewn y Parthau Siopa dynodedig, mae rhagdybiaeth o blaid cadw defnyddiau dosbarth A1, ond cydnabyddir y gall defnyddiau eraill, yn enwedig defnyddiau dosbarth A3 (megis caffis/bwyta), masnachol, hamdden a defnyddiau'r sector gwasanaeth fod yn dderbyniol lle mae hyn yn gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd y canolfannau. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai polisiâu cynllunio annog amrywiaeth o ddefnyddiau priodol mewn canolfannau. Felly, dylid rhoi sylw arbennig i osgoi clystyru rhai defnyddiau lle mae'r rhain yn niweidiol i atyniad y ganolfan megis ffryntiadau siopau gwag yn ystod y dydd, problemau amwynder, ac ati.

5.3.214 Ar gyfer newidiadau defnydd i A3, bydd angen i'r ACLI fod yn fodlon na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar atyniad y ganolfan yn deillio o or-grynodiad o ddefnyddiau A3, a/neu'n achosi effaith andwyol annerbyniol ar amwynder preswyl, diogelwch y cyhoedd, sŵn a throseddu. Bydd tystiolaeth

berthnasol a gyflenwir gan adrannau eraill y Cyngor a chyrrff allanol megis yr Heddlu hefyd yn cael ei hystyried lle mae hyn yn ffurfio ystyriaeth gynllunio berthnasol.

5.3.215 Mae Papur Cefndir/61: Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf yn amlinellu argymhellion penodol i ganolfannau, gan gynnwys newidiadau i Brif Ardaloedd Siopa a Pharthau Siopa er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer defnyddiau amgen i leihau'r cyfraddau gwag uchel mewn rhai canolfannau. O fewn canol trefi, gyda'u cysylltiadau trafndiaeth da, gall datblygiad preswyl chwarae rhan bwysig, ar safleoedd addas, i gynyddu nifer y bobl sy'n byw yng nghanol y trefi ac yn cefnogi eu gwasanaethau a chyfleusterau.

RTC/5 parciau manwerthu a hamdden

1. Mae'r parciau manwerthu a hamdden canlynol, fel y'u nodir ar y map cynigion, wedi'u diogelu ar gyfer eu defnyddiau a'u fformatau penodol:
 - a. Parc Manwerthu Mostyn Champneys, Llandudno
 - b. Parc Manwerthu Parc Llandudno
 - c. Parc Hamdden Cyffordd Llandudno
2. Bydd cynigion yn y safleoedd hyn, gan gynnwys newid defnydd, estyniadau, uno neu is-rannu unedau presennol, lloriau lledlawr neu amrywio/cael gwared ar amodau cynllunio presennol yn cael eu caniatáu yn unig lle:
 - a. Gellir dangos bod angen ychwanegol am y cynnig na ellir ei ddarparu o fewn y Ganolfan Siopa Is-ranbarthol neu'r Canol Trefi dynodedig presennol, fel y'u diffinnir ym mholisi RTC/2; ac,



- b. Ni fyddai'r cynnig, naill ai'n unigol neu'n gronnus gyda'r datblygiadau cydsyniol presennol a/neu'r datblygiad arfaethedig mewn ceisiadau cynllunio eraill, yn cael effaith annerbyniol ar y swyddogaeth fanwerthu a bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi, y Prif Ardaloedd Siopa a'r Parthau Siopa (lle cânt eu nodi).

5.3.216 Mae Parc Manwerthu Mostyn Champneys a Pharc Llandudno wedi'u lleoli ar gyrion canol tref Llandudno ac yn cyflawni swyddogaethau manwerthu gwahanol i'r rhai a geir fel arfer yng nghanol trefi. Mae Parciau Manwerthu Mostyn Champneys a Pharc Llandudno yn cynnwys siopau manwerthu maint mawr yn bennaf gyda lle parcio ceir cysylltiedig. Bydd y parciau manwerthu hyn yn cael eu diogelu i gadw eu cymeriad maint mawr ac i ategu'r Prif Ardal Siopa hanesyddol a Pharth Siopa Llandudno.

5.3.217 Yng nghyd-destun Parc Manwerthu Mostyn Champneys, mae'r manwerthu yn canolbwyntio ar werthu nwyddau swmpus a nwyddau mewn swmp, tra bod Parc Llandudno yn cynnwys manwerthwyr maint mawr sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn swmpus. Fel y nodwyd yn PCC, ni ddylai graddfa, math a lleoliad datblygiadau manwerthu o'r fath danseilio bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi. Hefyd, mae cytundebau cyfreithiol ac amodau cynllunio ar waith i gyfyngu ar newid defnydd ac israniad unedau yn y lleoliadau hyn.

5.3.218 Mae Parc Hamdden Cyffordd Llandudno yn gyfleuster hamdden ac adloniant sefydledig sy'n cynnwys sinema aml-sgrin a siopau bwyd cysylltiedig a lle parcio. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at y ffaith y gall y defnyddiau hamdden hyn fod o fudd i ganolfannau manwerthu a masnachol

a gallant gyfrannu at economi gyda'r nos lwyddiannus. Anogir diogelu datblygiadau hamdden cymysg o'r fath lle bo'n briodol i hyrwyddo canolfannau bywiog yn ystod y dydd a gyda'r nos.

RTC/6 cynllun blaen siopau a diogelwch

1. Bydd yr ACLL yn caniatáu cynigion ar gyfer blaenau siopau newydd neu addasiadau i flaenau siopau presennol dim ond os ydynt yn gydnaws â'r adeilad a'i amgylchoedd.
2. Ni chaniateir ceisiadau i osod caeadau rholio solet neu dyllog ar flaenau siopau, neu ar eiddo eraill mewn ffryntiadau strydoedd siopa.
3. Dim ond lle mae'r rhwyllau wedi'u hintegreiddio i ddyluniad blaen y siop heb effaith weledol andwyol, ac yn gydnaws â gweddill drychiad yr adeilad a golygfa'r stryd, y bydd yr ACLL yn cefnogi ceisiadau ar gyfer rhwyllau rholio allanol a rhwyllau symudadwy ar flaenau siopau ac eiddo masnachol.

5.3.219 Mae blaenau siopau yn hanfodol wrth ffurfio cymeriad ac ymddangosiad ffryntiadau siopau. Mae'r ACLL yn rhoi pwyslais sylweddol ar flaenau siopau sydd wedi'u cynllunio'n addas ac yn hygyrch, nid yn unig i gadw cymeriad adeiladau, ond hefyd i gadw atyniad cyffredinol strydoedd ac i gynnal eu hyfywedd masnachol. Gall datblygiadau amhriodol gael effaith andwyol ddifrifol nid yn unig ar yr adeilad ond hefyd ar olygfa'r stryd, a photensial masnachu'r stryd.

5.3.220 Mae cwsmeriaid a busnesau fel ei gilydd yn elwa os caiff amgylchedd y stryd ei wella gan flaenau siopau sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn hygyrch ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Mewn pentrefi bydd yn bwysig parchu cymeriad presennol y



stryd a'r pentref, tra mewn canolfannau siopa mwy o fewn yr aneddiadau trefol a'r Ganolfan Wasanaeth Allweddol, bydd y pwyslais ar greu a chynnal amgylchedd bywiog o ansawdd. Dylid cydnabod y gall llawer o flaenau siopau fod yn adeiladau rhestredig ac wedi'u lleoli o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Yn unol â strategaeth Gymraeg y Cyngor, dylid ystyried defnyddio arwyddion dwyieithog, yn enwedig mewn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol y CDLL, fel Llanrwst.

- 5.3.221 Dylid darparu lle bo modd ar gyfer mynediad hawdd i bobl ag anableddau yn ogystal â phramiau a chadeiriau gwrthio. Dylai drysau a mynedfeydd fod yn lefel a/neu gyda ramp ac yn ddigon llydan i gael mynediad. Lle mae adeilad wedi'i restru, bydd cynigion yn cael eu barnu ar eu rhinweddau eu hunain, gan efallai na fydd yn bosibl creu mynediad llawn lefel heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad neu'r ffabrig hanesyddol sydd wedi goroesi. Mae cyngor mewn perthynas â mynediad cynhwysol wedi'i gynnwys yn Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd yn cael eu drafftio i gefnogi'r polisi hwn.

RTC/7 datblygiad manwerthu newydd

Dim ond y tu allan i'r Canolfannau Is-ranbarthol, Tref a Lleol dynodedig y caniateir datblygiad manwerthu newydd, lle:

- Mae angen profedig am yr arwynebedd llawr arfaethedig;
- Ni ellir darparu ar gyfer yr angen yn foddhaol o fewn neu gerllaw'r Canolfannau Is-ranbarthol, Tref a Lleol dynodedig;

- Ni fyddai'r cynnig yn achosi niwed annerbyniol i fywiogrwydd, atyniad na hyfywedd y Canolfannau Is-ranbarthol, Tref a Lleol;
- Mae'r cynnig mewn lleoliad cynaliadwy a byddai'n hygyrch i'r gymuned leol y bwriedir iddi ei gwasanaethu ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed a beic yn unol â pholisïau STA ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

- 5.3.222 Lle nad oes unrhyw safleoedd manwerthu wedi'u dyrannu, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi, er mwyn caniatáu hyblygrwydd, y dylid cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu y gellir asesu cynigion yn eu herbyn. Mae'r dull hwn yn caniatáu ar gyfer unrhyw newidiadau i'r angen manwerthu sy'n deillio o newidiadau annisgwyl yn y farchnad fanwerthu ond mae hefyd yn amddiffyn yr hierarchaeth fanwerthu ddynodedig (polisi RTC/2).

- 5.3.223 Rhaid i geisiadau datblygu manwerthu ddarparu tystiolaeth o angen meintiol neu ansoddol i gefnogi'r cynnig ar ffurf Prawf Anghenion Manwerthu, yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

- 5.3.224 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod mai canolfannau manwerthu a masnachol yw'r canolbwynt ar gyfer siopa, hamdden a thwristiaeth, gwasanaethau lleol a chyfleoedd busnes/cyflogaeth. Mae'r dull 'canol trefi yn gyntaf' hwn yn sicrhau mai canolfannau manwerthu a masnachol ddylai fod y lleoliad dewis cyntaf ar gyfer amrywiaeth eang o ddatblygiadau. Mae cydleoli'r defnyddiau hyn a'u lefelau uchel o hygyrchedd



trwy ystod o opsiynau trafnidiaeth yn eu gwneud yn lleoliadau cynaliadwy.

5.3.225 Mae'r prawf dilyniannol, fel y manylir ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN4 yn anelu at gyfarwyddo datblygiadau manwerthu at ganolfannau presennol lle bynnag y bo'n bosibl, neu i ymyl canolfannau o'r fath, os nad oes safleoedd o fewn y canolfannau ar gael. Dim ond lle mae angen am ofod llawr manwerthu ychwanegol wedi'i ddangos, ac nad oes unrhyw leoliadau mewn canolfannau dynodedig, neu'n gyfagos atynt, yn gallu diwallu'r angen hwnnw, y dylai lleoliadau tu allan i'r canol gael ystyriaeth.

5.3.226 Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r datblygwr ddarparu Asesiad o'r Effaith ar Fanwerthu ar gyfer ceisiadau manwerthu o arwynebedd llawr gros arfaethedig o 2,500 m² neu fwy, ar gyfer datblygiad ar ymyl neu du allan i'r canol, sy'n bodloni'r angen manwerthu a'r profion dull dilyniannol. Gall cynigion sy'n cyflwyno arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol, gan gynnwys ailddatblygu, estyniadau, lloriau lledlawr, israniad, a newidiadau defnydd hefyd fod yn berthnasol i'r polisi hwn.

Strategaeth cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

SO4: Cyfrannu at synnwyr o le ac iechyd, lles ac amwynder cyffredinol cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan y grwpiau poblogaeth presennol a rhai'r dyfodol fynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.

5.3.227 Mae cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn allweddol i greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy a chefnogi'r iaith a'r diwylliant

Cymraeg drwy hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd, mannau claddu, canolfannau hamdden, adeiladau cymunedol a lleoedd addoli. Gallant fod ym mherchnogaeth y cyhoedd, preifat a'r trydydd sector.

5.3.228 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu fod ag ymagwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu cyfleusterau cymunedol, gan sicrhau fod gofynion y gymuned yn parhau i gael eu diwallu. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos fod gan Fwrdeistref Sirol Conwy strwythur poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd y CDLIN yn cefnogi cyfleusterau cymunedol i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eraill sy'n byw'n lleol. Hefyd bydd angen i adeiladu tai newydd sicrhau fod anghenion y preswylwyr newydd o ran cyfleusterau cymunedol penodol yn cael eu diwallu.

CFS/1 cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol

Er mwyn cyfrannu at iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol, bydd yr ACLL yn:

1. Gwella a diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.
2. Dyrannu tir ar gyfer rhandiroedd a darparu polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf i ddiwallu'r angen a nodwyd a chynigion ategol yn amodol ar feini prawf penodol ym mholisi CFS/2 rhandiroedd newydd a phresennol.
3. Dyrannu a chefnogi'r defnydd o dir priodol ar gyfer claddfeydd i ddiwallu angen a nodwyd ym mholisi CFS/3 claddfeydd.

4. Dyrannu a diogelu tir ar gyfer safleoedd ysgolion newydd. Bydd cynigion cyfleusterau cymunedol newydd yn cael eu cefnogi i ddiwallu'r angen a nodwyd yn amodol ar feini prawf penodol ym mholisiau CFS/4 cyfleusterau cymunedol newydd.
5. Diogelu cyfleusterau gwledig rhag defnyddiau eraill yn unol â pholisi CFS/5 colli cyfleusterau cymunedol.

5.3.229 Mae cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn cyfrannu at ymdeimlad o le sy'n bwysig i addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, lles, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu bodolaeth yn aml yn elfen allweddol wrth greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Mae mynediad i'r cyfleusterau hyn, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, yn rhoi cyfle i fod yn rhan o fywyd cymunedol gan helpu i greu ymdeimlad o berthyn, sy'n cyfrannu at fyw cydlynol. Mae cefnogi cyfleusterau cymunedol presennol a rhai newydd yn ffactor allweddol mewn creu lleoedd bywiog, cymdeithasol a chynaliadwy. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol o fewn y gymuned rydych chi'n byw ynddi yn hynod bwysig ac mae darparu'r seilwaith cefnogol i hyn ddigwydd yn hanfodol o ran cynllunio.

CFS/2 rhandiroedd newydd a phresennol

1. Mae tir wedi ei ddyrannu i ddiwallu angen a nodwyd am rhandiroedd o fewn y lleoliadau safle canlynol:
 - a. Safle Llanrhos 91
 - b. Safle Hen Golwyn 68
 - c. Safle Llanrwst 56
2. Bydd cynigion ar gyfer rhandiroedd newydd y tu allan i'r safleoedd a ddyrannwyd neu estyniadau i safleoedd presennol yn cael eu cefnogi ar safleoedd addas a hygyrch mewn cymunedau lle mae angen a nodwyd.
3. Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n arwain at golli safleoedd rhandiroedd presennol neu a ddyrannwyd, ac eithrio:
 - a. Lle bo'n addas, gwneir darpariaeth amgen yn y gymuned leol sydd o leiaf yn gyfwerth o ran maint, hygyrchedd ac ansawdd â'r hyn a fydd yn cael ei golli;
 - b. Lle gellir dangos nad oes angen cymunedol hirdymor am y rhandiroedd mwyach; neu,
 - c. Lle mae budd economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol sy'n drech na hynny i'r gymuned leol.

5.3.230 Mae rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol yn adnodd cymunedol pwysig, sydd ag ystod eang o fuddion cadarnhaol. Fel yr amlinellwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae'r rhain yn amrywio o effeithiau amgylcheddol, iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Gall mannau tyfu cymunedol fod yn fodd o ddod â grwpiau cynhyrchu bwyd, defnyddwyr a chymunedol ynghyd i



weithio gyda'i gilydd, gyda'r amcan cyffredinol o sicrhau bod bwyd a dyfir yn lleol a bwyd dros ben ar gael i gymunedau lleol. Gallant gyfrannu tuag at synnwyr o le a chymuned, gallant helpu i adfywio cymuned a mannau agored, cyfrannu tuag at gynhyrchu bwyd, darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt ac mae ganddynt fanteision i iechyd a lles.

5.3.231 Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd i fodloni'r galw a nodir yn lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai tir gael ei ddrynnu ar gyfer rhandiroedd ac mae Papur Cefndir 30: Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Rhandiroedd yn nodi fod nifer sylweddol o breswylwyr Conwy ar y rhestr aros am randir ymhob ardal yn y Fwrdeistref Sirol.

5.3.232 Gall rhagor o safleoedd rhandiroedd ddod ar gael yn ystod cyfnod y CDLIN. Bydd addasrwydd y safleoedd hyn yn cael eu hasesu ar y pryd. Mae'n rhaid i'r safleoedd fod yn hygyrch i bawb, gyda chyflwr tir priodol ar gyfer defnyddio rhandiroedd.

5.3.233 Gall y Cyngor gymryd cyfrifoldeb am reoli unrhyw safleoedd rhandiroedd yn y dyfodol, ar yr amod nad oes unrhyw gostau beichus yn y dyfodol i'r Cyngor a bod mynediad llawn, di-rwysr yn cael ei ddarparu. Os na ellir cytuno ar hyn, gall y Cyngor gynorthwyo gyda rheoli'r safle a dod o hyd i denantiaid priodol.

5.3.234 Mae gan rhandiroedd statudol amddiffyniad cyfreithiol ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydsynio i'w gwaredu. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid cadw a diogelu rhandiroedd, yn enwedig os ydynt yn rhan bwysig o'r seilwaith gwyrdd neu os oes ganddynt werth cymunedol.

5.3.235 Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu rhandiroedd dim ond oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio a'u hesgeuluso.

5.3.236 Dim ond os dangoswyd nad oes angen y rhandiroedd, lle darperir darpariaeth amgen well neu o'r un ansawdd neu lle mae'r golled yn darparu buddion economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol sylweddol i'r gymuned leol y caniateir datblygiad a fyddai'n cael gwared ar rhandiroedd o ddefnydd yn gyfan gwbl. Gall hyn gynnwys darparu lefel foddhaol o dai fforddiadwy, cyfleusterau cymunedol neu gyfleusterau hamdden eraill, seilwaith cadwraeth natur/gwyrdd neu ddefnydd economaidd-gymdeithasol arall er budd yr ardal leol.

CFS/3 Claddfeydd

Caiff cynigion ar gyfer claddfeydd newydd neu estyniadau/gwelliannau i gladdfeydd presennol eu cefnogi ar safleoedd sy'n addas i'r amgylchedd ac yn hygyrch yn amodol ar fod yn unol â'r polisiau creu lleoedd a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

5.3.237 Er mwyn diwallu'r angen am gapasiti claddu yn ardal y CDLI Newydd, mae'r ACLI wedi ymgymryd â gwaith i nodi lleoliadau addas ar gyfer estyniadau i fynwentydd presennol, neu diroedd claddu newydd.

5.3.238 Mae mynwentydd ac amlogfeydd ill dau yn ddarostyngedig i reoliadau diogelu'r amgylchedd llym sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Amlogfeydd (1902) a gwelliannau a deddfwriaeth amgylcheddol arall. Dylid dilyn canllawiau eraill wrth gynllunio a



gweinyddu cyfleusterau claddu, gan gynnwys canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru.

5.3.239 Mae mynwentydd ac eglwysi wedi'u nodi fel teipolegau mannau agored yn TAN 16 Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored ac ym Mhapur Cefndir 28 Asesiad Mannau Hamdden gan y gallant fod yn hafanau o fannau gwyrdd a thawelwch mewn ardaloedd sydd fel arall yn adeiledig. Er bod yn rhaid i unrhyw ddefnydd ar gyfer hamdden fod yn amlwg yn is-gysylltiedig â'u prif swyddogaeth fel mannau claddu, ac yn gydnaws â nhw, maent yn un agwedd ar y parth cyhoeddus a all ddarparu lleoedd ar gyfer cerdded neu fyfyrion dawel. Gallant hefyd wasanaethu fel cynefin gwerthfawr i goed a fflora a ffawna eraill ac fel rhan o'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd.

5.3.240 Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 12 mynwent i gyd, ac mae gan 6 ohonynt le claddu ac amlosgi ar gael. Mae estyniad newydd ei adeiladu ym Mynwent Llanrhos yn darparu tua 10 mlynedd o le claddu. Mae claddfeydd dolydd hefyd dan ystyriaeth gan Wasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau'r Cyngor. Mae'r dull polisi cadarnhaol a rhagweithiol yn cefnogi defnyddio safleoedd sy'n briodol yn amgylcheddol ac yn hygyrch ar gyfer defnyddiau o'r fath lle mae angen.

5.3.241 Ystyrir y bydd yr adolygiadau mawr o'r CDLI bob pedair blynedd yn galluogi adolygu'r sefyllfa tir claddu gan ganiatáu i unrhyw ddiffygion sylweddol posibl tua diwedd cyfnod y CDLI gael eu datrys lle bo angen.

CFS/4 cyfleusterau cymunedol newydd

1. Mae tir wedi'i ddyrannu neu ei ddiogelu fel y nodir ar y mapiau cynigion at ddibenion cyfleusterau ysgol newydd neu estynedig yn y lleoliadau canlynol;
 - a. Dyraniad yn safle 157 Llanfairfechan (gweler polisi PL/17); a,
 - b. Tir wedi'i ddiogelu ger Ysgol Sŵn y Don, Hen Golwyn.
2. Cefnogir cynigion ar gyfer adeiladu cyfleusterau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn amodol ar gydymffurfio â'r holl feini prawf asesu canlynol:
 - a. Byddai'n hygyrch i'r gymuned leol y bwriedir iddi ei gwasanaethu ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed a beic yn unol â pholisïau STA ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol;
 - b. Mae o fewn, neu'n uniongyrchol gysylltiedig â ffin anheddiad neu gymuned leol wedi'i diffinio;
 - c. Ni fyddai'n niweidio amwynder eiddo preswyl cyfagos yn ormodol;
 - d. Ni fyddai'n tynnu oddi ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal;
 - e. Ni fydd yn arwain at broblemau parcio neu draffig annerbyniol; a,
 - f. Mae wedi'i gynllunio gyda hyblygrwydd ac addasrwydd priodol i ddarparu ar gyfer defnyddiau cymunedol ychwanegol heb beryglu ei brif ddefnydd bwriadedig.



- 5.3.242 Mae cyfleusterau cymunedol yn allweddol i greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy a chefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Gall cyfleusterau o'r fath gynnwys ysgolion, gwasanaethau diwylliannol ac iechyd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, adeiladau cymunedol a mannau addoli.
- 5.3.243 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth tuag at gyflawni Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) 9 mlynedd y Gwasanaeth Addysg gan nodi meysydd/prosiectau yr hoffent eu datblygu fel rhan o'u Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae hyn yn dilyn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif lle sicrhawyd bandiau penodol o gyllid a chyflwynwyd ysgolion newydd yn llwyddiannus.
- 5.3.244 Mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn rhaglen buddsoddi cyfalaf mawr, hirdymor a strategol. Ei nod yw creu cymunedau addysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yng Nghymru.
- 5.3.245 Bydd capasiti ysgolion newydd ac estyniadau i ysgolion presennol a gynigir o dan y SOP yn adlewyrchu unrhyw dwf newydd mewn disgyblion ysgol a achosir gan y CDLIN. Bydd tir ar safle CDLIN Llanfairfechan yn cael ei ddyrannu ar gyfer ysgol newydd a bydd tir gerllaw Ysgol Sŵn y Don yn cael ei ddiogelu ar gyfer ehangu yn y dyfodol os oes angen. Os bydd unrhyw newidiadau i'r rhaglen ysgolion a phrosiectau yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun, bydd polisi creu lleoedd PL/17 Llanfairfechan hefyd yn berthnasol.
- 5.3.246 Bydd yr effaith bosibl ar gapasiti ysgolion CBSC a achosir gan unrhyw newid yn nifer y plant y bydd Strategaeth a safleoedd y CDLIN yn arwain ato yn cael ei monitro. Bydd rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer safle ysgol newydd neu

estyniad i ysgol bresennol yn cael eu ceisio o ddatblygiad preswyl newydd lle ystyrir ei fod yn angenrheidiol i liniaru'r effaith ar gapasiti ysgolion, yn unol â pholisi PL/12.

- 5.3.247 Mae'n debygol y bydd angen safleoedd ysgol pellach yn ystod cyfnod y cynllun i gyflawni'r SOP a datblygiadau eraill o gyfleusterau addysgol a all ddod ymlaen ar wahân i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r prosiectau hyn, mae polisi sy'n seiliedig ar feini prawf wedi'i gynnwys yn y CDLIN. Bydd y polisi hwn yn arwain datblygiad safleoedd ysgolion ac yn sicrhau eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u lleoli yn y safleoedd mwyaf priodol a chynaliadwy.
- 5.3.248 O ran darpariaeth iechyd yn y sir, mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i rhannu'n ddwy ardal Clwstwr Gofal Sylfaenol: Dwyrain Conwy a Gorrlewin Conwy. Mae 20 o feddygfeydd yn y Fwrdeistref Sirol (yn cynnwys canghennau) ac mae 116,864 o gleifion wedi cofrestru â nhw.
- 5.3.249 Bydd angen i safleoedd gofal iechyd cynradd ac eilaidd allu cydweddu â'r boblogaeth newidiol dros gyfnod y CDLIN. Mae ein poblogaeth yn heneiddio, sy'n rhoi pwysau gwahanol ar y gwasanaethau iechyd a gofal iechyd. Bydd y twf yn y boblogaeth a gynigir yn y CDLIN a'r effaith bosibl ar gapasiti corfforol safleoedd gofal iechyd cynradd ac eilaidd yn cael ei asesu. Lle bo'r angen bydd camau i liniaru hynny wrth ddyrannu safleoedd preswyl. Papur Cefndir 44: Newid yn y Boblogaeth, Tai a'r Effaith ar Iechyd/Gofal Sylfaenol
- 5.3.250 Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu dull cadarnhaol at unrhyw gynigion am gyfleusterau gofal iechyd newydd neu estyniadau i rai presennol. Bydd ar geisiadau am safleoedd newydd angen



dangos eu bod wedi defnyddio'r dull canol trefi'n gyntaf yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol.

- 5.3.251 Y lliniaru arfaethedig dros gyfnod y CDLIN yw ceisio cyfraniadau ariannol gan rai datblygiadau a, lle bo cyfiawnhad, yn unol â pholisi PL/12. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu capasiti ffisegol mewn cyfleusterau iechyd ac addysg presennol. Dylid nodi yma bod rhai cyfleusterau iechyd yn wynebu anawsterau oherwydd recriwtio a/neu faterion rheoli o bosibl. Dim ond ar gyfer mesurau lliniaru ffisegol yn unig y gellir defnyddio cyfraniadau Adran 106 ac felly mae ymdrin ag unrhyw broblemau staffio y tu allan i gylch gwaith y CDLIN.

CFS/5 colli cyfleusterau cymunedol

Yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, byddai colli siopau, swyddfeydd post, neuaddau, tai tafarn mewn cymdogaeth neu bentref a chyfleusterau cymunedol eraill (neu rannau ohonynt) yn cael ei ganiatáu yn unig dim ond lle:

- a. byddai'r gymuned leol yn parhau i gael ei gwasanaethu gan gyfleusterau cyfatebol eraill o fewn yr yn pentref neu gymdogaeth; neu
- b. mae'r cyfleuster wedi bod yn wag neu heb ei ddefnyddio am o leiaf blwyddyn ac mae ymdrechion dyls i farchnata'r cyfleuster ar gyfer defnydd cymunedol cyfatebol, am o leiaf blwyddyn, wedi bod yn aflwyddiannus.

- 5.3.252 Mae cyfleusterau cymunedol yn yr ardaloedd gwledig yn rhan hanfodol o gynaliadwyedd a lles cymunedau lleol. Mae cyfleusterau o'r fath hefyd yn bwysig os yw'r iaith a'r diwylliant Cymraeg am oroesi a ffynnu mewn cymunedau Cymraeg eu

hiaith ac Ardaloedd a ddynodwyd o Sensitifrwydd leithyddol y CDLIN (polisi PL/7). Mae iaith fywiog yn gysylltiedig ag economi ffyniannus. Yn unol â strategaeth hyrwyddo'r iaith Gymraeg CBSC fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Iaith Gymraeg, mae gan yr awdurdod cynllunio ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol pobl sy'n byw yn yr ardal. Er mwyn i gymunedau fod yn gynaliadwy, mae angen iddynt gynnwys neu gael mynediad at ystod o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol fel siopau, tafarndai, neuaddau pentref ac ati. Mae hyn yn annog pobl i barhau i fyw'n lleol a gwario arian yn eu hardal ac adeiladu cymuned leol gynaliadwy. Mae'r polisi hwn yn ceisio amddiffyn a chadw cyfleusterau cymunedol lle bo modd a chaniatáu creu cyfleusterau newydd mewn lleoliadau priodol a chynaliadwy.

- 5.3.253 Cyfleusterau cymunedol yw'r rhai sydd o fudd a gwerth i'r gymuned leol, yn darparu lleoliad ar gyfer swyddogaethau cymdeithasol a chyfarfodydd ac yn elwa'r economi leol.
- 5.3.254 O ran marchnata cyfleusterau cymunedol, bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ategol bod y cyfleuster wedi cael ei farchnata'n weithredol am o leiaf blwyddyn am bris realistig, yn seiliedig ar werth marchnad priodol, sy'n adlewyrchu'r defnydd presennol.

Strategaeth mannau hamdden

SO5: Annog lles corfforol a meddyliol trwy ddarparu a diogelu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da a rhwydweithiau mannau hamdden.

- 5.3.255 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da, mewn



lleoliad da. Dylid datblygu polisiau clir ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon, hamdden a hamdden, sy'n gosod safonau ar gyfer darpariaeth, gan nodi diffygion lleol, y gellir eu diwallu drwy'r broses gynllunio.

5.3.256 Mae mannau hamdden yn chwarae rhan ddeuol drwy ddarparu lle ar gyfer chwarae, chwaraeon, gweithgaredd corfforol iach a lle i ymlacio. Maent hefyd yn rhan o'r rhwydwaith o fannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel, sy'n chwarae rhan mewn cadwraeth natur, amwynder gweledol a bioamrywiaeth. Mae treulio amser mewn mannau gwyrdd yn bwysig i blant, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd, gan ddarparu cyfleoedd i chwarae, ymarfer corff ac ymlacio mewn mannau naturiol. Dylid ystyried gofod hamdden fel pob man agored o werth cyhoeddus, gan gynnwys nid yn unig tir, ond hefyd ardaloedd dŵr fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwarae, chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, a gallant hefyd weithredu fel amwynder gweledol, a gallant fod o bwys cadwraeth, diwylliannol a bioamrywiaeth.

5.3.257 Dylai'r holl fuddion a amlinellir uchod hefyd fod o fudd i'r iaith Gymraeg oherwydd bod y mannau hyn yn helpu i wneud lleoedd deniadol ac o ansawdd da i fyw a gweithio ynddynt ac felly eu mwynhau ac aros ynddynt. Mae cyfleoedd i ddod â phobl ynghyd hefyd yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ymarfer y Gymraeg, fel dysgwyr y Gymraeg. Mae'r rhain hefyd yn darparu cyfleoedd pontio'r cenedlaethau i bobl gyfarfod a defnyddio'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol sydd yn ei dro yn helpu i gyflawni amcanion strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor.

5.3.258 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai mannau agored a chaeau chwarae ffurfiol ac anffurfiol gael eu diogelu rhag datblygiad. Mae hyn yn berthnasol i dir preifat a thir cyhoeddus.

5.3.259 Mae Papur Cefndir 28: Asesiad Mannau Hamdden wedi asesu'n llawn faint o ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus ffurfiol ac anffurfiol o fewn ardal y CDLIN ac yn cymharu'r ddarpariaeth hon â'r safonau meincnod a gymeradwywyd gan ganllawiau Meysydd Chwarae Cymru.

RS/1 mannau hamdden

Ar gyfer diogelu, darparu a gwella mannau hamdden yn ardal y CDLIN, mae'r canlynol yn berthnasol:

1. Bydd gofyn i ddatblygiadau preswyl newydd ddarparu ar gyfer mannau hamdden yn unol â pholisi RS/2 datblygu a mannau hamdden.
2. Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n arwain at golled anghyfiawn o gyfleusterau cymunedol a hamdden fel yr amlinellir ym mholisi RS/3 diogelu mannau hamdden presennol.
3. Caniateir cynigion newydd sy'n darparu a/neu'n gwella, neu'n ymestyn mannau a/neu gyfleusterau hamdden yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl ym mholisi RS/4 mannau hamdden newydd.

5.3.260 Mae PCC a TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i gefnogi datblygiad chwaraeon a hamdden a ffurfiau eraill o fannau agored cyhoeddus. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau hamdden, yn darparu lle i ymlacio a chyfrannu



tuag at ansawdd bywyd. Maent yn annog gweithgarwch corfforol sy'n cyfrannu tuag at sicrhau Cymru iachach (nod tri yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

5.3.261 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol fod rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn cael ei nodi, ei reoli a'i ehangu mewn cynlluniau datblygu. Mae mannau hamdden yn rhan o'r isadeiledd hwn. Mae'n bwysig bod y CDLIN yn cydnabod

pwysigrwydd seilwaith gwyrdd wrth gyflawni manteision amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol ac iechyd lleol, a nodwyd fel materion allweddol yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych a pholisïau STA.

5.3.262 Mae PCC a TAN16 yn dweud y dylid sefydlu safonau a dylid nodi a diwallu diffygion lleol drwy safonau'r CDLIN.

RS/2 datblygu a mannau hamdden

1. Rhaid i ddatblygiadau tai newydd gydag enillion net o 5 neu fwy o anheddau gynnwys mannau hamdden o fewn cynllun y safle datblygu ar gyfer anghenion a mwynhad eu trigolion yn unol â'r safonau canlynol ar gyfer mannau agored a chymhareb gyfrannol o 3.55 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth:

Teipoleg	Canllaw maint (hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth)	Diffiniad
Caeau chwarae	1.2ha	Meysydd chwaraeon gan gynnwys pêl-droed, rygbi, hoci, lacrosse, criced a pêl-droed Americanaidd
Chwaraeon awyr agored eraill	0.4ha	Cyrtiau a lawntiau sy'n cynnwys arwynebau naturiol neu artiffisial, gan gynnwys cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, traciau athletau ac ardaloedd chwaraeon awyr agored eraill
Ardaloedd chwarae gydag offer/dynodedig	0.3ha	Ardal Leol ar gyfer Chwarae (LAP), Ardal Leol wedi'i Thirweddu ar gyfer Chwarae (LLAP) ac Ardaloedd â Chyfarpar Lleol ar gyfer Chwarae (LEAP) wedi'u hanelu at blant a all chwarae'n annibynnol, yn ogystal ag Ardaloedd Chwarae â Chyfarpar Cymdogaeth (NEAP)
Chwarae Anffurfiol	0.3ha	Ardaloedd gemau aml-ddefnydd pob tywydd (MUGA) gan gynnwys parciau sglefrfyrdio



Teipoleg	Canllaw maint (hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth)	Diffiniad
Parciau a gerddi	0.8ha	Mannau gwyrdd gan gynnwys parciau trefol, parciau gwledig, parciau coedwig a gerddi ffurfiol
Man gwyrdd amwynder	0.6ha	Mannau hamdden anffurfiol, sgwariau cyhoeddus, mannau gwyrdd cymunedol mewn tai ac o'u cwmpas, grŵn pentrefi
1. Mewn amgylchiadau eithriadol a chyfiawn, rhoddir ystyriaeth i ddarparu swm cymudo fel dewis arall yn lle darpariaeth ar y safle, neu ran ohoni, yn unol â'r safonau hyn ar gyfer mannau agored a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.		

5.3.263 Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl ddarparu ar gyfer mannau hamdden yn seiliedig ar Bapur Cefndir 28, TAN16 a'r safonau a argymhellir gan ganllawiau Meysydd Chwarae Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion mae angen i ddatblygiadau tai ymgorffori mannau chwarae ac amwynder mewn cynllun, neu lle nad yw hynny'n ymarferol, dylid gwneud cyfraniad ariannol wedi'i sicrhau drwy ymrwymiad cynllunio o dan Adran 106 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

5.3.264 Mae tystiolaeth hyfywedd ariannol wedi dangos bod hyfywedd llawer o safleoedd llai yn heriol (Papur Cefndir 10). Mae hyn wedi arwain at osod trothwyon ar gyfer ceisio cyfraniadau tai fforddiadwy mewn rhai amgylchiadau (polisi HS/3). Oherwydd bod tai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth uwch, ni fyddai'r ACLL yn gyffredinol yn ceisio cyfraniadau ar gyfer mannau hamdden o safleoedd nad oes gofyn iddynt gyfrannu at ddarpariaeth tai fforddiadwy. Yn ogystal, mae cyfyngiadau cronni ASC yn cyfyngu ar allu'r ACLL i geisio a gwario rhai cyfraniadau A106 o lawer o safleoedd bach. Am y

rhesymau hyn ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall, ni cheisir cyfraniadau ariannol tuag at fannau hamdden o ddatblygiadau sydd ag enillion net o lai na 5 annedd.

5.3.265 Bydd darpariaeth teipoleg ar y safle a/neu oddi ar y safle yn cael ei hasesu yn seiliedig ar nifer yr anheddau a gynigir, gyda disgwyl i ddatblygiadau mwy (200 o anheddau neu fwy) ddarparu'r holl le chwaraeon awyr agored a chwarae plant ar y safle. Ar gyfer safleoedd llai (llai na 200) efallai y byddai'n briodol cael cymysgedd o ddarpariaeth ar y safle a chyfraniad ariannol at fannau hamdden oddi ar y safle. Disgwylir i bob datblygiad o 5 annedd neu fwy ddarparu mannau gwyrdd amwynder ar y safle. Disgwylir i ddatblygiadau o 30 neu fwy o anheddau ddarparu lleoedd chwarae i blant ar y safle. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ddarparu lle hamdden a symiau cymudo yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio a Phapur Cefndir 28: Asesiad Gofod Hamdden.

5.3.266 Mae canllawiau Meysydd Chwarae Cymru hefyd yn argymhell safon o 2.0 hectar i bob 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer man



gwyrdd naturiol a rhannol naturiol. Mae Papur Cefndir 28 yn nodi bod lefelau digonol o'r deipoleg hon yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ac felly, ni fydd angen darpariaeth ychwanegol fel arfer.

5.3.267 Ymdrinnir â darparu rhandiroedd, sydd hefyd yn deipoleg o ofod hamdden yn TAN16, o dan bolisi CFS/2 y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

5.3.268 I sicrhau darpariaeth ar y safle neu welliannau i fannau hamdden oddi ar y safle, fe all yr ACLI ddefnyddio'r mesurau canlynol:

- Rhwymedigaethau cynllunio drwy Gytundebau Adran 106;
- Ardoll Seilwaith Cymunedol; a/neu
- Amodau Cynllunio.

5.3.269 Bydd hyfywedd ariannol yn ystyriaeth gynllunio a bydd y datblygwr yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw fannau hamdden newydd am byth.

RS/3 diogelu mannau hamdden presennol

1. Bydd safleoedd hamdden presennol yn cael eu diogelu. Dim ond lle mae'r cynnig yn dangos manteision cymunedol sylweddol yn deillio o'r cynnig y caniateir cynigion ar gyfer datblygu'r safleoedd hyn at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â hamdden.

2. Mewn cymunedau lle mae prinder amlwg o fannau hamdden, rhaid gwneud darpariaeth addas, amgen yn y gymuned leol sydd o leiaf yn gyfwerth o ran maint, hygrychedd, swyddogaeth ac ansawdd â'r hyn a gollir.

3. Cefnogir cynigion sy'n cynnwys ailddatblygu rhan fach o'r mannau hamdden presennol yn unig, lle mae'n gwella ac yn cadw'r ddarpariaeth yn y tymor hwy.

5.3.270 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol gael eu diogelu rhag datblygiad. Ni fydd datblygu'r safleoedd hyn i ddefnydd arall yn cael ei ganiatáu, oni bai fod yna nifer gormodol o'r math hwnnw o fan hamdden yn y gymuned leol. Bwriad hyn yw i ddiogelu eu rôl mewn cyfrannu tuag at yr amgylchedd naturiol ac iechyd a lles. Fe allai parciau a gerddi fod yn cael eu diogelu ymhellach os ydynt yn ased hanesyddol ac wedi eu rhestru.

5.3.271 Lle mae gormod o ddarpariaeth mewn cymuned leol, gellir cefnogi colledion lle mae datblygwr hefyd yn dangos sut y bydd y cynnig yn dod â manteision sylweddol i'r gymuned honno megis darparu lefel foddhaol o dai fforddiadwy, cyfleusterau cymunedol, seilwaith cadwraeth natur/gwyrdd, cyfleusterau hamdden neu fanteision economaidd-gymdeithasol eraill a allai fod yn briodol.

5.3.272 Gellir caniatáu datblygu safle gofod hamdden ar gyfer defnyddiau eraill hefyd mewn amgylchiadau eithriadol eraill. Er enghraifft, os gellir darparu darpariaeth amgen o fudd cymunedol cyfatebol yn yr un gymuned, sydd o'r un ansawdd ac yn adlewyrchu'r amseroedd teithio a argymhellir a sefydlwyd yng nghanllawiau Meysydd Chwarae Cymru, neu ddatblygu rhan



fach o'r gofod hamdden lle mae'n sicrhau dyfodol y gofod hamdden hwnnw, a bod y cyfleusterau'n cael eu gwella.

- 5.3.273 Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu gofod hamdden dim ond oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio a chael eu hesgeuluso'n fwiadol neu eu ffensio i ffwrdd o ddefnydd cyhoeddus.

RS/4 manau hamdden newydd

Bydd cynigion ar gyfer manau hamdden newydd, hygrych a chynhwysol neu estyniadau a/neu welliannau i'r manau hamdden presennol yn cael eu cefnogi, yn amodol ar gydymffurfio â safonau'r Cyngor ar gyfer manau agored, canllawiau Meysydd Chwarae Cymru a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

- 5.3.274 Dylid annog defnydd lluosog o ofod a chyfleusterau hamdden lle bo'n briodol, er mwyn cynyddu eu defnydd effeithiol. Dylid ystyried defnyddio tir a llwybrau segur fel parciau, parciau llinol neu lwybrau gwyrdd a darparu llwybrau beicio a llwybrau troed diogel a deniadol. Ni ddylai hyn fod er anfantais i ddefnyddwyr cyfagos, bywyd gwyllt nac amddiffynfeydd rhag llifogydd.
- 5.3.275 Dylai manau hamdden hefyd fod yn hygrych trwy ystod o opsiynau teithio cynaliadwy, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus, llwybrau cerdded a beicio yn unol â pholisïau Ardaloedd Teithio Cynaliadwy ar drafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol.
- 5.3.276 Ym mhob achos, dylai manau hamdden gael arwyddion dwyieithog lle mae'r Gymraeg uwchlaw'r Saesneg. Rhaid i enwau ar gyfer y safleoedd hefyd ystyried ymdeimlad o le a

chymeriad yr ardal a rhaid manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio enwau Cymraeg lle bo'n bosibl ac yn briodol. Er enghraifft, defnyddio enwau Cymraeg sy'n dynodi'r ardaloedd - e.e. enwau'r tir fferm y cafodd y datblygiad ei adeiladu arno, enwau'r mynyddoedd a'r afonydd yn y Gymraeg, a chyfeiriad at hanes a threftadaeth y safleoedd sy'n siarad Cymraeg er mwyn hyrwyddo ymdeimlad unigryw o le a pherthyn.

5.4 Thema Strategol 3: lleoedd ffyniannus yng Nghonwy

Cyflwyniad

- 5.4.1 Mae'r thema lleoedd ffyniannus yn ymdrin â chyfansoddion economaidd wrth greu lleoedd yn ardal CDLIN Conwy. Mae'r cydrannau hyn yn cyd-fynd â'r holl themâu a pholisïau a nodir yn y fframwaith polisi creu lleoedd. Gyda'i gilydd, mae'r pedair thema yn dod ynghyd i gyfrannu tuag at y canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol.
- 5.4.2 Mae'r thema lleoedd ffyniannus CDLIN Conwy yn cynnwys datblygiad economaidd, twristiaeth, fframwaith cynllunio sero net a mwynau a gwastraff.
- 5.4.3 Mae lleoedd ffyniannus yng Nghonwy yn rhai sy'n hyrwyddo ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ddarparu cyflogaeth gysylltiedig a datblygiad economaidd cynaliadwy. Mae'r lleoedd hyn yn cael eu dylunio a'u lleoli i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a mynd i'r afael â newid hinsawdd yng Nghonwy. Fe gyflawnir hyn trwy sicrhau ei bod yn hawdd cerdded a beicio; yn hygrych ar gludiant cyhoeddus; lleihau'r defnydd o adnoddau na ellir ei adnewyddu; a defnyddio ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Mae lleoedd sy'n



ffyniannus yn cyfrannu tuag at saith nod Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys:

5.4.4 Mae'r thema lleoedd ffyniannus yn cynnwys y polisiau canlynol:

Strategaeth datblygu economaidd

ED/1 datblygu economaidd

ED/2 dyraniadau cyflogaeth

ED/3 datblygiadau B1, B2 a B8 newydd ar safleoedd heb eu
dyrannu.

ED/4 diogelu safleoedd swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8

ED/5 ardaloedd gwella cyflogaeth swyddfeydd a diwydiannol

ED/6 arallgyfeirio ffermydd ac ehangu busnesau mewn ardaloedd
gwledig

ED/7 telathrebu

ED/8 clystyrau busnes.

Strategaeth Twristiaeth

TO/1 twristiaeth

TO/2 atyniadau hamdden a thwristiaeth cynaliadwy newydd

TO/3 lletyau gwyliau Llandudno

TO/4 safleoedd cabannau, carafanau sefydlog a charafanau
teithiol

TO/5 llety gwyliau effaith isel

Fframwaith cynllunio sero net

EN/1 fframwaith cynllunio sero net

EN/2 cyflawni sero net mewn datblygiadau newydd

EN/3 adeiladau ynni effeithlon

EN/4 ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel a thechnoleg di-
garbon parod

EN/5 allyriadau carbon heb eu rheoleiddio a charbon ymgorfforedig
mewn adeiladau

EN/6 asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiadau
newydd

EN/7 gwrthbwysu a dal a storio carbon

EN/8 cysylltu â'r grid a storio ynni

EN/9 cynhyrchu ynni lleol a chynllun ynni ardal leol (LAEP)

EN/10 grid clyfar a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal

EN/11 datblygiad solar a gwynt ar y tir a rhwydweithiau gwresogi ac
oeri ardal

EN/12 isadeiledd ar y tir sydd wedi'i gysylltu ag ynni adnewyddadwy
ar y tir

Mwynau a Gwastraff

MW/1 mwynau a gwastraff

MW/2 echdynnu mwynau

MW/3 diogelu creigiau caled ac adnoddau tywod a graean

MW/4 parthau clustogi chwarel

MW/5 cynigion ar gyfer rheoli gwastraff

MW/6 defnydd o dir diwydiannol ar gyfer cyfleusterau rheoli
gwastraff

MW/7 parth clustogi tirlenwi

Strategaeth datblygu economaidd

SO7: cefnogi ffyniant economaidd, arallgyfeirio ac adfywio yn

hirdymor drwy fanteisio ar safle strategol Conwy yng nghyd-destun

y rhanbarth ehangach a hyrwyddo strategaeth gyfannol ar gyfer twf

cyflogaeth a thai, a fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r mathau

iawn mewn mannau hygyrch a chynaliadwy, cefnogi rhwydweithiau

a chlystyrau busnes, hybu sgiliau ar gyfer swyddi â chyflogau da a

darparu'r isadeiledd newydd angenrheidiol, a bydd hynny at ei

gilydd yn galluogi busnesau newydd i sefydlu yng Nghonwy a'r busnesau presennol i dyfu.

- **SO9:** hyrwyddo a chefnogi economïau gwledig cynaliadwy a ffyniannus trwy sefydlu menter newydd, ehangu busnes presennol a thrwy fabwysiadu dull adeiladol o ran amaethyddiaeth a newid arferion ffermio.

5.4.5 Mae'r bennod hon yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer cyflawni'r strategaeth defnydd tir economaidd yn ardal y CDLIN. Mae'n cynnwys polisiâu sy'n trosi lefelau twf swyddi a chyflenwad tir cyflogaeth presennol yn ddryaniadau tir cyflogaeth, yn caniatáu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd mewn lleoliadau addas eraill, diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol presennol ac yn darparu hyblygrwydd ar gyfer ehangu ac arallgyfeirio busnesau yn yr ardal wledig.

5.4.6 Mae strwythur cyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy'n wahanol i Brydain Fawr ar y cyfan. Crebachodd y sail cynhyrchu'n sylweddol yn y tair degawd ddiwethaf nes gostwng i 4.3% o'r holl swyddi erbyn 2020, a chyflogir cyfran helaeth o'r boblogaeth yn y diwydiannau gwasanaethau (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) a'r sector twristiaeth. Mae'r nifer o bobl a gyflogir mewn sectorau a nodweddir gan sgiliau a chyflogau uchel fel gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes yn gymharol isel ym Mwrdeistref Sirol Conwy, lle mae'r gyfran o'r swyddi hynny yng nghyfanswm yr holl swyddi'n 13% o gymharu â 25% ym Mhrydain yn gyffredinol.

5.4.7 Mae cyfran uchel o'r swyddi mewn sectorau sy'n dibynnu ar dwristiaeth fel manwerthu, llety a bwyd yn ogystal â'r celfyddydau, adloniant a hamdden – 32% o'r holl swyddi o gymharu ag 21% yn genedlaethol. Y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o gynnig gwaith rhan amser neu dymhorol a chyflogau isel.

5.4.8 Amcangyfrifir ar sail ffigyrau STEAM 2022 bod y diwydiant twristiaeth yn darparu 9,520 o swyddi'n uniongyrchol ac yn cynnal 2,350 o swyddi eraill yn anuniongyrchol – cyfanswm o tua 11,870 o swyddi, sef bron i chwarter yr holl swyddi ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Daw twristiaeth â thua £1,097 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.

5.4.9 Bydd Bargen Dwf Gogledd Cymru'n effeithio ar ddyheadau economaidd, y ddarpariaeth a'r canlyniadau yn y rhanbarth. Mae'r Fargen yn cynnal pump o raglenni: Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, Cysylltiadau Digidol, Dyfeisgarwch ym maes Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth, Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel, a'i nod yw denu buddsoddiadau gwerth mwy na £1 biliwn i ogledd Cymru i greu 4,000 o swyddi newydd a rhoi hwb o £2.4 biliwn i'r Gwerth Ychwanegol Gros. Disgwylir y daw hynny â buddion economaidd cadarnhaol i Gonwy a bwriedir gweithredu o leiaf un o brosiectau'r Fargen Dwf yn y Sir.

5.4.10 Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cyfleu cefnogaeth gref LLC i ddatblygu'r economi sylfaenol yng ngogledd Cymru. Mae'n esbonio bod yr economi sylfaenol "yn cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n annatod i lesiant lleoedd, cymunedau a phobl, ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl." Yng Nghonwy, mae'r economi sylfaenol yn cynnwys y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu,



tai cymdeithasol, adfywio a thwristiaeth. Lluniwyd y polisïau yn y bennod economaidd hon, felly, nid yn unig i ddiogelu tir dosbarth B ond hefyd i ddiwallu anghenion yr economi sylfaenol er mwyn hwyluso creu swyddi newydd mewn sectorau traddodiadol nad ydynt yn perthyn i ddosbarth B a tharo cydbwysedd rhwng hynny a'r angen i ddiogelu tir dosbarth B. Dylid nodi bod adrannau eraill o'r CDLIN hwn yn canolbwyntio'n benodol ar dwristiaeth a manwerthu, a dylid cyfeirio at y rheiny hefyd wrth ystyried materion cynllunio defnydd tir.

5.4.11 Wrth gasglu'r sail tystiolaeth ynghyd, bu Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy'n ystyried y newidiadau cyfredol yn yr hinsawdd economaidd a'r hyn y rhagwelir a fydd yn newid yn y dyfodol, ac mae'n nodi y bydd angen rhwng 14 ac 20 o hectarau ledled Conwy hyd 2033. Mae hynny'n seiliedig ar amryw sefyllfaoedd posib a rhagolygon ynghylch y farchnad lafur, tueddiadau mewn sectorau a chyfraddau cyfranogi yn y gorffennol. Yn unol â'r dewis a ffefrir ar gyfer twf, detholwyd y sefyllfa o fod angen 16 o hectarau, gan fod hynny'n ystyried rhagolygon Experian o'r twf mewn swyddi yn yr ardal a'r prosiectau twf rhanbarthol a weithredir hyd 2033 (gweler Papur Cefndir 18 – Adolygiad Tir Cyflogaeth).

5.4.12 Mae Papur Cefndir 19: Dadansoddiad o Farchnad Fasnachol Conwy, yn nodi bod gan Conwy fwy o ofod swyddfa (a llai o ofod diwydiannol) na Chynghorau eraill yn y Gogledd a thrwy Gymru gyfan yn ôl eu maint. Mae'r galw am safleoedd diwydiannol yn y Fwrdeistref Sirol yn fwy na'r hyn y gellir ei gyflenwi oherwydd prinder safleoedd diwydiannol pwrpasol rhwng 2,000 troedfedd² a 5,000 troedfedd². Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, mae angen creu unedau diwydiannol newydd ar hyd cyntedd yr A55 a chreu

gwell amrywiaeth o swyddfeydd fel y gall busnesau ehangu heb orfod gadael y Fwrdeistref Sirol.

5.4.13 Mae'n hollbwysig cynnal yr economi wledig, gan gydnabod effeithiau posib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig Covid-19 ar y galw am wahanol fathau o dir yng nghefn gwlad. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, rhoddir mwy o hyblygrwydd i fusnesau gwledig sy'n bwriadu ehangu eu gweithrediadau presennol. Cedwir at y dull dilyniannol ym mholisi ED/3 er mwyn dal i annog busnesau i glustnodi safleoedd mewn mannau cynaliadwy. Mae cydnabod a chefnogi'r Gymraeg ym mhob ardal yn y sir, ac yn arbennig yr ardaloedd sensitif dynodedig, yn bwysig iawn er mwyn creu economïau iach gan ganiatáu i'r Gymraeg ffynnu. Mae Polisi ED/1 yn croesgyfeirio polisi PL/7 (Polisi Iaith Gymraeg) i sicrhau bod datblygiadau yn hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg trwy gynnal asesiadau effaith a darparu mesurau lliniaru yn ôl yr angen.

5.4.14 Cydnabyddir y bydd prosiectau datblygu a sectorau twf ym Mwrdeistref Sirol Conwy a'r cyffiniau'n creu galw sylweddol am sgiliau penodol. Yn yr Asesiad Anghenion Sgiliau (Papur Cefndir 20), sonnir fod yno/y bydd yn debygol o fod prinder gweithwyr adeiladu, peirianwyr (trydanol a mecanyddol), syrfewyr, rheolwyr prosiectau ac arbenigwyr mewn ecoleg ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill yng Ngogledd Cymru yn y pymtheg mlynedd nesaf. Rhagwelir twf ym maes twristiaeth hefyd yn Strategaeth Economaidd Conwy 2017-2027, a bydd mwy o angen am swyddi a sgiliau i gynnal y sector hwnnw yn ôl pob tebyg. I grynhoi, felly, er nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu fod angen creu sefydliad addysg uwch newydd yng Nghonwy, gallai fod mwy o drafod rhwng darparwyr addysg uwch a'r Cyngor ynglŷn â chyfleoedd i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau.

ED/1 datblygu economaidd

Mae'n bwysig iawn bodloni anghenion cyflogaeth y Sir o safbwynt defnyddio tir a hynny sydd wrth wraidd y strategaeth twf ar sail cyflogaeth yn y CDLIN. I gynorthwyo wrth gyflawni'r twf a ragwelir yn y Sir, pennwyd gofyn am 16.4 o hectarau o dir cyflogaeth wedi'i rannu'n 35% ar gyfer defnydd B1a/b a 65% ar gyfer B1c/B2/B8. Cyflawnir y strategaeth twf ar sail cyflogaeth yn y dulliau canlynol:

1. Yn ogystal â'r cyflenwad presennol o dir cyflogaeth, neilltuwyd 12.65 o hectarau o dir cyflogaeth yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir fel y nodir ar y map cynigion (yn unol â pholisi ED/2).
2. Caniatáu datblygiadau newydd B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol) a B8 (Storio a Dosbarthu) neu gymysgedd o'r rheiny ar dir heb ei neilltuo, yn unol â'r dull dilyniannol o sicrhau y defnyddir safleoedd mewn canol trefi a thir a ddatblygwyd eisoes yn hytrach na safleoedd tir glas (yn unol â pholisi ED/3).
3. Bydd y Cyngor yn ceisio diogelu safleoedd cyflogaeth dosbarth B presennol a'r rhai a neilltuir er mwyn sicrhau y cyflenwir digon o dir cyflogaeth yn y mannau iawn (yn unol â pholisi ED/4).
4. Nodi'r safleoedd cyflogaeth hynny a fyddai'n elwa ar wella eu hamwynderau ym Mholisi ED/5 ac ar y map cynigion. Bydd yn rhaid i gynigion ar gyfer datblygu'r safleoedd hynny ddangos bod modd iddynt wella'r amwynderau sydd yno.
5. Caniatáu, mewn egwyddor, trosi adeiladau gwledig at ddibenion busnes, yn unol â Pholisi PL/10.

6. Cefnogi, mewn egwyddor, arallgyfeirio ar ffermydd ac ehangu busnesau gwledig presennol y tu allan i ffiniau aneddiadau (yn unol â pholisi ED/6).
7. Cydnabod a hyrwyddo'r Gymraeg wrth ystyried cynigion datblygu at ddefnydd cyflogaeth (yn unol â pholisi PL/7)
8. Cefnogi, mewn egwyddor, darparu isadeiledd band eang cyflym ledled Conwy yn ogystal â chysylltiadau telathrebu dibynadwy (yn unol â pholisi ED/7).
9. Cefnogi, mewn egwyddor, datblygu Clystyrau Busnes yn y Sir sydd o fudd i'r economi a'r gymuned leol (yn unol â pholisi ED/8).

5.4.15 Darparodd Papur Cefndir 18: Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy ystod o senarios ar gyfer twf economaidd hyd at 2033. Detholwyd yr ail un o'r sefyllfaoedd hynny, 'Experian', fel y dewis a ffefrir ar y sail resymegol a bennir yn Atodiad 1 i Bapur Cefndir 18. Mae'n dod i'r casgliad y byddai angen i Gonwy greu lle ar gyfer 1,500 o swyddi ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol newydd, sy'n galw am oddeutu 16 o hectarau o dir cyflogaeth yn nosbarth defnydd B, ac mae hynny'n cymryd i ystyriaeth y sbardunau twf fel Bargaen Dwf Gogledd Cymru a thueddiadau mewn sectorau. Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn datgan, ar sail nifer y swyddi arfaethedig yn y diwydiannau hyn a'r modd y dosrennir y cyflenwad presennol o dir cyflogaeth, y dylid rhannu'r dyraniadau a'r cyflenwad o dir a danddefnyddir yn 35% ar gyfer swyddfeydd B1a/b a 65% ar gyfer Diwydiant a Warysau B1c/B2/B8. Dengys Dadansoddiad Marchnad Fasnachol Conwy bod y mannau delfrydol ar gyfer tir cyflogaeth newydd ar hyd cyntedd yr A55, a bod Mochdre, Cyffordd Llandudno, Conwy a Bae Cinmel yn ardaloedd poblogaidd ar hyn o bryd.

5.4.16 O ran faint o gyflenwad tir sydd yng Nghonwy, mae canlyniadau o Bapur Cefndir 17: Cyflenwad Tir Cyflogaeth wedi cael eu crynhoi yn ffigur 19 isod:

Ffigur 19: tabl yn dangos cyflenwad tir cyflogaeth yng Nghonwy Ebrill 2024

Cyflenwad tir	Maint mewn hectarau
Cyflenwad tir cyflogaeth presennol o bob ffynhonnell (lleiniau heb eu datblygu, unedau gwag)	24.6
Cyfanswm yr addasiadau ansoddol i'w didynnu o'r cyflenwad	(19.13)
Cyfanswm y cyflenwad fel y'i haddaswyd	5.47
Ychwanegu datblygiadau a gwblhawyd (net) / ymrwymwyd iddynt sydd heb eu cynnwys uchod	3.79
Cyfanswm cyflenwad tir Ebrill 2024	9.26
CYFANSWM Y TIR SYDD EI ANGEN YN ÔL FERSIWN ADNEUO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (targed yr Adolygiad Tir Cyflogaeth o dwf o 16.4ha a didynnu cyfanswm y cyflenwad o 9.26ha)	7.14

Ffynhonnell: Papur Cefndir 17: Cyflenwad Tir Cyflogaeth

5.4.17 Ceir cyflenwad o tua 9 o hectarau o dir cyflogaeth ar hyn o bryd, sy'n cynnwys tir a ddynodwyd sy'n sefyll yn wag, datblygiadau

newydd a ganiatawyd ac unedau gwag ar barciau busnes presennol. Golyga hynny fod angen dyrannu tua 7-8 o hectarau o dir newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

5.4.18 Mae'r CDLIN cyfredol yn diogelu Tir Llwyd at ddibenion cyflogaeth, ond gan ystyried y cyfyngiadau arwyddocaol oherwydd peryglon llifogydd, nid yw'r cyflenwad yn cynnwys y tir sy'n weddill yn Nhir Llwyd sydd heb ei ddatblygu. Nid yw hynny'n golygu na fydd yno unrhyw ddatblygiad yn Nhir Llwyd, fodd bynnag, a chaiff ceisiadau unigol eu hystyried yn ôl eu rhinweddau.

5.4.19 Diogelir safleoedd cyflogaeth B1, B2 a B8 presennol a'r rhai a ddynodir (yn amodol ar fodloni'r meini prawf) rhag eu troi at ddibenion eraill, oni bai fod modd dangos nad oes galw am ei ddefnydd presennol mwyach. Hyrwyddir dulliau doethach o ddefnyddio gofod swyddfa presennol os nad oes galw mwyach am ddefnyddio'r stoc at ddibenion traddodiadol B1, yn unol â Dadansoddiad Marchnad Fasnachol Conwy (Papur Cefndir 19). Er bod angen diogelu tir cyflogaeth B1, B2 a B8 lle mae galw amdano, cydnabyddir hefyd y gall dulliau defnyddio eraill gynhyrchu cyflogaeth hefyd, fel clinigau D1, gwasanaethau ariannol A2 a rhai mathau penodol o ddibenion hamdden a sui generis. Os bernir nad oes galw am ddibenion dosbarth B mwyach, gallai dulliau defnyddio eraill fod yn dderbyniol yn ôl yr egwyddor canol trefi'n gyntaf ac ar sail unrhyw brofion dilyniannol sydd eu hangen a'r meini prawf ym Mholisi ED/4.



ED/2 dyraniadau cyflogaeth

Dyrennir 12.65 o hectarau o dir ar gyfer cymysgedd o gyflogaeth B1, B2 a B8 yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir ar y safleoedd canlynol a nodir ar y Map Cynigion:

- Chwarel Llanddulas (Ardaloedd 1, 2 a 3)
- Tir ger Bryniau, rhwng Wormhout Way a Ffordd Conwy, Llandudno

5.4.20 Mae swm y tir a ddyrannwyd yn gyson â'r cyfanswm o 16.4ha sydd ei angen yn ôl yr Adolygiad Tir Cyflogaeth, gan ystyried y cyflenwad presennol ar ffurf safleoedd gwag/wedi'u diogelu fel y nodir yn y tabl isod. Dylid cydnabod na chaiff yr holl dir ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun, ac felly mae'r targed o 16.4ha yn fymryn o orgyflenwad o'r hyn sydd ei angen. Daw cynlluniau i ddatblygu rhywfaint o'r tir yn Chwarel ar waith tua diwedd cyfnod y Cynllun a rhagwelir y bydd datblygu'r tir hwnnw'n parhau ar ôl 2033. Gwneir gwaith monitro blynyddol i gael deall faint o dir a ddatblygir o gymharu â'r cyfanswm sy'n ofynnol, gan ystyried y rhaniad yn ôl dosbarthiadau defnydd.

5.4.21 Er mwyn atal datblygiadau amhriodol ar y safleoedd hyn, fe'u cedwir y tu hwnt i ffiniau'r aneddiadau ac fe'i diogelir ar gyfer y dibenion cyflogaeth priodol a nodir yn y tabl isod:

Ffigur 20: manylion ac amseriad dyraniadau cyflogaeth

Rhif y safle	Enw'r safle a'i leoliad	Dosbarth defnydd	Camau Datblygu	Maint mewn hectarau
115 (1)	Chwarel Llanddulas, Ardal 1	B1/B2/B 8	2027-2029	0.8*
115 (2)	Chwarel Llanddulas, Ardal 2	B1/B2/B 8	2028-2032	4*
115 (3)	Chwarel Llanddulas, Ardal 3	B1/B2/B 8	O 2032 ymlaen	4*
103	Tir ger Bryniau, rhwng Wormhout Way a Ffordd Conwy, Llandudno	B1	2028-2033 a thu hwnt	3.85
Cyfanswm	Pob safle	B1/B2/B 8	2027-2033 a thu hwnt	12.65

Ffynhonnell: Papur Cefndir 17: Cyflenwad Tir Cyflogaeth

*Sylwer mai'r maint yw arwynebedd y tir y gellir ei ddatblygu gan ystyried y llwyfannau datblygu / ail-broffilio tir.

5.4.22 Ni chaniateir newid defnydd o ddosbarth B uchod ond os nad yw'r newid hwnnw'n cael effaith andwyol ar y strategaeth gyflogaeth gyffredinol, yn unol â'r maen prawf yn rhan 1 o Bolisi ED/4. Detholwyd y safleoedd yn Chwarel Llanddulas (Ardaloedd 1, 2 a 3) i'w dyrannu ar sail proses drylwyr i asesu'r safle, gan gynnwys ymgynghoriad statudol (ac anstatudol). Gan fod y safleoedd hyn eisoes wedi'u datblygu i raddau helaeth a'u bod yn gorwedd mewn ardaloedd trefol, yn agos at gyntedd yr A55 ac wrth ymyl yr A547, maent wedi perfformio'n dda o'u barnu yn ôl yr egwyddorion yn yr asesiad o'r farchnad fasnachol.

5.4.23 Mae Ardal 1 yn Chwarel Llanddulas ar oledf ac mae'n cynnwys adfeilion yr isadeiledd ar gyfer echdynnu mwynau o Chwarel Llanddulas yn y gorffennol. Mae Ardaloedd 2 a 3 yn cynnwys hen dyllau chwarel a'r rhan helaeth ohonynt heb eu hadfer. Yn Ardal 2 ceir llwyfannau grisiog â rampiau rhyngddynt ac mae yno lyn bach yn Ardal 3. Er bod rhannau o Ardaloedd 1, 2 a 3 eisoes yn addas ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau adeiladu, byddai gofyn am waith paratoadol trylwyr i greu llwyfan ddigonol ar gyfer datblygiadau helaeth. Gallai hynny gynnwys draenio'r llyn bach yn Ardal 3, creu llwyfannau datblygu yn Ardaloedd 2 a 3 ac ail-broffilio rhywfaint o'r tir yn Ardal 1. Ceir ychwaneg o wybodaeth am ddatblygu'r safle hwn yn yr adran o'r Cynllun hwn o'r enw Creu Lleoedd – Dewisiadau Strategol a Gofodol yng Nghonwy.

5.4.24 Tir yn Bryniau, Llandudno - Mae'r safle hwn wedi'i leoli ar ymyl ddeheuol Llandudno, ar dir sydd wedi'i leoli i'r de o Queen's Road. Yn mesur tua 3.85ha, mae'r safle ar hyn o bryd yn

cynnwys glaswelltir a gwrychoedd, gyda choed ar hyd y ffiniau gogleddol, deheuol a dwyreiniol. Mae seilwaith presennol o amgylch y safle cyfan, sef Conway Road (B5115) i'r gorllewin a Wormhout Way (A470) i'r dwyrain, gyda'r ddwy ffordd yn cydgyfarfod ar gylchffordd tua'r gogledd. Mae Mynwent Llanrhos yn union i'r de. O ystyried ei leoliad o fewn Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Creuddyn a Chonwy, mae'r safle'n addas ar gyfer datblygiad defnydd swyddfa dosbarth B1 yn hytrach na defnydd diwydiannol. Ceir ychwaneg o wybodaeth am ddatblygu'r safle hwn yn yr adran o'r Cynllun hwn o'r enw Creu Lleoedd – Dewisiadau Strategol a Gofodol yng Nghonwy.

ED/3 datblygiadau B1, B2 a B8 newydd ar safleoedd heb eu dyrannu

1. Cefnogir datblygu safleoedd newydd B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol), B8 (Storio a Dosbarthu) neu gymysgedd o'r defnyddiau hynny ar safleoedd cyflogaeth heb eu dyrannu ar sail ddilyniannol fel y nodir yn y Dull Dilyniannol isod ac yn amodol ar fodloni'r meini prawf canlynol:
 - a. Bod y cais yn briodol o ran ei raddfa a natur ei leoliad
 - b. Na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar breswylwyr yr eiddo cyfagos neu'r amgylchedd
 - c. Bod y datblygiad arfaethedig yn hygyrch a bod hynny'n gynaliadwy.
2. Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi dilyn dull dilyniannol wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd dosbarth B. Mae'r drefn flaenoriaeth fel a ganlyn:

- **Blaenoriaeth 1** – Safleoedd cyflogaeth ac adeiladau presennol, gan gynnwys safleoedd wedi'u diogelu / i'w gwella



ac ar gyfer defnydd swyddfa B1, dylid ymchwilio yn gyntaf oll i dir a ddatblygwyd eisoes ynghanol trefi ac mewn canolfannau lleol, yn unol â'r dull 'canol trefi yn gyntaf'.

- **Blaenoriaeth 2** – Tir a ddatblygwyd eisoes mewn rhannau eraill o Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir, Canolfan Wasanaeth Allweddol, Prif Bentrefi yn Haen 2 a Phentrefi Bach, gan gynnwys safleoedd mewnlenwi a therfynu. Mewn cefn gwlad agored, ystyrir ceisiadau i ailddatblygu tir a ddatblygwyd eisoes yn unol â Pholisi PL/10, trosi adeiladau gwledig.
 - **Blaenoriaeth 3** – Tir glas o fewn ffiniau aneddiadau Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir, canolfannau gwasanaeth allweddol a Phrif Bentrefi yn Haen 2, gan gynnwys safleoedd mewnlenwi a therfynu.
 - **Blaenoriaeth 4** – Tir glas sy'n ymestyn aneddiadau y tu hwnt i'w ffiniau yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir, canolfannau gwasanaeth allweddol a Phrif Bentrefi yn Haen 2.
 - **Blaenoriaeth 5** – Tir glas mewn Pentrefi Bach, gan gynnwys safleoedd mewnlenwi a therfynu.
3. Asesir ceisiadau gan fusnesau lleol presennol sydd angen adeiladau newydd a thir i ehangu yn unol â pholisi ED/6.

5.4.25 Yn ogystal â'r cyflenwad presennol o dir cyflogaeth a'r hyn a ddyrannwyd, bydd yr awdurdod cynllunio hefyd yn ystyried ceisiadau ar gyfer swyddfeydd a datblygiadau economaidd diwydiannol ar safleoedd heb eu dyrannu. Asesir ceisiadau felly ar sail dull sy'n cyfeirio gweithgarwch datblygu economaidd i'r mannau mwyaf priodol yn ôl y canllawiau a'r argymhellion mewn polisiau cynllunio cenedlaethol Dengys Ffigur 21 y mathau o dir y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd:





Ffigur21 : tabl yn dangos dull dilyniannol ar gyfer datblygiadau newydd B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol), B8 (Storio a Dosbarthu) neu gymysgedd o'r rheiny

Hierarchaeth cynladwyedd	Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA)	Canolfan Gwasanaeth Allweddol	Gwledig: Prif Bentrefi Haen 2	Gwledig: Mân Bentrefi
Safleoedd cyflogaeth presennol	1	1	1	Amherthnasol
Safleoedd Cyflogaeth wedi'u dyrannu / dynodi / diogelu	1	1	Amherthnasol	Amherthnasol
Tir a Ddatblygwyd Eisoës Trefol/Lleol	1	1	1	Amherthnasol
Tir Arall a Ddatblygwyd Eisoës	2	2	2	2
Tir glas: o fewn aneddiadau	3	3	3	5
Tir glas: safleoedd mewnlenwi / terfynu	3	3	3	5
Tir glas: estyniadau aneddiadau	4	4	4	Gweler polisiau PL/10 ac ED/6

Ffynhonnell: Papur Cefndir 56: Hierarchaeth Buddsoddiadau Tir Cyflogaeth

5.4.26 Dengys Ffigur 21 y math o dir neu safle ymhob ardal yn yr hierarchaeth aneddiadau a fyddai'n ddilyniannol ffafriol yn nhrefn blaenoriaeth. Er enghraifft, byddai cais cynllunio ar gyfer uned ddiwydiannol yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir yn ddilyniannol ffafriol ar unrhyw un o'r safleoedd cyflogaeth presennol a safleoedd wedi'u dyrannu, eu dynodi neu'u diogelu. Cymerid safleoedd mewn canol trefi i ystyriaeth hefyd, ond

cydnabyddir nad yw pob math o ddiwydiant yn addas i'w lleoli ynghanol tref. Bydd angen i unrhyw geisiadau ar gyfer swyddfeydd yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir ystyried yr egwyddor o ddatblygu mewn canol tref yn gyntaf fel rhan o'r asesiad dilyniannol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r polisi hwn yn gorfodi cynigion addas ar gyfer cyflogaeth yng nghefn gwlad tuag Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir. Pe cyflwynid cais



cynllunio ar gyfer defnydd dosbarth B mewn Prif Bentref yn Haen 2, er enghraifft, rhoddid blaenoriaeth i safleoedd cyflogaeth presennol neu dir a ddatblygwyd eisoes yn yr ardal wledig fel dewis cyntaf. Ni fyddai disgwyl i'r ymgeisydd gynnal asesiad dilyniannol o safleoedd mewn mannau sy'n uwch yn yr hierarchaeth aneddiadau, oni bai fod yno bryderon na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn bodloni rhannau a, b neu c o'r polisi hwn.

5.4.27 Os na chynigir tir neu safle dilyniannol ffafriol fel rhan o'r cais, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno datganiad ategol i egluro pam fod angen datblygu rhyw safle neu ardal benodol i fodloni anghenion y busnes mewn achos felly. Ar safleoedd tir glas, mae'n ofynnol cyflwyno tystiolaeth ategol i ddangos nad oes safleoedd arall wedi'i dyrannu na thir a ddatblygwyd eisoes y gellid eu defnyddio yn lle tir glas. Llunnir Canllawiau Cynllunio Atodol i gynorthwyo ymgeiswyr a phenderfynwyr â'r polisi hwn. Bydd angen i rai datblygiadau gael eu cefnogi gan Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a/neu fesurau lliniaru priodol (gweler polisi PL/7).

5.4.28 Daeth Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf Conwy (Papur Cefndir 61) i'r casgliad bod y galw cyfredol am swyddfeydd yn gymharol fach mewn canol trefi ledled y Sir, a bod y galw sydd yno'n dod yn bennaf o gwmnïau presennol sy'n dymuno symud i swyddfeydd gwell. Bernir bod y rhan helaeth o'r adeiladau presennol mewn canol trefi yn anaddas i'w defnyddio fel swyddfeydd, ac felly dylid bod yn bragmatig wrth ymdrin â busnesau newydd sy'n chwilio am safleoedd a diogelu'r safleoedd hynny a ddefnyddir fel swyddfeydd ar hyn o bryd. Gallai cynlluniau grant i wella adeiladwaith, golwg a defnyddioldeb adeiladau mewn canol trefi gynorthwyo i wella eu

hansawdd a'u hapêl i ddarpar fusnesau. Mae'r polisi nesaf yn y bennod hon (ED/4) yn ymdrin â diogelu safleoedd a ddefnyddir er cyflogaeth.

5.4.29 Ystyrir ceisiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff yn ôl eu rhinweddau penodol yn unol â pholisïau ED/3, MW/5 ac MW/6. Ni chefnogir ceisiadau a fyddai'n cael effaith andwyol arwyddocaol ar amgylchedd ac amwynder yr ardal os nad oes modd lliniaru ar hynny.

ED/4 diogelu safleoedd swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8

1. Cedwir safleoedd cyflogaeth a ddiogelir a safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd (fel y'u dynodir ar y map cynigion) at ddibenion B1, B2 ac B8 a dulliau defnyddio gweithredol sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn unig. Ni chaniateir datblygiadau ar safleoedd fel hyn a fyddai'n arwain at golli defnyddiau B1, B2, B8 neu gymysgedd o ddefnyddiau Dosbarth B, neu leiniau gwag sydd wedi'u dyrannu neu'u dynodi ar gyfer tir cyflogaeth o fewn ffiniau'r safle, oni fodlonir y meini prawf canlynol:
 - a. Bod tystiolaeth yn dangos diffyg galw am unrhyw ddefnyddiau cyflogaeth B1, B2, B8 yng nghyffiniau'r safle; ac
 - b. Bod y defnydd arfaethedig yn gyfystyr â defnydd gweithredol cynhyrchu cyflogaeth ar y safle; ac
 - c. Nad yw'r defnydd arfaethedig yn cyfyngu ar ddefnyddio tir cyfagos er cyflogaeth a'i fod yn bodloni'r meini prawf yn y polisïau perthnasol a geir yn yr adran o'r cynllun hwn o'r enw Creu Lleodd – Dewisiadau Strategol a Gofodol yng Nghonwy, a'r canllawiau cenedlaethol ynghylch datblygiadau manwerthu a masnachol.
2. Caniateir ceisiadau sy'n arwain at golli tir cyflogaeth B1, B2, B8 presennol neu adeiladau nad ydynt yn rhan o safle cyflogaeth sydd wedi'i diogelu neu'i dyrannu os ydynt yn bodloni meini prawf y canllawiau cenedlaethol.

5.4.30 Cydnabyddir y dylai'r system gynllunio ddiogelu defnyddiau cyflogaeth y mae angen amdanynt yn y presennol a'r dyfodol hyd y gellir rhagweld. Mae NCT 23 yn datgan: "Dylai

awdurdodau cynllunio osgoi rhyddhau safleoedd ar gyfer defnyddiau eraill os oes tystiolaeth gadarn o angen tebygol yn y dyfodol am B1-B8." Mae'r safleoedd hynny sydd wedi'u dynodi a'u diogelu'n safleoedd cyflogaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu ac mae llawer ohonynt yn gorwedd yn y mannau mwyaf apelgar er cyflogaeth y mae galw cyffredinol mawr amdanynt at ddibenion busnes.

5.4.31 Bydd yno ragdybiaeth o blaid cadw'r safleoedd hynny'n ddosbarth B a bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddangos, drwy gynnal ymarfer marchnata, nad oes angen y safle mwyach at ddibenion dosbarth B. Mae Maen Prawf 1 b) yn cyfeirio at 'ddibenion gweithredol sy'n cynhyrchu cyflogaeth'. Mae dibenion gweithredol sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn golygu darparu cyflogaeth barhaus ar safle'r cais. Mae safleoedd a ddefnyddir fel hyn wedi'u cynnwys yn nharged y CDLIN i greu 1,500 o swyddi newydd erbyn 2033, ar sail y dystiolaeth o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth, ac felly byddai'n ddoeth caniatáu newid defnydd mewn achosion lle nad oes angen mwyach am y dibenion gwreiddiol dosbarth B.

5.4.32 Gall dibenion gweithredol sy'n cynhyrchu cyflogaeth gynnwys, ymysg pethau eraill, cyflogaeth sui generis nad yw'n cyfrif fel dosbarth B fel llogi peiriannau, gwerthu cerbydau a rheoli gwastraff, yn ogystal â chanolfannau iechyd a gofal, gwestai a champleydd. Ni fyddai dibenion gweithredol sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn cynnwys pethau fel datblygiadau tai, a fyddai'n creu cyflogaeth ar gyfer eu hadeiladu ond heb ddarparu cyflogaeth barhaus. Dylid sicrhau bod y dull newydd o ddefnyddio'r safle'n gydnaws â'r busnesau cyfagos sydd eisoes yn bod, yn unol â maen prawf 1 c), a bod y profion dilyniannol



priodol wedi'u cynnal a'u bodloni yn gyntaf oll, os mai canol tref fyddai'r lle gorau ar gyfer y defnydd dan sylw.

5.4.33 Mae'r canllawiau cenedlaethol yn datgan bod blaenoriaethau eraill, gan gynnwys yr angen am dai, yn fwy blaenllaw ac yn medru bod yn drech nag ystyriaethau economaidd cul. Er bod yr angen am dai yn ystyriaeth berthnasol, ceir rhagdybiaeth o blaid cadw safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd yn unol ag ED/4 er mwyn dal i ddiwallu'r angen am dir cyflogaeth yng Nghonwy, ac felly mae defnyddio tir ar safleoedd sydd wedi'u dynodi a'u diogelu y tu hwnt i gwmpas rhan 1 o Bolisi ED/4 a bernir bod hynny'n wyriad.

5.4.34 Ceir agwedd fwy hyblyg at newid defnydd safleoedd cyflogaeth dosbarth B nad ydynt wedi'u dynodi a'u diogelu, ac ystyrir ceisiadau felly'n unol â'r canllawiau cenedlaethol.

5.4.35 Yn ôl y dystiolaeth o Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf Conwy, fodd bynnag, dylid cadw golwg fanwl ar y sefyllfa ym Mae Colwyn gyda'r nod o gynnal a chryfhau'r clwstwr o swyddfeydd ar hyd Wynnstay Road a'r cyffiniau. Yn yr un modd, dylid cadw golwg fanwl ar y sefyllfa yn Llandudno gyda'r nod o gynnal a chryfhau'r clwstwr o swyddfeydd o gwmpas Trinity Square drwy annog datblygiadau i drosi adeiladau'n swyddfeydd yn yr ardal honno. Dylid dal i ystyried ceisiadau i drosi adeiladau'n swyddfeydd y tu allan i'r ardaloedd hynny, ac ynghanol trefi eraill, yn ôl eu rhinweddau unigol.

5.4.36 Yn rhinwedd rhan 1 o Bolisi ED/4, caiff swm y tir cyflogaeth dynodedig a gaiff ei ennill a'i golli ei fonitro fel rhan o broses Adroddiad Monitro Blyneddol y CDLLN a bydd canlyniadau hynny'n sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio a allai arwain at

golli tir ac adeiladau dosbarth B. Llunnir Canllawiau Cynllunio Atodol i egluro'r polisi hwn ymhellach.

ED/5 ardaloedd gwella cyflogaeth swyddfeydd a diwydiannol

Bydd yr ACLI yn hyrwyddo ac yn annog gwella'r safleoedd cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiannol B1, B2 a B8 canlynol, fel y nodir ar y Map Cynigion:

- a. Builder Street/Council Street, Llandudno;
- b. Arch Motors, Llandudno;
- c. Ffordd Glan y Môr a Vale Road, Cyffordd Llandudno;
- d. I'r dwyrain o Dre Marl (1), Cyffordd Llandudno;
- e. Tre Marl (1), Cyffordd Llandudno;
- f. Ffordd Bron y Nant, Mochdre;
- g. Ffordd Glan y Wern, Ffordd Conwy, Mochdre;
- h. f) Ystâd Fasnachu Pensarn, Pensarn, Abergele;
- i. ff) Gogledd Iard yr Orsaf, Llanrwst;
- j. Parc Busnes Tir Llwyd, Bae Cinmel.

5.4.37 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn gynaliadwy gwneud gwell defnydd o'r hyn sydd gennym eisoes drwy wella ac adnewyddu. Mae yno nifer o ardaloedd diwydiannol wedi'u sefydlu ar sail datblygiadau ad hoc yn y gorffennol. Er bod polisi ED/4 yn cydnabod bod safleoedd diwydiannol presennol yn ardaloedd pwysig sydd wedi'u diogelu, mae llawer o'r ardaloedd dan sylw ar ôl yr oes ac yn anaddas ar gyfer prosesau cyfoes, yn enwedig o ran eu naws a'u hansawdd, gan gynnwys hagrwch eu golwg,



adeiladau hen ffasiwn ac anaddas a hygyrchedd ac isadeiledd annigonol, sy'n cyfyngu ar eu budd o safbwynt cyflogaeth leol. Mae'r safleoedd y mae'r polisi'n berthnasol iddynt yn cynnig cyfleoedd i gyflawni buddion posib fel gwella amwynderau, tirlunio a gwella adeiladau ac isadeiledd. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid cyflawni cynlluniau felly fel rhan o becyn ehangach, cynhwysfawr sy'n cynnwys marchnata/arwyddion, delwedd yr ystâd, hygyrchedd/cludiant cyhoeddus a'r posibilrwydd o ad-drefnu ac ail-ddatblygu rhan o'r safle. Nid yw hynny'n rhestru'r holl ystyriaethau, a gall cyfleoedd godi i gyflawni gwelliannau mewn meysydd cyflogaeth eraill hefyd.

ED/6 arallgyfeirio ffermydd ac ehangu busnesau mewn ardaloedd gwledig

1. Caniateir arallgyfeirio ffermydd acehangu busnesau gwledig presennol y tu allan i ffiniau aneddiadau o fewn cwrtil y safle presennol, yn amodol ar fodloni'r meini prawf (a-ch) isod. Os nad oes digon o dir ar gael o fewn cwrtil y safle, caniateir ehangu ar dir addas cyfagos i safle presennol y busnes neu yn y cyffiniau, yn amodol ar gydymffurfio â meini prawf (a-d) isod:

- a. Defnyddir adeiladau presennol neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na thir glas.
- b. Mae graddfa'r datblygiad yn briodol i'r hyn y'i defnyddir ar ei gyfer.
- c. Mae'n rhaid bod y datblygiad yn ystyriol o'r gosodiad, y tirlun a'r amgylchedd adeileddig o'i amgylch o ran dyluniad a gwneuthuriad unrhyw strwythur neu arwyneb newydd.
- d. Mae'n rhaid bod y datblygiad yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol yn yr adrannau o'r Cynllun hwn o'r enw Creu Lleodedd

– Dewisiadau Strategol a Gofodol yng Nghonwy ac Yr Amgylchedd Naturiol, gan roi sylw'n benodol i amwynderau, sŵn, traffig, nodweddion y dirwedd, asedau hanesyddol, llifogydd, y Gymraeg a lletemau glas.

e. Archwiliad dilyniannol o'r adeiladau presennol a'r tir o fewn cwrtil y busnes presennol sy'n dangos pam nad yw'n ymarferol datblygu/ail-ddatblygu'r tir ac adeiladau dan sylw.

2. Os yw'r datblygiad yn cynnwys llety i dwristiaid neu elfen hamdden neu fanwerthu, mae'n rhaid bodloni gofynion polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ynglŷn â'r defnyddiau hynny. Lle bo'n briodol yn achos trosi adeiladau gwledig, mae'n rhaid hefyd bodloni gofynion polisi PL/10.

5.4.38 Mae arallgyfeirio ar ffermydd yn cael ei gydnabod mewn canllawiau cynllunio cenedlaethol fel ffordd bwysig o gryfhau'r economi wledig, gan ddod â chyflogaeth a ffyniant ychwanegol i gymunedau gwledig. Felly bydd cynlluniau arallgyfeirio ffermydd yn cael eu cefnogi mewn egwyddor yn amodol ar y meini prawf ym mholisi ED/6, polisïau perthnasol eraill y CDLIN a chanllawiau cynllunio cenedlaethol Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6. Nid yw pob busnes yn yr ardal wledig yn gysylltiedig â ffermio, felly, er mwyn diogelu a chynnal yr economi wledig, caniateir, mewn egwyddor, i fusnesau presennol mewn ardaloedd gwledig y tu hwnt i ffiniau aneddiadau ehangu'n ffisegol ar yr amod y bodlonir nifer o feini prawf. Mae'r dull polisi hwn yn ategu strategaeth y CDLIN, sy'n datgan y cyflenwir tua 10% o dir cyflogaeth y Sir mewn ardaloedd gwledig.



5.4.39 Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut mae eu cynigion yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol a bennir yn y polisi hwn. Yn gyntaf oll, mae'n bwysig ystyried a oes unrhyw strwythurau ac adeiladau a fyddai'n addas i'w trosi o fewn cwrttil safle presennol y busnes. Os oes rhai, bydd Polisi PL/10 yn berthnasol. Os nad oes unrhyw strwythurau addas i'w trosi, y dewis dilyniannol nesaf yw tir a ddatblygwyd eisoes / tir o fewn cwrttil safle presennol y busnes, ac wedyn tir cyfagos i safle presennol y busnes neu yn y cyffiniau. Diffinnir bod 'yn y cyffiniau' o fewn radiws o 150 metr o brif safle presennol y busnes.

5.4.40 Felly, yn achos datblygiadau mewn cefn gwlad agored, mae'n bwysig bod yr hyn a gynnigir o raddfa briodol ac yn addas ei wneuthuriad a'i ddyluniad. Bydd yn ofynnol ystyried dynodiadau eraill mewn rhai achosion, gan gynnwys Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Tirweddau Hanesyddol, gosodiad Adeiladau Rhestredig a Lletemau Glas, ymysg eraill. Os cyflwynir cais mewn ardal ddynodedig felly, bydd arno angen cydymffurfio â'r polisïau a chanllawiau perthnasol yn ogystal â bodloni'r meini prawf yn y polisi hwn.

5.4.41 Mae'r polisi hwn yn ceisio annog ffermydd a busnesau sydd eisoes yn ardal y cynllun i aros ac ehangu. Mae hynny'n cynnig potensial i gael effaith gadarnhaol a chreu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a thrigolion lleol fel ei gilydd aros mewn gwaith neu ddal i gyflogi pobl yn y sir. Dylai hynny helpu i gynnal nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr ASDG, sy'n ardal Gymraeg sensitif ddynodedig, fel y'i diffinnir ym mholisi PL/7.

5.4.42 Bydd angen i'r datblygiad gydymffurfio â pholisïau perthnasol eraill y CDLIN, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i dwristiaeth, hamdden, manwerthu, creu lleoedd, a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol.

ED/7 isadeiledd telathrebu

Caniateir ceisiadau ar gyfer isadeiledd telathrebu a thechnoleg ddigidol ar yr amod:

- Bod y datblygiad yn rhan o gynllun i ddatblygu rhwydwaith ehangach ac / neu'n cyfrannu at gynnal a gwella gwasanaethau a chyflawni amcanion y CDLIN;
- Na fyddai unrhyw effaith andwyol sylweddol ar gynefinoedd, bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol, cymeriad y dirwedd, amwynder gweledol, strydlun nac amwynder trigolion cyfagos; a
- Bod y cais yn cynnwys tystiolaeth o gydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth ynglŷn ag effeithiau isadeiledd telathrebu ar iechyd.

5.4.43 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cydnabod fod telathrebu, gan gynnwys rhwydweithiau band eang a ffonau symudol, yn wasanaeth hanfodol y dylid cynllunio ar ei gyfer o'r cychwyn cyntaf gydag unrhyw ddatblygiad, gan ystyried gofynion a blaenoriaethau Strategaeth Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru. Mae gosod band eang cyflym iawn yn hanfodol bwysig mewn ardaloedd gwledig, sy'n dibynnu ar wasanaethau felly at ddibenion busnes a chymdeithasol. Felly, cefnogir darparu isadeiledd telathrebu fel cyfarpar band eang a ffonau symudol mewn mannau addas.

5.4.44 Dylid dilyn canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cyfarpar telathrebu a'i effaith ar y tirlun ac amwynder gweledol wrth lunio neu adolygu ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfarpar telathrebu newydd.

ED/8 clystyrau busnes

Er mwyn dal i wella cyfleoedd i gyfathrebu a rhwydweithio, rhoddir ystyriaeth i ffurfio clystyrau o fusnesau ar safleoedd cyflogaeth presennol neu rai sydd wedi'u dyrannu, os ydynt yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned a'r economi leol.

5.4.45 Mae angen cefnogi datblygiad rhwydweithiau a chlystyrau busnes, yn enwedig mentrau sy'n seiliedig ar ddyfeisgarwch a thechnoleg. Hyrwyddir yr agwedd honno ym Mholisi Cynllunio Cymru 12 ac mae'r Cyngor yn gweld galw cynyddol i fusnesau ffurfio clystyrau er mwyn elwa ar y manteision o gydleoli, rhwydweithio a chynnig amryw wasanaethau i gwsmeriaid/cleientiaid yn yr un man. Mae'r gwerthwyr nwyddau adeiladu ym Mae Cinmel a Mochdre a'r cwmnïau / labordai fferyllol yng Nghonwy yn enghreifftiau o hyn. Hefyd, fel y soniwyd yn y testun ategol ar gyfer Polisi ED/4 ac Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf Conwy, ceir clystyrau o swyddfeydd mewn ardaloedd fel Wynnstay Road ym Mae Colwyn a Trinity Square yn Llandudno, a dylid cynnal a chryfhau'r clystyrau hynny lle bo modd.

Strategaeth Twristiaeth

SO8: annog a chefnogi darpariaeth twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, wrth gydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau, cymunedau lleol a'r angen i ddiogelu amgylcheddau hanesyddol a naturiol.

5.4.46 Mae'r polisi strategol hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer y dull polisi o fewn y CDLIN sy'n ddigon ymatebol a hyblyg i alw'r farchnad dwristiaeth hyd at 2033, gan geisio amddiffyn cymunedau, tirwedd a threfwedd y Fwrdeistref Sirol hefyd.

5.4.47 Mae twristiaeth yn elfen allweddol o'r economi leol, gan gefnogi dros 12,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan ddod â mwy na £800m o reffeniw i economi'r Sir yn flynyddol a denu bron i 10 miliwn o ymwelwyr yn 2022 (data STEAM 2023).

5.4.48 Mae'r Sir yn ymfalchïo yn ystod eang o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiad ac mae'n hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy. Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd. Felly, mae'r cynllun yn annog datblygu twristiaeth lle mae'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, gan gydnabod anghenion ymwelwyr ac anghenion cymunedau lleol. Yn fwy diweddar, mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweld twf mewn busnes twristiaeth awyr agored ac antur cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn gan arwain at alw mwy am amrywiaeth o lety gwyliau.

5.4.49 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, mae'r CDLIN yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o ansawdd da, wedi'u cynllunio'n dda ac sydd wedi'u lleoli'n dda. Bydd yn ystyried maint a dosbarthiad eang atyniadau presennol ac arfaethedig i dwristiaid a dylent sicrhau bod modd darparu datblygiadau cyflenwol megis llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar yr effeithiau amgylcheddol negyddol.

5.4.50 Mae'r CDLIN yn dilyn dyheadau Gweledigaeth Twf ar gyfer economi Gogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – 2016), mewn perthynas â thwristiaeth, ac yn ceisio manteisio ar enw da'r rhanbarth fel lle sydd ag ansawdd bywyd gwych ac fel cyrchfan twristiaeth antur byd-enwog.

5.4.51 Yn ogystal, bydd twristiaeth ddiwylliannol, sy'n hyrwyddo ac yn datblygu profiadau sy'n arddangos yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru, hefyd yn cael ei hannog. Gall hyn gynnwys digwyddiadau diwylliannol, hyrwyddo busnesau lleol a chreu cyfleoedd addysgol i ymwelwyr. Mae diwylliant a threftadaeth Gymreig gref Conwy yn ffactor twristiaeth pwysig gydag arolygon diweddar yn awgrymu bod yr iaith Gymraeg yn cyfoethogi profiadau cwsmeriaid ac yn ychwanegu gwerth at fusnesau. Mae atyniadau a digwyddiadau ymwelwyr wedi'u hanelu at siaradwyr Cymraeg sy'n dod o rannau eraill o'r wlad a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n mwynhau'r iaith a'r dimensiwn diwylliannol oherwydd ei fod yn darparu ymdeimlad unigryw o le a phrofiad gwyliau.

TO/1 twristiaeth

Bydd yr ACLI yn hyrwyddo economi dwristiaeth gynaliadwy drwy;

1. Cefnogi, mewn egwyddor, cynigion ar gyfer atyniadau twristiaid newydd a phresennol yn unol â pholisi TO/2 atyniadau twristiaeth a hamdden cynaliadwy newydd (heb fod yn llety).
2. Diogelu lefel o ddosbarthiadau defnydd Gwesty C1 o fewn Llandudno fel yr amlinellir ym mholisi TO/3 Llety gwyliau Llandudno.
3. Rheoli safleoedd carafanau newydd a phresennol o dan Bolisi TO/4 safleoedd cabannau, carafannau sefydlog a charafannau theithiol.
4. Cefnogi, lle bo'n briodol, safleoedd llety gwyliau newydd, effaith isel yn unol â pholisi TO/5 llety gwyliau effaith isel.

5.4.52 Mae Astudiaeth Twristiaeth Llandudno (2019) a Phapur Cefndir 21: Parthau Llety Gwyliau (HAZs) yn darparu adroddiadau a dadansoddiadau cynhwysfawr ar sut mae twristiaeth yn effeithio ar brif gyrchfan Llandudno ac yn darparu data allweddol i helpu i ddatblygu trywydd niferoedd a thueddiadau ymwelwyr dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae'r adroddiadau hyn yn ceisio galluogi pob budd-ddeiliad yn y dref i ddeall dymameg allweddol ei heconomi dwristiaeth a darparu ystod o opsiynau posibl i helpu i ddatblygu'r cynnig twristiaeth yn Llandudno yn unol â dyheadau budd-ddeiliaid allweddol, trigolion, ymwelwyr a'r Cyngor. Bydd ffocws hefyd yn cael ei roi ar y cynnig twristiaeth yn ystod tymor y gaeaf trwy ymgyrchoedd



marchnata a hyrwyddo gweithgareddau ac atyniadau y tu allan i'r tymor, er mwyn sicrhau manteision drwy gydol y flwyddyn.

5.4.53 Bydd angen i'r CDLIN ddarparu ar gyfer y galw a ragwelir trwy ddynodiadau tir a/neu bolisiâu rheoli priodol. Ar draws y Sir, mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy ac Arolwg Stoc Gwelyau Conwy yn darparu tystiolaeth i ddeall materion cyflenwad a galw ymhellach, nodi blaenoriaethau ac asesu lefel bresennol pob math o stoc llety gwyliau Conwy, data meddiannaeth a theithiau. Mae Papur Cefndir/21: yn dadansoddi'r polisiâu a darpariaeth bresennol ar gyfer llety gwyliau yng nghanolfan dwristiaeth Llandudno. Adolygwyd y ddarpariaeth o lety gwyliau yn y Parthau Llety Gwyliau yn unol â pholisiâu sefydledig a thystiolaeth newydd gyda'r canlyniadau'n llywio unrhyw newidiadau i'r parthau hyn.

5.4.54 Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygiad sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn hanfodol wrth ddarparu ar gyfer economi iach ac amrywiol ac mae angen ystyriaeth ofalus yn y CDLIN. Bydd angen i ddatblygiad twristiaeth mewn ardaloedd gwledig fod yn sensitif o ran natur a graddfa i'r amgylchedd, cymeriad a diwylliant lleol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Bydd angen i unrhyw gynigion o'r fath ystyried yr effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny oherwydd bydd cynyddu poblogaeth y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, hyd yn oed am gyfnodau tymhorol yn ystod y flwyddyn, o bosibl yn lleihau canran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned honno yn gyffredinol. Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn hanfodol i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae gan fentrau mewn ardaloedd gwledig hefyd y potensial i integreiddio arallgyfeirio busnes â thwristiaeth a bydd y Cynllun yn cefnogi cynlluniau addas mewn

lleoliadau priodol, sy'n cydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol.

5.4.55 Yn ardaloedd perygl llifogydd Pensarn, Towyn a Bae Cinmel, sydd â lefelau uchel o lety mewn parciau carafanau, rhoddir ystyriaeth i ddiogelu a gwella safleoedd o'r fath i gynnal lefelau stoc gwelyau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a chynorthwyo'r economi leol gan fod yn ymwybodol o'r problemau perygl llifogydd yn yr ardal.

TO/2 atyniadau twristiaeth a hamdden cynaliadwy newydd (heblaw llety)

Cefnogir atyniadau twristiaid cynaliadwy newydd, o ansawdd da, wedi'u lleoli a'u cynllunio'n dda, a gwella atyniadau presennol ar yr amod bod yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae'r cais yn cynnig darparu cyrchfan dwristiaeth o ansawdd da gydol y flwyddyn, gan gynnwys amrywiaeth o gyfleusterau twristiaeth a gweithgareddau hamdden;
- Mae'r cais yn briodol o ran ei raddfa a'i natur i'w leoliad ac wedi'i ddylunio'n effeithlon o ran adnoddau;
- Cefnogir y cais gan dystiolaeth sy'n dangos y byddai'r ardal leol yn elwa o ran nifer y swyddi a'u hamrywiaeth;
- Mae'r cais yn cynnig mynediad hygyrch a chynaliadwy, ac yn annog pobl i ddefnyddio cludiant heblaw am geir yn unol â pholisiâu Ardaloedd Teithio Cynaliadwy;
- Mae'r cynnig yn mabwysiadu dull dilyniannol ac yn defnyddio unrhyw adeiladau addas sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag adeiladau newydd a thir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na safleoedd maes glas, lle bo'n briodol;

- f. Ni fyddai gan y cynnig effaith andwyol annerbyniol ar feddianwyr eiddo cyfagos;
- g. Mae'r cynnig yn cefnogi amcanion adfywio'r Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn cyd-fynd â'r polisiau creu lleoedd a pholisiau cysylltiedig eraill yn y cynllun;
- h. Ni fyddai'r cynnig â golwg ymwithiol yn y tirlun ac mae'r cais yn cynnwys cynllun tirwedd manwl, a lle bod hynny'n briodol, Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol yn unol â pholisi NE/1.

5.4.56 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae polisi TO/2 yn ymwneud â chynigion ar gyfer atyniad neu gyfleuster twristiaid ac nid ag unrhyw fath o lety sy'n gysylltiedig â thwristiaid.

5.4.57 Mae'r galw am ystod eang o gyfleusterau twristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn effeithio ar dymhoroldeb. Mae gweithrediad gwahanol fusnesau twristiaeth ar wahanol adegau yn gofyn am ddull mwy hyblyg. Bydd yr ACLL yn cefnogi datblygu ac addasu ystod o atyniadau neu gyfleusterau twristiaeth cynaliadwy i ddarparu ar gyfer y galw newidiol hwn lle bo'n briodol. Mewn achosion o'r fath, bydd angen cynllun busnes proffesiynol, wedi'i baratoi gan ymgynghorydd/syrfêwr cymwys ac annibynnol, i gefnogi cais cynllunio o dan y polisi, gan ddangos hyfywedd y cynllun a'r manteision cyflogaeth, gan gynnwys datblygu sgiliau.

5.4.58 Yr aneddiadau trefol o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA) yw'r lleoliadau dewisol ar gyfer datblygiadau newydd er mwyn sicrhau bod cyfleusterau newydd yn hygyrch i ymwelwyr a bod yr atyniad wedi'i leoli lle gall ymwelwyr gael mynediad at ystod o wasanaethau trwy ddewis o ddulliau

teithio. O fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA), dylai cynigion edrych yn gyntaf ar Lanrwst, fel y Ganolfan Wasanaethu Allweddol, ac yna ar ailddefnyddio adeiladau presennol ac estyniadau i fusnesau presennol er mwyn amddiffyn cefn gwlad rhag datblygiad amhriodol, yn unol â pholisiau eraill y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, gellid caniatáu atyniadau adeiladau newydd mewn rhai ardaloedd o gefn gwlad agored os nad oes unrhyw safleoedd neu adeiladau sy'n well yn ddilyniannol ac mae'r cynnig ar raddfa briodol i'r ardal. Bydd hyn yn galluogi datblygiad penodol a allai helpu i ymestyn tymor twristiaeth, darparu budd i'r gymuned leol a hyrwyddo cysylltiadau gwell â Pharc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, rhaid i ddatblygiadau o'r fath ystyried yr ardal o ran yr effaith ar y boblogaeth leol a'r iaith Gymraeg. Mae asedau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yn ffactorau allweddol wrth ddenu twristiaid i'r ardal ac mae angen eu rheoli a'u diogelu'n effeithiol. Gall pwysau ymwelwyr yn arbennig arwain at bryderon mewn lleoliadau sy'n sensitif yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol.

TO/3 Llety Gwyliau Llandudno

1. O fewn Parth Llety Gwyliau Llandudno, fel y'i diffinnir yn y map cynigion, gwrthodir caniatâd cynllunio lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at golli llety neu eiddo sy'n dod o fewn y dosbarth defnydd C1 (Gwestai).



2. Mewn mannau eraill yn Llandudno, dim ond lle mae'r datblygiad yn cydymffurfio â'r holl feini prawf canlynol y cefnogir cynigion a fyddai'n arwain at golli llety neu eiddo sy'n dod o fewn y dosbarth defnydd C1 (Gwestai):
 - a. Mae tystiolaeth gefnogol wedi'i darparu i ddangos nad oes unrhyw opsiynau dichonadwy ar gyfer parhau i weithredu'r defnydd C1 (Gwestai), gan ystyried ymdrechion y gorffennol i greu a chynnal busnes hyfwrdd a'r rhagolygon ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol;
 - b. Mae tystiolaeth farchnata wedi'i darparu dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddangos nad oes unrhyw obaith rhesymol y caiff yr adeilad neu'r busnes ei werthu neu ei brydlesu o dan amodau marchnad teg ac am bris marchnad rhesymol ar gyfer parhau i ddefnyddio C1 (Gwestai);
 - c. Ni fydd y newid defnydd i ffwrdd o ddefnydd C1 (Gwestai) yn creu effaith annerbyniol ar amwynder defnyddiau cyfagos, yn enwedig lle mae eiddo wedi'i leoli gerllaw neu yng nghyffiniau defnyddiau C1 (Gwestai) eraill; a,
 - d. Ni fydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad yr ardal o'i amgylch.

5.4.59 Mae cyrchfan dwristiaeth lwyddiannus yn ddibynnol iawn ar ansawdd, lefel a math y llety sydd ar gael yn yr ardal honno. Mae darparu a diogelu llety o safon yn un o flaenoriaethau allweddol yr ACLL. Mae angen sicrhau bod cyflenwad ac ystod ddigonol o lety o safon yn yr ardaloedd cywir, i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y farchnad, darparu ar gyfer twf a chefnogi economi twristiaeth ffyniannus. At hynny, cydnabyddir hefyd y byddai

ystod ehangach o lety â gwasanaeth yn caniatáu mwy o ddewis i'r ymwelydd ac yn apelio at y farchnad seibiannau byr sy'n tyfu.

5.4.60 Pwysleisir pwysigrwydd twristiaeth i lawer o rannau o Gymru ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae gan dwristiaeth rôl uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol yn lles cymdeithasol ac economaidd trigolion, busnesau ac ymwelwyr Bwrdeistref Sirol Conwy. Yn Llandudno, ystyrir bod cynnal lefel briodol o westai a thai llety yn hanfodol, yn enwedig o ystyried amcanion y Cyngor i Fwrdeistref Sirol Conwy barhau i fod yn gyrchfan dwristiaidd gystadleuol o ansawdd uchel ac i yrru cynnig drwy gydol y flwyddyn.

5.4.61 Mae Papur Cefndir/21: Parth Llety Gwyliau wedi asesu'r cynnig llety gwyliau â gwasanaeth yn Llandudno yn llawn ac wedi adolygu polisi blaenorol y CDLL (2007-22). Cynhyrchwyd y Papur Cefndir mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat gan arwain at y safbwynt a gymerwyd ym mholisi TO/3.

5.4.62 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae arosiadau mewn llety â gwasanaeth wedi lleihau'n raddol ac mae arosiadau mewn mathau eraill o lety wedi cynyddu'n sylweddol. Mae nifer o newidiadau rheoleiddiol yn digwydd sy'n arwain at ansicrwydd ynghylch a fydd y duedd hon yn parhau neu'n gwrthdroi. Mae'n bwysig i Landudno gynnig cymysgedd priodol o fathau o lety i ddiwallu gofynion amrywiol gwesteion. Mae'r polisi'n ceisio hwyluso lefel briodol o ddiogelwch a rhyddhau defnyddiau dim ond lle gellir cyfiawnhau colli llety.

5.4.63 Mae'r polisi'n darparu fframwaith cadarnhaol ar gyfer cynigion sy'n creu neu'n gwella ansawdd a maint llety â gwasanaeth yn y dref.

5.4.64 Mae'r Parth Llety Gwyliau ar y map cynigion yn ymgorffori ardaloedd o Landudno lle mae angen amddiffyn gwestai a thai llety. Mae gan y lleoliadau hyn asedau arbennig i ddenu ymwelwyr, e.e. ar lan y môr, ac wedi'u cydleoli â busnesau tebyg sy'n cefnogi ei gilydd, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Ni fydd unrhyw golledion i ddefnyddiau eraill yn dderbyniol yn yr ardaloedd hyn.

5.4.65 Mae'r polisi'n cydnabod, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd parhau i'w ddefnyddio fel gwestai neu dai llety yn hyfyw. Y tu allan i'r Parth Llety Gwyliau, mae dull sy'n seiliedig ar feini prawf yn rhoi arf i'r ACLL i atal swyddogaeth dwristaidd y dref rhag cael ei thanseilio. Wedi hynny, gall yr ACLL ryddhau gweithrediadau gwirioneddol anhyfyw ar gyfer defnyddiau amgen sy'n cyd-fynd ag amcanion ehangach y CDLIN. Bydd colli eiddo mwy yn cael effaith anghymesur o fwy na cholli eiddo llai gyda llai o leoedd gwely.

5.4.66 Bydd angen tystiolaeth gadarn a chyfoes i ddangos bod y meini prawf a restrir yn y polisi uchod wedi'u bodloni. Bydd CCA yn cael ei baratoi i roi manylion y dystiolaeth y bydd angen i ymgeiswyr ei chyflwyno fel rhan o gais am golled gwestai a thai llety.

5.4.67 Bydd yr ACLL yn parhau i fonitro'r newid cyffredinol yn stoc gwelyau llety â gwasanaeth i sicrhau nad yw cyfanswm y stoc gwelyau sydd ar gael yn tanseilio rôl Llandudno fel y brif gyrchfan dwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Bydd yn adolygu effeithiolrwydd y polisi a newidiadau ehangach i'r diwydiant a'r rheoleiddio fel rhan o'r broses AMR ac Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

TO/4 safleoedd cabannau, carafannau sefydlog a theithiol

1. Ni chaniateir safleoedd cabannau, carafannau sefydlog a theithiol newydd yn ardal y cynllun.
2. Dim ond ar yr amod bod y datblygiad yn bodloni'r holl feini prawf canlynol y caniateir cynigion ar gyfer gwella neu ymestyn safleoedd presennol:
 - a. Nid yw'n cynyddu nifer yr unedau llety ar y safle;
 - b. Gellir caniatáu estyniadau bach i ardal safle i hwyluso lleihau dwysedd, gwelliannau amgylcheddol, tirwedd ac amwynder;
 - c. Yn hyrwyddo llety, cyfleuster a dyluniad gwyliau o ansawdd da;
 - d. Yn cyd-fynd â'r polisiâu creu lleoedd a pholisïau cysylltiedig eraill yn y Cynllun;
3. Bydd yr ACLL yn caniatáu ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafannau a chabannau presennol ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:
 - a. mae'r safle'n addas ar gyfer defnydd estynedig o'r fath;
 - b. ni fyddai'r tymor estynedig yn cynyddu canlyniadau digwyddiad llifogydd eithafol, a
 - c. bydd y datblygiad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion llety gwyliau yn unig.

5.4.68 Er mwyn osgoi amheuaeth, mae polisi TO/4 yn ymwneud â'r llety carafannau sefydlog a theithiol confensiynol mewn blwch plastig



neu fetel (unedau sengl neu ddeuol). Mae Polisi TO/5 yn rheoli mathau eraill o lety gwyliau a all ddod o fewn y diffiniad carafanau megis podiau a chytiau bugeiliaid.

5.4.69 Mae safleoedd cabannau, carafanau sefydlog a theithiol yn gynnig pwysig o lety gwyliau, a all fod yn hanfodol i lwyddiant yr economi dwristiaeth. Fodd bynnag, mae safleoedd o'r fath yn aml yn cael eu hystyried yn ymwthiol yn weledol, sy'n arbennig o amlwg ym mhrif ardaloedd gwyliau Towyn a Bae Cinmel a rhannau o Ddyffryn Conwy, lle mae cyfres o safleoedd wedi uno neu wedi dod yn fawr ac yn rhy amlwg yn y dirwedd. Yn yr un modd, mae dwysáu safleoedd yn y gorffennol wedi effeithio'n weledol ar nifer fach o leoliadau gwledig. Mewn rhai ardaloedd gellir ystyried bod effaith gronnus safleoedd presennol yn ymwthiol yn weledol ac yn drech yn y dirwedd. Mae'r rhain wedi lleihau dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o Sir Conwy ac wedi lleihau'r tebygolrwydd o glywed y Gymraeg ar y strydoedd o ddydd i ddydd, i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

5.4.70 Caniateir disodli carafanau sefydlog gyda llety o ansawdd uwch fel cabanau coetir lle mae'n gwella'r effaith ar y dirwedd. Fodd bynnag, fel gyda phob datblygiad, dim ond ar ôl dangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd yr amgylchedd naturiol a bod y manteision bioamrywiaeth arfaethedig wedi'u cynnwys y caniateir cynigion ar gyfer unrhyw lety.

TO/5 llety gwyliau effaith isel

Dim ond fel math o arallgyfeirio fferm neu lety ategol i atyniad twristaidd sefydledig y caniateir llety gwyliau ar raddfa fach, effaith isel.

5.4.71 Mae mathau eraill o lety gwersylla fel podiau, iwertiau, pebyll a chytiau bugeiliaid wedi dod yn fwy poblogaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gydag ymwelwyr yn chwilio am fath gwahanol o brofiad. Mae'r mathau hyn o lety effaith isel yn gyffredinol yn llai ymwthiol yn y dirwedd na'r carafanau sefydlog a theithiol mwy traddodiadol. Bydd caniatáu cynigion gwersylla amgen, i gefnogi cynllun arallgyfeirio fferm dilys neu lety ategol i gefnogi atyniad twristaidd presennol a sefydledig, yn osgoi amlhau safleoedd o'r fath ar draws y Sir ac yn arwain at ystod ehangach o gynnig twristaidd yn ardal y cynllun a all fod o fudd i dwristiaeth leol, economi wledig a'r iaith Gymraeg. Ym mhob achos, rhaid i'r prif ddefnydd fod y busnes fferm neu'r atyniad twristaidd gyda'r llety yn gwbl ategol ac nid yn cael ei weithredu fel uned gynllunio ar wahân, heb gysylltiad.

5.4.72 Rhaid lleoli safleoedd o'r fath yn sensitif ac ni ddylai datblygiad fod ar draul ansawdd amgylcheddol nac effaith ar y dirwedd. Yn aml, gall cynlluniau sydd wedi'u cynllunio'n dda warchod neu wella bioamrywiaeth ac ansawdd y dirwedd ond cydnabyddir y gall fod effeithiau negyddol ar gefn gwlad y mae'n rhaid eu hosgoi.

5.4.73 Lle cyflwynir cynnig arallgyfeirio fferm, byddai Cynllun Fferm, sy'n dangos sut y bydd y cynnig yn cefnogi gweithrediad y fferm, sydd o fath a graddfa sy'n adlewyrchu natur yr arallgyfeirio ac yn amlinellu unrhyw effeithiau amgylcheddol, yn helpu i gefnogi'r cais. Bydd yr ACLL yn ystyried defnyddio amodau cynllunio neu gytundeb cyfreithiol i sicrhau bod y cynnig arallgyfeirio wedi'i glymu am byth i'r prif weithgaredd amaethyddol.

Fframwaith cynllunio sero net

5.4.74 Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ardal CDLIN Conwy, a sut bydd disgwyl i ddatblygiadau fodloni'r gofynion i gyflawni carbon sero net erbyn 2050.

5.4.75 Ym mis Mawrth 2021 cymeradwyodd LIC darged sero net (o leiaf 100% o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr) ar gyfer 2050. Mae sero net yn golygu cydbwyso'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir drwy gael gwared ar yr un faint o'r atmosffer. Mae gan Gymru hefyd dargedau dros dro ar gyfer 2030 (gostyngiad o 63%) a 2040 (gostyngiad o 85%) a chyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd. Mae cyllideb garbon yn cynrychioli cyfanswm yr allyriadau tŷ gwydr a ellir eu rhyddhau yn ystod cyfnod cytunedig o bum mlynedd.

5.4.76 Mae tynged cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu ar ein gallu i gymryd camau radical i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol. Mae effeithiau byd-eang y cynnydd mewn tymheredd a thywydd garw yn cael effaith negyddol sylweddol ar gymunedau ar hyd a lled Conwy, yn arbennig ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Felly mae'n rhaid i ni weithredu ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o law dyn, gan ganolbwyntio ar symud oddi wrth danwydd ffosil i gynhyrchu'r ynni sydd arnom ni ei angen ar gyfer adeiladau, cludiant a diwydiannau.

5.4.77 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol mewn perthynas â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, drwy gyflawni twf glân a datgarboneiddio ynni, yn ogystal â rôl hollbwysig o ran helpu i ddarparu sicrwydd ynni. Yn ogystal â thwf glân a swyddi o ansawdd, mae'r newid i economi carbon isel yn cynnwys

buddion ehangach o ran gwella llefydd byw a gweithio, aer a dŵr glân a gwella canlyniadau iechyd.

5.4.78 Blaenoriaethau'r ACLI yw:

- Lleihau'r ynni carbon uchel a ddefnyddir gennym yng Nghonwy
- Lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil
- Rheoli a hybu'r newid i economi carbon isel

5.4.79 Wrth wneud hyn bydd yr ACLI yn ceisio:

- Integreiddio egwyddorion adeiladu cynaliadwy mewn datblygiadau newydd
- Gwneud y gorau o gyfleodd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel
- Cefnogi ymyriadau'r Cynllun Ynni Ardal Leol, yn cynnwys cerbydau trydan a'r defnydd o ffynonellau ynni lleol, fel rhwydweithiau gwresogi ardal a chynhyrchu lleol
- Storio mwy o ynni
- Gwneud y gorau o leoliadau datblygiadau newydd er mwyn defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn arbennig cludiant ac ynni
- Lleihau effeithiau carbon yn sgil prosesau cynhyrchu ynni eraill, fel ynni o wastraff

5.4.80 Bydd cynigion i ddefnyddio, dosbarthu a datblygu capasiti ynni adnewyddadwy newydd a storio ynni, yn cynnwys gosodiadau ffotofoltäig mawr ar y llawr ac ynni gwynt ar y tir annibynnol, yn cael eu hannog ar dir addas yn ardal CDLIN Conwy. Byddwn yn cymryd dull cadarnhaol ar gyfer ynni adnewyddadwy a chynlluniau ynni carbon isel, yn enwedig cynlluniau wedi'u



harwain gan gymunedau neu sy'n diwallu eu hanghenion, ac sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL).

5.4.81 Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau di-garbon, carbon cadarnhaol ac allyriadau isel eu cefnogi'n gryf, ar yr amod bod yr holl ystyriaethau perthnasol eraill yn dderbyniol. Mae'r ACLL yn gofyn i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion dylunio sy'n helpu i gyflawni gostyngiadau radical mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn enwedig allyriadau CO₂, i helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd a chyrraedd targedau sero net. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn defnyddio'r polisiau isod, oni bai bod polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol yn eu trechu.

5.4.82 Mae hwn yn faes sy'n newid yn gyflym, a disgwylir diweddariadau yn dilyn adolygiadau.

Ynni adnewyddadwy a chyflawni sero net mewn datblygiadau newydd

EN/1 ynni adnewyddadwy a chyflawni sero net mewn datblygiadau newydd

1. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer datblygiadau o 10 annedd neu fwy neu 1,000m² fynd i'r afael ag allyriadau carbon drwy gymhwyso'r hierarchaeth ynni yn ddilysniannol a cheisio cyflawni allyriadau sero net gweithredol, gan ddangos hynny mewn Adroddiad Strategaeth Ynni fel a ganlyn:

a. **Lleihau'r galw am ynni:** dylid cynllunio datblygiadau i leihau'r galw am ynni (gwresogi, oeri, dŵr poeth, goleuadau a phŵer a ddefnyddir), gan leihau allyriadau carbon. Mae hyn yn cynnwys:

- i. cynnwys technoleg sy'n galluogi preswylwyr i fyw mewn ffyrdd sy'n lleihau'r galw am ynni.
 - ii. Gwneud y gorau o effeithlonrwydd ynni.
- b. **Trydaneiddio'r galw sy'n weddill ar gyfer gwresogi:** dylid osgoi defnyddio nwy, olew neu danwydd tebyg i wresogi adeiladau newydd.
- c. **Cynhyrchu pŵer di-garbon neu garbon isel:** i gwrdd â'r galw sy'n weddill am ynni, yn cynnwys y galw cynyddol am drydan yn sgil cam (ii), dylai datblygiadau gynnwys neu ddefnyddio ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel. Mae hyn yn golygu manteisio ar ffynonellau ynni adnewyddadwy o fewn y datblygiad (yn arbennig systemau paneli solar ffotofoltäig) gan:
- i. Neilltuo o leiaf 40% o'r gofod to ar gyfer paneli solar; ac
 - ii. Asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy neu garbon isel mawr oddi ar y safle, fel rhwydweithiau gwresogi neu ffynonellau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr lleol, drwy gysylltiad uniongyrchol i'r datblygiad.
- d. **Gwrthbwyso Carbon:** bydd yn rhaid i ddatblygiadau mawr newydd sy'n arwain at allyriadau carbon gweithredol gweddilliol ar ôl cymryd y camau uchod fodloni gofynion gwrthbwyso carbon i ostwng cyfanswm yr allyriadau carbon gweithredol i sero net yn unol â pholisi EN/7.



5.4.83 Bydd yn rhaid i ddatblygiadau (fel y diffinnir uchod) wneud y gorau o gyfraniad ynni adnewyddadwy neu dechnoleg ynni carbon isel i gwrdd â galw'r cynnig am ynni, yn enwedig ar gyfer datblygiadau sy'n defnyddio llawer iawn o ynni. Bydd datblygiadau preswyl ar safleoedd lle ceir lle i 10 o gartrefi neu fwy, a datblygiadau amhreswyl gydag arwynebedd o 1,000m² neu fwy, yn gorfod cyflwyno Adroddiad Strategaeth Ynni cynhwysfawr i benderfynu ar ddichonolrwydd cynnwys gosodiadau carbon isel neu ynni adnewyddadwy yn y cynllun a/neu gysylltu â thechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel a rhwydweithiau gwresogi ardal.

5.4.84 1.1.8 O 2030 ymlaen bydd yn rhaid i bob datblygiad arfaethedig arall gynnwys 'Strategaeth Ynni' sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys cyfarpar di-garbon a charbon isel ar y safle a chysylltu â ffynonellau ynni adnewyddadwy presennol. Dylid hefyd edrych ar gyfleoedd i gysylltu â rhwydweithiau gwresogi ardal ac, os yn briodol, rhannu ynni adnewyddadwy gyda'r cyhoedd. Bydd yn rhaid i'r Strategaeth Ynni nodi sut bydd y cynnig yn cyfrannu at gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy neu garbon isel.

5.4.85 Mae rhai technolegau micro-gynhyrchu yn ddatblygiadau a ganiateir dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Cyn tybio bod unrhyw ddatblygiad yn un a ganiateir, dylid cyfeirio at Ran 40 (gosod cyfarpar micro-gynhyrchu domestig) a Rhan 43 (gosod cyfarpar micro-gynhyrchu annomestig) i gael canllawiau pellach. Efallai y bydd ar ddatblygwyr eisiau cwblhau ffurflen Cyngor Cyn Gwneud Cais i gael eglurhad pellach o ficro-gynhyrchu.

5.4.86 Mae technoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cynnwys: systemau ffotofoltäig, dŵr poeth solar, pypmiau gwres o'r aer, pypmiau gwres o'r ddaear, tyrbinau gwynt, ynni dŵr a boeleri biomas. Bydd technoleg carbon isel a gyflwynir fel dewis amgen i dechnoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy, fel gwres a phŵer cyfunedig, yn cael ei hystyried fesul achos. Bydd y dechnoleg a ddewisir ei gosod yn ystyried cyfyngiadau'r safle, fel cysgod, ansawdd aer a nodweddion sensitif fel y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol. Dylid defnyddio cyfrifianellau cydnabyddedig i gyfrifo ynni, fel y Weithdrefn Asesu Safonol neu'r dull Marc Ansawdd Cartref ar gyfer adeiladau preswyl, neu'r Model Ynni Adeilad Symlach (SBEM) ar gyfer adeiladau amhreswyl. Dylai'r cyfrifiadau gynnwys yr holl allyriadau rheoledig, fel gwresogi sefydlog, goleuadau, dŵr poeth ac awyru.

5.4.87 Ystyrir bod allyriadau anrheoleiddiedig o offer fel nwyddau gwyn y tu allan i gwmpas yr ACLL. Dylid dangos bod y datblygiad yn cydymffurfio â'r polisi hwn drwy ddarparu Strategaeth Ynni ar y cam dylunio, a fydd yn cael sylw pellach yn ystod y cam adeiladu i gadarnhau bod y rhagfynegiadau yn dal yn ddilys ac i helpu i osgoi 'bwlch perfformiad'. Dylai'r ddwy ddogfen gynnwys digon o wybodaeth i ddangos sut mae'r datblygwr wedi cadw at yr hierarchaeth ynni a sut bydd yn cyrraedd y targed lleihau ynni 'gwneuthuriad yn gyntaf' o 10% (pob datblygiad) a'r targed ynni adnewyddadwy o 15% (datblygiadau fel y diffinnir yn EN/1 yn unig). Dylai lefel y manylion gyd-fynd â maint y datblygiad.

5.4.88 Gall cynlluniau ynni adnewyddadwy mawr ddod â budd cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol i gymunedau ar draws y sir. Gall prosiectau perchnogaeth leol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, sicrhau bod y buddion hynny'n cronni dros y



tymor hir, gan gynhyrchu cronfeydd i ddatblygu cyfleusterau cymunedol a helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

5.4.89 Gall prosiectau ynni adnewyddadwy hefyd ddarparu buddion amgylcheddol, fel cyfrannu at rwydweithiau ecolegol cadarn, adfer mawndiroedd diraddiedig ac adfer glaswelltiroedd lled-naturiol ar dir ôl-amaethyddol. Dylai'r datblygiad ddangos ystyriaeth weithredol o sut bydd y buddion hyn yn cael eu gwireddu yn y cynigion ynni adnewyddadwy. Gyda phob prosiect, dylai darpariaethau ar gyfer mynediad i'r safle at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun gydnabod ac ymateb i'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae tynnu isadeiledd yn ofalus yn syth ar ôl i'w ddefnydd ddod i ben, a defnyddio'r safle'n briodol wedi hynny, hefyd yn sicrhau bod y buddion amgylcheddol yn cael eu gwireddu.

Cyflawni carbon sero net mewn datblygiadau newydd

5.4.90 I gyflawni adeiladau newydd sero net yn ardal cynllun Conwy, mae'n rhaid rhoi amrywiaeth o bolisiau lleol ar waith sy'n gofyn am leihau allyriadau CO₂ yn fwy na'r hynny a nodir yn y rheoliadau presennol ar gyfer allyriadau gweithredol rheoledig yn ogystal â mynd i'r afael ag allyriadau gweithredol anrheoleiddiedig. Ochr yn ochr â hyn, mae angen gwrthbwysu carbon i bontio'r bwlch rhwng y safonau deddfwriaethol isaf a'r targedau estynedig ar gyfer gostwng allyriadau carbon.

5.4.91 Felly mae CBSC yn cyflwyno targedau lleihau allyriadau CO₂ sy'n mynd gam ymhellach na'r Rheoliadau Adeiladu presennol ar gyfer datblygiadau sylweddol (fel y diffinnir ym mholisi EN/1) ac wedi gosod amserlen ar gyfer eu cyflwyno a'u rhoi ar waith ynghyd â threfniadau ar gyfer gwrthbwysu carbon (polisi EN/7).

Ar ôl 2030 (yn amodol ar Adroddiad Monitro Blynnyddol a diwygio Rheoliadau Adeiladu):

5.4.92 Dylai pob adeilad domestig anelu i fod yn weithredol ddi-garbon, wedi'i ddangos drwy Strategaeth Ynni. Effaith gyfartalog adeiladau annomestig newydd yn un carbon net cadarnhaol. Dylai effaith net adeiladau annomestig newydd a godir o 2035 ymlaen arwain at gynhyrchu mwy o bŵer thermol neu drydanol nag sydd ei angen ar yr adeilad, fel bod modd ei ddefnyddio i wrthbwysu Conwy ehangach lle na fydd hi'n dechnegol bosibl i gyrraedd targedau tebyg.

Carbon ymgorfforedig

5.4.93 Mae'r broses o asesu ynni ymgorfforedig yn cynnwys mesur neu amcangyfrif cyfanswm yr ynni a ddefnyddir yn ystod oes cynnyrch. Fe all hyn gynnwys: nwy, olew, trydan ac ati, ond fe all hefyd gynnwys nodweddion nad ydynt mor hawdd i'w mesur fel defnydd dŵr ac effaith ecolegol. Mae'r broses fesur yn cynnwys asesu dulliau cynhyrchu perthnasol, a all gynnwys:

- echdynnu;
- gweithgynhyrchu (yn cynnwys ynni i weithgynhyrchu cyfalaf: cyfarpar;
- gwresogi a goleuadau mewn ffactïoedd/gweithfeydd ac ati);
- cludiant;
- adeiladu;
- cynnal a chadw;
- gwaredu.

5.4.94 Gallwn ddiogelu adnoddau naturiol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- osgoi defnyddio deunyddiau prin (anadnewyddadwy);



- creu llai o wastraff;
- defnyddio llai, ond peidio â gor-nodi gofynion perfformiad, drwy ddylunio isadeiledd pwysau isaf;
- defnyddio deunyddiau wedi'u hadfer yn hytrach na rhai newydd; a,
- defnyddio deunyddiau adnewyddadwy (cnydau, pren, cerrig), yn enwedig rhai lleol.

5.4.95 Bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Cyflawni adeiladau carbon sero net

EN/2 darparu adeiladau carbon sero net - rheoli datblygu

1. Dylai pob cynnig datblygiad newydd ar gyfer o leiaf 10 annedd neu 1,000m² gyflawni allyriadau carbon rheoledig gweithredol sero net mewn adeiladau drwy roi'r hierarchaeth ynni ar waith. Dylai cynigion ddangos bod yr hierarchaeth ynni wedi'i rhoi ar waith drwy gyflwyno Strategaeth Ynni sy'n nodi:
 - a. Ar gyfer adeiladau preswyl newydd, bod gostyngiad o 45% neu fwy wedi'i gyflawni o ran allyriadau rheoledig drwy fesurau ar y safle, o gymharu â'r gyfradd allyriadau sylfaenol a nodir yn Rhan L Rheoliadau Adeiladu 2022.
 - b. Ar gyfer adeiladau amhreswyl newydd, bod gostyngiad o 16% neu fwy wedi'i gyflawni o ran allyriadau rheoledig drwy fesurau ar y safle, o gymharu â'r gyfradd allyriadau sylfaenol a nodir yn Rhan L Rheoliadau Adeiladu 2022.
2. Mae'n rhaid i bob adeilad newydd:
 - a. ddangos bod yr hierarchaeth ynni wedi'i defnyddio drwy gydymffurfio â'r darpariaethau polisi ar effeithlonrwydd ynni (polisi EN/3) ac ynni adnewyddadwy (polisi EN/4);

- b. darparu isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn unol â pholisi STA/2; a,
 - c. gwrthbwysu'r allyriadau carbon sy'n weddill (dros gyfnod o 30 o flynyddoedd) i sero yn unol â pholisïau EN/6 ac EN/7.
3. Os nad yw'n bosib neu'n ymarferol cydymffurfio â hyn yn llawn, mae'n rhaid i'r cynigion leihau allyriadau carbon cymaint â phosibl, a dangos hynny mewn Strategaeth Ynni. Os ceir cyfyngiadau o'r fath, disgwylir i gynigion gynnwys gwneuthuriad ynni effeithlon a systemau gwresogi carbon isel (dim nwy) cyn symud ymlaen i gynhyrchu trydan adnewyddadwy neu wrthbwysu carbon.
 4. Gall y cynigion hefyd, ar lefel wirfoddol, leihau rhai neu'r holl allyriadau carbon anrheoleiddiedig i'r fath raddau sy'n bosibl ac yn ymarferol a chyflwyno gwybodaeth o'r fath fel rhan o Strategaeth Ynni sy'n dangos sut mae datblygiad (preswyl ac amhreswyl) wedi'i gynllunio i leihau'r defnydd o ynni gan ystyried:
 - a. allyriadau CO₂ gwaelodlin blynyddol a chostau ynni;
 - b. gwelliannau CO₂ yn sgil gwneuthuriad ynni effeithlon yr adeilad;
 - c. gwelliannau CO₂ yn sgil ffactorau gwresogi, awyru a goleuadau;
 - d. gwelliannau CO₂ yn sgil technoleg carbon isel ac ynni adnewyddadwy;
 - e. dadansoddiad o gyfraniad a chost pob mesur gwella arfaethedig;
 - f. y gost i'r meddianwyr;
 - g. gwerth y taliad gwrthbwysu a fydd yn cael ei wneud i'r gronfa gwrthbwysu carbon, a gaiff ei sicrhau drwy gytundeb

cyfreithiol neu amod i wneud iawn am unrhyw ddiffyg wrth gyflawni carbon sero net, os oes angen.

5.4.96 Mae safonau perfformiad ynni gofynnol adeiladau wedi'u nodi yn Rhan L Rheoliadau Adeiladu LLC. Ceir amryw o safonau DU a rhyngwladol gwirfoddol sy'n gosod targedau uwch, a ddefnyddir yn aml yng Nghymru a gweddill y DU, ochr yn ochr â'r gofynion diwygiedig ar gyfer adeiladau domestig ac annomestig.

5.4.97 Nid yw'r holl allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau yn cael eu crybwyll yn y Rheoliadau Adeiladu nac yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau gwirfoddol. Mae Rheoliadau Adeiladu diwygiedig Llywodraeth Cymru, BREEAM a HQM yn edrych ar allyriadau CO₂ sy'n dod o ddefnyddio gwasanaethau a nwyddau sy'n sownd h.y. systemau gwresogi, oeri, awyru, dŵr poeth a goleuadau. Cyfeirir at y rhain fel allyriadau CO₂ 'rheoledig'. Mae allyriadau CO₂ 'anrheoleiddiedig' yn rhai sy'n digwydd wrth ddefnyddio nwyddau eraill (rhai trydanol fel arfer e.e. oergelloedd, systemau adloniant y cartref) a bydd yn rhaid mynd i'r afael â rhain ymhob adeilad sero net. Dim ond y safon Passivhaus sy'n mynd i'r afael ag allyriadau rheoledig ac anrheoleiddiedig.

5.4.98 Yn ogystal, nid yw allyriadau ymgorfforedig sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, gweithgynhyrchu, adeiladu, cynnal a chadw, atgyweirio a dymchwel adeiladau wedi'u cynnwys yn y rheoliadau na'r safonau presennol. Er bod y diwygiadau i Reoliadau Adeiladu Cymru 2022 yn welliant, nid ydynt yn cydfynd yn union â gofynion adeiladu sero net. Cyn i Reoliadau Adeiladu ddarparu adeiladau sero net mi fydd hi'n bwysig sicrhau bod pob datblygiad newydd yn manteisio ar bob cyfle i

osod technoleg carbon isel neu di-garbon – ac os nad ydynt yn gallu gwneud hynny o'r cychwyn cyntaf, eu bod yn gwneud hynny yn y dyfodol.

5.4.99 Mae'r cyfleoedd allweddol yn debygol o gynnwys:

- Sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safon uchel o effeithlonrwydd gwneuthuriad, yn cynnwys insiwleiddio ac aerglosrwydd – bydd cyrraedd sero net yn dibynnu ar leihau'r galw am ynni a newid tuag at ddefnyddio technoleg wedi'i phweru gan drydan adnewyddadwy, yn cynnwys pypiau gwres a systemau adfer gwres. Mae angen safon uchel o effeithlonrwydd gwneuthuriad i sicrhau bod y dechnoleg hon yn gweithredu'n hynod effeithlon. Ymhellach i hynny, o ystyried bod trydan yn danwydd drutach na nwy naturiol, mae angen lleihau'r galw i sicrhau bod y newid hwn yn lleihau'r cynnydd mewn biliau ynni ble bo'n bosibl.
- Gellir newid systemau gwresogi tymheredd isel gyda systemau pypiau gwres o'r aer yn hawdd – yn y dyfodol mae'r ffurf fwyaf carbon effeithlon o wresogi yn debygol o gynnwys pypiau gwres, sydd fwyaf effeithlon pan ddefnyddir hwy gyda systemau gwresogi tymheredd isel. Gall gosod rheiddiaduron a phibwaith sy'n gytûn â systemau gwresogi tymheredd isel leihau costau ôl-osod pwmp gwres (oherwydd bod modd cadw'r rheiddiaduron a'r pibwaith) ac, yn y cyfamser, gwella perfformiad boeler nwy. Er enghraifft, byddai hyn yn debygol o olygu gosod system wresogi o dan y llawr neu nodi rheiddiaduron mwy na'r rheiny a ddefnyddir fel rheol ar gyfer boeler nwy traddodiadol.
- Manteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy – mae'r trydan a gynhyrchir gan PV yn dibynnu ar sawl ffactor,

yn cynnwys arbelydriad solar blynyddol, cyfeiriad y paneli, gogwydd ac effeithlonrwydd. Felly, mae dyluniad a geometreg yr adeilad, a chynllun a gogwydd y paneli solar yn gyffredinol, yn ffactorau pwysig sy'n penderfynu faint o PV a ellir ei osod.

- Gwneud lle ar gyfer pypiau gwres o'r aer a storfa fatris – mae'n rhaid gosod pypiau gwres o'r aer mewn lle hygrych tu allan wrth ymyl yr eiddo, yn ddelfrydol yn yr awyr agored (h.y. nid mewn sied neu adeilad tebyg). Hefyd, dylai cynllun adeiladau newydd gynnwys lle ar gyfer systemau batri, gwrthdroyddion a chaledwedd cysylltiedig arall (ond cydnabyddir y bydd y gofynion o ran lle yn newid dros amser yn sgil gwelliannau technolegol). Bydd y defnydd cynyddol o systemau gwresogi trydanol, cerbydau trydan, storfa fatris a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle yn rhoi galw sylweddol ar yr isadeiledd pŵer presennol ymhellach i fyny, a fydd o bosibl yn gofyn am atgyfnerthu'r grid lleol (e.e. cynyddu capasiti is-orsafoedd a cheblau ymhellach i fyny).
- Caniatáu mynediad ar gyfer cynnal a chadw a newid systemau gwresogi/oeri a gwasanaethau eraill – mae'r broblem yn fwy tebygol o godi mewn adeiladau amhreswyl sydd ag ystafelloedd cyfarpar pwrpasol a systemau awyru. Mae'n bwysig sicrhau bod y cynllun yn caniatáu mynediad i holl wasanaethau'r adeilad (e.e. dimensiynau drysau a chyfleusterau lifft sy'n caniatáu mynediad i ystafelloedd cyfarpar ar y llawr isaf neu ar y to). Gall cynllunio i hwyluso gwaith cynnal a chadw hefyd helpu i leihau'r deunyddiau sydd eu hangen i gynnal a chadw adeilad yn ystod ei oes a hwyluso datgarboneiddio, gan gyd-fynd ag egwyddorion dylunio Economi Gylchol.

5.4.100 Mae canllawiau pellach ar gael ym Mhapur Cefndir/65: Cyflawni Di-garbon Net mewn Adeiladau.

Adeiladau Ynni Effeithlon

EN/3 adeiladau ynni effeithlon - rheoli datblygu

1. Disgwylir i bob cynnig newydd ar gyfer o leiaf 10 annedd neu 1,000m² ddangos bod cyrraedd y targedau a nodir ym mholisi EN/2 yn ganlyniad i leihau'r defnydd o ynni yn y lle cyntaf a gwella perfformiad ynni adeilad drwy fesurau ynni effeithlon yn ail (effeithlonrwydd gwneuthuriad, gwasanaethau effeithlon a chyflenwad ynni effeithlon) cyn ystyried trydaneiddio gwresogi a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
2. Os yw'r datblygwr wedi dangos nad yw'n hyfyw neu'n bosibl cydymffurfio'n llwyr oherwydd y math o ddatblygiad a'i gynllun, mae'n rhaid i gynigion ddangos, drwy Strategaeth Ynni, bod gostyngiadau carbon drwy fesurau ynni effeithlon wedi'u cynnwys gorau posibl.
3. Ni chaniateir gwresogi unrhyw ddatblygiad newydd yn defnyddio tanwydd ffosil. Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos:
 - a. Defnyddio system wresogi drydanol sy'n addas ar gyfer y safle. Bydd y rhain fel rheol yn bympiau gwres o'r aer ond, mewn achosion eraill, fe allan nhw fod yn ffurfiau addas eraill ar wres wedi'i drydaneiddio;
 - b. Pypiau gwres o faint digonol neu system wresogi heb danwydd ffosil ar gyfer y gofyniad gwresogi, a digon o le ar y llawr gwaelod ar gyfer y cyfarpar angenrheidiol.
4. Drwy Strategaeth Ynni, mae'n rhaid i gynigion ddangos i ba raddau maent yn gallu cydymffurfio â'r polisi hwn.



- 5.4.101 Mae'r polisi hwn yn ychwanegu allyriadau carbon ymgorfforedig at bolisi EN/2 ac yn gofyn i adeiladau newydd (domestig ac annomestig) gyflawni allyriadau gweithredol rheoledig ac anrheoleiddiedig ac allyriadau carbon ymgorfforedig sero net, ochr yn ochr â chronfa gwrthbwysu carbon.
- 5.4.102 Mae allyriadau carbon ymgorfforedig, neu'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â deunyddiau adeiladu, yn gallu cynrychioli 50% o gyfanswm allyriadau gweithredol adeiladau ac mae'r ganran honno yn parhau i gynyddu wrth i'r grid trydan gael ei ddatgarboneiddio a'r allyriadau gweithredol leihau oherwydd gwelliannau effeithlonrwydd. Felly mae'n bwysig bod yr allyriadau hyn yn cael eu hystyried mewn datblygiadau; ac maent yn cael eu cydnabod fwyfwy mewn isadeiledd gyda rheoliadau mewn sectorau penodol.
- 5.4.103 Disgwylir i bob datblygiad newydd, fel y nodir yn EN/1 uchod, ddangos bod cyrraedd y targedau a nodir ym mholisi rheoli EN/2 yn ganlyniad i leihau'r defnydd o ynni yn y lle cyntaf a gwella perfformiad ynni adeilad drwy fesurau ynni effeithlon yn ail (effeithlonrwydd gwneuthuriad, gwasanaethau effeithlon a chyflenwad ynni effeithlon) cyn ystyried trydaneiddio gwresogi a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yna ystyried trydaneiddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- 5.4.104 Os nad yw'n bosibl cydymffurfio'n llwyr ar ôl ystyried y math o ddatblygiad a'i gynllun, mae'n rhaid i gynigion ddangos, drwy Strategaeth Ynni, bod gostyngiadau carbon drwy fesurau ynni effeithlon wedi'u hystyried a'u cynnwys gorau posibl.

Carbon sero net wrth addasu adeiladau ac ôl-osod

- 5.4.105 Dylai pob datblygiad ddangos ystyriaeth i adeiladu a dylunio cynaliadwy yn unol â'r targedau sero net.
- 5.4.106 Yn ogystal, dylai pob datblygiad ystyried trydaneiddio gwres. Dylid archwilio hyn drwy Strategaeth Ynni sy'n nodi opsiynau carbon isel i gefnogi'r cynigion datblygu. Bydd datblygiadau sy'n arwain at welliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni, effeithlonrwydd gwneuthuriad a gostyngiadau mewn allyriadau carbon yn gryfach oherwydd y nodweddion hynny.
- 5.4.107 Mae gwaith ôl-osod mesurau ynni effeithlon a'r defnydd priodol o fesurau ynni adnewyddadwy bach mewn adeiladau hanesyddol, yn cynnwys adeiladau rhestredig, adeiladau rhestredig lleol a'r rheiny mewn ardaloedd cadwraeth, yn cael ei annog, ar yr amod bod nodweddion arbennig yr asedau treftadaeth yn cael eu diogelu mewn ffordd sy'n briodol i'w harwyddocâd yn unol â pholisi HE/1.
- 5.4.108 Nod y dull hwn yw lleihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddatblygiad newydd i gefnogi'r gwaith o gyrraedd targedau lleihau carbon lleol a chenedlaethol. Amcangyfrif bod adeiladau presennol (preswyl a masnachol) yn gyfrifol am oddeutu 40% o allyriadau carbon Bwrdeistref Sirol Conwy. Felly mae gwaith ôl-osod mewn adeiladau presennol yn gyfle da i leihau allyriadau carbon ar draws ardal y CDLlN. Ni fydd bob tro yn bosibl ôl-osod adeiladau i'r un lefel effeithlonrwydd gwneuthuriad ag adeiladau newydd. Felly mae'r dull yn darparu cam cadarnhaol i leihau allyriadau adeiladau presennol, drwy gyflenwad ynni carbon isel, mesurau ynni effeithlon ac ynni adnewyddadwy bach, gan gydnabod yr angen i drin asedau hanesyddol mewn ffordd sensitif.

5.4.109 Ar gyfer ynni gwresogi adeiladau presennol, dylid defnyddio galw cyfartalog o 40kWh/m² fel targed ar gyfer cynigion sy'n cynnwys addasiadau, estyniadau a newid defnydd. Mae gan LETI ganllawiau manwl ar gyfer adeiladau presennol yn eu Climate Retrofit Guide: <https://www.leti.uk/retrofit> ac mae gan BREEAM safonau technegol ar gyfer ôl-osodiadau yn <https://bregroup.com/products/breeam/breeam-technical-standards/breeam-refurbishment-and-fit-out/>.

5.4.110 Mae canllawiau pellach ar gael ym Mhapur Cefndir BP/65: Cyflawni Di-garbon Net mewn Adeiladau.

Ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel a thechnoleg di-garbon parod

EN/4 ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel a thechnoleg di-garbon parod

1. Mae'n rhaid i bob cynnig am adeilad newydd ddangos, drwy ddadansoddiad safle a, ble bo'n briodol, drwy Strategaeth Ynni:
 - a. sut mae'r cynllun, gogwydd a màs wedi'u dylunio i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y safle a thechnolegau carbon isel; a,
2. Darparu technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel ychwanegol ar y safle, gan gynnwys storfa batri os oes angen. Ar gyfer pob cynnig newydd fel y diffinnir yn EN/1 ble mae cysylltiad uniongyrchol oddi ar y grid i'r datblygiad sydd â chapasiti, gellir darparu'r ynni adnewyddadwy ychwanegol drwy gynhyrchu ynni carbon isel neu adnewyddadwy oddi ar y safle neu ddefnyddio rhwydwaith gwresogi. Os yw ymgeiswyr

yn dangos nad oes modd cydymffurfio'n llawn, mae'n rhaid i gynigion ddangos, mewn Strategaeth Ynni, bod:

- a. technolegau adnewyddadwy, di-garbon a charbon isel wedi'u darparu hyd y bo modd; a bod
- b. technolegau 'di-garbon parod' (mewn cyferbyniad â thechnoleg sy'n ddi-garbon / carbon isel yn syth bin) wedi'u cynnwys.

3. Bydd cynigion sy'n cynnwys technoleg wresogi ar y safle sy'n honni bod yn 'ddi-garbon parod' (o gymharu â thechnoleg sy'n ddi-garbon / carbon isel yn syth bin) yn cael eu cymeradwyo pan fo'r dechnoleg honno eisoes ar gael a'r newid i fod yn ddi-garbon yn seiliedig ar amcanestyniadau presennol realistig o'r cyfnod amser y bydd ei garbon yn cael ei ddileu. Ni fydd cynigion gyda thechnoleg wresogi 'di-garbon parod' sy'n dibynnu ar welliannau technolegol yn y dyfodol gan ddefnyddio tanwydd ffosil ar y safle yn y cyfamser, yn cael eu cymeradwyo.

5.4.111 Mae canllawiau pellach ar gael ym Mhapur Cefndir/65: Cyflawni Di-garbon Net mewn Adeiladau.

5.4.112 Bydd yr ACLL, datblygwyr a darparwyr isadeiledd grid yn ymrwmo i broses o ymgysylltu cynnar sy'n caniatáu cynllunio grid trydan clyfar integredig yn ardal CDLIN Conwy ac yn sicrhau bod modelau technegol, ariannol a rheoli yn cael eu datblygu i oresgyn rhwystrau.

5.4.113 Lle mae datblygiadau newydd yn edrych ar gyrraedd targedau carbon yn defnyddio ynni adnewyddadwy a gynhyrchir oddi ar y safle, bydd yr ACLL, datblygwyr a darparwyr isadeiledd



grid yn cydweithio i gynnwys y generaduron ynni adnewyddadwy yn y rhwydwaith trydan integredig.

5.4.114 Fel rhan o baratodau cais cynllunio ar gyfer datblygiad newydd, fel y diffinnir yn EN/1, mae'n rhaid i ddatblygwyr:

- Ymrwymo i drafodaethau cynnar gyda darparwyr isadeiledd grid i nodi anghenion isadeiledd y datblygiad newydd a sicrhau bod y rhain yn cael sylw yn y cynlluniau, rhwydweithiau ynni a'r cysylltiadau yn barod ar gyfer gwasanaethu'r datblygiad arfaethedig
- Dangos y bydd capasiti isadeiledd grid digonol, o'r feddiannaeth gyntaf hyd at gwblhau'r datblygiad, i sicrhau nad yw'r datblygiad yn arwain at broblemau o ran capasiti na dibynadwyedd yn yr ardal gyfagos
- Paratoi strategaeth cyflwyno a darparu isadeiledd ynni cam wrth gam ar gyfer safleoedd datblygu trefol newydd. Mae'n rhaid i'r strategaeth hon amlinellu cynigion ar gyfer:
 - Gosod mesuryddion clyfar;
 - Lleihau'r galw am ynni yn ystod cyfnodau prysur a hyrwyddo storio ynni tymor byr;
 - Ystyried gridiau clyfar a gridiau bach llai os yn ymarferol;
 - Beth sydd angen ei ddarparu, erbyn pryd a phwy fydd yn ei ariannu a'i ddarparu

Allyriadau carbon heb eu rheoleiddio a charbon ymgorfforedig mewn adeiladau

EN/5 allyriadau carbon heb eu rheoleiddio a charbon ymgorfforedig mewn adeiladau

1. Mae'n rhaid i gynigion newydd ar gyfer o leiaf 10 annedd neu 1,000m² gyfrifo allyriadau carbon anrheoleiddiedig a charbon ymgorfforedig ar gyfer adeiladau newydd ar wahân.
2. Ar gyfer allyriadau anrheoleiddiedig:
 - a. Mae'n rhaid i gynigion gyfrifo allyriadau anrheoleiddiedig adeiladau newydd a dangos bod gostyngiad wedi'i gyflawni o gymharu â'r manylebau dylunio arfer gorau ar adeg paratoi'r cynigon.
 - b. Os yw datblygwr yn wynebu diffyg yn y gostyngiadau sydd eu hangen o ran allyriadau rheoledig ym mholisi EN/2 ond yn gallu dangos dull da o leihau allyriadau anrheoleiddiedig ar y safle, gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried y gostyngiadau hyn yn gyfnewid am ostyngiad yn yr allyriadau rheoledig drwy gyfrifo arbedion ar y safle net cyn unrhyw gyfraniadau ariannol.
 - c. Mae'n rhaid i gynigion ddangos i ba raddau maent yn gallu cydymffurfio â'r polisi hwn drwy'r Datganiad Lleihau Carbon, fel y nodir ym mholisi EN/6 – asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiad newydd.
 - d. Mae'n rhaid i ddatblygwyr fonitro ac adrodd ar ddefnydd ynni gweithredol anrheoleiddiedig a/neu allyriadau CO₂, er mwyn cadarnhau bod y lefel ofynnol o welliant wedi'i chyflawni.
3. Ar gyfer allyriadau carbon ymgorfforedig:



- a. bydd y gostyngiadau a gyflawnir yn cael eu harwain gan y targedau canlynol: gostyngiad o 65% erbyn 2030 a 100% erbyn 2050.
- b. Mae'n rhaid i gynigion gyfrifo allyriadau carbon ymgorfforedig ar gyfer adeiladau newydd a dangos bod gostyngiad wedi'i gyflawni o gymharu â'r manylebau dylunio arfer gorau ar adeg paratoi'r cynigon.
- c. Mae'n rhaid i gynigion ddangos i ba raddau maent yn gallu cydymffurfio â'r polisi hwn drwy'r Datganiad Lleihau Carbon, fel y nodir ym mholisi EN/6 – asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiad newydd.

5.4.115 Nod y polisi hwn yw lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â defnydd ynni anrheoleiddiedig adeiladau ac allyriadau wedi'u hymgorffori yn y gwaith adeiladu. Efallai y bydd gostyngiad mewn allyriadau anrheoleiddiedig i fynd i'r afael â diffyg yn y gostyngiad mewn allyriadau rheoledig yn cael ei ystyried fel rhan o fesurau gwrthbwysu. Ond gan na chynigir bod allyriadau ymgorfforedig yn cael eu cynnwys mewn mesurau gwrthbwysu, ni fyddai unrhyw fecanwaith ffurfiol i ddarparu ar gyfer unrhyw ddiffyg. Gellir mabwysiadu targedau carbon ymgorfforedig LETI fel canllaw. Bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

5.4.116 Bydd gwneud maen prawf 5 yn amod yn helpu i fonitro perfformiad adeilad a hysbysu'r Adroddiad Monitro Blynnyddol.

Asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiadau newydd

EN/6 asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiadau newydd

1. Bydd angen i bob cynnig newydd yn cynnwys o leiaf 10 annedd neu 1,000m² baratoi asesiad carbon oes gyfan i leihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr a nodir ar bob cam o'r datblygiad arfaethedig. Mae'n rhaid i'r asesiad gynnwys allyriadau o adeiladau (yn cynnwys gwybodaeth berthnasol o'r Strategaeth Ynni sydd ei hangen dan bolisi EN/1), cludiant ac allyriadau defnydd tir, a sicrhau bod allyriadau yn cael eu lleihau yn unol â darpariaethau polisi perthnasol y CDLIN.
2. Bydd yn rhaid i ddatblygwyr gyfrifo allyriadau carbon ymgorfforedig, carbon adeiladu a gweithredol oes gyfan sy'n gysylltiedig â'u cynigion datblygu yn defnyddio methodoleg a gydnabyddir yn genedlaethol, yn ogystal â dangos y camau a gymerwyd i leihau cylch bywyd carbon yr adeilad.
3. Ochr yn ochr â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, dylai datblygwyr gynnwys cyfleoedd yn y datblygiad arfaethedig i gynnwys atebion technegol ar sail natur i ddal neu wrthbwysu'r allyriadau sy'n weddill yn unol â pholisïau gwrthbwysu carbon a storio carbon y CDLIN.
4. Dylid cyflwyno'r holl wybodaeth mewn Datganiad Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr fel rhan o'r cais cynllunio.

5.4.117 Bydd y polisïau perthnasol i adeiladau newydd wedi'u nodi yn y CDLIN hyd nes bydd diwygiadau pellach i Reoliadau



Adeiladu neu ddeddfwriaeth newydd sy'n gosod gofynion llymach ac wedyn bydd angen cadw at y rheiny fel rhan o geisiadau cynllunio hyd nes bydd polisïau'r CDLIN wedi'u diwygio.

Gwrthbwysu carbon

- 5.4.118 Bydd CBSC yn sefydlu Cronfa Gwrthbwysu Carbon i ddatblygwyr gyfrannu ati yn lle cyflawni gostyngiadau CO₂ pan nad oes modd cyflawni datblygiad carbon sero net ar y safle. Defnyddir y gronfa hon i ddarparu prosiectau arbed carbon fel gosodiadau carbon isel a di-garbon mawr a/neu osodiadau ar isadeiledd presennol (e.e. paneli solar ar feysydd parcio) yn ogystal â phrosiectau storio carbon fel plannu coed ac adfer mawndiroedd.
- 5.4.119 Bydd y gronfa ond yn cael ei defnyddio pan fydd datblygwr wedi dangos fod gostyngiadau carbon ar y safle wedi'u cyflawni hyd y gellir ac mai gwrthbwysu carbon yw'r unig ddewis ar gael i fwrw ymlaen â datblygiad angenrheidiol. Byddai'n ateb olaf ac yn fesur dros dro, ond yn bwysicach bydd yr arian a gesglir yn caniatáu hyblygrwydd i gwrdd â thargedau mwy uchelgeisiol yn y tymor byr a'r tymor canolig, hyd nes bydd y gyfundrefn reoleiddio, economeg datblygu a'r diwydiant datblygu yn darparu datblygiadau sero net gwirioneddol neu garbon cadarnhaol ar safleoedd.
- 5.4.120 Yn draddodiadol mae cronfeydd gwrthbwysu carbon wedi'u sefydlu fel rhan o bolisïau cynllunio sydd angen gostyngiad uwch mewn allyriadau carbon na'r hynny a nodir yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r gronfa wrthbwysu yn talu am brosiectau arbed carbon mewn llefydd eraill, sy'n gwneud iawn am fethiant datblygiadau i gyflawni arbedion carbon.

- 5.4.121 Cyfeiriwch at Bapur Cefndir/62: Nodyn Technegol Dal a Storio Carbon, Papur Cefndir 64: Nodyn Technegol Cludiant ac Ynni a Phapur Cefndir/65: Cyflawni Adeiladau Di-garbon Net am ragor o arweiniad.

EN/7 gwrthbwysu carbon

1. Os nad yw cynigion newydd ar gyfer o leiaf 10 annedd neu 1,000m² yn gallu dangos eu bod yn ddatblygiadau carbon sero net o ran allyriadau rheoledig, bydd yn rhaid i'r datblygwr fynd i'r afael ag allyriadau carbon gweddilliol drwy:
 - a. storio carbon ar y safle;
 - b. Defnyddio cynllun gwrthbwysu lleol oddi ar y safle, sydd wedi'i gymeradwyo gan yr ACLL neu, os nad yw hynny'n bosibl;
 - c. Gwneud cyfraniad ariannol i gronfa gwrthbwysu carbon yr ACLL.
2. Bydd prosiectau gwrthbwysu a ariennir drwy'r gronfa gwrthbwysu carbon yn cael eu ffurfioli gan y Cyngor ac fe allan nhw gynnwys: cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gwaith ôl-osod mewn adeiladau a phlannu coed ar raddfa fawr. Bydd y prosiectau yn cael eu darparu yn ardal y cynllun. Bydd swm y carbon i'w wrthbwysu yn cael ei gyfrifo yn defnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol ddiweddaraf ac yn ymestyn dros 30 mlynedd o fywyd adeilad.

- 5.4.122 Mae'r polisi yn opsiwn ar gyfer gwrthbwysu fel ateb olaf ar ôl archwilio pob opsiwn arall ar y safle.

- 5.4.123 Mae'n rhaid i gynlluniau gwrthbwysu lleol amgen oddi ar y safle fod o fewn ardal y cynllun ac wedi'u cymeradwyo, gan gyrraedd safonau cenedlaethol a safonau diwydiant perthnasol. Os yw'n gynllun storio carbon ar sail natur, yna mae'n rhaid iddo



gael ei gefnogi gan fenter Cod Carbon Coetir y llywodraeth neu debyg.

5.4.124 Bydd yr ACLL yn paratoi ac yn cynnal CCA sy'n nodi sut y bydd cyfraniadau at y Gronfa Gwrthbwysu Carbon yn cael eu defnyddio i alluogi carbon sero net, a sut bydd yr ACLL yn defnyddio ei ddisgresiwn wrth asesu derbynoldeb unrhyw ateb gwrthbwysu carbon amgen oddi ar y safle a gynigir gan ddatblygwyr.

5.4.125 Bydd cyfraniadau at y gronfa wrthbwysu yn cael eu gwneud drwy gytundebau adran 106 a bydd yn rhaid eu gwneud cyn i'r adeiladau newydd gael eu meddiannu.

5.4.126 Bydd swm y carbon i'w wrthbwysu yn cael ei gyfrifo yn defnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol ddiweddaraf ac yn ymestyn dros 30 mlynedd o fywyd adeilad.

5.4.127 Bydd y pris gwrthbwysu carbon yn cyd-fynd â gwerthoedd carbon diweddaraf Llywodraeth y DU, sy'n cynrychioli'r gwerth ariannol y mae cymdeithas yn ei roi ar un dunnell o garbon deuocsid a'i gyfatebol (£/tCO₂e). Yn 2023, mae gwerth canolog carbon yn £252/ tCO₂e. Disgwylir i werth carbon gynyddu'n raddol i £260/ tCO₂e yn 2025 ac yna i £280/ tCO₂e yn 2030, £326/ tCO₂e yn 2040, £351 yn 2045 a £378/ tCO₂e yn 2050.

5.4.128 Bydd cyllid a geir drwy'r polisi hwn yn cael ei ddiogelu a'i weinyddu mewn ffordd dryloyw gan y Cyngor i ddarparu amrywiaeth o brosiectau sy'n cyflawni arbedion carbon mesuradwy mor lleol â phosibl, ar yr un gost gyfartalog y dunnell. Bydd perfformiad y gronfa yn cael sylw yn yr Adroddiad Monitro a fydd yn cyfeirio at faint o arian sydd wedi'i wario, y mathau o brosiectau a ariannwyd a'r CO₂ sydd wedi'i arbed.

5.4.129 Cyfeiriwch at Bapurau Cefndir 62: Nodyn Technegol Dal a Storio Carbon, Papur Cefndir 64: Nodyn Technegol Cludiant ac Ynni a Phapur Cefndir 65: Cyflawni Adeiladau Di-garbon Net am ragor o arweiniad.

Datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel

5.4.130 Dan amgylchiadau penodol, bydd angen isadeiledd rhwydwaith grid trydan ychwanegol i gefnogi'r meysydd allweddol a nodir yn y canllawiau cenedlaethol a'r CDLIN.

5.4.131 Mae'r ACLL a'r diwydiant ynni, yn cynnwys y Grid Cenedlaethol a gweithredwyr y rhwydwaith dosbarthu, yn ymgysylltu gyda'i gilydd i sicrhau bod y CDLIN wedi ystyried materion isadeiledd grid a bod y Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL), y CDLIN a'r canllawiau cenedlaethol yn amlygu ardaloedd sydd angen buddsoddiad a chynnydd yn y capasiti. Gall hyn hefyd sicrhau bod cynlluniau buddsoddi ar gyfer trawsyrru a dosbarthu yn cyd-fynd â'r potensial a nodwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel.

5.4.132 Yn ychwanegol, mae modelu'r CYAL yn awgrymu defnyddio storfa fatris rhwng 150 a 250GWh gyda chysylltiad â'r grid cenedlaethol o hyd at 160MW. Byddai'r capasiti hwn yn cynnwys cyfuniad o storfa hirdymor yn cynnwys batris sefydlog ar lefel grid er mwyn uchafu'r defnydd o gynhyrchiant gwynt hynod gyfnewidiol a'r adnoddau solar helaeth yn ystod misoedd yr haf; a batris tymor byrrach i wneud defnydd o systemau ffotofoltäig ar doeau a thariffau ynni amrywiol i ddiwallu galwadau ynni dyddiol.

Cysylltu â'r Grid a Storio Ynni Adnewyddadwy

EN/8 cysylltu â'r grid a storio ynni adnewyddadwy

1. Bydd gan yr ACLL ddull cadarnhaol tuag at isadeiledd grid a storio ynni, a bydd yn ceisio hwyluso hynny mewn ffordd sydd ei hangen i gefnogi potensial yr ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, yn enwedig ardaloedd sydd wedi'u nodi ar gyfer datblygiad ac ymyriadau o'r fath yn y CYAL. Bydd datblygiadau grid priodol yn cael eu cefnogi, pa un ai yw'r datblygiadau sy'n cysylltu yn ardal y cynllun ai peidio. Bydd datblygiadau yn cael eu cefnogi yn amodol ar y canlynol:
 - a. eu bod yn dderbyniol o safbwynt polisïau eraill y CDLIN;
 - b. bod effeithiau cronol posibl ar gymunedau, tirlun a'r amgylchedd cyfagos yn cael eu hystyried yn dderbyniol. Lle ystyrir bod datblygiad yn cael effaith gronol annerbyniol, bydd yn cael ei wrthod. Bydd cysylltiadau is-wyneb yn cael eu ffafrio;
 - c. na fydd y datblygiad yn cynhyrchu lefelau sŵn na chysgodion symudol a fyddai'n annerbyniol o niweidiol i'r amwynder a gaiff ei fwynhau gan drigolion cyfagos neu ddefnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus a chyfleusterau neu ardaloedd hamdden eraill;
 - d. Bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol boddhaol yn cael ei ddarparu sy'n cynnig mesurau ar gyfer diogelu, adfer a gwella cynefin a bioamrywiaeth yn unol â pholisi NE/1; a,
 - e. Bod y datblygiad yn hwyluso cysylltu ynni adnewyddadwy a charbon isel gyda datblygiadau mawr newydd neu wella capasiti'r grid.

Cynhyrchu Ynni Lleol a Chynllun Ynni Ardal Leol

- 5.4.133 Bydd y ACLL yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer defnyddio trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol i helpu i gyrraedd y targed cenedlaethol o un Gigawatt erbyn 2030.
- 5.4.134 Dylai cynigion ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r isadeiledd cysylltiedig, ar eu pen eu hunain, yn gronnus neu ar y cyd â datblygiad presennol sydd yn yr arfaeth neu wedi'i gymeradwyo, gydymffurfio â'r holl bolisiau perthnasol eraill yn y cynllun.
- 5.4.135 Mae cynigion ar gyfer datblygiadau mawr (10MW+) yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru.

EN/9 cynhyrchu ynni'n lleol a'r cynllun ynni ardal leol

Bydd datblygiadau dan 10MW yn cael eu hystyried gan yr ACLL yn unol â'r meini prawf canlynol:

1. Cefnogir datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol sy'n:
 - a. dderbyniol o safbwynt polisïau eraill y CDLIN;
 - b. hwyluso cyd-leoli datblygiadau i alluogi defnyddio cyfleoedd gwres lleol;
 - c. hwyluso cysylltu ynni adnewyddadwy a charbon isel gyda datblygiadau newydd a defnyddwyr llawer o ynni;
 - d. gwneud y mwyaf o wastraff gwres;



- e. hyrwyddo cynlluniau gwresogi ardal neu gynlluniau gwres a phŵer cyfunedig;
- f. yn cynnwys elfen gytunedig o berchnogaeth leol a budd cymuned;
- g. cynnwys Asesiad o Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd derbyniol;
- h. ddim yn cael effaith niweidiol ar y canlynol:
 - i Cymeriad a nodweddion y lleoliad arfaethedig – boed hynny yn sgil lleoliad, dyluniad, cynllun, math o osodiad a'r deunyddiau a ddefnyddir;
 - ii Amwynder cyhoeddus neu hygyrchedd yr ardal i'r cyhoedd; neu
 - iii Radar, gweithrediadau awyrennau neu delathrebu;
- 2. Dangos y gostyngiad mewn carbon mewn Strategaeth Ynni gyda chamau lliniaru digonol;
- 3. Camau lliniaru derbyniol i leihau effaith y cynnig a'i isadeiledd cysylltiedig. O ran cynigion solar, mae'n rhaid iddyn nhw liniaru unrhyw effaith yn sgil fflachiau a disgleirio;
- 4. Bydd cynigion hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adfer ac ôl-ofal y tir er mwyn ei aildefnyddio mewn ffordd fuddiol. Bydd hyn yn cael ei gytuno arno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

5.4.136 Cafod CYAL Conwy (Papur Cefndir 55) a'r adroddiad technegol ategol eu cyhoeddi fis Ionawr 2021 i nodi sut beth fydd system ynni ddi-garbon erbyn 2050 ac i ddisgrifio'r camau gweithredu allweddol y dylai CBSC eu cymryd rŵan i gefnogi'r daith hon. Roedd y CYAL yn gynllun peilot ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru ac yn seiliedig ar fethodoleg 2020 Ofgem.

5.4.137 Mae canlyniadau'r ymarfer modelu a gynhaliwyd yn nodi'r angen am ddefnydd sylweddol o asedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy technegol ymarferol yn yr ardal leol:

- Oddeutu 760MW o PV ar y tir a rhwng 50 a 95MW o PV ar doeau. Byddai'r systemau ffotofoltäig hyn ar y tir yn gorchuddio oddeutu 760 hectar – sef 1,000 o gaeau pêl-droed, sy'n llai na 0.1% o gyfanswm ardal y fwrdeistref sirol. Byddai defnyddio maint cyfwerth o systemau ffotofoltäig ar doeau'n golygu bod yn rhaid eu gosod ar 12,500 i 23,750 o doeau, sef tua 22% a 41% o holl anheddau Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Rhwng 150 a 250GWh o storfa fatris gyda chysylltiad i'r grid cenedlaethol o hyd at 160MW. Byddai'r capasiti hwn yn cynnwys cyfuniad o storfa hirdymor yn cynnwys batris sefydlog ar lefel grid er mwyn uchafu'r defnydd o gynhyrchiant gwynt hynod gyfnewidiol a'r adnoddau solar helaeth yn ystod misoedd yr haf; a batris tymor byrrach i wneud defnydd o systemau ffotofoltäig ar doeau a thariffau ynni amrywiol i ddiwallu galwadau ynni dyddiol.
- Rhwng 40 a 61MW o wynt ar y tir (61MW yn oddeutu 24 o dyrbinau)



- Mae'n debygol iawn hefyd y bydd angen uwchraddio rhwydweithiau trydan a storio.

5.4.138 Mae'r CYAL yn nodi saith maes ymyriad o flaenoriaeth ac yn cydnabod y bydd rôl y Cyngor ymhob un ohonynt yn wahanol iawn. Bydd rhai ymyriadau'n galw am gamau gweithredu gan y Cyngor o ran y ffordd y bydd rhaglenni'n cael eu cyflawni, tra bydd ymyriadau eraill yn cynnwys y Cyngor yn rôl yr hwylusydd ar gyfer newid sy'n cael ei yrru gan y farchnad. Mae'r adroddiad yn cynnig camau gweithredu manylach ar gyfer pob ymyriad uchaf ei blaenoriaeth.

5.4.139 Mae perchnogaeth leol yn ffocws allweddol yn y CYAL a, lle bo hynny'n bosibl, dylai'r camau gweithredu a gymerir ddylanwadu ar y cynnydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision lleol gorau bosibl.

5.4.140 Gall y broses gynllunio hefyd roi cyfleoedd go iawn i gymunedau lleol weithredu ar newid hinsawdd – drwy annog datblygiadau cymunedol a chymryd rhan mewn cynlluniau creu lleoedd lleol a chymdogaeth.

5.4.141 Mae'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd (yn cynnwys creu swyddi) sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad yn bethau y dylid eu cynnwys a'u hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i geisiadau cynllunio fod yn seiliedig ar asesiad o effaith y datblygiad arfaethedig, waeth pwy yw'r ymgeisydd.

Morlyn Llanw

5.4.142 Mae prosiect cynhyrchu morlyn llanw 1GW yn Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru 2035 yn cael ei gefnogi mewn

egwyddor, gyda'r lleoliad arfaethedig ar y glannau oddi ar arfordir Bwrdeistref Sirol Conwy.

5.4.143 Mae morlyn llanw yn orsaf bŵer sy'n cynhyrchu trydan o'r llanw a'r trai naturiol. Mae morlynnoedd llanw yn gweithio'n debyg iawn i argaeau llanw drwy ddal cyfaint mawr o ddŵr tu ôl i adeiledd sydd wedyn yn cael ei ryddhau i yrru tyrbinau wedi'u codi ar yr arglawdd a chynhyrchu trydan. Yn wahanol i argae, lle mae'r isadeiledd yn pontio aber afon mewn llinell syth, mae morlyn llanw yn cau ardal o'r arfordir gyda llanw uchel tu ôl i forglawdd, gydag ôl-troed wedi'i gynllunio'n ofalus ar gyfer y lleoliad.

5.4.144 Mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd ac erydu arfordirol, fwyfwy oherwydd newid hinsawdd, gall morlynnoedd llanw fod yn rhwystr ychwanegol rhag difrod a thonau ac ymchwydd yn y llanw yn ystod stormydd sy'n bygwth cymunedau ac isadeiledd arfordirol. Mae'r prif bwyntiau i'w nodi yn cynnwys:

- Canran poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n byw o fewn ardal perygl llifogydd fel y diffinnir yn TAN15
- Mae morlynnoedd llanw wedi'u cynllunio i ddygymod â chynnydd yn lefel y môr
- Gall buddsoddiad cyfalaf preifat mewn morlynnoedd llanw ddisodli gwariant cyhoeddus ar lifogydd a rheoli perygl arfordirol
- Gall hyblygrwydd yng nghylch gweithredu morlyn llanw helpu i reoli digwyddiadau tywydd yn well
- Nodau economaidd a lles

5.4.145 Er nad yw'r morlyn llanw yn debygol o ddwyn ffrwyth yn ystod cyfnod y cynllun, mae CBSC yn cefnogi'r ymarferion rhagarweiniol sydd eu hangen i ddatblygu'r cynllun, yn cynnwys Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda budd-ddeiliaid y prosiect. Mae'r CYAL yn awgrymu y gall y morlyn llanw ddarparu 1GW o ynni i Gonwy.

Grid clyfar a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal

5.4.146 Dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ardal a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu gweithredu. Dylai datblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fawr, ble bynnag y bo hynny'n ymarferol, fod â rhwydwaith gwresogi o ffynhonnell adnewyddadwy / carbon isel neu wastraff gwres. Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath baratoi Strategaeth Ynni i weld ai rhwydwaith gwresogi yw'r opsiwn gorau ar gyfer cyflenwad ynni ac, ar gyfer prosiectau dichonadwy, cynllun ar gyfer ei weithredu.

5.4.147 Bydd yr ACLL, datblygwyr a darparwyr isadeiledd grid yn ymrwmo i broses o ymgysylltu cynnar sy'n caniatáu cynllunio grid trydan clyfar integredig yn ardal CDLIN Conwy ac yn sicrhau bod modelau technegol, ariannol a rheoli yn cael eu datblygu i oresgyn rhwystrau.

EN/10 grid clyfar a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal

1. Lle mae datblygiadau newydd fel y diffinnir ym mholisi EN/1 yn cael eu cynnig, mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgysylltu â'r ACLL a gweithredwyr y rhwydwaith i sefydlu cynhyrchiad ynni adnewyddadwy yn y rhwydwaith trydan.
2. Mae'n rhaid i ddatblygwyr:
 - a. Ymrwmo i drafodaethau cynnar gyda darparwyr isadeiledd grid i nodi anghenion isadeiledd y datblygiad newydd a sicrhau bod y rhain yn cael sylw yn y cynlluniau, rhwydweithiau ynni a'r cysylltiadau yn barod ar gyfer gwasanaethu'r datblygiad arfaethedig;
 - b. Dangos y bydd capasiti isadeiledd grid digonol, o'r feddiannaeth gyntaf hyd at gwblhau'r datblygiad, i sicrhau nad yw'r datblygiad yn arwain at broblemau o ran capasiti na dibynadwyedd yn yr ardal gyfagos;
 - c. Paratoi strategaeth cyflwyno a darparu isadeiledd ynni cam wrth gam ar gyfer safleoedd datblygu trefol newydd. Mae'n rhaid i'r strategaeth hon amlinellu cynigion ar gyfer:
 - i. Gosod mesuryddion clyfar
 - ii. Lleihau'r galw am ynni yn ystod cyfnodau prysur a hyrwyddo storio ynni tymor byr
 - iii. Ystyried gridiau clyfar a gridiau bach llai os yn ymarferol
 - iv. Beth sydd angen ei ddarparu, erbyn pryd a phwy fydd yn ei ariannu a'i ddarparu

2. Dylid edrych ar ddarpariaeth benodol yn y lleoliadau canlynol:

- a. Tir Llwyd, Bae Cinmel
 - b. Parc Masnach Mochdre
 - c. Parc Eirias – clwstwr y Ganolfan Hamdden / Ysgol
 - d. Safleoedd wedi'u dyrannu ar gyfer 100 neu fwy o anheddau
3. Dylai cynigion gynnwys Strategaeth Ynni yn unol â pholisi EN/1 ac uwchgynllun i weld ai rhwydwaith gwresogi ardal yw'r opsiwn mwyaf ynni effeithlon ac, ar gyfer prosiectau dichonadwy, cynllun ar gyfer ei weithredu.

5.4.148 Mae rhwydweithiau gwresogi ardal yn ddull o ddarparu gwresogi a dŵr poeth i sawl adeilad o ffynhonnell wresogi ganolog ac, yn arbennig mewn ardaloedd trefol, yn ffordd effeithiol iawn o ddarparu gwres carbon isel. Mae'r CYAL wedi asesu rhwydweithiau gwres fel ffynhonnell bosibl o wres yng Nghonwy ond oherwydd nifer cyfyngedig o ardaloedd galw uchel dwys a dim ffynonellau gwres mawr canfuwyd na fyddai hyn yn ymarferol ar y pryd.

5.4.149 Disgwylir i ddatblygiadau sy'n defnyddio llawer iawn o ynni hwyluso datblygiad a/neu gysylltiad i rwydweithiau gwresogi ac awyru ardal arfaethedig. Mae datblygiadau sy'n defnyddio llawer iawn o ynni yn cynnwys defnydd trydan cynyddol ar gyfer cynhyrchu diwydiannol, galw cynyddol am aerdymheru, trydaneiddio cludiant, twf canolfannau data a datblygiadau a arweinir gan Ddeallusrwydd Artiffisial.

5.4.150 Pan fo llwybr rhwydwaith gwresogi ac awyru ardal yn croesi unrhyw ran o safle datblygu, bydd yn rhaid i'r datblygiad

ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol i ddanfôn rhan o'r rhwydwaith, neu neilltuo'r tir sydd ei angen ar gyfer y rhwydwaith i'w weithredu yn y dyfodol.

5.4.151 Mae rhwydweithiau gwresogi (neu rwydweithiau gwresogi ardal) yn cyflenwi gwres o ffynhonnell ganolog i gwsmeriaid drwy rwydwaith o bibellau dan ddaear sy'n cludo dŵr poeth. Mae rhwydweithiau gwresogi yn amrywio o ran maint, o un adeilad i ddinas gyfan, ac yn gallu cael eu cyflenwi gan amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys:

- Gorsafoedd pŵer
- Cyfleusterau ynni o wastraff
- Prosesau diwydiannol
- Boeleri biomas a bionwy a gweithfeydd gwres a gwres a phŵer cyfunedig
- Unedau gwres a phŵer cyfunedig sy'n rhedeg ar nwy
- Celloedd tanwydd
- Pymphiau gwres
- Ffynonellau geothermol
- Boeleri trydan a hyd yn oed arâe solar thermol

5.4.152 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i gyfrannu at gynhyrchu ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy neu garbon isel yn y sir. Mae'r ffynonellau ynni adnewyddadwy posibl yn y sir wedi cael eu hasesu yn y Cynllun Ynni Lleol. Mae yna botensial i fabwysiadu amrywiaeth o dechnolegau ar raddfeydd gwahanol, o ddomestig i fasnachol, ar draws y sir. Mae hyn yn amrywio o niferoedd bach o dyrbinau gwynt ar raddfa gymunedol, a all ddarparu chwarter yr holl arbedion carbon o ynni adnewyddadwy, i niferoedd mawr o osodiadau llai ar y safle



fel paneli ffotofoltäig i gynhyrchu trydan domestig a dŵr poeth, a phympiau gwres.

5.4.153 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a'r Cynllun Ynni Lleol. Y blaenoriaethau yw:

- lleihau'r ynni rydym ni'n ei ddefnyddio yng Nghymru
- lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil
- rheoli a hybu'r trawsnewidiad i economi carbon isel yn frwd

Datblygiadau ynni gwynt a solar ar y tir

5.4.154 Mae LIC wedi ymrwymo i ddarparu rhaglen ynni i leihau allyriadau carbon. Bydd yr ardaloedd wedi'u rhag-asesu a nodir yng Nghymru'r Dyfodol yn gweld y ffocws mwyaf ar ddatblygiadau ynni gwynt ar y tir. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, mae'n bosibl y bydd datblygiadau ynni gwynt a solar ar y tir ar raddfa fawr yn briodol. Penderfynir ar geisiadau ar sail teilyngdod pob cais yn unigol, a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dangos na fydd cynnig yn cael effaith annerbyniol ar yr ardal o'i gwmpas a materion polisi eraill.

5.4.155 Nid yw datblygiadau ynni gwynt na solar mawr yn dderbyniol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n rhaid i gynigion sy'n agos at ffin y parc ddangos na fydd y datblygiad yn tanseilio'r amcanion sy'n tanategu pwrpas y dynodiad.

5.4.156 Mae'n rhaid darparu mynediad addas i'r safle at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw. Mae'n rhaid cael cynllunio yn eu lle ar gyfer datgarboneiddio offer ac adfer y safle.

5.4.157 Mae polisiâu cenedlaethol hefyd yn annog cynlluniau ynni gwynt cymunedol llai, fel rheol dan 10MW, yn ogystal â ffurfiau eraill ar ynni adnewyddadwy, fel biomas, geothermol a gwres a phŵer cyfunedig pan fo'u heffeithiau yn dderbyniol. Bydd prosiectau ynni adnewyddadwy arunig sy'n ystyriol o gymeriad y dirwedd a'r amwynder lleol hefyd yn cael cefnogaeth.

5.4.158 Mae Polisi EN/11 wedi'i ddylunio i hyrwyddo datblygiadau gwynt a solar yn y llefydd cywir, ar y raddfa gywir ac yng nghyddestun targedau Llywodraeth Cymru. Mae cynigion ar gyfer datblygiadau mawr (10MW+) yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru, a'r ACLL yn ymgynghorai.

EN/11 datblygiadau ynni gwynt a solar ar y tir

1. Bydd datblygiadau ynni gwynt mawr neu fawr iawn (dros 10MW) yn cael eu hannog o fewn yr ardaloedd wedi'u rhag-asesu fel y nodir yn 'Cymru'r Dyfodol' yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn amodol ar Asesiad o Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd boddhaol. Bydd disgwyl i gynigion:
 - a. Nodi mesurau i ddiogelu, adfer a gwella cynefinoedd a rhywogaethau o fewn ac yn ymyl y safle ble bo angen;
 - b. Sicrhau bod holl fanylion datblygiad atodol cysylltiol yn cael eu cyflwyno gyda'r Cais Cynllunio fel rhan ganolog o'r cynllun;
 - c. Sicrhau bod yr effeithiau cronol posibl ar gymunedau, tirlun a'r amgylchedd cyfagos yn dderbyniol. Lle ystyrir bod datblygiad fferm wynt yn cael effaith gronnol annerbyniol, bydd yn cael ei wrthod;



- d. Dangos na fydd y datblygiad yn arwain at lefelau sŵn neu gysgodion symudol a fyddai'n niweidiol i amwynder preswyl yr ardal gyfagos;
 - e. Darparu elfen o berchnogaeth leol;
 - f. Cytuno ar gynllun datgomisiynu, yn cynnwys oes y datblygiad, tynnu'r holl isadeiledd unwaith y bo'r defnydd yn dod i ben ac adfer defnydd y tir yn briodol ar gyfer yr ôl-ddefnydd;
 - g. Darparu System Goleuadau Canfod Awyrennau i ddarparu golau yn ôl y galw i leihau llygredd golau ac amddiffyn ardaloedd Awyr Dywyll (polisi EQ/4);
2. Bydd datblygiadau ynni gwynt mawr neu fawr iawn (dros 10MW) yn cael eu hannog o fewn yr ardaloedd wedi'u rhag-asesu fel y nodir yn 'Cymru'r Dyfodol' yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn amodol ar Asesiad o Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd boddhaol. Bydd disgwyl i gynigion:
- a. Nodi mesurau i ddiogelu, adfer a gwella cynefinoedd a rhywogaethau o fewn ac yn ymyl y safle ble bo angen;
 - b. Sicrhau bod holl fanylion datblygiad atodol cysylltiol yn cael eu cyflwyno gyda'r Cais Cynllunio fel rhan ganolog o'r cynllun;
 - c. Sicrhau bod yr effeithiau cronol posibl ar gymunedau, tirlun a'r amgylchedd cyfagos yn dderbyniol. Lle ystyrir bod datblygiad fferm wynt yn cael effaith gronol annerbyniol, bydd yn cael ei wrthod;
 - d. Dangos na fydd y datblygiad yn arwain at lefelau sŵn neu gysgodion symudol a fyddai'n niweidiol i amwynder preswyl yr ardal gyfagos;
 - e. Darparu elfen o berchnogaeth leol;

- f. Cytuno ar gynllun datgomisiynu, yn cynnwys oes y datblygiad, tynnu'r holl isadeiledd unwaith y bo'r defnydd yn dod i ben ac adfer defnydd y tir yn briodol ar gyfer yr ôl-ddefnydd;
 - g. Darparu System Goleuadau Canfod Awyrennau i ddarparu golau yn ôl y galw i leihau llygredd golau ac amddiffyn ardaloedd Awyr Dywyll (polisi EQ/4);
 - h. Dangos na fyddai'r gwaith adeiladu a gweithredu yn cael effaith andwyol annerbyniol ar systemau radar a systemau rheoli traffig awyr; gweithredu cyfleusterau amddiffyn; telegyfathrebu na'r rhwydwaith cludiant;
 - i. Oni chytunir yn wahanol, bydd y tyrbinau yn lliw llwyd golau.
3. Bydd datblygiadau ffermydd gwynt a phaneli solar canolig rhwng 1MW a 10MW ddim ond yn cael eu cefnogi mewn egwyddor o fewn yr Ardaloedd Chwilio Lleol, yn amodol ar fodloni maen prawf ym mhwynt 1. uchod a'r canlynol:
- a. Eu bod yn dderbyniol o safbwynt polisiâu eraill y CDLIN;
 - b. Bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol boddhaol yn cael ei ddarparu sy'n cynnig mesurau ar gyfer diogelu, adfer a gwella cynefin a bioamrywiaeth;
 - c. Na fydd perygl afresymol i, neu effaith weledol andwyol ar, gymunedau cyfagos, anheddau unigol neu adeilad arall sy'n sensitif i sŵn;
 - d. Na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur, rhywogaethau a ddiogelir nac asedau treftadaeth a ddiogelir a, lle bo'n briodol, dylai cynigion sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu gwarchod neu eu gwella;



e. Na fydd yna unrhyw effaith annerbyniol ar y dirwedd nac effeithiau gweledol, gan gynnwys ar leoliad Parc Cenedlaethol Eryri a Thirwedd Ddynodedig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a, lle bo'n briodol, dylai cynigion sicrhau bod eu lleoliadau'n cael eu gwella;
f. Na fyddai yna unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol o adeiladu neu weithredu'r datblygiad, drwy: gysgodion symudol; sŵn; golau'n adlewyrchu neu belydrau a disgleirdeb; ansawdd yr aer, aflonyddwch electromagnetig;
g. Na fydd unrhyw effaith annerbyniol ar lifogydd na chysiau dŵr yn unol â chanllawiau cenedlaethol;
h. Bod egwyddorion yr economi gylchol wedi'u dilyn yn unol â pholisïau Creu Lleoedd, gan gynnwys ystyried effaith carbon y deunyddiau sydd yn cael eu defnyddio neu a gaiff eu cynhyrchu; ac
i. Archwilio storfa fatris fel rhan o'r datblygiad.
4. Bydd datblygiadau ynni gwynt a solat (hyd at 1MW) yn cael eu cefnogi ar yr amod: a. Nad ydynt yn peryglu gallu'r ardal wedi'i rhag-asesu i gyrraedd y targed cynhyrchu ynni a ragwelir; b. Bod meini prawf 1 a 2 uchod yn cael eu bodloni; ac, c. O fewn Ardal Tirwedd Arbennig bydd ffafriaeth i ddatblygiadau gwynt a solar wasanaethu annedd neu glwstwr o anheddau ar raddfa fach.

Effeithiau cronrus

5.4.159 Mae'r rhain yn effeithiau cyfunol o ganlyniad i ddatblygiad gan ystyried datblygiadau presennol ac arfaethedig eraill. Wrth asesu effeithiau cronrus gweledol ac ar y dirwedd, bydd graddfa a phatrwm y tyrbinau neu'r paneli solar, yn cynnwys datblygiadau cysylltiedig, yn ystyriaethau perthnasol. Bydd yn rhaid hefyd ystyried arwyddocâd y dirwedd a'r golygfeydd, agosrwydd a rhyng-welediad, a sensitifrwydd derbynyddion gweledol. Mae'n bosibl y bydd effeithiau amgylcheddol a/neu gymdeithasol cronrus hefyd.

Buddion cymunedol

5.4.160 Mae Cymru'r Dyfodol a [TAN8](#) yn cyfeirio at fudd cymunedol ac fe all hynny gyfrannu at wella canlyniadau cymunedol yr effaith ar y dirwedd ac unrhyw effaith ar ansawdd bywyd. Mae hyn yn destun trafod gyda datblygwyr ond nid yw'n ofyniad gorfodol nac yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar deilyngdod cynllunio ac ni ddylid ei ystyried fel ffordd i oresgyn gwrthwynebiadau cynllunio sylfaenol i ddatblygiad penodol. Does dim hawl lleoli datblygiad fferm wynt mewn lleoliad penodol nac elwa ar ddatblygwr sy'n gwneud hynny, ond gellir ystyried budd cymunedol fel ffordd i:

- Hyrwyddo perthynas dda rhwng cymdogion
- Cynnig iawndal am wrth-fuddion cymunedol
- Rhannu'r buddion gyda chymunedau

5.4.161 Mae sawl categori o fuddion cymunedol (e.e. buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, ecolegol neu addysgol) a gellir eu gwneud mewn ffyrdd gwahanol hefyd, fel:



- Cronfeydd cymunedol: symiau rheolaidd neu untro i gronfa gymunedol a gytunir arnynt ar y cam ymgeisio neu cyn hynny
- Buddion mewn da: gwelliannau i isadeiledd, amgylcheddol, addysg neu gyfleusterau a gytunir gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r gymuned ar y cam ymgeisio neu cyn hynny
- Perchnogaeth leol: cynigir cyfranddaliadau mewn prosiect neu gwmni gweithredu i drigolion lleol, naill ai'n defnyddio eu buddsoddiad eu hunain, rhannu elw neu gynlluniau rhanberchnogaeth i glymu buddion cymunedol i berfformiad fferm wynt
- Contractio a rheoli lleol: defnyddio gweithwyr lleol ar gyfer adeiladu a gweithredu'r fferm wynt

5.4.162 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio trafod buddion cymunedol mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr fel ffordd i wrthbwysu neu wneud iawn am effeithiau cymunedol.

5.4.163 Mae angen ystyried effaith ffermydd gwynt ar gymunedau, yn cynnwys effeithiau cronrus, wrth benderfynu ar gynigion, yn cynnwys y rheiny mewn ardaloedd wedi'u rhag-asesu. Mae ffocws Asesiadau o Effaith Amgylcheddol yn tueddu i ganolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol, yn enwedig ar dirwedd, cynefinoedd a rhywogaethau yn ogystal â'r effeithiau ar gymunedau dynol. Er mwyn penderfynu a oes effaith annerbyniol ar bobl a chymunedau ai peidio (yn cynnwys newidiadau esthetig ac eraill i'r amgylchedd), dylai datblygwyr ystyried effaith cynigion ar y boblogaeth leol, yn cynnwys asesu'r effaith ar yr economi, ac iechyd a lles. Dylai hyn gynnwys ymgynghori gyda chymunedau a effeithir arnynt a nodi

mesurau i liniaru, adfer a/neu wneud iawn am yr effeithiau negyddol.

5.4.164 Pan ganiateir isadeiledd ynni adnewyddadwy a chysylltiedig o fewn parthau craig galed/tywod a gro a ddiogelir, bydd hynny am gyfanswm o 25 mlynedd oni chytunir yn wahanol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r tîm Cynllunio Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol. Os oes angen adnoddau daearegol yn y dyfodol ni roddir caniatâd pellach ar gyfer ynni adnewyddadwy yn yr ardal honno er mwyn caniatáu echdynnu adnoddau yn dilyn diwedd y caniatâd ynni adnewyddadwy ac adfer y safle.

5.4.165 Lliw tyrbinau: mae'n bwysig dewis lliw a fydd yn cyd-fynd ag amrywiaeth o gefndiroedd a welir o wahanol lefydd ac ymhob tywydd. Os yw lliw darnau'r tyrbinau yn wahanol gall greu delwedd fwy cymhleth gyda gwelededd y gwahanol rannau yn amrywio. Mae llwyd golau fel rheol yn darparu'r cydbwysedd grauw rhwng lleihau gwelededd ac effeithiau gweledol tyrbinau wrth edrych arno yn erbyn yr awyr. Ar gyfer grwpiau o ffermydd gwynt neu estyniadau i fferm wynt, dylai lliw'r tyrbinau fod yn gyson. Ar y cyfan, bydd llwyd golau yn edrych yn well yn erbyn cefndiroedd gwahanol, beth bynnag y tywydd.

5.4.166 Goleuadau: Mewn rhai lleoliadau efallai y bydd angen goleuo tyrbinau gwynt am resymau hedfan sifil neu filwrol. Gall goleuadau ar frig y tyrbinau fod yn amhriodol mewn ardaloedd gwledig heb lawer o olau. Felly mae angen dylunio'r goleuadau er mwyn lleihau'r effaith ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol, gan fodloni gofynion iechyd a diogelwch a mordwyo hefyd. Gall System Goleuadau Canfod Awyrennau ddarparu golau yn ôl y galw i leihau llygredd golau ac amddiffyn ardaloedd Awyr Dywyll.

Isadeiledd ar y tir sydd wedi'i gysylltu ag ynni adnewyddadwy ar y môr

EN/12 isadeiledd ar y tir sydd wedi'i gysylltu ag ynni adnewyddadwy ar y tir

1. Bydd datblygu cysylltiadau i ffermydd gwynt ar y môr a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill oddi ar yr arfordir, yn cynnwys llinellau trawsyrru newydd i gludo pŵer sy'n tarddu o'r môr i'r man sydd ei angen yn ardal y cynllun, yn cael eu cefnogi mewn egwyddor os ydynt yn cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol a pholisïau eraill y CDLIN.
2. Wrth asesu cynigion o'r fath bydd sensitifrwydd lleoliadau arfordirol, yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol a chymunedol posibl ar ardaloedd cyfagos, yn golygu y bydd yn rhaid ystyried pwyntiau cysylltu ar y tir gorau posibl fel rhan o gynllun cyffredinol y rhwydwaith trawsyrru ar y môr. Mae pwyntiau cysylltu ar y tir gorau posibl ar gyfer trawsyrru ar y môr yn rhai y mae'n rhaid iddynt geisio lleihau effeithiau amgylcheddol ac eraill ar y tir ac yn yr amgylchedd morol, yn cynnwys cymunedau, gan gadw at egwyddorion dylunio da, osgoi a lliniaru ym mholisi NE/1.
3. Dylid darparu Datganiad Lleihau Carbon i asesu pwyntiau gorau posibl i osgoi effeithiau negyddol ar ddalfeydd carbon, a defnydd perthnasol, yn unol â pholisïau EN/1 ac NE/2.

5.4.167 Mae dros 80% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn byw o fewn 2km i'r arfordir. Mae'r amgylchedd morol yn darparu cyfoeth o fuddion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, diwylliant, hinsawdd, ynni, cludiant, chwaraeon a hamdden.

5.4.168 Mae'r gwaith ar y tir ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr yn gofyn am ymarferion cwmpasu ac asesiadau dilynol sylweddol cyn ymgeisio, a chynghorir cynnal trafodaethau cyn gwneud cais.

Mwynau a Gwastraff

SO11: mwynau a gwastraff: cyfrannu at weithrediad yr economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effaith amgylcheddol lleiaf posibl a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunydd ar gyfer adeiladu.

5.4.169 Mae'r bennod hon yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer defnyddio a diogelu cronfeydd mwynau yn ardal y CDLIN, ac ymagwedd yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â lleoliad cyfleusterau rheoli gwastraff, a allai yn rhinwedd eu cymeriad gweithredol, fod yn addas ar safleoedd diwydiannol presennol, neu ar safleoedd y tu hwnt i ffiniau anheddiad lle bo'n briodol.

5.4.170 Mae'r ACLI yn cydnabod bod angen ymagwedd strategol er mwyn sicrhau cyflenwad hir dymor o agregau. Defnyddiwyd ail adolygiad (2020) Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru, fel canllaw ar gyfer y CDLIN ar faterion o'r fath, sy'n nodi nad oes angen dyrannu tir ar gyfer creigiau caled yn ardal cynllun Conwy ar hyn o bryd, oni bai bod amgylchiadau technegol neu amgylcheddol penodol a fyddai'n cyfiawnhau dyraniad. Mae'r ACLI o'r farn nad oes amgylchiadau i gyfiawnhau dyraniad yn ardal y cynllun. Ynghyd â'r chwareli



creigiau caled presennol, mae'r CDLIN yn diogelu adnoddau sylweddol o greigiau caled, tywod a graean.

5.4.171 Mae llawer o yrwyr newid o ran sut rydym yn rheoli ein gwastraff yn well. Mae'r rhain yn cynnwys diwallu amcanion y Strategaeth Wastraff Genedlaethol 'Tuag at Ddyfodol Di-wastraff' a Chynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd, y mae'r ddau ohonynt yn cyflwyno newid o ran rheoli gwastraff. Hefyd, mae datblygiadau technolegol a chyflwyno pholisïau ac arferion yn golygu nad yw nifer o'r cyfleusterau rheoli gwastraff cyfoes yn edrych yn wahanol i unrhyw adeilad diwydiannol arall o'r tu allan, ac maent yn cyflawni prosesau diwydiannol neu weithgareddau cynhyrchu ynni sy'n debyg i nifer o wahanol brosesau diwydiannol modern o ran eu gweithrediad a'u heffaith.

5.4.172 Tasg yr ACLI yw sicrhau bod digon o dir o fewn lleoliadau addas ar gael ar gyfer cyfleusterau rhanbarthol (lle bo'r angen) a chyfleusterau lleol. Ni ddylai cynigion safle gael effaith andwyol ar uniondeb safleoedd Ewropeaidd ac ni ddylent wrthdaro â pholisïau eraill y Cynllun. Dylai cyfleusterau gwastraff, fel yr amlinellir yn TAN21: Gwastraff, dilynwrch yr egwyddor agosrwydd (h.y. dylai lleoliad y cyfleuster fod mor agos â phosibl at ffynhonnell y gwastraff).

MW/1 mwynau a gwastraff

Bydd yr ACLI yn sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau mwynol a chyfleusterau rheoli gwastraff, gan ddiogelu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig drwy:

1. Ddiogelu cronfeydd wrth gefn a ganiateir o greigiau caled ym Mhenmaenmawr, Raynes (Llysfaen) a Llansan Sior ac adnoddau ychwanegol o greigiau caled a chyfleusterau pen rheilffordd a glanfeydd cysylltiol fel y nodir yn y map cynigion yn unol â pholisïau MW/2, MW/3 a STA/5;
2. Caniatáu echdynnu mwynau agregau yn y dyfodol dim ond pan fydd angen cynnal stoc o gronfeydd wrth gefn yn unol â pholisi MW/2;
3. Gwarchod adnoddau tywod a graean fel y nodir ar y map cynigion yn unol â pholisi MW/3;
4. Dynodi parthau clustogi o amgylch chwareli i ddiogelu amwynder a sicrhau nad yw gweithrediadau mwynol yn cael eu cyfyngu'n ddiangen gan ddefnyddwyr tir eraill yn unol â pholisi MW/4;
5. Diwallu'r galw ychwanegol yn y dyfodol am gyfleusterau rheoli gwastraff newydd, gan gydnabod bod angen cymell rheoli gwastraff ar hyd yr hierarchaeth wastraff yn unol â pholisi MW/5;
6. Ystyried addasrwydd tir diwydiannol presennol a/neu dir a ddiogelir ar gyfer cludo nwyddau ar reilffyrdd i ddarparu ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd sy'n ategu defnyddiau cyfagos yn unol â pholisïau MW/6, STA/5 ac ED/3;
7. Dynodi parth clustogi tirlenwi o amgylch safle tirlenwi Llanddulas i sicrhau mai dim ond datblygiadau priodol a ganiateir yn y lleoliad hwn yn unol â pholisi MW/7.

5.4.173 Mae ail adolygiad (2020) Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn dod i'r casgliad nad oes angen dyrannu tir ar gyfer creigiau caled yn ardal cynllun Conwy ar hyn o bryd, oni bai bod amgylchiadau technegol neu amgylcheddol penodol a fyddai'n cyfiawnhau dyraniad. Mae'r Cyngor o'r farn nad oes amgylchiadau i gyfiawnhau dyraniad yn ardal y cynllun.

5.4.174 Ynghyd â'r chwareli creigiau caled presennol, mae'r CDLIN yn diogelu adnoddau creigiau caled ychwanegol sylweddol, tywod a graean. Hefyd, cynigir parthau clustogi o amgylch chwareli i ddiogelu amwynder preswylwyr a defnyddwyr tir sensitif eraill, ac i sicrhau y gall gweithredwyr mwynau gyflawni eu gweithgareddau arferol heb gael eu cyfyngu gan bresenoldeb gormodol defnyddwyr tir sensitif.

5.4.175 Mae newid sylweddol yn y modd y rheolir gwastraff a'r modd yr ailgylchir, ail-ddefnyddir ac y gostyngir y defnydd o adnoddau. Mae targedau ailgylchu yn dal i gael eu diwygio ac mae digwyddiadau byd-eang yn rhoi cyfle i ddatblygu economi gylchol i gadw adnoddau y gellir eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio o fewn economi Cymru. Bu symudiad sylfaenol oddi wrth dirlenwi a gwaredu yn unol â'r hierarchaeth wastraff ac egwyddorion datblygu cynaliadwy, ac mae angen polisiâu i barhau i hyrwyddo a hwyluso hyn.

MW/2 echdynnu mwynau

1. Bydd y chwareli presennol ym Mhenmaenmawr, Raynes (Llysfaen) a Llansan Sior yn darparu cyfraniad Ardal y Cynllun tuag at gyflenwad rhanbarthol o greigiau caled.

2. Caniateir ceisiadau i echdynnu mwynau agregau mewn lleoliadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys estyniadau i chwareli presennol o fewn Ardal y Cynllun, os bydd angen cynnal stoc cronfeydd wrth gefn a ganiateir yn unig, gan roi ystyriaeth i'r gofynion a nodwyd yn y canlynol;

- a. Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (ac adolygiadau dilynol yng nghyfnod y cynllun), a
- b. Ffigyrau Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru, neu os nad oes ffigwr o'r fath yn bodoli, yr angen a dystiolaethir gan y diwydiant dan sylw.

5.4.176 Ceir y polisi cenedlaethol ar gyfer mwynau ym Mholisi Cynllunio Cymru 12 a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN1). Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer CDLI ar gyflenwad hir dymor o agregau.

5.4.177 Mae gan ardal CDLIN Conwy dair chwarel weithredol, ac maent oll yn cynhyrchu deunydd adeiladu (a elwir yn 'agregau'). Mae Chwarel Penmaenmawr yn cynhyrchu craig igneaidd, sy'n addas fel balast rheilffordd ac ar gyfer defnyddiau eraill. Mae Chwarel Raynes ger Llysfaen a Chwarel Llansan Sior ger Abergele yn cynhyrchu calchfaen, a ddefnyddir, er enghraifft, ar gyfer concriid gweithgynhyrchu. Mae Chwarel Raynes a Llansan Sior wedi'u cyfyngu'n ffisegol o ran estyniadau pellach, ond mae



gan y tair chwarel ganiatâd cynllunio sy'n parhau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun.

- 5.4.178 Yn ogystal â'r chwareli gweithredol, mae gan Chwarel Llanddulas adnoddau calchfaen o ansawdd uchel. Mae mwyafrif y chwarel yn cynnwys safle tirlenwi, tra bo cytundeb cyfreithiol yn gwahardd chwarela ar gyfer defnydd agregau cyffredinol.
- 5.4.179 Mae ail adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn argymhell nad oes angen dyrannu tir ar gyfer creigiau caled yn ardal cynllun Conwy ar hyn o bryd, oni bai bod amgylchiadau technegol neu amgylcheddol penodol a fyddai'n cyfiawnhau dyraniad. Mae'r Cyngor o'r farn nad oes cyfiawnhad ar hyn o bryd ar gyfer dyrannu yn Ardal y Cynllun. Ond, er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newid mewn amgylchiadau dros gyfnod y Cynllun, efallai y gellir caniatáu echdynnu adnoddau agregau yn y dyfodol lle bo angen cynnal y cronfeydd wrth gefn a ganiateir. Fe fydd hyn yn cael ei asesu yn erbyn ffigyrau gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r MPPW a MTAN1. Cydnabyddir mewn rhai amgylchiadau na fydd ffigyrau o'r fath yn bodoli; felly, dylai'r cynigion roi ystyriaeth i'r galw a nodir yn y diwydiant dan sylw. Yn unol â Pholisi PL/7, bydd angen cyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg gyda'r ceisiadau am chwareli newydd neu estyniadau i'r chwareli presennol. Gweler polisi PL/7 a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth.
- 5.4.180 Mae dyddodion tywodfaen gyda defnydd posibl ar gyfer cerrig ffyrdd PSV (gwerth cerrig caboledig) uchel yn ardal y cynllun. Hyd yma, ni fu pwysau i echdynnu'r deunydd yn ardal y

cynllun ac mae MTAN1 yn nodi De Cymru fel y prif bosibilrwydd ar gyfer echdynnu. Felly nid oes dyraniad yn y CDLIN, ond, efallai y byddai modd cyfiawnhau cynigion i echdynnu'r deunydd lle bo'r cynnig yn ceisio diwallu manyleb benodol nas diwellir yn ardal y cynllun ar hyn o bryd.

- 5.4.181 Mae PCC yn cefnogi datblygiad pyllau benthyg, ar gyfer prosiectau adeiladu penodol, mewn lleoliadau priodol. Mae hefyd yn cydnabod bod angen i chwareli bach ddarparu cerrig dimensiwn lleol nodedig, lle byddai'r rhain yn cynnal cymeriad yr amgylchedd adeiledig lleol. Felly mae pyllau benthyg a chwareli cerrig dimensiwn bach y tu hwnt i gwmpas Polisi MW/2.
- 5.4.182 Mae MTAN1 hefyd yn cynnwys canllawiau ar fynd i'r afael ag effeithiau penodol megis sŵn, llwch a blastio, adfer a'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd, megis gwastraff dymchwel. Mae MTAN1 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio asesu ac adolygu'r tebygolrwydd o echdynnu yn y dyfodol o safleoedd sy'n anweithredol ers peth amser ac sydd heb eu defnyddio ers 10 mlynedd. Nid oes safleoedd gyda chronfeydd wrth gefn a ganiateir ar hyn o bryd yn ardal cynllun Conwy sydd wedi bod yn anweithredol am y cyfnod hwn. Os bydd cyfnod anweithredol y safle'n fwy na 10 mlynedd, a bod yr awdurdod cynllunio o'r farn y bydd yn annhebygol o gael ei ddefnyddio eto, bydd yn ystyried cyflwyno gorchymyn gwahardd. Diben y gorchymyn gwahardd yw sefydlu heb amheuaeth bod y datblygiad mwynau wedi dod i ben ac na all ailddechrau heb dderbyn caniatâd cynllunio newydd, ac er mwyn sicrhau adferiad y tir.

MW/3 diogelu creigiau caled ac adnoddau tywod a graean

1. Mae'r adnoddau canlynol a'r cyfleusterau cysylltiol wedi'u cynnwys o fewn dynodiad Diogelu Creigiau Caled ac Adnoddau Tywod a Graean:
 - a. Y cronfeydd wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Penmaenmawr, gan gynnwys ardaloedd prosesu, pen rheilffordd a chysylltiad cludo;
 - b. Y cronfeydd wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Raynes, gan gynnwys ardaloedd prosesu, ardaloedd y lanfa a'r cysylltiad cludo;
 - c. Y cronfeydd wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Llansan Sior, gan gynnwys yr ardaloedd prosesu;
 - d. Creigiau caled ychwanegol a nodir ar y map cynigion;
 - e. Adnoddau tywod a graean fel y nodwyd ar y map cynigion.
 - f. Pen rheilffordd, a chyfleusterau glanfa presennol a / neu ychwanegol fel y nodir ar y map cynigion.
2. Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad o fewn ardal a ddiogelwyd am ei chreigiau caled, tywod neu raeau, lle byddai hynny'n amharu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y gallu i gloddio'r adnoddau hynny o'r ddaear yn y tymor hir, neu'n cael effaith andwyol ar gyfleusterau ar gyfer cludo mwynau, oni bai:
 - a. y gellir dangos fod yr angen am y datblygiad yn drech na'r angen i ddiogelu'r adnodd mwynol;
 - b. bod y datblygiad ar raddfa fach ac felly ni fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar y gallu i gloddio'r mwyn dan sylw o'r ddaear neu;
 - c. Lle caiff y mwyn ei gloddio o'r ddaear cyn dechrau'r datblygiad.
3. Mewn achosion lle nad yw ansawdd a dyfnder y creigiau caled a ddiogelir neu'r adnoddau tywod a graean wedi'i brofi, a /

neu fod cyfyngiadau cysylltiol eraill (amgylcheddol / isadeiledd), efallai y bydd mathau eraill o ddatblygiad a allai fod yn gyson â'r dull diogelu ar yr amod bod yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth, megis sampl tyllau turio, gan ddangos na fyddai'n effeithio ar unrhyw greigiau caled neu adnoddau tywod a graean a fyddai'n fasnachol hyfyw.

- 5.4.183 Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru yn argymhell polisi diogelu penodol ar gyfer ardal cynllun Conwy. Mae'r polisi hwn yn gweithredu'r argymhelliad, ac yn diogelu adnoddau mwynol a chyfleusterau cludo a phrosesu cysylltiol i sicrhau eu bod ar gael o hyd. Nid yw tywod a graean yn cael ei gynhyrchu yn Ardal y Cynllun ar hyn o bryd; ond, mae data gan Arolwg Daearegol Prydain wedi nodi adnoddau mewn lleoliadau amrywiol ar draws ardal y cynllun. Papur Cefndir 37: mae 'mwynau' yn darparu cyfiawnhad ar gyfer y dull diogelu. Pwysleisir nad yw'r polisi'n sefydlu rhagdybiaeth o blaid cymeradwyo caniatâd cynllunio, ond yn hytrach yr ystyrir presenoldeb y mwynau wrth asesu a oes modd cyflawni datblygiad amgen.
- 5.4.184 Felly bydd angen i gynigion datblygu sy'n effeithio ar adnoddau mwynol ddangos, drwy archwiliad priodol, na fydd yr adnodd yn cael ei sterileiddio, neu ddangos na fydd y datblygiad arfaethedig yn amharu ar echdynnu yn y dyfodol. Pan fydd angen pennaf ar gyfer datblygiad, a fyddai fel arall yn sterileiddio adnoddau, bydd amod yn rhan o'r caniatâd cynllunio yn gofyn am echdynnu'r adnodd cyn dechrau'r datblygiad oni bai bod y datblygwr yn dangos nad yw'n ymarferol neu'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

5.4.185 Byddai rhai mathau o ddatblygiad lle na cheir unrhyw effaith neu y byddai'r effaith yn fach iawn ar yr adnodd a ddiogelir, naill ai oherwydd eu bod yn ymwneud â defnydd dros dro am gyfnod cyfyngedig, neu am eu bod yn cynnwys lefel eithaf isel o ran buddsoddiad cyfalaf (fel traciau fferm), neu oherwydd bod datblygiad presennol yn yr un lleoliad sy'n cyflwyno cyfyngiad cyfwerth neu fwy ar y potensial o echdynnu mwynau.

5.4.186 Mae'r rhain yn cynnwys:

- i) datblygiad deiliad tŷ sy'n ategol at fwynhad annedd bresennol;
- ii) datblygiad tai mewnlenni bychan rhwng anheddau presennol;
- iii) disodli anheddau, lle bo'r annedd bresennol yn cynnal hawl defnydd preswyl;
- iv) adeiladau amaethyddol newydd (gan gynnwys pyllau slyri ac ati) ac estyniadau i adeiladau amaethyddol presennol o fewn iard fferm bresennol, neu lle byddai adeilad amaethyddol newydd yn disodli adeilad amaethyddol presennol ar yr un safle;
- v) traciau mynediad amaethyddol;
- vi) cynigion ar gyfer defnydd tir dros dro (e.e. safleoedd carafanau, cyfleusterau compostio, ynni adnewyddadwy), lle bo amod yn nodi dyddiad terfyn penodol ar gyfer y defnydd hwnnw, a lle byddai unrhyw ddatblygiad gweithredol cysylltiol yn cael ei dynnu ar ôl terfyn y defnydd hwnnw.

MW/4 parthau clustogi chwarel

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol o fewn parthau clustogi chwarel.

5.4.187 Mae dau ddiben ar gyfer parthau clustogi. Un ohonynt yw diogelu amwynder preswylwyr a defnyddwyr tir sensitif eraill, a'r llall yw sicrhau y gall gweithredwyr mwynau gyflawni eu gweithgareddau arferol heb gael eu cyfyngu gan bresenoldeb gormodol defnyddwyr tir sensitif. Yn y polisi hwn, mae 'datblygiad amhriodol' yn cynnwys gwaith mwynau (o fewn y parth clustogi) a defnydd tir y gellir effeithio arnynt (mae hyn yn cynnwys yr holl geisiadau am ddatblygiadau preswyl (heblaw deiliad tŷ), cyflogaeth a thwristiaeth a chyfleusterau cymunedol. Dylid tynnu sylw Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru a gweithredwyr y chwareli at y mathau hyn o geisiadau am ddatblygiad yn y parthau clustogi hyn.

5.4.188 Bydd cynigion a fyddai'n arwain at amhariad sylweddol i amwynder neu ddiogelwch, neu a fyddai'n cyfyngu gweithrediad safle'r chwarel, yn cael eu gwrthod. Yn achos creigiau caled, mae MTAN1 yn argymhell y dylai Parthau Clustogi fod oddeutu 200m o amgylch pob ardal weithredol; ar gyfer tywod a graean, y pellter a argymhellir yw 100m. Yn ardal cynllun Conwy, nid yw'n bosibl cyflawni'r pellteroedd hyn bob amser oherwydd agosrwydd ffiniau anheddiad presennol. Dangosir maint y Parthau Clustogi o amgylch y cronfeydd wrth gefn a ganiateir ar y map Cynigion.

MW/5 cynigion ar gyfer rheoli gwastraff

Bydd cynigion ar gyfer rheoli gwastraff, gan gynnwys addasiadau ac estyniadau i gyfleusterau presennol, yn cael eu caniatáu o dan yr amodau canlynol yn unig:

- a. Pan fydd y cynnig yn diwallu angen a nodwyd yn Adroddiadau Monitro Gwastraff Gogledd Cymru, neu angen sy'n codi ar lefel leol;
- b. Na ellir diwallu'r angen drwy gyfleusterau rheoli gwastraff eraill sy'n bodoli eisoes neu sydd wedi'u cymeradwyo neu fod y gweithgaredd a gynigir yn anaddas yn y lleoliadau hyn;
- c. Lle bo modd, mae'r cynnig yn adennill gwerth o'r gwastraff.

5.4.189 **Sgil-gynhyrchion gwastraff** – mae nifer o adroddiadau monitro rhanbarthol wedi eu cyhoeddi sy'n dangos fod sgil-gynhyrchion gwastraff a gasglwyd gan yr awdurdod lleol yn y Sir wedi dirywio ar y cyfan ers 2008 ac mae cyfraddau ailgylchu wedi codi ar y cyfan wrth i awdurdodau lleol Gogledd Cymru gwrdd â thargedau cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n gynyddol ar wella cyfraddau ailgylchu'r sector diwydiannol a masnachol. Y prif gasgliad hyd yma yw nad oes angen ychwanegol am allu gwaredu gwastraff gweddillol terfynol yn y rhanbarth ac y dylid ystyried unrhyw ofyniad pellach am allu trin gwastraff gweddillol yn ofalus i sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at orddarpariaeth.

5.4.190 **Cyfleusterau gwastraff rhanbarthol** – mae nifer o gyfleusterau ar draws Cymru wedi cael eu datblygu mewn ymateb i hyn, gan gynnwys Parc Adfer yn Sir y Fflint, sy'n safle ynni o wastraff penodol ar gyfer trin gwastraff bwrdeistrefol

gweddillol a'r cyfleuster Treulio Anaerobig yn Rhualt, Sir Ddinbych, sy'n derbyn gwastraff bwyd y cartref, sy'n uniongyrchol berthnasol i Gonwy. Mae'r ddau gyfleuster wedi cael eu caffael i reoli gwastraff a gesglir gan Gyngor Conwy. Mae gan Parc Adfer hefyd allu i reoli rhywfaint o wastraff masnachol a diwydiannol, er y byddai'r swm y gellid ei reoli yn dibynnu ar ofynion yr Awdurdodau Partner. Mae hyn yn lleihau'r angen am ddewisiadau gwaredu terfynol ac yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer cyfleusterau isadeiledd ar gyfer gwaredu a thrin gwastraff fel yr amlinellir yn y Cynllun Sector Casgliadau, isadeiledd a Marchnadoedd.

5.4.191 **Safleoedd gwastraff lleol** - mae tir o fewn chwarel Llanddulas a'r safle tirlenwi yn cael eu defnyddio at ddefnydd rheoli gwastraff penodol ar hyn o bryd. Oherwydd lefel uchel o sgrinio gweledol a chyfyngiadau o fewn twll y chwarel, a phresenoldeb parthau clustogi, mae'r safle wedi bod yn addas i drosglwyddo / storio gyda Chasgliadau Gwastraff Gwyrdd Conwy'n cael eu hailgylchu yn y lleoliad hwn. Felly gellir pennu bod rhai ardaloedd penodol o fewn safle'r chwarel yn addas ar gyfer defnydd rheoli gwastraff yn unol â pholisïau MW/5, ED/3 neu MW/6. Hefyd gweler polisïau PL/22 ac ED/2 i gael rhagor o wybodaeth.

5.4.192 Bydd angen safleoedd addas ar gyfer cyfleusterau prosesu a thrin ar gyfer ailgylchu deunyddiau gwastraff ynghyd ag ystod amrywiol o weithgareddau rheoli gwastraff ar gyfer sortio, gwahanu, ailgylchu, ailddefnyddio, prosesu a thrin gwastraff. Mae cyfran sylweddol o'r rhain yn addas i'w lleoli o fewn safleoedd cyflogaeth dynodedig presennol, a chynhelir ymagwedd bolisi hyblyg yn unol â pholisi ED/3, ED/4, MW/5 ac MW/6. Dylid dilyn y meini prawf ym mholisi PL/5 - creu lleoedd a



dylunio da i sicrhau nad yw cyfleusterau rheoli gwastraff yn peryglu defnydd presennol cyfagos. Hefyd, bydd angen i rai datblygiadau gael eu cefnogi gan Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a / neu fesurau lliniaru priodol (yn unol â pholisi PL/7 a chanllawiau cynllunio cenedlaethol).

- 5.4.193 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais cynyddol ar yr Economi Gylchol ac mae angen newidiadau i gynnal gwerth adnoddau diwedd oes yng Nghymru sy'n gallu cynnig manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chludiant, a boed hyn i hwyluso ailgylchu ac adfer rhwydd ar adnoddau diwedd defnydd, i gynllunio dyfodol heb wastraff a gwneud y defnydd mwyaf cynaliadwy posibl o adnoddau ym mhob datblygiad, neu ddarparu lleoliadau addas i gynorthwyo ailgylchu a chynlluniau ailbroseu, bydd angen i bolisiâu hyrwyddo'r amcanion hyn.

MW/6 defnydd o dir diwydiannol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff

1. Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff fel arfer yn cael eu cymeradwyo ar safleoedd diwydiannol presennol ac ar safleoedd sydd wedi'u diogelu o dan bolisi STA/5.
2. Lle nad yw safleoedd diwydiannol presennol ar gael neu eu bod yn anaddas, gellir caniatáu cynigion ar gyfer rheoli gwastraff y tu hwnt i ffiniau anheddiad yn unol â Pholisi ED/3 - 'datblygiad swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8 newydd ar safleoedd sydd heb eu dyrannu'.
3. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle gellir dangos bod gan gynnig ofynion technegol neu ofodol penodol sy'n gwrthdaro â gofynion polisi ED/3, y gellir caniatáu cynigion am gyfleusterau rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau anheddiad nad ydynt yn cyd-fynd â pholisi ED/3.

- 5.4.194 Mae Adroddiad Monitro Gwastraff Gogledd Cymru 2018 yn darparu asesiad o'r cyfleusterau a'r galw am y gwahanol sectorau gwastraff. Yn flaenorol, roedd y cynlluniau gwastraff rhanbarthol yn argymhell bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn asesu'r tir diwydiannol sydd ar gael o ran ei addasrwydd ar gyfer gweithrediadau rheoli gwastraff ac i wneud darpariaeth lle bo'r angen. Gan nad oes unrhyw angen mesuradwy am safleoedd gwastraff ychwanegol newydd yng Nghonwy, bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y cynllun yn cael eu hystyried mewn lleoliadau o'r fath, ar eu rhinweddau unigol.

- 5.4.195 Mae safleoedd eraill yn ardal y cynllun a allai fod yn addas ar gyfer defnydd rheoli gwastraff, gan gynnwys tir a ddiogelwyd ar gyfer Llwythi Rheilffyrdd yng Nghyffordd Llandudno. Mae gan y safle hwn botensial i gynnal cyfleusterau rheoli gwastraff megis trosglwyddo gwastraff. Mae Polisi STA/5 a'i destun ategol yn annog defnydd ategol megis trosglwyddo gwastraff o'r ffordd i'r rheilffordd.

- 5.4.196 Ni fydd pob cyfleuster rheoli gwastraff yn addas ar safleoedd cyflogaeth yn ardal y cynllun, boed oherwydd eu gofynion gofodol, yr effaith ar ddefnydd cyfagos neu ofynion technegol. Er enghraifft, gallai ailgylchu gwastraff, tirlenwi, compostio a threulio anaerobig fod yn fwy priodol y tu hwnt i ffiniau anheddiad, a / neu fel rhan o gynlluniau arallgyfeirio ffermydd. Felly mae'r polisi'n caniatáu, mewn amgylchiadau eithriadol, cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff y tu hwnt i ffiniau anheddiad. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu profi'n drylwyr i sicrhau ei bod yn ofynnol eu gosod y tu hwnt i ffiniau anheddiad, gan ddilyn yr ymagwedd ddilyniannol a amlinellwyd yn y polisi uchod. Dylid dangos bod angen ar gyfer y



cynnig yn unol â Pholisi MW/5 ac nad oes safleoedd amgen addas ar gael. Mae'r polisi'n rhoi hyblygrwydd i ymdrin â cheisiadau o'r fath ar sail eu rhinweddau eu hunain.

MW/7 parth clustogi tirlenwi

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol o fewn parth clustogi tirlenwi.

5.4.197 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell y dylai datblygiadau fod o leiaf 250 metr i ffwrdd o safleoedd tirlenwi. Y perygl mwyaf o ran datblygu ger safleoedd tirlenwi yw bod nwyon tirlenwi yn symud ac yn teithio drwy greigiau gwaelodol ac yn mynd mewn i eiddo o dan y ddaear. Gallai problemau godi o bryd i'w gilydd o ran arogl, llwch, sŵn a phlâu. Mae'r parth clustogi tirlenwi'n ddynodiad ar wahân i'r safle tirlenwi ac mae dau ddiben iddo. Un ohonynt yw diogelu amwynder preswylwyr a defnyddwyr tir sensitif eraill (o ganlyniad, ni chaniateir tirlenwi ychwanegol o fewn y parth clustogi); a'r llall yw sicrhau y gall gweithredwyr tirlenwi gyflawni eu gweithgareddau arferol, gan gynnwys adfer heb gael eu cyfyngu gan bresenoldeb gormodol defnyddwyr tir sensitif.

5.4.198 Felly dynodwyd parth clustogi 250 metr o amgylch y safle tirlenwi i sicrhau mai dim ond datblygiadau priodol a leolir yn yr ardal hon. Dylid tynnu sylw Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Conwy a Chyfoeth Naturiol Cymru at yr holl geisiadau a allai fod yn ddatblygiadau sensitif e.e. preswyl (heblaw deiliad tŷ), cyflogaeth, datblygu twristiaeth a chyfleusterau cymunedol o fewn parth clustogi. Bydd cynigion a fyddai'n arwain at amhariad sylweddol i amwynder neu ddiogelwch, neu a fyddai'n cyfyngu gweithrediad y safle tirlenwi, yn cael eu gwrthod. Er bod

y polisi yn nodi bod rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol yn y parth clustogi, mae'n bwysig nodi y disgwylir i waith adfer tirlenwi llawn ddigwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Os gellir dangos bod gweithgarwch tirlenwi wedi dod i ben yn llwyr, ac nad oes unrhyw gyfyngiadau eraill sy'n ymwneud â thirlenwi/adfer, efallai bydd yn bosibl caniatáu i ddatblygu (yn amodol ar bolisi lleol arall a chanllawiau cynllunio cenedlaethol) ddod ymlaen o fewn y parth clustogi 250 metr.

5.5 Thema Strategol 4: lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

Cyflwyniad

- 5.5.1 Mae'r thema naturiol a diwylliannol yn cynnwys cydrannau amgylcheddol a diwylliannol creu lleoedd. Mae'r cydrannau hyn yn cyd-fynd â'r themâu a pholisïau a nodir yn y fframwaith polisi creu lleoedd.
- 5.5.2 Mae thema lleoedd naturiol a diwylliannol CDLIN Conwy yn cynnwys yr amgylchedd naturiol, nodweddion amgylcheddol ac adrannau amgylcheddol hanesyddol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 5.5.3 Mae'r thema lleoedd naturiol a diwylliannol yn cynnwys y polisïau canlynol:

Yr amgylchedd naturiol

- NE/1 yr amgylchedd naturiol
- NE/2 newid yn yr hinsawdd a gwydnwch ecosystemau
- NE/3 tirluniau dynodedig
- NE/4 diogelu ardal tirwedd arbennig
- NE/5 Lletemau Glas
- NE/6 coed, tirlunio a gwaith rheoli

NE/7 rhwydwaith isadeiledd gwyrdd
 NE/8 bioamrywiaeth
 NE/9 gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig
 NE/10 Cynlluniau rheoli'r parth arfordirol, newid arfordirol a'r traethlin
 NE/11 ardaloedd arfordirol a chynlluniau morol

Rhinweddau amgylcheddol

EQ/1 rhinweddau amgylcheddol
 EQ/2 cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy
 EQ/3 ansawdd aer, seinwedd a rheoli golau
 EQ/4 Awyr Dywyll a golau sensitif
 EQ/5 rheoli perygl llifogydd a datblygiad

Amgylchedd hanesyddol

HE/1 amgylchedd hanesyddol
 HE/2 datblygiadau yn effeithio ar asedau hanesyddol
 HE/3 asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig
 HE/4 adfywio drwy ddiwylliant

Yr amgylchedd naturiol

SO14: gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol cryf.

5.5.4 Mae'r adran hon yn amlinellu'r elfennau amgylchedd naturiol sy'n gysylltiedig â chreu lleoedd. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i ddiogelu asedau naturiol ac economaidd ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i'r heriau a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd. Bydd yn hyrwyddo cyfleoedd carbon isel, gwarchod a gwella tirweddau a chynefinoedd, tra'n galluogi cyfleoedd i gysylltu â'r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd iachach o fyw. Yn seiliedig ar y canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol, mae'n rhaid ystyried y polisi amgylchedd naturiol ochr yn ochr â pholisïau eraill o fewn y Fframwaith Polisi Creu Lleoedd wrth

ystyried cynigion ac wrth ddylunio a datblygu cynigion unigol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.

5.5.5 Mae Polisi NE/1 yn nodi uchelgais trosfwaol yr adran, sy'n ymdrin â'r amgylchedd naturiol, tirweddau, bioamrywiaeth, ardaloedd arfordirol ac isadeiledd gwyrdd.

NE/1 yr amgylchedd naturiol

Mae'r ACLI wedi ymrwmo i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol, gwytnwch ecosystemau, tirweddau ac asedau cynefinoedd o fewn Ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

1. Sicrhau na fydd lleoliad datblygiadau newydd ar safleoedd a neilltuwyd a hap-safleoedd o fewn ardal y cynllun yn cael unrhyw effaith andwyol ar berygl llifogydd neu wydnwch hinsawdd, y parth arfordirol a'r Cynllun Rheoli Traethlin, Tirweddau Dynodedig, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Lletemau Glas a rhywogaethau a warchodir, yn unol â pholisïau PL/1 a PL/5.
2. Sefydlu targedau plannu coed a rheoli tirwedd o fewn datblygiadau newydd yn unol ag NE/6 i gynyddu gorchudd canopi, dal a storio carbon, a diogelu a gwella bioamrywiaeth; a
3. Cheisio gwella darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd a gwella a diogelu bioamrywiaeth yn unol â pholisi NE/7, NE/8 ac NE/9.

Newid hinsawdd a gwydnwch ecosystemau

NE/2 newid yn yr hinsawdd a gwydnwch ecosystemau

Er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, addasu i'w effeithiau a sicrhau gwydnwch ecosystemau, disgwylir i gynigion am ddatblygiadau gyflawni'r canlynol:

1. Lleihau a gwrthbwysu allyriadau carbon yn unol â pholisïau EN/1-EN/7, targedau cenedlaethol ac osgoi deunyddiau ynni uchel wedi'u gosod;
2. Diogelu, gwella a chynyddu storfeydd carbon, yn enwedig mawndiroedd, llaid afonol, pridd, coetiroedd hynafol a choed;
3. Addasu i oblygiadau newid hinsawdd ar lefel dylunio strategol a manwl gan gynnwys datgarboneiddio, a hyrwyddo egwyddorion economi gylchol a'r Fframwaith Adeiladu gyda Natur;
4. Gwella ynni, effeithlonrwydd adnoddau a chynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy a charbon isel, yn unol â pholisïau EN/1 ac EN/5;
5. Osgoi perygl llifogydd drwy leoli addas, dylunio gyda Systemau Draenio Cynaliadwy ac Isadeiledd Gwyrdd, asesu goblygiadau cynigion datblygu mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd ac atal datblygiad sy'n cynyddu'r perygl llifogydd yn unol â pholisi EQ/5; a
6. Cynnal a sicrhau gwydnwch ecolegol hirdymor, tra'n darparu gwelliant yn unol â pholisi NE/8, y Cynllun Adfer Natur a chanllawiau cenedlaethol.

- 5.5.6 Un o swyddogaethau craidd y cynllun yw sicrhau bod holl ddatblygiadau'r Sir a'i swyddogaethau'n gynaliadwy, gan ystyried yn llawn oblygiadau lleihau'r defnydd o adnoddau a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, tra hefyd yn diogelu bioamrywiaeth bresennol a'i wella. Mae'r polisi trosfwaol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy drwy hyrwyddo datblygiadau sy'n lliniaru achosion newid hinsawdd ac sy'n gallu addasu i'r effeithiau tebygol. Mae'r dull hirdymor hwn yn rhan o ymrwymiad yr ACLL i wireddu'r amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a nodir yn y Fframwaith Gofodol a'r Fframwaith Polisi Creu Lleoedd.
- 5.5.7 Yn y lle cyntaf, cyflawnir gostyngiad mewn allyriadau carbon drwy reoli'r galw am ynni sy'n gysylltiedig â datblygiad, drwy wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni. Yn ail, dylid ymgorffori ffynonellau cynaliadwy o ynni, heb ddibynnu ar danwydd ffosil.
- 5.5.8 Mae dalfeydd carbon yn fodd o wrthbwysu allyriadau carbon drwy ddulliau naturiol. Mae coed a phridd, yn enwedig mwd morol, yn gweithredu fel cronfeydd sylweddol o garbon, sy'n storio neu'n dal carbon atmosfferig. Gall pridd addas gronni carbon yn gynt o dan orchudd coed na mathau eraill o lystyfiant. Bydd y carbon hwn sydd wedi'i storio fel arfer yn cael ei ollwng fel nwy tŷ gwydr os caiff coed eu tynnu neu eu difrodi, neu os caiff pridd ei symud, ei orchuddio neu ei aflonyddu (gan gywasgiad neu halogiad) yn ystod y broses adeiladu.
- 5.5.9 Mae mannau agored, coed a phridd y Sir yn chwarae rhan hanfodol wrth lliniaru effeithiau newid hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth/natur ar lefel leol. Dywed y polisi y dylid cadw, gwarchod unrhyw gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth Adran 7 sy'n bresennol, yn ogystal â gwella eu cyflwr, maint a



chysylltedd ar draws ardal y cais, a chysylltu â nodweddion naturiol o fewn y dirwedd ehangach. Dylid cadw a gwarchod coed, a dylai datblygwyr gadw tir gyda phridd ar gyfer plannu coed, llwyni a phlanhigion lluosflwydd newydd lle bynnag y bo modd. Dylid nodi cynlluniau cadarn ar gyfer cadw tirweddau meddal am byth. Mae pridd â llystyfiant agored yn amsugno glaw a dŵr ffo; lle na all coed a llwyni gael eu hamgylchynu gan bridd agored, dylid defnyddio palmentydd/wynebau athraidd, a dylid cadw ardaloedd nad oes eu hangen at ddefnydd cerddwyr neu gerbydau ar gyfer tirweddau meddal.

5.5.10 Er mwyn addasu i oblygiadau newid yn yr hinsawdd, bydd angen i adeiladau a gofodau gael eu dylunio fel eu bod yn gallu ymdopi â'r amrediad tymheredd uwch tebygol, llifogydd mwy cyson a difrifol a mwy o ddigwyddiadau o dywydd eithafol.

5.5.11 Dylid dylunio adeiladau ac isadeiledd cysylltiedig i fod yn hyblyg, nid yn unig i newid yn yr hinsawdd, ond hefyd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau dros eu hoes. Dylen nhw ddarparu cynefin ar gyfer rhywogaethau â Blaenoriaeth e.e. integreiddio briciau ystlumod/adar/gwenyn ar agweddau priodol yn adeiledd yr adeilad a thoeau/waliau gwyrdd llawn rhywogaethau. Bydd trin y dirwedd yn fater hollbwysig, gyda choed yn darparu amddiffyniad drwy gysgodi ac oeri gweithredol. Bydd angen coed i oeri yn arbennig yng nghanol trefi a mannau a rennir y mae pobl yn eu defnyddio ar gyfer hamdden.

Tirluniau dynodedig

NE/3 tirluniau dynodedig

1. Dylai datblygiad fod yn briodol ac yn sensitif o ran integreiddio, lleoliad, graddfa a dyluniad i nodweddion a rhinweddau'r dirwedd. Mae hyn yn cynnwys: topograffeg; patrwm a nodweddion datblygu; rhinweddau hanesyddol ac ecolegol; golygfeydd agored a llonyddwch. Dylid rhoi ystyriaeth i LANDMAP ac asesiad digonol lle yr effeithir ar Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig, a thir gerllaw tirwedd a ddiogelir.
2. Ni chaniateir datblygiad sy'n arwain at effaith andwyol sylweddol ar gyfanrwydd safleoedd lle mae eu tirwedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol, oni bai eu bod yn bodloni'r amgylchiadau (eithriadol) a nodir yn y deddfwriaethau perthnasol neu'r polisi neu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol fel arall.
3. Rhaid lliniaru neu wella datblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar safleoedd tirwedd dynodedig lleol neu bwysigrwydd cadwraeth naturiol, er mwyn cynnal rhinweddau'r dynodiadau presennol. Lle na ellir lliniaru niwed yn ddigonol, ni chaniateir y datblygiad oni bai y bodlonir yr holl feini prawf canlynol:
 - a. Mae tystiolaeth ddigonol wedi'i chyflwyno i ddangos angen hollbwysig i gyflawni'r datblygiad yn y lleoliad o ddewis;
 - b. Mae tystiolaeth ddigonol wedi'i chyflwyno i ddangos nad oes lleoliad na ffurf/dyluniad arall boddhaol o ddatblygiad a fyddai'n osgoi niwed i'r safleoedd a ddynodwyd yn lleol o bwysigrwydd tirwedd neu gadwraeth naturiol;
 - c. Mae mesurau lliniaru digonol wedi'u cynnwys yn y cynnig datblygu i leihau'r effaith andwyol ar y dirwedd.



5.5.12 Nod y polisi hwn yw ceisio sicrhau bod safleoedd dynodedig yn cael eu diogelu rhag datblygiadau niweidiol, a bod yr ACLL yn cyflawni ei rwymedigaeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

5.5.13 Mae holl dirweddau Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad cynhenid i ymdeimlad o le, yn ogystal â lles bioamrywiaeth, iechyd pobl ac ardaloedd hamdden cynaliadwy. Bydd yr ACLL yn gwarchod ac yn gwella eu nodweddion arbennig, tra'n rhoi sylw dyledus i'r buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y maent yn eu darparu, wrth greu lleoedd gwerthfawr.

5.5.14 Mae llawer o bwysau ar yr amgylchedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac nid yw'r cyfan o ganlyniad nac o fewn rheolaeth y system gynllunio. Fodd bynnag, mae'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at newid tirwedd y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt yn cynnwys: ehangu aneddiadau, ffactorau masnachol, diwydiannol, ynni adnewyddadwy, datblygiadau chwarelyddol, datblygiadau twristiaeth megis datblygu carafanau a phorthdai a datblygiadau hamdden mawr. Yn ogystal ag unrhyw fesurau lliniaru cysylltiedig sy'n deillio o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gwrthbwyso carbon, rheoli adnoddau dŵr a'r cynllun i ehangu coetir. Yn aml bydd angen asesiadau tirwedd proffesiynol i sicrhau bod y safleoedd a ddynodwyd yn statudol, yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig a'r nodweddion tirwedd a daearegol pwysig eraill yn cael eu diogelu.

5.5.15 Ni roddir caniatâd cynllunio lle nad oes modd osgoi'r effeithiau niweidiol ar gymeriad y tirlun.

5.5.16 Mae LANDMAP yn adnodd gwybodaeth, methodoleg, a sylfaen monitro pwysig ar gyfer tirweddau Cymru, a all helpu i lywio

gwaith cynllunio ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ardal. Mae LANDMAP yn disgrifio ac yn gwerthuso agweddau ffisegol, ecolegol, gweledol, diwylliannol a hanesyddol ar dirweddau Cymru, ac yn darparu sail ar gyfer dull cenedlaethol cyson, gyda sicrwydd ansawdd, o asesu tirwedd. Gall asesiadau LANDMAP helpu i lywio Asesiadau Isadeiledd Gwyrdd, penderfyniadau rheoli datblygu, asesiad cymeriad tirwedd, hynodrwydd lleol, dyluniad, ac astudiaethau sensitifrwydd tirwedd. Fe'i defnyddiwyd i hysbysu a dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig sydd wedi'u cynnwys yn y CDLL. Bydd Conwy yn parhau i dynnu ar LANDMAP wrth baratoi cynlluniau Tirwedd ac asesiadau sydd eu hangen i lywio'r broses rheoli datblygu.

5.5.17 Bydd yr ACLL yn gweithio gyda budd-ddeiliaid eraill i sicrhau bod yr holl dirweddau a ddynodwyd oherwydd eu cymeriad unigryw a'u rhinweddau arbennig yn cael eu hamddiffyn. Bydd y cyfleoedd y mae tirweddau'n eu darparu ar gyfer twristiaeth, hamdden awyr agored, cyflogaeth leol, ynni adnewyddadwy a lles yn cael eu hystyried. Dylai hyn ddod â llawer o fuddion lles i bobl a chymunedau, diwylliant yn ogystal â gwydnwch ecosystemau.

5.5.18 Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â CNC ar unrhyw gynigion a allai effeithio ar safleoedd rhyngwladol/cenedlaethol ac unrhyw rywogaethau a warchodir. Efallai y bydd CNC hefyd yn gallu darparu cyngor priodol ar amcanion cadwraeth, a data cefndir ar gyfer safleoedd dynodedig statudol a rhywogaethau a warchodir. Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mewn ymgynghoriad â CNC, bydd angen cynnal asesiadau lefel prosiect lle mae potensial am effeithiau sylweddol ar safleoedd



Ewropeaidd. Ni fydd unrhyw brosiect datblygu a allai gael effaith sylweddol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd yn cael ei gefnogi.

5.5.19 Lle cynigir datblygiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd neu'r dirwedd hanesyddol, mae'n debygol y byddai'n rhaid cyflawni Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol, Asesiadau o Arwyddocâd Effaith Datblygu ar y Dirwedd Hanesyddol.

5.5.20 Efallai y bydd angen amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio priodol i sicrhau mesurau diogelu, monitro, lliniaru neu ddigolledu addas, yn ogystal â gwaith rheoli hirdymor. Lle y bo'n bosibl, bydd yr ACLL yn annog ac yn cefnogi cytundebau cydweithredol rhwng defnyddwyr hamdden a rheoleiddwyr i leihau effeithiau aflonyddwch hamdden ar safleoedd a rhywogaethau Ewropeaidd drwy weithredu polisïau'r CDLIN.

5.5.21 Mae nifer o lefelau o ran dynodiadau tirwedd:

- Rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol, lleol (pwysigrwydd / arwyddocâd);
- Statudol ac anstatudol; a
- Dibenion/meini prawf dynodi h.y. golygfaol; bioamrywiaeth / cynefin naturiol; diwylliannol, ac ati.

5.5.22 Gellir dynodi tirweddau at wahanol ddibenion/meini prawf ac efallai y bydd angen gwahanol fathau o offer asesu (er enghraifft: Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVIA), Asesiad o Effaith ar Dreftadaeth, arolwg ecolegol, arolwg rhywogaethau a warchodir, Asesiadau o Arwyddocâd Effaith Datblygu ar y Dirwedd Hanesyddol ac ati).

Diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig

NE/4 diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig

1. Bydd pwys sylweddol yn cael ei roi ar warchod, gwella a rheoli cymeriad, ymddangosiad ac ansawdd yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig a'u lleoliad wrth asesu a chydbwysu cynigion datblygu o fewn neu gerllaw'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, fel y dangosir ar y Map Cynigion ac a restrir isod:
 - a. Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn
 - b. Dyffryn Conwy
 - c. Cefn gwlad Abergele
 - d. Dyffrynnoedd Elwy ac Aled
 - e. Mynydd Hiraethog
 - f. Cerrigydrudion a choridor yr A5
2. Er mwyn gwarchod rhinweddau'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu eu lleoliad, bydd cynigion datblygu yn rhoi ystyriaeth arbennig i gadw neu wella cymeriad, ymddangosiad ac ansawdd pob Ardal Tirwedd Arbennig. Ni fydd datblygiad sy'n methu integreiddio yn foddhaol i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu ddiogelu eu lleoliad yn cael ei ganiatáu. Mewn achosion priodol bydd yr ACLL yn gofyn am gyflwyno Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol i ddangos effaith y cynigion datblygu y tu mewn neu'r tu allan i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig.



- 5.5.23 O fewn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd datblygiad ond yn cael ei ganiatáu lle nad oes unrhyw effaith andwyol sylweddol, gan gynnwys effaith gronnus, ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd. Dylai'r datblygiad anelu at warchod a gwella'r nodweddion y dynodwyd yr Ardal Tirwedd Arbennig ar eu cyfer. Lle bo'n briodol, bydd angen Asesiad o Effaith ar y Dirwedd er mwyn ystyried effaith y datblygiad. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae datblygiad yn angenrheidiol ac a allai arwain at effaith sylweddol ar y dirwedd, bydd angen cynllun tirlunio hefyd a dylid darparu mesurau lliniaru a gwella priodol.
- 5.5.24 Mae cymeriad gweledol y tirweddau, y morluniau a'r trefluniau yn ardal y cynllun, a'r modd y caiff aneddiadau eu gwahanu, o fewn a thu allan i ardaloedd dynodedig, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan drigolion ac ymwelwyr. Rhoddir blaenoriaeth uchel i warchod, cadw a gwella cymeriad y dirwedd hon. Dylai datblygiadau newydd fod wedi'u dylunio'n dda, gan helpu i gynnal a/neu greu tirweddau a threfweddau ag ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth leol.
- 5.5.25 Pwrpas y dynodiadau yw sicrhau nad yw cymeriad lleol yr ardaloedd yn cael ei newid gan fathau amhriodol o ddatblygiad a bod nodweddion sy'n cyfrannu at hynodrwydd lleol yn cael eu cadw. Gwrthwynebwr datblygiad sydd wedi'i ddylunio neu ei leoli'n wael. Dylai'r dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu roi sylw i'r werin leol, a dylai lleoliad a ffurf y datblygiad integreiddio gyda'r dirwedd mewn modd sy'n gyson â datblygiad sy'n bodoli eisoes.
- 5.5.26 Mae LANDMAP, a baratowyd gan CNC, wedi cael ei ddefnyddio i nodi a disgrifio Ardaloedd Tirwedd Arbennig nodedig ledled Ardal y Cynllun. Mae'n ymgorffori manylion a gwerthoedd ar

gynefin, tirwedd hanesyddol, daearegol a diwylliannol. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd ag astudiaethau eraill sy'n darparu rhan o'r sylfaen dystiolaeth am y dirwedd a chymeriad trefi a phentrefi yn Ardal y Cynllun, i sicrhau bod cynigion datblygu yn adlewyrchu hynodrwydd, rhinweddau a sensitifrwydd yr ardal.

- 5.5.27 Nid bennir tir sydd y tu allan i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn addas i'w ddatblygu ar unwaith, gan fod ystyriaethau a dynodiadau eraill a allai fod yn berthnasol. Gall LANDMAP fod yn berthnasol o hyd hefyd, yn dibynnu ar y cwmpas haenau, gan fod y rhan fwyaf o Ardal y Cynllun wedi'i gorchuddio gan o leiaf un haen o werth uchel. Mae'n debygol y bydd angen Datganiad Cymeriad Tirwedd ar gyfer pob datblygiad y tu allan i ffiniau aneddiadau a thu allan i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, fel y diffinnir ar y mapiau cynigion, a phob datblygiad mawr.
- 5.5.28 Gellir ymgorffori Datganiad Cymeriad Tirwedd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad, lle bo angen, neu gall ffurfio dogfen ar wahân. Bydd CCA Amgylchedd Naturiol yn cael ei gynhyrchu i roi canllawiau pellach ar gwblhau Datganiad Cymeriad Tirwedd.
- 5.5.29 Dylai integreiddio datblygiad o fewn y dirwedd hefyd ystyried elfennau tirwedd, megis cynefinoedd; clostiroedd naturiol a/neu o waith dyn neu nodweddion megis waliau, coed neu wrychoedd sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd a dylid eu cadw. Ni chaniateir datblygiad sy'n methu integreiddio'n sensitif ac allan o'r ffordd i'r dirwedd, ac a fyddai'n niweidiol i gymeriad y dirwedd. Mewn rhai achosion, gall y datblygiad arfaethedig elwa o gael ei dirlunio, mewn modd sy'n gydnaws â'r ardal leol, er mwyn lleihau ei effaith.

NE/5 Lletemau Glas

1. Mae Lletemau Glas wedi'u dynodi rhwng yr aneddiadau canlynol:

- a. Dwygyfylchi a Phenmaenmawr
- b. Deganwy, Cyffordd Llandudno a Llanrhos
- c. Llandudno a Craigside
- d. Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos
- e. Mochdre a Bae Colwyn
- f. Cyffordd Llandudno a Mochdre, a Glan Conwy
- g. Bryn-y-maen a Bae Colwyn
- h. Llanelian a Hen Golwyn
- i. Rhwng Coed Coch a Peulwys Lane
- j. Hen Golwyn a Llysfaen
- k. Rhyd-y-foel, Llanddulas ac Abergele
- l. Towyn a Phensarn

2. O fewn y Lletemau Glas dynodedig, dim ond os yw'n cynnal natur agored a chymeriad y dirwedd y bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu, oni bai fod y cynnig yn cynnwys datblygu priodol o fewn y Lletem Las fel y nodwyd yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r canllawiau, ac yn ddibynnol ar gydymffurfio gyda'r polisïau Creu Lleoedd Cynaliadwy sydd wedi eu dylunio i ddiogelu'r amgylchedd a chymeriad y dirwedd.

5.5.30 Mae Lletemau Glas wedi'u dynodi mewn rhannau o gefn gwlad i ddarparu clustogfeydd rhwng aneddiadau, i atal aneddiadau rhag cyfuno yn ogystal ag ymlediad aneddiadau trefol annerbyniol mewn ardaloedd sydd dan bwysau i ddatblygu. Mae Lletemau Glas yn gweithio ar y cyd â ffiniau aneddiadau i

gyflawni'r dibenion a ganlyn yn unol â'r canllawiau a'r polisi cynllunio cenedlaethol:

- rheoli ffurf adeiledig ac ymylon aneddiadau yn strategol;
- helpu i ddiogelu cefn gwlad rhag ymlediad aneddiadau trefol;
- diogelu pryd a gwedd yr ardal drefol; a
- helpu i adfywio trefi drwy roi anogaeth i ailddefnyddio tir diffaith a thir trefol arall.

5.5.31 Mae PCC yn darparu canllawiau penodol ar ystyried ceisiadau cynllunio o fewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n Lletemau Glas. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal natur agored y tir, yn rhagdybio yn erbyn datblygiad sy'n amhriodol i bwrpas y dynodiad Lletem Las ac yn amlinellu'r amgylchiadau eithriadol iawn pan allai datblygiad fod yn dderbyniol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiad at y dibenion canlynol:

- Anghenion mentrau gwledig sydd wedi eu cyfiawnhau;
- Cyfleusterau hanfodol ar gyfer chwaraeon a hamdden awyr agored, mynwentydd, a defnyddiau tir eraill sydd yn cynnal natur agored y Lletem Las ac nad ydynt yn gwrthdaro â dibenion cynnwys tir ynddi;
- Estyniadau, addasiadau neu amnewidiadau cyfyngedig i anheddau presennol; ac
- Arallgyfeirio ar raddfa fach o fewn clwstwr o adeiladau fferm lle gwneir hynny fel rhan o fusnes y fferm.

5.5.32 Er mwyn bod yn dderbyniol, dylai estyniad i annedd bresennol neu annedd newydd yn ei lle mewn Lletem Las fod o raddfa briodol, fel na fydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar natur agored y tir. Gall defnyddiau eraill o dir a mathau o ddatblygiad a



all fod yn dderbyniol gynnwys cloddio am fwynau,
gweithrediadau peiranyddol neu brosiectau cludiant lleol.

5.5.33 Pan fyddant wedi'u lleoli yn y Lletem Las, gall rhai prosiectau ynni adnewyddadwy beryglu natur agored a chymeriad y tir a chânt eu hystyried yn ddatblygiad amhriodol o fewn y Lletemau Glas. Er mwyn i brosiectau ynni adnewyddadwy fod yn

dderbyniol o fewn y Lletemau Glas, bydd angen i ddatblygwyr ddangos y byddai'r angen pennaf a'r buddion o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn drech na'r niwed y byddai'r datblygiad yn ei achosi i'r polisi o warchod cymeriad ac edrychiad tirwedd agored y Lletemau Glas. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhapur Cefndir 29/31.



NE/6 coed, tirlunio a gwaith rheoli

1. Bydd cynigion datblygu yn cyd-fynd ag amcanion gwarchod natur ardal y cynllun a bydd yn cynnwys manylion fel rhan o ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd i ddangos ble maent yn:
 - a. Gwneud y mwyaf o orchudd llystyfiant yn y safle arfaethedig i wella'r modd o ddal a storio carbon, yn unol â pholisi EN/7, drwy ymgorffori llystyfiant presennol a llystyfiant wedi'i blannu/hau yn y dyluniad ar ddwy lefel:
 - i. Plannu ar raddfa stryd: Ymgorffori llystyfiant ar y safle ac oddi arno gyda strydoedd coediog, waliau gwyrdd, gwrychoedd brodorol, planhigion mewn gerddi blaen a chefn.
 - ii. Cronfeydd trefol: Ardaloedd presennol mwy a/neu ardaloedd wedi'u plannu/hau a neilltuwyd o fewn yr ardal ddatblygu, i'w defnyddio fel gwarchodfeydd natur a/neu ofod cymunedol. Gallai hyn gynnwys ardaloedd o goetir, dolydd, neu fannau tyfu bwyd cymunedol, a bydd yn dibynnu ar y rhywogaethau dan sylw.
 - b. Cadw a gwella cynefinoedd naturiol presennol, nodweddion cadwraeth natur a diddordeb daearegol. Eu diogelu yn ystod gwaith adeiladu a, lle bo angen, darparu cynllun rheoli dros 30 mlynedd, gan gynnwys amserlen waith flynyddol. Disgwylir i hyn gael ei gyflwyno fel rhan o gais cynllunio. Dylai'r rhain amlinellu amcanion clir, darparu asesiad cyflwr sylfaenol a dangos y gwaith cynnal a chadw, monitro ac amserlenni ar gyfer cynnal y cynllun cymeradwy, yn unol ag NE/7 ac NE/8:
 - i. Ymgorffori llystyfiant brodorol priodol mewn unrhyw gynllun tirlunio neu blannu, ac eithrio lle gall gofynion arbennig o ran pwrpas neu leoliad gyfiawnhau fel arall;
 - ii. Sicrhau bod bywyd gwyllt a'r tirwedd yn cael eu hamddiffyn a'u gwella drwy ddyluniad adeiladau priodol (gan ymgorffori'r Fframwaith Adeiladu â Natur), gosodiadau'r safle, osgoi defnyddio mawn neu aflonyddwch, tirlunio, trin ffiniau sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt, a deunyddiau;
 - iii. Lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod gwaith cynnal a chadw parhaus yn cael ei wneud ar fuddiannau gwarchod natur a gedwir neu a grëwyd gan gynnwys rheoli ac osgoi Rhywogaethau Ymledol ac Estron (INNS), defnyddio mawn, a lleihau aflonyddwch a mewnforio pridd;
 - iv. Lle bo'n briodol, ymgorffori toeau gwyrdd (lle nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arall ar gyfer gosodiadau ffotofoltäig neu osodiadau ynni adnewyddadwy eraill) a waliau gwyrdd, i gymedroli tymheredd yr adeilad er mwyn osgoi'r angen am systemau gwresogi a/neu oeri mecanyddol;
 - v. Bydd angen plannu coed yn unol â'r tabl isod, yn amodol ar asesiad hyfywedd:



Plannu coed	Fesul annedd newydd	Fesul arwynebedd llawr masnachol 100 metr sgwâr newydd	Fesul arwynebedd llawr diwydiannol 100 metr sgwâr newydd
Gofyniad plannu coed cyffredinol	3 coeden neu orchudd o 10% o arwynebedd y safle	2 goeden neu orchudd o 20% o arwynebedd y safle	2 goeden neu orchudd o 20% o arwynebedd y safle
Gofyniad plannu coed ar strydoedd	0.2	0.1	0.1

2. Lle bo angen, bydd Datganiad Ynni yn archwilio cyfleoedd dal a storio carbon i wneud y mwyaf o ddarpariaeth ar y safle. Rhaid dal a storio unrhyw allyriadau gweddilliol oddi ar y safle, naill ai gan y datblygwr neu drwy'r Cyngor i gyflawni targedau sero net yn unol â pholisi EN/7 ac NE/8.

5.5.34 Mae LIC wedi gosod targed i gynyddu gorchudd coetir yng Nghymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020. Papur Cefndir 54: Gorchudd Coed yng Nghonwy a Phapur Cefndir 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn dangos y gallai gorchudd canopi gynyddu 40% o bosibl yng Nghonwy. Fodd bynnag, amlygir y byddai'r ffigwr realistig yn debygol o fod yn is. Mae Coed Cadw yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol ymrwymo i darged gorchudd canopi coed o 30% o leiaf ar gyfer tir datblygu newydd.

5.5.35 Mae safonau plannu coed yn darparu mecanwaith effeithiol, ond nid yn gyfyngedig, i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at yr isadeiledd gwyrdd. Mae mabwysiadu safonau plannu coed hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gasglu taliadau symiau gohiriedig, yn lle plannu coed, lle nad yw amgylchiadau'n caniatáu i'r gofynion plannu coed gael eu bodloni ar y safle. Bydd hyn yn ategu cyllid cyfun yr ACLL ar gyfer plannu coed.

5.5.36 Dylid meddwl yn ofalus am y rhywogaeth a ddewisir, yn ogystal â'r cynnwys pridd / organig gan fod cyfraddau dal a storio carbon yn amrywio. Mae angen ystyried sut y caiff llystyfiant ei

reoli'n barhaus, oherwydd gall llystyfiant sydd angen ymyrraeth aml gynhyrchu mwy o allyriadau nag y mae'n ei ddal a'i storio. Dylid datblygu cynlluniau rheoli tir sero net manwl, gydag archwiliadau parhaus er mwyn sicrhau bod gwaith symud disgwylidig yn digwydd.

5.5.37 Mae pridd hefyd yn storfa garbon bwysig a dylid osgoi tarfu arno. Dylid gwarchod priddoedd presennol lle bo modd yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu'r datblygiad, er mwyn atal allyriadau a gwneud y mwyaf o'r cyfle i'w symud.

5.5.38 Unwaith y bydd y cyfleoedd gorau i ddal a storio carbon wedi'u sicrhau ar y safle, byddai angen i unrhyw allyriadau gweddilliol gael eu dal a'u storio oddi ar y safle, naill ai gan y datblygwr neu gan yr ACLL i gyrraedd targedau sero net.

5.5.39 Bydd CBSC a/neu gorff cyfrifol a ganiateir gan y Cyngor yn cynyddu budd bioamrywiaeth a dal a storio carbon ar dir y Cyngor a thir trydydd parti dan reolaeth (e.e. drwy blannu coed, adfer a chreu cynefinoedd a rheoli carbon pridd) i wrthbwysu'r allyriadau gweddilliol o ddatblygiad newydd. Gallai hyn gynnwys



mannau gwyrdd fel gwarchodfeydd natur, parciau a gerddi, rhannau llinellol ac isadeiledd gwyrdd fel ymylon a mannau gwyrdd ar hyd ffyrdd; a 'gwyrddni' isadeiledd llwyd mewn lleoliadau trefol.

- 5.5.40 Bydd CBSC hefyd yn ystyried sicrhau dal a storio carbon drwy blannu coed drwy gynlluniau gwrthbwysu achrededig y DU. Byddai hyn yn cynnwys prynu credydau carbon, tystysgrif y gellir ei masnachu sy'n gwarantu dal a storio tunnelli o garbon deuocsid neu Nwyon Tŷ Gwyrdd eraill. Gellid sefydlu partneriaeth â chynlluniau fel y rhai a redir gan y Cod Carbon Coetiroedd (WCC) a Choed Cadw.
- 5.5.41 Rhoddwyd llawer o ffocws yn flaenorol ar allu amgylcheddau daearol fel coedwigoedd a mawndiroedd i ddal a storio carbon. Fodd bynnag, mae gallu storio carbon cynefinoedd arfordirol a'r cefnfor yn cael ei gydnabod fwyfwy. Fel rhan o'r ymdrechion i wrthbwysu a dal a storio carbon, bydd CBSC hefyd yn ystyried cadw ac adfer ecosystemau carbon glas i gynnal a gwella eu gallu i ddal a storio CO₂ yn yr hirdymor.
- 5.5.42 Yn ogystal â dal a storio carbon o'r atmosffer drwy symud tir, gellir gwrthbwysu allyriadau CO₂ drwy ddefnyddio technolegau ynni Carbon Isel a Di-garbon ar y safle neu oddi ar y safle. Cyfeiriwch at Nodyn Technegol Dal a Storio Carbon Papur Cefndir 62.
- 5.5.43 Bydd yr ACLL yn gwarchod coed, gwrychoedd, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir lle mae ganddynt werth ecolegol, yn cysylltu cynefinoedd, cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal benodol, neu'n darparu swyddogaeth isadeiledd gwyrdd buddiol. Lle bo hynny'n briodol, ac yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, bydd Gorchmynion Diogelu Coed yn cael eu

cyflwyno i warchod coed amwynder pwysig rhag cael eu torri a rhag niwed.

- 5.5.44 Mae coetiroedd hynafol a choetiroedd lled-naturiol a choed hynafol a threftadaeth unigol yn adnoddau naturiol unigryw, ac mae ganddynt werth tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant sylweddol. Bydd coed a choetiroedd o'r fath yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu ddirywiad, oni bai bod buddiannau cyhoeddus sylweddol, wedi'u diffinio'n glir. Bydd yr amddiffyniad hwn yn atal gweithrediadau a allai fod yn niweidiol a fyddai'n arwain at eu colli'n ddiangen. Yn achos safle a gofnodwyd ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol, bydd awdurdodau yn ystyried cyngor CNC neu Goed Cymru. Mae'r asedau hyn wedi'u mapio yn yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd, gweler Papur Cefndir 47.

Rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd

NE/7 rhwydwaith isadeiledd gwyrdd

1. Mae angen cyflwyno Datganiad Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer pob cais cynllunio i fynd i'r afael â'r materion Isadeiledd Gwyrdd canlynol yn y datblygiad arfaethedig:
 - a. Mae'r gosodiad a'r dyluniad yn parchu lleoliad asedau Isadeiledd Gwyrdd presennol ac yn cefnogi ac yn gwella'r swyddogaethau a'r buddion a ddarperir ganddynt;
 - b. Mae'r datblygiad yn cadw, yn creu ac yn gwella'r rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd ar y safle ac o'i amgylch drwy ddarparu neu wella cysylltiadau swyddogaethol neu goridorau rhwng gwahanol asedau Isadeiledd Gwyrdd;
 - c. Mae'r datblygiad yn darparu Isadeiledd Gwyrdd newydd a/neu'n cyflwyno defnydd aml-swyddogaeth o fannau gwyrdd neu gysylltiadau/coridorau presennol; mewn ymateb i asesiad o angen safle benodol a chyfle ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd;
 - d. Lle bo'n briodol, mae gorchudd canopi coed o fewn y safle o leiaf cymaint â chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Conwy o ran coed mewn trefi, gan ystyried cadw'r coed presennol a thwf canopi'r coed i'w plannu yn y dyfodol fel rhan o'r dirwedd ar gyfer y safle, yn unol â pholisi NE/2, NE/6, NE/8 a Phapur Cefndir 54;

e. Mae'r datblygiad yn defnyddio asedau isadeiledd gwyrdd i wella'r gallu i wrthsefyll llifogydd, a darperir cynllun adnoddau hirdymor ar gyfer rheoli ac adnewyddu asedau Isadeiledd Gwyrdd yn gylchol; a

f. Dangosir cynnydd net mewn bioamrywiaeth ar y safle a/neu'r dirwedd ehangach, gan ddefnyddio'r dull "hierarchaeth liniaru" fesul cam yn unol â chanllawiau cenedlaethol a pholisi NE/8;

2. Mewn achosion lle nad oes modd osgoi colli isadeiledd gwyrdd, bydd yn rhaid i gynlluniau datblygu ddarparu mesurau lliniaru a digolledu yn lle'r asedau hynny, sy'n bodloni gofynion yr ACLL.

3. Bydd cynigion a nodir ym Mhapur Cefndir 47 Asesiad Isadeiledd Gwyrdd a Phapur Cefndir 58 Isadeiledd Gwyrdd, Trawsnewid Trefi yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

5.5.45 Isadeiledd gwyrdd yw rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sydd ar wasgar rhwng lleoedd ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt. Gall elfennau cydrannol isadeiledd gwyrdd weithredu ar wahanol raddfeydd. Ar raddfa'r dirwedd, gall isadeiledd gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan megis gwlyptiroedd, dyfrffyrdd a mynyddoedd. Ar raddfa leol, gallai gynnwys parciau, caeau, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi. Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol megis coed stryd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd, a thoeau/waliau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau isadeiledd gwyrdd.



5.5.46 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyd-destun ar gyfer darparu isadeiledd gwyrdd aml-swyddogaeth. Gall ei ddarpariaeth wneud cyfraniad sylweddol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn arbennig at gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o ran yr amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau, a maint, cyflwr a chysylltedd ecosystemau a'u gallu i addasu. Mae hyn yn golygu bod datblygu isadeiledd gwyrdd yn ffordd bwysig i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd Adran 6.

5.5.47 Mae ystod eang o gyfraniadau pwysig eraill y gall isadeiledd gwyrdd eu gwneud, gan gynnwys manteision i iechyd a lles, twristiaeth a hamdden a gwell mynediad i ddefnyddwyr nad ydynt yn gyrru.

5.5.48 Bydd Conwy yn darparu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin ag isadeiledd gwyrdd a bioamrywiaeth gan ddefnyddio'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd sy'n tynnu o'r sylfaen dystiolaeth a ddarperir gan Ddatganiadau Ardal ac Asesiadau o Les. Caiff ei integreiddio i gynlluniau datblygu er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu hystyried yn gynnar ac yn gydlynol i lywio datblygiad a dyluniad newydd, a strategaethau cysylltiedig y cynllun.

5.5.49 Bydd yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch a chysylltedd ecolegol a gwella canlyniadau o ran lles. Dylai nodi cyfleoedd strategol allweddol lle byddai adfer, cynnal a chadw, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn cyflawni'r manteision mwyaf arwyddocaol.

5.5.50 Mae'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd wedi nodi bod angen cadw neu wella rhai nodweddion y safleoedd strategol. Mae haenau mapio'r Isadeiledd Gwyrdd ar gael ar fap cynigion y CDLIN.

5.5.51 Bydd yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd hefyd yn cael ei ystyried yn gynnar mewn cynigion datblygu, ac yn helpu wrth roi prosiectau ar waith. Bydd y CDLIN yn sicrhau bod nodweddion y dirwedd sydd o bwysigrwydd mawr i fioamrywiaeth yn cael eu rheoli'n briodol er mwyn ategu a gwella cydlynid ecolegol rhwydwaith Natura 2000.

5.5.52 Mae'r cynllun yn cynnwys polisïau eraill sy'n gysylltiedig ag isadeiledd gwyrdd, sy'n cynnwys polisïau sy'n ymwneud â diogelu mannau gwyrdd ac yn darparu gwasanaethau ecosystem penodol. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau ar greu lleoedd ac amddiffyn mannau agored, darparu mannau agored newydd, gwydnwch ecosystemau, teithio llesol, sŵn, llygredd aer, golau a dŵr, diogelu adnoddau dŵr a pherygl llifogydd. Dylid rhoi ystyriaeth i holl bolisïau Creu Lleoedd.

5.5.53 Nid yw'r cynllun yn ceisio dynodi pob ardal yr ystyrir ei bod yn darparu gwasanaethau ecosystem gwerthfawr. Felly, bydd rhai mannau gwyrdd pwysig o fewn y Sir yn cael eu gwarchod drwy'r polisi hwn yn unig. Gall ardaloedd o'r fath gynnwys mannau gwyrdd preifat a chyhoeddus o werth amwynderol, ac yn hollbwysig o ran creu lleoedd, mannau gwyrdd trefol sy'n diogelu hunaniaeth cymdogaethau unigol o fewn aneddiadau mawr. Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod mannau gwyrdd o'r fath, lle gellir dangos gwerth y safle penodol yn ddigonol, o ran darpariaeth gwasanaethau'r ecosystem a'i gyfraniad at y rhwydwaith isadeiledd gwyrdd.



5.5.54 Dylid ystyried isadeiledd gwyrdd fel un adnodd i'w ddiogelu, ei wella a'i reoli er mwyn darparu ystod eang o fanteision amgylcheddol, economaidd ac o ran ansawdd bywyd i'r gymuned. I'r perwyl hwn, disgwylir i gynigion datblygu gadw a gwella'r isadeiledd gwyrdd presennol. Bydd cynlluniau o'r fath o faint, math a safon briodol i sicrhau na fydd unrhyw dorri cynefinoedd na cholli cysylltedd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen creu Isadeiledd Gwyrdd newydd a chreu cysylltiadau â'r rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd presennol.

5.5.55 Dylid cynllunio cynigion datblygu i ystyried yr holl wasanaethau ecosystemau sydd ar gael ar yr un pryd, a byddant yn cael eu hasesu mewn perthynas â hynny. Er enghraifft, gall man gwyrdd trefol ddarparu man chwarae i blant, ond gall hefyd ddarparu cynefin ecolegol pwysig a chyfrannu at ddraenio trefol a rheoli llifogydd.

5.5.56 Bydd cytundebau Adran 106 yn cael eu defnyddio i sicrhau tir a chyllid hirdymor (30 mlynedd fel arfer) ar gyfer gweithredu asedau a gwelliannau mannau gwyrdd newydd. Mae gwasanaethau ecosystem isadeiledd gwyrdd yn cynnwys:

- Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth;
- Cyfleoedd ar gyfer cysylltu â natur;
- Darparu llwybrau teithio llesol, llwybrau ceffylau a gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus;
- Gwella iechyd a lles;
- Annog chwaraeon, gweithgareddau hamdden egniïol a goddefol;

- Gwella'r treflun, ansawdd y dirwedd ac amwynder gweledol;
- Atal llifogydd, storio dŵr glaw ac arafu cyfraddau llif dŵr;
- Dal a storio carbon;
- Cynhyrchu bwyd, twf cymunedol;
- Cynorthwyo ag adfywio economaidd;
- Darparu cyfleoedd i warchod a gwella asedau hanesyddol a chynyddu lefelau dehongli;
- Gwella ansawdd aer, llonyddwch, cynnal awyr dywyll a defnyddio cyn lleied o olau â phosibl.

Bioamrywiaeth

NE/8 bioamrywiaeth

Bydd angen i ddatblygiad warchod a gwella amrywiaeth, gwydnwch, maint, cyflwr, cysylltedd ac addasrwydd ecosystemau drwy gymhwyso egwyddorion DECCA a dull fesul cam i ddarparu budd net i fioamrywiaeth a rheolaeth hirdymor. Dylid amlinellu hyn mewn Datganiad Bioamrywiaeth sy'n cyd-fynd â'r cynnig.

Bydd cynigion sy'n gwrthdroi darnio cynefinoedd ac yn hyrwyddo creu, adfer a rheoli rhwydweithiau ecolegol, cynefinoedd a nodweddion yn cael eu pwysleisio wrth asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n destun mentrau bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd ac sy'n cael blaenoriaeth uchel o ran Isadeiledd Gwyrdd. Gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio i gyflawni'r amcanion bioamrywiaeth hyn lle bo'n briodol. Ni chaniateir cynigion a fyddai'n arwain at ddarnio cynefinoedd yn sylweddol neu'n effeithio'n andwyol ar statws cadwraeth

rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth, neu at golli cysylltedd ecolegol.

Rhaid i bob cais cynllunio ddangos cadwraeth a gwelliant bioamrywiaeth, a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn o fewn y safle datblygu. Ll bo'n briodol, rhaid creu ac ymestyn rhwydweithiau o'r fath ar dir gerllaw'r safleoedd datblygu. Ni chaniateir datblygiad sy'n arwain at effaith andwyol sylweddol ar wydnwch cynefinoedd a/neu rywogaethau a warchodir.

5.5.57 Cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yw'r rhai a warchodir o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'r DU, fel y nodir yn TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009). Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, y Gyfarwydddeb Adar, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Adran 7 Deddf yr Amgylchedd yn rhestru'r organebau byw a'r cynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Bydd CCA bioamrywiaeth a datblygu yn cael ei gynhyrchu i roi mwy o wybodaeth am sut y dylid gwarchod a gwella bioamrywiaeth drwy ddatblygiadau.

5.5.58 Mae PCC yn nodi bod rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol ac mae'n rhaid iddo ddarparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth.

5.5.59 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn tynnu sylw at gynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod dyletswydd ar ACLlau i ddangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Pwysleisir hyn yn Cymru'r Dyfodol; Cynllun Cenedlaethol 2040, ac amcanion y polisiau adnoddau naturiol yw "cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu".

Bioamrywiaeth a chynefinoedd - safleoedd dynodedig

5.5.60 Mae safleoedd dynodedig statudol ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn gwneud cyfraniad hanfodol i warchod bioamrywiaeth. Gallant hefyd fod yn bwysig wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflawni amcanion lles ehangach.

5.5.61 Mae'r CDLIN yn ystyried arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau sydd i'w roi ar fuddiannau cadwraeth natur. Ceir canllawiau pellach, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd Natura 2000, yn TAN5: Cadwraeth Natur a Chynllunio. Dylid cofnodi'n glir y rhesymeg ategol dros y dynodiad ar bob lefel ac amlinellid o nodweddion cymhwyso'r dynodiad fel rhan o'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd. Rhaid eu hystyried yn y CDLIN wrth ddylunio cynigion datblygu newydd ac mewn penderfyniadau rheoli datblygu yn y dyfodol. Bydd gwahaniaeth yn cael ei roi i arwyddocâd cymharol y dynodiad o fewn yr hierarchaeth, wrth ystyried y pwysau i'w roi ar fuddiannau cadwraeth natur.

Bioddiogelwch

5.5.62 Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS) Planhigion,

anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau yw'r rhain, sydd wedi'u cyflwyno i rannau o'r byd lle na fyddent i'w cael yn naturiol. Maen nhw'n gallu lledaenu gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw. Rhywogaethau Estron Goresgynol yw'r ail fgygythiad mwyaf i fioamrywiaeth ar ôl colli a darnio cynefinoedd. Amcangyfrifwyd bod Rhywogaethau Estron Goresgynol yn costio o leiaf £1.8 biliwn y flwyddyn i economi'r DU. Maent yn effeithio'n bennaf ar y sectorau ffermio a garddwriaethol ond gallant effeithio ar gludiant, adeiladu, hamdden, dyframaeth a chyfleustodau. Bydd angen Asesiadau Risg Bioddiogelwch ar gyfer pob cynnig lle cofnodir Rhywogaethau Estron Goresgynol yn ardal y cais, neu lle mae risg y gallai gweithgareddau adeiladu / datblygu ledaenu'r rhywogaethau hyn i'r safle. Bydd yr asesiadau hyn yn manylu ar raglen ddileu Rhywogaethau Estron Goresgynol ar safle'r cais, a chaiff mesurau bioddiogelwch eu cynnwys mewn Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP).

5.5.63 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi'r gofyniad ar gyfer 'rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' ynghyd â ffyrdd newydd o weithio i gyflawni hyn. Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd yn nodi dull Cymru o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol a lleol, gyda phwrpas cyffredinol yn gysylltiedig ag 'egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol' a ddiffinnir yn y Ddeddf. Mae 3 prif rhan gyfansoddol i Ran 1 Deddf yr Amgylchedd:

1. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – Adroddiad a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n

rhoi asesiad o adnoddau naturiol a pha mor dda mae Cymru yn eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

2. Polisi Adnoddau Naturiol – Polisi a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r polisi yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.
3. Datganiadau Ardal – Sail dystiolaeth leol a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol a sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain (yn dechrau ddiwedd 2017 ymlaen).

5.5.64 Mae Adran 7 - Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn disodli'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi, yn adolygu ac yn diwygio rhestrau o organebau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru, y maent yn ystyried eu bod o arwyddocâd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

5.5.65 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a mathau o gynefinoedd sydd ar unrhyw restrau a gyhoeddir o dan yr adran hon, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

5.5.66 Am restr o'r organebau byw o'r pwys mwyaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru, gweler Adran 7 Rhywogaethau a flaenorir



5.5.67 Am restr o'r cynefinoedd o'r pwys mwyaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru, gweler Adran 7 Cynefinoedd a flaenorir

5.5.68 Wrth wraidd polisi natur yr Undeb Ewropeaidd mae creu rhwydwaith ecolegol cydlynol o ardaloedd gwarchodedig ar draws yr UE. Gelwir hyn yn 'rhwydwaith Natura 2000'. Mae'r ardaloedd gwarchodedig hyn ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yr ystyrir eu bod o arwyddocâd rhyngwladol eithriadol. Eu pwrpas yw cynnal neu adfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau ar 'statws cadwraeth ffafriol' yn eu cynefin. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys:

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig – wedi'u dosbarthu i warchod adar prin a diamddiffyn, a rhywogaethau mudol cyffredin;
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig – wedi'u dynodi oherwydd eu cyfraniad pwysig at warchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau'r planhigion a'r anifeiliaid y maent yn eu cynnal.

5.5.69 Yn ogystal, mae rhai rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn cael amddiffyniad ychwanegol. Gelwir y rhain yn 'Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop'. Mae gan Gymru 21 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar diamddiffyn, a 92 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer rhywogaethau prin eraill a chynefinoedd naturiol dan fygythiad. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio rhwydwaith Natura 2000 yng Nghymru.

5.5.70 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau uwch (Dyletswydd Adran 6). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â

Chymru a bydd yn helpu i wneud y mwyaf o gyfraniadau at gyflawni'r nodau lles.

5.5.71 Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cefnogi'r gofyniad deddfwriaethol hwn i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy roi natur wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, a chynyddu gwydnwch ecosystemau drwy gymryd camau penodol sy'n canolbwyntio ar yr amcanion ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch ecosystemau, ar wahanol raddfeydd, drwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddiogelu rhag colled ac i sicrhau gwelliant.

5.5.72 Bydd y strategaethau, polisïau'r CDLIN a chynigion datblygu yn ystyried yr angen i:

- gefnogi cadwraeth bioamrywiaeth, yn enwedig cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd;
- sicrhau bod gweithredu yng Nghymru'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd;
- sicrhau bod safleoedd sydd wedi'u dynodi'n statudol ac anstatudol yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol;
- diogelu rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth ac asedau bioamrywiaeth presennol rhag effeithiau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu buddiannau cadwraeth natur ac sy'n peryglu gwydnwch rhwydweithiau ecolegol a'r cydrannau sy'n sail iddynt, megis dŵr a phridd, gan gynnwys mawn; a



- datblygu a gwella gwydnwch ecosystemau drwy wella eu hamrywiaeth, eu cyflwr, eu maint a'u cysylltedd o rwydweithiau ecolegol.

5.5.73 Mae'r Cyngor yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau (Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol ac mae'n rhaid iddo ddarparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cynllunio hefyd ystyried hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol:

- amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
- Cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
- Maint ecosystemau;
- Cyflwr ecosystemau, gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth; a
- Gallu'r ecosystemau i addasu.

5.5.74 Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor yn ystyried:

- y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a gyhoeddwyd gan CNC; ac
- unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cynnwys y cyfan neu ran o'r ardal y mae'r awdurdod yn ymarfer ei swyddogaethau. Bydd Datganiadau Ardal yn cael eu paratoi gan CNC, a fydd hefyd yn llywio'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd.

5.5.75 Mae CNC wedi cynhyrchu canllaw i Ymarferwyr i Rwydweithiau Ecolegol Gwydn, y dylid ei ddefnyddio i ddangos bod Awdurdodau Cyhoeddus yn ystyried agweddau ecosystem.

5.5.76 Mae mapiau rhwydwaith cynefinoedd yn adnodd allweddol ar gyfer deall a llywio ymyriadau i wella cysylltedd ecolegol, ac felly i helpu i adeiladu gwydnwch ecosystemau. Gellir eu defnyddio i nodi meysydd cysylltedd pwysig i'w diogelu ac ardaloedd lle mae cyfleoedd i wella cysylltedd, drwy adfer neu greu cynefinoedd er enghraifft. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Canllaw Ymarferwyr i Rwydweithiau Ecolegol Gwydn

Gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig

NE/9 gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig

Bydd effaith datblygu ar safle gwarchod natur statudol neu anstatudol yn cael ei asesu yn erbyn y polisi a'r canllawiau cenedlaethol perthnasol yn unol â'r dull fesul cam a fframwaith DECCA.

Dangosir Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Ardaloedd Cadwraeth Natur Lleol neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol ar y map cynigion. Caniateir datblygiad yn amodol ar y canlynol:

- a) Bod nodweddion yr ardal/safle yn cael eu cadw, a'u gwella lle y bo'n bosibl; neu
- b) Ni ellid lleoli'r datblygiad yn rhesymol yn rhywle arall, a dangosir nad oes dewis arall addas, ac mae angen/buddiannau'r datblygiad yn gorbwyso cadwraeth natur yr ardaloedd/safleoedd. Mae angen i geisiadau cynllunio ddarparu mesurau lliniaru a/neu ddigolledu priodol os nad oes modd osgoi'r effeithiau andwyol.



5.5.77 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch ecosystemau, ar wahanol raddfeydd, drwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddiogelu rhag colled ac i sicrhau gwelliant. Dylai mynd i'r afael â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd fod yn rhan ganolog o unrhyw fesurau i warchod bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

5.5.78 Gall unrhyw gynnig datblygu effeithio ar safleoedd cadwraeth a rhywogaethau a warchodir, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae canllawiau sy'n ymwneud â diogelu bioamrywiaeth a safleoedd cadwraeth wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru.

5.5.79 Mae'n rhaid i'r datblygiad ystyried arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau sydd i'w roi ar fuddiannau cadwraeth natur. Ceir canllawiau pellach, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd Natura 2000, yn TAN5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

5.5.80 Rhaid diogelu safleoedd sydd wedi'u dynodi'n statudol rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu cadw a'u gwella gan waith rheoli hirdymor priodol. Dylid cydnabod cyfraniad y safle dynodedig i rwydwaith ehangach o ecosystemau gwydn fel rhan o'r polisi a'r broses wneud penderfyniadau.

5.5.81 Dylid ymgorffori cyfleoedd i adfer rhwydweithiau o gynefinoedd i gyflwr iach, fel y nodir yn yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd. Rhaid nodi ymyriadau priodol i sicrhau darpariaeth yn erbyn agweddau o wydnwch, amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr a gallu i addasu.

5.5.82 Bydd safleoedd sydd wedi'u dynodi'n statudol wedi'u diogelu rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu cadw a'u gwella gan waith rheoli priodol. Bydd cyfleoedd i adfer rhwydweithiau o gynefinoedd i gyflwr iach yn cael eu nodi o ganlyniad i gynnal yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd, ynghyd â nodi ymyriadau priodol i sicrhau darpariaeth yn erbyn agweddau gwydnwch, amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr a gallu i addasu.

5.5.83 Mae cysylltedd yn ymwneud â galluogi bioamrywiaeth i ledaenu, neu fod yn gysylltiedig â chynefinoedd priodol neu ecosystemau tebyg. Mae hyn yn osgoi 'ynysoedd' o gynefinoedd neu boblogaethau rhag datblygu a chael eu hynysu oddi wrth eraill. Mae hefyd yn gwella gwydnwch poblogaethau a chynefinoedd i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, pwysau datblygiadau a newidiadau i'r gwaith rheoli tirwedd ehangach. Gall llawer o fesurau sy'n amddiffyn, rheoli a gwella bioamrywiaeth hefyd fod yn allweddol i sicrhau mwy o gysylltedd.

5.5.84 Mae SoDdGA o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, i gymryd camau rhesymol, sy'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, i hybu cadwraeth a gwella'r nodweddion sy'n eu gwneud yn SoDdGA. Gall SoDdGA gael eu difrodi gan ddatblygiadau o fewn neu gerllaw eu ffiniau, ac mewn rhai achosion, gan ddatblygiadau sydd gryn bellter i ffwrdd. Ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o niweidio SoDdGA a dylid adlewyrchu'r rhagdybiaeth hon yn briodol mewn polisiau CDLI a phenderfyniadau rheoli datblygu. At ddibenion



cynllunio defnydd tir, bydd SoDdGA arfaethedig yn cael eu trin yn yr un modd â SoDdGA hysbys.

5.5.85 Gwarchod, Rheoli a Gwella Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth ar Lefel y Safle. Bydd yn ofynnol i gynigion ddangos sut y maent yn bwriadu gwarchod, rheoli neu wella buddiannau bioamrywiaeth ar safle penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu casglu a chyflwyno tystiolaeth ategol ar gyfer y cynnig. Bydd y gofynion ar gyfer y dystiolaeth hon yn amrywio yn dibynnu ar effeithiau tebygol y cynigion. Lle mae effeithiau ar fioamrywiaeth yn debygol, bydd angen cynnal Arolwg Ecolegol llawn a Chynllun Lliniaru. Lle ystyrir bod gan y cynigion botensial i effeithio ar safle Ewropeaidd, bydd angen cynnal ymarfer Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y cynigion. Mae hyn er mwyn sefydlu a allai'r cynigion arwain at effaith sylweddol debygol ar y safle a'i nodweddion cysylltiedig, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Os daw'r broses sgrinio i'r casgliad yr ystyrir y cynigion yn debygol o gael effaith negyddol sylweddol (naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd) ar safle Ewropeaidd, a lle nad oes mesurau i osgoi'r tebygolrwydd hwnnw ar gael, bydd angen Asesiad Priodol i ganfod a fydd y cynigion yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd. At ddibenion cynllunio defnydd tir, bydd SoDdGA arfaethedig yn cael eu trin yn yr un modd â SoDdGA hysbys.

Ardaloedd arfordirol

SO13: cefnogi twf, adfywio a chyfleoedd datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol, wrth fod yn ymwybodol ac ymatebol i'r heriau sy'n dod o bwysau naturiol hefyd.

5.5.86 Mae'r Cynllun Morol yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu moroedd Cymru yn gynaliadwy drwy lywio datblygiadau newydd a phenderfyniadau cysylltiedig ar y glannau ac ar y môr.

5.5.87 Y prif egwyddorion cynllunio ar gyfer mannau arfordirol, sy'n adlewyrchu egwyddorion Rheoli Parthau Arfordirol Integredig, yw cefnogi datblygiadau trefol a gwledig gan fod yn ymwybodol ar yr un pryd o'r heriau sy'n tarddu o'r rhyngweithio deinamig rhwng pwysau naturiol a phwysau datblygu mewn ardaloedd arfordirol, ac ymateb yn briodol iddynt. Mae hyn yn mynnu gwynnwch ecolegol a ffisegol gan y CDLIN ac mae angen iddo allu addasu i newidiadau cymdeithasol ac economaidd. Bydd cymryd y pethau hyn i ystyriaeth yn sicrhau bod y CDLIN a'r Cynllun Morol yn gydnavs.

5.5.88 Bydd y CDLIN yn nodi'n glir beth mae'r arfordir yn ei olygu i'r ardal a bydd yn cymhwyso polisïau penodol sy'n adlewyrchu nodweddion eu harfordiroedd, gan gynnwys y rhyngberthynas rhwng nodweddion ffisegol, ecolegol a defnydd tir yr ardaloedd arfordirol ac effeithiau newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â chynnydd graddol mewn peryglon arfordirol dros amser, yn ogystal ag unrhyw newidiadau buddiol graddol mewn defnydd tir. Bydd hyn yn golygu nodi ardaloedd sy'n debygol o fod yn addas i'w datblygu, yn ogystal â'r rheiny sy'n destun cyfyngiadau arwyddocaol ac a ystyrir yn anaddas ar gyfer datblygiad. Gallai ardaloedd sy'n destun cyfyngiadau neu a ystyrir yn anaddas ar gyfer datblygiad gynnwys y rheiny lle:

- mae cadwraeth neu wella amgylchedd naturiol a hanesyddol yn golygu bod yn rhaid cyfyngu ar ddatblygu;
- bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i ymyrraeth weledol a gwelededd rhwng tir a môr;



- mae polisïau penodol i'w dilyn mewn ardaloedd Arfordir Treftadaeth;
- dylid gwarchod mynediad at lwybrau arfordirol; ac
- efallai y bydd perygl o erydiad, llifogydd neu ansefydlogrwydd tir, halogiad neu lygredd.

5.5.89 Bydd Datganiadau Ardal a chynlluniau lleol eraill ar gyfer ardaloedd arfordirol yn darparu gwybodaeth berthnasol i lywio'r CDLIN.

5.5.90 Ardal Cymeriad Morol 02. Bae Colwyn a Gwastadeddau'r Rhyl ac Ardal Cymeriad Morol 03. Mae Traeth Coch a Bae Conwy yn berthnasol i ardal y cynllun a dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw ddatblygiad ar y môr a'r arfordir a allai effeithio arnyhau.

5.5.91 Mae'r Ardaloedd Cymeriad Morol ar gael ar wefan CNC.

Datblygiad ar yr arfordir

5.5.92 Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy lefel uchel o ddatblygiadau presennol, isadeiledd a phoblogaeth mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Ni ddylai datblygiadau newydd gael eu cynnig mewn lleoliadau arfordirol fel arfer. Yn arbennig, anaml y bydd ardaloedd arfordirol heb eu datblygu, yn enwedig y rheiny mewn perygl o lifogydd, yn lleoliad priodol ar gyfer datblygu. Pan fydd angen lleoliad arfordirol ar ddatblygiadau newydd, fel arfer, ardaloedd arfordirol sydd eisoes wedi'u datblygu fydd yr opsiwn gorau, ar yr amod bod materion sy'n gysylltiedig â newid arfordirol wedi cael eu hystyried. Mae materion o'r fath yn cynnwys peryglon erydiad, llifogydd, newid hinsawdd, ansefydlogrwydd tir, a'r dulliau o fynd i'r afael â pheryglon o'r fath, a chyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol.

Cyn y gellir rhoi caniatâd i ddatblygiadau parhaol a hirdymor, gan gynnwys y rheiny o bwysigrwydd rhanbarthol neu genedlaethol, bydd yn hanfodol eu bod yn dangos bod lleoliad arfordirol yn ofynnol yn seiliedig ar nodweddion yr arfordir dan sylw. Lle gellir cyfiawnhau'r datblygiad, dylid ei ddylunio fel ei fod yn wydn i effeithiau newid hinsawdd yn ystod ei oes heb arwain at gynydd graddol annerbyniol mewn risg.

Y Parth Arfordirol

5.5.93 Ar hyd yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu a gwella'r tirlun, y morlun, bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol. Dim ond ar gyfer cynlluniau rheoli arfordirol angenrheidiol y caniateir datblygiad. Dylai cynigion roi ystyriaeth lawn i unrhyw gynlluniau rheoli a chynlluniau ar gyfer ardaloedd gwarchodedig. Dylai unrhyw gynlluniau rheoli arfordirol warchod, gwella a, lle bo hynny'n briodol, creu cysylltiadau cerdded â Llwybr Arfordir Cymru. Anogir darparu llwybrau Teithio Llesol ychwanegol i gysylltu cymunedau a llwybrau presennol â Llwybr Arfordir Cymru.

NE/10 y Parth Arfordirol, newid arfordirol a'r Cynllun Rheoli Traethlin.



Mae'r Parth Arfordirol wedi ei ddiffinio ar y map cynigion. Dim ond dan yr amgylchiadau isod y bydd datblygiad yn y Parth Arfordirol, y tu allan i ffiniau anheddiad, yn cael ei ganiatáu. Pan fydd datblygiad yn:

- a. Cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Rheoli Traethlin drwy gydol oes y prosiect neu'r datblygiad.
- b. Yn gofyn am leoliad arfordirol yn benodol;
- c. Yn cyfrannu at gadwraeth a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystem, fel y diffinnir yn Neddff Amgylchedd (Cymru) 2016 a gwella isadeiledd gwyrdd a llwybrau teithio llesol lle mae'n briodol yn unol â pholisïau NE/6, NE/7 a NE/8;
- d. Lle nad yw'n effeithio'n andwyol ar natur agored y parth na gwerth y parth o ran gwarchod byd natur;
- e. Lle nad yw'n tynnu oddi ar y gwerth i dwristiaeth neu gyfleusterau;

- f. Lle nad yw'n ymyrryd gyda phrosesau arfordirol naturiol neu'n atal swyddogaeth unrhyw strwythurau amddiffyn arfordirol presennol neu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol yn unol â pholisi NE/2;
- g. Yn cadw ac yn gwella treftadaeth ddiwylliannol cymunedau arfordirol Conwy ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â pholisi PL/7; ac yn
- h. Cyfrannu at y trawsnewid tuag at gyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy, carbon isel, gan leihau allyriadau carbon a chynyddu gwytnwch pobl, lleoedd a'r amgylchedd i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.

5.5.94 Yr arfordir annatblygedig yw un o asedau mwyaf y Sir ac mae ei synergedd unigryw â'r ardal drefol yn rhoi cymeriad nodedig a

rhagorol i'r Sir. Mae'r arfordir annatblygedig yn cynnwys yr ardal o dir a'r môr cyfagos yr ystyrir eu bod yn dibynnu ar ei gilydd.

Mae'r ardaloedd datblygedig o gyrchfannau ymwelwyr a hamdden wedi'u heithrio. Mae Llwybr Arfordir Cymru Gyfan yn mynd drwy'r arfordir sydd heb ei ddatblygu, y mae ei harddwch naturiol yn rhan o'i atyniad golygfaol.

Cynllun Rheoli Traethlin a newid arfordirol

5.5.95 Dogfen bolisi anstatudol ar gyfer cynllunio i reoli'r gwaith o amddiffyn yr arfordir yw Cynllun Rheoli Traethlin. Mae'n ystyried mentrau cynllunio eraill sy'n bodoli a gofynion deddfwriaethol, a'i fwriad yw llywio gwaith cynllunio strategol ehangach. Nid yw'n pennu polisi ar gyfer unrhyw beth heblaw rheoli'r gwaith o amddiffyn yr arfordir.

5.5.96 Nod Cynllun Rheoli Traethlin yw darparu asesiad eang ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag esblygiad arfordirol, a chydbywso'r gwaith o reoli risgiau llifogydd arfordirol ac erydu sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol megis tonnau a llanw. Yna mae'n anelu at gyflwyno fframwaith polisi i fynd i'r afael â'r risgiau i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy dros y 100 mlynedd nesaf.

5.5.97 Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn nodi'r polisïau rheoli mwyaf cynaliadwy dros dri phrif amserlen – y presennol (0-20 mlynedd), y tymor canolig (20-50 mlynedd) a'r hirdymor (50-100 mlynedd). Mae pedwar opsiwn o ran polisi:

1. Cynnal y Llinell,
2. Gwella'r Llinell,
3. Adlinio a Reolir,
4. Dim Ymyrraeth Weithredol.



- 5.5.98 Yng Nghonwy, y strategaeth bresennol ar gyfer y rhan fwyaf o'n harfordir yw 'cynnal y llinell'. Mae dau Gynllun Rheoli Traethlin ar waith yng Nghonwy – Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Traethlin Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.
- 5.5.99 Fel rhan o'r nod i ddeall nodweddion morlinau, cydnabyddir y gall cynnydd yn lefel y môr, ymchwydd stormydd, effaith tonnau a newidiadau mewn morffoleg arfordirol a chyflenwad gwaddod arwain at effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr arfordir ac ar afonydd llanw. Mae ansicrwydd yn gwaethygu ymhellach gan effeithiau newid hinsawdd. Er y gall morffoleg yr arfordir fod yn nodwedd amddiffynnol yn erbyn cynnydd yn lefel y môr, ymchwydd stormydd ac effaith tonnau, mae'n bosibl y gall adeiladu amddiffynfeydd arfordirol ddylanwadu ar gyflenwad gwaddod drwy drosglwyddo peryglon erydiad i rywle arall. Dylid osgoi'r posibilrwydd hwn, o ystyried bod erydiad a'r perygl o lifogydd yn debygol o gael eu gwaethygu gan newid hinsawdd.
- 5.5.100 Nid yw'n briodol i ddatblygiad mewn un lleoliad ychwanegu'n annerbyniol at effeithiau newid ffisegol i'r arfordir mewn lleoliad arall.
- 5.5.101 Caiff Cynlluniau Rheoli Traethlin eu datblygu gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid, ac maent yn sefydlu fframweithiau polisi lleol hirdymor ar gyfer rheoli perygl arfordirol. Bydd y blaenoriaethau sydd ynddynt yn dylanwadu ac yn llywio'r CDLIN. Lle pennir na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, bydd y CDLIN yn cynnwys polisiâu clir a phenodol i reoli datblygiad

mewn ardaloedd o'r fath, gan gynnwys lle byddai datblygiad yn anaddas neu lle dylid ystyried nodweddion penodol.

- 5.5.102 Bydd Cynllun Rheoli Traethlin yn dylanwadu ar p'un a ellir cyfiawnhau'r datblygiad ei hun neu sut y dylid ei ddylunio. Cwmpesir rhai ardaloedd o arfordir gan bolisiau ymyrraeth weithredol mewn CRhTau i amddiffyn y llinell, ac mae amserlenni clir ar waith i lywodraethu'r polisiâu hyn.
- 5.5.103 Ni fydd gan ardaloedd eraill, a allai fod wedi'u datblygu eisoes, ymyraethau gweithredol sy'n gysylltiedig ag amddiffyn, neu efallai y byddant wedi rheoli rhwystr, neu wedi adlinio'r arfordir, ac wedi eu nodi fel yr ymateb priodol i lifogydd.
- 5.5.104 Bydd galluogi modd o addasu i newid, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, yn ystyriaeth allweddol a dylid nodi mesurau i leihau gwendidau a cheisio cyfleoedd i feithrin gwydnwch mewn cymunedau, yn enwedig fel rhan o'r gwaith i baratoi cynlluniau datblygu. Dylid ystyried yn ofalus natur defnyddiau newydd a allai fod yn addas mewn ardaloedd sy'n debygol o newid, gan gynnwys effeithiau, neu'r cyfleoedd a gynigir, drwy wneud newidiadau cynyddrannol mewn ardal. Dylid gwneud cysylltiadau hefyd â strategaethau ar gyfer darparu isadeiledd gwyrdd a chynlluniau draenio cynaliadwy. Dylid hefyd gwneud cysylltiadau â chynlluniau lles ehangach er mwyn sicrhau gwydnwch cymdeithasol ac economaidd aneddiadau a'u gallu i addasu i newid yn yr hirdymor.

Ardaloedd arfordirol a chynlluniau morol

NE/11 ardaloedd arfordirol a Chynlluniau Morol

Dylai cynigion datblygu arfordirol fodloni amcanion a pholisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Cymru'r Dyfodol, PCC a hefyd dylai gyflawni'r canlynol:

- a. Cymryd rhan yn gynnar yn y broses gynllunio ar draws a rhwng budd-ddeiliaid a darparu Datganiadau Cynllunio Morol lle bo angen, yn unol â chanllawiau cenedlaethol;
- b. Cefnogi cynaliadwyedd, bywiogrwydd ac ansawdd bywyd cymunedau arfordirol drwy gymhwyso sawl polisi cynllun sy'n integreiddio amcanion amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd;
- c. Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol cymunedau arfordirol a hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â pholisi PL/7;
- d. Darparu'r isadeiledd, y cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gefnogi datblygiad sy'n hygyrch i gynnal cymunedau, ac sy'n cynnig cysylltedd carbon isel a budd etifeddol;
- e. Cyfrannu at ffyniant lleol a datblygiad economaidd cynaliadwy hirdymor drwy greu cyfleoedd cyflogaeth lleol o ansawdd uchel, gan ystyried y gofynion tebygol ar gyfer hyfforddiant, a gweithio gyda sefydliadau hyfforddi cenedlaethol a llywodraethol;
- f. Cyfrannu at drawsnewid tuag at gyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy, carbon isel; lleihau allyriadau carbon a chynyddu gwydnwch pobl, lleoedd a

chynefinoedd i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn unol â pholisïau N/E2 a PL/8;

- g. Seilio tystiolaeth a gwella gwerth cadwraeth, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, fel y'u diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a pholisi NE/8.

5.5.105 Cyhoeddodd LIC gynllun morol cyntaf Cymru ym mis Tachwedd 2019. Mae'n nodi polisi cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnyddio rhanbarthau cynllun morol Cymru ar y glannau ac ar y môr. Mae wedi'i baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Nodir bod ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac ardal y CDLI yn gorgyffwrdd, gyda'r Cynllun Morol yn cael dylanwad hyd at lanw mawr cymedrig. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a deunydd ategol i lunio cynigion a cheisiadau am drwyddedau, a dylai awdurdodau cyhoeddus ac eraill lywio penderfyniadau a deall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ardal y cynllun.

5.5.106 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cyntaf o'i fath i Gymru ac mae'n cynrychioli cychwyn proses o lunio ein moroedd i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Bydd cynllunio morol yn llywio datblygiad cynaliadwy ein hardal forol drwy nodi sut y caiff cynigion eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r Cynllun Morol wedi llywio'r gwaith o baratoi Dyfodol Cymru a, lle y bo'n berthnasol, mae'n llywio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a phenderfyniadau cynllunio. Mae'r amserlenni ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Morol a Chymru'r Dyfodol wedi gorgyffwrdd, gan alluogi'r gwaith o gynhyrchu'r



ddau gynllun i fod yn gysylltiedig. Mae Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol yn cydweithio i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newid o amgylch ein harfordir. Mae cydlynw rhwng cynllunio ar y môr a'r tir yn bwysig i gynnal a hwyluso datblygiad busnesau harbwr a marina a mentrau cysylltiedig; cymunedau arfordirol; cyfleoedd twristiaeth; cynhyrchu ynni; a morluniau.

5.5.107 Mae Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin a'r Datganiad Ardal Forol yn berthnasol i ardal y CDLIN.

5.5.108 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynghori y dylai awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio dull cymesur, yn seiliedig ar risg, wrth gymhwyso polisiau cynllunio morol perthnasol wrth wneud penderfyniadau.

Rhinweddau amgylcheddol

SO15: lleihau dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwysu darpariaeth datblygiad a golau i wella diogelwch, a gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr ac adnoddau dŵr gan gynnwys faint o ddŵr wyneb a dŵr daear sydd, a'i ansawdd.

5.5.109 Mae'r adran strategol hon yn cydnabod cyfraniad rhinweddau amgylcheddol ardal CDLIN Conwy tuag at gyflawni dull creu lleoedd cynaliadwy a gwella lles a gwytnwch. Mae'r adran hon yn ymwneud â chadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy, ansawdd aer, rheoli golau a seinwedd a rheoli risg llifogydd.

EQ/1 safon amgylcheddol

Mae'r ACLL wedi ymrwmo i warchod a gwella ansawdd yr amgylchedd, ansawdd ecosystemau a gwydnwch, tra'n gwarchod tirweddau, cynefinoedd ac asedau diwylliannol o fewn ardal y cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

1. Cynnal cyflenwad ac ansawdd dŵr a helpu i ddarparu isadeiledd effeithlon yn unol â pholisi EQ/2;
2. Sicrhau ymyriadau cadwraeth dŵr a, lle bo'n briodol, cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy integredig yn unol â pholisi EQ/2 a chanllawiau cenedlaethol;
3. Caniatáu cynlluniau sy'n cynnal ansawdd aer a sain ac sy'n darparu cyn lleied â phosibl o oleuadau sensitif yn unol ag EQ/3 a chanllawiau arfer da cenedlaethol;
4. Rheoli perygl llifogydd yn unol â pholisi EQ/5 a chanllawiau cenedlaethol.

Cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy

EQ/2 cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy

1. Er mwyn amddiffyn ac arbed adnoddau a chyflenwadau dŵr er budd datblygu cynaliadwy, rhoddir pwyslais ar y canlynol yn yr ymarfer asesu a chydbwysu ar gyfer penderfynu ar y ceisiadau cynllunio:
 - a. lle bo'n briodol, ymgorffori System Draenio Cynaliadwy y dylid ei chynnwys yn gynnar yn y cam dylunio a'i gweithredu yn unol â chanllawiau cenedlaethol a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy;



- b. lleihau a datgarboneiddio'r ynni a ddefnyddir mewn cyflenwad dŵr;
 - c. ymgorffori cynaeafu dŵr glaw a defnyddio systemau deuol i ailgylchu dŵr yfed a dŵr llwyd, lle maent yn effeithlon o ran ynni a chost;
 - d. gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i gynnal ac uwchraddio isadeiledd cyflenwad dŵr;
 - e. sicrhau nad yw'r dŵr a gyflenwir yn debygol o arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol i fioamrywiaeth yn enwedig safleoedd dynodedig o bwysigrwydd Ewropeaidd i gadwraeth natur;
 - f. dylunio datblygiadau preswyl fel bod lefelau defnyddio dŵr o'r prif gyflenwad yn cyrraedd targed o 105 litr y pen neu lai bob dydd; a,
 - g. diogelu cyrsiau dŵr trwy wella coridorau gwyrdd / clustogfeydd glannau afon yn unol â pholisi NE/7 ac NE/8.
2. ni fydd cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd, mynediad cyhoeddus neu ddefnydd hamdden o adnoddau dŵr yn cael eu caniatáu.
3. Dylai draenio dŵr budr gael ei ddarparu yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac ni ddylai beri risg annerbyniol i ansawdd neu gyfanswm dŵr daear neu ddŵr wyneb, na halogi cyrsiau dŵr lleol neu safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

5.5.110 Wrth i'n hinsawdd newid, rhagwelir y bydd y pwysau ar adnoddau dŵr yn cynyddu. Yn ogystal â gofyniad uniongyrchol am oes, mae gwasanaethau dŵr sydd wedi'u cynllunio'n dda yn darparu ystod o fanteision a gwasanaethau i gymdeithas. Mae'r diwydiant dŵr ei hun yn ffynhonnell swyddi gwyrdd ac mae gwasanaethau dŵr yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni a bwyd, hamdden a thwristiaeth, ac yn cysylltu cartrefi a busnesau â rhwydweithiau'r isadeiledd y maent yn dibynnu arnynt. Yn ogystal â hyn, mae ecosystemau naturiol presennol yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu ansawdd dŵr a rheoli llifogydd. Fel arfer daw'r cyflenwad dŵr oddi wrth ymgymwrwr dŵr, ond mewn ardaloedd anghysbell efallai mai cyflenwadau dŵr preifat yw'r unig opsiwn ymarferol.

5.5.111 Mae adnoddau ac ansawdd dŵr yn cael eu hystyried ar gam cynnar yn y broses o nodi tir i'w ddatblygu a'i ailddatblygu mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru. Dylai diogelu adnoddau dŵr fod yn seiliedig ar sicrhau defnydd cynaliadwy yn y dyfodol. Efallai na fydd defnyddiau dwys o ddŵr yn briodol mewn ardaloedd lle mae prinder a chyfyngiadau dŵr. Bydd datblygiadau newydd yn cael eu lleoli a'u gweithredu gyda darpariaeth gynaliadwy o wasanaethau dŵr mewn golwg, gan ddefnyddio dulliau dylunio a thechnegau sy'n gwella effeithlonrwydd dŵr ac yn lleihau effeithiau andwyol ar adnoddau dŵr. Mae hyn yn cynnwys ecoleg afonydd, gwlyptiroedd a dŵr daear a thrwy hynny yn cyfrannu at wydnwch ecolegol.

Capasiti cyflenwad dŵr ac isadeiledd carthffosiaeth / draenio

5.5.112 Bydd digonolrwydd y cyflenwad dŵr ac isadeiledd carthffosiaeth yn cael ei ystyried yn llawn wrth gynnig datblygiad yn y CDLIN, fel gwasanaeth dŵr ac oherwydd yr effeithiau amgylcheddol ac amwynder sy'n arwain at ddiffyg capasiti. Mae rhan bwysig i'r system gynllunio i sicrhau bod yr isadeiledd mae cymunedau a busnesau'n dibynnu arno'n ddigonol i ddarparu ar gyfer datblygiadau arfaethedig. Mae darparwyr gwasanaethau a CNC wedi cydweithredu o ran darparu gwasanaethau, datblygu a diogelu dalgylchoedd dŵr.

Ansawdd dŵr a llifogydd dŵr wyneb

5.5.113 Mae glaw o ddwysedd uwch yn arwain at heriau i systemau draenio, gan achosi llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig. Mae'r berthynas rhwng y mathau amrywiol o isadeileddau draenio yn gymhleth, er enghraifft, mae rhai draeniau priffyrdd yn cludo dŵr wyneb o garthffosydd cyhoeddus a rhai isadeileddau priffyrdd yn gollwng i garthffosydd cyhoeddus. Mae deall y rôl y mae gwahanol fathau o isadeileddau yn ei chwarae yn bwysig wrth sicrhau'r dull gorau o osgoi llifogydd a llygredd gwasgaredig. Mae cydweithio effeithiol wedi digwydd rhwng awdurdodau draenio, priffyrdd a chynllunio wrth lywio'r CDLIN.

5.5.114 Mae llygredd gwasgaredig a llifogydd dŵr wyneb yn codi o ganlyniad i ddŵr ffo o arwynebau adeiledig, o fathau o ddatblygiadau a allai fod yn llygru a thrwy ollyngiadau carthffosiaeth o garthffosydd gorllawn neu o isadeiledd preifat, er enghraifft, tanciau septig. Bydd yr ACLI yn ceisio sicrhau

gwell rheolaeth dros systemau draenio a dŵr wyneb er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy:

- sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn cael eu hymgorffori mewn datblygiadau gan ganiatáu i ddŵr wyneb gael ei reoli yn y ffynhonnell neu'n agos ati, gan ddarparu nifer o fanteision gan gynnwys gwella bioamrywiaeth; a
- sicrhau cysylltiad â'r garthffos mewn ardaloedd â charthffosiaeth a chael llai o systemau carthffosiaeth preifat.

Systemau draenio cynaliadwy (SuDS) a datblygiad

5.5.115 Bydd darparu SuDS yn cael ei ystyried fel rhan annatod o ddyluniad datblygiad newydd a'i ystyried cyn gynted â phosibl wrth lunio cynigion ar gyfer datblygiad newydd. Wrth arwain datblygiadau newydd, dylai'r system gynllunio sicrhau bod mesurau'n cael eu hymgorffori ar raddfa safle unigol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, er mwyn sicrhau manteision cronus dros ardal ehangach. Bydd ymdrech gydlynol o'r natur hon yn dod â manteision dros ddalgylch cyfan. Ar lefel cynllun datblygu, fodd bynnag, bydd manteision sylweddol yn gysylltiedig â datblygu dulliau cydweithredol a fydd, o dystiolaeth a gafwyd trwy asesiadau isadeiledd gwyrdd, yn integreiddio SuDS fel rhan o strategaethau twf ar gyfer ardaloedd penodol.

5.5.116 Mae datblygiadau newydd o fwy nac un annedd neu os yw'r ardal sy'n cynnwys y gwaith adeiladu yn gyfwerth â neu'n fwy na 100 metr sgwâr, angen cymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyo SuDS (SAB) cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Rhaid i drefniadau mabwysiadu a rheoli, gan gynnwys mecanwaith cyllido ar gyfer cynnal a chadw isadeiledd SuDS a holl elfennau draenio, gael



eu cytuno gan SAB fel rhan o'r cam cymeradwyo hwn. Bydd hyn yn sicrhau y bydd isadeiledd SuDS yn cael eu cynnal yn iawn ac yn gweithio'n effeithiol ar gyfer ei oes dylunio.

- 5.5.117 Mae cyrff dŵr trosiannol ac arfordirol wedi'u gwarchod o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr gyda'r nod o gyflawni statws cyffredinol da. Rhaid i bob cais, ar wahân i geisiadau gweithgaredd risg isel Band 1, gael asesiad Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr i gyd-fynd ag o. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun grant ar gael ar ein gwefan.

Ansawdd aer, seinwedd a rheoli golau

EQ/3 ansawdd aer, seinwedd a rheoli golau

1. Caiff cynigion datblygu eu caniatáu pan nad yw unrhyw lygredd aer, sain neu olau canlyniadol yn achosi neu'n arwain at risg annerbyniol o niwed i iechyd pobl neu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig neu ar Warchodfa Awyr Dywyll Eryri, yn unig. Bydd angen i gynigion ddangos bod modd gweithredu mesurau i oresgyn unrhyw risgiau niweidiol sylweddol, gyda sylw penodol yn cael ei roi i:
 - a. Amcanion Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol ac unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer / ardaloedd blaenoriaeth cynllunio camau gweithredu sŵn neu ardaloedd lle mae derbynwyr sensitif ar hyn o bryd neu yn yr arfaeth;
 - b. cynnal neu wella'r lefelau difrifol ar gyfer amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau yn y safle Ewropeaidd neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn unol â Pholisi NE/9;

- c. lleihau lefelau llygredd a chynnwys nodweddion tirlunio a thechnoleg sy'n lleihau gwasgariad gronynnau, golau gormodol a sŵn.

Aer

- 5.5.118 Mae aer glân a seinwedd priodol yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol o Gonwy ynghyd â bod yn hanfodol ar gyfer iechyd, amwynder a lles cyhoeddus. Maent yn ddangosyddion o ansawdd amgylcheddol lleol a rhinweddau annatod lle y dylid eu diogelu trwy gamau ataliol neu ragweithiol trwy'r system gynllunio. I'r gwrthwyneb, gall llygredd aer, sŵn a golau gael effeithiau negyddol ar bobl, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau a dylid eu lleihau cymaint â phosibl.
- 5.5.119 Nid yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu hystyried yn lefelau 'diogel' o lygredd aer. Yn hytrach maent yn cynrychioli trothwy pragmatig lle mae'r llywodraeth yn ystyried bod y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol. Nid yw aer sydd prin yn cydymffurfio â'r amcanion hyn yn 'lân' ac mae'n dal i gario risgiau iechyd hirdymor i'r boblogaeth. Ar hyn o bryd nid oes trothwy diogel wedi'i ddiffinio ar gyfer nitrogen deuocsid a mater gronynnol, sef y llygryddion sy'n peri pryder cenedlaethol sylfaenol o safbwynt iechyd y cyhoedd, ac felly po isaf yw crynodiad y llygryddion hynny, y lleiaf yw'r risgiau o effeithiau niweidiol ar iechyd. Mae'n ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel â phosibl.

Rheoli ansawdd aer

- 5.5.120 Nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn ardal CDLIN Conwy. Mae'r holl waith monitro wedi dangos, hyd yn oed wrth ymyl yr ardaloedd lle mae'r traffig ar ei lefel uchaf, bod y lefel yn cydymffurfio â'r Amcanion Ansawdd Aer Cenedlaethol. Nid oes unrhyw dargedau lleihau llygredd ar gyfer hynny, ond bydd Conwy yn parhau i ymrwymo i welliannau ansawdd aer a thargedau datgarboneiddio a osodir yn yr adran cludiant ac Ynni Adnewyddadwy a Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r adroddiad Ansawdd Aer diweddaraf ar gael ar wefan CBSC.

Seinweddau

- 5.5.121 Yn gyffredinol, mae mathau o sain sy'n peri problemau yn digwydd ar ffurf llygredd sŵn a gallant effeithio ar amwynder a bod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans. Nod cynlluniau gweithredu ar sŵn a lunnir gan gyrff cyhoeddus yw atal a lleihau lefelau sŵn lle bo'r angen a chadw ansawdd y seinwedd lle mae'n dda. Fel arfer, mae lefelau sŵn a ddefnyddir i nodi ardaloedd blaenoriaeth sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gweithredu sŵn wedi'u gosod yn eithaf uchel er mwyn canolbwyntio adnoddau ar yr ardaloedd mwyaf llygredig a rhaid i sŵn fodloni nifer o brofion cyn iddo gael ei ystyried yn niwsans statudol. Fodd bynnag, gall lefelau sŵn is fod yn annifyr neu'n aflonyddgar hefyd ac effeithio ar amwynder ac iechyd. Felly, dylid ei ddiogelu drwy'r broses gynllunio lle bynnag y bo angen. Mae'n rhaid i'r system gynllunio amddiffyn amwynder ac nid yw'n dderbyniol dibynnu ar niwsans statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i wneud hynny. Mae mapio tawelwch ar gael ar haenau CNC yn Amgylchedd Tawelwch a Sŵn Lle Rhan I a Thawelwch a Lle.

Awyr Dywyll a golau sensitif

EQ/4 Awyr Dywyll a golau sensitif

Mae'n rhaid i gynigion datblygu sy'n cynnwys golau allanol gynnwys manylion priodol, a lle bo hynny'n gymesur, strategaeth er mwyn:

- Sicrhau bod y golau'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad, nad yw'n mynd dros yr isafswm gofynnol, ac nad yw'r golau'n taflu y tu hwnt i'r ardal dasg.
- diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol gan gynnwys rhywogaethau sensitif, cyrff dŵr, ecosystemau a nodweddion yr amgylchedd naturiol megis llonyddwch;
- Cadw a gwella Awyr Dywyll, yn arbennig lle gallai gael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau sensitif i olau, cynefin, y risg o ddarnio cynefinoedd neu gael effaith ar y dirwedd yn unol â pholisïau NE/7-9.
- Atal llewyrch a pharchu amwynder yr ardal gyfagos a defnyddiau tir a chyrff naturiol o ddŵr;
- Sicrhau bod goleuadau ar safleoedd o bwysigrwydd treftadol a diwylliannol yn briodol ar gyfer ac nad yw'n tynnu oddi ar y lleoliad yn unol â pholisi HE/1;
- osgoi effeithiau golau cronol ac amryfal; a,
- Lleihau'r allyriadau carbon sydd ynghlwm â golau yn unol â thargedau cenedlaethol a pholisi EN/1.

- 5.5.122 Fel sir wledig, mae Conwy'n sensitif i lygredd golau a allai gael effaith negyddol ar lonyddwch yr amgylchedd naturiol a chymeriad a bioamrywiaeth y dirwedd. Mae awyr dywyll naturiol o ansawdd uchel mewn cyfran uchel o ardaloedd gwledig Conwy, ac mae'n agos iawn i Barc Cenedlaethol Eryri, sydd yn un o'r 18 o Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol. Er nad yw



Parc Cenedlaethol Eryri'n dod o dan yr ardal ddatblygu yn y cynllun, fe allai gael effaith gadarnhaol a negyddol arno.

5.5.123 Mae ein tirweddau, morluniau a'n safleoedd dynodedig hefyd yn agored i lygredd golau sylweddol. Mae dros hanner y rhywogaethau hysbys yn rhai nosol ac wedi esblygu i fyw yn y tywyllwch i osgoi cystadleuaeth ac ysglyfaethwyr, a byddant yn gwneud eu gorau i osgoi mannau wedi'u goleuo. Nid goleuadau stryd a goleuadau diogelwch yn unig sy'n gallu cael effaith ar fioamrywiaeth, mae goleuadau fflyd, golau sy'n tasgu drwy ffenestri, a goleuadau ceir mewn rhai achosion hefyd yn gallu cael effaith ar fioamrywiaeth. Gall y ffynonellau hyn rwystro, diraddio a gwasgaru cynefinoedd yn ogystal â chael effaith ar rywogaethau arbennig gan achosi argyfwng cynamserol a gostyngiad mewn poblogaethau lleol. Mae creaduriaid di-asgwrn-cefn dyfrol yn hynod o ddiamddiffyn.

5.5.124 Ystyrir effaith golau ar gynigion datblygu unigol yn unol â'r polisi a'r canllawiau arfer da uchod (gweler y canllawiau arfer da cenedlaethol a'r canllawiau ILP ar oleuadau sensitif), dylai egwyddorion y rhain fod yn berthnasol i unrhyw ddatblygiad.

5.5.125 Dylai datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Bioamrywiaeth, arolygon priodol, dadansoddiad safle a gwaith dylunio nodi materion allweddol ar y safle ac o'i amgylch a sut mae'r dull DECCA wedi cael ei ddilyn. Dylai strategaeth oleuo gynnwys mapiau cyfuchlinell lwcs sy'n nodi'n glir ardaloedd o gynefinoedd lled-naturiol a nodweddion ecolegol allweddol o fewn safleoedd ymgeisio a fydd yn cael eu cynnal yn dywyll heb unrhyw olau artiffisial. Dylai hyn gynnwys gwrychoedd, nentydd/afonydd, pyllau, dolydd, clwydi ystlumod, coetir, coed aeddfed (gan gynnwys coed trefol), glannau/traeth.

5.5.126 Dylai cynlluniau goleuadau fod yn gyfeillgar i awyr dywyll a goleuo ardaloedd gofynnol yn unig gyda lliwiau 'cynnes' <2700K, gan osgoi llif golau a lle bo'n bosib / briodol defnyddio amserwyr a / neu synwryddion symudiad. Dylid defnyddio unedau diffodd llawn a fydd yn goleuo'r ardal a fwriedir yn unig heb i unrhyw olau gael ei daflu. Cynnwys amrywiaeth o opsiynau goleuo addas; dylid ystyried golau 'Bat hat' solar, golau stryd a bolardiau. Gallai eiddo sydd â gwedd yn wynebu coridorau tywyll, neu gynefinoedd sy'n sensitif i olau, ymgorffori ffenestri trosglwyddiad golau gweladwy (VLT), bleindiau trydan a gwydr clyfar. Dylai unrhyw oleuadau diogelwch gael eu cysgodi'n llwyr. Dylai datblygwyr gynnwys cyngor i breswylwyr ar sut i gadw a gwella parthau tywyll yn eu pecynnau prynu annedd.

5.5.127 Argymhellir gosod goleuadau stryd ar lwybrau mabwysiedig gyda llusernau LED oren (gan gynnwys sgriniau i amddiffyn cynefinoedd cyfagos rhag golau) ynghyd ag amseryddion gwanhau golau. Nid yw gosod goleuadau ar lwybrau heb eu mabwysiadu yn cael ei annog ond dylai unrhyw olau a osodir fod ar lefel is (allbwn pŵer ac uchder) gyda <2700K, gan ddefnyddio unedau gwahanol i'r rhai ar lwybrau mabwysiedig.

5.5.128 Bydd yn rhaid gosod bleindiau / caeadau ar bob ffenestr yn y to, a dylid eu cau pan fo'n dywyll er mwyn atal y golau. Fel arall, gellid defnyddio gwydr clyfar ar unrhyw ffenestri / goleuadau to neu ffenestri.

5.5.129 Dylid bod yn arbennig o ofalus mewn perthynas â chynigion goleuadau yng nghefn gwlad agored mewn safleoedd dynodedig gan fod angen diogelu llonyddwch, pellenigrwydd a chymeriad tirwedd ardaloedd gwledig Conwy.

5.5.130 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn mynd ati'n weithredol i fynd i'r afael â golau ymwithiol presennol lle mae'n debygol bod safle neu rywogaeth a ddiogelir yn cael ei effeithio.

5.5.131 Gweler Papur Cefndir 8 - Canllawiau cynllunio awyr dywyll.

Rheoli perygl llifogydd

EQ/5 rheoli perygl llifogydd a datblygiad

1. Er mwyn osgoi'r perygl o lifogydd, ni chaniateir datblygiadau:

- Mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd afonol, glawog, arfordirol a chronfeydd dŵr, oni bai bod modd dangos y gellir cyfiawnhau'r datblygiad yn unol â chanllawiau cenedlaethol a'i fod wedi'i gefnogi gan asesiad technegol sy'n cadarnhau bod y datblygiad newydd wedi'i ddylunio i liniaru'r bygythiad o lifogydd a'u canlyniadau; neu
- Lle byddai'n arwain at fwy o risg o lifogydd ar y safle neu rywle arall o ganlyniad i lifogydd afonol, glawog, arfordirol neu gynydd mewn dŵr ffo ar y safle; neu
- Lle byddai'n cael effaith andwyol ar uniondeb amddiffynfeydd llifogydd afonol, glawog neu arfordirol; neu
- Lle byddai'n amharu ar fynediad i amddiffynfeydd llanwol ac afonol yn y dyfodol at ddibenion cynnal a chadw ac argyfwng; neu
- Lle nad yw'r cynnig yn ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd sy'n ystyriol o'r amgylchedd, megis Systemau Draenio Cynaliadwy, oni bai y gellir dangos na fyddai mesurau o'r fath yn ddichonadwy.

2. Dylai cynlluniau rheoli llifogydd ymgorffori mesurau i wella bioamrywiaeth yn unol â pholisi NE/8, storio carbon, a gwella cysylltiadau teithio llesol yn unol â NE/7.

5.5.132 Mae cymunedau cydlynus yn cael eu cynnal a'u creu drwy ddarparu lleoedd i bobl ryngweithio a chynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys mannau hamdden, chwarae, tyfu bwyd a chyfluoedd i gysylltu â natur. Mae llygredd neu risgiau fel llifogydd yn cael eu lliniaru neu eu hosgoi ac yn seiliedig ar wneud y gorau o gyfluoedd i gymunedau ffynnu a gwneud gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol mewn amgylchedd iach, deniadol a dymunol.

5.5.133 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i addasu effeithiau newid hinsawdd. Mae'r cyfuniad o gynhesu byd-eang sydd eisoes wedi digwydd, ynghyd â chynhesu ychwanegol, fel y rhagwelir gan y dystiolaeth newid hinsawdd ddiweddaraf, yn golygu bod yna effeithiau sylweddol posibl ar gyfer Conwy a Chymru o ran ymaddasu. Mae'r heriau'n cynnwys peryglon llifogydd a newid arfordirol i gymunedau, busnesau a seilwaith; risgiau i iechyd, lles a chynhyrchiant oherwydd tymereddau uchel; risg o brinder dŵr yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus, amaethyddiaeth, cynhyrchiad a diwydiant ynni, a risgiau i bridd, bioamrywiaeth a chynefinoedd daearol, arfordirol, morol a dŵr croyw.

5.5.134 Mae newid hinsawdd hefyd yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar gymeriad y tirlun, adeiladau hanesyddol, arwahanrwydd ac ansawdd lleol, yn uniongyrchol trwy newid gorchudd tir, cynefinoedd sy'n mudo ac ystodau rhywogaethau ac yn anuniongyrchol trwy ddylanwadu ar benderfyniadau am ddefnydd tir.

5.5.135 Mae llifogydd yn risg bosibl i aneddiadau arfordirol a mewndirol mewn dyffrynnoedd afonydd yn ardal y cynllun. Mae lleoliadau arfordirol, gan gynnwys Towyn, Bae Cinmel a



Llanfairfechan, wedi cael stormydd sydd wedi trechu amddiffynfeydd arfordirol.

5.5.136 Cymerir canllawiau drwy weithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ar faterion safle penodol yn ogystal â gwybodaeth a ddarperir yn:

- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, LLC;
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;
- TAN 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol 2025 a,
- Papur Cefndir 33/34 Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Conwy.

5.5.137 Mae perygl llifogydd o ffynonellau lleol yn codi o gyrsiau dŵr arferol, dŵr wyneb sy'n llifo (a elwir hefyd yn lifogydd glawog), dŵr daear a'r pwynt ble mae prif afonydd a dŵr wyneb yn cwrdd. Nodir ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd oherwydd dŵr wyneb sy'n llifo yn mapiau llifogydd dŵr wyneb diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru. Dangosir yr ardaloedd hyn ar y Map Cyfyngiadau a Materion ac maent yn seiliedig ar y mapiau llifogydd dŵr wyneb diweddaraf gan CNC.

5.5.138 Gallai'r posibilrwydd o wrthdaro godi lle gallai effeithiau codiad a datblygiad lefel y môr, gan gynnwys gweithdrefnau rheoli'r arfordir, effeithio ar gynefinoedd rhynglanwol neu asedau hanesyddol. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i gadw gwydnwch amgylcheddau o'r fath fel rhan o waith paratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

5.5.139 Mae dynodiadau a dylanwadau eraill yn effeithio ar sut mae perygl llifogydd a'i newidiadau rheoli yn cael eu trafod mewn penodau eraill, ac yn cynnwys:

- Gwarchod tirwedd ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig a nodweddion tirwedd pwysig eraill.
- Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol.
- Mae Safleoedd Dynodedig, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd Natura 2000, wedi'u cynnwys yn TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.
- Ardaloedd Arfordirol a Newid Arfordirol.
- Dŵr a Pherygl Llifogydd.
- Isadeiledd Trafnidiaeth a Theithio Llesol.

5.5.140 Cyhoeddwyd strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli peryglon llifogydd lleol (o gyrsiau dŵr arferol, dŵr wyneb a dŵr daear) yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lleol 2013. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddiweddararu ar hyn o bryd. Y Cyngor yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o reoli peryglon llifogydd o'r ffynonellau lleol hyn. Rhai o rolau a chyfrifoldebau ALILIA yw asesu a chymeradwyo strategaethau draenio ar gyfer pob datblygiad newydd sy'n fwy na 100m³ neu sy'n fwy nag un eiddo trwy ei rôl fel Corff Cymeradwyo SuDS ar wahân i'r broses gynllunio.

5.5.141 Mae angen cynnal a chadw cyrsiau dŵr ac amddiffynfeydd llifogydd (gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd arfordirol) ac mae'n hanfodol bod mynediad ar gael i'r ardaloedd a'r adeileddau hyn bob amser.

5.5.142 Ystyrir ei bod yn fuddiol i gyrsiau dŵr aros mewn cyflwr agored at ddibenion amddiffyn rhag llifogydd ac amgylcheddol ac felly mae'r Cyngor yn gyffredinol yn gwrthwynebu agor cyrsiau dŵr mewn ceuffosydd. O dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a Deddf Draenio Tir 1991, bydd caniatâd ar gyfer gwaith o fewn y Sir i gyrsiau dŵr cyffredin (nentydd/ffosydd



naturiol a gwneuthuredig a cheuffosydd ac ati) yn cael eu cyhoeddi gan Adran Perygl Llifogydd ac Isadeiledd y Cyngor.

Amgylchedd hanesyddol

SO12: Diogelu a gwella asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol Conwy sydd o ansawdd uchel.

5.5.143 Mae'r bennod hon yn darparu fframwaith polisi ar gyfer diogelu asedau hanesyddol yn ardal y CDLIN. Mae'n cynnwys polisïau sy'n cydnabod a rhestru'r gwahanol fathau o asedau hanesyddol er mwyn llunio CCA i arwain y broses ddatblygu. Mae polisi penodol ar asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a fydd yn cynnwys rhestr o asedau o'r fath, a pholisi'n ymwneud ag adfywio drwy ddiwylliant.

5.5.144 Mae gan asedau hanesyddol rôl bwysig o safbwynt twristiaeth, buddsoddiad a lles cymunedau. Mae angen eu diogelu a, lle bo'n briodol, eu gwella drwy'r broses gynllunio. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ganolog i ddiwylliant a chymeriad Sir Conwy, gan adrodd ein hanes drwy adeiladau, strwythurau, parciau, gerddi, archeoleg a thirweddau a chyfrannu at ein hymdeimlad o le a hunaniaeth. Mae'n gwella ein hansawdd bywyd, lles cyffredinol a meddyliol, ac yn ychwanegu at hynodrwydd rhanbarthol a lleol ac mae'n ased economaidd, addysgol a chymdeithasol pwysig y dylid ei warchod er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau a chael profiad ohono. Mae'r Gymraeg wedi ei gwau i dirwedd, aneddiadau a bywyd bob dydd yng Nghonwy, a thra'i bod yn weladwy ar arwyddion ac enwau lleoedd ac i'w chlywed wrth i bobl siarad yr iaith, mae'r adeiladau, y cofebau a'r bensaernïaeth ynddynt eu hunain yn adrodd stori ein hanes.

5.5.145 Mae papur o'r enw 'Treftadaeth yng Nghymru' a gyhoeddwyd gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn mesur effaith a dylanwad y sector treftadaeth yng Nghymru. Mae'r ffigyrau'n dangos bod rhai sy'n cael eu hysgogi gan yr amgylchedd hanesyddol i ymweld â Chymru wedi gwario £1.72bn yn 2018, gyda'r sector yn cefnogi dros 40,500 o swyddi. Ar ben hyn, mae llawer o bobl yng Nghymru'n cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n bodoli o ganlyniad anuniongyrchol i'r sector treftadaeth – er enghraifft, pobl sy'n gweithio mewn gwestai a bwytaï sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer ymwelwyr Cymru sy'n dod yma oherwydd treftadaeth yn bennaf. Mae'r papur hefyd yn nodi bod gweithwyr adeiladu yng Nghymru yn treulio 43% o'u hamser yn gweithio ar gadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau traddodiadol a adeiladwyd cyn 1919. Mae Treftadaeth yng Nghymru'n cyfleu gwerth treftadaeth wedi'i fesur ac yn dangos pa mor werthfawr yw'r amgylchedd hanesyddol i'r economi a'r sector twristiaeth ac addysg.

HE/1 amgylchedd hanesyddol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu a, lle bo modd, gwella asedau hanesyddol a diwylliannol yn ardal y cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

1. Sicrhau nad yw lleoliad datblygiadau newydd ar safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd ar hap yn ardal y cynllun yn cael effaith andwyol sylweddol ar asedau treftadaeth yn unol â pholisïau HE/2 a PL/1;
2. Cydnabod a pharchu gwerth a chymeriad ein hasedau treftadaeth yn ardal y cynllun yn unol â'r CCA i lywio cynigion datblygu;
3. Ceisio diogelu, a lle bo'n briodol, gwella ardaloedd cadwraeth, rhan Castell a Muriau Tref Conwy o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol, adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn unol â Pholisi HE/2;
4. Nodi a diogelu Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn unol â Pholisi HE/3;
5. Caniatáu i gynlluniau Galluogi Datblygu i ddiogelu a sicrhau dyfodol asedau treftadaeth dim ond pan fyddant yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau ar Alluogi Datblygu;
6. Diogelu a / neu wella asedau treftadaeth drwy fentrau treftadaeth ac adfywio yn unol â pholisi HE/4.

5.5.146 Mae ardal ACLI Conwy yn cynnwys 80 o Henebion Cofrestredig, 1488 o Adeiladau Rhestredig gyda 22 ohonynt yn

rhai Gradd I, 1389 yn rhai Gradd II a 77 yn rhai Gradd II*, a 25 o Ardaloedd Cadwraeth. Bydd y CDLIN yn cefnogi diogelu a gwella'r holl asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, ac yn ystyried effaith datblygiad yn eu lleoliadau. Mae'r asedau treftadaeth a nodwyd yn elwa o amddiffyniad statudol ac mae'n rhaid ystyried hyn o fewn polisïau, cynigion a chanllawiau yn y CDLIN.

5.5.147 Mae Castell Conwy a Muriau'r Dref yn ffurfio rhan o Safle Treftadaeth y Byd "Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd". Mae UNESCO o'r farn bod Castell Conwy ymysg un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop. Mae Cadw wedi cynhyrchu Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd sydd wedi'i gefnogi fel CCA gan Gyngor Conwy a bydd yn cael ei gario ymlaen fel rhan o Adolygiad y CDLIN.

5.5.148 Mae'r statud a'r canllawiau cynllunio cenedlaethol wedi newid yn sylweddol ers mabwysiadu'r CDLI blaenorol (2007-2022) gyda chyflwyno Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a gyda Deddf ddiweddaraf 2023 yn dod i rym ar ddiwedd 2024. Er enghraifft, mae gofyniad bod awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn gwneud defnydd o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol (Bydd Heneb -Ymddiriedolaeth Archeoleg Cymru yn llunio Cofnod Amgylchedd Hanesyddol statudol ar ran Gweinidogion Cymru). Hefyd mae yna angen i gyflawni Asesiadau o Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer datblygiadau sydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth neu Adeilad Rhestredig, a chynhyrchu datganiadau i gyd-fynd â cheisiadau o'r fath. Gall hyn hefyd fod yn berthnasol pan fo cynigion datblygu'n effeithio ar leoliad ased treftadaeth. Mae Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig (Adeiladau a Strwythurau o



Bwysigrwydd Lleol (BSLI) yn flaenorol fel y cyfeiriwyd atynt yn CDLI Conwy (2007-2022)) yn faes arall sy'n newydd yn y canllawiau cenedlaethol, ynghyd â pholisi'n seiliedig ar feini prawf ar Alluogi Datblygu. Er mwyn osgoi ailadrodd canllawiau cenedlaethol, nid yw'r polisi ar Alluogi Datblygu o'r CDLI blaenorol wedi'i gario ymlaen.

Datblygiad HE/2 sy'n effeithio ar asedau treftadaeth

1. Bydd yr asedau treftadaeth a restrwyd isod (a-f) yn cael eu diogelu a lle bo'n briodol, yn cael eu rheoli a'u gwella.

- a. Ardaloedd Cadwraeth
- b. Safle Treftadaeth y Byd yn Nhref Conwy
- c. Parciau, Gerddi a Thirweddau Hanesyddol
- d. Adeiladau Rhestredig
- e. Henebion cofrestredig
- f. Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

2. Wrth ystyried cynlluniau galluogi datblygu a datblygiadau sy'n effeithio ar leoliad asedau treftadaeth, bydd penderfyniadau'n cael eu llunio yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol

5.5.149 Cynhyrchwyd CCA o dan CDLI blaenorol Conwy (2007-2022) i arwain y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phartion eraill â diddordeb o ran datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth yn gyffredinol, a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yn ymwneud â lleoliadau penodol, er enghraifft: Llandudno, Tref Conwy, Canol Tref Bae Colwyn a Llanellian. Bydd yr ymagwedd hon yn parhau ar ôl mabwysiadu'r CDLIN gyda chynlluniau

rheoli presennol yn cael eu diweddaru fel bo'r angen a chynlluniau rheoli newydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer gweddill yr ardaloedd cadwraeth.

5.5.150 Mae UNESCO (Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig) yn gofyn am baratoi'r Cynllun Rheoli i lywio datblygiad Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys cestyll a muriau Edward I yng Nghonwy, Caernarfon, Harlech a Biwmares. Mae Cynllun Rheoli wedi'i baratoi, sy'n cynnwys clustogfa diffiniedig a'i fwriad yw diogelu lleoliad rhan Castell a Muriau Tref Conwy o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi y Brenin Edward yng Ngwynedd. Mabwysiadwyd y cynllun gan y Cyngor fel CCA ym mis Ebrill 2018.

5.5.151 Bydd cynigion datblygu sydd o fewn tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn cael eu hasesu yn erbyn polisi HE/2, y Canllaw Arferion Gorau ar ddefnyddio Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, Rheoli Newid mewn Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru (Cadw), a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, lle bo'n berthnasol.

5.5.152 Nid yw'r CDLIN yn ceisio ailadrodd y meini prawf a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru ar Alluogi Datblygu, felly nid oes polisi penodol yn y cynllun hwn. Gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar y polisi cynllunio cenedlaethol ac ategir atynt gan fanylion pellach yn Egwyddorion Cadwraeth Cadw.

5.5.153 Cynhaliwyd arolwg o'r adeiladau rhestredig yn 2016 a oedd yn nodi'r adeiladau rhestredig sydd mewn perygl. Bydd y rhestr "Mewn Perygl" yn rhoi'r sail ar gyfer llunio cynllun gweithredu. Rhoddir blaenoriaeth i adeiladau yn seiliedig ar y drefn y gellir



cymryd camau effeithiol, yn ogystal â faint o gamau i'w cymryd. Bydd hyn yn cynnwys asesiad yn unol â Safonau'r Gymraeg i nodi'r holl gyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ar gyfer adeiladau rhestredig sydd ar agor i'r cyhoedd. Rhoddir ystyriaeth i sgoriau perygl, graddfa adeiladu, cyfraddau dirywiad, cynlluniau a roddir mantais gymunedol, lleoliad, anheddau heb eu meddiannu mewn ardaloedd a dargedir ar gyfer adnewyddu, arwyddocâd yr eiddo a'i gyfraniad at y treflun a chyflawni canlyniad cadarnhaol. Mae Cadw wedi cynhyrchu cyfres o nodiadau canllaw sy'n rhoi cyngor defnyddiol i berchnogion a rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er enghraifft, 'Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig' a 'Rheoli Adeiladau Rhestredig mewn Perygl yng Nghymru'.

5.5.154 Mae Henebion Cofrestredig yn safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, (wedi'i disodli gan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol Cymru 2023). Mae 80 o Henebion Cofrestredig yn ardal gynllunio Conwy ac mae modd gweld y rhain ar adran Cof Cymru o wefan Cadw. Effaith cofrestru yw bod angen caniatâd heneb gofrestredig ar gynigion i ddifrodi, dymchwel, symud, trwsio, newid, ychwanegu, gorlifo neu orchuddio henebion cofrestredig, yn ategol at y gofyniad am ganiatâd cynllunio.

5.5.155 Dim ond cyfran fechan o gyfanswm yr adnoddau archeolegol yw henebion cofrestredig. Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â Heneb: Ymddiriedolaeth Archeoleg Cymru, ac yn ystyried arwyddocâd safleoedd archeolegol a'u lleoliadau. Lle bo angen, bydd y Cyngor yn mynnu bod safleoedd ceisiadau'n cael asesiad archeolegol proffesiynol a / neu werthusiad maes cyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd

cynllunio ai peidio. Mewn rhai achosion gallai hyn gynnwys gofyniad am asesiad a / neu werthusiad i ganfod a oes archeoleg ar safle, nid lle bo gweddillion hysbys yn unig. Gwrthodir caniatâd cynllunio os yw'r safle archeolegol o bwysigrwydd i fod yn deilwng i'w amddiffyn rhag aflonyddwch yn gyfan gwbl. Gellir diogelu a chofnodi safleoedd hefyd drwy ddefnyddio amodau a chytundebau cynllunio. Mae'r Cyngor yn annog cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned o safbwynt gwaith archeolegol drwy'r broses gynllunio.

5.5.156 Ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar leoliad asedau treftadaeth, dylid dilyn canllawiau Cadw 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru' yn unol â pholisi HE/2. Ar gyfer galluogi datblygu, canllawiau cenedlaethol fydd y prif bwynt cyfeirio ynghyd â dogfen Egwyddorion Cadwraeth Cadw.

5.5.157 Mae enwau lleoedd hanesyddol hefyd yn bwysig i ddeall cymeriad, hanes a tharddiad aneddiadau ac ardaloedd o dir. Dylid cyfeirio at Restr Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wrth lunio cynigion yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig i sicrhau parhad gyda'r gorffennol, meithrin synnwyr o le a chynnal diwylliant ardal.

5.5.158 Bydd rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn cael ei llunio a'i chynnal. Gweler polisi HE/3 i gael rhagor o gyngor.

HE/3 Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

1. Dim ond pan na fydd ymddangosiad, cymeriad a lleoliad unigryw'r ased hanesyddol yn cael ei effeithio arno'n sylweddol y caniateir cynigion datblygu sy'n effeithio asedau hanesyddol ar y Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig.
2. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir dymchwel Ased Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig neu ei ddymchwel yn rhannol, a hynny pan fydd yr holl opsiynau wedi cael eu harchwilio ar gyfer cadw'r ased.

5.5.159 Mae yna nifer o asedau hanesyddol sylweddol sydd yn ôl eu dyluniad, deunyddiau a chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol sy'n rhan sylfaenol o gymeriad a hunaniaeth eu hardal. Mae'r asedau y mae'r polisi hwn yn cyfeirio atynt i'w cael yn Atodiad 1 CCA Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig. Dylid cadw'r asedau hyn a phan yn berthnasol dylai defnydd priodol gael ei wneud i gynnal eu cymeriad hanfodol. Dylid cyflwyno Datganiadau o Effaith ar Dreftadaeth gyda cheisiadau cynllunio sy'n gymesur o ran arwyddocâd yr ased hanesyddol a graddfa'r newid a gynigir.

5.5.160 Mae rhagdybiaeth yn erbyn dymchwel Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, neu eu dymchwel yn rhannol. Mae cynigion o'r fath yn cael eu hystyried yn yr un ffordd ag Adeilad Rhestredig statudol gyda'r un lefel o wybodaeth a chyfiawnhad sydd ei angen i gyd-fynd â'r cais cynllunio.

5.5.161 Mae defnyddio rheolyddion ychwanegol fel Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn cael eu hystyried wrth weithredu'r polisi hwn.

5.5.162 Nid yw'r polisi hwn yn caniatáu ar gyfer 'ceisiadau rhestru' asedau, fodd bynnag bydd y rhestr yn cael ei hadolygu ar

gyfnodau y cytunir arnynt fel y nodwyd yn CCA Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, i ddarparu'r cyfle i gynnwys asedau newydd.

Adfywio drwy ddiwylliant

SO1: Cyfrannu at greu mannau cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a lles gwell yn gyffredinol yng Nghonwy drwy ddarparu proses creu lleoedd ac adfywio cynhwysol sy'n sicrhau bod lefelau twf yn y dyfodol a datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dyluniad da a lleoedd mwy iach, yn diogelu'r Gymraeg a'i hanes a hybu ei defnydd ac yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol i gynnal lleoedd gwyach a chreu rhai newydd.

5.5.163 Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi pwysigrwydd cynnal nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i le, yn ogystal â bod yn annhebyg i unrhyw le arall. Dylid nodi a gwerthfawrogi asedau diwylliannol o'r fath ac ymdeimlad o le pan ddaw i gynllunio defnydd tir. Yn wir, y nodweddion hyn sy'n aml yn gwneud y lle yr hyn ydyw - ei hunaniaeth, ei gymeriad, ei hanfod craidd. Mae'r nodweddion arbennig hyn hefyd yn 'ychwanegu gwerth' i ardal ac yn ei gwneud yn ardal ddeniadol a diddorol i fyw a gweithio ynddi, gan fod pobl yn teimlo synnwyr o berthyn. Gall nodweddion o'r fath a synnwyr o le hefyd ddenu ymwelwyr a hyrwyddo'r economi ymwelwyr.

HE/4 adfywio drwy ddiwylliant

Bydd cynigion datblygu sy'n codi o, neu'n cyd-fynd â, mentrau adfywio sy'n ceisio cadw, gwella a chefnogi asedau diwylliannol a hunaniaeth lle yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

- 5.5.164 Mae nifer o fentrau strategol sy'n seiliedig ar ddiwylliant ar waith ar draws Sir Conwy, a bydd rhai yn effeithio ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir.
- 5.5.165 Gall asedau diwylliannol gynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill; cerddoriaeth, celfyddydau, hanes, iaith a thraddodiadau sy'n ffurfio cymeriad, hunaniaeth ac arferion cymuned. O safbwynt defnydd tir, gall hyn olygu adeiladau a mannau sy'n cael eu defnyddio i feithrin y gweithgareddau hyn, er enghraifft, theatrau, orielau, a mannau coffa ac enwi llong llaw.
- 5.5.166 Mae Creu Conwy – Tanio'r Fflam – strategaeth ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021–2028 yn canolbwyntio ar y canlynol; Rhaglen (digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau), Pobl (cynyddu gallu, cydweithio a phartneriaethau), a Lle (amgylchedd naturiol ac adeiledig, a chymunedau). Mae i'r strategaeth ymagwedd creu lleoedd ac un sy'n seiliedig ar asedau gan ddefnyddio diwylliant cyfoethog Conwy i gefnogi lles pobl yn well a chymell adnewyddiad economaidd a chymunedol gan gyd-fynd ag amcanion a nodau'r Strategaeth Twf Economaidd.
- 5.5.167 Mae Creu Conwy'n cael ei arwain gan bartneriaeth strategol sy'n cynnwys cyrff diwylliannol allweddol lleol a chenedlaethol. Mae Timau Tref wedi'u datblygu yn y 5 tref fwyaf (Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst), gyda chynrychiolaeth

traws-sector o'r gymuned leol a'r sector diwylliannol i lywio gweithgarwch ar lawr gwlad, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y lleoedd ac yn berthnasol ac wedi'i integreiddio â chynlluniau lle a chymunedol lleol. Mae enghreifftiau o brosiectau'n cynnwys: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Northern Eye, Llyfrgelloedd fel Canolbwynt Cymunedol, Cynnig Busnes Archifau Conwy, 'Casglu' – creu map diwylliant Conwy gan y gymuned ac Oriel Môr.

- 5.5.168 Bydd y Cyngor yn ceisio cefnogi datblygiadau sy'n rhan o Creu Conwy a mentrau adfywio eraill sydd â chysylltiad â defnydd tir ac yn cydymffurfio â pholisïau eraill yn y CDLIN. Dylai cynigion defnydd tir ddangos sut y byddant yn creu'r cydbwysedd rhwng cynnal craidd y nodweddion maent yn ceisio eu hyrwyddo heb gael effaith niweidiol arnynt. Hefyd bydd angen i gynigion gydymffurfio gyda pholisi PL/7 sy'n ymwneud â'r Gymraeg er mwyn sicrhau y manteisir ar gyfleoedd i hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith a hynny wrth ddiogelu dyfodol y Gymraeg.

6. Fframwaith monitro

6.1 Diben a gofyniad statudol

- 6.1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynnyddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun. Nodir hyn yn Adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynnyddol yn asesu i ba raddau y mae'r polisiau yn y CDLIN yn cael eu cyflawni a bydd hefyd yn ymgorffori canlyniadau'r gwaith monitro SEA/SA. Mae Rheoliad 37 y CDLI yn mynnu bod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol yn nodi unrhyw bolisi na chaiff ei weithredu ac i roi'r rhesymau, ynghyd ag unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau gweithrediad y polisi ac unrhyw fwriad i ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy ddileu neu newid y polisi.
- 6.1.2 Ni ddylid ystyried paratoi unrhyw gynllun fel gweithgaredd unwaith ac am byth. Mae'n hanfodol gwirio bod y cynllun yn cael ei weithredu'n gywir, asesu'r canlyniadau, a sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn unol â'r bwriad a'r hyn a ddymunir ar hyn o bryd. Felly mae monitro yn elfen bwysig o broses y cynllun datblygu, gan ddarparu sail ar gyfer adolygu'r cynllun, a pharatoi addasiadau ble fo angen.
- 6.1.3 Dylai paratoi'r fframwaith monitro fod yn ystyriaeth barhaus gan ddechrau o gamau cynnar paratoi'r cynllun. Mae cael fframwaith monitro effeithiol yn un o brofion cadernid a ystyrir gan yr Arolygydd yn ystod cam Archwilio'r CDLIN. Ni fydd angen monitro pob polisi neu gynnig. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi mai ond y rhai sy'n allweddol o ran cyflawni

strategaeth ac amcanion y cynllun sydd angen eu monitro. Mae angen dangosyddion clir, cryno a mesuradwy i ddangos sut maent yn ymwneud â strategaeth y cynllun. Dylai targedau fod yn glir ac yn briodol. Dylai pwyntiau sbardun fod yn effeithiol.

6.2 Dangosyddion Monitro

- 6.2.1 Mae'r dangosyddion canlynol yn ofynnol gan Reoliad 37 y Cynllun Datblygu Lleol a Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu:
- Dangosyddion cyd-destunol
 - Dangosyddion craidd cenedlaethol
 - Dangosyddion allbwn lleol
 - Dangosyddion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd
- 6.2.2 Y dangosyddion monitro fydd y prif faen prawf ar gyfer mesur gweithredu'r polisiau a dyraniadau. Bydd dangosyddion monitro hefyd yn cynnwys targed a phwynt sbarduno ar gyfer gweithredu.
- 6.2.3 Os yw pwyntiau sbarduno yn cael eu bodloni neu eu hysgogi, mae'n bwysig fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn deall pam nad yw'r polisi neu'r cynnig yn cael ei weithredu fel y disgwyliwyd. Mae proses yr Adroddiad Monitro Blynnyddol yn rhan allweddol o hyn a bydd yn awgrymu'r camau mwyaf priodol mewn ymateb. Mae Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu yn darparu'r camau canlynol a awgrymir.
- Parhau i fonitro:** Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.




- **Yr hyfforddiant sydd ei angen:** Nid yw polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant ar swyddogion neu Aelodau
- **Angen CCA:** Nid yw polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen canllawiau pellach, ac o bosibl paratoi CCA ychwanegol.
- **Angen ymchwilio ymhellach:** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen ymchwiliad a/neu archwiliad pellach.
- **Angen adolygiad polisi:** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac nid ydynt yn cyflawni, fe allai fod angen adolygiad o'r polisi penodol.
- **Adolygiad cynllun:** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad statudol bob 4 mlynedd.

6.2.4 Mae rhestr lawn o'r dangosyddion monitro wedi eu cynnwys yn atodiad 7.

Atodiad 1 : taflwybr tai

Siart yn dangos taflwybr tai CDLIN Conwy





Tabl yn dangos taflwybr CDLIN Conwy

Blwyddyn CDLI	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15
Blwyddyn	2018/ 19	2019/ 20	2020/ 21	2021/ 22	2022/ 23	2023/ 24	2024/ 25	2025/ 26	2026/ 27	2027/ 28	2028/ 29	2029/ 30	2030/ 31	2031/ 32	2032/ 33
Blynyddoedd yn weddill	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1
Cyfanswm darpariaeth tai	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300	4,300
Cyfanswm gofyniad tai'r CDLIN	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600	3,600
Safleoedd mawr a gwblhawyd	218	154	111	316	137	95	38	-	-	-	-	-	-	-	-
Safleoedd bach a gwblhawyd	83	46	38	46	52	47	45	-	-	-	-	-	-	-	-
Dyraniadau	-	-	-	-	-	-	-	-	-	182	292	255	217	210	162
Datblygiadau banc tir y rhagwelir eu cwblhau	-	-	-	-	-	-	-	201	367	114	82	34	11	11	6
Hap-safleoedd mawr	-	-	-	-	-	-	-	-	-	45	45	45	45	45	45
Hap-safleoedd bach	-	-	-	-	-	-	-	57	57	57	57	57	57	57	57
Cyfanswm cyflawniadau	301	200	149	362	189	142	83	258	424	399	477	392	331	324	271
Cyfradd adeiladu flynyddol a ragwelir	301	200	149	362	189	142	83	195	321	301	360	296	250	245	205
Cyfanswm cronrus y safleoedd a gwblhawyd	301	501	650	1,012	1,201	1,343	1,426	1,621	1,942	2,244	2,604	2,901	3,151	3,395	3,600
Datblygiadau tai eto i'w cwblhau	3,299	3,099	2,950	2,588	2,399	2,257	2,174	1,979	1,658	1,356	996	699	449	205	-

Atodiad 2: tablau cydymffurfiaeth

Cydymffurfiaeth themâu a pholisïau CDLIN Conwy gyda Pholisi Cynllunio Cymru.

Canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol (PCC)	Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy
Diogelu'r amgylchedd yn well a lleihau effaith amgylcheddol trwy Bioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Ydi
Tirweddau arwahanol ac arbennig	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol	Ydi
Isadeiledd gwyrdd integredig	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Seinweddau priodol	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol	Ydi
Lleihau risgiau amgylcheddol	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Ydi
Rheoli adnoddau dŵr yn naturiol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Aer glân	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Lleihau llygredd cyffredinol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Amgylcheddau hanesyddol arwahanol ac arbennig	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol	Ydi
Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach: Mannau gwyrdd hygyrch ac o ansawdd uchel	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Ydi
Hygyrch trwy ddulliau teithio llesol a chlodiant cyhoeddus	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Ddim yn ddibynnol ar gar	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn lleihau'r angen i deithio	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn darparu mynediad cyfartal	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol
Yn teimlo'n ddiogel ac yn gynhwysol	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn cefnogi poblogaeth amrywiol	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Â chysylltiadau da	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Mynediad cyfleus i nwyddau a gwasanaethau	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn hybu iechyd a lles corfforol a meddyliol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Gwneud y defnydd gorau o adnoddau	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi



Canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol (PCC)	Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy
Gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol				
Yn atal gwastraff	Ydi	Amherthnasol	Ydi	Ydi
Yn blaenoriaethu defnydd tir a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau presennol	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn datgloi pontensial ac yn adfywio	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
O ansawdd uchel ac wedi'i adeiladu i bara	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy				
Meithrin gweithgarwch economaidd	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn galluogi cyfathrebu hawdd	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun	Ydi	Amherthnasol	Ydi	Amherthnasol
Yn fywiog a deinamig	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Yn gallu addasu i newid	Ydi	Amherthnasol	Ydi	Amherthnasol
Yn croesawu technoleg glyfar ac arloesol	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Creu a chynnal cymunedau:				
Galluogi'r Gymraeg i ffynnu	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol
Dwyseddau datblygu priodol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Cartrefi a swyddi sy'n diwallu anghenion cymdeithas	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Cymysgedd o wahanol ddefnydd	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Yn cynnig profiadau diwylliannol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol



Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040	Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Ecosystemau gwydn, bioamrywiol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Wedi datgarboneiddio ac yn wydn i wrthsefyll yr hinsawdd	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Twf cynaliadwy	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Teithio cynaliadwy	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Iechyd ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Lleoedd gwledig bywiog	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Ffyniant, arloesedd a diwylliant	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Seilwaith digidol o'r radd flaenaf	Ydi	Amherthnasol	Ydi	Amherthnasol
Y Gymraeg yn ffynnu	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi

Cydymffurfiaeth themâu CDLIN Conwy a'r nodau lles cenedlaethol:

Y nodau lles cenedlaethol	Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy
Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Ffyniannus	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Gwydn	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Iachach	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Mwy cyfartal	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Cymunedau cydlynus	Ydi	Ydi	Ydi	Amherthnasol
Diwylliant bywiog lle mae'r gymraeg yn ffynnu	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Ydi

Cydymffurfiaeth themâu CDLIN Conwy a Chynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych.

Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych	Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy	Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy	Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy	Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy
Lles	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Yr Economi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Cydraddoldeb	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
Tai	Ydi	Ydi	Amherthnasol	Amherthnasol



Atodiad 3: Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol

Teitl CCA	Adran Polisi	Polisi perthnasol
Creu a dylunio lleoedd cynaliadwy	Creu Lleoedd	PL/1 a PL/5
Hybu lleoedd iachach	Creu Lleoedd	PL/6
Yr iaith Gymraeg	Creu Lleoedd	PL/7
Addasiadau gwledig	Creu Lleoedd	PL/10
Canllawiau Cydymffurfio ar gyfer Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro	Creu Lleoedd	PL/11
Datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd	Creu Lleoedd	PL/12
Datblygiad newydd a hyfywedd	Creu Lleoedd	PL/13
Canllaw Dylunio i Berchnogion Tai	Creu Lleoedd	PL/1
Cynlluniau Creu Lleoedd ac Asesiadau Cydymffurfio Creu Lleoedd	Creu Lleoedd	PL/16
Tai fforddiadwy	Fframwaith tai a thai fforddiadwy	HS/3, HS/4 a HS/5
Llety a rennir	Fframwaith tai a thai fforddiadwy	HS/12
Safonau Parcio	Strategaeth Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd	STA/8
Cynllun blaen siopau a diogelwch	Strategaeth manwerthu a chanol trefi yn gyntaf	RTC/6
Safleoedd Cyflogaeth Newydd mewn ardaloedd Trefol a Gwledig	Strategaeth datblygu economaidd	ED/3



Teitl CCA	Adran Polisi	Polisi perthnasol
Diogelu Safleoedd Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8	Strategaeth datblygu economaidd	ED/4
Lletyau Gwyliau Llandudno	Strategaeth Twristiaeth	TO/3
Lleihau Carbon wrth Gynllunio	Fframwaith cynllunio sero net	EN/1
Datblygiad Tyrbinau Gwynt Ar y Tir	Fframwaith cynllunio sero net	EN/11
Ynni Adnewyddadwy	Fframwaith cynllunio sero net	EN/9
Asesiad o Sensitifrwydd a Chynhwysedd y Dirwedd ar gyfer Datblygu Tyrbinau Gwynt ar y Tir	Fframwaith cynllunio sero net	EN/11
Isadeiledd Gwyrdd	Yr Amgylchedd Naturiol	NE/7
Bioamrywiaeth mewn Cynllunio	Yr Amgylchedd Naturiol	NE/8
Tirwedd, Mynediad a Dylunio, Coed a Datblygu	Yr Amgylchedd Naturiol	NE/6
Protocol Perygl Llifogydd Arfordirol	Rhinweddau amgylcheddol	EQ/5
Cynllun Rheoli a Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Waliau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd	Amgylchedd hanesyddol	HE/2
Cynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth (ardaloedd cadwraeth amrywiol)	Amgylchedd hanesyddol	HE/2
Ardaloedd Cadwraeth (Cyffredinol)	Amgylchedd hanesyddol	HE/2
Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig	Amgylchedd hanesyddol	HE/3

Atodiad 4: rhestr papurau cefndir

Papurau cefndir y CDLIN

Papur Cefndir 1 - Adroddiad opsiynau lefel twf (tai a chyflogaeth)

Papur Cefndir 2 - Adroddiad opsiynau dosbarthu gofodol

Papur Cefndir 3 - Y strategaeth anheddu

Papur Cefndir 4 - Arfarniad o gynladwyedd ac asesiad amgylcheddol strategol

Papur Cefndir 5 - Arfarniad rheoliadau cynefinoedd

Papur Cefndir 6 - Asesiad cyflawni safleoedd

Papur Cefndir 7 - Cyflenwad tir ar gyfer tai

Papur Cefndir 8 - Canllawiau cynllunio awyr dywyll

Papur Cefndir 9 - Asesiad o'r Farchnad Dai Leol AMTLI 2022-37

Papur Cefndir 10 - Astudiaeth hyfywedd tai fforddiadwy

Papur Cefndir 11 - Tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol

Papur Cefndir 12 - Tai Amfeddiannaeth

Papur Cefndir 13 - Nodyn Briffio Tai Amlfeddiannaeth

Papur Cefndir 14 - Astudiaeth ddichonoldeb opsiynau safleoedd sipiwn a theithwyr

Papur Cefndir 15 - Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Papur Cefndir 16 - Cynllunio a'r economi wledig

Papur Cefndir 17 - Cyflenwad o dir cyflogaeth

Papur Cefndir 18 - Adolygiad Tir Cyflogaeth

Papur Cefndir 19 - Dadansoddiad o'r farchnad fasnachol

Papur Cefndir 20 - Asesiad o anghenion sgiliau

Papur Cefndir 21 - Parth Llety Gwyliau Llandudno

Papur Cefndir 22 - Asesiad o dwristiaeth yn Sir Conwy

Papur Cefndir 23 - Astudiaeth twristiaeth Llandudno

Papur Cefndir 24 - Cyflawni blaenoriaethau iechyd a llesiant y cyhoedd drwy Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yng Nghymru

Papur Cefndir 26 - Hierarchaeth fanwerthu

Papur Cefndir 27 - Prif ardaloedd manwerthu a rhai eilaidd

Papur Cefndir 28 - Asesiad o fannau hamdden

Papur Cefndir 29 - Asesiad lletemau glas

Papur Cefndir 30 - Adroddiad ynghylch y galw am safleoedd rhandiroedd a'r cyflenwad

Papur Cefndir 31 - Wybodaeth Ddiweddaraf ar Letemau Glas

Papur Cefndir 32 - Ardaloedd tirwedd arbennig

Papur Cefndir 33 - Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Conwy

Papur Cefndir 34 - Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Conwy

Papur Cefndir 36 - Rheoli gwastraff

Papur Cefndir 37 - Mwynau



Papur Cefndir 38 - Dynodiadau treftadaeth

Papur Cefndir 39 - Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Papur Cefndir 40 - Cynllunio ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy

Papur Cefndir 42 - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Papur Cefndir 43 - Cydweithio ag awdurdodau cyfagos

Papur Cefndir 44 - Newid yn y boblogaeth, tai a'r effaith ar iechyd/gofal sylfaenol

Papur Cefndir 45 - Newid yn y boblogaeth, tai a'r effaith ar addysg

Papur Cefndir 46 - Cynlluniau Lleoedd

Papur Cefndir 47 - Asesiadau Isadeiledd Gwyrdd

Papur Cefndir 48 - Astudiaeth o ddeiliadaeth tai newydd

Papur Cefndir 49 - Fframwaith cynllunio di-garbon net

Papur Cefndir 52 - Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Papur Cefndir 54 - Twf Coed yng Nghonwy

Papur Cefndir 55 - Cynllun Ynni Ardal Leol

Papur Cefndir 56 - Hierarchaeth buddsoddiadau tir cyflogaeth

Papur Cefndir 58 - Isadeiledd Gwyrdd, trawsnewid trefi

Papur Cefndir 60 - Astudiaeth Safle Ynni Adnewyddadwy

Papur Cefndir 61 - Astudiaeth canol trefi yn gyntaf

Papur Cefndir 62 - Nodyn technegol dal a storio carbon

Papur Cefndir 64 - Nodyn technegol cludiant ac ynni

Papur Cefndir 65 - Cyflawni adeiladau di-garbon net

Papur Cefndir 66 - Y CDLIN a gofal cymdeithasol

Papur Cefndir 67 - Safleoedd cyflogaeth a ddiogelu yn CDLIN Conwy

Papur Cefndir 68 - Safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy

Papur Cefndir 69 - Tai gwledig

Papur Cefndir 70 - Papur cyfiawnhau tir gorau a mwyaf amlbwrpas

Papur Cefndir 71 - Asesiad o'r effaith ar iechyd

Papur Cefndir 72 - Asesiad o effaith ar gydraddoldeb

Papur Cefndir 73 - Cynlluniau Creu Lleoedd a chanllawiau cydymffurfio Cynlluniau Lleoedd

Papur Cefndir 74 - Adroddiad ymgynghori cychwynnol

Papur Cefndir 75 - Adroddiad prawf cadernid

Er mwyn osgoi dryswch â fersiynau blaenorol o'r papurau cefndir, mae gan bob papur cefndir ar gyfer y cam archwilio'r CDLIN gan y cyhoedd, glawr blaen sy'n nodi "Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd".

Efallai y sylwch bod bylchau yn y rhifau ar gyfer y papurau cefndir uchod. Nid yw hyn yn golygu bod papurau ar goll, ond yn hytrach bod y sail dystiolaeth wedi newid, wedi'i disodli neu wedi'i chyfuno yn ystod cam casglu dystiolaeth y CDLIN.

Atodiad 5: gweithredu a'r cynllun cyflawni

Diben y cynllun gweithredu a chyflawni yw crynhoi'r prif faterion, cyfyngiadau, y cyflwyno fesul cam a mesurau lliniaru sydd eu hangen i gyflawni'r cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, y mae'r dangosyddion monitro a'r sbardunau yn deillio ohonynt. Mae'n cynnwys disgrifiad byr o'r safleoedd allweddol yn ogystal â throsolwg o faterion cyflawni a gweithredu sy'n benodol i'r safle, gan gynnwys cyfyngiadau safle, lliniaru angenrheidiol / mesurau iawndal a pholisi / rhwymedigaethau Adran 106 / gofynion isadeiledd. Bydd y wybodaeth hon yn egluro gofynion isadeiledd safleoedd allweddol ac yn hysbysu datblygwyr posibl mewn perthynas â disgwyliadau wrth gyflwyno safleoedd ar gam y cais cynllunio gyda'r holl wybodaeth berthnasol sy'n hysbys. Bydd yr holl bartïon yn gwybod ymlaen llaw beth a ddisgwylir ac o ganlyniad dylai hynny gael ei gynnwys yn y costau o gyflwyno safleoedd o'r cychwyn. Dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â'r polisiau safle creu lleoedd penodol i'r safle yn yr Adran Dewisiadau Strategol a Gofodol a BP6: Asesiad Cyflawni Safle.

Enw a chyfeirnod y safle	Maint safle	Defnydd arfaethedig	Cyfnod cyflwyno	Gofynion o ran isadeiledd a pholisi
Safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan (is-ardal y Gorllewin)	10.4 hectar	Defnydd cymysg ar gyfer datblygiad preswyl (145 o gartrefi), ysgol gynradd newydd, a mannau hamdden a llwybrau teithio llesol. Man cychwyn o 50% (73) o dai fforddiadwy.	2028-33	Gweler polisi PL/17
Safle 91 Pentywyn Road, Deganwy / Llanrhos (is-ardal Creuddyn)	6 hectar	Preswyl (140 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol. Man cychwyn o 50% (70) o dai fforddiadwy.	2028-33	Gweler polisi PL/18
Safle 68 Fferm Peulwys, Hen Golwyn (is-ardal Ganolog)	15.2 hectar	Preswyl (300 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol. Man cychwyn o 50% (150; i gyd yn ystod cyfnod y cynllun) o dai fforddiadwy.	2028-33 Ar ôl 2033	Gweler polisi PL/19



Enw a chyfeirnod y safle	Maint safle	Defnydd arfaethedig	Cyfnod cyflwyno	Gofynion o ran isadeiledd a pholisi
Safle 56 Penloyn, Llanrwst (Canolfan Wasanaethu Allweddol)	5.5 hectar	Preswyl (100 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol. Man cychwyn o 50% (50) o dai fforddiadwy.	2028-33	Gweler polisi PL/20
Safle 203 Queen's Road, Llandudno (is-ardal Creuddyn)	2.6 hectar	Preswyl (70 o gartrefi), mannau hamdden a llwybrau teithio llesol. Man cychwyn o 50% (35) o dai fforddiadwy.	2028-33	Gweler polisi PL/21
Safle 115 Chwarel Llanddulas (is-ardal y Dwyrain)	26.8 hectar	Defnydd cyflogaeth a chynhyrchu ynni adnewyddadwy (solar) cysylltiedig. Ardal 1: 0.8ha B1, B2, B8 Ardal 2: 4ha B1, B2, B8 Ardal 3: 4ha B1, B2, B8 Ardal 4: 18ha ar gyfer ynni adnewyddadwy (solar)	Maes 1: 2027-2029 Maes 2: 2028-2032 Maes 3: 2032 a thu hwnt Maes 4: 2028-2033 a thu hwnt	Gweler polisi PL/22
Safle 103 Bryniau, Llandudno (is-ardal Creuddyn)	3.85 hectar	B1 (busnes) cyflogaeth.	2028-2033 a thu hwnt	Gweler polisi PL/23
Safle 206 Nant y Coed, Cyffordd Llandudno (is-ardal Creuddyn)	1.6 hectar	100% tai fforddiadwy (50 cartref) a gwaith cysylltiedig	2023-28	Gweler polisi PL/24
Safle 132 Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos (is-ardal Ganolog)	1.8 hectar	100% tai fforddiadwy (50 annedd) a gwaith cysylltiedig.	2023-28	Gweler polisi PL/25

Atodiad 6: Geirfa Termiau

Adroddiad Monitro Blynyddol – Adroddiad blynyddol i LLC sy'n nodi cynnydd yn erbyn targedau ar gyfer paratoi ac adolygu cynlluniau datblygu.

ALAN – Golau artiffisial yn y nos. Dyma achos llygredd golau, niwsans a gwawl.

Archwilio – proses lle caiff cadernid y CDLI ei brofi yn gyhoeddus a bydd yr Arolygydd/Arolygwyr yn llunio adroddiad am gadernid y CDLI.

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is – ardaloedd â lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig i boblogaethau plant, pobl ifanc a'r henoed.

Ardal y Cynllun - y rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) a gwmpesir gan CDLI Conwy.

Ardal Tirwedd Arbennig – dynodiad lleol sy'n seiliedig ar fapio Landmap er mwyn nodi'r ardaloedd tirwedd mwyaf gwerthfawr, nad ydynt wedi'u diogelu neu eu cynnwys mewn dynodiadau eraill, o bosibl.

Arolygydd – cynlluniwr annibynnol, profiadol sy'n gweithio i asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Mae'n edrych yn ofalus ar faterion cynllunio manwl a gaiff eu trafod wrth archwilio Cynllun Datblygu, neu mewn ymchwiliad cyhoeddus i gais penodol. Mae arolygwyr hefyd yn penderfynu ar apeliadau.

Asesiad Cludiant – asesiad o gapasiti a diogelwch priffyrdd i helpu i lywio derbynioldeb datblygiad.

ACLI / Awdurdod Cynllunio Lleol – yr Awdurdod Lleol neu Gyngor lleol sy'n gyfrifol am baratoi cynlluniau ac am wneud penderfyniadau cynllunio. Yng Nghymru, mae pump ar hugain o Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan gynnwys 22 awdurdod unedol a'r tri Pharc Cenedlaethol.

Awyr Dywyll – mae gan fwy na dau draean o Gymru awyr dywyll, mae rhannau wedi'u cydnabod yn rhyngwladol fel Gwarchodfeydd Awyr Dywyll, Parc Awyr Dywyll, Noddfa Awyr Dywyll ac fel Cymuned Awyr Dywyll. Disgwylir i olau fod yn gyfeillgar i Awyr Dywyll.

Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad oherwydd eu bod yn 'hawliau datblygu a ganiateir'. Gall Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer pob ardal neu ardal benodol, sy'n dileu hawliau datblygu penodol a ganiateir. Yna bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith hwn.

Cadarn – caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu profi gan Arolygydd yn yr Archwiliad i weld a ydynt yn Gadarn. Mae'r Arolygydd yn profi'r cynllun gan ddefnyddio tri 'phrawf Cadernid' sy'n cynnwys 1. A yw'n addas? 2. A yw'n briodol? a 3. A fydd yn darparu?

Cadw – y sefydliad cyhoeddus â chyfrifoldeb dros oruchwyllo cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Cais Cynllunio – y broses a’r dogfennau a gaiff eu cyflwyno gan ymgeisydd sy’n ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad. Mae dogfennau sy’n ofynnol fel rhan o gyflwyno cais cynllunio yn cynnwys ffurflen cais cynllunio, cynllun lleoliad, gosodiad y safle a darluniau i ddangos gweddoluniau (golwg allanol waliau). Caiff cais cynllunio ei asesu yn erbyn polisïau yn y cynlluniau datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill. Os caiff y cais cynllunio ei gymeradwyo, bydd yr ACLL yn cyhoeddi tystysgrif cais cynllunio.

Caniatâd Cynllunio - cymeradwyaeth ffurfiol a roddir gan Gyngor, a gaiff ei roi yn aml gydag amodau, gan ganiatáu i ddatblygiad arfaethedig barhau. Gellir rhoi caniatâd mewn egwyddor trwy geisiadau cynllunio amlinellol, neu gellir eu ceisio mewn manylder trwy geisiadau cynllunio llawn.

Canllaw Cynllunio Atodol – canllawiau manwl a gaiff eu paratoi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fel arfer maen nhw’n ymwneud â set benodol o faterion cynllunio. Gallai gwmpasu thema fel dylunio a thirlunio neu gallai fod yn ymwneud ag ardal benodol. Yn aml, mae’n rhoi mwy o fanylion am bolisïau a chynigion mewn cynllun datblygu. Nid oes angen ei archwilio fel cynllun datblygu ond mae’n rhaid iddo fod yn unol â chynllun datblygu a pholisïau cenedlaethol.

Canolfan Gwasanaeth Allweddol – mae’n berthnasol i Lanrwst yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig.

CDLI / Cynllun Datblygu Lleol – y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir sy’n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn llunio’r

cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol er dibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiad, dyraniadau tir ac, yn ôl yr angen, polisïau a chynigion angenrheidiol ar gyfer meysydd newid a diogelu allweddol. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau’n ddaearyddol ar y Map Cynigion sy’n rhan o’r cynllun.

CDLIN / Cynllun Datblygu Lleol Newydd – y CDLI wedi’i ddiweddarw wrth iddo gael ei baratoi. Yn dilyn Archwilio, os caiff y CDLIN ei fabwysiadu, bydd yn disodli’r CDLI presennol.

CDSA – Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (fel a ddangosir ar y map cynigion).

Cefn gwlad agored – Unrhyw ardal o dir y tu hwnt i ffiniau’r anheddiad.

CNC / Cyfoeth Naturiol Cymru – y corff cyhoeddus â chyfrifoldeb dros reoli tir cyhoeddus a rheoleiddio materion amgylcheddol yng Nghymru.

Cofrestr codi tâl ardoll seilwaith cymunedol – tâl datblygu y gall ACLL ei gyflwyno sy’n gofyn am daliad yn seiliedig ar dariff fesul metr sgwâr, yn hytrach na cheisio cyfraniadau ariannol trwy gytundeb Adran 106.

Creu Lleoedd – Dull sy’n canolbwyntio ar bobl o ran cynllunio, dylunio a rheoli lleoedd a mannau. Mae mwy o wybodaeth am Greu Lleoedd ar gael ar wefan Comisiwn Dylunio Cymru.



Cwblhau – tai sydd wedi’u hadeiladu ers dechrau Cyfnod y Cynllun sy’n cyfrannu at y ddarpariaeth tai ar gyfer y cynllun datblygu.

Cyfnod archwilio gan y cyhoedd – y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol wedi paratoi ei gynllun datblygu drafft terfynol bwriedig. Y Cynllun i’w archwilio gan y cyhoedd yw’r ddogfen y bydd yr Arolygydd yn edrych arni wrth Archwilio, yn ogystal â sylwadau am y cynllun gan bobl eraill, grwpiau a sefydliadau.

Cyfnod y Cynllun – cyfnod oes gweithredol cynllun datblygu. Dyma’r cyfnod y caiff datblygiad ei gynllunio drosto, fel arfer 15 mlynedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol.

Cymuned / cymunedau – Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio’r bobl sy’n byw gyda’i gilydd mewn cymdogaeth, pentref, comiwn, pentrefan neu ganolbwynt poblogaeth. Gall cymunedau fod yn seiliedig o amgylch crefydd, set o ddiddordebau, proffesiwn ac ati hefyd.

Cymru’r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2020 yw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy’n sefydlu’r cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru hyd 2040. Mae’n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy’r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog; datgarboneiddio ac atal newidiadau yn yr hinsawdd; datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Cynllun Bro – dogfen defnydd tir lefel leol a gaiff ei pharatoi gan gynghorau tref a chymuned, neu grwpiau cymunedol lle nad oes

Cyngor lleol. Gellir ei fabwysiadu fel canllaw cynllunio atodol os yw’n cydymffurfio â’r Cynllun Datblygu Lleol.

Cynllun Creu Lleoedd – dogfen ar lefel leol a gaiff ei gychwyn gan dimau adfywio Awdurdod Lleol fel arfer, maen nhw’n debyg i Gynlluniau Lleoedd ond gallant gwmpasu materion nad ydynt yn ymwneud â defnydd tir hefyd.

Cynllun datblygu – dogfen sy’n nodi sut y dylid defnyddio tir a lle y dylai datblygiad ddigwydd dros gyfnod penodol. Mae’r system cynllun datblygu yng Nghymru yn cynnwys tair haen, gyda chynlluniau’n cael eu paratoi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Cynllun datblygu a fabwysiadwyd – y cynllun datblygu a fabwysiadwyd ac sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion rheoli datblygu.

Cynllun Datblygu Strategol – cynllun rhanbarthol sy’n canolbwyntio ar faterion cynllunio sy’n croesi ffiniau Awdurdodau Lleol. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn arwain datblygiad a darpariaeth isadeiledd dros ardal ddaearyddol ehangach na Chynllun Datblygu Lleol unigol. Byddan nhw’n sicrhau bod twf a newid yn cael eu rheoli mewn modd cydlynol ar draws y rhanbarth. Bydd pedwar Cynllun: De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru.

Cynllun Ymgysylltu â’r Gymuned – mae’n nodi dull yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac amserlen ar gyfer cynnwys cymunedau lleol yn y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae’n rhan o’r Cytundeb Cyflawni a gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ar

ddechrau'r broses paratoi cynllun. Mae'n rhaid rhoi cyfle i gyrff a grwpiau penodol roi sylwadau ar Gynllun Ymgysylltu â'r Gymuned drafft.

Cytundeb Adran 106 – math o Rwymedigaeth Cynllunio.

Cytundeb Cyflawni – dogfen sy'n nodi amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol yn unol â Rheoliadau'r CDLL. Mae hefyd yn cynnwys Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned, sy'n nodi sut fydd yr Awdurdod yn cynnwys pobl, grwpiau a sefydliadau ar wahanol gamau o greu cynlluniau. Mae angen cytuno â LIC o ran y Cytundeb Cyflawni.

Datblygiad – mae Adran 55 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn diffinio datblygu fel “gwneud gweithrediadau adeiladu, peirianeg, mwngloddio neu arall yn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid sylweddol i ddefnydd unrhyw adeilad neu dir arall.” Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau penodol o arwyddocâd mor gyfyngedig fel bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu nad ydynt gyfystyr â datblygiad (h.y. eu bod yn de minimis). Fel arfer, mae angen caniatâd cynllunio cyn i ddatblygiad gael ei wneud, oni bai mai datblygiad a ganiateir yw'r cais.

Datblygiad Cynaliadwy – gofalu am y byd trwy ddefnyddio ei adnoddau mewn modd synhwyrol. Neu ddatblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r system gynllunio yn bwysig ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy – gall arwain at ffyrdd o fyw a gweithio mwy cynaliadwy. Gall hefyd annog mathau newydd o Ddatblygiad sy'n defnyddio llai o ynni.

Datblygu a Ganiateir – mân waith penodol a allai gael ei wneud i eiddo heb fod angen caniatâd cynllunio, fel a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 – y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu yng Nghymru. Mae'r broses ar gyfer creu Cynllun Datblygu Lleol wedi'i nodi yn Rheoliadau'r CDLL.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth allweddol, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir.

Dyrannu/Dyraniad – Tir a nodir ar gyfer defnydd penodol (tai, manwerthu, man agored ac ati), fel arfer mewn Cynllun Datblygu Lleol i gefnogi, mewn egwyddor, y defnydd hwnnw o fewn amserlen y cynllun.

Dwysedd – o ran datblygiad preswyl, nifer yr anheddau fesul hectar o dir y gellir ei ddatblygu.

Ffin anheddiad – llinell a gaiff ei dynnu o gwmpas ardaloedd trefol ac aneddiadau eraill ac a ddangosir ar Fap Cynigion y CDLL, i wahanu aneddiadau oddi wrth gefn gwlad agored. Bydd polisïau gwahanol yn berthnasol i gais datblygu yn dibynnu p'un a yw safle o fewn ffin yr anheddiad neu'r tu hwnt iddo.

Fframwaith DECCA – y dull fesul cam o ran gwella bioamrywiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cwmpasu Amrywiaeth, Graddau, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau ar gadernid ecosystemau.

Gwledig – Er bod y term 'gwledig' yn cael ei ddefnyddio fel arfer yng nghyd-destun yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, gall ymwneud ag unrhyw ardal y tu hwnt i ffin yr anheddiad.

Hap-safleoedd – safle nad yw wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer datblygu, ond sy'n codi ar gyfer datblygiad yn ystod oes y cynllun.

Heneb – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru

Isadeiledd – cyfleusterau a gwasanaethau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn i ddatblygiad ddigwydd, er enghraifft, ffyrdd, trydan, carthffosiaeth, dŵr, mannau hamdden, addysg a chyfleusterau iechyd.

Isadeiledd Gwyrdd – rhwydwaith o ofod gwyrdd amlswyddogaethol, trefol a gwledig, sy'n gallu darparu ystod eang o fuddion amgylcheddol ac ansawdd bywyd i gymunedau lleol.

LAEP / Cynllun Ynni Ardal Leol – mae'n nodi'r ymyriadau o ran lleihau carbon ac ynni adnewyddadwy a gynigir yn y sir ac sydd wedi'u cynnwys ym Mhapur Cefndir BP/55.

Llywodraeth Cymru – llywodraeth genedlaethol Cymru. Mae'n gyfrifol am y system gynllunio yng Nghymru ac mae'n paratoi polisiau cynllunio cenedlaethol.

Mabwysiadu – y cam olaf yn y broses o greu cynllun datblygu, pan fydd yn dod yn gynllun datblygu statudol i'r awdurdod cynllunio at ddibenion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Parc Cenedlaethol Eryri – mae'n warchodedig oherwydd ei dirwedd a'i ddiwylliant. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r ACLL ar gyfer yr ardal yn y parc cenedlaethol.

Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol – Cyfeirir atynt yng Nghymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040, ond, nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u dylunio'n ofodol eto.

PCAC – Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

PCC / Polisi Cynllunio Cymru – mae'n nodi'r fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru ac mae'n cynnwys nifer o wahanol feysydd o ran cynllunio. Mae wedi'i baratoi gan Lywodraeth y Cynulliad i roi dealltwriaeth glir i Awdurdod Cynllunio Lleol ac eraill o sut ddylai polisi cenedlaethol gael ei ddarparu ar lefel leol.

Polisi – rhannau allweddol cynllun datblygu sy'n nodi uchelgeisiau datblygu ar gyfer yr ACLL, a meini prawf y dylid asesu ceisiadau datblygu yn eu herbyn. Mae rhagor o eglurhad am y polisiau mewn testun ategol.

RDSA / Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig – y rhan o Ardal y Cynllun sydd y tu allan i'r Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol, fel a ddangosir ar y map cynigion.



Rheoliadau CIL – rheoliadau sy’n nodi’r broses i alluogi ACLL i fabwysiadu cofrestr codi tâl ardoll seilwaith cymunedol. Mae rheoliadau cil 122 ac 123 yn nodi profion hefyd.

Rheoliadau CDLL – y broses y mae’n rhaid i ACLL ei dilyn wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol.

Rheoli datblygu – swyddogaeth ACLL sy’n delio â derbyn, asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

Rhwymedigaeth Gynllunio – gweithred gyfreithiol a gaiff ei llunio dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i liniaru effaith cais datblygu. Mae’n rhaid iddynt fod yn angenrheidiol, yn uniongyrchol gysylltiedig â’r datblygiad ac yn rhesymol. Gallant fod ar ffurf cyfraniadau ariannol neu olygu bod angen darparu pethau ar y safle fel mannau hamdden neu dai fforddiadwy.

Strategaeth a ffefrir – cam yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae’r Strategaeth a ffefrir yn nodi yn gyffredinol iawn sut fydd ardal yn datblygu yn y dyfodol. Mae’n rhoi fframwaith canolog i’r cynllun, sy’n caniatáu i bolisiau cynllunio mwy manwl gael eu paratoi ar gyfer meysydd a phynciau penodol.

Sylwadau – Sylwadau a gaiff eu cyflwyno i Awdurdod Cynllunio Lleol. Gallant naill ai gefnogi rhywbeth, neu gallant wrthwynebu rhywbeth. Fel arfer, caiff sylwadau eu gwneud yng nghyswllt cais cynllunio, neu bolisi arfaethedig mewn Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal.

Tai Fforddiadwy – ar gyfer dibenion y system gynllunio defnydd tir, yr ystyr yw tai lle ceir dulliau diogel i sicrhau ei fod yn hygyrch i’r

rhaf hynny na all fforddio’r farchnad dai, fel perchnogaeth gyntaf ac i breswylwyr dilynol. Mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai rhent cymdeithasol y mae awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn berchen arnynt, a thai canolradd lle mae prisiau neu renti yn uwch na thai rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti tai ar y farchnad agored. Gall tai fforddiadwy gynnwys tai y mae sefydliadau tai cymunedol yn berchen arnynt hefyd, lle mae hyn yn bodloni diffiniad Llywodraeth Cymru.

Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol – tir sydd, neu a oedd, wedi’i feddiannu yn flaenorol gan strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddiaeth neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog cysylltiedig. Mae’r diffiniad fel a nodir yn PCC yn cwmpasu cwrtail y datblygiad.

Tir Glas neu Safle Tir Glas – tir (neu safle a ddiffiniwyd) nad yw wedi’i ddatblygu o’r blaen. Tir yw hwn nad yw’n dod o dan ddiffiniad Tir a Ddatblygwyd o’r Blaen fel a nodir yn PCC.

Trefol – Ardaloedd adeiledig neu ddatblygiedig sydd fel arfer wedi’u lleoli yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (Gweler Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol) ond gall hefyd ymwneud â Chanolfan Gwasanaethau Allweddol Llanrhwst, sydd yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig.

Ymgysylltu / Ymgysylltiad – Cymryd rhan mewn ffordd weithgar, fel arfer wrth greu cynlluniau. Dan y system gynllunio newydd, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol Ymgysylltu â’u Cymunedau o gam cynnar paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Ystyr ymgysylltu yw mwy nag Ymgynghoriad – mae’n golygu cynnwys pobl yn gynnar yn y

broses o greu cynllun, ac nid dim ond rhoi sylwadau pan fydd cynllun drafft wedi'i baratoi.

Ymrwymadau – tir heb ei ddatblygu sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol neu dir sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Ystyriaeth berthnasol – mater perthnasol y dylid rhoi ystyried iddo wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae p'un a yw rhywbeth yn berthnasol neu beidio yn aml yn dibynnu ar yr achos unigol. Mae'n rhaid ystyried pob cais ar ei rinwedd benodol ei hun.





Atodiad 7: fframwaith monitro ac adolygu

Mae'n rhaid i bob Cynllun Datblygu Lleol gynnwys fframwaith monitro. Dylai'r dangosyddion yn y fframwaith monitro fod yn canolbwyntio ar y polisiau allweddol hynny sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r cynllun. Ni ddylai fod yn rhy feichus nac yn rhy gymhleth. Dylai'r holl ddangosyddion fod yn benodol, mesuradwy a realistig. Ni fydd angen monitro'r holl bolisiau/cynigion yn y cynllun datblygu, dim ond y rhai sy'n allweddol i gyflawni strategaeth ac amcanion y cynllun. Felly mae'r fframwaith monitro isod yn canolbwyntio ar y dangosyddion craidd cenedlaethol sy'n berthnasol i fesur Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy.

Mae'r fframwaith monitro yn nodi nifer o ddangosyddion sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer asesu perfformiad y Cynllun. Mae'r rhain wedi eu datblygu gan ddilyn yr egwyddorion eang a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys cyfuniad o ddangosyddion gorfodol, lleol penodol a chyd-destunol. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar bolisiau allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r cynllun, fel darparu tai, darpariaeth tai fforddiadwy, defnydd tir cyflogaeth a'r ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r fframwaith monitro yn nodi'n glir pa amcanion cynllun a pha bolisiau a chynigion sy'n berthnasol i bob un o'r dangosyddion. Bydd hyn yn galluogi i strategaeth eang y Cynllun a'i bolisiau allweddol, pan fo angen, gael eu monitro. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn adran 6 y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn ofynnol gan Reoliad 37 y Cynllun Datblygu Lleol a Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu:

- a. Dangosyddion cyd-destunol
- b. Dangosyddion craidd cenedlaethol
- c. Dangosyddion allbwn lleol
- d. Dangosyddion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd

7.1 Dangosyddion cyd-destunol

Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
Lleol	Newid yn y Boblogaeth	Dim Targed	Dim Pwynt Sbardun	Amcangyfrifon poblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Lleol	Newid aelwyd	Dim Targed	Dim Pwynt Sbardun	Amcangyfrifon aelwydydd, Llywodraeth Cymru
Lleol	Nifer preswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cymudo allan o'r sir i weithio mewn mannau y tu hwnt i'r Sir	Gostyngiad cyffredinol mewn lefelau cymudo allan	Dim gostyngiad am 3 neu fwy o flynyddoedd yn olynol	Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru
Craidd	Ffactorau hyfywedd ariannol: prisiau tai a chostau adeiladu	Dim Targed	Dim Pwynt Sbardun	Y Gofrestrfa Tir, Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu
Craidd	Graddfa / math y datblygiad yn agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd parh 3.	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo yn erbyn polisi cenedlaethol	1 cais wedi'i gymeradwyo mewn cyfnod AMB	Ceisiadau cynllunio

7.2 Dewisiadau Strategol a Gofodol

Polisiau allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
PL/1, 5, 6 a PL/16- PL/25	Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio mawr sydd yn dod gyda 'Datganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd'	Mae 100% o holl geisiadau cynllunio mawr yn dod gyda Datganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd	1 neu fwy o geisiadau cynllunio mawr wedi'u cymeradwyo heb 'Ddatganiad Cydymffurfiaeth Creu Lleoedd'	Ceisiadau cynllunio
PL/2	Craidd Rheoliad 37	Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net ac anheddau'r farchnad a adeiladwyd yn ardal y CDLI.	Cyfanswm cyfradd adeiladu blynyddol o 240 annedd y flwyddyn, gyda 98 o'r rheiny'n fforddiadwy	Mae'r ddarpariaeth 10% yn is na'r targed adeiladu am 3 blynedd yn olynol neu 10% uwchben y targed adeiladu am 3 blynedd yn olynol	Arolygon GPCS
PL/2	Lleol	Dosbarthiad gofodol y datblygiadau tai	90% yn yr ASDA a 10% yn yr ASDG ar gyfer cyfnod y cynllun	Gwriad o 10% ymhob ardal ddatblygu strategol	Arolygon GPCS
PL/2	Craidd	Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi eu monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir	Tai sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn yn unol â'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir a'r taflwybr tai	Mae'r ddarpariaeth flynyddol 10% yn is na'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir am 3 blynedd yn olynol neu 10% uwchben y Gyfradd Flynyddol a Ragwelir am 3 blynedd yn olynol	Arolygon GPCS
PL/2	Craidd	Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi ei fonitro yn ôl y	Cyfanswm y tai sy'n cael eu cwblhau yn unol â'r Gyfradd	Mae'r ddarpariaeth flynyddol 10% yn is na'r Gyfradd Cwblhau	Arolygon GPCS



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
		gyfradd cwblhau tai cronol disgwyledig	Cwblhau Tai Gronnol a'r taflwybr tai	Tai Gronnol am 3 blynedd yn olynol neu 10% uwchben y Gyfradd Cwblhau Tai Gronnol am 3 blynedd yn olynol	
PL/7	Lleol	Asesiadau o effaith ar y Gymraeg wedi'u cwblhau	100% yn unol â gofynion polisi	1 cais heb gyflwyno Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn y Cyfnod AMB	Ceisiadau cynllunio
PL/12 a 13	Lleol	Isadeiledd, rhwymedigaethau cynllunio a hyfywedd	100% o geisiadau cynllunio'n bodloni PL/12 a 13	1 neu fwy o geisiadau cynllunio mewn blwyddyn fonitro	Ceisiadau cynllunio, asesiadau hyfywedd.

7.3 Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
HS/7	Craidd	Deiliadaeth tai fforddiadwy wedi eu cwblhau	Rhaniad canolig a chymdeithasol yn unol â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol neu unrhyw dystiolaeth tai eraill	3 cais heb ddarparu cymysgedd tai yn unol â gofynion polisi.	Tai CBSC
HS/3 a PL/13	Craidd	Darparu'r targedau canran tai fforddiadwy ar gyfer pob ardal is-farchnad	Darpariaeth yn unol â gofynion polisi	1 cais heb fodloni'r targed tai fforddiadwy	Ceisiadau cynllunio



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
HS/2, PL/17	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Llanfairfechan	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd Ysgol heb ei ddarparu yn unol â Pholisi PL/17.	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS
HS/2, PL/18	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Deganwy / Llanrhos	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS
HS/2, PL/19	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Fferm Peulwys, Hen Golwyn	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS
HS/2, PL/20	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Llanrwst	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS
HS/2, PL/21	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Queens Road, Llandudno	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd .	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS
HS/2, PL/24	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Ysgol Nant y Coed, Cyffordd Llandudno	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
HS/2, PL/25	Craidd	Cyfradd datblygu yn nyraniad Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos	Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai	Cyfradd cwblhau blynyddol yn disgyn o dan y taflwybr rhagweledig am dair blynedd	Ceisiadau cynllunio ac Arolygon GPCS
HS/10	Lleol	Lefelau o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn cymunedau	Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr i wneud llai na 15% o gyfanswm y stoc dai	15% mewn unrhyw gymuned	Treth y Cyngor a chofrestr ardrethi annomestig
HS/12	Lleol	Cyfran y Tai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd clwstwr	Nid yw nifer y Tai Amlfeddiannaeth yn uwch na 10% o gyfanswm yr anheddau o fewn radiws 50m	Mae'r crynodiad mewn ardaloedd clwstwr yn cynyddu i 5% uwchben y lefel sylfaen.	Ceisiadau cynllunio a Thrwyddedu CBSC
HS/14	Craidd	Darpariaeth o ddatblygiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi'i greu o angen sydd wedi codi tu allan i'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr	Darpariaeth yn unol â Pholisi HS/14 ar angen sydd newydd godi	Dim caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd lle mae angen heb ei fodloni yn parhau	Ceisiadau Cynllunio Adolygiadau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr.
HS/15	Craidd	Cwblhau dyraniad safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn diwallu'r angen a nodwyd	Angen a nodwyd o'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (2022) i'w fodloni'n llawn erbyn 2033.	Darpariaeth heb ei ddiwallu yn unol â HS/15 ac Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022	Arolygon GPCS, ceisiadau cynllunio
RTC/1	Lleol	Cyfraddau eiddo gwag blynyddol mewn eiddo masnachol o fewn Canol Trefi'r Fwrdeistref Sirol	Cyfraddau eiddo gwag mewn eiddo masnachol	Cyfraddau eiddo gwag mewn eiddo masnachol	Adroddiadau Iechyd Canol Tref GPCS,



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
			yn y Ganolfan Siopa Isranbarthol Llandudno a Chanol Trefi Abergele, Bae Colwyn, Conwy a Llanrwst	yng nghanol trefi ac isranbarthol yn cynyddu i fwy na 15% am 3 blynedd yn olynol neu fwy.	arolygon a cheisiadau cynllunio
RTC/3	Lleol	Nifer yr unedau gwag a'r rhai nad ydynt yn nosbarth A1 ym Mhrif Ardal Siopa Llandudno	60% neu fwy o unedau o fewn Prif Ardal Siopa Llandudno mewn defnydd A1.	Llai na 60% o unedau o fewn Prif Ardal Siopa Llandudno mewn defnydd A1.	Adroddiadau lechyd Canol Tref GPCS, arolygon a cheisiadau cynllunio, dulliau marchnata
RTC/5	Lleol	Diogelu parciau hamdden a manwerthu	Dim colled lle na fodlonir RTC/5.	2 gais yn erbyn RTC/5 o fewn y flwyddyn fonitro.	Adroddiadau lechyd Canol Tref GPCS, arolygon a cheisiadau cynllunio
RTC/7	Lleol	Datblygiad manwerthu newydd	Cyfanswm y datblygiad manwerthu mawr (metr sgwâr) a ganiateir tu allan i ffiniau isranbarthol, canol trefi a lleol sefydledig	Dim datblygiadau manwerthu mawr (metr sgwâr) wedi'u caniatáu tu allan i ffiniau isranbarthol, canol trefi a lleol sefydledig, yn erbyn RTC/7.	Adroddiadau lechyd Canol Tref GPCS, arolygon a cheisiadau cynllunio



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
CFS/2, 3, 4 a 5	Lleol	Isadeiledd cymunedol a chymdeithasol newydd a chyfredol	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisiâu CFS 2, 3, 4 a 5	1 neu fwy o ganiatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo heb fod yn unol â Pholisiâu CFS 2, 3, 4 a 5	Arolygon GPCS, ceisiadau cynllunio
RS/2,3,4	Lleol	Gofod hamdden newydd a chyfredol	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisiâu RS 2, 3 a 4	1 neu fwy o ganiatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo heb fod yn unol â Pholisiâu RS 2, 3 a 4	Arolygon GPCS, ceisiadau cynllunio
STA/2	Lleol	Darpariaeth o Isadeiledd a Cherbydau Allyriadau Isel iawn neu Heb Allyriadau	Holl ddatblygiadau mawr yn cydymffurfio â STA/2 trwy asesu isadeiledd gwefru cerbydau trydan trwy gyflwyno Strategaeth Ynni sy'n cydymffurfio.	1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno heb Strategaeth Ynni cysylltiedig sy'n cydymffurfio.	Arolygon GPCS a cheisiadau cynllunio



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
STA/3	Lleol	Lliniaru effaith teithio	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo nad yw'n unol â Pholisi STA/3: Lliniaru effaith teithio	1 cais wedi'i gymeradwyo yn erbyn STA/3 mewn unrhyw flwyddyn.	Ceisiadau cynllunio
STA/4	Lleol	Cefnogi cynlluniau a llwybrau cludiant	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo nad yw'n unol â Pholisi STA/4: cynlluniau a llwybrau cludiant	1 cais wedi'i gymeradwyo yn erbyn STA/4 mewn unrhyw flwyddyn.	Ceisiadau cynllunio
STA/5	Lleol	Diogelu safleoedd / canolfannau gwastraff cyfunol a chludo nwyddau	Dim colled o ran safleoedd / canolfannau cludo nwyddau sydd wedi'u diogelu ar y map cynigion	Colled o ran safleoedd / canolfannau cludo nwyddau sydd wedi'u diogelu fel y dynodir ar y map cynigion	Ceisiadau cynllunio
STA/6	Lleol	Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd Newydd	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo nad yw'n unol â Pholisi STA/6: Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd Newydd	1 cais wedi'i gymeradwyo yn erbyn STA/6: Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd Newydd mewn unrhyw flwyddyn	Ceisiadau cynllunio
STA/7	Lleol		Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo nad yw'n	1 cais wedi'i gymeradwyo yn erbyn STA/7: Gwelliannau i	



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
		Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus	unol â Pholisi STA/7: Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus	gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus mewn unrhyw flwyddyn	Ceisiadau cynllunio
STA/8	Lleol	Darparu safonau parcio	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo nad yw'n unol â Pholisi STA/8: Safonau parcio	1 cais wedi'i gymeradwyo yn erbyn STA/8: safonau parcio mewn unrhyw flwyddyn.	Ceisiadau cynllunio

7.4 Lleodd ffyniannus yng Nghonwy

Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
PL/3, ED/2	Craidd	Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn ôl dyraniadau	Defnydd blynyddol o 0.5 hectar y flwyddyn	Llai na 0.25 hectar y flwyddyn am y tair blynedd gyntaf yn olynol (cyfartaledd dros y tair blynedd) yna llai na 0.5 hectar y flwyddyn (cyfartaledd cronus) ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun	Ceisiadau cynllunio/ Monitro Tir Cyflogaeth / Ymweliadau Safle



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
PL/3, ED/2	Craidd	Twf swyddi (dosbarth B) - ar draws yr ACLI	80 o swyddi'r flwyddyn	Llai na 50 o swyddi'r flwyddyn am y tair blynedd gyntaf yn olynol (cyfartaledd dros y tair blynedd) yna llai na 70 o swyddi'r flwyddyn ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun	Monitro Tir Cyflogaeth / Cymarebau arwynebedd lawr i swyddi
ED/2,3,4	Lleol	Ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwella a ddyrannwyd ac a ddiogelwyd	Arwynebedd tir yn gyfwerth ag o leiaf 1 hectar y flwyddyn	Llai na 0.5 hectar y flwyddyn am y tair blynedd gyntaf yn olynol (cyfartaledd dros y tair blynedd) yna llai na 1 hectar y flwyddyn ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun	Monitro Tir Cyflogaeth
ED/3,6	Lleol	Ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer gofod llawr cyflogaeth yn yr ardal wledig	Arwynebedd tir yn gyfwerth ag o leiaf 0.1 hectar y flwyddyn	Llai na 500 metr sgwâr y flwyddyn am y tair blynedd gyntaf yn olynol (cyfartaledd dros dair blynedd)	Monitro Tir Cyflogaeth / Ceisiadau cynllunio
ED/4	Lleol	Cyfanswm y tir cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd ac a ddiogelwyd sydd wedi'u colli i:	Dim colled yn unol â ED/4	Ymchwiliad pellach i golled tir cyflogaeth ar safleoedd a	Monitro Tir Cyflogaeth



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
		a) ddefnydd nad ydynt yn B1, B2, B8 b) defnydd creu cyflogaeth anweithredol		ddyrannwyd ac a ddiogelwyd	
TO/3	Lleol	Lefel Dosbarth C1 - Defnydd gwesty o fewn Parth Llety Gwyliau Llandudno	Dim colled yn unol â TO/3	1	Arolygon GPCS
MW/2	Lleol	Banc tir o greigiau caled ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn blynyddoedd.	Cynnal banc tir o greigiau caled o 10 mlynedd o leiaf.	Ymchwiliad pellach os na chynhelir banc tir o 10 mlynedd	Adroddiadau Monitro
MW/2	Lleol	Banc tir o dywod a graean ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn blynyddoedd.	Cynnal banc tir o dywod a graean o 7 mlynedd o leiaf.	Ymchwiliad pellach os na chynhelir banc tir o 7 mlynedd	Adroddiadau Monitro
MW/4	Lleol	Datblygiadau sterileiddio wedi'u caniatáu o fewn parthau clustogi	Dim datblygiadau sterileiddio wedi'u caniatáu o fewn parthau clustogi	Ymchwiliad a hyfforddiant pellach os oes 3 neu fwy o ddatblygiadau sterileiddio wedi'u caniatáu o fewn parthau clustogi dros ddwy flynedd yn olynol.	Ceisiadau cynllunio
MW/3	Lleol	Datblygiadau sterileiddio wedi'i ganiatáu o fewn ardaloedd diogelu mwynau	Dim datblygiadau sterileiddio wedi'i ganiatáu o	Ymchwiliad a hyfforddiant pellach os oes 3 neu fwy o ddatblygiadau	Ceisiadau cynllunio



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
			fewn ardaloedd diogelu mwynau	sterileiddio wedi'u caniatáu o fewn parthau clustogi dros ddwy flynedd yn olynol.	
MW/5,6	Lleol	Caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff	Cynnal capasiti digonol i ddiwallu'r galw a gwthio gwastraff yn uwch i fyny'r hierarchaeth gwastraff yn unol â dyheadau targedau gwastraff cenedlaethol (ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025 a dim gwastraff / ailgylchu 100% erbyn 2050)	Cynnal capasiti digonol i ddiwallu'r galw a gwthio gwastraff yn uwch i fyny'r hierarchaeth gwastraff yn unol â dyheadau targedau gwastraff cenedlaethol (ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025 a dim gwastraff / ailgylchu 100% erbyn 2050)	Ceisiadau cynllunio

7.5 Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

Polisiau allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
EN/2- EN/7 a EN/10	Lleol	Strategaeth Ynni wedi'i chyflwyno yn unol â Pholisïau EN/2-EN/7 a EN/10	Holl geisiadau yn dod gyda Strategaeth Ynni yn unol â Pholisïau EN/2 - EN/7 a EN/10	1 neu fwy o geisiadau cynllunio heb Strategaeth Ynni cysylltiedig	Ceisiadau cynllunio
EN/9 a 11	Lleol	Nifer a chapasiti (MW) o ddatblygiadau carbon isel, diynni, ac adnewyddadwy wedi'u cymeradwyo / gweithredu yn unol â Pholisïau EN/9 a 11	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo neu weithredu yn erbyn Polisiau EN/9 a EN/11	1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn erbyn Polisiau EN/9 a EN/11	Ceisiadau cynllunio
NE/2 a EQ/5	Craidd a Lleol	Cyfanswm y datblygiad a ganiateir o fewn C1 a C2 Ardaloedd o orlifdir nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo o fewn ardaloedd o orlifdir C1 a C2	1 neu fwy o geisiadau wedi'u cymeradwyo ar gyfer datblygu mewn unrhyw	Ceisiadau cynllunio



Polisïau allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
			oni bai bod yr holl brofion TAN 15 wedi'u bodloni.	flwyddyn, nad yw'n bodloni holl brofion TAN 15.	
NE/3 a NE/4	Lleol	Datblygiad wedi'i gymeradwyo yn erbyn Polisïau NE/3 a NE/4 sy'n effeithio'n niweidiol ar dirweddau cenedlaethol neu leol dynodedig ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisïau NE/3 a NE/4	1 neu fwy caniatâd cynllunio wedi'u cymeradwyo heb fod yn unol â Pholisïau NE/3 a NE/4	Cais cynllunio
NE/5	Lleol	Datblygiad wedi'i gymeradwyo yn erbyn Polisi NE/5 sy'n effeithio'n niweidiol ar letem las.	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisi NE/5	1 neu fwy caniatâd cynllunio wedi'u cymeradwyo heb fod yn unol â Pholisi NE/5	Cais cynllunio



Polisiâu allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
NE/6 a NE/7	Lleol	Nifer y Datganiadau Isadeiledd Gwyrdd wedi'u cyflwyno yn unol â NE/6 a NE/7	Holl geisiadau cynllunio yn cyflwyno Datganiad Isadeiledd Gwyrdd yn unol â NE/6 a NE/7	1 neu fwy o geisiadau cynllunio heb Ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd cysylltiedig fel sy'n ofynnol o dan NE/6 a NE/7	Ceisiadau cynllunio
NE/8		Datblygiad wedi'i gymeradwyo yn erbyn Polisi NE/8 sy'n effeithio'n niweidiol ar fioamrywiaeth, cynefin neu safle dynodedig.	Dim effeithiau niweidiol wedi'u hachosi yn erbyn Polisi NE/8	1 neu fwy o geisiadau cynllunio	Ceisiadau cynllunio
NE/9	Lleol	Nifer y ceisiadau wedi'u cymeradwyo a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth gyffredinol y Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol a Gwarchodfeydd Natur Lleol	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisi NE/9	1 neu fwy o ganiatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo heb fod yn unol â Polisi NE/9	Cais cynllunio
NE/10 a NE/11	Lleol	Datblygiad Parth Arfordirol	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo	1 neu fwy o ganiatâd cynllunio wedi'i	Ceisiadau cynllunio



Polisïau allweddol	Math o ddangosydd	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell y wybodaeth
			ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisïau NE/10 a NE/11	gymeradwyo heb fod yn unol â Pholisïau NE/10 a NE/11	
EQ/1-EQ/5 a EN/2	Lleol	Nodweddion amgylcheddol - Datblygiad wedi'i gymeradwyo yn erbyn Polisïau EQ/1 -EQ/5 sy'n effeithio'n niweidiol ar gadwraeth dŵr, ansawdd aer, seinweddau a golau, awyr dywyll, golau sensitif a pherygl o lifogydd.	Dim caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygiad yn erbyn Polisïau EQ/1-EQ/5	1 neu fwy o ganiatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo heb fod yn unol â Pholisïau EQ/1-EQ/5	Ceisiadau cynllunio
HE/3	Lleol	Nifer y ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn erbyn Polisi HE/3	Dim gwro oddi wrth HE/3	1 neu fwy o geisiadau gwryadau wedi'u cymeradwyo mewn perthynas â pholisi HE/3 y flwyddyn. (Yn dechrau ar ail gyfnod AMB)	Ceisiadau cynllunio